



Swansea University
Prifysgol Abertawe



Swansea University E-Theses

Y cysyniad o ganon llenyddol Cymraeg: Gyda golwg ar waith beirniadol Saunders Lewis, R. M. Jones ac Alan Llwyd.

Hallam, Tudur

How to cite:

Hallam, Tudur (2005) *Y cysyniad o ganon llenyddol Cymraeg: Gyda golwg ar waith beirniadol Saunders Lewis, R. M. Jones ac Alan Llwyd.* thesis, Swansea University.
<http://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa42686>

Use policy:

This item is brought to you by Swansea University. Any person downloading material is agreeing to abide by the terms of the repository licence: copies of full text items may be used or reproduced in any format or medium, without prior permission for personal research or study, educational or non-commercial purposes only. The copyright for any work remains with the original author unless otherwise specified. The full-text must not be sold in any format or medium without the formal permission of the copyright holder. Permission for multiple reproductions should be obtained from the original author.

Authors are personally responsible for adhering to copyright and publisher restrictions when uploading content to the repository.

Please link to the metadata record in the Swansea University repository, Cronfa (link given in the citation reference above.)

<http://www.swansea.ac.uk/library/researchsupport/ris-support/>

Y Cysyniad o Ganon Llenyddol Cymraeg

gyda golwg ar waith beirniadol Saunders

Lewis, R. M. Jones ac Alan Llwyd

gan

Tudur Hallam

wedi ei gyflwyno i Brifysgol Cymru yn unol â gofynion

gradd Doethur mewn Athroniaeth

Adran y Gymraeg

Prifysgol Abertawe, 2005



ProQuest Number: 10807455

All rights reserved

INFORMATION TO ALL USERS

The quality of this reproduction is dependent upon the quality of the copy submitted.

In the unlikely event that the author did not send a complete manuscript and there are missing pages, these will be noted. Also, if material had to be removed, a note will indicate the deletion.



ProQuest 10807455

Published by ProQuest LLC (2018). Copyright of the Dissertation is held by the Author.

All rights reserved.

This work is protected against unauthorized copying under Title 17, United States Code
Microform Edition © ProQuest LLC.

ProQuest LLC.
789 East Eisenhower Parkway
P.O. Box 1346
Ann Arbor, MI 48106 – 1346

Crynodeb

Archwilir y cysyniad o ganon llenyddol Cymraeg yn y traethawd hwn gan ganolbwyntio ar waith tri beirniad llenyddol, Saunders Lewis, R. M. Jones ac Alan Llwyd. Y maent yn olyniaeth o feistri-feirniaid a bwysleisiodd ffurf ganonaidd llenyddiaeth Gymraeg.

Ceir chwe phennod ynghyd â chasgliadau yn y traethawd hwn. Paratoi'r ffordd ar gyfer astudio gwaith y tri beirniad y mae'r tair pennod gyntaf. Y mae'r bennod gyntaf yn un rhagymadroddol ac yn canolbwyntio ar gymeriad yr awdur, gan y bydd syniadau beirniaid ynghylch yr awdur yn effeithio ar eu syniadau ynghylch y canon.

Y mae'r ail bennod yn archwilio'r gymhariaeth rhwng canon y Testament Newydd a chanon llenyddol. Nodir i ganon y Testament Newydd ddatblygu law yn llaw â phrofiadau darllen y Cristnogion cynnar fel modd o gadarnhau eu ffydd yng Nghrist a'u diffinio'n garfan o bobl.

Y mae'r drydedd bennod yn cyflwyno egwyddor lywodraethol y traethawd hwn, sef perthynas y darlennydd â'i amgylchfyd a'i duedd i ddarllen testunau o du sefyllfa arbennig. Nodir bod y modd y canoneiddiwyd gwaith, person a syniadau Saunders Lewis ynghylch 'y traddodiad' yn ddylanwad sefyllfaol o'r fath ar y traethawd hwn.

Astudiaeth o waith beirniadol Saunders Lewis yw'r bennod nesaf. Dadleuir iddo roi ffurf ganonaidd i lenyddiaeth Gymraeg, a chyflwyno'r canon llenyddol i genedl a oedd yn darllen llai yn ei Beibl, a hynny'n rhannol yn sgil dylanwad uwchfeirniadaeth.

Astudiaeth o waith beirniadol R. M. Jones yw'r bennod nesaf. Gwelir iddo ddefnyddio theori i amddiffyn y canon, ond bod ei ddiffiniad Cristnogol o'r canon yn golygu na all pob darlennydd Cymraeg ei goleddu. Astudir ei waith yntau mewn perthynas â'i amgylchfyd a'i oes.

Astudiaeth o waith beirniadol Alan Llwyd yw'r bennod olaf. Gwelir iddo anwybyddu theori er mwyn amddiffyn y canon, a bod tebygrwydd yn hyn o beth rhwng agwedd gwrthfeirniaid crefyddol 1890-1914 a gwrth-theoriwyr cyfoes.

Cyflwynir casgliadau mewn pennod glo.

Datganiad

Ni dderbyniwyd y traethawd hwn am unrhyw radd arall o'r blaen ac nis cyflwynir am unrhyw radd arall. Tystiaf mai fy ngwaith annibynnol i yw'r traethawd hwn, oni nodir dyled i eraill mewn rhyw fan. Cydnabyddir ffynonellau drwy gyfrwng troednodiadau manwl a chynhwysir llyfryddiaeth gyflawn. Rhoddir caniatâd ar gyfer llungopïo'r traethawd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, ei fenthyg i lyfrgelloedd eraill, a hysbysu sefydliadau eraill o gynnwys a chrynodeb y traethawd.

Cynnwys

Tudalen

Crynodeb	i
Datganiad	ii
Cynnwys	iii
Cydnabyddiaethau	iv
Pennod 1	
Theori, Awdur, Canon	1
Pennod 2	
Marcio'n Canon: Testament Newydd a Chanon Llenyddol	47
Pennod 3	
Canoneiddrwydd Saunders Lewis: Ei Waith, Ei Fywyd a'i 'Draddodiad'	91
Pennod 4	
Saunders Lewis: Cyflwyno'r Canon Llenyddol	142
Pennod 5	
R. M. Jones: Defnyddio Theori i Amddiffyn y Canon	197
Pennod 6	
Alan Llwyd: Anwybyddu Theori i Amddiffyn y Canon	252
Casgliadau	295
Llyfryddiaeth	305

Cydnabyddiaethau

Carwn ddiolch i'r Athro John Rowlands am gyfarwyddo'r gwaith ymchwil pan ddechreuwyd astudio ar gyfer gradd ddoethuriaeth yn Aberystwyth, cyn trosglwyddo i Abertawe, o'r pryd y dechreuodd yr Athro Dafydd Johnston gyfarwyddo'r gwaith. Y mae fy niolch yn fawr iddo yntau am bob cyngor a chefnogaeth.

Cydnabyddir yn ddiolchgar imi dderbyn grant ymchwil gan yr AHRB (AHRC bellach) yn ystod y deunaw mis cyntaf yn Aberystwyth cyn fy mhenodi i'm swydd ddarlithio gyntaf. Anos yw cydnabod maint fy nyled i'm teulu, ac yn arbennig felly i Nia am bob cyngor a chefnogaeth, ac i Garan am bob un gair a gyfrannodd yntau i'r drafodaeth yn ystod y deunaw mis diwethaf.

Pennod 1

Theori, Awdur, Canon

Theori, Awdur, Canon

Pan ddechreuwyd ysgrifennu'r traethawd hwn ym mlynnyddoedd olaf yr ugeinfed ganrif, yr oedd tipyn o fynd ar yr hyn a elwir yn theori lenyddol, gyda Th fawr, nid yn annhebyg i'r Ll fawr yr oedd yr Th honno yn ymosod arni mewn llenyddiaeth. '[M]ae yna sŵn anniddigrwydd i'w glywed ym mrig y morwydd ers rhai blynnyddoedd bellach', meddai John Rowlands, er enghraifft, yn ei ragymadrodd i *Sglefrio ar Eiriau* yn 1992, gan ddisgrifio'r newidiadau ym maes beirniadaeth lenyddol Gymraeg yn nhermau 'rhyw fath o brotest'.¹ A phrotest ydoedd, meddai Terence Hawkes, a fynnai weld 'the erosion of the assumptions and presuppositions that support literary disciplines in their conventional form ... Modes and categories inherited from the past no longer seem to fit the reality experienced by a new generation.'² Yn wir, cymaint bri'r symudiad theori ym maes astudiaethau llenyddol y tu allan i'r cyd-destun Cymraeg fel y dywedodd Frank Kermode yn ddiweddar, dros ugain mlynedd wedi sylwadau Terence Hawkes – '[T]heory has taken control of what is by now a very large, though impotent, institution: namely, the study of Literature'.³ Nid protest fel y cyfryw, felly, ond chwyldro. 'Mae oblygiadau casgliad fel yna'n chwyldroadol', meddai Dafydd Elis Thomas wrth iddo yntau ddadadeiladu'r cysyniad o draddodiad llenyddol.⁴

Erbyn degawd olaf yr ugeinfed ganrif, yr oedd rhai yn sôn am ddigwyddiadau'r deng mlynedd ar hugain cynt yn nhermau '[f]undamental and far-reaching changes in literary studies, often compared to paradigmatic shifts in the

¹ John Rowlands, *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), t. x.

² Terence Hawkes, 'General Editor's Preface', Catherine Belsey, *Critical Practice* (London, 1980), t. vi.

³ Frank Kermode, 'Value After Theory', gol. Michael Payne a John Schad, *life.after.theory*. (London, 2003), t. 66.

⁴ Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory: Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ynys Môn, 1983* (Cyhoeddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 1983), t. 14.

sciences',⁵ ac un o brif nodweddion y chwyldro hwnnw ydoedd ymestyn, os nad dryllio'r canon llenyddol, ynghyd â'r cysyniad o ganon llenyddol. Ystyrier, er enghraifft, sut yr oedd llyfr Terry Eagleton, *The Significance of Theory*, yn 1990 yn cyflwyno'r cyfryw newidiadau pellgyrhaeddol y cyfeirir atynt uchod:

These changes have included enlarging the literary canon not only to include novels, poems and plays by writers whose race, gender or nationality had marginalized their work, but also to include texts by philosophers, psychoanalysts, historians, anthropologists, social and religious thinkers, who previously were studied by critics merely as 'background'.⁶

Dyna pam, felly, yr edrychir yn y traethawd hwn ar agweddau o feirniadaeth lenyddol gyfoes mewn perthynas â'r cysyniad o ganon llenyddol, oherwydd, fel y nododd David Lodge, 'One very controversial effect of Theory on the academic study of literature was to undermine the authority of the traditional canon'.⁷ Un o brif amcanion y chwyldro neu'r brotest theori ydoedd edrych o'r newydd ar y llenyddiaeth honno a brisid gan y beirniaid blaenorol, cyn-Theori hynny rhwng y ddau ryfel byd, gan edrych hefyd ar eu dulliau trafod. Bwriedid ymestyn y canon yr oedd y tadau cynt wedi ei lunio, naill ai drwy ychwanegu ato destunau llenyddol eraill, megis yn achos y fforwm a gynhaliodd yr Academi Gymreig ar ferched a llenyddiaeth ac a roes fod i rifyn arbennig o'r *Traethodydd* yn 1988,⁸ neu drwy gyplysu'r llenyddol a'r hyn a ystyriwyd gynt yn elfennau cefndirol ynghyd; nid yn annhebyg i'r modd yr oedd y fforwm beirniadol a gynhaliwyd yn Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth dan y pennawd 'Deilaog '88', am drafod 'hanes llenyddiaeth, y cyfryngau, llenyddiaeth y ferch, cyweiriau iaith, y ddwy lenyddiaeth yng Nghymru, y system nawdd, y Wasg a'r byd

⁵Terry Eagleton, *The Significance of Theory* (Cambridge Mass., 1990), t. vi.

⁶Ibid.

⁷David Lodge, 'Goodbye to All That', [adolygiad o Terry Eagleton, *After Theory*], *The New York Review of Books*, LI.9, 27 Mai 2004, 39.

⁸*Y Traethodydd: Rhifyn Arbennig Merched a Llenyddiaeth*, 141 (1986), 1-84.

cyhoeddi', gan amau'r flaenoriaeth a roddid gynt i lenyddiaeth.⁹ Ond golygai'r chwyldro theori fod mwyfwy o feirniaid o'r chwe degau ymlaen nid yn unig am ymestyn y canon llenyddol ac ychwanegu ato, ond am ei ddarllen mewn ffordd gyfan gwbl wahanol hefyd: 'The replacement of a hermeneutic by a semiotic model, of interpretation by decoding', meddai'r dadadeiladwr Paul de Man, er enghraifft, gan gyfeirio'n benodol at yr angen i ailddarllen 'testunau canonaidd'.¹⁰ Ys dywed Valentine Cunningham:

The late Paul de Man, the extremely influential Yale Deconstructionist, used to suggest that the only critical task left to us after Theory – after his kind of Theory – would be the steady rereading of all the literary canon, all the texts which had been read earlier and otherwise, but deconstructively.¹¹

Dyna, gredai ef, theoriwr amlycaf y dull dadadeiladol o ddarllen, ydoedd y ffordd ymlaen. Cynigiai'r gwaith hwn o ailddarllen y canon 'a considerable progress'.¹² Ac er nad synied yn unig am ddadadeiladu fel y cyfryw yr oedd John Rowlands yntau pan awgrymodd yn *Sglefrio ar Eiriau* '[g]yfeiriadau newydd i feirniadaeth Gymraeg', rhannai yntau'r un optimistiaeth â de Man wrth iddo obeithio 'bod yma agor drysau beirniadol ac y bydd eraill yn gwthio trwyddynt at y drysau nesaf mewn ysbryd ffrwythlon a chreadigol'.¹³

Fodd bynnag, ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, awgrym nifer gynyddol o feirniaid yw fod y chwyldro theori, heb sôn am y brotest, wedi chwythu ei blwc. Neu a defnyddio delwedd John Rowlands uchod, ymddengys fod y drysau y gwthiwyd trwyddynt wedi cau o'n holau a ninnau mwyach mewn ystafell dywyll heb olau ynddi i ddod o hyd i ddrysau'r ystafell nesaf. Yr un meddai Valentine Cunningham fu – a

⁹ Dyf. John Rowlands, op. cit., t. viii.

¹⁰ Paul de Man, 'The Resistance of Theory', gol. Andrew Bennett, *Readers & Reading* (London, 1995), t. 200. Ailagraffwyd o *The Resistance of Theory* (Manchester, 1986).

¹¹ Valentine Cunningham, *Reading After Theory* (Oxford, 2002), t. 1.

¹² Paul de Man, op. cit.

¹³ John Rowlands, op. cit., t. xi.

defnyddir amser gorffennol y ferf – tynged theori fodern â'r Feirniadaeth Newydd a'i blaenorodd yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. 'That did not last; and neither did Paul de Man's wish for the future of criticism. Mr de Man, he dead; to coin a phrase.'¹⁴ Nid ôl-ffeminyddiaeth, ôl-Farcsiaeth neu ôl-strwythuraeth y cyfeirir atynt mwyach mewn perthynas â Theori, ond yn hytrach ôl-Theori ei hun. Ac 'o' fach, ansicr, ddigyfeiriad, fe ymddengys, sydd i ôl-Theori heddiw'n aml, wrth i nifer o feirniaid, gan fy nghynnwys i fy hun, holi'n betrus gyda Valentine Cunningham, 'What then? What now?'¹⁵ Gan adleisio'r awgrym amlwg yn nheitol cyfrol Thomas Docherty, *After Theory* (1996), Wendell Harris, *Beyond Poststructuralism* (1996) a chyfrol Martin McQuillan, *Post Theory* (1999) y mae teitl cyfrol Valentine Cunningham hefyd, sef *Reading After Theory* (2002), yn crynhoi'r sefyllfa bresennol, ôl-olygol neu ôl-ddilynol sydd ohoni ym maes beirniadaeth lenyddol. Ni ellir ond teimlo bod rhywun wedi gadael yr ystafell ond ein bod ni yma o hyd yn syllu i'w gadair wag, nid yn annhebyg i'r cecru a ddilynodd ymddeoliad diolynydd yr Athro John Rowlands o'i Gadair yn 2003, ac yntau, ymysg cyfraniadau eraill, yn dysgu'r cwrs mwyaf poblogaidd yn yr Adrannau Cymraeg ar feirniadaeth lenyddol.¹⁶

Ai gwawr a gwefr ynteu cur pen a llastr sy'n dilyn y noson fawr yng nghlwb nos Theori sydd gwestiwn dadleuol (yn enwedig, felly, gan na ddiffinnir yn union beth a olygir wrth y term 'Theori' yn aml).¹⁷ Ond ymddengys fod nifer gynyddol o feirniaid yn araf sylweddoli erbyn hyn fod y parti drosodd, p'un ai eu bod wedi ei fwynhau neu beidio. Ychydig oedd y rhai na chlywsant ei sŵn. '[L]iterary theory is

¹⁴ Valentine Cunningham, op. cit., t. 2.

¹⁵ Ibid., tt.1-2.

¹⁶ Ym maes athroniaeth, cymh. Kenneth Baynes, James Bohman a Thomas McCarthy (goln.), *After Philosophy: End or Transformation?* (London, 1987). Hefyd Alasdair MacIntyre, *After Virtue* (Duckworth; London, 1981).

¹⁷ Am ddiffiniad cryno, gw. David Lodge, op. cit., t. 39.

not in danger of going under', meddai de Man yn *The Resistance to Theory* (1986).¹⁸

Y bore wedi'r parti, nid ydyw'r un theorïydd heddiw mor hyderus sicr o rym y chwyldro. Gan ddefnyddio delwedd de Man, nodir mai nofiwr digon ansicr, ar un olwg, yw theori lenyddol gyfoes. Oherwydd, gan ddyfynnu o gyfrol arall, ddiweddar, sydd eto'n cynnwys yr un arddodiad allweddol, 'after', sef *life.after.theory*, gellir tirlunio'r maes beirniadol heddiw fel a ganlyn:

[W]hatever the story we tell of the last thirty years, and whatever way(s) you read 'after', there is a widespread understanding, explicit or implicit, that literary studies is now experiencing something we might just call 'life after theory'.¹⁹

Dyna, o leiaf, lle'r wyf innau arni'n syniadol, yn chwilio am fywyd ar ôl, ac yn ôl Theori, 'living through its decadence without any clear indication of what will supersede it', chwedl David Lodge.²⁰ Oherwydd er gwaethaf haeriad cadarnhaol Kermode uchod ynghylch goruchafiaeth Theori, ychwanegodd wedyn yn yr un cyfweliad fod elfen gref o ormodiaith yn y datganiad. Oherwydd fel y dywedodd Herman Rapaport wrtho: 'Indeed, among many there is always a desire for theory to go away, a kind of death wish.'²¹ A mwy felly 'yn y Gymru Gymraeg' na'r un wlad fawr, wladychol, ryngwladol ei hiaith, lle y mae'r gynulleidfa ddarllen yn un fregus o ran ei niferoedd a thuedd gref i '[g]jasáu theori', chwedl Simon Brooks.²²

Yn 1990, *The Significance of Theory*. Yn 1996, *After Theory*, a'r ôl-Farcsydd Thomas Docherty am amlygu 'the apparent inefficiency of the theoretical intellectual in terms of social and political practice'.²³ Felly hefyd Terry Eagleton ei hun, awdur

¹⁸ Paul de Man, op. cit., t. 204.

¹⁹ John Schad, 'preface [:] what are we after?', gol. Michael Payne a John Schad, *life.after.theory*, t. x.

²⁰ David Lodge, op. cit., t. 43.

²¹ Herman Rapaport, yn Frank Kermode, op. cit., tt. 74-5.

²² Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd, 2004), t. 95.

²³ Thomas Docherty, *After Theory* (Edinburgh, 1996), t. 1.

The Significance of Theory, a gyhoeddodd yn 2003/4 gyfrol ac iddi'r un enw, *After Theory*. Er iddo bwysleisio nad ei fwriad, er gwaethaf awgrym y teitl, oedd dychwelyd i ddiniweidrwydd y cyfnod cyn-Theori, a bod yn rhaid canmol Theori am herio'r *status quo*, beirniadodd Theori am sawl diffyg:

It has been shamefaced about morality and metaphysics, embarrassed about love, biology, religion and revolution, largely silent about evil, reticent about death and suffering, dogmatic about essences, universals and foundations, and superficial about truth, objectivity and disinterestedness.²⁴

Rywfodd, aeth Theori, neu'n hytrach 'Theory', yn amherthnasol, os nad yn afreal. Am hynny, awgrymir yma fod rhyw gymaint o debygrwydd rhwng ôl-Theori'r llyfrau Saesneg a enwyd uchod a'r wrth-Theori Gymraeg sydd erioed wedi ystyried theori yn beth anghymdeithasol nad yw'n rhan o brofiad darllenwyr go iawn.

Yn y cyd-destun Cymraeg, agorwyd drysau *Sglefrio ar Eiriau* yn 1992. Ond i groesawu beth yn hollol? Nid tan Ebrill 2005 y cesglid ffrwyth cynhadledd ym maes Theori yn llyfr academiaidd, ac yr ymdeimlodd cenhedlaeth newydd o efrydwyr Cymraeg â rhyw gymaint o angen i godi'i phen uwchben y dŵr a gweld pa le yr oedd arni yn awr. Fel arall, peth unig iawn a digyfeiriad fu Theori Gymraeg, er gwaethaf ymdrechion *Tu Chwith*. O bosib, tystio i un o brif nodweddion Theori y mae diffyg cyfeiriad o'r fath, gan nad chwilio am gonsensws barn yw'r nod, eithr croesawu 'cyfeiriadau newydd'. Ac eto, y mae'r sefyllfa yng Nghymru yn fwy dyrys na hynny. Yn ei lyfr, *After Theory*, awgrymodd Terry Eagleton mai mater o 'ing dylanwad' yn rhannol, o leiaf – a benthyg term Harold Bloom²⁵ – sy'n gyfrifol am ddiffygion Theori heddiw. 'The older generation proved a hard act to follow', meddai.

²⁴ Terry Eagleton, *After Theory* (Penguin: London, 2004), tt. 101-02. Cyhoeddwyd gan Allen Lane yn 2003.

²⁵ Harold Bloom, *The Anxiety of Influence* (Oxford, 1973).

Those who can, think up feminism or structuralism; those who can't, apply such insights to *Moby-Dick* or *The Cat in the Hat*.²⁶

Ond er cystal gwaith theoretig R. M. Jones, ac er mor ddylanwadol ar y traethawd presennol hwn, go brin mai mater o 'ing dylanwad' yr arloeswr hwn sy'n cyfrif am gyflwr tila Theori yng Nghymru heddiw, eithr yn hytrach rym y traddodiad beirniadol di-Theori a natur y gymdeithas ddarllen Gymraeg, ddrwgdybus o Theori, y mae pob un awdur Cymraeg yn perthyn iddi ac yn ysgrifennu ar ei chyfer. Dyna a amlygwyd mor gampus yn llyfr diweddar Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, lle y ceisir esbonio'r adwaith Cymraeg hwn yn erbyn Theori yn nhermau llwyddiant John Morris-Jones i greu *episteme* newydd yng Nghymru a fu 'mor llwyddiannus fel bod pobl yn "anhofio" ei bod yn bodoli'. Am yr *episteme* newydd a goleuedig a gyflwynodd John Morris-Jones, meddai Simon Brooks:

Gan fod Goleuedigaeth yn gweithredu fel set o ganllawiau cudd i estheteg y gymdeithas Gymraeg, ni theimlwyd yr angen – gan mai anffaeledig a therfynol ydoedd – i'w harchwilio wedyn. Yn nwylo'r fydwraig oleuedig, John Morris-Jones, bu theori yn hanfodol i ganfod yr hyn y tybiai cenedlaethau diweddarach ei fod yn 'synnwyr cyffredin'. Ni thymbid bod angen theori eto; yn wir, i'r graddau fod theori yn rhwym o danseilio 'synnwyr cyffredin' cymdeithas Gymraeg a oleuwyd eisoes, fe'i gwatwerid.²⁷

Dyna pam na ellir sôn yn iawn am ôl-Theori fel y cyfryw yn Gymraeg, gan nad mater o golli momentwm oddi fewn i faes arbennig o efrydiau sy'n nodweddu'r sefyllfa gyfoes Gymraeg. Nid ing dylanwad y Tadau a'r Mamau theoretig sy'n pwysu ar y genhedlaeth bresennol o feirniaid llenyddol Cymraeg, eithr grym dylanwad yr wrth-Theori honno sy'n tueddu i ddiogelu ei rhagfarnau trwy beidio â'u cwestiynu, ac sy'n gorfodi'r theoriwr i amodi ei sylwadau yn unol â'r hyn 'sydd yn ddisgyrsaidd

²⁶ Terry Eagleton, *After Theory*, t. 4.

²⁷ Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, tt. 73, 95.

bosibl'.²⁸ Dyna'n rhannol hefyd paham y mae cymaint o'm syniadau i wedi newid yn ystod cyfnod ysgrifennu'r traethawd hwn – nid yn unig oherwydd dylanwadau theoretig newydd, eithr oherwydd awydd cynyddol ar fy rhan i gyfathrebu â chymdeithas lengar Gymraeg sy'n amheus o Theori.

Pan ddechreuwyd ar y traethawd ymchwil ryw saith mlynedd yn ôl mwyach, y bwriad ydoedd dadlennu mai peth cyfan gwbl greëdig ydoedd y traddodiad llenyddol Cymraeg, ac mai creu canon o weithiau a wnaed. Yn hyn o beth, yr oedd darlith Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory*, yn ddylanwad amlwg ar y rhaglen waith. Nodir yn y ddarlith honno, er enghraifft, nad 'gweddillion gorffennol yw traddodiad, ond gweddillion wedi'u dethol'.²⁹ Eithr drwy gyfrwng yr ymchwilio, daethpwyd i werthfawrogi mai'r mater allweddol mewn beirniadaeth lenyddol yw agwedd y beirniad tuag at yr awdur, a thrwy hynny, ato ef ei hun fel darlennydd. Hynny yn y pen draw sy'n penderfynu ei agwedd tuag at y traddodiad; p'un ai ei fod yn ei weld yn gynnyrch cyfres o awduron talentog, neu yn ei weld yn greadigaeth nifer o ddarllenwyr disglair. Wrth ailddarllen *Traddodiadau Fory* yn ddiweddar, sylwyd bod Dafydd Elis Thomas, er enghraifft, 'yn gwadu'r syniad o awdur'.³⁰ O'r fan honno yr aeth ymlaen i herio'r cysyniad o draddodiad llenyddol.

Wyneb yn wyneb â'r awdur, ar un olwg, dim ond dau ddewis y sydd. A dyfynnu Niall Lucy:

Suppose there were just two ways of thinking about how literature is produced. One way might be to think that literature is produced by writers of genius, the other that writers themselves are produced (to varying degrees) by forces beyond their control.³¹

²⁸ Ibid., t. 77.

²⁹ Dafydd Elis Thomas, t. 19.

³⁰ Ibid., t. 3.

³¹ Niall Lucy, *Postmodern Literary Theory: An Introduction* (Oxford, 1997), t. 1.

At ei gilydd, ffafrio'r ail ddull o ymagweddu y mae'r theorïwr llenyddol, gyda'r beirniad di-Theori yn tueddu i esbonio'r testun llenyddol mewn perthynas â'r awdur a'i cynhyrchodd. Mae'n wahaniaeth barn sylfaenol a phellgyrhaeddol. Oherwydd yn y gwahaniaeth agwedd hwn tuag at berthynas yr awdur â'r testun y seilir llawer o'r gwahaniaethau rhwng gwahanol feirniaid. Yn ôl Niall Lucy, 'By comparison to the first way of thinking the second is revolutionary because it denies that a literary text is the expression of an author's intentions, feelings and linguistic mastery'.³²

Yn ôl sylwadau Lucy, eu hagwedd tuag at yr awdur, felly, yw'r dylanwad mawr ar waith beirniaid llenyddol, ac sy'n peri bod rhai yn barod i arddel theori a damcaniaeth, tra y bo eraill yn amheus iawn o theori. Gwelir hyn, er enghraifft, yn achos y tri beirniad dan sylw yn y traethawd hwn. Ymddiddorodd Saunders Lewis ac R. M. Jones mewn athroniaeth neu theori lenyddol i raddau mwy nag Alan Llwyd, a hynny'n rhannol gan nad oeddynt yn lleoli ystyr y testun yn yr awdur yn unig, eithr yn rhoi mwy o ryddid i'r darlennydd ddehongli ystyr y gwaith.

Wrth gwrs, gellir hefyd bendilio rhwng y naill safbwynt a'r llall yn ôl y gofyn, heb lynu gorff ac enaid wrth yr awdur na'r darlennydd yn arbennig. Er enghraifft, gellir yn hawdd ddod o hyd i ddyfyniadau croestynnol yng ngwaith R. M. Jones mewn perthynas â'r awdur. 'Mae deall person yn gymorth i ddeall gwaith', meddai ar y naill law. 'Pwysig yw peidio â chwalu testunau wrth golli golwg ar gyfanwaith awdur.'³³ Ond ar y llaw arall, pwysleisiodd y strwythurydd drosodd a thro bod angen inni 'ganolbwyntio ar y llenyddiaeth ei hun, heb ein llygatynnu gan na buchedd llenorion na hanes'.³⁴ Ac ar y cyfan, nid oes amheuaeth iddo 'ganolbwyntio ... nid ar

³² Ibid.

³³ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd: Fframwaith Cyflawn Beirniadaeth Lenyddol* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), t. 112.

³⁴ Ibid., t. 18.

ddiben yr awdur, ond ar ddiben neu gymhelliad y gwaith', gan archwilio'r strwythurau a saif y tu ôl i'r testun llenyddol.³⁵

[C]anolbwyntir ar y llenyddiaeth, nid ar y llenor na'i amgylchfyd ac eithrio cyn belled ag y cyfranna'r rheini at y brif ystyriaeth.³⁶

Dyna fu pwyslais cyson R. M. Jones ar hyd ei yrfa ym maes theori lenyddol, gan archwilio cyfundrefn Tafod-Mynegiant. Ac eto, yn ei lyfr olaf ym maes theori lenyddol, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, fel yr awgrymir gan y dyfyniadau cyntaf uchod, tueddir i wrthbwysu'r pwyslais llywodraethol ar lenyddoldeb gan sylwadau cadarnhaol iawn o blaid yr awdur, fel pe bai ef yn awr yn cael dychwelyd i lwyfan beirniadaeth lenyddol. Yn *Beirniadaeth Gyfansawdd*, meddai: 'Erbyn hyn, ni chredaf fod yn rhaid bod mor brennaidd o amheronol.'³⁷ Un rheswm posib dros hynny yw am fod perthynas glòs rhwng yr agwedd geidwadol, awdur-ganolog hon o feirniadaeth R. M. Jones a'i ymlyniad, sy'n amlwg iawn yn *Beirniadaeth Gyfansawdd*, wrth y cysyniad o ganon llenyddol.

Fodd bynnag, nid yw'r cyfryw bendilio rhwng awdur a thestun, neu awdur a darlennydd, yn eithriadol o bell ffordd. Hwyrach mai dyma'r norm. Er enghraifft, nid yn annhebyg i R. M. Jones, ceisio cyfaddawd a sefyll yn y bwlch rhwng y ddwyblaid a wnaeth Robert Rhys yntau yn ei ysgrif 'Dysgu Darllen' yn *Sglefrio ar Eiriau*, lle y soniodd am ei 'amharodrwydd i orffwys wrth ryw orsaf feirniadol arbennig a dweud "Dyma ni wedi cyrraedd!"' Ac eto, sylweddolai fod beirniadaeth lenyddol ar daith hefyd, ac na allai chwaith aros yng ngorsaf gyfarwydd yr hen feirniadaeth ramantaidd, awdur-ganolog.³⁸ 'Mae'n bosibl pylu min dychymyg y darlennydd weithiau trwy roi gormod o wybodaeth iddo [am fywyd yr awdur neu gefndir y gerdd]', meddai wrth

³⁵ Ibid., t. 183.

³⁶ Ibid., t. 262.

³⁷ Ibid., tt. 89-90.

³⁸ Robert Rhys, 'Dysgu Darllen', gol. John Rowlands, *Sglefrio ar Eiriau*, t. 170.

drafod y gerdd ‘Sbaeneg Park Sinema’, gan bledio’n hytrach ‘ffyrdd mwy cyffrous o gefnogi a chyflawni’r darlleniad gwreiddiol’.³⁹ Fodd bynnag, wrth iddo roi mwy o raff i’r darllenydd ag un llaw, dyma’r beirniad yn gyfamserol yn ei thynnu’n ôl yn gyflym â’i law arall. ‘Bid a fo am hynny,’ ychwanegodd, ‘mi fydd hi’n anodd i’r darllenydd a wŷr unrhyw beth am awdur y gerdd hon, Gwyn Thomas, ymgadw rhag ceisio dilysu ei argraffiadau trwy gyfrwng ffynonellau all-destunol bywgraffyddol.’⁴⁰

Cyfyd Robert Rhys y cwestiwn, felly, a yw Cymru, neu o leiaf y sîn lenyddol Gymraeg – neu unrhyw sîn lenyddol o ran hynny – yn rhy glawstroffobig o fach a’i rhwydweithiau yn rhy dynn o agos inni fedru dianc rhag beirniadaeth awdur-ganolog, yn enwedig o ystyried amlygrwydd awduron Cymraeg ar y cyfryngau. Ymddengys mai amhosib yw i’r beirniad llenyddol beidio â chasglu storfa o ‘ffynonellau all-destunol bywgraffyddol’ am wahanol awduron. Go brin mai’r ateb yw i’r beirniad llenyddol encilio rhag pawb a phopeth. Doethach yn hytrach – ‘[e]rbyn hyn’, ys dywed R. M. Jones – yw fod y darllenydd nid yn anwybyddu bywyd yr awdur, ond yn ei destunoli, gan gydnabod na ellir ar bapur ond cyflwyno portread o’r awdur, ac nid yr awdur ei hun. Ys dywed Niall Lucy: ‘authors come to be understood not as people but as subjects, to which extent they themselves are no less produced by literature (*and as literature*) than literature itself.’⁴¹

Dyna, mewn gwirionedd, yw man cychwyn diwygiedig y traethawd hwn. Deuir at gwestiwn y canon o du cyfeiriad yr awdur, neu’n hytrach yr awdur-destun. Archwilio’r syniad hwnnw a wneir yn y bennod gyntaf hon, a hynny fel math o gyflwyniad i astudio’r cysyniad o ganon llenyddol.

x x x x x

³⁹ Ibid., t. 166.

⁴⁰ Ibid., t. 165.

⁴¹ Niall Lucy, op. cit., t. 1.

Yr adwaith cyntaf a chwbl angenrheidiol yn erbyn y dull awdur-ganolog o drafod llenyddiaeth oedd ei ymylu, os nad ei anwybyddu, megis yn achos darllen clòs y Feirniadaeth Newydd a'r dull Ffrengig 'explication des textes', sydd 'drwy drugaredd', chwedl R. M. Jones, yn ddylanwad o hyd 'ar addysg hyd yn oed heddiw', megis yng nghwestiwn gwerthfawrogi darn anhysbys o farddoniaeth neu ryddiaith ar y papur Safon Uwch.⁴² Yma yng Nghymru '[c]ynrychiolydd disgleiriau y symudiad' ydoedd Hugh Bevan.⁴³ Enghreifftia'r dyfyniad isod y safle llywodraethol a roes i'r testun.

[P]a faint bynnag o ffeithiau y gellir eu casglu o gwmpas cerdd neu nofel, saif y gwaith llenyddol ei hun yn un ffaith fawr ddiymwad, y ffaith bwysicaf ohonynt i gyd. A'r tu mewn i'r gwaith llenyddol yr erys prif orchwyl beirniadaeth. Dadansoddwr y testun sydd o'i flaen yw'r beirniad yn anad dim.⁴⁴

'[N]id William Thomas yw Islwyn ac nid William Williams yw Pantycelyn ymhob dim', meddai yn ei ysgrif, 'Beirniadaeth Lenyddol'.⁴⁵ Ac ar un olwg, fel yr awgrymodd Seán Burke yn ei lyfr, *The Death and Return of the Author*, estyniad o'r egwyddor hon o eiddo'r Feirniadaeth Newydd (a'r Ffurfiolwyr Rwsiaidd o'i blaen hithau⁴⁶) ydoedd y farwolaeth honno a gyhoeddodd Roland Barthes yn ei ysgrif enwog 'La mort de l'auteur' yn 1968, pan gyfeiriodd at ysgrifennu yn nhermau 'that neutral, composite, oblique space where our subject slips away, the negative where all identity is lost', sy'n awgrymu na ellir byth ddod o hyd i William Williams yng ngwaith Pantycelyn, ac na all y cyntaf, felly, fod yn ffynhonnell ddibynadwy er mwyn

⁴² R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 231. Cynnig yr Athro ei hun yn ei lyfr 'batrwm' addas o ddarllen clòs ar lun syniadau'r hen Feirniadaeth Newydd, gyda F. R. Leavis yn ddylanwad amlwg. Gw. tt. 233-43.

⁴³ Robert Rhys, 'Dysgu Darllen', op. cit., t. 153.

⁴⁴ Hugh Bevan, *Beirniadaeth Lenyddol: Erthyglau gan Hugh Bevan wedi'u dethol a'u golygu gan Brynley F. Roberts* (Caernarfon, 1982), t. 8.

⁴⁵ Ibid., t. 5.

⁴⁶ Gw. J. E. Caerwyn Williams, 'Arddulleg Ffurfiolwyr Rwsia', *Ysgrifau Beirniadol V* (Dinbych, 1970), tt. 276-296.

deall yr ail.⁴⁷ ‘Erbyn hyn’, fodd bynnag, daethpwyd i sylweddoli nad yw hynny’n rheswm dros beidio â chyfansoddi *Williams Pantycelyn*, yr awdur-destun.

Ond rhag i hyn oll ymddangos yn hynod ‘ddamcaniaethol’ ac anymarferol, ceisir esbonio beth yn union y mae testunoli bywyd yr awdur yn ei olygu drwy edrych yn fanwl ar enghraifft ddiweddar o’r dechneg ddarllen awdur-destunol ar waith.

Nid yn annhebyg i Robert Rhys, beirniad arall nad yw wedi aros wrth yr un orsaf feirniadol fel y cyfryw yw M. Wynn Thomas, er i un adolygydd ddarllen ei waith ar Walt Whitman yn nhermau ‘a product of the New Historicism’.⁴⁸ Am hyn, meddai’r beirniad: ‘Efallai fod hynny’n ffaith eglur iddo ef, ond ar y pryd ’doeddwn i fy hun erioed wedi clywed sôn am y “New Historicism”.’⁴⁹ Ac y mae’r stori honno efallai’n wers inni beidio â phoeni’n ormodol ynghylch pa garfan feirniadol yr ydym yn perthyn iddi, megis y mae M. Wynn Thomas ei hun yn enghraifft o feirniad amryddawn sy’n medru elwa ar sawl dull o drafod llenyddiaeth. Yn achos y drafodaeth hon ar y cysyniad o ganon llenyddol Cymraeg y mae iddo gryn arwyddocâd yn sgil ei awydd i archwilio’r berthynas rhwng llên Eingl-Gymreig neu llên Cymry sy’n ysgrifennu yn Saenseg, a’r byd llên Cymraeg, oherwydd, wrth reswm, cyfyd hynny gwestiynau ynghylch ffiniau’r canon llenyddol Cymraeg a’r portread Saundersaidd arferol ohono fel corff cyfan gwbl organig. Fel y nododd M. Wynn Thomas yn ei ragymadrodd i *DiFfinio Dwy Lenyddiaeth Cymru*, ‘[M]ae’r Cymry Cymraeg am bwysleisio arwahanrwydd cyfoethog eu diwylliant llenyddol hwy trwy wadu fod a wnelo llên Saesneg ddiweddar Cymru ddim ag ef’.⁵⁰ Gellir dadlau hefyd

⁴⁷ Roland Barthes, ‘The Death of the Author’, *Image-Music-Text*, cyf. Stephen Heath (Glasgow, 1977) t. 142. Cymh. Paul de Man, ‘The Resistance of Theory’, gol. Andrew Bennett, *Readers & Reading* (London, 1995), t. 202. Disgrifir y pwyslais ar ddarllen mewn beirniadaeth gyfoes yn nhermau ‘a direction which is already present, moreover, in the New Critical tradition of the forties and the fifties’.

⁴⁸ Cymh. Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd, 2004), tt. 168-9.

⁴⁹ M. Wynn Thomas, ‘Pwys Llên a Phwysau Hanes’, gol. John Rowlands, *Sglefrio ar Eiriau*, t. 2.

⁵⁰ Idem (gol.), ‘Rhagymadrodd’, *DiFfinio Dwy Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1995), t. 3.

fod y beirniad hwn drwy ysgrifennu am awduron a thestunau Cymraeg yn Saesneg yn codi cwestiynau ynghylch perchnogaeth neu gynulleidfa, os nad marchnad y canon Cymraeg, ynghyd â'r syniad o'i anghyfieithiadwyedd, sef yr hyn sy'n gwneud llenyddiaeth, chwedl Jacques Derrida, 'yn sanctaidd'.⁵¹ Yn sicr, beirniad yw sy'n barod i herio 'beirniadaeth lenyddol draddodiadol', chwedl yntau, ac sy'n amlach na heb yn procio'r meddwl.⁵²

Mewn perthynas â'r awdur, er enghraifft, cyflwynodd M. Wynn Thomas yn ei lyfr *James Kitchener Davies* bortread sy'n archwilio'r berthynas rhwng bywyd a gwaith un o awduron canon-ymylol llenyddiaeth Gymraeg, nad anogir plant ysgol na myfyrwyr coleg i ddarllen ei waith heddiw. Dyna pam y mae'n wrthrych addas ar gyfer y gwaith hwn o destunoli'r canon llenyddol Cymraeg, sydd, gan fwyaf, yn ganon o awduron ac iddynt fywgraffiad darllenadwy – boed hwnnw'n un syml neu gymhleth – sy'n ein galluogi i ddeall y gwaith yn sgil deall yr awdur. Fodd bynnag yn *James Kitchener Davies*, nid ffynhonell y gwaith yw bywyd yr awdur, James Kitchener Davies, ond yn hytrach destun arall i'r beirniad ei ddarllen. Dyna pam y mae'n cynnig canllaw ar gyfer edrych o'r newydd ar berthynas y canon llenyddol Cymraeg â'r gweithiau sy'n perthyn iddo. Oherwydd yn hytrach na chymryd awdurdod y canon llenyddol yn ganiataol, megis yr edrychir yn aml ar fywyd yr awdur fel ffynhonnell ystyr ddigwestiwn i'w waith, y bwriad yn y traethawd hwn fydd edrych ar y canon ei hun megis testun, lawn cymaint ag unrhyw nofel neu gerdd neu ddrama sy'n gynwysedig ynddo. Y gobaith, felly, yw gweld yr hyn na sylwir arno fynychaf, sef mai dyfais ac iddi oblygiadau gwleidyddol yw'r cysyniad o ganon neu draddodiad llenyddol. I'r perwyl hwn, gan ystyried mor 'naturiol' ydyw erbyn hyn

⁵¹ Jacques Derrida, *The Ear of the Other: Otobiography, Transference, Translation. Texts and Discussions with Jacques Derrida*, cyf. Peggy Kamuf (New York, 1985), t. 148. '[I]f there is something untranslatable in literature (and, in a certain way, literature is the untranslatable), then it is sacred.'

⁵² M. Wynn Thomas, 'Rhagymadrodd', *DiFfinio Dwy Lenyddiaeth Cymru*, t. 5.

inni sôn am ‘y traddodiad llenyddol Cymraeg’, heb gwestiynu etymoleg y term, rhan o orchwyl y traethawd hwn fydd, a dyfynnu Roland Barthes, ‘to scrape away at Nature, its “laws” and its “limits”, in order to uncover History there and finally to establish Nature itself as historical’.⁵³ Ceisir cyflwyno agweddau ar y cysyniad o ganon llenyddol Cymraeg yng nghyswllt gwaith Saunders Lewis, R. M. Jones ac Alan Llwyd. Nid yw hynny’n gyfystyr, fodd bynnag, â chyhoeddi marwolaeth y canon.

Ys dywed Jonathan Culler am *Mythologies* Barthes, y gyfres o ysgrifau lle y mae’r awdur yn ceisio dadlennu’r ystyron cudd sy’n perthyn i agweddau gwahanol ar ddiwylliant Ffrainc:

we can certainly infer from what has happened since the publication of *Mythologies* that demystification does not eliminate myth but, paradoxically, gives it a greater freedom.⁵⁴

Oherwydd hyn, yn wahanol i ddarlith Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory*, nid ceisio dileu myth y traddodiad neu’r canon llenyddol Cymraeg a wneir yma, ond ei destunoli fel y gellir ei weld o’r newydd, gan fod yn ymwybodol o’i gyfraniad a’i gyfyngiadau diwylliannol.

Yn ei Ragair i *James Kitchener Davies*, nododd M. Wynn Thomas fod i’r gyfrol gyd-destun penodol:

This year (2002) marks the centenary of James ‘Kitchener’ Davies’s birth, and the fiftieth anniversary of his premature death. It would therefore seem to be an appropriate occasion to read him again, and to read him differently.⁵⁵

Nid mewn gwagle gwrthrychol, diamser a dileoliad y mae’r beirniad yn ysgrifennu. At hyn, y mae’r defnydd uchod o’r berfenw ‘darllen’ yn amlygu nad cofiannydd-gronicydd mo’r beirniad, ond yn hytrach ddehonglydd sy’n cynnig dehongliad

⁵³ Roland Barthes, *Mythologies*, cyf. Annette Lavers (London, 1993), t. 101.

⁵⁴ Jonathan Culler, *Barthes: Fontana Modern Masters* (London, 1983, 1990), t. 39.

⁵⁵ M. Wynn Thomas, *James Kitchener Davies* (Cardiff, 2002). [*J.K.D.* o hyn ymlaen.]

gwahanol i'r un a gafwyd gan eraill o'i flaen, yn sgil ei leoli ef ei hun mewn oes ac amgylchiad gwahanol. Awgryma'r ymadrodd 'to read him again, and to read him differently' hefyd nad canfod yr awdur – yr unig wir James Kitchener Davies, y person y tu ôl i'r gwaith – er mwyn esbonio ei destunau llenyddol yw'r dasg, ond yn hytrach gyfansoddi darlenniad ohono ef ei hun; darllen ei fywyd ef, fel pe bai'n destun llenyddol, gan dderbyn y bydd eraill maes o law, efallai, mewn oes ac amgylchiad gwahanol, 'yn ei ddarllen yn wahanol' eto fyth. Hynny yw, awgryma'r ymadrodd 'to read him again, and to read him differently' fod y beirniad yn ymagweddu at yr awdur megis at un o'i destunau llenyddol. Er mwyn gwneud hynny, y mae M. Wynn Thomas, i raddau, o leiaf, yn gwyrddroi'r berthynas arferol rhwng bywyd yr awdur a'i waith. Meddai:

The tendency has been to read his creative writings in the light of his politics. The time has surely come to read his politics in the light of his writings ...⁵⁶

Eir ymlaen i nodi y gwneir hynny'n unig wedi i'r beirniad leoli gweithiau'r awdur 'in a proper relationship to his intimate as well as his public self', sef yn unol â'r drefn arferol o esbonio gwaith yr awdur mewn perthynas â'i fywyd. Ond y mae'r dyfyniad uchod yn f'atgoffa o sylw Roland Barthes ynghylch sut yr oedd modd i'r Awdur, yn 1971 – dair blynedd wedi cyhoeddi 'La mort de l'auteur' – ddychwelyd at y testun, 'as a "guest" ... a paper-author':

his life no longer the origin of his fictions but a fiction contributing to his work; there is a reversion of the work on to the life (and no longer the contrary); it is the work of Proust, of Genet which allows their lives to be read as text.⁵⁷

⁵⁶ Ibid.

⁵⁷ Roland Barthes, 'From Work to Text', *Image-Music-Text*, cyf. Stephen Heath (Glasgow, 1977), t. 161.

Y mae modd i'r llif rhwng bywyd a gwaith yr awdur fod yn un dwyffordd, wrth gwrs. Gellir darllen y naill mewn perthynas â'r llall. Gellir gwyrddroi, a pheidio â gwyrddroi'r berthynas hefyd. Yn *James Kitchener Davies*, er enghraifft, ceir digon o enghreifftiau o'r beirniad yn esbonio'r gwaith yng ngoleuni bywyd yr awdur. Dyma'n wir yw symudiad cyffredinol y llyfr: o'r bywyd at y gwaith. Erbyn i'r darlennydd gyrraedd uchafbwynt y llyfr, sef y trafod ar *Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu*, y mae, ymysg nifer o ffeithiau a digwyddiadau bywgraffyddol eraill, wedi dysgu darllen y gerdd mewn perthynas â '[th]ri dolur mawr' James Kitchener Davies,

sef colli mam pan own i'n chwech oed, gwerthu'r Llain pan own i'n ddeunaw, ac yn saith-ar-hugain manwl graffu ar y cancr maleisus, fel *convolvulus*, yn cordeddu am einioes y fodryb-fam a'm magodd.⁵⁸

Ac eto i gyd, ar ddechrau'r bennod honno gwelir bod y beirniad hefyd yn darllen bywyd yr awdur yng ngoleuni ei waith, gan wyrddroi llif y darllen, o'r gwaith at y bywyd:

Such is the power of *Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu*, and such a compaction is it of Kitchener's vital energies, that it is tempting to treat all that happened in the few years remaining to him after the war as a preparation for the writing of that one incomparable poem.⁵⁹

Ar y naill law, darllenir y gerdd yn nhermau bywyd yr awdur. Ond ar y llaw arall, fel yr awgrymir uchod, oherwydd grym *Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu*, cymhellir y darlennydd i ddeall, neu ailddarllen bywyd yr awdur yng ngoleuni'r gerdd. Y canlyniad, felly, yw y daw'r darlennydd o hyd i'r awdur, neu'n hytrach ddarlleniad ohono, nid yn unig drwy gasglu ffeithiau bywgraffyddol amdano, ond yn ei waith ei hun.

⁵⁸ *James Kitchener Davies: detholiad o'i waith*, gol. Manon Rhys a M. Wynn Thomas (Caerdydd, 2002), t. 16.

⁵⁹ *J.K.D.* t. 67.

Nid hoff gan bawb y cyfryw wyrddroad. Er enghraifft, yn ei astudiaeth o Daniel Owen, beirniadodd Robert Rhys duedd ambell feirniad i '[dd]efnyddio tystiolaeth dybiedig y nofelau yn sail i ddatganiadau cwbl hyderus ynghylch cyflwr ysbrydol y nofelydd'.⁶⁰ Ond yn *James Kitchener Davies* – gan osgoi datganiadau cwbl hyderus – y gwaith sy'n cyflenwi'r portread o fywyd yr awdur, megis wrth i'r beirniad geisio dod o hyd i deimladau'r awdur ynghylch yr ail o'i dri dolur mawr, sef gwerthu'r Llain, drwy gyfrwng ei stori fer, 'Y Llysfam' – stori sydd fel pe bai yn rhagweld marwolaeth yr awdur ei hun, gan fod y prif gymeriad ynddi yn cyfansoddi ei ddrama olaf ar ei wely angau. Am hynny, ar ffurf cyfres o gwestiynau dilynol, ceisir tynnu o'r stori bortread o'r awdur a'i cyfansoddodd ac a gafodd ei gyfansoddi, megis, ganddi.

Yn *James Kitchener Davies*, portreadir y berthynas rhwng bywyd a gwaith yr awdur fel math o gylch anfad heb na dechrau na diwedd iddi, wrth i'r naill gyflenwi ystyr y llall, megis y mae hefyd i raddau llai o lawer yn astudiaeth Robert Rhys, *Daniel Owen*, er gwaethaf y feirniadaeth uchod ar wyrddroi'r llif darllen rhwng bywyd a gwaith yr awdur. Oherwydd wrth drafod cyfnod yr awdur yng Ngholeg y Methodistiaid Calfinaidd, nododd y beirniad ei bod yn 'anodd ymatal rhag seilio y rhan hon o'r ymdriniaeth yn llwyr ar benodau 36-8 yn *Rhys Lewis*, lle y ceir, yn ddi-os, y darlun cyfoethocaf a mwyaf nodweddiadol o fywyd coleg diwinyddol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg'.⁶¹ Yn achos y cyfryw ddarlleniad deuol lle y darllenir, nid yn unig y gwaith yng ngoleuni'r bywyd, ond hefyd y bywyd yng ngoleuni'r gwaith, math o bwll tro yw'r llif perthynas rhyngddynt, wrth i'r beirniad, troellwr y cawl, ddefnyddio ffeithiau bywgraffydol, manylion cefndirol am y cyfnod, disgrifiadau o'r tirluniau, straeon, ynghyd â dyfyniadau llenyddol fel ei gilydd i lunio portread o'r awdur-destun.

⁶⁰ Robert Rhys, *Daniel Owen* (Caerdydd, 2000), tt. 23, 32.

⁶¹ *Ibid.*, t. 32.

Yn ei lyfr, *The Death and Return of the Author*, dadleuodd Seán Burke nad dileu yr awdur yn llwyr o faes beirniadaeth lenyddol ydoedd amcan Roland Barthes, er gwaetha'r sylw a dderbyniodd ei ysgrif, 'La mort de l'auteur', 'The Death of the Author', a'r dylanwad pellgyrhaeddol a gafodd yr ysgrif honno, ond yn hytrach ddadlennu mai gweithgarwch goddrychol – dilys, ond goddrychol – ydoedd y weithred o ddarllen y testun llenyddol mewn perthynas â bywyd yr awdur, ac nad yw'r gwaith yn adlewyrchu realiti bywyd yr awdur. O gydnabod hynny, er gwaetha'r farwolaeth, yr oedd modd i'r awdur ddychwelyd i drafodaeth y beirniad ar ei waith. Ys dywed Seán Burke:

Like [Mikhail] Bakhtin before him, Barthes's return of the author takes the form of a certain rewriting of our conceptions of authorship, but one which does not prescribe what can and cannot be said about the author, but rather *calls into question the manner of our saying*. Hence the return of the author can be a return to the cardinal points of *auterist* criticism – creativity in language, the author's life and work [sef, yr union bethau yr oedd Barthes yn eu drwgdybio yn y lle cyntaf].⁶²

Fel yr awgrymwyd eisoes, yn aml edrychir ar feirniadaeth lenyddol gyfoes a'r awdur fel elfennau anghymharus, cymaint yr adwaith a fu i'r dull bywgraffyddol o ddehongli testunau llenyddol. Yn ôl Terry Eagleton, 'Indeed one might very roughly periodize the history of modern literary theory in three stages: a preoccupation with the author (Romanticism and the nineteenth century); an exclusive concern with the text (New Criticism); and a marked shift of attention to the reader over recent years'.⁶³ Ond fel yr awgrymodd Seán Burke uchod, arhosodd yr awdur yn ganolog i feirniadaeth lenyddol fodern, neu ôl-fodernaidd, er gwaetha'r sylw a roddwyd i 'farwolaeth y goddrych'. Er enghraifft, meddai Jacques Derrida: 'The subject is absolutely indispensable. I don't destroy the subject; I situate it ... It is a question of

⁶² Seán Burke, *The Death and Return of the Author* (Edinburgh, 1992), tt. 52-3. F'italeiddio i.

⁶³ Terry Eagleton, *Literary Theory: An Introduction* (Oxford, 2il arg., 1996), t. 64.

knowing where it comes from and how it functions.’⁶⁴ Ni ddilewyd yr awdur. Yn hytrach, yr hyn a gwestiynwyd ydoedd ‘the manner of our saying’, wrth i fywyd yr awdur ymdroi’n destun arall i’r beirniad ei ddarllen.

Gwelir hyn, er enghraifft, mewn astudiaeth awdur-destunol arall, sef *Caradog Prichard* gan Mihangel Morgan, lle y nodir i’r awdur dan sylw droi ‘ei fywyd yn llenyddiaeth nes ei fod yn destun llenyddol ei hunan’.⁶⁵ Fel beirniaid eraill mwy awdur-ganolog o’i flaen, ac ar ei ôl, sylwodd Mihangel Morgan ‘ar y cyfatebiaethau agos a chyson rhwng ei fywgraffiad a’i lôn’,⁶⁶ ond bellach, nid edrychir ar y cyntaf fel ffynhonnell sicr ar gyfer esbonio’r ail, yn enwedig gan yr ymddengys i’r awdur ffugio elfennau o’i fywgraffiad.

Honnai Caradog Prichard iddo geisio gwneud amdano’i hun un tro drwy’i daflu’i hun ar gledrau’r rheilffordd danddaearol yn Llundain ond yn ôl ei wraig go brin fod unrhyw wirionedd yn ei stori. [...] Gwelir yma, efallai, y bardd yn chwilio am farddoniaeth yn ei fywyd, y newyddiadurwr yn chwilio am sgŵp, y nofelydd yn chwilio am naratif yn y ffeithiau.⁶⁷

Barddoniaeth, felly, yw’r bywyd, megis y gerdd. Testun, megis y nofel, i’w gyddarllen a’i gyfosod wrth destun arall. Peth i’r darlennydd ei fwynhau. Ac o’r herwydd, y mae arddull y beirniad yn dra gwahanol i eiddo beirniaid mwy empeiraidd. ‘Gwelir yma, *efallai*’, meddai, gan ddyfalu neu gynnig posibilrwydd yn hytrach na datgan ffaith. Ceisir llunio darlleniad. Ac am y rheswm hwnnw, gellir hyd yn oed wrthod tystiolaeth yr awdur am ystyr ei nofel ei hun. ‘Er bod Caradog Prichard yn ei lythyr at Huw Griffith ... yn dweud yn ddigon clir ei fod yn meddwl am yr adroddwr fel dyn a dreuliodd hanner can mlynedd yn seilam Broadmoor am ladd Jini

⁶⁴ Jacques Derrida, ‘Discussion’, gol. Richard Macksey ac Eugenio Donato, *The Structuralist Controversy: The Languages of Criticism and the Sciences of Man* (Baltimore, 1972) t. 271.

⁶⁵ Mihangel Morgan, *Caradog Prichard: Llên y Llenor* (Caernarfon, 2000), t. 15.

⁶⁶ Ibid.

⁶⁷ Ibid., t. 29.

Bach Pen Cae, nid oes raid inni dderbyn hynny.⁶⁸ A hynny gan fod gan y darlennydd hawl i'w ddarlleniad ei hun. Oherwydd, a dyfynnu Andrew Bennett a Nicholas Royle:

Even if we were to go to a living author and ask what he or she meant by a particular text, all we would get would be another *text* (his or her answer), which would then, in turn, be open to interpretation.⁶⁹

Neu fel y nododd Helen Fulton, 'Pe gadawsai Dafydd ap Gwilym hunangofiant yn ei law ei hun, buasai hynny yn ei dro yn fersiwn naratif arall eto o'i "wir" hunan'.⁷⁰ Gwaith y darlennydd o hyd fyddai cyfuno'r fersiynau naratif a chreu darlleniad ohonynt.

Mae'n wir yn achos James Kitchener Davies na ellir ar ryw olwg ond dyfalu yn ei gylch, gan i'w bapurau a'i lawysgrifau gael eu llosgi yn y tân ofnadwy a fu hefyd yn gyfrifol am ddwyn bywyd gweddw'r awdur, Mair. Ac eto, o gofio i'r awdur ysgrifennu '[d]au hunangofiant byr, y naill mewn rhyddiaith [yr ysgrif 'Adfyw'] a'r llall yn bryddest fythgofiadwy ['Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu']', fel y nododd Kathryn Jenkins, rhaid nodi nad cynnig darlleniad yn sgil diffyg manylion am fywyd yr awdur a wneir.⁷¹ Yn hytrach, y mae 'arddull y dweud' – yr awgrymu a'r cwestiynu a'r archwilio sy'n nodwedd ar *James Kitchener Davies* a *Caradog Prichard* fel ei gilydd – nid yn deillio'n syml o ddiffyg papurau, ond yn enghreifftio'r newid ym maes beirniadaeth lenyddol y cyfeiriodd Seán Burke ato yn y dyfyniad uchod: '[it] does not prescribe what can and cannot be said about the author, but rather calls into question the manner of our saying'. A newid yw hwnnw a ddylai hefyd effeithio ar y modd yr

⁶⁸ Ibid., t. 44.

⁶⁹ Andrew Bennett a Nicholas Royle, *Introduction to Literature, Criticism and Theory* (London, 2il arg., 1999), t. 22.

⁷⁰ Helen Fulton, 'Awdurdod ac Awduriaeth: Golygu'r Cywyddwyr', gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston, Jenny Rowland, *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003), t. 51.

⁷¹ Kathryn Jenkins, 'O Lwynpïod i Lwynpia: Hunangofiant James Kitchener Davies', gol. J. E. Caerwyn Williams, *Ysgrifau Beirniadol XLX* (Dinbych, 1993), t. 310.

ydym yn sôn, nid yn unig am awduron unigol, eithr hefyd y traddodiad llenyddol neu'r canon llenyddol Cymraeg.

Er enghraifft, wrth drafod gwaith beirniadol Saunders Lewis a James Kitchener Davies, meddai M. Wynn Thomas:

Both writers sought to uncover (or to construct) an alternative literary tradition that would facilitate and validate their own creative development.⁷²

Rhwng 'dadlennu' a 'chreu' y mae byd o wahaniaeth. '[Y] mae ef wedi dadlennu neu ddarganfod *adeiladwaith* i'n traddodiad', meddai R. M. Jones, yn ei ysgrif, 'Pab ein Llên', gan ddadlau mai'r hyn a wnaeth Saunders Lewis ydoedd 'achub beirniadaeth lenyddol Gymraeg rhag diflannu mewn sachaid o chwiwiau goddrychol'.⁷³ Ond yn ôl Gerwyn Williams: 'Paratôdd [Saunders Lewis], o'i ben a'i bastwn ei hun draddodiad ar ei chyfer [hi, Cymru],'⁷⁴ sy'n awgrymu bod elfen oddrychol, gref i'r cyfryw 'adeiladwaith'; megis y nododd Menna Elfyn 'nad peth sy'n bodoli heb reswm yw traddodiad ond ei fod wedi cael ei greu'.⁷⁵ Dyma ddau safbwynt beirniadol, gwahanol iawn i'w gilydd, felly, ond y mae'r naill (a'r llall mewn cromfachau) i'w clywed yn y dyfyniad uchod o eiddo M. Wynn Thomas, fel pe bai'n cynnal rhyw fath o ddeialog rhyngddo ef ei hun ac ef ei hun, rhwng y beirniad sy'n hoffi dadlennu'r awdur, megis y dadlennodd eraill draddodiadau llenyddol cyfain, a'r beirniad sy'n ymwybodol ei fod ef ei hun wedi ei leoli lawn cymaint â'r gwrthrych y mae'n edrych arno, ac na all, o'r herwydd, ond cynnig darlleniad ohono. Y canlyniad yw sylwadaeth ddeublyg, aml-leisiol, gydag arddull y dweud yn cadarnhau'r hyn a ddywedir, sef nad oes modd dod o hyd i ffynhonnell creadigrwydd yr awdur, James Kitchener Davies.

⁷² *J.K.D.* t. 48.

⁷³ R. M. Jones, 'Pab ein Llên', *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972* (Llandybie, 1975), t. 334.

⁷⁴ Gerwyn Williams, 'Saunders Lewis: Parodiwr Ymrwymedig', *Taliesin*, 66 (Mawrth, 1989), 42.

⁷⁵ Menna Elfyn, 'Trwy Lygaid Ffeminyddol', gol. John Rowlands, *Sgleftrio ar Eiriau*, t. 23.

Fynychaf, edrychir ar fywyd neu seici'r awdur fel ffynhonnell ddibynadwy ar gyfer dehongli ei waith. Ys dywed Niall Lucy: 'The "real" cause of who we are and what we do may lie in our unconscious.' Fodd bynnag, yn *James Kitchener Davies*, awgrymir nad oedd yr ysgrifennwr creadigol ei hun, wrth iddo ysgrifennu, yn adnabod y sawl a oedd megis yn sefyll y tu ôl i'r gwaith. Dyma yn ôl Lucy yw natur annibynadwy y ffynhonnell ddibynadwy hon o wybodaeth gyd-destunol:

What goes on inside our heads and how we act in the world, then, may not necessarily be what we think is going on or be an effect of desires and motivations we presume to understand.⁷⁶

Oherwydd hynny, erys bwriad yr awdur nid yn unig y tu hwnt i gyrraedd y beirniad, ond hefyd yr awdur ei hun. 'Testun cymhleth' ydyw bwriad yr awdur, 'which can be debated, translated and variously interpreted just like any other'.⁷⁷ Oblegid hyn, gosod testun wrth destun y mae'r beirniad wrth iddo ddarllen bywyd a gwaith yr awdur ar y cyd, nid defnyddio'r naill ar gyfer esbonio'r llall, ac yn sgil y newid hwn ym mherthynas yr awdur-destun â'r testun, cyfyd y cwestiwn ai'r awdur sy'n cyfansoddi'r gwaith, ynteu ai'r gwaith sy'n cyfansoddi'r awdur. Pwll tro o berthynas ydyw gyda'r achos a'r effaith yn medru cyfnewid lle â'i gilydd yn rhwydd, megis yn stori 'Y Llysfam' gan James Kitchener Davies pan na allai Glyn ar ei wely angau benderfynu 'whether, when that motorbike careered over the edge, he was driving it or it was driving him'.⁷⁸

Testun arall i'r beirniad chwarae ag ef yw'r awdur mwyach, megis y testun ei hun. Nid 'the impulse, the origin, the authority, the Father, whence his work would proceed, by a channel of *expression*', ond yn hytrach, a dyfynnu Barthes, 'a novelistic, irretrievable, irresponsible figure, caught up in the plural of his own text',

⁷⁶ Niall Lucy, op. cit., t. 2.

⁷⁷ Terry Eagleton, *Literary Theory*, t. 59.

⁷⁸ *J.K.D.* t. 57.

wrth i'r ffin rhwng bywyd a gwaith yr awdur ymdoddi i'w gilydd, gan adael i'r beirniad chwilio am bortread o'r awdur yn y naill fan a'r llall.⁷⁹

Yn ôl Hugh Bevan, 'nid William Thomas yw Islwyn ac nid William Williams yw Pantycelyn ymhob dim'.⁸⁰ Am hynny, ni chredai'r beirniad fod modd defnyddio bywyd yr awdur yn ffynhonnell ar gyfer darllen ei waith. Ac eto, yn estyniad ar yr egwyddor hon, dadleuir yma fod modd i'r beirniad gyfuno'r bywyd a'r gwaith a dod o hyd i identiti newydd, a darllen ohonynt Williams Pantycelyn, neu o leiaf *Williams Pantycelyn*, a defnyddio'r gwaith yn ffynhonnell ar gyfer darllen yr awdur, cymaint ag yw'r awdur yn ffynhonnell ar gyfer lleoli'r gwaith.⁸¹ Gellir creu *James Kitchener Davies*, os nad James Kitchener Davies. Ond fel yr awgrymir yn y dyfyniad isod o hunangofiant Roland Barthes, gwaith i eraill, nid yr awdur ei hun, yw hyn. Ac o gofio'r modd y mae James Kitchener Davies yn cyfeirio at deimlo crepach yn ei ego yn *Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu*, mae'n demtasiwn ei glywed yntau'n llefaru'r geiriau hyn o *Roland Barthes by Roland Barthes*:

Far from reaching the core of the matter, I remain on the surface, for this time it is a matter of 'myself' (of the Ego); reaching the core, depth, profundity, belongs to others.⁸²

Tasg i eraill yw casglu ynghyd y darnau o berson a oedd yn rhan o fywyd a gwaith yr awdur, a chreu o James Kitchener Davies *James Kitchener Davies*, nad yw o anghenraid yn ddrych i'r Kitchener arall, na'r un *Kitchener* arall, ond sydd eto'n fodd inni ddarllen ei waith ar lun cyd-destun newydd, ac nid mewn gwagle.

Na, ni cheisir yma ddileu'r awdur. Gwelir yn y penodau dilynol y cyfunir agweddau o destunau beirniadol, personol a hunangofiannol y tri beirniad llenyddol

⁷⁹ Roland Barthes, *S/Z*, cyf. Richard Miller (London, 1975), tt. 211-12.

⁸⁰ Hugh Bevan, *op. cit.*, t. 5.

⁸¹ *J.K.D.* Cyfeirir at hoffter James Kitchener Davies o gyfrol Saunders Lewis ar t. 80.

⁸² Roland Barthes, *Roland Barthes by Roland Barthes*, cyf. Richard Howard (London, 1977), t. 142.

ynghyd. Oherwydd mewn oes o awduron proffesiynol a hawlfraint personol, dim ond llwyddo i ddiethrio Theori y mae'r hen duedd gynt i anwybyddu bywyd yr awdur.

Rhaid cofio cyngor Jenny Rowland:

Erbyn heddiw, disgwylir gallu dadansoddi darn o lenyddiaeth gan ddechrau gyda'r awdur: ei fywyd, ei amgylchiadau, ei weithiau eraill a'r dylanwadau a fu arno. Yn ddefnyddol mae ystyried yr awdur yn bwysig, ac ymddengys bron yn annaturiol edrych ar gân mewn gwagle.⁸³

Ceisiodd llawer o feirniaid llenyddol adweithio yn erbyn y dull 'naturiol' hwn o ddarllen lenyddiaeth mewn perthynas â'r awdur. Y mae, wedi'r cyfan, yn ddull sy'n tueddu 'i ddiystyru ac i fychau gwerth gweithiau anhysbys o bob math'.⁸⁴ Y mae hefyd yn ddull sy'n cyfyngu ar ystyron posib y testun, wrth i feirniaid roi '[p]wyslais ar flaenoriaeth bywgraffiad ar draul y cerddi eu hunain, yn union fel pe bai'n rhaid i ryw adluniadau rhithiol o'r "awdur" – pa mor amherffaith bynnag y'u gwnaed – fod yn allwedd i ddehongli ei gerddi yn gywir'.⁸⁵ Am hynny, gwell gan Helen Fulton fyddai'n hytrach '[d]orri'r llinyn cyswllt rhwng y testun a'r awdur. Golygu'r cywyddau, nid y Cywyddwyr, yw'r dasg.'⁸⁶ Ond yn hytrach nag aros gyda marwolaeth yr awdur a chyda 'The Death of the Author' – yr unig ysgrif o waith Roland Barthes a ddyfynnir gan Helen Fulton yn yr ysgrif dan sylw – awgrymir yma nad torri'r llinyn cyswllt rhwng y testun a'r awdur yw'r gofyn, ond yn hytrach gwehyddu rhagor o linyrau dwyffordd a thrwchus rhyngddynt, gan sylweddoli mai 'creadigaethau yw'r testun a'r awdur fel ei gilydd', fel y nododd Fulton ei hun.⁸⁷ Ni raid rhoi gorau i'r dasg o lunio bywgraffiad. Nid oes dim o'i le yn hynny. Y

⁸³ Jenny Rowland, 'Y Beirdd Enwog: Anhysbys a'i Cant', gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston, Jenny Rowland, *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol*, t. 45.

⁸⁴ Ibid.

⁸⁵ Helen Fulton, op. cit., t. 58.

⁸⁶ Ibid., t. 71.

⁸⁷ Ibid., t.72.

camsyniad yn hytrach yw peidio ag edrych ar y cyfryw fywgraffiad fel testun creadigol y mae'r darlennydd yn gyfrifol amdano, ond yn hytrach fel ffynhonnell ddibynadwy wedi ei sicrhau megis gan yr awdur ei hun ar gyfer esbonio ei waith. Oherwydd *llunio* bywgraffiad a wneir hyd yn oed pan fo storfa o ffynonellau bywgraffyddol ym meddiant y darlennydd, wrth i'r darlennydd ei hun ymdroi'n awdur bywgraffiad yr awdur. Yn hyn o beth y mae Helen Fulton yn llygad ei lle wrth ychwanegu mai'r 'golygydd a neb arall sydd berchen ar awdurdod ac ystyr y testun', megis yr awdur-destun a gyflwynir ganddo.⁸⁸ Oherwydd a dyfynnu Mikhail Baktin:

Even if the author-creator had created the most perfect autobiography, or confession, he would, nonetheless have remained, in so far as he had produced it, outside the universe represented within it.⁸⁹

Yn ei hunangofiant, *Roland Barthes by Roland Barthes*, cyfeiriodd Barthes at y math o arddull y mae angen i'r awdur hunangofiannol ei ddefnyddio os yw am barchu'r aralliad hwnnw sy'n nodwedd ar bob ysgrifen. Meddai: 'I am speaking about myself as though I were more or less dead.'⁹⁰ Wrth gwrs, yr hyn sydd mor greulon eironig am y sylw hwn mewn perthynas â James Kitchener Davies yw iddo gyfansoddi *Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu* ar ei wely angau. Yn hynny o beth, y mae'r awdur hwn yn ei farwolaeth hefyd yn llwyddo i bwysleisio'r ddeuliaeth sy'n perthyn i gymeriad yr awdur mewn modd creulon o lythrennol.

Siarad am rywun y tu allan i'r testun, felly, y mae'r sawl sy'n ei ysgrifennu, hyd yn oed os yw'n ysgrifennu amdano ef ei hun, 'a futile attempt to find a name for the nameless, and thus to bring self-alienation to an end'.⁹¹ Nid Tudur Hallam yw'r fi yn y traethawd hwn, er enghraifft. Rwy'n fwy ac yn llai na hyn. Rwyf, ac mae'n

⁸⁸ Ibid.

⁸⁹ Mikhail Bakhtin, dyf. Seán Burke, op. cit. t. 55.

⁹⁰ Roland Barthes, *Roland Barthes by Roland Barthes*, t. 168.

⁹¹ J.K.D. tt. 56-7.

wahanol. 'Myfi ... ac eto ...' Hyrwyddo math o hunanaralliad y mae ysgrifennu; nid ei ddileu, hyd yn oed pan fo'r awdur yn hunangofianna. A dyfynnu o erthygl enwog W. K. Wimsatt Jr. a Monroe C. Beardsley, 'The Intentional Fallacy': 'the design or intention of the author is neither available nor desirable as a standard for judging the success of a work of literary art.'⁹² Pam? Gan nad yw'r awdur a saif y tu ôl a'r tu allan i'r gwaith i'w ganfod yn gyflawn yn y gwaith ei hun, na'r tu allan iddo chwaith. Rhannau cyfnewidiol ohono, os nad ohonynt, a geir yn y bywyd a'r gwaith, ar wahân ac ar y cyd. Ys dywed Bobi Jones yn ei hunangofiant diweddar: 'Ef yw pob fi, a fi yw ef. A dwi felly rywfodd i mewn a ma's yr un pryd. Arall wyf, a hunan hefyd.'⁹³

Yn ysgrif Helen Fulton 'Awdurdod ac Awduriaeth: Golygu'r Cywyddwyr', dyfynnir Stuart Hall. Meddai: 'The self is always, in a sense, a fiction.'⁹⁴ Oherwydd yn groes i'r gred mai cyfrwng diogel yw llenyddiaeth i'r awdur fynegi rhyw oddrychedd sicr a diamwys, dadleuir yma mai'r hyn a gynnig llenyddiaeth i'r awdur yw cyfle iddo nid yn unig i'w fynegi ei hun, ond ei drawsnewid ei hun hefyd, fel y cyfeiriodd Andrew Bennett a Nicholas Royle at 'literature's capacity to question, defamiliarize and even transform the sense of who or what we are'.⁹⁵ Y mae'r awdur o hyd, felly, o sylweddoli nad yw'n berson syml un lleoliad, y tu hwnt i afael y beirniad na all ond ceisio llunio portread ohono.

Dyna pam mai chwilio am awdur-destun a wneir, a hynny ar ffurf cwestiynau ac awgrymiadau, gan gydnabod mai cyflwyno darlleniad ohono y mae'r beirniad llenyddol. Gan gofio hynny yr eir ati yn y traethawd hwn i astudio'r cysyniad o ganon llenyddol.

X X X X X

⁹² W. K. Wimsatt Jr. a Monroe C. Beardsley, 'The Intentional Fallacy', gol. Seán Burke, *Authorship: From Plato to the Postmodern* (Edinburgh, 1995), t. 90.

⁹³ Bobi Jones, *O'r Bedd i'r Crud: Hunangofiant Tafod gan Bobi Jones* (Llandysul, 2000), t. 246.

⁹⁴ Helen Fulton, op. cit., t. 55. Dyfynnir Stuart Hall, 'Minimal Selves', gol. Ann Gray a John McGuigan, *Studying Culture, An Introductory Reader* (London, 1993), t. 136.

⁹⁵ Andrew Bennett a Nicholas Royle, op. cit., t. 122.

Yn eu herthygl, 'The Intentional Fallacy', nododd W. K. Wimsatt Jr. a Monroe C. Beardsley fod bwriad yr awdur yn egwyddor 'which goes deep into some differences in the history of critical attitudes'.⁹⁶ A nodwyd eisoes mai mewn perthynas ag agweddau gwahanol tuag at yr awdur y dosrannodd Niall Lucy feirniadaeth lenyddol yn ddwy garfan wahanol. 'The first way of thinking could be called the liberal humanist "theory" of literary production [gan yr athrylith o awdur], while the second could be seen as leading to the development of postmodern literary theory.'⁹⁷ Dadleuir yma hefyd fod agwedd y beirniad tuag at yr awdur yn effeithio ar ei holl syniad am lenyddiaeth, ac yn benodol felly mewn perthynas â'r cysyniad o ganon llenyddol. Dyna'r ddadl a gynigir yma, er na honnir bod ynnddi ddim newydd, rhagor na mater o bwyslais. Oherwydd yn y rhelyw o lyfrau sy'n cyflwyno neu'n trafod maes beirniadaeth neu theori lenyddol, cyplysir beirniadaeth wrthawdurol a gwrthganoniaeth ynghyd.

Ystyrier, er enghraifft, y dyfyniad isod o'r llyfr *Re-thinking Theory* gan Richard Freadman a Seumas Millar, dau feirniad a gais amlygu'r cyswllt 'between theory and humanism',⁹⁸ nid yn annhebyg i'r modd y mae ambell feirniad Cymraeg megis Robert Rhys neu R. M. Jones yn barod i archwilio llawer o ganfyddiadau maes theori lenyddol, ond heb arddel chwaith y pwys eithaf ar relativrwydd a lluosedd. Rhestrir ganddynt 'the salient features of contemporary critical theorising' fel a ganlyn:

⁹⁶ W. K. Wimsatt Jr. a Monroe C. Beardsley, op. cit., t. 90.

⁹⁷ Niall Lucy, op. cit., t. 1.

⁹⁸ Richard Freadman a Seumas Miller, *Re-thinking Theory: A critique of contemporary literary theory and an alternative account* (Cambridge, 1992), t. 195.

the denial of the referential power of literature and of its images of the individual; the adoption of 'decentred' models of the self; the denial of the 'originary' authority of the author; the (related) denial of determinate meaning, and so of determinate acts of interpretation of texts; the (again related) image of the text as embodying an infinite plurality of meaning and a correspondingly infinite range of reading (or 'subject') positions; the tying of hermeneutic acts to the analysis of social power relations; the rejection of canonical notions of literary tradition, and indeed of the very category 'literature' itself.⁹⁹

O edrych ar y gyfres o bwyntiau a nodir uchod, awgrymir mai'r un mwyaf arwyddocaol yw'r trydydd, sef herio awdurdod yr awdur, gan ei fod yn ansefydlogi'r maes cyfan ac yn arwain at y ddau bwynt dilynol ynghylch pennu ystyr testun a lluosedd darlleniadau. Fel y nododd Helen Fulton, 'swyddogaeth bwysicaf awdur a chanddo enw oedd ... nid yn unig awdurdodi'r ffurf a'r cynnwys ... ond gwarantu ystyron y testun'.¹⁰⁰ Gwrthawduraeth yw'r pwynt sy'n agor y llifddorau megis, a'i benllanw – neu benllanw'r pwyntiau dilynol yn eu tro, os nad holl wth theori lenyddol gyfoes – ydyw'r pwynt olaf, sef gwrthod y cysyniad o ganon neu draddodiad llenyddol, a llenyddiaeth ei hun. Arwain at y gwrthod eithaf hwnnw, megis, y mae'r cam blaenorol o herio awdurdod yr awdur.

Gellir, wrth gwrs, ddadlau bod y berthynas syniadol rhwng awdurdod yr awdur a chanon llenyddol yn symud y naill ffordd a'r llall. Oherwydd cyn gynted ag y mae un yn dechrau meddwl am y cysyniad o ganon llenyddol y mae'n cael ei yrru'n ôl megis i feddwl am berthynas llenyddiaeth â'r awdur. Dyna, er enghraifft, fu fy mhrofiad i wrth ysgrifennu'r traethawd hwn. Dechreuwyd drwy astudio'r cysyniad o draddodiad, ynghyd ag etymoleg y gair, ond buan y sylweddolwyd mai canon o awduron yw'r traddodiad llenyddol Cymraeg, yn brin o destunau anhysbys, a'r

⁹⁹ Ibid., tt. 10-11.

¹⁰⁰ Helen Fulton, *op. cit.*, t. 51.

beirniaid yn dadlau dros gynnwys lle i'r awdur hwn a'r llall ymhlith y clasuron, ac yn fwy felly, ar y cyfan, na'u testunau unigol hwy.

Yng nghyswllt y Dadeni, meddai Rosalie Colie: '[L]iterary invention was largely generic, and transfer of ancient values was largely in generic terms, accomplished by generic instruments and helps.'¹⁰¹ Ac y mae'r berthynas rhwng canon a llenyddol yn un berthnasol, heb os, yn achos ffurfiad y canon llenyddol Cymraeg, megis yn netholiad Bleddyn Owen Huws o gywyddau gofyn a diolch, neu flodeugerddi eraill a drefnwyd mewn perthynas â llenyddol neu fesur.¹⁰² Fodd bynnag, dim ond inni ddechrau enwi'r gynau mawr – Taliesin, Aneirin, Dafydd ap Gwilym, William Williams – gwelir mai perthnasol yw sylw Mary Depew a Dirk Obbink ynghylch sut y mae'r llenyddol neu'r mathau gwahanol o ysgrifennu sy'n rhoi ffurf ar ganon llenyddol, fynychaf wedi eu dosbarthu mewn perthynas ag awduron: 'much weight has been attached to the great writers of the past as models, and standard canons of their works have long dominated the course of education, book-collecting and editing, and literary fashion.'¹⁰³ Er cytuno â Michel Foucault fod testunau, megis *Pedeir Keinc y Mabinogi*, er enghraifft, ar un adeg wedi bod yn dderbyniol, 'valorized without any question about the identity of their author', canon o ysgrifenydd mawr, nid o ysgrifennu mawr yw'r un llenyddol mwyach wrth i feirniaid o'r ddeunawfed ganrif ymlaen, fel y dadleuodd Foucault yn 'What is an Author?', geisio dod o hyd nid yn unig i awdur, ond hefyd ddyddiad, lleoliad ac amgylchiad cyfansoddi testunau anhysbys y canon llenyddol, ac osgoi'r 'gwagle' y cyferiodd Jenny Rowland ato uchod. Nid sôn am Gymru fel y cyfryw yr oedd Foucault, wrth gwrs, ond sylwir na

¹⁰¹ Dyf. Mary Depew a Dirk Obbink, *Matrices of genre: authors, canons, and society: Center for Hellenic Studies Colloquia 4* (London, 2000), t. 1.

¹⁰² Bleddyn Owen Huws, *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch* (Cyhoeddiadau Barddas, 1998).

¹⁰³ Mary Depew a Dirk Obbink, op. cit.

allai Saunders Lewis hyd yn oed osgoi'r arfer feirniadol hon y mae fel pe bai yn ei dibrisio yn 'Dafydd Nanmor'. Am y *Pedair Keinc*, meddai:

Os un awdur a fu i'r Pedair Cainc, ac at hynny y mae'r dystiolaeth yn tueddu, ai damcaniaethu ormod yw awgrymu mai brodor o wlad Dyfed a oedd yn fynach yn Ystrad Fflur, un wedi teithio yng Nghymru a Lloegr ac efallai yn neau Iwerddon, a sgrifennodd y Mabinogi yn ystod y blynyddoedd 1170-1190?¹⁰⁴

Yn ei gyfres o erthyglau ar y *Pedair Cainc*, ceisiodd Saunders Lewis amlygu bod y gwaith 'yn glasur sy'n gampwaith byw'.¹⁰⁵ Ond ar wahân i drafod elfennau arddull a chrefft, yn unol â sylw Foucault ynghylch awduraeth, ynghyd â dyddiad a chyd-destun cyfansoddi'r gwaith, gellir dweud am y *Pedair Cainc* a gweithiau anhysbys eraill y dadleuir eu bod yn glasurol, '[that] [t]he meaning and value attributed to the text depended on this information'.¹⁰⁶ Oherwydd hynny, a dyfynnu Andrew Bennett a Nicholas Royle:

... ideas about the canon, about literary survival and about the nature of the 'classic', bring us back to ... questions of meaning, interpretation and authorial intention ...¹⁰⁷

Dwy ochr i'r un geiniog, felly, ydyw cwestiynau ynghylch yr awdur, neu o leiaf ei rôl mewn perthynas â phennu gwerth ac ystyr y testun llenyddol, a'r cysyniad o ganon llenyddol. Ac y mae'r modd yr ydym yn synied am y naill elfen yn effeithio ar y modd yr ydym yn synied am y llall. Gwelir hyn yn y penodau dilynol yn achos Saunders Lewis, R. M. Jones ac Alan Llwyd. O'r tri, y theorïwr R. M. Jones yw'r un a

¹⁰⁴ Saunders Lewis, 'Math fab Mathonwy', *Meistri'r Canrifoedd*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), t. 33.

¹⁰⁵ Idem, 'Branwen,' *Meistri'r Canrifoedd*, t. 18.

¹⁰⁶ Michel Foucault, 'What is an Author?', gol. Seán Burke, *Authorship: From Plato to the Postmodern: A Reader*, op. cit., t. 236.

¹⁰⁷ Andrew Bennett a Nicholas Royle, op. cit., t. 47.

roes y sylw mwyaf i'r darlennydd. Ac eto, amlyga'i waith diweddaraf, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, mai anodd yw coleddu'r canon heb goleddu'r awdur yr un modd.

Ond amlygir y rhyngberthynas hon rhwng yr awdur a'r canon yn arbennig, fe gredir, gan feirniadaeth ffeminyddol. Ys dywed Patrocinio P. Schweickart, er enghraifft: 'For feminists the question of *how* we read is inextricably linked with the question of *what* we read.'¹⁰⁸ Cymaint felly fel nad yw'n hawdd gwahaniaethu rhwng y 'sut' a'r 'beth' ar adegau. A dyma un o brif gyfraniadau beirniadaeth ffeminyddol mewn perthynas â'r cysyniad o ganon llenyddol, sef amlygu'r cyswllt rhwng deunydd darllen a ffyrdd o ddarllen a meddwl, gyda'r berthynas rhwng y ddwy elfen wahanol mor dynn ei gwead nes y bo'n gweithio fel math o gylch anfad i gadw'r un hen ddisgl gymdeithasol yn wastad. A dyfynnu Annette Kolodny:

We read well, and with pleasure, what we already know how to read; and what we know how to read is to a large extent dependent on what we have already read (works from which we have developed our expectations and learned our interpretive strategies). What we then choose to read – and, by extension, teach and thereby 'canonize' – usually follows upon our previous reading.¹⁰⁹

Drwy hyn, gwelir pam mai yn araf iawn y bydd cynnwys unrhyw ganon llenyddol yn newid. Canoneiddir ffyrdd o ddarllen a ffyrdd o feddwl gan ganonau llenyddol, nid testunau llenyddol yn unig, sydd, maes o law, yn hyrwyddo'r un math o destunau llenyddol a safonau llenyddol i'w canoneiddio yn y dyfodol. Cydnabod yr egwyddor honno, er nad yw'n ei chwestiynu, y mae R. M. Jones pan ddywed mai'r 'canon hwn wedi'r cwbl yw'r hyn a ddysgodd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol inni ddarllen, os gallwn ddarllen, yn ddedhol'.¹¹⁰ Rhaid wrth ymdrech hynod o

¹⁰⁸ Patrocinio P. Schweickart, 'Reading Ourselves: Toward a Feminist Theory of Reading', gol. Andrew Bennett, *Readers and Reading* (London, 1995), t. 71.

¹⁰⁹ Annette Kolodny, 'Dancing through the Mindfield: Some Observations on the Theory, Practice, and Politics of a Feminist Literary Criticism', *Feminist Studies*, 6 (1980), 12. Dyf. Patrocinio P. Schweickart, *ibid.*, t. 77.

¹¹⁰ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 241.

hunanymybodol i dorri'r patrwm, felly, gan archwilio, nid yn unig y testunau llenyddol hynny sy'n rhan o'r canon, ond hefyd y strwythurau sefydliadol a'r cysylltiadau grym sy'n rhan o'r broses ganoneiddio. Dyna gyfraniad arbennig beirniadaeth ffeminyddol i'r drafodaeth ar y canon.

Fodd bynnag, gellir nodi yma fod y pwys hwn ar ddatgelu ffyrdd o ddarllen ynghyd â'r broses ganoneiddio erbyn hyn yn un weddol gyffredin. Fel yr awgrymwyd eisoes, dyma'r newid mawr a welwyd ym maes beirniadaeth lenyddol yn gyffredinol, sef ymgais i fod yn feirniadol dryloyw, drwy archwilio ffyrdd o ddarllen. Meddylir, er enghraifft, am erthygl Robert Rhys, 'Dysgu Darllen'. Gan amau 'safonau digyfnwid', nododd fod y beirniad eisteddfodol, a phob beirniad o ran hynny, 'wedi'i gyflyru gan ei brofiad darllen i adnabod confesiynau llywodraethol ei gyfnod ac yn rhy aml yn gwobrwyo'r sawl sy'n cydymffurfio fwyaf â'r disgwyliadau hynny neu'n amrywio'n geidwadol arnynt'.¹¹¹ Nid yn athrylith yr awdur y deuir o hyd i ragoriaeth y gwaith mwyach, na chwaith yn athrylith y beirniad, ond yn hytrach yn ei brofiad darllen a'i gefndir addysgol: 'confensiynau llywodraethol ei gyfnod'. Ys dywed Richard Freadman a Seumas Miller – sydd, fel yr awgrymwyd, yn rhannu ymgais Robert Rhys i gydnabod enillion theori gyfoes, ond nid yn ddigwestiwn:

Thus in the case of literature the actions in question are speech acts performed by the writer, and the reader decodes these speech acts in so far as he/she is conversant with the conventions according to which they were performed.¹¹²

Megis y dadleuodd Stanley Fish yn ei lyfr *Is There a Text in This Class?* fod darlleniad y darllenydd unigol wedi'i gyflyru gan werthoedd y gymuned ddehongli y mae'n perthyn iddi, pwysleisio amgylchfyd y darllenydd y mae Robert Rhys yntau yn ei ysgrif, gan felly osgoi'r relativrwydd eithaf a all nodweddu ymdriniaethau ôl-

¹¹¹ Robert Rhys, 'Dysgu Darllen', op. cit., tt. 169-170.

¹¹² Richard Freadman a Seumas Miller, op. cit., t. 199.

fodernaidd a gais ennill mwy o rym i'r darlennydd unigol ar draul yr awdur. Yn hyn o beth y mae, nid yn annhebyg i'r modernydd Jürgen Habermas, yn edrych ar iaith fel cyfrwng o gyfathrebu deallus, 'a medium of communication that serves understanding',¹¹³ sydd er yn fwy o lawer na'r unigolyn, heb fod y tu hwnt i'r modd y mae ef, megis aelodau eraill ei gymuned, yn medru ei ddefnyddio'n ystyrlon er mwyn strwythuro'i fywyd. O'r herwydd, gellir dweud am y gerdd eisteddfodol, ynghyd â phob datganiad arall, a dyfynnu Habermas, '[W]e understand its meaning when we know the conditions under which it can be accepted as valid'.¹¹⁴

Ond gyda'r pwyslais ar gonfensiynau darllen, yr hyn a oedd yn wir ddefnyddiol i'r drafodaeth bresennol ydoedd sylwi bod Robert Rhys yn ei ysgrif, ac yntau'n trafod perthynas y testun a'r awdur a'r darlennydd â'i gilydd, yn dewis cloi ei ysgrif gyda chyfeiriad at y canon llenyddol, megis y mae'r bennod hon hithau yn troi ei golygon oddi wrth yr awdur at y canon llenyddol. A dyfynnu Robert Rhys:

Wrth bledio'r angen am ddamcaniaeth ynghylch 'gwerth' llenyddol, felly, bydd rhaid bod yn ymwybodol o rym confensiynau darllen a meysydd llafur swyddogol yn y broses o greu'r canon cyfoes ym mhob oes, ond dyw'r anawsterau hynny ddim yn ddigon o reswm i ildio'n dawel i'r ffilistiaeth ddadadeiladol newydd.¹¹⁵

Ni ddiffinnir yn union nodweddion y 'ffilistiaeth ddadadeiladol newydd', ond hwyrach y gellir rhagdybio ei bod yn cynnwys, ymysg pethau eraill, wrthod y cysyniad o ganon llenyddol, megis yn rhestr Freadman a Miller uchod. A dyna'r cwestiwn mawr ar gyfer y drafodaeth hon. A yw'r cysyniad o ganon llenyddol yn un defnyddiol heddiw? Nodwyd eisoes nad cyhoeddi marwolaeth y canon yw nod y traethawd hwn, eithr ei leoli, er mwyn gwybod o ba le y daeth a sut y mae'n gweithio.

¹¹³ Jürgen Habermas, *The Theory of Communicative Action*, cyf. Thomas McCarthy (Boston, 1984), 1:101.

¹¹⁴ Idem, *Philosophical Discourses of Modernity*, cyf. Frederick G. Lawrence (Cambridge, 1987), t. 313.

¹¹⁵ Robert Rhys, 'Dysgu Darllen', op. cit., t. 170.

Dyna pam y ceisir addasu'r gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â'r awdur-destun, a'u trosglwyddo i drafodaeth ar y canon llenyddol.

Os felly, y wers bwysicaf, efallai, a gynnig yr awdur i'r drafodaeth hon ar y canon llenyddol heddiw yw nad yw cyhoeddi 'marwolaeth yr awdur' yn gyfystyr â mynychu ei angladd. Ys dywed Seán Burke: '[T]he concept of the author is never more alive than when pronounced dead.'¹¹⁶ Felly hefyd yn achos 'canon llenyddol y Gorllewin' heddiw pan fo cryn ddadlau yn Saesneg ymysg ei ddyfodol ansicr. A'r un modd yn achos y canon llenyddol Cymraeg, er mai diffyg trafodaeth ynghylch y canon neu'r traddodiad llenyddol, efallai, yw'r perygl mwyaf.

Perthnasol i sylw Burke uchod ynghylch yr awdur yw delwedd a gynnigir gan John Schad yn *life.after.theory*. i ddisgrifio sefyllfa'r awdur heddiw, 'erbyn hyn'. Delwedd y Crist atgyfodedig yw honno, ac yntau'n ymddangos i'r ddau gydymaith ar y ffordd i Emaus, 'he both comes and goes in the same moment of companionship'.¹¹⁷ Ffigur sy'n ymddangos a diflannu yr un pryd yw'r awdur, megis y Crist atgyfodedig yn Luc 24.31. 'A'u llygaid hwynt a agorwyd, a hwy a'i hadnabuant ef: ac efe a ddiflannodd allan o'u golwg hwynt.'¹¹⁸ Ffigur rhithiol ar un olwg ydyw, sydd eto'n agor llygaid wrth iddo ddiflannu.

Yr un yn ei hanfod yw awgrym Andrew Bennett a Nicholas Royle wrth iddynt hwythau yn eu llyfr geisio mapio hanes diweddar y cysyniad o awdur. Gan gyflwyno'r un math o ffigur rhithiol â'r Crist ar y ffordd i Emaus, pwysleisir nad oedd modd i Barthes ladd yr awdur, gan nad person ond ysbryd fu ef erioed. Meddai'r awduron:

¹¹⁶ Seán Burke, op. cit., t. 7.

¹¹⁷ John Schad, 'epilogue: coming back to 'life'', gol. idem a Michael Payne, *life.after.theory*. (London, 2003), t. 178.

¹¹⁸ Luc 24:31. Defnyddir cyhoeddiad y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor (Llundain, 1955) drwy gydol y traethawd hwn.

The 'death of the author', in Barthesian terms, is explicitly figurative or metaphorical, and we could say, by way of a sort of corrective to possible misreading in this context, that the author cannot die precisely because, as we've been suggesting, the author is – always has been and always will be – a ghost. Never fully present or fully absent, a figure of fantasy and elusiveness, the author only ever haunts.¹¹⁹

Cryfder delwedd Schad, fodd bynnag, o'i chymharu â delwedd yr ysbryd a gynigir uchod, yw ei fod yn cyfleu'r ddeuoliaeth sy'n nodweddu'r awdur – y person y tu ôl i'r gwaith a'r un a gyfansoddir ganddo – oherwydd er ei allu i ddiflannu megis ysbryd y mae'r Crist atgyfodedig yn aros yn gorff o hyd.

O'r Awdur-dduw i'r Crist atgyfodedig, ar un olwg, yw stori'r awdur ym maes beirniadaeth lenyddol gyfoes. Gyda throsiad yr Awdur-dduw y cyhoeddodd Roland Barthes farwolaeth yr awdur yn 1968. Gyda'r gymhariaeth hon rhwng yr awdur a'r Crist atgyfodedig o *life.after.theory*. yr awgrymir y dylid yn awr oedi, a hynny am ddau reswm; yn rhannol oherwydd bod Duw, er iddo farw yng ngolwg llawer, gyda ni o hyd. Ys dywed Bennett a Royle: 'to acknowledge that ... he [God] is dead is not the same as getting rid of him.'¹²⁰ Yn 'The Death of the Author', awgrymodd Barthes fod llenyddiaeth, neu ysgriflen yn hytrach, drwy wrthod cyfyngu'r testun i un ystyr yn unig yn arwain at 'what might be called an anti-theological activity, an activity that is truly revolutionary since to refuse to fix meaning is, in the end, to refuse God and his hypostases – reason, science, law'.¹²¹ Fodd bynnag, y mae crefydd eto'n amlwg iawn yn *life.after.theory* (2003), megis yr oedd yn 1988 pan nododd Jonathan Culler, '[that] seldom anyone ... seriously attacks religion'.¹²² Nid heb reswm da y nododd John Schad, felly, wrth iddo gloi'r gyfrol mai'r ymwelydd mwyaf annisgwyl a gerddodd drwy ddrws Theori ydoedd 'the enigmatic and almost embarrassing figure of God', er

¹¹⁹ Andrew Bennett a Nicholas Royle, op. cit., t. 23.

¹²⁰ Ibid., t. 152.

¹²¹ Roland Barthes, 'The Death of the Author', op. cit., t. 147.

¹²² Jonathan Culler, *Framing the Sign: Criticism and Its Institutions* (Oxford, 1988), t. 78.

gwaethaf gobeithion Barthes.¹²³ Ac yn y cyd-destun Cymraeg, wrth gwrs, cymaint mwy yr ‘embaras’, diolch i’r Calfinydd R. M. Jones. Fel y nododd Robert Rhys:

Anghysur i amryw ddeallusion cyfoes yw bod yr unig feirniad theori Cymraeg o faintioli Ewropeaidd yn Gristion o argyhoeddiad, yn arddel yn llawen ei gysylltiad â Saunders Lewis ddirmygedig a’r Foderniaeth Gymreig a lawnsiwyd gan hwnnw, ac yn gwrthod moesyngrymu’n daeogaidd i’r eilunod beirniadol diweddaraf.¹²⁴

Ond hefyd ar wahân i berthynas barhaus Theori â Duw, dewisir oedi yma gyda delwedd y Crist atgyfodedig o awdur gan fod rhyngddo a’r Awdur-dduw a’i rhagflaenodd un gwahaniaeth mawr sy’n berthnasol i’r ymgais hon o drosglwyddo nodweddion yr awdur-destun i’r cysyniad o ganon llenyddol. Hwnnw yw’r ddelwedd o gorff. Dyna’r gwahaniaeth rhwng yr Awdur-dduw a’r Crist ymgnawdoledig, croeshoeliedig, atgyfodedig. Ysbryd yw’r cyntaf. Corff yw’r ail; corff ac ynddo olion ei farwolaeth, ac sy’n byw gan wybod ei fod wedi marw. Dyna pam y mae’n ddelwedd mor addas ar gyfer yr awdur yn yr oes ôl-Theori hon, gan ei fod, yn drosiadol, nid yn unig yn pwysleisio’i allu i’w ddatgelu ei hun wrth iddo ddiplannu, a gweddnewid rhwng yr hyn ydoedd a’r hyn ydyw – rhwng James Kitchener Davies a *James Kitchener Davies*, er enghraifft – ond gan fod y tyllau yn ei ddwylo a’i draed yn atgof parhaus o’i farwolaeth.

Eisoes awgrymwyd mai dwy ochr i’r un geiniog yw’r awdur a’r canon llenyddol, wrth i’r ddadl ynghylch y naill gynnwys y llall, megis yn achos ymgais beirniad ffeminyddol i gynnwys mwy o awduresau yn y canon llenyddol. Yn llyfr olaf R. M. Jones ar theori, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, llwyddir i roi’r argraff mai tila iawn ydoedd y ddadl wrthganonaidd, yma a thu hwnt i Glawdd Offa. Meddai, er enghraifft, am feirniadaeth ffeminyddol:

¹²³ John Schad, op. cit., t. 179.

¹²⁴ Robert Rhys, *Barddas*, 271 (Chwefror/Mawrth 2003), 46.

Torrwyd twll go fawr ac anochel gan Ffeminyddion estron y 1960au, mae'n wir. Dymunwyd ailfeddwl y canon. Ond aeth y canon newydd i'r gwellt yn o fuan. Ceisiwyd archwilio iaith fenywaidd, *écriture féminine*, ond yr oedd yn rhy ddealladwy i bawb arall. O'r diwedd pendefynwyd dechrau dringo allan o'r twll linc-di-lonc drwy beidio â gwneud môr a mynydd ohono. Dechreuwyd ystyried o'r newydd ym mha le y mae synnwyr cyffredin yn sefyll wedi'r dwli i gyd.¹²⁵

Fodd bynnag, fel yr awgrymodd Angharad Price yn ei hadolygiad ar y llyfr, y mae R. M. Jones yn rhy barod â'i rethreg i ddifriō eraill.¹²⁶ Nid 'dwli' ydoedd y dadlau ynghylch y canon. Tystio i hynny, debyg, y mae'r sylw nid ansylweddol a rydd R. M. Jones i geisio gwrthbwysu llwyddiannau'r rheini a fu'n cwestiynu'r cysyniad o ganon llenyddol. Oherwydd y gwir plaen yw i'r cysyniad o ganon llenyddol gael ei herio, nid yn unig gan 'Ffeminyddion estron', ond gan wahanol garfanau Theori yng Nghymru hefyd: Marcsiaeth, ffeminiyddiaeth ac ôl-strwythuraeth. Aethpwyd ati, a dyfynnu o ysgrif Menna Elfyn, 'Trwy Lygaid Ffeminyddol', i

... gwestiynu yn gyntaf rai o'r seiliau a gymerwyd yn ganiataol gan lawer iawn o bobl, sef y rhagdybiau a gywasgwyd ynghyd yn y 'Traddodiad'. Rhaid oedd datgan, fel y gwnaeth Ruthven, nad peth sy'n bodoli heb reswm yw traddodiad ond ei fod wedi cael ei greu.¹²⁷

Ac yn dilyn y cwestiynu, awgrymwyd yn yr wyth degau gan Farcsiaid a ffeminyddion fel ei gilydd mai'r ateb i'r sefyllfa hon – a dyfynnu o ddarlith Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory* – ydoedd 'ail-ysgrifennu hanes llenyddiaeth Gymraeg o safbwynt

¹²⁵ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 124.

¹²⁶ Angharad Price, 'Tyst i Gyfraniad Rhyfeddol ...', [adolygiad o R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*], *Barddas*, 275 (Rhagfyr/Ionawr, 2003), 56. '[A]nodd yw parchu dadansoddiad Bobi Jones am ei fod mor aml yn parodio syniadau a damcaniaethau'r ysgolion beirniadol eraill.'

¹²⁷ Menna Elfyn, 'Trwy Lygaid Ffeminyddol', gol. John Rowlands, *Sglefrio ar Eiriau*, t. 23. Cymh. Iwan Llwyd Williams a Wiliam Owen Roberts, 'Myth y Traddodiad Dethol', *Llais Llyfrau* (Hydref 1982), 11, lle y nodir bod 'beirniad blaenllaw, y system addysg (ysgol a phrifysgol) ac i raddau helaeth, beirniadaeth eisteddfodol, yn dal i hyrwyddo yr hyn a ystyriwn ni yn "fyth y traddodiad dethol"'.

merched, gweithwyr a gweithwragedd'.¹²⁸ Erbyn y naw degau, cymaint yr adwaith gan rai yn erbyn y cysyniad o draddodiad nes i Simon Brooks bwysleisio bod '*Tu Chwith* yn ymddiried mewn gwahanrwydd yn hytrach nag undod'.¹²⁹ Nid yn unig cynnwys y canon a gwestiynwyd, felly, ond hefyd y cysyniad, megis yn ysgrif Rhys Evans, 'Hanes Cymru: Y Traddodiad Ofnus', lle yr amheuwyd doethineb yr arfer o '[dd]yrchafu y cwmwl o dystion a haeddodd le yn ein canon hanesyddol', ynghyd â'r duedd i '[r]ygnu ymlaen ag ystrydebau sloganaidd fel "undod" a "parhad cenedlaethol"'.¹³⁰

Y mae i ba raddau y chwaraewyd y gêm honno o ddifrif yn Gymraeg, wrth gwrs, yn gwestiwn dadleuol. Mae'n wir na ellir osgoi newydd-deb arddull a chenadwri ôl-fodernaidd *Tu Chwith*, yn enwedig wrth ddarllen y cyfrolau cyntaf dan olygyddiaeth rannol neu lwyr Simon Brooks, ac yntau'n nodi bod yma garfan o ysgrifenyddwyr a oedd 'am ailddiffinio hanfod ein seiliau beirniadol'.¹³¹ Ond fel y nododd Jane Aaron, amodol fyddai'r hyn y gallai Theori ei chyflawni yng Nghymru. Meddai:

'Rwy'n cynnig fod yna ryw fath o lithriad yn digwydd, y tu mewn i'n hagwedd baradocsaid tuag at ôl-foderniaeth, rhwng yr hen safbwynt a'r un newydd. Nid ydym yn edrych ar Gymreictod fel rhywbeth heb realiti hanfodol, fel rhywbeth rydym ni ein hunain yn ei greu ... Yn ymarferol, gwyddom mai nonsens yw hyn, ac na fydd inni, fel Cymry, unrhyw 'ddinas barhaus' yn unlle os nad ydym ni ein hunain yn ei chreu, a'i hail-greu. Ond mae gwybod hynny fel ffaith foel, fel theori, fel petai'n dinoethi'r sefyllfa'n ormodol.¹³²

Am hynny, rhaid yw i'r theoriwr dderbyn ei fod ef ei hun wrth iddo adweithio yn erbyn rhagdybiau'r gorffennol yn ddibynnol arnynt i ryw raddau hefyd. Amlygu'r

¹²⁸ Dafydd Elis Thomas, op. cit., t. 23.

¹²⁹ Simon Brooks a John Rowlands, 'Holi Simon Brooks', *Taliesin*, 92 (Gaeaf 1995), 36-7.

¹³⁰ Rhys Evans, 'Hanes Cymru: Y Traddodiad Ofnus', *Tu Chwith*, 2 (Haf 1994), 39.

¹³¹ Simon Brooks, '*Tel Quel: Tu Chwith* : Hanes Ewrop Mewn 40 Eiliad', *Tu Chwith*, 1 (Ebrill/Mai 1993), 6.

¹³² Jane Aaron, 'Cyn y Geni: Rhyngdestunoldeb a Hunaniaeth Gymreig', *Tu Chwith*, 5 (Haf 1996), 113.

berthynas amodol hon rhwng Theori a beirniadaeth lenyddol Gymraeg, er enghraifft, y mae'r ffaith y bu'n rhaid i Simon Brooks maes o law ysgrifennu ei ddarlleniad o hanes Theori yng Nghymru 'o dan lygaid y Gestapo', gan gyflwyno'i feirniadaeth ar oleuedigaeth John Morris-Jones yn yr union iaith ramadegol berffaith honno a hyrwyddwyd ganddo ef. Ac eto, tystio i enillion Theori yn y Gymru Gymraeg y mae'r llyfr hwnnw'n bennaf: enillion a oedd yn cynnwys ynddynt ymdrechion ffrwythlon yn yr wyth degau a'r naw degau i gwestiynu'r cysyniad o ganon neu draddodiad llenyddol. I'r perwyl hwn yr awgrymir yma, felly, fod delwedd yr awdur atgyfodedig yn un addas ar gyfer y cysyniad o ganon llenyddol hefyd. Oherwydd megis ôl yr hoelion yn nwylo a thraed y Crist atgyfodedig, ni all beirniad mor ddiystyriol o gyfraniad beirniadaeth ffeminyddol â R. M. Jones hyd yn oed beidio â sylwi ar ambell '[d]wll go fawr' a adawyd ganddi ar ei hôl.

Fodd bynnag, rhag ofn fod rhai yn credu mai creithio ac nid tyllu'r cysyniad a ganon llenyddol a fu'r achos mewn beirniadaeth lenyddol Gymraeg, a bod y creithiau'n ceulo cyn iddynt fygwth gwaedu, a bod y drafodaeth hon yn gwneud môr a mynydd o fawr ddim, nodir bod delwedd y Crist atgyfodedig – y corff marw, byw – eisoes yn bresennol yn y cysyniad traddodiadol o ganon llenyddol Cymraeg, ar wahân megis i fwhwman Theori ddiweddar. Mor gyfarwydd yw, yn wir, fel nad ydym yn aml yn sylwi arno, fel pe bai'n ysbryd, os nad yn ddrychiolaeth. Ystyrier, er enghraifft, y dyfyniad enwog isod o lyfr dylanwadol Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*. Meddai:

Yr hyn sy gan lenyddiaeth Gymraeg i'w osod ochr yn ochr ag amrywiaeth a chyfoeth didrefn Shakespeare a'i gydwladwyr ydyw corff o lenyddiaeth sy megis prifeglwys Othig yn adeilad canrifoedd o grefftwyr a fu'n llafurio'n ddifwlch i'r un amcan ac yn ôl yr unrhyw draddodiad ac egwyddor.¹³³

¹³³ Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg : Y Gyfrol Gyntaf: Hyd at 1535* (Caerdydd, 1932), t. 5.

Fynychaf, megis yn astudiaeth John Rowlands, *Saunders y Beirniad*, pwysleisir arwyddocâd delwedd yr eglwys.¹³⁴ Dyna'r gyffelybiaeth drawiadol-greadigol. Fodd bynnag, trosiad mwy pwerus o lawer, o safbwynt cyflwyno'r cysyniad o ganon llenyddol yw'r un bach cynnil hwnnw sy'n ei ragflaenu, sef 'corff o lenyddiaeth'. Yn benodol, o safbwynt y bennod hon, y mae'n fodd inni gymhwyso'r hyn a ddywedwyd am yr awdur-destun at y drafodaeth ddilynol ar y canon llenyddol.

Yn ei ysgrif 'Subjects', meddai Terry Eagleton: '[T]he first images the word "body" brings to mind is that of a corpse. To announce the presence of a body in the library is by no means to allude to an industrious reader.'¹³⁵ Felly hefyd yn Gymraeg. Pan ddywedir wrthym, 'Roedd corff yn y tŷ,' y mae'n ddealledig y cyfeirir at gorff marw. Felly hefyd, fe greidir, mewn perthynas â'r ymadrodd hwn, 'corff o lenyddiaeth'. Yn un peth, awduron meirw sy'n dominyddu'r canon, megis y cesglir corff o waith yr awdur ynghyd wedi iddo farw. Mewn gair, marwolaeth sy'n rhoi bod i'r canon; i'r corff. O'r herwydd, ar un olwg (fiolegol), y mae'r canon yn ffafrio marwolaeth i fywyd. Dyna'r her yn ôl T. S. Eliot i awduron byw. Meddai yn ei ysgrif, 'Tradition and the Individual Talent':

No poet, no artist of any art, has his complete meaning alone. His significance, his appreciation is the appreciation of his relation to the dead poets and artists.¹³⁶

I'r perwyl hwn, anogir y bardd i feddwl am y beirdd a'r artistiaid meirw hynny fel ei wir gymheiriaid, 'to write not merely with his own generation in his bones'.¹³⁷ Trigo – ac y mae dwy ystyr y gair yn addas – ymysg y meirw y mae, megis y mae'r

¹³⁴ John Rowlands, *Saunders y Beirniad: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1990), tt. 21, 77.

¹³⁵ Terry Eagleton, *The Significance of Theory*, t. 71.

¹³⁶ T. S. Eliot, 'Tradition and the Individual Talent', gol. David Lodge, *20th Century Literary Criticism: A Reader* (London, arg. 1995), t. 72.

¹³⁷ Ibid.

cyfeiriad at esgryn y bardd yn ein hannog i feddwl amdano eisoes ar lun corff yn pydru. Nid yn annhebyg i'r hyn a ddadleuwyd uchod yn achos yr awdur-destun, yr awgrym yn erthygl Eliot yw fod angen i'r bardd droi at y meirw cyn y gall fyw, oherwydd, ar ffurf y canon, 'the dead poets, his ancestors, assert their immortality most vigorously'.¹³⁸ Ar wahân, felly, i gredu bod y cysyniad o ganon llenyddol wedi derbyn ergyd farwol neu beidio yn sgil dyfodiad Theori, y ddadl yma yw fod y marw a'r ail-greu sy'n nodwedd ar gymeriad yr awdur-destun erioed wedi bod yn rhan o'r canon llenyddol hwnnw sy'n 'gorff o lenyddiaeth'.

Fel y nododd Terry Eagleton, 'It is not quite true that I have a body, and not quite true that I am one either'.¹³⁹ Ar ôl dydd caled o waith, gellir dweud, 'Rwy'n brifo' neu 'Mae fy nghorff i'n brifo,' fel pe bai'n wrthych. Yn yr ail frawddeg, awgryma'r ymadrodd fod y person a'r corff yn ddau beth ar wahân. Os felly, mewn perthynas â'r ymadrodd 'corff o lenyddiaeth', gellir yr un modd wahaniaethu rhwng y canon llenyddol – y strwythur, y corff – a'r testunau llenyddol nad ydynt, am nifer o resymau – awduron a chyfnodau ysgrifennu, llenddulliau a phynciau gwahanol – yn perthyn i'w gilydd, nac yn gorff. Drwy hynny, fe'n galluogir i astudio nid yn unig y testunau canonaidd eu hunain, ond hefyd agweddau o'r broses ganoneiddio ei hun. Hefyd, drwy sylweddoli mai dyfais yw'r corff – modd o dynnu ynghyd wahanol destunau – gellir gwerthfawrogi o'r newydd y cyfryw destunau eu hunain, heb boeni'n ormodol am eu rhyngberthynas â thestunau eraill. Canolbwyntio ar fwynhau'r darn unigol yn hytrach na meddwl am y cyfangorff. Dyma'r math o feirniadaeth a hyrwyddodd Roland Barthes, er enghraifft. Ar y naill law gwrthododd y cysyniad o gorff o lenyddiaeth. Meddai: 'By *literature*, I understand not a body or a sequence of works, nor even a commercial domain or area of instruction, but the complex

¹³⁸ Ibid., t. 71.

¹³⁹ Terry Eagleton, *The Significance of Theory*, t. 75.

inscription of the traces of a practice: the practice of writing.’¹⁴⁰ Ond ar y llaw arall, un o dermau pwysicaf ei waith yw ‘corff’, wrth iddo ganolbwyntio ar ymateb y darllenydd i’r testun, os nad y rhan o destun y mae’n ei darllen ar y pryd, a nodi ei fod yn ymateb iddi yn gorfforol – os nad yw corfffaidd yn ansoddair gwell – nid â’i feddwl yn unig. Meddai: ‘What I enjoy in a story is not directly its content, nor even its structure, but the abrasions I impose on the fine surface: I speed ahead, I skip, I look up, I dip in again.’¹⁴¹ Dyma iddo yw pleser y testun: ‘that moment when my body pursues its own ideas.’¹⁴² Gwelir, felly, mai ymateb y corff i lenyddiaeth, ac nid corff o lenyddiaeth a oedd yn bwysig i Barthes.

Fodd bynnag, mae’n drawiadol na lwyddodd Barthes wrth ddyrchafu ymateb y corff i lenyddiaeth i ddirymu fawr ddim ar yr awydd cyffredinol ymhlith ei ddarllenwyr ei hun i gasglu ynghyd gorff o lenyddiaeth o’i eiddo, megis yng ngolygiad Susan Sontag o’i waith, *A Barthes Reader*. Ac er gwaethaf natur chwareus ei waith, bydd beirniaid, fynychaf, yn chwilio ymysg ei weithiau am y cyfryw ddilyniant a ddirmygodd yr awdur ei hun. Ys dywed Jonathan Culler, er enghraifft:

If *La Plaisir du texte* seems not to take itself seriously as theory, self-consciously avoiding continuity, this does not mean that readers should not take it seriously, as fragments of a continuing theoretical enterprise.¹⁴³

Nododd Rick Rylance i Barthes ei hun adweithio yn erbyn ei syniadau ôl-strwythurol ar ddiwedd ei yrfa. Meddai: ‘Late Barthes works towards a more classically humanist pattern, stressing personal authenticity and a complex epistemological confidence.’¹⁴⁴ ‘Ar ein gwaethaf’ megis – a defnyddio un o hoff

¹⁴⁰ Roland Barthes, ‘Inaugural Lecture’, *A Barthes Reader*, cyf. Richard Howard, gol. Susan Sontag (London, 1982), t. 462.

¹⁴¹ Roland Barthes, *The Pleasure of the Text*, cyf. Richard Miller (London, 1976), tt. 11-12.

¹⁴² *Ibid.*, t. 17.

¹⁴³ Jonathan Culler, *Barthes*, t. 99.

¹⁴⁴ Rick Rylance, *Roland Barthes: Modern Cultural Theorists* (London, 1994), t. 140.

ymadroddion R. M. Jones – chwilir am ddilyniant a chyfanrwydd, fel pe bai ynom oll ryw awydd i osod trefn ar bethau yng nghanon ein meddwl, megis mewn llyfr safonol a chlawr caled o gerddi beirdd a fu unwaith yn feddal ansafonol o radical.¹⁴⁵

Wrth drafod gwaith Paul de Man, nododd J. Hillis Miller mai math o dwyll yw'r awydd hwn am undod.

Thinking that because Paul de Man is one name all his work must be a piece or that because 'deconstruction' is a single and singular name 'deconstruction' must be one single, univocal, homogeneous thing is one example of mystified thinking.¹⁴⁶

Ac eto, fel y nododd Julian Wolfreys, ac yntau'n trafod gwaith Miller, 'It is of course in the nature of language, conventionally conceived, that meanings are sought, definitions desired'.¹⁴⁷ Y tu allan i faes Theori y mae'r twyll hwn, ar un olwg, yn angenrheidiol. Dyna sut y defnyddir iaith yn gyffredinol, ac felly hefyd mewn erthyglau beirniadol. Ys dywed Simon Brooks: 'Mae rhywun yn cael ei dwyllo gan ffurf y ddadl resymegol gref heb sylwi fod y rhesymeg honno'n gallu bod yn fradwrus.'¹⁴⁸ Nid yw hynny, fodd bynnag, yn rheswm dros beidio ag ysgrifennu na darllen.

Cydnabyddir yr egwyddor hon o dwyll yma, yn unol â safbwynt y dadadeiladwyr. Ac eto, nid oes yma ladd arni'n ormodol chwaith. Tystio i hynny y mae arddull resymegol y traethawd hwn. Yn hyn o beth, cyflwynir yma agwedd ddeublyg, debyg i un Frank Kermode. Ar y naill law, credir '[that] [c]anons ... are of course deconstructible; if people think there should not be such things, they may very well find the means to destroy them.' Ar y llaw, ychwanegir '[that] canonicity still

¹⁴⁵ Robot Gruffudd ac Elena Gruffudd, *Y Casgliad Answyddogol* (Talybont, 1998). Gw. t. 8. 'Dyma hi, felly, y brad terfynol ...'

¹⁴⁶ J. Hillis Miller, 'Deconstruction Now? The States of Deconstruction or Thinking without Synecdoche', gol. Nicholas Royle, *Afterwords* (Tampere, 1992), t. 9.

¹⁴⁷ Julian Wolfreys, *Deconstruction. Derrida* (London, 1988), t. 14.

¹⁴⁸ Simon Brooks, 'Llythyr ynghylch ôl-foderniaeth', *Taliesin*, 93 (1996), 95.

seems an important preservative and, though under repeated attack, still potent'.¹⁴⁹ Y mae yma ryw barodrzydd i dderbyn y drefn, felly, dim ond o gael nodi ei diffygion. Y mae gwir berygl, felly, y byddaf innau yn 'apolegydd ar gyfer y *status quo*', chwedl E. Dean Kolbas.¹⁵⁰

Ni ddadleuir yma, felly, fod angen inni roi'r cysyniad o ganon llenyddol o'r neilltu. Yn hytrach, megis yn achos yr awdur dirmygedig gynt, troir y canon yn destun trafodaeth. Ymchwilir iddo. Troir y 'corff' yn wrthrych astudiaeth, ar wahân i'r llenyddiaeth y mae'n ei chynnwys. 'The subject is absolutely indispensable', meddai Derrida mewn perthynas â'r awdur. 'I don't destroy the subject; I situate it ... It is a question of knowing where it comes from and how it functions.'¹⁵¹ Yn yr un modd, awgrymir yma fod angen inni leoli'r canon llenyddol, gan archwilio o ba le y daeth a sut y mae'n gweithio. Dyna, o leiaf, ydyw'r nod ar gyfer y traethawd hwn, gan ganolbwyntio ar waith tri beirniad llenyddol. Nid cynnig diffiniad fel y cyfryw yw'r nod, ond megis ar lun astudiaeth o'r awdur-destun, testunolir yma y canon llenyddol ei hun; cynnigir darlleniad ohono, yn hytrach na chymryd ei awdurdod yn ganiataol.

¹⁴⁹ Frank Kermode, *Forms of Attention* (1985). Dyf. E. Dean Kolbas, *Critical Theory and the Literary Canon* (Cambridge, 2001), t. 32.

¹⁵⁰ E. Dean Kolbas, *ibid.*, t. 35.

¹⁵¹ Jacques Derrida, 'Discussion', gol. Richard Macksey ac Eugenio Donato, *The Structuralist Controversy: The Languages of Criticism and the Sciences of Man* (Baltimore, 1972) t. 271.

Pennod 2

Marcio'n Canon:

Testament Newydd a Chanon Llenyddol

Marcio'n Canon: Testament Newydd a Chanon Llenyddol

Yn wahanol i'r gair 'corff', os nad corpws – *le corps* i Barthes – 'whose ardent, complex, ineffable, and somehow sacred signification gives the illusion that this word holds an answer to everything', gair mwy anghyfarwydd yw 'canon'.¹ Gair yw, er enghraifft, sydd ond yn codi ei ben yng ngwaith mwyaf diweddar R. M. Jones. Ac yng ngwaith Saunders Lewis, fe'i defnyddir yng nghyswllt canon Dafydd ap Gwilym, neu i olygu 'safonau', megis yn yr ymadrodd, 'canonau beirniadol'. Oherwydd tan yn gymharol ddiweddar, sôn am 'draddodiad llenyddol' a 'chorff o lenyddiaeth' ydoedd yr arfer yn Gymraeg, nid canon. Am hynny, maentumir yma fod ei ddieithrwch cymharol yn cynnig cyfle inni edrych o'r newydd ar y gwaith o gasglu ynghyd destunau llenyddol o gyfnodau gwahanol, gan gofio mai mewn perthynas â dilysu gwaith awduron unigol y defnyddid y gair yn gyffredinol tan yn gymharol ddiweddar yn Gymraeg. Nododd Saunders Lewis fod modd i ambell air yn sgil gordefnydd ohono '[g]olli bron bob ystyr bendant'.² Rhyw air felly yw traddodiad, ar un olwg. Dyna'i rym a'i wendid yn gyfamserol.

Y mae hefyd reswm da arall dros ddefnyddio'r gair 'canon'. Yn *Seiliau Beirniadaeth* nododd R. M. Jones fod y gair 'traddodiad' yn un problemus, wrth i feirniaid gymygu ei gyfystyron â'i gilydd, a defnyddio'r un gair i ddadlau am bethau gwahanol. Nid rhyfedd, felly, i Christoph J. Nyíri ddisgrifio'r ymwybyddiaeth fodern ac ôl-fodern o'r hyn yw traddodiad, neu 'tradition', fel un 'disquietingly fuzzy', gan nodi nad yw'r modd y mae athronwyr yn trafod y cysyniad yn cyfateb i ddiffiniadau

¹ Roland Barthes, *Roland Barthes by Roland Barthes*, cyf. Richard Howard (London, 1977), t. 133.

² Saunders Lewis, 'Ann Griffiths a Chyfriniaeth', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), t. 329.

clir a llawn y geiriaduron.³ Sefyllfa ydyw sy'n peri bod un yn gorfod holi gyda

Stephen P. Turner, 'Whose Tradition About Tradition?'⁴

Yn achos llenyddiaeth Gymraeg, y broblem benodol yn ôl R. M. Jones yw hon:

Lle y bo Traddodiad yn golygu'r arferol, y cyfarwydd a'r derbyniol, iach o beth yw gweld gwrthryfel glaslanciau yn ei erbyn. Lle y bo'n golygu'r hyn sy'n werth ei ddiogelu a'i ddatblygu yn ein hanes, lle hefyd y bo'n fframwaith i wareiddiad, y mae'n fath o 'iaith' neu 'dafod' sy'n gynhysgaeth sylfaenol i holl lenyddiaeth y presennol a'r dyfodol. Yn fynych, wrth ddadlau ynghylch Traddodiad, bydd gwrthryfelwyr yn bwrw ar y diffiniad cyntaf, a'u gwrthwynebwyr hwythau'n amddiffyn yr ail, yn ôl yr arferiad gwynfydedig hwnnw o beidio â siarad â'n gilydd gan gylchymdroi ynghylch yr amherthnasol.⁵

Ni chredir y gellir llwyr osgoi'r sefyllfa hon. Fel y gwelir ym mhennod 5, y mae'r 'canon' yn medru gweithio ar lefel Mynegiant ac ar lefel Tafod yng ngwaith R. M. Jones. Ond lle y bo'r gair 'traddodiad' yn cyfeirio'n benodol at gorff o weithiau llenyddol, hynny yw, casgliad o destunau, credir y gellir defnyddio'r gair 'canon' i ddynodi hynny, gan ddeall bod 'traddodiad' yn cynrychioli rhywbeth llawer mwy anodd ei ddiffinio, megis 'fframwaith i wareiddiad', ymysg pethau eraill. Ac eto, fel yn achos yr esboniad yn y frawddeg flaenorol, rhaid nodi mai ar ffurf yr atodiad sy'n ei ddilyn y deellir ystyr y gair 'traddodiad' fynychaf.⁶

Ond o ddadlau fel hyn, rhaid holi, felly, beth yw ystyr 'canon'?

³ Christoph J. Nyíri, 'Preface', gol. idem, *Tradition: Proceedings of an International Workshop at IFK*, (Wien, 1995), t. 5.

⁴ Stephen P. Turner, 'Whose Tradition About Tradition?', *Theory, Culture & Society*, 7 (1990), 175-185.

⁵ R. M. Jones, 'Traddodiad', *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4: Cyfanweithiau Llenyddol* (Aberystwyth, 1988), t. 583.

⁶ Gw., e.e., Ifor ap Dafydd, *Saunders Lewis a'r 'Estheteg Gymreig': Agweddau ar ei feirniadaeth lenyddol* (Traethawd MPhil: Aberystwyth, 2001), t. 77. 'Yn eironig gellir darllen y trosiadau adeileddol hyn fel datganiad o wneuthurioldeb pob "traddodiad", neu naratif hanesyddol.'

Ar wahân i olygu safon, rheol neu faen prawf beirniadol, sef yr ystyr gyntaf a nodir yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*,⁷ nodir mai mewn perthynas â'r dasg o sefydlu casgliad o destunau ar sail awduraeth ddilys y cymhwyswyd y term gyntaf at lenyddiaeth seciwlar, megis yr holodd Saunders Lewis 'Sut y mae gwybod beth sy'n waith Dafydd ap Gwilym?' dan y pennawd 'CANON D.G.'⁸ Er enghraifft, yn ei ragymadrodd i'w lyfr, *Gwaith Iolo Goch*, nododd Dafydd Johnston iddo 'adael y cywydd i Owain Lawgoch allan o'r canon'.⁹ Gan ddyfynnu'r *Geiriadur*, dyma ganon yn golygu 'rhestr o weithiau dilys awdur'.¹⁰ Ond yn achos awduron hawlfraint yr ugeinfed ganrif, lle nad oes angen dilysu awduraeth eu gweithiau, esblygodd y gair i olygu dethol y gweithiau hynny 'sy'n haeddu cael eu cynnwys yn y canon o'[u] gwaith', a hynny ar sail safon lenyddol, felly, ac nid awduraeth ddilys.¹¹ Yn hyn o beth, y mae'r defnydd newydd hwn o'r gair sy'n disgrifio cynnyrch a ddetholwyd gan feirniaid yn perthyn yn agos i'r modd y dechreuwyd defnyddio'r gair i ddisgrifio'r modd yr aeth beirniaid llenyddol ati i glustnodi pa weithiau ydoedd yn perthyn i 'glasuron' yr iaith Gymraeg.¹² At hyn, nodir mai'r beirniaid hynny a oedd yn anhapus â chynnwys y 'traddodiad llenyddol' a ddechreuodd ei alw yn 'ganon', megis y nododd Simon Brooks '[na] fyddai dewis gan ffeminyddion ond ymosod ar y syniad o ganon llenyddol'.¹³

⁷ Cymh. Saunders Lewis, 'Emrys ap Iwan', *Ysgrifau Dydd Mercher* (Cyhoeddiadau'r Clwb Llyfrau Cymraeg, 1945), t. 79. '[R]haid i feirniad llenyddol pwysig a chreadigol yn yr oesoedd diweddar hyn brofi fod ganddo glust a deall ac ehangder diwylliant a chwaeth mewn barddoniaeth yn gystal ag mewn rhyddiaith. Os yw'r canonau hyn yn ddilys, fe welir yn ebrwydd nad ymroes Emrys ap Iwan o gwbl i geisio ennill llawryf y beirniad.' Gw. hefyd 'Safonau Beirniadaeth Lenyddol', *Y Llenor*, 1 (1922), 242-8.

⁸ Saunders Lewis, 'Dafydd ap Gwilym', *Meistri'r Canrifoedd*, gol. R. Geraint Gruffydd, (Caerdydd, 1973), t. 41.

⁹ D. R. Johnston, *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988), t. xxiv.

¹⁰ *Geiriadur Prifysgol Cymru: I* (Caerdydd, 1950-67), s.v. 'canon', t. 416.

¹¹ Harri Pritchard Jones (gol.), 'Rhagymadrodd', *Goreuon Storiâu Kate Roberts*, (Dinbych, 1997), t. 8.

¹² Nid oes cyd-destun seciwlar i'r gair 'canon' yn yr *Oxford English Dictionary* yn 1955. Yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*, ceir 'rhestr o weithiau awdur dilys', ond nid yr ystyr o ganon cenedlaethol.

¹³ Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd, 2004), t. 177.

Fynychaf, disgrifir y gwaith hwn o glustnodi'r 'clasuron' mewn cymhariaeth â phroses ganoneiddio'r Beibl. Dyna'r arfer, o leiaf, mewn geiriaduron a thermiaduron Saesneg. Er enghraifft, ystyrier y dyfyniad isod sy'n cyflwyno'n fras y gymhariaeth hon rhwng y canon llenyddol a'r canon Beiblaidd:

By the middle of the present century ... just as the church (or different churches) decided upon the Biblical canon, so the universities decided of which literary works the literary canon consisted.¹⁴

Y mae'r gymhariaeth, wrth gwrs, yn fodd o amlygu'r cysylltiad rhwng beirniadaeth lenyddol a phatriarchiaeth. Nododd Robert Alter y defnyddiwyd y gymhariaeth i amlygu 'the ways in which cultures achieve internal coherence through a politics of exclusion, and it thus laid the grounds for a critical and cultural reconsideration of excluded works and writers'.¹⁵

Fodd bynnag, nid yw'r gymhariaeth hon rhwng y canon llenyddol a'r un Beiblaidd mor unffurf ag yr awgryma'r pwt o ddyfyniad uchod, gan mai dadl barhaus fu ac yw'r broses ganoneiddio yn y naill achos a'r llall, nid yn unig mewn perthynas â chynnwys y canonau, ond mewn perthynas â'r cysyniad o ganon ei hun. At hyn, ys dywed Robert Alter: 'the canonicity of the Bible is by no means the simple and assured phenomenon of enshrining doctrine in text that it is often assumed to be.'¹⁶ Edrych ar ganon y Testament Newydd a wneir yma, ond deuir i'r un casgliad ag Alter parthed canon yr Hen Destament. '[A] canon can be much more flexible, and less ideologically binding, than prevalent conceptions allow.'¹⁷

¹⁴ Jeremy Hawthorn, *A Glossary of Contemporary Literary Theory* (London, 1992), t. 25. Am y drafodaeth gyflawn, gw. tt. 25-8.

¹⁵ Robert Alter, *Canon and Creativity: modern writing and the authority of scripture* (London, 2000), t. 2.

¹⁶ Ibid.

¹⁷ Ibid.

Dyma hefyd bwyslais cyson Jan Gorak yn ei lyfr *The Making of the Modern Canon*, yn enwedig mewn perthynas â'r canon clasurol. Nododd, er enghraifft, cyn i'r Apostol Paul ysgrifennu'r un gair fod i'r gair 'canon' ystyr wahanol iawn i'r awduron clasurol, o Blato i Aristoteles.

All these authors emphasize the flexibility of the canon and the importance of its adjustment to the human subjects it was designed to serve.¹⁸

Yr oedd y cysyniad clasurol o ganon yn un llawer iawn mwy agored a rhyddfrydol na'r un a ddatblygodd maes o law yn yr Eglwys, ac yn nes, o bosib, at ddelfryd y beirniad llenyddol sy'n dymuno ehangu tipyn ar gynnwys y canon llenyddol. Nododd Gorak, er enghraifft, fod Aristoteles wrth ddisgrifio'r 'dyn da' fel 'y safon a'r mesur [*kanón kai metron*] ar gyfer y bonheddig a'r dymunol' yn cyfuno'r cysyniad o ffon fesur fyrhoedlog a safon barhaol.¹⁹ Yr oedd y canon o hyd yn abl i ysgogi creadigrwydd newydd.

Fodd bynnag, mewn perthynas â chanon y Testament Newydd synied am broses o gynnwys a gwrthod yr ydym: synied am *kanón* fel detholiad gorffenedig o berfformiadau ysgrifenedig, nid fel cysail safonol ar gyfer gweithiau ysgrifenedig pellach. Y mae'r canon yn derfyn. Mae'n ffin na ellir ei chroesi. Meddai'r diwinydd, Alister E. McGrath: 'The reports we have concerning Jesus from extracanonical sources are of questionable reliability, and strictly limited value.'²⁰ Didolir rhwng y canonaidd a'r allganonaidd. Mewn perthynas â chanon y Testament Newydd, yn benodol, yr ydym yn cyfeirio at y rhestr o ysgrifeniadau a ddefnyddid gan yr eglwys ac a gydnabyddid ganddi fel ysgrythur. Yn ôl un diffiniad:

¹⁸ Jan Gorak, *The Making of the Modern Canon* (London, 1991), t. 12.

¹⁹ *Ibid.*, tt. 17-18.

²⁰ Alister E. McGrath, *Christian Theology: An Introduction* (Oxford, 1994), t. 274.

‘Canon’ is here the latinization of the Gk. *Kanón*, ‘a reed’, which, from the various uses of that plant for measuring and ruling, comes to mean a ruler, the line ruled, the column bounded by the line, and hence, the list written in the column. Canon is the list of books which the church uses in public worship. *kanón* also means rule or standard: hence a secondary meaning of Canon is the list of books which the church acknowledges as inspired Scripture, normative for faith and practice.²¹

Dyma synied am ‘ganon’ yn nhermau rheol a safon. Ystyr glasurol y gair oedd ‘gwialen’ neu ‘bren union’: yn ôl *Greek-English Lexicon* Liddell a Scott, ‘any straight rod or bar’. Dyma’r enghreifftiau a nodir yn eu geiriadur:

in Homer, *kanónes* are two rods running across the hollow of the shield, through which the arm was passed, to hold it by. 2. a rod used in weaving; the shuttle or quill by which the threads of the woof ... were passed between the threads of the warp. 3. a carpenter’s rule: meta+ph. a rule or level ray of light. 4. the beam or tongue of the balance: pl. the keys or stops of a flute.²²

Gwelir, felly, y defnyddid y gair Groeg clasurol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Fodd bynnag, y mae elfen o uniondeb yn gyffredin i bob un ohonynt. Y mae’r *kanón* yn sicrhau effeithlonrwydd, cywirdeb, cysondeb a safon arbennig. Hebdo, er enghraifft, y mae’r darian yn deilchion a’r llinell fesur yn gam. Yn achos pob un o’r gwrthrychau a restrir uchod y mae’r sawl sy’n defnyddio’r gwrthrych yn defnyddio’r *kanón* gan ei fod yn gyson-ddibynadwy ac felly’n hyrwyddo math o safon arbennig. Ac yn rhinwedd yr ystyr gyffredin honno o ddefnyddioldeb sicr a chyson-ddibynadwyaeth y cyplyswyd y gair â’r ystyr drosiadol o ‘fesur’, ‘rheol’ neu ‘safon’.

II. metaph. like Lat. *norma*, a rule or standard of excellence: - so, the old Greek authors were called *kanónes*, rules or models of excellence, classics; and the books received by the Church as the rule of faith and practice are called the Canon or canonical scriptures.²³

²¹ I. H. Marshall et al. (gol.), *New Bible Dictionary* (Leicester, 3ydd arg., 1996), s.v. ‘Canon of the New Testament’, t. 169.

²² Henry George Liddell a Robert Scott, *A Lexicon Abridged from Liddell and Scott’s Greek-English Lexicon* (Oxford, 1909), s.v. ‘kanon’, tt. 347-8.

Meddai Alexander Souter am y gair a'r defnydd trosiadol ohono: 'Besides being straight, it had to be incapable of bending. It was used also for the scribe's ruler, *regula*. It is from this literal sense of level, ruler, that all the metaphorical senses are derived.'²⁴

Y gwahaniaeth rhwng y cyd-destun clasurol a'r cyd-destun eglwysig, fodd bynnag, yw fod y cynodiad o ganon fel model yn gryfach yn y cyntaf tra bo'r cynodiad o ganon fel rheol yn gryfach yn yr ail, o leiaf mewn perthynas â gweithiau ysgrifenedig. Y modd y cyplyswyd dwy ystyr wahanol ynghyd sy'n gyfrifol am hynny, sef ar y naill law *kanón* fel corff o reolau'r Eglwys, ac ar y llaw arall, *kanón* fel rhestr. Am yr ail ystyr hon, meddai Souter:

*A kanón is a list of biblical books which may be read in the public services of a church, and, if such be produced with the authority of a synod or council, of the Church. The use of the word had in the mind of its first creator no other sense than just this. It is merely by the accident that a list if promulgated by an ecclesiastical body tends thereby to acquire an ecclesiastical authority that that mixture in sense has been produced which the word kanón has since exhibited. A confusion with the other sense of rule ... already familiar in Church life, was naturally produced.*²⁵

Gan ddibynnu yma ar ffynonellau eilaidd, ni wyddys a ellir gwahaniaethu'n union rhwng datblygiad y naill ystyr a'r llall o'r un gair, *kanón*. Awgrymodd Michael Payne, er enghraifft, mai'r ystyr o reol yr Eglwys a ddatblygodd gyntaf.²⁶ Ond yn ôl Kurt Aland: 'at first it means the *regula fidei*, then the decisions of the synods, and then finally, and only from the fourth century onwards, the list of the books of the Holy Scriptures which are entrusted to the Church for her use.'²⁷ Wedi'r cyfan, y

²³ Ibid., t. 348.

²⁴ Alexander Souter, addasiad C. S. C. Williams, *The Text and Canon of the New Testament* (London, 2il arg., 1954), t. 141.

²⁵ Ibid., t. 143.

²⁶ Michael Payne, gol. idem, *A Dictionary of Cultural and Critical Theory* (Oxford/Cambridge, Mass., 1996), s.v. 'canon', t. 91.

²⁷ Kurt Aland, *The Problem of the New Testament Canon* (London, 1962), t. 18.

mae'n amlwg fod y *kanón* y mae Paul yn cyfeirio ato isod yn blaenori'r canon o ysgrythur. Diben y rhestr o lyfrau, felly, ydoedd diogelu'r rheol ffydd a oedd eisoes yn gyfarwydd i'r Eglwys. Gwnaed hynny drwy gysylltu – nid mewn modd bwriadol – y naill ystyr a'r llall ynghyd, nes y daeth y rhestr megis yn rhan annatod o'r rheol ei hun. O'r herwydd, nid fel model ar gyfer gweithiau ysgrifenedig dilynol yr ystyrir canon y Testament Newydd – gan na ellid ychwanegu at y canon caeëdig o ysgrythur – ond yn hytrach fel model ar gyfer bywyd yr Eglwys ei hun. Yn hyn o beth, nod amgen y canon o ysgrifeniadau ydoedd diogelu'r canon ffydd (*regula fidei*). Bodolai'r canon hwnnw yn y Gair a chyn i air o ysgrifeniadau'r Apostolion gael ei ystyried yn ganonaidd. Nid cyfeirio at gasgliad o ysgrifeniadau yr oedd Paul wrth ddefnyddio *kanón*, ond yn hytrach at y 'rheol' – yr uniondeb, y cysondeb, y cywirdeb – a rannodd Duw yng Nghrist. Meddai yn Galatiaid vi 16:

A chynifer ag a rodiant yn ôl y rheol [*kanoni*] hon, tangnefedd arnynt a thrugaredd, ac ar Israel Duw.²⁸

Yn yr un modd ag yr oedd y saer yn torri'r pren gan ddilyn llinell union y *kanón*, felly hefyd yr oedd y Cristion i rodio mewn perthynas â'r *kanón*, 'y rheol', y cyfeirir ati uchod. 'Y rheol hon' y cyfeirir ati'n benodol yw 'ymffrostio ond yng nghroes ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y croeshoeliwyd y byd i mi a minnau i'r byd. Canys yng Nghrist Iesu ni ddichon enwaediad ddim, na dienwaediad, ond creadur newydd'.²⁹ Nid oedd angen i'r Galatiaid gael eu henwaedu yn ôl y ddeddf. Y rheol, felly – y canon – yw'r 'rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist ni'.³⁰ Y canon, i Paul, oedd y 'testament newydd yn fy ngwaed i', nid y Testament Newydd.³¹ Canon o

²⁸ Galatiaid 6:16.

²⁹ Galatiaid 6:14-15.

³⁰ Galatiaid 5:1.

³¹ Luc 22:20.

ffydd, nid o ysgrythur ydoedd. Mewn perthynas â'r gair 'testament', er enghraifft, meddai J. Gresham Machen:

The phrase 'new covenant' occurs about five times in the New Testament. In none of these passages does the phrase refer to the 'New Testament' in our sense. It designates a new relationship into which men have been received with God.³²

Yr oedd 'canon' a 'thestament newydd' yn golygu rhywbeth gwahanol iawn i Paul o'u cymharu â'n diffniadau llenyddol ni. 'Canys mi a draddodais i chwi ar y cyntaf yr hyn hefyd a dderbyniais,' meddai Paul yn I Corinthiaid 15:3, 'farw o Grist dros ein pechodau ni, yn ôl yr ysgrythurau.'³³ Rhaid cofio am y modd y traddodwyd yr Efengyl ar lafar. (Yr ysgrythur yma, wrth gwrs, yw'r Hen Destament.) Disgwyliai Paul i'w frodyr yn Thesalonica ddal y traddodiadau a ddysgasent, 'pa un bynnag ai trwy ymadrodd, ai trwy ein hepistol ni'.³⁴ Fel y pwysleisiodd James Barr: 'St. Paul came to believe that Jesus was alive and was Lord, but not because he had read about it in any written Gospel.'³⁵ Anodd meddwl nad 'Beibl i bawb o bobl y byd' ydoedd ei arwyddair. Ond ys dywed Barr:

Only later, after scripture had been formed and delimited, after the Bible had come to be perceived as a complete, finished, and delimited entity, did it become natural or indeed possible to see and to define Christianity as a scriptural religion ... determined and controlled by a written holy book.³⁶

Nodir, felly, nad awduron sy'n creu canonau. Yn achos y Testament Newydd, wrth gwrs, nid ystyriaeth fechan oedd anallu'r traddodiad llafar i gyfleu hanesoldeb y dystiolaeth apostolaidd i'r bedwaredd a'r bumed genhedlaeth o Gristnogion. Ond fel

³² J. Gresham Machen, *The New Testament: an introduction to its literature and history* (Edinburgh, 1976), t. 15.

³³ I Corinthiaid 15:3.

³⁴ 2 Thesalonicaid 2:15.

³⁵ James Barr, *Holy Scripture: Canon, Authority, Criticism* (Oxford, 1983), t. 1.

³⁶ Ibid.

egwyddor gyffredinol, nodir yma hefyd mai darllenwyr dilynol sy'n canoneiddio gweithiau'r awduron, gan ddefnyddio, o bosib, eu hysgrifeniadau mewn modd na fwriadwyd ar eu cyfer yn yr achos cyntaf. Yr Eglwys a olynodd Paul a ganoneiddiodd ei gysyniad rhyddfrefiniol o'r *kanón*. Mewn perthynas â'r adnod hon, er enghraifft, meddai Calvin: 'his law ought to be our rule for living', ond cyferbynnu'r rhyddid newydd sydd yng Nghrist *mewn perthynas â'r ddeddf* y mae'r rheol hon i Paul.³⁷ Bu'r Eglwys, ac yn sicr er dyddiau'r Diwygiad Protestannaidd, yn cysylltu ffydd yng Nghrist â'r gair ysgrifenedig mewn modd na wnaeth yr Apostol ei hun – o leiaf, mewn perthynas â'i ddefnydd ymarferol, personol o'i ysgrifeniadau ei hun a'i gyfoeswyr. Nid yw hynny'n gwadu na pharchai'r Hen Destament fel ysgrythur sanctaidd, ac nad ystyriai fod i'w eiriau ysgrifenedig ei hun awdurdod dwyfol: 'gorchmynion yr Arglwydd', meddai; 'Crist yn llefaru ynof'.³⁸ Nodir hefyd ei fod yn dyfynnu o Efengyl Luc fel llyfr a chanddo awdurod cydradd ag eiddo'r Hen Destament.³⁹ Ond o geisio dyfalu beth oedd byw trwy ffydd yn ei olygu iddo, yn ymarferol – un nad oedd ganddo Destament Newydd – y mae'r *kanón* a oedd megis yn cynnwys Paul, ac yn ei ryddhau, yn wahanol i'r canon a ddaeth i gynnwys ei ysgrifeniadau, a chau amdanynt. Darllenir yn II Corinthiaid 3:1-6 fod 'y llythyren yn lladd, ond yr Ysbryd yn bywhau.'

Fodd bynnag, i'r Eglwys, yr oedd ac y mae llythyrau'r Apostol Paul yn llythrennau ysbrydoledig, ac yn fodd i'w chyfarwyddo, nid yn annhebyg i'r modd yr oedd yr Ysbryd yn cyfarwyddo'r Apostol ei hun. O ganlyniad, mewn perthynas â'r gair ysgrifenedig, gellir dadlau y cyfyngir ar y rhyddid newydd hwn yng Nghrist. O leiaf, fe'i diffinnir mewn perthynas â'r cyfrwng ysgrifenedig i raddau llawer mwy nag

³⁷ John Calvin, cyf. Arthur Golding, *John Calvin's Sermons on Galatians* (Edinburgh, 1997), t. 656.

³⁸ 1 Cor. 14:37; 2 Cor. 13:3; Gw., Rhuf. 2:16; Gal. 1:8-9; 1 Thess. 2:13; 4:8, 15; 5:27; 2 Thess. 3:6, 14.

³⁹ 1 Tim. 5:17-8, sy'n dyfynnu Deut. 25:4 a Luc 10:7. Gw. Wayne Grudem, *Systematic Theology: An Introduction to Biblical Doctrine* (Leicester, 1994), tt. 61-2.

yn achos y sawl a ddefnyddiodd y cyfryw gyfrwng er mwyn hyrwyddo'r ffydd newydd yng Nghrist. Pwysleisiodd Justo González, er enghraifft, fod 'pellter' rhwng Cristnogaeth y Testament Newydd a Christnogaeth y tadau apostolaidd:

References to Paul and the other apostles are frequent; but in spite of this the new faith becomes more and more a new law, and the doctrine of God's gracious justification becomes a doctrine of grace that helps us act justly.⁴⁰

Y mae modd dehongli'r newid hwn mewn perthynas â datblygiad sefydliadol yr Eglwys, a'i hangen i gadw trefn ar ei gwahanol gynulleidfaoedd. Cyfeiriodd Roger E. Olsen, er enghraifft, at y gwahaniaeth rhwng y modd yr oedd Paul a Clement yn ceisio hyrwyddo undod ymhlith aelodau'r Eglwys. Meddai:

Whereas Paul had pointed to their union in one Spirit and one baptism through faith in Christ, Clement ordered them to obey the bishop God had appointed to be over them.⁴¹

Ond, ar wahân i'r ystyriaeth sefydliadol hon, mewn perthynas â'r '*kanón*' Pawlaidd, gellir dadlau yr ychwanegwyd, maes o law, at y pellter hwn ymhellach yn sgil cyfieithiad Lladin y gair. Meddai Souter:

The occasional application, also, of *regularis* as a translation of *kanonikós*, was doomed to cause misunderstanding among the Latins as to the original force of the term *canon*, used in connexion with Scripture. This caused them to conceive of Scripture as the highest, and in matters of faith the final, authority.⁴²

⁴⁰ Justo González, *A History of Christian Thought, vol. 1: From the Beginnings of the Council of Chalcedon* (Nashville, arg. diwygiedig 1987), t. 86.

⁴¹ Roger E. Olson, *The Story of Christian Theology: Twenty Centuries of Tradition & Reform* (Leicester, 1999), t. 43.

⁴² Alexander Souter, *op. cit.*, t. 143.

Nid oedd y *canon* o anghenraid, felly, yn adlewyrchu'r *kanón* gwreiddiol, yn yr un modd nad yw'r cyfieithiad Cymraeg 'rheol' yn cyfleu ystyr greadigol-grefftus y gair Groeg o fesur yn gywir.⁴³

Fodd bynnag, rhaid peidio â meddwl mai penrhyddid oedd y rhyddid newydd hwn yng Nghrist i Paul. Mewn perthynas â'r Galatiaid, meddai Jan Gorak: 'For Paul, a "canon" erases rather than transmits established standards.'⁴⁴ A gwir hynny. Ond yn 2 Corinthiaid 10, mewn perthynas â'r 'rheol a rannodd Duw i ni', cyfeiria Paul hefyd at 'ein rheol' a hynny mewn cyferbyniad â 'rheol un arall'.⁴⁵ Fel model o Gristion, neu enghraifft o safon Gristnogol, yr oedd Paul yn awyddus na fyddai'r Corinthiaid yn dilyn modelau eraill o safon. Yr oedd 'canon' hefyd yn hyrwyddo safon arbennig o ffydd. Yr un Efengyl yr oedd Paul yn ei phregethu o hyd, ac ystyriai ei fod ef ei hun yn gyson, ac yn esiampl i eraill. Nid oedd dyrchafu rhyddid yn gyfystyr â hyrwyddo amwysedd.

Felly, cyn sefydlu canon y Testament Newydd, yr oedd i'r gair gysylltiadau pendant â safon o fywyd newydd, neilltuedig yng Nghrist. Amlygwyd y fath gysylltiadau yn yr ail ganrif, yn ôl Dafydd G. Davies, 'mewn llenyddiaeth Gristnogol sy'n trafod traddodiad yr Eglwys ac yn sôn am "reol gwirionedd" neu "reol ffydd"'.⁴⁶ Dyma ydoedd y *kanón* a *dderbyniodd* yr Eglwys, sef ffydd, o Grist, yng Nghrist. Mewn ymadroddion o'r fath – *regula fidei, regula veritatis* – y mae ymwybyddiaeth bendant, wrth gwrs, o safon arbennig, yn neilltuo credoau ac arferion arbennig, gwirioneddau penodol, ac eraill yn cael eu gosod o'r neilltu, neu eu gwahardd. Ceid 'rheol gwirionedd' gan na ellid coleddu'r anwir, yn yr un modd ag y ceid 'rheol ffydd' i warchod rhag heresiaïau. Ac yn yr hinsawdd hon o geisio diogelu'r canon ffydd

⁴³ Ni thrafodir perthynas y cysyniad o ganon â'r Diwygiad Protestannaidd yma. Cyfyngir y drafodaeth i'r pedair canrif gyntaf.

⁴⁴ Jan Gorak, *op. cit.*, t. 22.

⁴⁵ 2 Corinthiaid x 13. Gw. hefyd ad. 15-16 o'r un bennod.

y dechreuwyd defnyddio'r gair mewn perthynas ag ysgrifeniadau eglwysig yn y bedwaredd ganrif. Yn yr un modd ag yr oedd angen diffinio'r rhyddid newydd yng Nghrist, rhaid hefyd oedd amlygu pa lyfrau'n union a oedd yn tystio i'r rhyddid hwnnw, ac yn eiddo, o'r herwydd, i'r Eglwys.

Cyfeiriodd Origen at yr 'ysgrythurau canonaidd', ac ym mhumdegau cynnar y bedwaredd ganrif, cyfeiriodd Athanasius at *Bugail* Hermas fel gwaith 'nad yw'n perthyn i'r Canon'. Yn 367, yn ei bedwerydd llythyr pasgaidd ar bymtheg ar hugain cyfeiriodd yr un esgob at y Testament Newydd fel ag y mae gennym heddiw. Dyma ddiffinio'r canon caeëdig, terfynol. Lle y digwyddodd hynny yn y Dwyrain, yn y Gorllewin, ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, yn 397 O.C., ceid yn adroddiad Cyngor Laodicea gyfeirio at 'lyfrau canonaidd'. Cyflwynid rhestr nid annhebyg i eiddo Athanasius. Nododd Dafydd G. Davies fod y gair 'canon' o hyn ymlaen 'yn cynrychioli'r "casgliad cydnabyddedig o lyfrau" a ddewiswyd ac a dderbyniwyd fel safon ffydd a bywyd yr Eglwys Gristnogol'.⁴⁷

O ran y broses ganoneiddio ei hun, a'r cymhellion y tu ôl i ffurfiad y Testament Newydd, credir y gallai astudiaeth fer o'r hanes fod yn berthnasol iawn ar gyfer ystyried y cysyniad o ganon llenyddol cenedlaethol. Nid yn gymaint am fod y Beibl heddiw'n derbyn cymaint o sylw o fewn rhai canonau llenyddol, ond yn hytrach am fod yn natblygiad hanesyddol y llyfr nifer o gymariaethau cysyniadol posib â datblygiad hanesyddol y canonau llenyddol sydd bellach yn ei gynnwys. Awgrymir nid yn anaml, fel yn y dyfyniad ar ddechrau'r erthygl, i'r prifysgolion – yn Lloegr, neu America, ond cymhwysir y sylw yma at y sefyllfa yng Nghymru yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif – ymddwyn mewn modd nid annhebyg i'r Eglwys gynnar: bod tebygrwydd, megis, rhwng ymdrech Saunders Lewis, ymhlith eraill ar y naill law, a'r

⁴⁶ Dafydd G. Davies, *Canon y Testament Newydd: Ei Ffurfiad a'i Genadwri* (Abertawe, 1986), t. 7.

⁴⁷ *Ibid.*

tadau apostolaidd ar y llaw arall i hyrwyddo casgliad arbennig o ysgrifeniadau. Y cyfryw gymhariaeth a roes fod i'r bennod hon. Ond yn sgil y darllen a wnaed ym maes canon y Testament Newydd a hanes cynnar yr Eglwys, gwelwyd bod unrhyw gymhariaeth a wneir rhwng y cysyniad o ganon llenyddol a hanes canon y Testament Newydd, mewn gwirionedd, yn gorfodi'r beirniad llenyddol i werthfawrogi mor arwynebol yw'r gymhariaeth ac mai proses gymhleth, ddadleuol ac amlweddog ydoedd ffurfiad y canon Beiblaidd hwnnw y cyfeirir ato fel model ar gyfer y canon llenyddol. Mewn gair: ni ddylid synied am yr hanes cythryblus yn nhermau ein diffiniad cyfyng ni o'r gair. Megis yng ngwaith Brevard S. Childs, *The New Testament as Canon*, gwelir yma fod y cysyniad o ganon yn allweddol ar gyfer deall hanes y Testament Newydd, a bod modd inni ddeall gwaith beirniadol Saunders Lewis, R. M. Jones ac Alan Llwyd yn well yng nghyswllt y cysyniad o ganon llenyddol.

Y mae'r cysyniad hwnnw, heddiw – o leiaf mewn perthynas â'r ystyr o un canon llenyddol, cenedlaethol, lledgaeädig – yn un dadleuol. Meddai Sven P. Birkerts am y sefyllfa yn Lloegr: 'In colleges and universities all over the country teachers and administrators are locked in fierce struggles over the canon.'⁴⁸ Ni theimlir bod hynny'n wir i'r un graddau yma yng Nghymru yn achos y canon llenyddol Cymraeg, a hynny'n rhannol yn sgil grym y traddodiad beirniadol empeiraidd, ynghyd â mesur da o gydweithio mewn nifer gyfyngedig o sefydliadau. Ond fel y gwelir ym mhennod 5, rhan o gymhelliad R. M. Jones dros hyrwyddo math arbennig o ganon llenyddol yw sylweddoli mor amlwg yw'r gwrthwynebiad iddo, yn arbennig, felly, mewn perthynas â beirniadaeth ffeministaidd, hoyw a sosialaidd. Afraid dweud bod y cysyniad o ganon llenyddol – yn cynrychioli ond y gorau o gynhyrchion llenyddol – yn wrthun i

⁴⁸ Gw. Sven P. Birkerts (gol.), 'Preface', *Literature: the Evolving Canon* (London, 2il arg., 1996).

unrhyw feirniad sy'n amau'r modd yr hyrwyddir y fath gysyniad eclectig â Llenyddiaeth Fawr. Ac eto, cymeradwyo'r astudiaeth hon o hanes canon y Testament Newydd y mae'r fath sefyllfa ddadleuol, bresennol ym maes beirniadaeth lenyddol Gymraeg. Oherwydd, a dyfynnu Bart D. Ehrman:

Christianity in the second and third centuries was in a remarkable state of flux. [...] [T]he diverse manifestations of its first three hundred years – whether in terms of social structures, religious practices, or ideologies – have never been replicated.⁴⁹

Nid yn annhebyg, felly, i'n hoes ôl-fodern ni, datblygodd canon y Testament Newydd mewn perthynas â lluosedd o leisiau. Un o'r lleisiau hynny ydoedd Marcion, a'i gyfraniad dadleuol ef a drafodir yn y bennod hon, yn anad dim gan y'i hystyrir ef gan nifer fawr o ysgolheigion fel yr un a lefarodd gyntaf ar y mater dan sylw. Y nod yma, felly, yw marcio'n canon lenyddol.

Nododd Isaac Thomas fod 'y cynnig cyntaf i bennu canon yr Ysgrythurau Cristnogol' yn eiddo i Marcion, sef, o safbwynt yr Eglwys, heretic mwyaf dylanwadol yr ail ganrif.⁵⁰ Cysylltir ei enw yn aml â Gnosticiaeth, fel yng ngwaith Isaac Thomas. Felly y dadleuodd Barbara Aland hefyd, yn groes i ddehongliad Adolf von Harnack. Ond, gan ddilyn Harnack, meddai E. G. Padgett: 'While Marcion was no doubt influenced by Gnosticism, he differed from it in too many ways to be called a Gnostic.'⁵¹ A dyfynnu o lyfr Bruce M. Metzger, *The Canon of the New Testament*, sydd ond yn ymroi i'r ddadl mewn troednodyn:

Marcion developed a non-Gnostic soteriology, rejected cosmological mythology, and radicalized Paul's view of human inability to transcend the world.⁵²

⁴⁹ Bart D. Ehrman, *The Orthodox Corruption of Scripture* (Oxford, 1993), t. 3.

⁵⁰ Isaac Thomas, *Arweiniad Byr i'r Testament Newydd* (Caerdydd, 1963), t. 44.

⁵¹ A. G. Padgett, 'Marcion', gol. Ralph P. Martin a Peter H. Davids, *Dictionary of the Later New Testament* (Leicester, 1997), t. 706.

⁵² Bruce M. Metzger, *The Canon of the New Testament* (Oxford, arg. 1997), t. 91.

Yr oedd Irenaeus, sef un o apolegwyr cyntaf y ffydd Gristnogol, fodd bynnag, yn edrych ar Farcion fel Gnostig. Ymwrthodai â'r byd materol ac â'r cnawd – gan gynnwys rhyw a phriodas – ynghyd ag ymgnawdoliad dynol Crist. Yn Gnostig ai peidio, y mae'r dyfyniad isod o eiddo D. P. Davies yn cyfleu'r pwyslais gnostig ar ddyrchafu'r enaid ac iselhau'r cnawd yr oedd Marcion ei hun yn ei arddel. Fe'i dyfynnir er mwyn amlygu'r cysylltiad rhwng credoau gwahanol a chanonau gwahanol.

Craidd y gred oedd deuoliaeth fetaffisegol, hynny yw, dau fyd, y naill yn ysbrydol a'r llall yn faterol, a'r byd materol yn ddrwg ac yn dywyll. Mae'r enaid yn garcharor o fewn y byd materol, ac nid oes modd iddo ddianc ond trwy ennill gwybodaeth sy'n dod ambell waith trwy gyfrwng gwardwr. Fe ddefnyddir mytholeg a themau mytholegol yn helaeth, ac yn y ffurf gyfeiliornus yma ar Gristnogaeth fe gyflwynir Iesu fel gwardwr yn dod o'r byd uchod i ryddhau'r enaid sy'n dychwelyd gydag ef i'r goleuni. Mae'n achub dyn trwy ddatguddio gwybodaeth am darddiad y byd a lle dyn yn y byd, ac, yn bwysicach, am y ffordd y gall dyn ddianc o'r byd i undeb â Duw.⁵³

Gellir cymhwyso'r dyfyniad at ddisgrifio credoau Marcion, ond nid y pwyslais ar fytholeg, neu fytholeg yn unig. Oherwydd, fel y pwysleisiodd Robert Smith Wilson, seiliodd Marcion ei ddiwinyddiaeth ar ffynhonnell amgenach na syniadau athronyddol ei ddydd. Meddai:

The general body of teaching of the Gnostics contains many elements extracted from the heathen beliefs round about them, or spun out of their own imaginings. [...] Marcion, on the other hand, had a biblical theology; he found the keys to the interpretation of past history, present experience, and future destiny, in the literal understanding of a book.⁵⁴

A'r llyfr hwnnw sydd o ddiddordeb inni yma gan ei fod yn amlygu'r rhyngberthynas sy'n bodoli rhwng credo a chanon, a rhwng credo-au a chanon-au. Oherwydd yn ôl

⁵³ David Protheroe Davies, *Yr Efengylau a'r Actau* (Caerdydd, 1978), t. 129.

⁵⁴ Robert Smith Wilson, *Marcion: a study of a second-century heretic* (London, 1932), t. 77.

Wilson, Marcion oedd y cyntaf i ddiffinio diwinyddiaeth y glasnw hwnnw, 'Cristion': y cyntaf i ofyn ...

What must a man really accept in doctrine and in literature if he is to call himself Christian? And this involved the collection of a definite body of literature with canonical authority.⁵⁵

Hyd yn oes os nad Marcion ydoedd y cyntaf i ofyn y fath gwestiwn, ymddengys mai ef oedd y cyntaf i gynnig ateb cwbl wahanol, ond trylwyr, i eiddo'i gyfoedion: ateb a oedd yn herio diwinyddiaeth gynhenid yr Eglwys. Oherwydd, i Marcion, nid yr un ydoedd Duw'r Hen Destament â'r Duw Goruchaf a ddatguddiodd Crist i'r byd. Gan amlygu'r dylanwad Gnostig ar ei feddwl, gwahaniaethodd rhwng y ddau Dduw: 'between the Supreme God of goodness and an inferior God of justice, who was the Creator and the God of the Jews. He regarded Christ as the messenger of the Supreme God.'⁵⁶ Yr oedd, o'r herwydd, yn gwrthod yr Hen Destament yn ei gyfanrwydd. At hyn, pwysleisiodd Metzger y credai fod y deuddeg Apostol wedi camddeall dysgeidiaeth Crist a chamgyflwyno ei eiriau. Dim ond yr Apostol Paul a ddeallodd *nad* Meseia'r Duw Iddewig ydoedd, ond yn hytrach negesydd y Duw Goruchaf: dehongliad a seiliwyd yn rhannol ar bennod gyntaf yr Epistol at y Galatiaid. O'r herwydd, derbyniodd Marcion fod awdurdod arbennig yn perthyn i'r naw Epistol a ddanfonodd Paul at saith eglwys, ynghyd â'r llythyr at Philemon. Ys dywed Metzger: 'These ten Epistles became for him the source, the guarantee, and the norm of true doctrine.'⁵⁷ O ran yr Efengylau, trodd at Efengyl Luc, gan ei fod, o bosib, yn ei ystyried yn ddisgybl i Paul.

Ond ar wahân i'r ddiwinyddiaeth megis, yr hyn sy'n ddiddorol i'r astudiaeth bresennol yw gwleidyddiaeth yr hanes. Oherwydd gellid dadlau mai'r ymgais hon o

⁵⁵ Ibid., t. 121.

⁵⁶ Bruce M. Metzger, op. cit., t. 91.

eiddo Marcion a ysgogodd Gristnogion mwy unionged i ddiogelu'r 'traddodiadau' a gyflwynwyd iddynt ar ffurf canon ysgrifenedig, cydnabyddedig, ac anwybyddu pwyslais Papias – pwyslais a adleisir hefyd yng ngwaith Iestyn Ferthyr – ar ddilysrwydd 'y llais byw sy'n goroesi o hyd': sylw sy'n awgrymu ym marn R. Beasley-Murray 'that he did not regard what was written about Jesus as uniquely Scripture'.⁵⁸ Yn ôl y ddadl hon, Marcion yn anad neb a oedd yn gyfrifol am y cysyniad o Destament Newydd, ac am gyflwyno'r fersiwn gyntaf ohono. Ond, fodd bynnag, nid yw'r ddadl honno heb wrthddadl gref iawn. Yn un peth, onid oedd yr Eglwys ei hun yn gyfarwydd â'r Epistolau Pawlaidd ac Efengyl Luc eisoes? At hyn, nid ystyriaeth fechan, hwyrach, yw fod Marcion ei hun wedi bod yn aelod o un o eglwysi Rhufain, cyn iddo yn 144 gael ei esgymuno ohoni. Cofiw'n mai Paul a sefydlodd yr eglwys yn Rhufain.

Ynghylch union bwysigrwydd Marcion, nid yw'r beirniaid yn gytûn o gwbl, ac efallai fod a wnelo egwyddor tueddrwydd a archwilir yn y bennod nesaf, ynghyd â pherthynas beirniaid â thraddodiadau gwahanol o ysgrifennu rywbeth â'r anghytundeb. Ar y naill law, pwysleisiodd Hans von Campenhausen, er enghraifft, mor chwyldroadol o newydd ydoedd y canon Marcionaidd:

[T]he idea and the reality of a Christian Bible were the work of Marcion, and the Church which rejected his work, so far from being ahead of him in this field, from a formal point of view simply followed his example.⁵⁹

Ar y llaw arall, cymedrolir y pwyslais hwn gan eraill. Mewn cyferbyniad â'r dyfyniad uchod, er enghraifft, dyfynnodd F. F. Bruce farn Theodor von Zahn:

⁵⁷ Gw. *ibid.*, t. 92.

⁵⁸ Gw. Arthur G. Patzia, *The Making of the New Testament: Origin, Collection, Text & Canon* (Leicester, 1995), tt. 63, 67.

⁵⁹ Hans von Campenhausen, *The Formation of the Christian Bible* (London, 1972), t. 246.

Marcion formed his Bible in declared opposition to the holy scriptures of the church from which he had separated; it was in opposition to his criticism that the church in its turn first became rightly conscious of its heritage of apostolic writings.⁶⁰

Cytuno â von Zahn y mae Bruce: ‘Marcion’s “canon” was his revision of an existing collection of New Testament writings.’⁶¹ Honno yw’r ddadl, fe gredir, sy’n argyhoeddi – yn rhesymegol, felly – er y mae’n weddus cydnabod fy mod i fy hun yn darllen hyn oll o du traddodiad beirniadol efengylaidd. Ond er gwaethaf yr anghytundeb, ar y cyfan – gyda Harnack, von Campenhausen a Goodspeed ar y naill law, a Blackman, Bruce a Gamble ymhlith eraill ar y llaw arall – fe ymddengys mai’r consensws cyffredinol yw fod gweithgarwch Marcion – yn ôl Hahneman, ‘an early promoter of a collection of New Testament scriptures’, nid cynllunydd y canon cyntaf⁶² – wedi symbylu’r Eglwys i gyflymu proses o ganoneiddio a oedd eisoes mewn bodolaeth. Y cwestiwn dadleuol yw diffinio’n union natur y gweithgarwch hwnnw, ynghyd â pha faint o’r broses a oedd eisoes wedi cymryd lle yn yr Eglwys. Ai cynllunio, cyflwyno neu hyrwyddo a wnaeth Marcion? Ai’r canon ei hun, ynteu’r syniad y tu ôl iddo a oedd yn chwyldroadol? Ond yn sicr, ni ddylid ar unrhyw gyfrif synied *nad* oedd gan yr Eglwys ar unrhyw adeg gasgliad – os na ellir defnyddio’r gair ‘corff’ – o ysgrythur, sef llenyddiaeth grefyddol y cyfeirir ati mewn perthynas ag awdurdod crefyddol. Meddai W. G. Kummel, er enghraifft, am Iesu a’i ddisgyblion.

They took over the OT as “the scriptures” (Mk. 12:24) from Judaism and quoted from all three parts of the later OT canon [nad oedd eto wedi ei

⁶⁰ Theodor von Zahn, *Geschichte des neutestamentlichen Kanons*, I (Erlangen/Leipzig, 1888), t. 586. Cyfieithiad F. F. Bruce. Gw. isod.

⁶¹ F. F. Bruce, *The Canon of Scripture* (Glasgow, 1988), tt. 144, 147. Meddai: ‘in the light of such treatises from Nag Hammadi it can be argued with some show of reason that Marcion’s “canon” was his revision of an existing collection of New Testament writings – in particular, that his *Apostle* was his revision of an existing copy of the Pauline letters.’

⁶² Geoffrey Mark Hahneman, *The Muratorian Fragment and the Development of the Canon* (Oxford, 1992), t. 93.

ffurfioli'n derfynol]. Thus from the beginning it was self-evident to the primitive church that God's revelation was set down in written form.⁶³

Yr oedd Paul, er enghraifft, yn dyfynnu'r ysgrythurau'n helaeth, ac, er gwaethaf y cyfeiriad at 'y llythyren yn lladd' – y cyd-destun yw ei fod yn amddiffyn ei apostoligrwydd, nid trwy gyfrwng llythyr, ond ar sail ei waith yn sefydlu eglwys – yn ysgrifennu fel un a feddai ar awdurdod.

Y broblem, fodd bynnag, fel y pwysleisiodd Albert Sundberg yw fod angen inni wahaniaethu rhwng y cysyniad o ysgrythur a'r cysyniad o ganon.⁶⁴ Yn ddamcaniaethol nid yw honno'n dasg anodd – pe bai modd cytuno ar ddiffiniadau – ond yn ymarferol, y mae'r defnydd hanesyddol o lyfrau – mewn perthynas â'r cysyniad o ganon, o leiaf – yn gwneud y dasg yn un ddyrys iawn. Oherwydd, yng ngeiriau Udo Schnelle: 'The problem posed by the concept of canon consists in the fact that the New Testament documents originated with no canonical claim attached to them, but they were later declared to be canonical.'⁶⁵ A gellid cymhwyso'r sylw at berthynas gwaith ysgrifenedig – emyn, dyweder – â chanon llenyddol, neu unrhyw ysgrifen o'r gorffennol a ddiffinnir heddiw fel 'llynyddiaeth'. Y broblem hon, hwyrach, o alw'r un gwrthrych wrth enw arall, heb gael gwared ar y naill enw na'r llall, sy'n cyfrif am y gwahaniaeth barn ynghylch perthynas canon Marcion â chanon yr Eglwys. Oherwydd wrth sôn am yr Eglwys yn canoneiddio'r Epistolau neu'r Efengylau, nid synied yr ydym am broses o ddarganfod ysgrythurau o'r newydd megis, ond am broses o gadarnhau'n gyhoeddus awdurdod y cyfryw ysgrythurau a oedd eisoes yn cael eu defnyddio yn y gwahanol eglwysi. Meddai Wayne Grudem, â gorbwyslais, o bosib, ar rôl oddefol yr Eglwys:

⁶³ W. G. Kummel, *Introduction to the New Testament* (London, 1966), t. 335.

⁶⁴ Albert Sundberg, 'Towards a Revised History of the New Testament Canon', *StudEvan* 4/1 (1968), tt. 453-4.

⁶⁵ Udo Schnelle, *The History and Theology of the New Testament Writings* (London, 1998), t. 7.

[T]he work of the early church was not to bestow divine authority or even ecclesiastical authority upon some merely human writings, but rather to recognize the divinely authored characteristic of writings that already had such a quality.⁶⁶

Ond erys y pwyslais yn gywir. Wrth drafod yr hanes mewn perthynas â'r cysyniad o ganon, y mae'n eironig sylweddoli nad y dadlau ynghylch meini prawf penodol, er y caed hynny hefyd, ond y defnydd parhaus a wnaed o lyfrau ydoedd y dylanwad mawr ar y broses ganoneiddio. Fel y dywedodd Brevard S. Childs:

It is hard to escape the impression that the later expositions of the criteria of canonicity were, in large part, after-the-fact explanations of an expression of the church's experience of faith in Jesus Christ which were evoked by the continued use of certain books.⁶⁷

Yn yr un ysbryd â Childs, a chan arddel safbwynt semantig Sundberg, nododd Hahneman nad oes *raid* i ysgrythurau ymffurfio'n ganon. Meddai: 'It is entirely possible to possess scriptures without having a canon, and this was in fact the situation in the first few centuries of the Church.'⁶⁸ Mae'n bwynt elfennol, ond un sydd – yn enwedig gan fod modd inni orbwysleisio arwyddocâd neu newydd-deb 'canon' Marcion – angen ei nodi. Defnyddid yr ysgrythurau a ganoneiddiwyd gan yr Eglwys *cyn* ac *wrth* iddynt gael eu canoneiddio. Nid yw dweud hynny, fodd bynnag, yn gwadu nad edrychid ar ysgrythurau a ganoneiddiwyd mewn golau gwahanol i'r modd y'u hystyrid yn eu cyflwr cynganonaidd. Dyna un o'r rhesymau pam y mae 'pellter' rhwng Cristnogaeth yr Apostolion a Thadau'r Eglwys, wrth i'r gair ysgrifenedig, yn hytrach na gweithredu'n symbolaidd – a chyfeirio'r darllenwyr at Arwyddedig allanol – fagu arwyddocâd symbolaidd ynddo'i hun ac iddo'i hun. Yn absenoldeb yr Apostolion a'r genhedlaeth gyntaf o Gristnogion a'u holynodd, ac

⁶⁶ Wayne Grudem, op. cit., tt. 67-8.

⁶⁷ Brevard S. Childs, *The New Testament as Canon* (London, 1984), t. 32.

mewn ymateb i heresiâu'r ail a'r drydedd ganrif, sef unrhyw ddysgeidiaeth a oedd yn tynnu'n groes i eiddo'r Apostolion, pwysleisiodd yr Eglwys fod awdurdod y cyfryw wŷr, a'i hawdurdod hithau, ar gael yn eu hysgrifeniadau. Nid cyfrwng yr Efengyl yn unig ydoedd y gair ysgrifenedig. Yr oedd hefyd yn cynnig, a dyfynnu Childs, 'an interpretation of the tradition which often transcended the earlier stages of its growth': y cyfnodau cynnar hynny a oedd yn fwy parod i ddibynnu ar dystiolaeth ddibynadwy y cyfrwng llafar.⁶⁹ Dyna pam y cytunir yma â Childs, fod modd dehongli hanes datblygiad yr Eglwys mewn perthynas â'r broses o ganoneiddio ysgrhythurau.

Mewn perthynas â chyfraniad Marcion, fe ymddengys fod y sylw isod o eiddo Edwin Cyril Blackman yn un cytbwys iawn. Cydnabyddir cyfraniad Marcion i'r broses ganoneiddio, ond nid i'r un graddau â'r ysgolheigion hynny sy'n edrych arno fel sylfaenydd neu chwyldroadwr y broses honno. Meddai yn ei lyfr, *Marcion and His Influence*:

There were in the Church growing collections of writings, and sooner or later order would have been imposed on them; some would have been credited with more, some with less authority; and some would have dropped out of use altogether, as was actually the case after the New Testament as we know it was formed. [...] [T]he common mind of the Church was already before Marcion's time moving towards canonization of Gospels and apostolic writings, in addition to the Old Testament. [...] It need not be denied, however, that the example of his canon of the New Testament was not without effect upon Christianity at large, beyond the circle of his own adherents.⁷⁰

Prif ddyllanwad y canon hwnnw ydoedd ei bwyslais ar Epistolau Paul. Mynnodd Campenhausen – sydd, fel ei athro Harnack, yn portreadu Marcion fel y prif gymeriad yn hanes canoneiddio'r Testament Newydd – nad oedd yr Eglwys wedi ei pharatoi ei hun ar gyfer canon cyfyngedig mor chwyldroadol, yn cynnwys ynddo'n

⁶⁸ Geoffrey Mark Hahneman, op. cit., t. 73.

⁶⁹ Brevard S. Childs, op. cit., t. 32.

⁷⁰ Edwin Cyril Blackman, *Marcion and His Influence* (London, 1948), t. 33.

unig dalfyriad o Efengyl Luc ac argraffiad beirniadol o Epistolau Paul.⁷¹ Ac, yn wir, anodd yw peidio â gweld cysylltiad rhwng canon Marcion ac amlygrwydd yr Epistolau Pawlaidd yn y Testament Newydd. Nid yw hynny, fodd bynnag, yn cyfiawnhau'r gosodiad hwn o eiddo J. Morgan Jones:

[E]iddo Marcion yn fwy na neb oedd y syniad am Destament Newydd ... ei ddelw ef sydd ddyfnaf ar ei natur a'i gynnwys hyd heddiw.⁷²

Amlygwyd eisoes na chytunir â'r farn hon sy'n portreadu Marcion fel cychwynnydd y broses ganoneiddio, er y cydymdeimlir yn y bennod nesaf â'r awydd cyffredinol hwn ymhlith darllenwyr diweddarach i ddod o hyd i gychwynnydd. Ond nid yw ail ran y gosodiad chwaith yn ystyried mor wahanol ydoedd Efengyl Marcion ac Efengylau'r Eglwys. At hyn, gellir ychwanegu bod i Lyfr yr Actau rôl arbennig yn fframwaith y Testament Newydd, fel llyfr sy'n cysylltu'r Efengylau a'r Epistolau ynghyd, a bod Llyfr y Datguddiad yn chwarae rhan allweddol hefyd yn y fframwaith hwnnw, drwy roi i'r casgliad gymeriad teleolegol arbennig. Ac, wrth gwrs, er gwaethaf amlygrwydd Epistolau Paul, fe ganoneiddiodd yr Eglwys ei lythyrau bugeiliol, heb sôn am Epistolau'r Apostolion eraill: 'an assertion', chwedl Blackman, 'that St. Paul was not the only Apostle, and that Christianity was not built solely on Pauline foundations.'⁷³

Cyflwynodd, neu hyrwyddodd Marcion ganon deublyg: yr efengyl dalfyredig ynghyd â chorpws Pawlaidd o ddeg llythyr. Mewn perthynas â'r corpws Pawlaidd y dylid priodoli iddo ddylanwad ar y broses ganoneiddio. Yn wir, derbyniodd yr Eglwys ei hun fod yr Epistolau hyn yn ffon fesur ar gyfer cynnwys gweithiau eraill yn y canon. Derbyniad cymysg, er enghraifft, a gafodd Epistol Iago ymhlith yr eglwysi

⁷¹ Hans von Campenhausen, op. cit., tt. 148-167.

⁷² J. Morgan Jones, *Y Testament Newydd: Ei Hanes a'i Gynnwys* (Caerdydd, 1930), t. iii.

⁷³ Edwin Cyril Blackman, op. cit., tt. 36-7.

cynnar, gan fod y pwyslais ar ffydd *a* gweithredoedd megis yn tynnu'n groes i bwyslais Paul ar gyfiawnhad trwy ffydd yn unig. (Yr oedd yr Epistol, o'r herwydd, hefyd yn broblem i Luther.) Oherwydd nid heb gymharu'r gweithiau â'i gilydd y llunnir canon, ac nid heb greu rhyw fath o ganon o fewn canon. Ond nodwn yma na ddylid priodoli pwysigrwydd y corpws canonaidd i ddylanwad Marcion yn unig, efallai. Rhaid cofio mai Paul ei hun, wedi'r cyfan, a sefydlodd nifer o'r eglwysi. Yr oedd ei Epistolau o'r herwydd – o leiaf yn y cyfryw eglwysi – yn rhwym o gael eu hystyried fel dogfennau awdurdodol. Ystyriaethau eraill yn y broses ganoneiddio oedd grym awdurdod ac awduraeth apostolaidd ar y naill law – dylanwad enw – ac ar y llaw arall, grym sefydliadaeth: ystyriaethau, sydd, wrth gwrs, yn berthnasol i'r drafodaeth ar y canon llenyddol.

Yr hyn sy'n nodweddu'r canon Marcionaidd yw'r elfen gyfyngedig, leihaol, sydd yn ei leihad a'i wrthodiad o gynifer o lyfrau'r Eglwys, heb sôn am yr Hen Destament yn ei gyfanrwydd, yn enghraifft eithafol o'r modd y llunnir canon er mwyn hyrwyddo credo arbennig. Detholir yn fwriadol. Y mae hynny'n wir am bob canon, i ryw raddau, ond nid i'r un graddau bob amser. Gyda'i bwyslais ar ddethol Epistolau Paul yn unig, gellir dadlau mai yn nhermau'r egwyddor hon o hepgor y dylanwadodd Marcion – yn anuniongyrchol – ar ganon yr Eglwys. Fel y nododd Blackman, 'the Catholic New Testament is the result of a process of selection rather than of collection'.⁷⁴ Oherwydd hyn, mae'n werth nodi i'r Eglwys weld yr union broses hon o hepgor ar waith, mewn modd eithafol iawn, yng nghanon Marcion, gyda'r elfen o hepgor yn chwarae rhan bwysig yn y dethol. Ac mewn perthynas â phroses ganoneiddio'r Testament Newydd fe ymddengys fod y weithred fwriadol, greadigol o hepgor yn un gwbl anhepgor, a chyn bwysiced â'r weithred o gynnwys, yn enwedig

⁷⁴ Ibid., t. 35.

mewn perthynas ag ambell lyfr, fel *Bugail Hermas*. Y mae'n rhaid dethol a chyfyngu ar y detholiad, os nad ei gau. Dyma hanfod cysyniadol canoneiddio. Meddai Lynda Hart yn ei herthygl 'Canonizing Lesbians?', er enghraifft: 'Canons, by definition, must set certain limits; they must be formulated as this, but not this. They are thus inherently exclusionary.'⁷⁵ Ni ellir cynnwys popeth. Yng ngeiriau Athanasius: 'Mae ein holl ysgrythur wedi ei ysbrydoli'n ddwyfol ac yn cynnwys ynddo lyfrau sydd, nid yn ddiidiwedd o ran eu rhif, ond sy'n gyfyngedig ac yn ddealedig mewn un canon.'⁷⁶ Am yr union rif hwnnw o saith llyfr ar hugain, nododd Awstin ei fod, megis o fwriad, yn fychan er mwyn sicrhau nad yw'r hyn sy'n werthfawr yng ngolwg crefydd yn cael ei iselhau mewn gormodedd, ond ei fod hefyd yn ddigon o rif i amlygu cytundeb y llyfrau â'i gilydd.⁷⁷ Y mae ei sylw'n ategu'r egwyddor na all canon – er lles ei ddefnyddioldeb ei hun – gynnwys popeth. Yn yr un modd, ni all yr un flodeugerdd ganrifol gynnwys ond detholiad o waith y ganrif. Ni all yr un adran brifysgol chwaith gyflwyno'r 'traddodiad llenyddol' cyfan, yn enwedig yn sgil y pwysau presennol ar lunio cyrsiau galwedigaethol megis cyfieithu, gloywi iaith, profiad gwaith ac ysgrifennu creadigol, sy'n ymosodiad grymusach o lawer ar y canon llenyddol na'r un ddadl theoretig.

Yn ei bennod ar 'The Emergence of the New Testament', cyflwynodd von Campenhausen esboniad ar ddetholiad Marcion. Meddai: 'In fact, the strange construction of Marcion's Bible is explicable solely in terms of his dogmatic Paulinism.'⁷⁸ Nid pob ysgolhaig sy'n derbyn y ddadl honno. Meddai A. G. Padgett: 'The interpretation ignores the influence of anti-Judaism, dualism and asceticism on

⁷⁵ Lynda Hart, 'Canonizing Lesbians?', gol. June Schlueter, *Modern American Drama: The Female Canon* (Rutherford, 1990) t. 279.

⁷⁶ Dyf. Jan Gorak, op. cit., t. 28. Fy nghyfieithiad i.

⁷⁷ Gw. St. Augustine, *The City of God 6*, cyf. William Chase Greene (London, 1960), tt. 6-7.

⁷⁸ Hans von Campenhausen, op. cit., t. 153.

his thought.⁷⁹ Ac eto, er gwaetha'i bwyslais ar ragfarnau gwrth-Iddewig Marcion, cydnebydd Padgett y gallai fod wedi cynnwys talfyriad o Efengyl Luc oherwydd y traddodiad a oedd yn ei gysylltu â Paul.⁸⁰ O bosib, y mae'r ddwy elfen hon yn bresennol fel ei gilydd. Oni ellir dweud i Marcion drwy hepgor a gwrthod yr Hen Destament ynghyd â chyfeiriadau *at* yr Hen Destament greu canon a oedd yn adlewyrchu ei amharodrwydd i gydnabod unrhyw gysylltiad rhwng Iddewiaeth a Christnogaeth ac iddo'n gyfamserol drwy gynnwys llythyrau Paul hyrwyddo'r Bawliniaeth honno a oedd yn gymaint rhan o ganon ffydd y golygydd ei hun? Y mae'r cynnwys a'r hepgor cyn bwysiced â'i gilydd ac yn rhan o'r un broses o lunio canon, sydd, fe ymddengys, yn cael ei lunio mewn perthynas â chredoau pendant. Enghraifft amlwg o'r gweithgarwch dethol hwn yw talfyriad digywilydd Marcion o lyfr y Rhufeiniaid, yn hepgor penodau 15 a 16 gan nad ydynt yn hyrwyddo ei syniadau ynghylch amherthnasolrwydd yr Hen Destament. Meddai von Campenhausen:

The stimulus to set up the new canon did not come to Marcion from an analysis of what the uncertain state of Church tradition in general might suggest or require, much less from any neutral, scientific examination of its elements, but was theologically conditioned.⁸¹

Dyna hefyd farn Robert Wilson Smith. Meddai: 'Marcion was careful to produce a work that would support his theological position, and therefore alterations of text were made to support his doctrine in its important points.'⁸² Ac yn hyn y mae'r prif wahaniaeth rhwng canon Marcion a chanon yr Eglwys. Lle'r oedd y cyntaf yn waith dyfeisgar, unigolyddol, sydyn, datblygodd y llall mewn perthynas â phrofiad parhaus a chonsensws graddol nifer o eglwysi. Ffrwyth proses oedd yr ail ganon. Meddai

⁷⁹ A. G. Padgett, *op. cit.*, t. 706.

⁸⁰ *Ibid.*, t. 707.

⁸¹ Hans von Campenhausen, *op. cit.*, t. 149.

Westcott: ‘the Canon was an act of the intuition of the Church, derived from no reasoning, but realized in the course of its natural growth as one of the first results of its self-consciousness.’⁸³ ‘Theologically conditioned’ ar y naill law; ‘no reasoning’, ar y llaw arall. Yn wahanol i Farcioniaeth, o leiaf yn ôl y dehongliad hwn o’r hanes, fe gafodd yr Eglwys ei sefydliad cyn ei chanon.

O gredu na ragflaenwyd Marcion yn ei ymgais i gyflwyno’n fwriadol gasgliad dogfennol, dilys a gynrychiolai’r ffydd Gristnogol (ac a oedd yn herio arfer yr Eglwys o ddarllen Efengylau ac Epistolau nas cynhwyswyd yn ei ganon) nid syndod, efallai, iddo geisio cyfiawnhau ei ganon detholedig yn ei lyfr *Antitheses* a oedd yn cyflwyno’r gwrthbwyntiau rhwng dysgeidiaeth Iesu, Paul a’r Hen Destament. Ni chadwyd inni gopi o’r llyfr hwnnw. Trwy ysgrifeniadau’r sawl a fu’n dadlau yn erbyn Marcion – Irenaeus a Tertullian yn bennaf – y llunnir braslun ohono. Ond efallai’n fwy na chynnwys y llyfr, yr hyn sy’n ddiddorol i’r astudiaeth bresennol yw iddo gael ei goleddu’n frwdfrydig gan yr Eglwys Farcionaidd, megis testun credoaid, gan ei fod yn anhepgor os oedd y canon Marcionaidd i gael ei dderbyn o gwbl. Awgrymodd C. K. Barrett i Marcion ysgrifennu’r *Antitheses* er mwyn peidio â chynnwys yr Actau yn ei ganon dethol.⁸⁴ Y mae’n bwynt teg. Ond mewn perthynas â hanes canon y Testament Newydd fe ymddengys fod y broses o lunio canon, ynghyd â’i gyfiawnhau’n feirniadol wedi mynd law yn llaw, a bod ysgrifeniadau cyfiawnhaol megis, er nad yn ganonaidd eu hunain, yn anhepgor ar gyfer unrhyw ganon. Enghraifft lenyddol gyfoes o hyn yw’r modd – cyn iddo fynd ati i werthfawrogi canon llenyddol y Gorllewin – y mae Harold Bloom ym mhennod gyntaf ei lyfr *The Western Canon*, yn cyfiawnhau ei ddetholiad arbennig o awduron canonaidd. Wrth gwrs, gan

⁸² Wilson, op. cit., t. 125.

⁸³ Westcott, dyf., Edwin Cyril Blackman, op. cit., t. 29.

⁸⁴ Gw. C. K. Barrett, *A Critical and Exegetical Commentary on the Book of Acts 1-14* (Edinburgh, 1994), t. 47.

wybod na chytunai rhai beirniaid cyfoes, nid yn unig â'i ddetholiad, ond â'r cysyniad o ganoneiddio llenyddiaeth, rhaid oedd iddo hefyd gyfiawnhau'r cysyniad hwnnw.⁸⁵ Fel cymhariaeth fwy cyffredinol, meddylir am ddiben rhagymadroddion mewn blodeugerddi cynrychioladol a chasgliadau eraill, a'r modd y mae adolygiadau o lyfrau tebyg fynychaf yn trafod y rhagymadrodd, a'r detholiad, neu'r dull o ddethol, yn hytrach na'r casgliad ei hun. Ymddengys fod y feirniadaeth cyn bwysiced â'r llenyddiaeth ei hun, a bod y naill yn hyrwyddo'r llall.

Er iddo'n sicr gael peth dylanwad, nid oedd yr Eglwys yn hir cyn diarddel y canon Marcionaidd. A dyma ystyriaeth berthnasol arall. Crewyd canon y Testament Newydd mewn perthynas â chanonau eraill. Fe fu'n rhaid i'r Eglwys ymateb i ganonau a ystyrid ganddi yn annerbyniol: gwrthganonau. Yr enghraifft amlycaf o'r egwyddor hon ar waith, o bosib, yw traethawd Irenaeus, *Yn Erbyn Heresiau*, yn diffinio'r canon mewn perthynas ag amrywiadau'r Gnosticiaid a'r Manichaeistiaid. Nid yn annhebyg i hyn, is-deitl *Canon Eglwysig* (coll, ac eithrio dernyn) Clement o Alecsandria ydoedd *Yn Erbyn yr Iddewiaethwyr*. Enghraifft arall yw *Y Ddadl yn Erbyn Trypho* o waith Iestyn Ferthyr, lle'r esbonia'r awdur – yn groes i safbwynt yr athronydd Iddewig, Trypho – nad gwrthddywediad abs wrd yw credu yn yr ymgnwadoliad mewn perthynas ag unduwiaeth. Diffinnid y canon, felly, mewn ymateb i'r amrywiadau arno ac wrth i'r cysyniad o ganon ddatblygu'n fodd i grŵp o bobl ddiffinio ei arwahanrwydd. Yn ôl Christoph Lorey a John L. Plews, dyma'r union broses sydd ar waith mewn perthynas â chanon llenyddol y Gorllewin yntau. Ac yn wir, fe allai'r dyfyniad isod gael ei gymhwyso ar gyfer disgrifio'r naill fath o ganon a'r llall, y Beiblaidd a'r llenyddol.

⁸⁵ Harold Bloom, *The Western Canon* (London, 1995) tt. 15-41.

For its own purpose of tradition in the development of civilization, the canon requires the 'recognition', 'integration', and 'acknowledgment' of another tradition and constituent part of orthodox views and values, namely precisely the assessment and influence of those forms commonly held to be 'deviant'.⁸⁶

Y mae'r gwrthgonon yn chwarae cymaint o ran â'r canon ei hun yn y broses ganoneiddio. Beth yw'r eglwys heb sectau? Beth yw'r bardd heb y beirdd answyddogol? Yn hyn o beth y mae tebygrwydd sicr rhwng canon y Testament Newydd a'r canon llenyddol. Yn achos Saunders Lewis, er enghraifft, nodir yn y penodau nesaf mai mewn perthynas â herio consensws ei ddydd y cyflwynai ef ei farn ar wahanol lenorion, cymaint felly nes y byddai ar adegau yn ffugio consenws fel y gallai anghytuno ag ef.

Er bod rhesymau amlycach yn esbonio pam yn union iddo gael ei wrthod, y mae'n werth nodi ar gyfer yr astudiaeth bresennol na cheisiodd Marcion gyfiawnhau'r canon ar dir anffaeledigrwydd, a bod y canon Marcionaidd, felly, er ei wrthodiad o'r hen ysgrythurau a'r llyfrau apostolaidd cyfoes, yn agored i ychwanegiadau, neu ddiwygiadau. Dyna a wnaed o fewn yr Eglwys Farcionaidd ei hun. Nid ystyriwyd y canon erioed yn yr un modd ag yr ystyriwyd yr hen ysgrythurau Iddewaidd a ddiystyriodd Marcion. Yn wir, er gwaethaf ei ymgais i waredu ei ganon newydd rhag cyfeiriadau at yr hen ysgrythurau, ystyriai Marcion fod yr Hen Destament, fel casgliad o berfformiadau ysgrifenedig, yn gasgliad cwbl orffenedig: ystyriaeth ryfeddol yn ôl Harnack.

It is very remarkable, however, that Marcion accepted the O.T. as a whole and intact, refused to recognize any corruptions, interpolations, or anything of that sort ... and regarded its text as absolutely reliable.⁸⁷

⁸⁶ Christoph Lorey a John L. Plews, gol. idem, *Queering the Canon: Defying Sights in German Literature and Culture* (Drawer, Columbia, 1998) t. xv.

⁸⁷ Adolf von Harnack, *The Origin of the New Testament and the most Important Consequences of the New Creation*, cyf. J. R. Wilkinson (London, 1925), tt. 67, 86.

Nid felly ei ganon ei hun yng ngolwg ei ddisgyblion: gwaith ysgolheigaidd, agored ydoedd. Meddai von Campenhausen: ‘There was, therefore, nothing to stop Marcion’s disciples from continuing their master’s work, and from introducing further corrections and “improvements” into his text.’⁸⁸ Yn hyn o beth, yr oedd yr Eglwys Farcionaidd yn adleisio’r modd – ar raddfa lai o lawer – yr oedd yr awduron clasurol gynt yn synied am ganon agored, yn hytrach nag un cyfan gwbl gaeëdig. Mewn perthynas â dehongliad Pliny o waith Polycletus, *Canon*, er enghraifft, nododd Jan Gorak ‘[that] the canon becomes a seed rather than scheme, a seed that potentially contains a whole universe of measurements and future creation’.⁸⁹ Dyma’r awduron clasurol, felly, yn synied am broses ganoneiddio barhaus, nid yn annhebyg i’r math o ymagweddu beirniadol a argymhellwyd gan feirniaid fel Jarold Ramsey a Robert Hemenway a garai weld y canon Americanaidd yn cynnwys ynddo lenyddiaethau lleiafrifol. Dyma’n sicr yw agwedd y beirniad llenyddol sy’n ymddiddori yn y math o lenyddiaeth sydd wedi cael ei anwybyddu yn y gorffennol, er enghraifft, llenyddiaeth sy’n cynnwys ynddi gysylltiadau hoyw. Ond i raddau llai, dyma hefyd yw agwedd y mwyafrif llethol o feirniaid llenyddol sy’n synied am ganon llenyddol fel rhyw fath o gasgliad o berfformiadau ysgrifenedig nad yw byth yn *gyfan gwbl* orffenedig. Byddai’r beirniad mwyaf ceidwadol hyd yn oed yn croesawu cerdd newydd gan Ddafydd ap Gwilym neu ryw un o’r meistri canonganolog eraill, ynghyd â gwaith newydd, cyfoes o safon debyg.

Yn ei erthygl, ‘Defining the Canon’, dadleuodd Harold H. Kolb Jr. fod canon o lenyddiaeth Americanaidd yn anghenraid, er gwaethaf y problemau amlwg o ran diffinio’r fath gasgliad. Cynnig Kolb yw ein bod yn synied am ganon, ‘not as a single authoritarian list and not as a pluralistic cacophony of innumerable voices but as a

⁸⁸ Hans von Campenhausen, op. cit., t. 163

⁸⁹ Jan Gorak, op. cit., t. 11.

tiered set of options, relatively stable at one end, relatively open at the other, joined by the possibility of change'.⁹⁰ Wrth gwrs, cwestiwn arall yw pa mor agored yw pob un beirniad i dderbyn naill ai gweithiau cyfoes, neu weithiau o'r gorffennol na dderbyniasant lawer o gydnabyddiaeth erioed o'r blaen. Enghraifft benodol o'r fath ymestyn ar y canon Saesneg yw *Literary Theory and Poetry: Extending the Canon*. Meddai'r golygydd, David Murray: 'We take our starting point from what is already a widespread dissatisfaction ... with the version of literary history which gives Eliot and Yeats an unchallenged authority, thereby marginalizing all other, more radical, aspects of Modernism.'⁹¹ Awgrym amlwg y llyfr – er nad yw'n dadlau'n uniongyrchol y dylid cynnwys y testunau unigol a drafodir ynddo yn y canon – yw y dylai'r gweithiau ymylol, maes o law, gael eu hystyried yn gytras â'r gweithiau canonganolog. Y cwestiwn anorfod wedyn, wrth gwrs, yw a ellir gwahaniaethu rhwng y canol a'r ymyl. A fydd y canon yn colli ei ffurf, fel yr awgrymodd Tertullian i'r canon Marcionaidd golli ei ffurf? Oherwydd, fel yr agwrymwyd eisoes, y mae'r hepgor cyn bwysiced â'r cynnwys. Hanfod canon yw neilltuo a chyfyngu a chau.

Ateb yr Eglwys, neu 'hanesydd yr Eglwys', o leiaf, ydoedd gwahaniaethu rhwng tri chategori o ysgrifeniadau: 'a tiered set of options,' chwedl Kolb. Cyfeirir yn benodol at y modd y gwahaniaethodd Eusebius yn y drydedd ganrif rhwng llyfrau cydnabyddedig (*homologoumena*), llyfrau dadleuol (*antilegomena*) a llyfrau annilys (*notha*). Yn y dosbarth cyntaf, derbyniol, gosodwyd y pedair Efengyl, Actau, Epistolau Paul, 1 Pedr, 1 Ioan ac 'os ymddengys yn dderbyniol', Datguddiad Ioan. Yn yr ail ddosbarth dadleuol, gosodwyd Iago, Jwdas, 2 Pedr, a 2 a 3 Ioan. Yn y trydydd dosbarth annilys, gosodwyd Actau Paul, y Bugail, Apocalyps Pedr, Epistol

⁹⁰ Harold H. Kolb, Jr., 'Defining the Canon', goln. A. La Vonne Brown Ruoff a Jerry W. Ward, Jr., *Redefining American Literary History* (New York, 3ydd arg., 1993), t. 40.

⁹¹ David Murray, 'Introduction', gol. idem, *Literary Theory and Poetry: Extending the Canon* (London, 1989), t. 1.

Barnabas, y Didache, Efengyl yr Hebreaid ac ‘fel y dywedais ... os ymddengys yn dderbyniol’ Datguddiad Ioan.

Gwelwn yma fod Eusebius yn gwahaniaethu rhwng y canol a’r ymyl, a’r tu allan yn gyfan gwbl, ac yn cydnabod nad yw’r ffin rhwng y canon a’r ymyl bob amser yn amlwg. Nododd hefyd y gallai’r llyfrau annilys gael eu hystyried ar y cyd gyda’r rhai dadleuol, gan eu bod, er nad yn ganonaidd, o leiaf, yn wahanol i bedwerydd categori o lyfrau, sef y llyfrau anunionged a gyflwynid gan hereticiaid dan enwau’r apostolion. Am y cyfryw, meddai:

Indeed, the stamp of their phraseology differs widely from the apostolic style, and the opinion and policy of their contents are as dissonant as possible from true orthodoxy, showing clearly that these are the figments of heretics. Therefore they are not to be reckoned even among ‘spurious’ books but must be shunned as altogether wrong and impious.⁹²

Ynghyd ag awduraeth neu awdurdod apostolaidd, yr oedd y defnydd a wnaed o’r llyfrau, a’u huniongeddedd yn feini prawf arwyddocaol ar gyfer y dasg hon o wahaniaethu rhwng y pedwar categori. Yr hyn a nodweddai’r trydydd categori o lyfrau annilys, ac a’u gosodai ar wahân i’r categori olaf ydoedd y parch a oedd iddynt ymhlith rhai eglwyswyr. ‘If not canonical,’ meddai Bruce, ‘they were at least orthodox.’⁹³

O blith y rhestrau, y llyfr sy’n dal sylw’r darllenydd fwyaf yw Llyfr y Datguddiad, ac yntau’n perthyn i’r rhestr gydnabyddedig ac annilys fel ei gilydd. Yn ôl Bruce yr hyn sydd i gyfrif am yr anghysondeb yw gwahaniaeth barn: ‘the Apocalypse was acknowledged by those churches whose opinion he [Eusebius] valued most, whereas he himself was unhappy about it.’⁹⁴ Dyma’r unigolyn, felly, yn wahanol i Marcion, ac yn unol â rheol consensws yn arddel gwahaniaethau ei

⁹² Dyf. F. F. Bruce, op. cit., t. 200.

⁹³ Ibid. Ar y meini prawf, gw. Bruce, tt. 255-269.

gyfoedion, heb wadu ei farn ei hun. Cydnebydd luosogrwydd y broses ganoneiddio, gan amlygu bod modd i lyfr berthyn i'r canol a'r ymyl fel ei gilydd, o leiaf cyn i gonsensws cyfan gwbl glir ddylanwadu ar y broses ganoneiddio, ynghyd ag ystyriaethau o ran awdurdod y sefydliad, neu wahanol eglwysi o fewn yr Eglwys. O gyfieithu hyn oll i'r drafodaeth bresennol, nodir bod sefyllfa canon y Testament Newydd yn y drydedd ganrif yn cynnig patrwm o asesu ar gyfer diffinio'r canon llenyddol cyfoes, yn enwedig o gofio i'r llyfrau dadleuol oll, maes o law, gael eu cynnwys yn y canon, ynghyd ag un llyfr a oedd ym marn rhai yn perthyn i'r dosbarth annilys. Cydnabyddir amrywiadau. Cydnabyddir mai proses yw canoneiddio, ac na ellir cau canon sy'n dal i symud. Nid yw dweud hynny'n golygu na thrafodir y gweithiau oll mewn perthynas â'r egwyddor ganolog o ganoneiddio ar sail dethol. Ond o'u cymharu â'r ddwy ymdrech fawr i ddiffinio'r canon yn y bedwaredd ganrif, sef Llythyr Pasgaid Athanasius a chydsyniaeth y cyngor yn Carthage, y mae'r dosbarthiadau y mae Eusebius yn eu nodi – a oedd, wrth gwrs, yn rhan o'r un broses ganoneiddio, o fewn yr un sefydliad, ac yn symud i'r un cyfeiriad hwnnw o gau'r canon – yn adlewyrchu'r elfen symudol a oedd yn nodweddu'r canon, neu, o leiaf, ymylon y canon, yn y drydedd ganrif. Am yr amrywiadau hyn, meddai Childs:

Such distinctions correctly reflect the flexibility associated with the canonical norm. That certain Christian communities draw the outer limits of the canonical circle in a slightly different fashion is another warrant for retaining the maximum element of theological flexibility.⁹⁵

A dyma'r hyblygrwydd a'r lluosogrwydd – sy'n chwarae rhan mor amlwg yn hanes ffurfiad canon y Testament Newydd – y gellid eu trosglwyddo i gyd-destun y canon llenyddol. Gellir, hwyrach, gyfieithu'r hyblygrwydd eglwysig yn ddemocratiaeth lenyddol, o ddiffinio'r gymuned lenyddol Gymraeg yn y fath fodd fel y byddo pob

⁹⁴ Ibid., t. 199.

carfan ohoni yn cael ei hystyried. Yr anogaeth fawr, wrth gwrs, yw fod y llyfrau dadleuol yn ymdroi'n dderbyniol. Fe'u canoneiddir. Canolir yr ymyl.

Yn ôl Christoph Lorey a John L. Plews, proses gyfarwydd, geidwadol yw hon o gynnwys y gwahanol a'r annerbyniol. 'In fact, it seems to be the clandestine rule of the canon that *the barred* become *the standard*.'⁹⁶ Yn ôl y ddadl hon, proses barhaus o fewnosod yw canoneiddio. Ond yng ngoleuni'r egwyddor a nodwyd uchod – na all canon gynnwys popeth – o fynd ati a mewnosod, y mae'n rhaid gwaredu hefyd. Ochr arall y geiniog yw fod modd i destunau a fu unwaith yn uchel eu bri golli ffafr y beirniaid. Mewn perthynas â'r Americanwr, James Dickey, er enghraifft, nododd Ernest Suarez iddo – 'the most important poet of his time' – golli ei barch cymaint fel yr anwybyddid ef, fwy neu lai, o'r drafodaeth ar hanes barddoniaeth Americanaidd wedi'r Ail Ryfel Byd.⁹⁷ A hyn oll o fewn deng mlynedd. Yn yr un modd ag y gall testun neu awdur symud o'r ymyl i'r canol, fe all y cyfryw hefyd symud o'r canol i'r ymyl. Digwyddodd hyn hefyd yn achos ambell lyfr eglwysig yn yr ail a'r drydedd ganrif, a hyd yn oed ar ôl 367 a 397. Rhaid cofio nad mewnosod fel y cyfryw a wnaed yn achos llyfrau dadleuol y Testament Newydd, ond yn hytrach gydnabod awdurdod y llyfrau hynny a oedd eisoes yn cael eu darllen. Yn hyn o beth, gellir dadlau bod gwahaniaeth mawr rhwng canon y Testament Newydd a'r canon llenyddol, fel yr amlygir gan awydd Saunders Lewis i gyflwyno awdur newydd i'r canon Cymraeg. Ys dywed R. Geraint Gruffydd: 'Pob awdur a chyfnod a drafododd, fe newidiodd y ffordd y canfyddid yr awdur a'r cyfnod hwnnw.'⁹⁸ Nid dyma sut y ffurfiodd canon y Testament Newydd.

⁹⁵ Brevard S. Childs, *op. cit.*, t. 44.

⁹⁶ Christoph Lorey a John L. Plews, *op. cit.*, t. xvi.

⁹⁷ Ernest Suarez, *James Dickey and the Politics of Canon* (Missouri, 1993), t. 1.

⁹⁸ R. Geraint Gruffydd, 'Portread', gol. D. Ben Rees, *Ffydd a Gwreiddiau John Saunders Lewis* (Lerpwl. 2002), t. 11.

Yn achos yr enghraifft dan sylw, datblygiad rhesymol yn nhyb disgyblion Marcion oedd eu bod yn canoneiddio rhagor o lythyrau Pawlaidd, er enghraifft, yr Epistolau at y Laodiceaid a'r Alecsandriaidd: llythyrau a oedd yn ffugiadau Marcionaidd, ac sydd, fel ffugiadau, yn atgoffa'r darllenydd Cymraeg o gyfraniad Iolo Morganwg mewn perthynas â chanon Dafydd ap Gwilym, ac sy'n codi mater perthnasol arall, sef yr elfen ddyfeisgar mewn traddodiad llenyddol. Ond gan adael yr agwedd honno ar y traddodiad llenyddol am y tro, nodir yma i'r parodrwydd hwn i ychwanegu at y canon Marcionaidd ennyn beirniadaeth ddifriol oddi wrth yr Eglwys. Er enghraifft, meddai Tertullian: 'Ddydd ar ôl dydd, y maent yn ailgynllunio eu hefengyl, fel yr ydym ni, ddydd ar ôl dydd yn eu gwrthod o'r newydd.'⁹⁹ Nododd von Campenhausen fod elfen gref o ormodiaith yn y feirniadaeth uchod, ac yr ychwanegid at y canon Marcionaidd yn unig mewn perthynas â'r egwyddor o awduraeth apostolaidd.¹⁰⁰ Ond nid oedd y Marcioniaid yn synied am ganon yn nhermau casgliad perffaith o ysbrydoliaeth lythrennol gywir. O'r herwydd, fel yr awgryma beirniadaeth Tertullian – yn yr un modd ag y gwêl Harold Bloom ddirywiad canon llenyddol y Gorllewin yn anochel gan mor awyddus yw gwahanol garfanau i ychwanegu ato – un o'r rhesymau pam y gwrthodwyd y canon Marcionaidd oedd yr elfen gyfnewidiol hon, gyda'r ychwanegiadau yn gwanhau'r casgliad cyfan wrth iddynt gael eu mewnosod fesul un a thynnu'r ffocws oddi ar y 'corff' cyfan.

Gwelir yr un meddylfryd ar waith ym meirniadaeth Irenaeus o'r ddiwinyddiaeth greadigol ei hun, yn sarhau'r arfer o greu enwau dwyfol, newydd:

Os gall unrhyw un greu enwau yn ôl ei ddymuniad ei hun, pwy a all ein rhwystro rhag mabwysiadu'r enwau hyn fel rhai mwy credadwy [na'r rhai blaenorol]...?¹⁰¹

⁹⁹ Dyf. Hans von Campenhausen, op. cit., t. 163. Fy nghyfieithiad i.

¹⁰⁰ Ibid.

Effaith y newydd, nid yn unig yw dileu'r hen, ond y mae hefyd yn gwanhau'r cysyniad o ganon gan na cheir ar y naill law, ryngberthynas rhwng y testunau, nac ar y llaw arall, ganol sylweddol ar gyfer derbyn y gweithiau ymylol. Y canlyniad yw anundod wrth i'r ffocws gael ei dynnu oddi ar y canol tuag at yr ymyl. Dyma, fel y gwelir ym mhennod 5, yw gofid R. M. Jones ynghylch effaith ôl-foderniaeth ar lenyddiaeth Gymraeg.

Ond ni ddylid gorbwysleisio'r elfen symudol hon yn y canon Marcionaidd, yn enwedig gan nad Marcioniaeth, ond Montaniaeth ydoedd yr heresi a bwysleisiai nad oedd Ysbryd Duw yn perthyn i oes yr Apostolion yn unig. Dyma fygythiad, felly, nid yn unig i'r broses o ddethol union gynnwys y canon, ond i'r holl gysyniad o ganoneiddio tystiolaeth apostolaidd y cyfamod newydd. 'Montanism arose and declared that the Spirit was not the prerogative of a past generation, but was now once again active among men.'¹⁰²

O'r herwydd, gan fod yr Ysbryd yn dal yn llefaru, gwrthwynebai Montanus ymdrech yr Eglwys i ddiffinio ysbrydoliaeth ddwyfol yn nhermau ysgrifeniadau apostolaidd. Meddai Roger E. Olson:

He strenuously opposed any such limitation or restriction and seemed to emphasize the continuous power and reality of inspired utterances such as his own.¹⁰³

Yn ymarferol, felly, nid oedd cred y Montaniaid yng ngallu'r proffwydi Montanaidd i gyhoeddi gair cyfwerth ag ysgrifeniadau'r Apostolion yn hyrwyddo'r cysyniad o un canon awdurdodedig, yn enwedig gan iddynt, maes o law, gofnodi eu proffwydoliaethau a'u dosbarthu i'w darllen megis ysgrythurau a awdurdodwyd gan yr Ysbryd Glân. Haerai'r Montaniaid fod 'y Diddanydd Arall wedi llefaru mwy o

¹⁰¹ Dyf. Roger E. Olson, op. cit., t. 73. Fy nghyfieithiad i.

¹⁰² Edwin Cyril Blackman, op. cit., t. 33.

bethau drwy Montanus nag a lefarodd Crist yn yr Efengyl, ac nid mwy yn unig ond gwell'.¹⁰⁴ Cyfeiriai Montanus – esgob pagan a drodd at Gristnogaeth oddeutu canol yr ail ganrif – ato'i hun fel 'genau [S. *mouthpiece*]'r Ysbryd Glân'. Pa derfyn, felly, a ellid ei roi ar y broses ganoneiddio? Pa reol, gan fod modd i'r Ysbryd lefaru eto yn y dyfodol? 'Yn wyneb yr honiadau gwyllt hyn', meddai Isaac Thomas, 'dyfarnodd yr Eglwys na ddichon i lyfr fod yn "ysbrydoledig" heb fod yn apostolaidd ac na all llyfr fod yn apostolaidd heb fod yn hen.'¹⁰⁵ Fel arall, nid canon yr Eglwys, ond canon-au'r eglwysi a geid.

Er, efallai, y gorfodir yma'r gymhariaeth, nid annhebyg i'r safbwynt Montanaidd yw'r feirniadaeth ôl-fodernaidd gyfoes sy'n pwysleisio naill ai'r angen am ganon personol ar gyfer pob carfan wahanol o ddarllenwyr, neu'r angen ar i bob carfan synied am ganon-au, neu, o ganlyniad, am system gyfan gwbl wahanol ar gyfer safoni llenyddiaeth, os oes modd safoni, hynny yw, ac os oes y fath gategori pendant â llenyddiaeth. 'This means, in effect,' meddai Arnold Krupat, 'that one simply dispenses entirely with the concept of the canon – of *any* canon of authorized texts – so that what one teaches and writes about is simply books that happen to be interesting, or useful for one sort of demonstration or another.'¹⁰⁶

Yn yr un modd ag yr oedd y Montaniaid yn ceisio sefydlu canon Montanaidd, ar gyfer Montaniaid, a'r Marcioniaid yn darllen eu canon Marcionaidd, a'r Eglwys ei chanon hithau, yn ôl y ddadl hon, dylid cydnabod mai detholiad personol iawn ar gyfer rhyw garfan arbennig o ddarllenwyr yw pob un canon.

Everyone does her own thing and we can only hope that our thing will hold up at least well enough to be visible; even should our thing attract the attention of

¹⁰³ Roger E. Olson, *op. cit.*, t. 31.

¹⁰⁴ Dyf. Isaac Thomas, *op. cit.*, t. 47.

¹⁰⁵ *Ibid.*

¹⁰⁶ Arnold Krupat, *The Voice in the Margin: Native American Literature and the Canon* (Oxford, 1989), t. 28.

many, there are no grounds for proposing it generally to all, for it remains “ours” only.¹⁰⁷

Mewn perthynas â chanon yr Eglwys, mae'n rhaid nodi, fodd bynnag, fod y 'ni' hwnnw y cyfeirir ato uchod yn cyfeirio'n ôl at ragflaenwyr apostolaidd a oedd wedi derbyn awdurdod arbennig oddi wrth Grist ei hun, sylfaenydd yr Eglwys. Yr oedd 'ni' yr Eglwys, felly, yn cyfeirio atyn 'nhw': gwŷr a oedd yn sefyll ar wahân i'w holynwyr, fel yr oedd eu hysgrifeniadau yn sefyll ar wahân i eiddo'r tadau apostolaidd. Meddai Schlatter:

By canonizing these writings, the generations following the apostles expressed where they found that word through which the church emerged and receives for all time its connection with the Christ.¹⁰⁸

Yn hyn o beth y mae'r gymhariaeth rhwng canon y Testament Newydd ac unrhyw ganon llenyddol a ddiffinnir yn bennaf yn ôl ei safon a'i gwerth llenyddol – '[l]lenyddiaeth sy'n llenyddiaeth o'i herwydd hi ei hun ac ynddi hi ei hun, ac nid yn llenyddiaeth sy'n boddio carfanau ac yn perthyn i fudiadau'¹⁰⁹ – yn ddiffygiol iawn, oherwydd, er y cyfeiriodd Eusebius, er enghraifft, at ddiffygion dull ymadroddi'r llyfrau annilys, anuniongred, nid mewn perthynas â'u safonau llenyddol y canoneiddiwyd llyfrau'r Testament Newydd. Ceisio cysylltiad â Christ a wnaed. Wrth restru meini prawf yr Eglwys yn y broses ganoneiddio, nododd Bruce iddi ystyried awdurdod neu awduraeth apostolaidd, hynafiaeth, uniongrededd, catholigrwydd [consensws], traddodiad, ac ysbrydoliaeth – 'a corollary of canonicity'.¹¹⁰ Nid oedd

¹⁰⁷ Ibid., t. 29.

¹⁰⁸ A. Schlatter, 'The Theology of the New Testament and Dogmatics' (1909), gol. R. Morgan, *The Nature of New Testament Theology* (London, 1973) t. 146.

¹⁰⁹ Alan Llwyd, 'Ar Drothwy Mileniwm,' *Y Grefft o Greu: Ysgrifau ar Feirdd a Barddoniaeth* (Cyhoeddiadau Barddas: 1997), tt. 114-15.

¹¹⁰ F. F. Bruce, op. cit., tt. 256-269.

safon neu werth llenyddol yn ystyriaeth amlwg, er gwaetha'r ffaith y diffinnir safonau llenyddol yn aml mewn perthynas â dylanwad llenyddol y Beibl.

Ni wedir yma nad oedd ac nad oes i'r Testament Newydd apêl lenyddol, ac na ddarllenir darnau o'r Beibl weithiau am resymau esthetaidd. Awgrymodd Robert Alter fod 'grym llenyddol a phoblogrwydd' yn ystyriaethau perthnasol ar gyfer cynnwys Esther a Chaniad Solomon yn y Canon Hebraeg, er enghraifft.¹¹¹ Yn yr un modd, nododd David Jasper mai ei apêl lenyddol yn ei amryfal ffyrdd – 'its weirdness and its oddity, its immense and varied energy and its paradoxes' – a alluogodd y Beibl i barhau'n ddylanwad ar Ramantiaeth, 'even when "faith" in tradition or church has waned'.¹¹² Ond fel y nododd T. S. Eliot,

the Bible has had a *literary* influence upon English literature *not* because it has been considered as literature, but because it has been considered as the report of the Word of God. And the fact that men of letters now discuss it as 'literature' probably indicates the end of its literary influence.¹¹³

Heb wadu apêl lenyddol y Testament Newydd, felly, nodir nad cymhelliad llenyddol a oedd yn cymell darllen y Testament Newydd yn y lle cyntaf – na chwaith yn y ddeunwafed ganrif yn Llanddowror, pan nad oedd o hyd y fath beth â 'llynyddiaeth' yn bod – eithr ymgais i ddiogelu'r canon ffydd, ac i fwynhau cymundeb y tu hwnt i'r testun.¹¹⁴ Ni ellir gwadu apêl y profiad deallusol ac emosiynol o ddarllen yr ysgrythurau. Ond yn hyn o beth, o safbwynt didoli rhwng deunyddiau ar sail gwerth llenyddol, y mae yma wahaniaeth mawr rhwng ffurfiad canon y Testament Newydd ac unrhyw ganon *llynyddol*, oni bai ein bod, wrth gwrs, yn medru amlygu y

¹¹¹ Robert Alter, op. cit., t. 27.

¹¹² David Jasper, *The Sacred and the Secular Canon in Romanticism: Preserving the Sacred Truths* (London, 1999), t. 117.

¹¹³ T. S. Eliot, 'Religion and Literature', *Selected Essays* (London, 3ydd arg., 1951), t. 390. Dyfynnir gan David Jasper, *ibid*, ond mewn modd eironig.

¹¹⁴ Cymh. Maurice Jones, 'Y Testament Newydd yng Ngoleuni'r Wybodaeth Ddiweddaraf', *Y Beirniad*, 4 (1916), 87. 'Y mae'n amhosibl i oleuni pur a gonest amharu ar yr hyn sydd yn hanfodol yn

diffinnir y canon llenyddol yntau er mwyn ‘boddio carfanau’, ac nid yn unig am resymau esthetaidd.

Dyma, wrth gwrs, ydoedd yr union beth a wnaeth Dafydd Elis Thomas yn

Traddodiadau Fory. Meddai:

Mae’r cysyniad o draddodiad llenyddol wedi bod yn un hwylus iawn i gynnal math arbennig o lenyddiaeth ar gyfer cynnal statws math arbennig o lenor a beirniad llenyddol, a chynulleidfa gyfyng yn ddibynnol a darostyngedig i syniadaeth a chyfundrefn gynhyrchu lenyddol.¹¹⁵

Os felly, ni ellir ond awgrymu mai angen pennaf y canon llenyddol Cymraeg ydyw ystyried o’r newydd rai o’r egwyddorion sy’n codi yn sgil hanes ffurfiad y Testament Newydd. Oherwydd fel y dywedodd Payne – er bod angen pwysleisio mai sôn y mae am garfan arbennig o bobl o ffydd gyffredin: ‘The history of the New Testament canon does not serve the argument that canons are formed to exclude diversity.’¹¹⁶

Awgryma’r dyfyniad a nodwyd ar ddechrau’r erthygl mai ‘penderfynu’ ar ba lyfrau’n union a fyddai’n ganon o Destament Newydd a wnaeth yr Eglwys (neu wahanol eglwysi). Ond ni wnaeth hynny yn yr un modd ag y penderfynodd Saunders Lewis, er enghraifft, fod y canu rhwng 1435 a 1535 yn ‘Ganrif Fawr’ o ganu, gan greu *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* cyn i’r testunau eu hunain gael eu cyhoeddi. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng unigolyn yn maintioli gwerth llenyddol gwahanol destunau, gan ‘weithredu fel barnwr’, ys dywed G. J. Williams, a ‘[b]od yn offeryn i feithrin chwaeth y cyhoedd’, a sefydliad a fu’n graddol ddatblygu am dair a phedair canrif yn mynegi ei phrofiad parhaus o ddarllen ysgrifeniadau a oedd yn

y Testament Newydd, ac y mae’r hen air Cymraeg, “Y Gwir yn erbyn y Byd,” mor gymwysiadol at y gyfrol santaidd ag ydyw at unrhyw lenyddiaeth arall.’

¹¹⁵ Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory: Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ynys Môn, 1983* (Cyhoeddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 1983), t. 22.

¹¹⁶ Michael Payne, op. cit.

cynorthwyo ei aelodau i ymarfer eu ffydd.¹¹⁷ Mewn perthynas â Llyfr yr Hebreaid, er enghraifft, sef un o lyfrau mwyaf ymylol y canon, meddai Wayne Grudem:

[T]he acceptance of Hebrews as canonical was not entirely due to a belief in Pauline authorship. Rather, *the intrinsic qualities of the book itself must have finally convinced readers*, as they continue to convince believers today, that whoever its human author may have been, its ultimate author can only have been God himself.¹¹⁸

Mewn trafodaeth academiaidd fel hon – nad yw'n edrych ar gynnwys y canon, ond yn hytrach ar hanes ei ffurfiad ynghyd â'r cysyniad o ganon – hawdd iawn yw colli golwg ar y ffaith y bu darllen manwl a thrafod mawr ar y llyfrau hyn, nid yn unig o fewn yr eglwysi unigol, ond rhwng aelodau o eglwysi gwahanol, ac y'u defnyddid fel adnodd o ddysgeidiaeth yng nghyd-destun addoliad yr Eglwys, a'r eglwysi, o Dduw. Nid mater o chwaeth lenyddol ydoedd y broses ganoneiddio, ond mater o arddel y rheol ffydd a rannodd Duw yng Nghrist ac a oedd i'w chanfod yn ysgrifeniadau cynnar yr Eglwys. *Profwyd* yr ysgrythurau, nid yn gymaint mewn perthynas â'r meini prawf, ond mewn perthynas â datblygiad yr Eglwys, neu aelodau'r eglwysi unigol eu hunain: mewn perthynas â'r erledigaeth a'r heresiâu yr oeddent yn eu hwynebu, ac mewn perthynas â'r gras yr oeddent yn ei dderbyn gan Dduw, trwy gynhaliaeth y cyfryw ysgrythurau. Nid yw dweud hynny'n gwadu na fu'r tadau a'r esgobion yn dadlau achos eu dysgeidiaeth apostolaidd, yn diffinio eu diwinyddiaeth, yn ffurfio canon. Ond diogelu, ac nid creu oedd eu rhaglen, gan ddethol llyfrau, nid trwy fewnosod ond trwy brofi. Ys dywed Isaac Thomas: 'Tyfu a wnaeth y canon o brofiad cyffredin yr amrywiol eglwysi fod yn narlleniad y llyfrau arbennig hyn gysylltiad bywiol ag ysgogiad cyntaf y grefydd Gristionogol.'¹¹⁹ 'Elfen

¹¹⁷ G. J. Williams, 'Adolygu Llyfrau', *Y Llenor*, 2 (1923), 94.

¹¹⁸ Wayne Grudem, op. cit., t. 62. Gw. tt. 60-72. Pwysleisir ysbrydoliaeth y llyfrau yn bennaf.

¹¹⁹ Ibid., t. 52.

a ddatblygodd yn naturiol o'i phrofiad ei hun', meddai Dafydd G. Davies yntau am ganon yr Eglwys.¹²⁰

Mewn gwirionedd, yn y cyd-destun hwn y mae'r berfenw 'penderfynu' yn anffodus. Awgrymir, rywsut, mai arweinwyr yr Eglwys a benderfynodd pa lyfrau'n union y gellid eu defnyddio yn yr eglwysi, yn yr un modd ag y mae golygydd rhyw flodeugerdd gynrychioladol yn penderfynu ar ran ei ddarllenwyr pa gerddi y dylid eu hastudio. Ond ys dywed Kurt Aland: 'this canon grew, in fact, from the bottom upwards, in the communities, among the believers, and only later was officially legitimized from the top.'¹²¹ Pan aethpwyd ati i gau'r canon ar ddiwedd y bedwaredd ganrif, canon cilagored ydoedd. Nododd Aland fod pumed rhan o chwech eisoes yn gyfan erbyn 200, yn y Dwyrain a'r Gorllewin fel ei gilydd. Trafod yr ymylon symudol a wnaed yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif, wrth i'r naill eglwys, neu ysgol ddiwinyddol, ymateb i brofiadau'r llall, a chyd-greu eu consensws.¹²²

Seiliwyd y consensws hwnnw ar brofiad yr eglwysi cyfain o un egwyddor gyffredin, sef eu rheol ffydd (*regula fidei*): y *kanón* hwnnw a oedd yn blaenori'r canon. Mewn perthynas â'r canon ffydd hwn y ffurfiwyd y canon ysgrythur. Meddai Aland:

Compositions by an apostle, age and all such considerations are, when placed beside this requirement, mere preliminaries.¹²³

Oherwydd ac yntau'n dechrau o bwynt hanesyddol arbennig, o Berson penodol, fe ddiffinnid y Testament Newydd mewn perthynas â'r Gwirionedd hwn: dysgeidiaeth Crist a bywyd yng Nghrist. Yn nhrefn y rheol hon – y *regula veritatis* – yr oedd ysgrifeniadau'r apostolion – a dderbyniodd gomisiwn i ledaenu efengyl Crist, gan

¹²⁰ Dafydd G. Davies, op. cit., t. 41.

¹²¹ Kurt Aland, op. cit., t. 18.

¹²² Gw. *ibid.*, t. 23.

Grist ei hun – ynghyd ag ysgrifeniadau hynafol eraill a oedd yn gydnaws ag efengyl Crist yn chwarae rhan allweddol, gan eu bod yn cyflwyno'r *kanón* ffydd a oedd yn ymestyn yn ôl i draddodiad llafar y cenedlaethau cyntaf o Gristnogion, a thraddodi llafar Crist ei hun.

Dyna pam y gwrthodwyd y canon Marcionaidd. O ran ei gynllun a'i ddatblygiad, yr oedd yn debycach i'r canon llenyddol, unigolyddol hwnnw a all fod yn greadigaeth gymharol sydyn, ddyfeisgar, anhanesyddol, ac yn agored i fewnosodiadau newydd. Ond yr oedd hefyd, fel canon – fel casgliad o berfformiadau ysgrifenedig, dethol, talfyredig – yn tynnu'n groes i *kanón* ffydd yr Eglwys Gatholig: 'i reol [*kanona*] ogoneddus a hybarchus ein traddodiad', chwedl Clement.¹²⁴ Gwrthodwyd y canon gan bobl nad oeddynt – gorff, meddwl ac enaid – yn diffinio eu ffydd yng Nghrist yn yr un modd â Marcion.

¹²³ Ibid., t. 16.

¹²⁴ Dyf. Gorak, op. cit., t. 29. Fy nghyfieithiad i.

Pennod 3

Canoneiddrwydd Saunders Lewis:

Ei Waith, Ei Fywyd a'i 'Draddodiad'

Canoneiddrwydd Saunders Lewis: Ei Waith, Ei Fywyd a'i 'Draddodiad'

Yn y bennod hon, yr amcan yw cyflwyno un syniad llywodraethol a ailadroddir dro ar tro yn ystod y traethawd, sef bod sefyllfa'r darllenwydd ei hun yn effeithio ar yr hyn y mae ef yn ei ddarllen. A dyfynnu John Meirion Morris: 'Nid mater syml o ddadansoddi arddull allanol celfyddyd yw beirniadaeth. Y mae'r posibilrwydd y gall beirniaid fod â rhagfarnau sydd ynghlwm wrth eu cefndir yn amlwg.'¹

Yr oedd hynny'n wir yn achos darllenwyr cyntaf y Testament Newydd, pan nad oedd y canon hwnnw eto wedi ffurfio'n derfynol. Mewn perthynas â *Ffactor Erledigaeth* – un o ddwy ddogfen a ddiogelwyd gan Eusebius yn ei *Hanes Eglwysig* – dadleuodd W. R. Farmer, er enghraifft, fod perthynas glòs rhwng yr erledigaeth a brofasai'r Cristnogion yn yr ail a'r drydedd ganrif a'u dewis o lyfrau sy'n tystio i ferthyrdod eu Gwaredwr a'i ddisgyblion. Yn ôl y dehongliad hwn pwysleisir bod Llyfr yr Actau, nid yn unig o safbwynt strwythurol yn uno'r Efengylau ac Epistolau'r Apostolion, ond hefyd yn amlygu hanes bywyd dau Apostol a ferthyrwyd, sef Pedr a Paul.² Yr oedd modd i Gristnogion yr ail a'r drydedd ganrif, felly, weld yn y llyfr hwn esiampl o dystiolaeth aberthol. Fe'i darllenid, nid yn unig oherwydd bod iddo awduraeth apostolaidd, ond gan fod ei gynnwys yn hynod berthnasol i fywyd beunyddiol y darllenwyr.

Dyma, felly, bwyslais ar amgylchfyd y broses ganoneiddio: pwyslais sy'n gydnaws â'r dehongliad o'r canon fel casgliad o ysgrifeniadau a *ddefnyddid* gan aelodau'r eglwysi, nid er mwyn llunio casgliad o ysgrifeniadau fel y cyfryw, ond er mwyn eu cynorthwyo yn eu hymdrech i arddel eu canon ffydd. Wrth gwrs, fel yr awgryma teitl y ddogfen arall a ddiogelodd Eusebius, sef *Ffactor Heresi*, law yn llaw

â'r erledigaeth, yr oedd gan y credoau Cristganolog a'r ymddiriedaeth mewn tystiolaeth Apostolaidd a goleddai'r Cristnogion hefyd ran allweddol yn ffurfiad y Testament Newydd. Ys dywed Dafydd G. Davies: 'Dylanwadodd y naill a'r llall ar y proses o ffurfio'r Testament Newydd.'³ Dywedwyd eisoes mai mewn perthynas â gwrthganonau y llunnir canon: heresiâu. Gall y gwrthganonau hynny, y cyfeiriwyd atynt gan Paul yn nhermau 'rheol un arall', fod yn rheolau ymddygiad neu gredo. Yr hyn sy'n bwysig i'r drafodaeth yn y bennod hon, fodd bynnag, yw cydnabod nad disgyn fel manna o'r nefoedd a wnaeth y Testament Newydd, neu gael ei roi i un patriarch ar ffurf orffenedig ar fynydd sanctaidd, eithr dod i fodolaeth wrth iddo gael ei ddarllen. Yn achos canon o destunau 'yr oedd a wnelo'r Ysbryd â'u hysgrifennu', chwithig braidd i'r neb sy'n credu yn ei anffaeledigrwydd yw meddwl bod gan y darllenwyr eu hunain rôl weithredol yn y broses honno o bennu ei gynnwys.⁴ Ond tystio i hynny y mae sylwadau Eusebius sy'n nodi'n glir fod gwahanol lefelau o ganoniaeth yn bodoli ymysg y gwahanol eglwysi. Ac, er nad y bwriad yma yw trafod athrawiaeth ysbrydoliaeth y Beibl, nodir bod yr athrawiaeth honno yn cadarnhau'r dehongliad hwn o rôl weithredol darllenwyr cyntaf y Testament Newydd, gan ei fod nid yn unig yn nodi bod 'gwaith gwrthrychol yr Ysbryd Glân i'w weld yn ffurfiant yr Ysgrythurau', ond hefyd yn nodi bod 'gwaith goddrychol yr Ysbryd Glân i'w weld pan oleuai feddyliau credinwyr i weld graslonrwydd Duw yn y Beibl [er nad oedd yn Feibl ar y pryd]'.⁵

Dyna, heb os, y gwahaniaeth mawr rhwng canon y Testament Newydd ac unrhyw ganon llenyddol arall nad yw'n ysgrythur, pan nad yw Awdur yr ysgrifennu

¹ John Meirion Morris, 'Gweld Traddodiad o'r Newydd', [erthygl-adolygiad o Peter Lord, *The Aesthetics of Relevance*], *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror, 1993), 63.

² W. R. Farmer, *Jesus and the Gospel* (Cyhoeddiadau Fortress Press, 1982), t. 209.

³ Dafydd G. Davies, *Canon y Testament Newydd: Ei Ffurfiad a'i Genadwri* (Abertawe, 1986) t. 36.

⁴ R. Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân*, (Caernarfon, 1972), t. 44.

⁵ *Ibid.*, t. 46.

yn bresennol hefyd yn y darlennydd. Ond am y rheswm hwnnw, y mae'r hyn a nodwyd yn achos darllenwyr y Testament Newydd, sef bod eu sefyllfa a'u credoau hwy wedi effeithio ar y broses ganoneiddio, yn chwarae rhan fwy allweddol eto fyth yn achos ffurfiad y canon llenyddol Cymraeg.

Yn achos Saunders Lewis, er enghraifft, nododd Iorwerth C. Peate fod cyswllt rhwng y safle llywodraethol a roddai'r beirniad i feirdd yr Oesoedd Canol a'i berthynas bersonol ei hun, ynghyd ag eraill, â'r ffydd Gatholig yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Meddai yn ei ysgrif, 'Awdurdod a Thraddodiad':

Un o arwyddion mwyaf digalon yr oes hon yw tuedd ysgol arbennig o feddylwyr – yng Nghymru fel mewn gwledydd eraill – i ddymuno dychweliad at rai o safonau'r Oesoedd Canol. [...] Y gwir yw fod y gri am y dychweliad hwn ynghlwm â galw am ddychweliad hefyd i'r Eglwys Babyddol. [...] [F]e gynrychiolir y neo-sgolasticaeth hon orau gan wŷr fel M. Jacques Martain yn Ffrainc a Mr. T. S. Eliot yn Lloegr. Mr. Saunders Lewis yw apostol arbennig Mr. Eliot a'r dull hwn o feddwl yng Nghymru.⁶

Mewn ymateb i'r feirniadaeth hon, gellir nodi mai yn anaml y byddai Saunders Lewis yn trafod ei ffydd Gatholig yn gyhoeddus. Ys dywed ei offeiriad, yr Esgob Daniel John Mullins: 'Nid oedd yn gyfforddus pan fyddai pobl yn ceisio ei holi am ei fywyd ysbrydol.'⁷ Ond hwyrach mai dyna union ergyd y feirniadaeth uchod, sef, yn wahanol i achos darllenwyr y Testament Newydd, nad yw'r berthynas ideolegol rhwng credoau'r beirniad a'r testunau llenyddol y mae'n eu hyrwyddo yn gwbl amlwg. Celir y 'gwir'.

Fodd bynnag, rhaid pwylllo cyn cyhuddo Saunders Lewis o geisio celu ei gredoau Catholig. Tystio i hynny y mae'r ysgrif, 'Traddodiadau Catholig Cymru', er enghraifft, lle y cysylltir ynghyd y gwaith o '[dd]eall a gwerthfawrogi [y] meistri canoloesol', a'r modd y gall y 'critig Catholig' gynorthwyo yn y dasg o 'ymgydnabod

⁶ Iorwerth C. Peate, *Sylfeini* (Wrecsam, 1938), tt. 151-2.

ag athroniaeth Gatholig ac ag arferion meddwl Catholig'.⁸ Nid beirniad nad addefai ei fod ef ei hun yn edrych ar lenyddiaeth o du safbwynt arbennig ydoedd Saunders Lewis. Ni chredai fel y gwnâi Thomas Parry ei fod yn dod at gerdd 'heb gynragfarn',⁹ er iddo mewn llythyr cynnar at Gynan, gan ddeall cynodiadau negyddol y gair, sôn am 'garthu o'm meddwl bob cas neu ddig neu ragfarn'.¹⁰ Ac yn wahanol i Thomas Parry a gredai mai'r cwestiwn y dylai'r beirniad llenyddol ei ofyn ydoedd 'beth a gynhyrfodd y bardd i ysgrifennu ei gân, pam y rhoes y cynhyrriad hwnnw mewn geiriau, a pha effaith y mae'n bwriadu i'w gân ei gael ar y sawl sy'n darllen', yr hyn a wnâi Saunders Lewis wrth ddarllen ydoedd 'turio i ddarganfod ym mha ffordd y mae'r gerdd yn ddelwedd', sef yr union beth hwnnw na fynnai Thomas Parry mohono.¹¹ Er enghraifft, wrth adolygu llyfr T. H. Parry-Williams, *Elfennau Barddoniaeth*, meddai:

Y mae gennyf fwy o ddiddordeb mewn barddoniaeth, pan fyddwyf yn darllen barddoniaeth, nag y sy gennyf yn y bardd. Y peth a wnaeth y bardd, ac nid y bardd a wnaeth y peth, sy'n ddiddorol gennyf.¹²

Y darllen, ac nid bwriadau'r awdur a oedd o ddiddordeb iddo, a cheir o'r herwydd nifer o gyfeiriadau at y profiad o ddarllen yn ei waith. Llinell gan Dudur Aled, er enghraifft, yn 'codi darlennydd heddiw ar ei draed',¹³ a sawl peth mewn chwedl yn 'synnu darlennydd'.¹⁴ Wrth ddarllen un o gywyddau Siôn Cent, nododd na allai

⁷ Daniel John Mullins, 'Ffydd Saunders Lewis', gol. D. Ben Rees, *Ffydd a gwreiddiau John Saunders Lewis* (Lerpwl, 2002), t. 44.

⁸ Saunders Lewis, 'Traddodiadau Catholig Cymru', detholwyd gan Marged Dafydd, *Ati, Wyr Ifainc* (Caerdydd, 1986), tt. 11-13.

⁹ Thomas Parry, 'Megis Seren Wib', *Taliesin*, 23 (Rhagfyr 1971), 52.

¹⁰ Saunders Lewis, 'Llythyr at Gynan', *Y Ddraig Goch* (Hydref 1926), 7.

¹¹ Thomas Parry, 'Megis Seren Wib', op. cit.

¹² Saunders Lewis, 'Sut y mae'r Bardd yn Cyfansoddi: Llyfr Dr. Parry-Williams ar Elfennau Barddoniaeth', *Western Mail*, 1 Chwefror 1936, 11.

¹³ Idem, 'Tudur Aled', *Meistri'r Canrifoedd*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), t. 112.

¹⁴ Idem, 'Manawydan Fab Llyr', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 23.

‘[dd]arllen y cywydd heb ymgynhyrfu’ – sylw, wrth gwrs, sy’n amlygu nad yn ddiragfarn y daw darlennydd at destun.¹⁵

Yn *Ceirlog*, nododd Saunders Lewis y ceir ‘ym mywyd dyn o gig a gwaed ... syniadau a thueddiadau na all na hanesydd nac eneidegydd eu hegluro’.¹⁶ Gan hynny, ei ddiddordeb yn hytrach ydoedd y berthynas rhwng testun a darlennydd: ‘barddoniaeth, pan fyddwyf yn darllen’. Dyna pam y dywedodd am y gân, ‘John Jones a John Bull’, a ‘llawer o ganeuon Ceirlog’, ‘mae’n annifyr eu darllen. Nac ymresymwn amdanynt, ond edrych a mynd heibio.’¹⁷ A hynny gan ei fod yn wahanol i Thomas Parry yn cydnabod – fel y gwnaeth yn ei ysgrif gynnar, ‘Tueddiadau Cymru rhwng 1919 a 1923’ – fod ganddo ei ‘[r]agfarnau gwreiddiol’ a oedd ‘yn cyfyngu cylch [ei] [g]ydymdeimlad’.¹⁸

Yn ei ysgrif ‘Trasiedi’, sef adolygiad o lyfr Herbert Vaughan, *The South Wales Squires*, nododd Saunders Lewis ‘[f]od yn llyfr Mr. Vaughan ragfarn o’u plaid [yr hen sgwëriaid], a bydd hynny’n help i gywiro’r hen ragfarn yn eu herbyn’.¹⁹ Hynny yw, er y portreadir Saunders Lewis yn y traethawd hwn yn sylfaenydd y feirniadaeth lenyddol Gymraeg honno sy’n tueddu i gyfeirio at y ‘traddodiad llenyddol’ mewn modd gwrthrychol, a’i fod yn ddylanwad ar nifer o feirniaid Cymraeg sy’n credu eu bod yn llefaru’n ddiragfarn, gwelir iddo ef ei hun gydnabod yn llawen ddigon mai rhagfarn o blaid y naill safon ac yn erbyn y llall yw calon pob beirniadaeth. Dyna pam, fe greidir, yr oedd ef yn awyddus i weld cyfnodolion megis *Tir Newydd* a *Heddiw* yn dwyn ‘newyddwch i feirniadaeth lenyddol Gymraeg’,²⁰ ac yn fawr ei ganmoliaeth i weithiau beirniadol a oedd yn edrych ar lenyddiaeth

¹⁵ Idem, ‘Siôn Cent’, *Meistri a’u Crefft*, gol. Gwynn ap Gwilym (Caerdydd, 1981), t. 150.

¹⁶ Idem, *Ceirlog: Yr Artist yn Philistia – I* (Aberystwyth, 1929), t. 39.

¹⁷ Ibid., t. 38.

¹⁸ Idem, ‘Tueddiadau Cymru rhwng 1919 a 1923’, *Baner ac Amserau Cymru*, 6 Medi 1923, 5.

¹⁹ Idem, ‘Trasiedi’, *Y Ddraig Goch*, 1.2 (Gorffennaf 1926), 5.

²⁰ Idem, ‘Cyflwr ein Llenyddiaeth’, *Meistri a’u Crefft*, t. 168.

Gymraeg o du cyfeiriadau newydd. Cafwyd enghraifft gynnar o hynny, wrth gwrs, gan Saunders Lewis ei hun yn *Williams Pantycelyn* lle yr edrychwyd ar waith yr emynydd o du cyfeiriad ‘eneideg’, neu feirniadaeth seicdreiddiol,²¹ ac nid yw’r modd yr arferai ddarllen testun llenyddol yng ngoleuni testun anllenyddol cyfoes yn annhebyg i ddulliau’r Hanesyddiaeth Newydd.²² Cyflwynodd inni hefyd gyfres o awdur-destunau, ar lun y patrwm a nodwyd yn y bennod gyntaf. A gwerthfawrogai waith a ddangosai ‘olion beirniadaeth Farxaidd’ ac a oedd o’r herwydd ‘yn werthfawr athronyddol o’r herwydd’.²³ Yn wir, cymaint y diddordeb mewn ffyrdd newydd o edrych ar lenyddiaeth fel mai testun llawenydd iddo ef ydoedd bod y feirniadaeth honno a ddeallai’r traddodiad llenyddol Cymraeg ‘yn ei chael ei hun ar ben llanw llif beirniadaeth nodweddiadol yr ugeinfed ganrif yn Ewrop’. Wrth adolygu llyfr Thomas Parry ar faledi’r ddeunawfed ganrif, nododd y ‘gallai’r beirniad llenyddol Marxiaidd ddarllen llyfr Mr. Tom Parry a’i gael yn llyfr byw’.²⁴

Yn hyn o beth, felly, gwelir bod yr hyn a ddywed Simon Brooks am berthynas John Morris-Jones â’r ‘gymdeithas Gymraeg’ hefyd yn wir am berthynas Saunders Lewis â’r cenedlaethau dilynol o feirniaid llenyddol Cymraeg a’i holynodd. Meddai Simon Brooks:

[B]u theori yn hanfodol i ganfod yr hyn y tybiai cenedlaethau diweddarach ei fod yn ‘synnwyr cyffredin’. Ni thybrid bod angen theori eto; yn wir, i’r graddau fod theori yn rhwym o danseilio ‘synnwyr cyffredin’ cymdeithas Gymraeg a oleuwyd eisoes, fe’i gwatwerid.²⁵

²¹ Idem, *Williams Pantycelyn* (Llundain, 1927), t. 48.

²² Gw., e.e., idem, ‘The Tradition of Taliesin’, gol. Alun R. Jones a Gwyn Thomas, *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff, 1973), t. 150. ‘I submit that Taliesin cannot be read apart from Gildas ...’ Cymh. ‘Branwen’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 7. ‘Fe dâl inni ddarllen Sieffre a’r *Pedair Cainc* gyda’i gilydd.’

²³ Idem, ‘Beirdd a Beirniaid’, *Western Mail*, 12 Mehefin 1965, 8.

²⁴ Idem, ‘Baledi’r Ddeunawfed Ganrif: Nodau’r Feirniadaeth Gymraeg Newydd’, *Western Mail*, 30 Tach. 1935, 11.

²⁵ Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd, 2004), t. 95.

Mae'n baradocs rhyfedd fod Saunders Lewis ei hun yn barod iawn i gydnabod ei ragfarnau – nid yn unig hynny, ond eu bod yn cyfyngu cylch ei gydymdeimlad beirniadol – eithr bod ei olynwyr beirniadol yn awyddus iawn i arddel yr hyn a alwodd R. M. Jones yn '[f]yth "diniwed" ... [g]wrthrycholdeb': safbwynt a fynegir yn loyw yn y dyfyniad isod o waith Donald Evans.²⁶ Meddai ef:

Dywedwyd yn fynych mai cwblw amhosibl yw i feirniad llenyddol geisio bod yn ddiuedd wrth ei waith, gan fod 'na ryw ragdyb neu'i gilydd o'i eiddo'n siŵr o liwio neu gyfeirio'i argraffiadau. Cwblw gywir, dylai sicrhau fod ganddo ragdyb, anferth o ragdyb holl-lywodraethol, i'w lywio drwy gydol ei waith, sef clamp o ragfarn yn erbyn rhagfarn ei hunan.²⁷

Mae'r sylw ym mrawddeg agoriadol y bennod hon yn nodi'n glir nad arddelir y safbwynt hwn yma. A hynny gan y credir bod gwrthrycholdeb beirniadol, sef un o brif amcanion yr Oleuedigaeth – barn ddiragfarn – yn gofyn i'r unigolyn sefyll y tu allan, nid yn unig i'w fywyd ei hun, ond i fywyd ei hun. Fel y nododd R. M. Jones, gofyn i'r 'hanesydd ei ddileu ei hun'. Mae'n dasg amhosibl.

Dyna pam y mae haneswyr o gyfnodau gwahanol bob amser yn dehongli arwyddocâd hanes yn wahanol ac yn canfod cydlynid ffeithiau syml ac oer mewn modd gwahanol.²⁸

Amlygu hyn, er enghraifft, a wnaeth Derec Llwyd Morgan yn ddiweddar wrth draethu ar *Hanes Llenyddiaeth* Thomas Parry, a nodi bod yr awdur 'yn cyfeiliorni o ran ei dueddfrwydedd heb iddo ystyried hynny'.²⁹ Wrth adolygu'r llyfr yn 1945, meddai T. J. Morgan: 'Byddai'n anodd i neb ddywedyd fod ganddo ragfarn neu oruedd at ddim. [...] Nid oes ganddo athrawiaeth i'w gweithio allan nac i'w gwithio arnom.'

²⁶ R. M. Jones, *Llên Cymru a Chrefydd: Diben y Llenor* (Abertawe, 1977), t. 61.

²⁷ Donald Evans, 'Cyfoesoledd (Parhad)', *Barddas*, 263 (Mehfin/Gorffennaf 2001), 2.

²⁸ R. M. Jones, 'Dychwelyd at y Diduedd', *Y Traethodydd*, 140 (Ionawr 1985), 44.

²⁹ Derec Llwyd Morgan, 'Nid Hwn Mo'r Llyfr Terfynol': *Hanes Llenyddiaeth Thomas Parry: Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd 2004* (Cyhoeddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 2004), t. 16.

Cyfeiriad cynnil, mae'n siŵr, yw'r frawddeg olaf, fel yr awgrymodd Derec Llwyd Morgan, at Saunders Lewis. Yr oedd y gwleidydd o feirniad wedi ennill enw iddo'i hun am 'basio'i ddefnyddiau drwy ei bersonoliaeth ei hunan'.³⁰ Fe'i beirniadwyd yn hallt gan Moelwyn yn *Mr. Saunders Lewis a Williams Pantycelyn* am gyflwyno 'theory', ac o esgeuluso'r 'ffeithiau' 'yn ei ymdrech i geisio'i phrofi'.³¹ A'r un ydoedd dyfarniad W. J. Gruffydd yn 1932. Beirniadwyd Saunders Lewis am '[g]rwydro ymhell o'r "ffeithiau"', sylw a gymhwysodd yntau at *Williams Pantycelyn* ynghyd â'r *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*. Tuedd Saunders Lewis ydoedd cyflwyno beirniadaeth 'oddrychol, yn croniclo nid yn gymaint yr hyn a wêl pawb yn y gwrthrych, ond gweledigaeth arbennig a dehongliad personol y beirniad'.³²

Yr un ydoedd dedfryd Ifor Williams ar y *Braslun* hefyd: 'creadigaeth yn hytrach na phortread.'³³ Ac felly D. Gwenallt Jones yr un flwyddyn (1933). Yr oedd Saunders Lewis yn tueddu i 'chwilio' am dystiolaeth mewn cerdd a fyddai'n cadarnhau ei ddamcaniaethau ef ei hun am natur y traddodiad barddol.³⁴ 'Didwytho' ydoedd gair D. Tecwyn Lloyd am hyn: 'cymryd gafael ar syniad, neu greu syniad, ac yna ei gymhwyso at y rhannau hynny o'r deunydd sydd yn digwydd ei ffitio.'³⁵ A chymharus o ran hynny yw sylw mwy diweddar Robert Rhys, yn awgrymu bod Saunders Lewis yn rhoi sylw i'r elfennau llenyddol hynny a oedd 'yn digwydd

³⁰ W. J. Gruffydd, [adolygiad o Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: I*], *Y Llenor*, 11 (1932), 253.

³¹ John Gruffydd Hughes (Moelwyn), *Mr. Saunders Lewis a Williams Pantycelyn* (Birkenhead, 1928), t. 33. Cymh. Pennar Davies, 'His Criticism', gol. Alun R. Jones and Gwyn Thomas, op. cit., t. 97. 'I suspect there is a little more of Saunders Lewis than of Williams Pantycelyn in this final synthesis [ar ddiwedd y llyfr].' Ar ystyr y gair 'theory', cymh. Saunders Lewis, *Letters to Margaret Gilchrist*, gol. Mair Saunders Jones, Ned Thomas a Harri Prichard Jones (Cardiff, 1993), t. 11. '... a sort of theory I have been feeling my way towards ...'

³² W. J. Gruffydd, [adolygiad o Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: I*], op. cit.

³³ Ifor Williams, 'Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg', [adolygiad o'r llyfr], *Yr Efyddydd*, 9 (1933), 88.

³⁴ Gw. D. Gwenallt Jones, 'Beirniadu Beirniad', *Y Llenor*, 12 (1932), 23-33.

³⁵ D. Tecwyn Lloyd, *John Saunders Lewis: Y Gyfrol Gyntaf* (Dinbych, 1988), t. 179.

cyfateb i un o'r pwyntiau ar agenda Lewis ei hun'.³⁶ Dyma'r feirniadaeth gonsensws fawr yn ei erbyn, felly.

Oherwydd y duedd o hyd, fe greidir, yw cadw at ddsraniad W. J. Gruffydd o dri math o feirniadaeth, a chredu mai'r olaf yn unig sy'n oddrychol. Nodir, fodd bynnag, fod sylwadau R. M. Jones a Derec Llwyd Morgan ar hanes llên, ynghyd â sylwadau Helen Fulton, ymhlith eraill, ar waith golygu testun, yn peri bod ambell un heddiw yn amau'r diffiniad hwn o feirniadaeth oddrychol.³⁷

Y math cyntaf o feirniadaeth yn nosraniad W. J. Gruffydd yw'r 'gwaith ysgolheigaidd ... casglu'r defnyddiau ac ymchwiliad manwl i'w hamseriad a'u lleoliad'. Yr ail yw 'gwaith hanesydd llên ... dangos undod datblygiad, croniclo pob ysgrifennydd yn ôl ei drefn [...] dangos sut y mae'n tyfu allan o draddodiad'. A'r trydydd yw'r 'math olaf o feirniadaeth ... [a] all fod yn llenyddiaeth ynddi ei hunan yn ogystal ag yn ddehongliad ar ei thestun'. 'Gwrthrychol hollol ydyw'r ddwy feirniadaeth gyntaf', meddai, tra bo'r olaf yn 'aml yn oddrychol'.³⁸ Am hynny, yn ôl y dosraniad hwn, digon derbyniol yw nodi i Saunders Lewis 'chwilio am hanes ... i wreiddio ei ddisgrifiad beirniadol', ond erys y math cyntaf o feirniad, Ifor Williams, er enghraifft, a'r ail, Thomas Parry, dyweder, ryw led braich gwrthrychol oddi wrthym.³⁹

Ac eto, fel yr awgrymwyd eisoes, drwy gyfrwng math o 'ymarferiad mewn dadeiladu', llwyddodd Derec Llwyd Morgan i amlygu 'mai gwaith rhagfarnllyd [hefyd] yw *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* er honni o'i awdur yn ddiniwed

³⁶ Robert Rhys, *Dawn Dweud: Daniel Owen* (Caerdydd, 2000) t. 80.

³⁷ Cymh. Jerry Hunter, 'Testun Dadl', *Tu Chwith*, 3 (1995), 81-5. Gw. tt. 83-4, lle y nodir bod golygyddion yn 'creu testunau sefydlog ansymudol o lenyddiaeth a gynhyrchwyd gan gymdeithas na wyddai ddim am sefydlogrwydd testunol [...] Felly er mwyn cydnabod symudoldeb ac ansefydlogrwydd fel rhan naturiol o'r traddodiad llenyddol ni ddylid "golygu" o gwbl.'

³⁸ W. J. Gruffydd, [adolygiad o Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: I*], op. cit., 249-250.

³⁹ Ifor ap Dafydd, *Saunders Lewis a'r 'Estheteg Gymreig': Agweddau ar ei feirniadaeth lenyddol* (Traethawd MPhil: Aberystwyth, 2001), t. 100. Cyfeiriad yn unig at waith Saunders Lewis sydd yma.

nad “amcanwyd [ynddo] ond disgrifio”. A’r rheswm am hynny yw am fod gan bob un darlennydd, wrth iddo ddarllen, ‘norm neu batrwm delfrydol yn ei feddwl’.⁴⁰ Am hynny, ni ellir osgoi rhagfarn. Dyna a awgrymodd Saunders Lewis ei hun wrth adolygu’r *Hanes*, gan nodi mai ‘anffodus yw’r rhagfarn’ yn erbyn llenyddiaeth grefyddol.⁴¹

Yn hyn o beth, arddelir yma’r un safbwynt a fynegodd R. M. Jones yn ei ddadl â Dewi Z. Phillips ynghylch didueddrwydd yn *Y Traethodydd* yn yr wyth degau. Safbwynt yw a grynhoir gan y ddihareb, ‘*Nid gwybodaeth, gwybodaeth heb ragdybiaeth.*’⁴²

Amlygu hynny’n eironig ddigon y mae sylw Donald Evans uchod ynghylch ei ‘ragfarn yn erbyn rhagfarn’, sydd ei hun, wrth gwrs, yn rhagfarn (yn erbyn rhagfarn), ac sy’n cadarnhau awgrym yr athronydd Hans-Georg Gadamer yn ei lyfr, *Truth and Method*. Meddai Gadamer:

The overcoming of all prejudices, this global demand of the Enlightenment, will itself prove to be a prejudice, and removing it opens the way to an appropriate understanding of the finitude which dominates not only our humanity but also our historical consciousness.⁴³

Pwysleisir yn *Truth and Method* fod pob beirniadaeth – hyd yn oed honno yn erbyn rhagfarn – yn cychwyn o ryw bwynt arbennig, ac na ellir o gwbl feirniadu pob rhagfarn yn gyfamserol. Ar y gorau, gall yr unigolyn feirniadu rhai rhagfarnau’n unig, a hynny o safbwynt arbennig sy’n derbyn rhagfarnau eraill. Ond nid oes modd dianc

⁴⁰Derec Llwyd Morgan, op. cit., tt. 9, 17, 14, 13.

⁴¹Saunders Lewis, ‘Hanes Llenyddiaeth Gymraeg’, *Meistri a’u Crefft*, t. 269. Cymh. ‘Kywydd Barnad Ithel ap Rotbert’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 64. ‘Yn wir, y mae sefydlu testun sicr a safonol i gywydd gan Iolo Goch yn amhosibl.’ Am resymau hanesyddol, nid athronyddol, y nodir hyn; ond erys yn sylw gwerthfawr ar ‘waith ysgolheigaidd’.

⁴²R. M. Jones, ‘Hanes Seciwlar a Hanes Go Iawn’, *Barn*, 35 (Medi 1965), 312.

⁴³Hans-Georg Gadamer, *Truth and Method*, cyf. Jeol Weinsheimer a David G. Marshal (New York, 2il arg., 1991), t. 276. Cymh. R. M. Jones, ‘Myth y Diduedd’, *Y Traethodydd*, 139 (Ionawr 1984), 49-50. ‘Pan fo athronydd yn hawlio nad yw am gymryd ond rheswm pur a diragdyb yn fan cychwyn i’w



rhag dylanwadau hanesyddol a diwylliannol yn llwyr ac arddel safbwynt cwbl niwtral a fydd yn caniatáu i'r unigolyn feirniadu pob rhagfarn yn rhesymol a gwrthrychol; oblegid nid yw rhesymoledd yn bodoli y tu allan i hanes, arferion a thraddodiadau arbennig. Nid oes y fath beth â gwrthrycholdeb absoliwt, diduedd. I'r beirniad gwrthrychol, math o benderfyniaeth yw hynny. Caethiwed. Ond pwysleisiodd Gadamer mai dyma yw hanfod bywyd yn gyffredinol.

Does being situated within traditions really mean being subject to prejudices and limited in one's freedom? Is not, rather, all human existence, even the freest, limited and qualified in various ways?⁴⁴

Ac yn hyn o beth, yr oedd Saunders Lewis a'i bwys yntau ar ragfarn a thraddodiad – ynghyd â'i ragfarn o blaid traddodiad – yn rhannu'r un safbwynt athronyddol â Gadamer. Yn wir, yn 1928, mewn ymateb i feirniadaeth Syr John Morris-Jones ar awdl Gwenallt 'Y Sant', cyhoeddodd Saunders Lewis ysgrif yn *Y Llenor* sy'n rhannu'r un agwedd sylfaenol at ragfarn â'r astudiaeth bresennol hon. Yn yr ysgrif honno, nid yn unig iddo gydnabod yr egwyddor fod beirniaid llenyddol yn darllen testunau llenyddol o safbwynt rhagfarnau penodol, ond awgrymodd hefyd mai'r unig fodd o gymodi rhwng dwy garfan sy'n arddel rhagfarnau gwahanol yw trwy ymchwilio i hanes y rhagfarnau hynny, yn y gobaith o'u deall yn well. Dyna, wrth gwrs, sy'n geidwadol am feirniadaeth Saunders Lewis ac R. M. Jones. Er gwaetha'r parodrwydd i gydnabod rhagfarn, credir hefyd y gellir osgoi sefyllfa o amrywiaeth barn – sef ffrwyth rhagfarnau gwahanol – drwy chwilio'n ôl am fan

athroniaeth am fywyd, y mae fe eisoes wedi dechrau gyda dogma rhagdyb sy'n gyn-resymol. [...] Myth ydyw pob disgrifio diduedd.'⁴³

⁴⁴ Ibid.

cychwyn hanesyddol a iaith gyffredin i'r naill ochr a'r llall. Er gwaetha'r amrywiaeth barn, deisyfir 'undod *damcaniaethol* i weithgareddau dyn'.⁴⁵

Nid edrychir ar hanes y ddadl benodol ynghylch awdl Gwenallt yma; dim ond nodi i sylwadau Syr John Morris-Jones arni ymrannu'r sylwebyddion yn ddwy garfan:

Ffyrnigodd rhai yn erbyn digywilydd-dra'r "gwaed ifanc" yn llên Cymru. Gwylltiodd eraill yn erbyn henferchedeiddiwch hen feirniaid.⁴⁶

A safodd Saunders Lewis yn y bwlch, gan gynnig datrysiad posibl. Meddai:

Fel y saif y ddadl heddiw, nid ydym fawr goleuach ein meddyliau na phan godwyd hi. Eglurodd y ddwy blaid eu tueddiadau, ac nid ymddengys bod cymod rhyngddynt na chymrodedd. Gan hynny mi dybiaf nad diwerth fyddai holi yn hanes llenyddiaeth a syniadau llenyddol er mwyn cael cefndir ehangach i'n rhagfarnau, ac er mwyn oeri ein gwaed hefyd – peth a all fod yn fuddiol hyd yn oed mewn dadl.⁴⁷

Fel y gwelir o'r dyfyniad hwn, ni cheisiodd Saunders Lewis ddadlau o blaid y naill safbwynt na'r llall drwy edrych ar awdl Gwenallt ei hun. Ni ofynnodd chwaith i'r bardd '[p]a effaith y mae'n bwriadu i'w gân ei gael ar y sawl sy'n darllen'. Eithr, yn hytrach, yr awgrym clir yw fod yr anghytundeb yn anorfod, a hynny am fod gan y gwahanol ddarllenwyr wahanol ragfarnau. Ys dywed Alasdair MacIntyre: 'Each party ... succeeds by the standards internal to its own tradition of moral inquiry, but fails by the standards internal to the traditions of its opponents.'⁴⁸ Y testun o ddiddordeb i Saunders Lewis, felly, yw ymchwilio i draddodiadau'r rhagfarnau hynny, fel y gweddai i feirniad a oedd ei hun yn hoff iawn o gydnabod 'the sources of his

⁴⁵ Dewi Z. Phillips, 'Ai Bod yn Naiff yw Ceisio Bod yn Ddiduedd?', *Y Traethodydd*, 138 (Hydref 1983), 204. Dyma pam y beirnedir 'dilynwyr Freud, y Marcsydd a'r Calfinydd' gan Dewi Z. Phillips. Gwendid yw'r awydd hwn am 'undod'. 'Methant weld nad oes rhaid iddynt wrthod disgrifiadau o safbwyntiau eraill sydd wrth fodd y rhai sy'n arddel y fath safbwyntiau.'

⁴⁶ Saunders Lewis, 'Y Sant', *Y Llenor*, 7 (Gaeaf 1928), 217.

⁴⁷ *Ibid.*, t. 218.

inspiration and ... his artistic and intellectual debts'.⁴⁹ Dyma'r safbwynt athronyddol sy'n brif nodwedd ar waith yr athronydd Alasdair MacIntyre hefyd. Wrth drafod 'MacIntyre's Fusion of History and Philosophy', meddai Gordon Graham:

If we are to understand how it is that incompatible arguments are equally sound, we will have to explore the difference of approach each adopts, the larger set of assumptions each relies on. To do this is to be steered into an exploration of traditions of moral thought and inquiry and into the study of their development over time.⁵⁰

I'r perwyl hwn y cyfeiriodd Saunders Lewis at Platon, Horas ac Aristoteles, er mwyn atgoffa darllenwyr *Y Llenor* 'mor oedrannus yw'r broblem hon [o berthynas egwyddorion moesol a llenyddol]', cyn bwrw ymlaen a dechrau ei 'ymchwil yng Nghymru yr Oesoedd Canol' â chanu Beirdd yr Uchelwyr.⁵¹ Oddi yno, troir 'oddi wrth fardd Cymraeg yr Oesoedd Canol at feirniaid llenyddol y Dadeni Dysg', ac at Ellis Wynne, hyd oni ddeuir at ramantiaeth Pantycelyn.⁵² Yn wir, y mae'r erthygl yn batrwm o'r math o astudiaeth a awgrymir gan Gordon Graham yn y dyfyniad uchod. A gwneir peth tebyg yn 'Llenorion a Lleygwyr', lle y ceisir esbonio pam y derbynnir gweithiau ysgolheigaidd Cymraeg ar 'darddiad yr Eisteddfod, am yr Orsedd, am Gyfrinach y Beirdd, am ffugion Iolo Morganwg ... yn hwyrfrydig ac yn sarrug gan rai heddiw, a phaham na chaiff yr ysgolheigion mawr sy'n gyfrifol amdanynt mo'r clod a roddir yn hael iddynt ymhen ugain mlynedd'.⁵³ Deallai Saunders Lewis fod

⁴⁸ Alasdair MacIntyre, 'A Partial Response to my Critic', gol. John Horton and Susan Mendus, *After MacIntyre: Critical Perspectives on the Work of Alasdair MacIntyre* (Oxford, 2il arg., 1996), t. 294.

⁴⁹ Dafydd Glyn Jones, 'His Politics', gol. Alun R. Jones a Gwyn Thomas, op. cit., t. 23. Cyfeirir, er enghraifft, ar dudalen 45 at lythyr gan Saunders Lewis at W. J. Gruffydd lle yr enwa Saunders Lewis bedwar awdur Catholig y mae'n eu hedmygu: y bardd a'r dramodydd, Claudel; y nofelydd, Mauriac; yr hanesydd athroniaeth, Etienne Gilson; a'r beirniad llenyddol, Jacques Rivière.

⁵⁰ Gordon Graham, 'MacIntyre's Fusion of History and Philosophy', gol. John Horton a Susan Mendus, op. cit., t. 165.

⁵¹ Saunders Lewis, 'Y Sant', op. cit., tt. 218-19.

⁵² Ibid., t.220.

⁵³ Idem, 'Llenorion a Lleygwyr', *Meistri a'u Crefft*, t. 164. Cymh. 'Ann Griffiths a Chyfriniaeth', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 320. Cyn ymateb i ddadl J. R. Jones, nodir ei fod 'yn athronydd proffesiynol',

‘gwirionedd histori’, chwedl Theophilus Evans, yn ddibynol ar natur rhagfarnau’r gynulleidfa, ac na ddylai’r hanesydd anwybyddu’r rheini.⁵⁴

Dyma’r safbwynt athronyddol a arddelir yma hefyd. Rhennir y diddordeb hwn mewn archwilio rhagfarnau, ond gan gofio bod y sawl sy’n chwilio am ‘[g]efndir ehangach i’n rhagfarnau’ ei hun yn gwneud hynny o safbwynt rhagfarnol a hanesyddol penodol. Dyna’r cyfyngiad mawr sy’n peri bod yn rhaid i un gydnabod weithiau nad oes modd iddo ‘lwyr ddeall’ gweithiau a gyfansoddwyd y tu allan i’w ddiwylliant ei hun. Ys dywed Kate Boss-Griffiths, er enghraifft am waith Lao-Tse: ‘Y mae iaith y llyfr ... mor gymhleth fel na chaiff y meddwl gorllewinol byth, hwyrach, ei ddeall yn gyflawn ... [ac eithrio yn ôl safonau’r meddwl gorllewinol].’⁵⁵

‘Reason exists for us only in concrete, historical terms.’ Meddai Gadamer: ‘it is not its own master but remains constantly dependent on the given circumstances in which it operates.’⁵⁶ Ac er mwyn amlygu’r egwyddor hon ar waith yn y traethawd hwn – traethawd a gais astudio’r cysyniad o ganon llenyddol Cymraeg – cydnabyddir yma fod y cysyniad o draddodiad a chanon llenyddol Cymraeg yr ymchwilir iddo yma yn un a oedd eisoes wedi dylanwadu’n fawr ar y darlennydd cyn i’r un gair gael ei ysgrifennu ganddo, ac nad yn ddiragfarn chwaith yr edrychir ar waith Saunders Lewis. Oherwydd, fel y nododd Alasdair MacIntyre, sydd hefyd megis Gadamer yn gwrthwynebu rhaglen wrthrycholdeb yr Oleuedigaeth:

Only in fantasy do we live what story we please. In life, as both Aristotle and Engels noted, we are always under certain constraints. We enter upon a stage

a bod angen deall ei fod ef yn diffinio’r gair ‘cyfriniaeth’ mewn perthynas â’r ‘traddodiad athronyddol a diwinyddol’, nid traddodiad ei ‘ragflaenwyr Cymraeg’.

⁵⁴ Cymh. ‘Drych y Prif Oesoedd’, *Meistri’r Canrifoedd*, tt. 243, 246. ‘Ond ai maes i’r gwyddonwyr newydd yw hanes? [...] *Drych y Prif Oesoedd* yw’r llyfr a drosglwyddodd y ddau futhos hyn i Gymru fodern a’u gwneud yn rhan o draddodiad cefn gwlad, hyd oni ddaeth addysg fodern i ddinistrio diwylliant.’

⁵⁵ Kate Bosse-Griffiths, ‘Detholion o’r Dwyrain: Lao-Tse’, *Teithiau’r Meddwl: Ysgrifau Llenyddol Kate Bosse-Griffiths*, gol. J. Gwyn Griffiths (Talybont, 2004), t. 39. Dim ond y sawl sy’n meddu ar ‘wahanol haenau o hunaniaeth’ a all bontio’r gagendor rhwng dau ddiwylliant gwahanol. Gw. t. 233.

⁵⁶ Saunders Lewis, *Y Sant*, op. cit., 220.

which we did not design and we find ourselves part of an action that was not our making.⁵⁷

Y bwriad yma yw astudio'r cysyniad o draddodiad a chanon llenyddol Cymraeg. Fodd bynnag, dadl y bennod hon yw y gwneir hynny'n bennaf o du traddodiad beirniadol ac addysgol a gredai tan yn gymharol ddiweddar mai mater o 'synnwyr cyffredin' yw fod y fath beth â thraddodiad llenyddol Cymraeg unedig a didor yn bodoli, a hynny ar lun canon llenyddol cymharol sefydlog, os nad lledgaeëdig. Fel y nododd Derec Llwyd Morgan:

Y mae'n ymddangos bod pawb megis yn derbyn yr undod hwnnw fel ffaith, yn nodwedd o'n hanes llenyddol yn hytrach nag yn *ddehongliad* arno.⁵⁸

Cymerid yr undod hwnnw yn ganiataol yn *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* Thomas Parry, 'undod organig y corpws llenyddol', chwedl T J Morgan.⁵⁹ Ond fe'i gwelid cyn hynny yn *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* Saunders Lewis, ac yntau'r beirniad yn dadlau mai '[y]r hyn sy gan lenyddiaeth Gymraeg i'w osod ochr yn ochr ag amrywiaeth a chyfoeth didrefn Shakespeare a'i gydwladwyr ydyw corff o lenyddiaeth ... yn ôl yr unrhyw draddodiad ac egwyddor'.⁶⁰ Dyna pam yr oedd Saunders Lewis, er mor wahanol ydoedd ei agwedd ef at ddarllen lenyddiaeth ar un olwg, mor frwd ei ganmoliaeth wrth adolygu llyfr arall o waith Thomas Parry, sef *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif*, a hynny gan fod y beirniad hwn 'yn deall natur a hanfod y traddodiad llenyddol Cymraeg ... wrth iddi ddychwelyd at safonau a sylfeini'r hen draddodiad llenyddol Cymraeg', sef y safonau hynny a ddyrchefid gan Saunders Lewis ei hun yn *Williams Pantycelyn a'r Braslun*, sef safonau 'barddoniaeth yn

⁵⁷ Alasdair MacIntyre, *After Virtue: A Study in Moral Enquiry* (London, 2il arg., 1985), t. 213.

⁵⁸ Derec Llwyd Morgan, op. cit., t. 10.

⁵⁹ Dyf. *ibid.*, t. 9.

⁶⁰ Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: Y Gyfrol Gyntaf: Hyd at 1535* (Caerdydd, 1932), t. 5.

gweini mewn cymdeithas'.⁶¹ Er bod agwedd Thomas Parry yn fwy empeiraidd-oleuedig o lawer nag un wleidyddol-Gristnogol Saunders Lewis, a'i raglen waith yn debycach i eiddo W. J. Gruffydd yn *Llenyddiaeth Cymru, 1450–1600*, o ran bod Gruffydd yntau am 'ymdrin mewn ysbryd gwyddonol â threfn y beirdd yn yr oesoedd canol',⁶² yr oedd y naill feirniad a'r llall, awdur y *Braslun o Hanes* ac awdur yr *Hanes*, yn rhannu'r rhagfarn hon o blaid y traddodiad llenyddol, a'i undod rhagosodedig. Y rhagfarn honno sydd hefyd i'w gweld yn llyfr Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, sef llawlyfr dysg pob myfyriwr Safon Uwch mewn Cymraeg Mamiath yng Nghymru ers sawl cenhedlaeth bellach, ac a wnaeth gyfraniad clodwiw i lenyddiaeth Gymraeg drwy sicrhau bod y rhelyw o fyfyrwyr Cymraeg cyn iddynt ddarllen na'r *Braslun o Hanes* na'r *Hanes* yn cymryd yn ganiataol fod undod yn nodwedd arbennig o wrthrychol ar lenyddiaeth Gymraeg.⁶³

Ond nid yr ystyriaeth hon ynghylch y rhagfarn o blaid y traddodiad llenyddol Cymraeg yw'r unig ddylanwad sy'n fy rhwystro i rhag cyflwyno yma farn wrthrychol am y canon llenyddol Cymraeg. Ystyriaeth arall sy'n cymylu'r darlun yw'r modd i Saunders Lewis ddisgrifio lenyddiaeth Gymraeg yn nhermau 'corff o lenyddiaeth' cyn i wahanol aelodau'r corff hwnnw gael eu golygu gan ysgolheigion a'u cyhoeddi. Oherwydd hynny, nid yw'r ffin rhwng y traddodiad llenyddol Cymraeg a'r traddodiad beirniadol o ymchwil iddo yn un gyfan gwbl eglur, gyda rhai ffigurau canolog y traddodiad llenyddol yn anorfod glwm wrth ysgrifau o'r un enw o waith Saunders Lewis a roes, ar un olwg, fod iddynt. Fel y nododd Joel C. Weinsheimer yn ei lyfr, *Gadamer's Hermeneutics*:

⁶¹ Idem, 'Baledi'r Ddeunawfed Ganrif: Nodau'r Feirniadaeth Gymraeg Newydd', op. cit.

⁶² W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600* (Lerpwl, 1922), t. 3.

⁶³ Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976).

There is not only the tradition into which research inquires but also the tradition that directs historical inquiry and motivates it.⁶⁴

Yn ôl myth gwrthrycholdeb, natur y traddodiad cyntaf sy'n diffinio'r ail, gyda'r beirniad yn darganfod gwirioneddau, megis y gadawodd Saunders Lewis 'i'r bardd [Dafydd Nanmor] egluro'i feddwl ei hun', er gwaetha'r ffaith mai'r beirniad a ddetholodd ei ddyfyniadau.⁶⁵ Fodd bynnag, credir yma fod natur y berthynas yn un fwy cymhleth na hynny, ac na ellir gwahaniaethu bob amser rhwng Dafydd Nanmor a 'Dafydd Nanmor', Williams Pantycelyn a *Williams Pantycelyn*. A hynny, gan y gall yr ail draddodiad o ymchwil feirniadol ddylanwadu ar y cyntaf. Digwydd hynny gan fod y beirniad yn rhwym o gyflwyno darlleniad sy'n dweud rhyw gymaint amdano ef ei hun, yn ogystal â'r testun y mae'n ei ddarllen. Dyna a awgrymodd D. Tecwyn Lloyd pan nododd fod yr ysgrif 'Dafydd Nanmor' yn dweud cryn dipyn am 'syniadau cymdeithasol' Saunders Lewis ei hun.⁶⁶ A chadarnhau'r awgrym hwnnw y mae Dafydd Glyn Jones wrth nodi mai '[t]he social and economic programme of the early Welsh Nationalist Party was ... the restoration of *perchentyaeth* (literally, 'householding') as a dynamic principle of social life', sef yr union air y rhoes Saunders Lewis sylw iddo yng ngwaith Dafydd Nanmor.⁶⁷ Fel y nodwyd eisoes, cafodd Saunders Lewis ei feirniadu'n hallt am hyn; am 'ddidwytho'. Ond o gredu bod gan bawb 'norm' yn ei ben a thraddodiad o edrych y tu ôl i'w lygaid, credir hefyd fod hyn

⁶⁴ Joel C. Weinsheimer, *Gadamer's Hermeneutics: A Reading of Truth and Method* (London, 1985), t. 172.

⁶⁵ Saunders Lewis, 'Dafydd Nanmor', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 91. Cymh. M. Paul Brynat-Quinn 'Golwg ar Ganu Siôn Cent', *Llên Cymru*, 27 (Caerdydd, 2004), 83. Nodir i Saunders Lewis hepgor llinellau o'r testun.

⁶⁶ D. Tecwyn Lloyd, *op. cit.*, t. 266.

⁶⁷ Dafydd Glyn Jones, 'His Politics', *op. cit.*, t. 50. Gw. 'Y Teulu', *Canlyn Arthur* (Llandysul, 1985), tt.53-4. '[P]e deffroid Cymru mewn difrif, a mynnu ohoni gyfle i lunio ei bywyd ei hun, byddai'n rhaid iddi drwy hynny yfed mor helaeth o ysbryd ei gorfennol ei hun fel mai'r tebyg yw y penderfynai ddilyn yn llwybr ei thraddodiadau ac ail-sefydlu ar sail gadarn wladwriaeth Gymreig Gristnogol. Deuai'r teulu yn ôl i'w le yn ein bywyd cymdeithasol. Byddai i'r gair pen-teulu eto barch; byddai "perchentyaeth," hen egwyddor moliant y beirdd Cymraeg, yn nerth politicaidd eilwaith, ac ni edid i awdurdodau addysg gipio breintiau tad a mam.'

yn wir am bob darlennydd. Bod yn rhy dryloyw ydoedd gwendid Saunders Lewis, a hynny gerbron beirniaid ‘diragfarn’. Nid oes ryfedd iddo gael ei feirniadu. Cynhyrfai’n ormodol. Ond benthycir yma sylw o eiddo Glyn Williams a Delyth Morris am y gwyddorau cymdeithasol, a’i gymhwyso at feirniaid llenyddol yn gyffredinol: ‘they construct the very subjects and objects they purport to “explain”.’⁶⁸ Pa beth oedd yr Oesoedd Canol yn yr Oesoedd Canol? Pa bryd y bu Taliesin erioed yn Gynfardd? Credir mai yn y Beibl y gwelir yr enghraifft gyntaf o’r gair ‘traddodiad’, ac nid yn ‘y traddodiad barddol’, ac fel y nododd Dafydd Elis Thomas, ffemomen ddiweddar yng Nghymru ydyw ‘llenyddiaeth’.

Yn achos y traethawd hwn a gais ymchwilio i’r cysyniad o ganon llenyddol Cymraeg gan ddechrau â gwaith Saunders Lewis, nodir yn benodol na wneir hynny heb fod yn ymwybodol o’r modd y mae ysgrifau beirniadol Saunders Lewis, ei berson, ynghyd â’i gysyniad o ganon llenyddol eisoes wedi’u canoneiddio ganddo ef ei hun, ac yn fwyaf arbennig, gan eraill. Dyna’r sefyllfa ddarllen yr ydwyf eisoes, cyn imi ddechrau trafod gwaith Saunders Lewis, yn teimlo’n rhan ohoni, ac sy’n cyflyru’r darllen. Wrth drafod gwaith dramatig Saunders Lewis, nododd Ioan Williams i’r dramodydd sylweddoli yn ei gyfnod aeddfed

that tradition can be mediated through the present. Recognising that his consciousness is actually an aspect of the world on which he reflects, the hero of Saunders Lewis’ mature drama is free from the self-disgust which destroyed the characters of *Monica*. A conscious acceptance of the forces and the structures which have moulded consciousness and identity frees the individual from isolation and impotence.⁶⁹

Dyna, fe obeithir, a wneir yma hefyd: cydnabod ‘the forces and the structures which have moulded consciousness’, a hynny drwy gydnabod mai Saunders Lewis yn anad

⁶⁸ Glyn Williams a Delyth Morris, *Language Planning and Language Use: Wales in a Global Age* (Cardiff, 2000), t. xxv.

⁶⁹ Ioan Williams, *A Straitened Stage* (Bridgend, 1991), t. 72.

neb arall a osododd y llwyfan ar gyfer yr astudiaeth hon o'r canon llenyddol Cymraeg. 'Gwnaeth hi'n bosibl i'r neb a fynnai ac a allai, ar ei ôl ef, ddechrau yn y man y gorffennodd ef.'⁷⁰

X X X X X

Yn ei ragymadrodd i *Meistri'r Canrifoedd*, meddai R. Geraint Gruffydd:

Bwriad y gyfrol hon yw rhoi yn nwylo'r darlennydd gasgliad o ysgrifau pwysicaf Mr. Saunders Lewis ar hanes llenyddiaeth Gymraeg.⁷¹

Yn yr un modd, meddai Gwynn ap Gwilym yn ei ragymadrodd yntau i *Meistri a'u Crefft*:

Dylid darllen y gyfrol hon ochr yn ochr â'r erthyglau gan Mr Lewis a gyhoeddwyd yn *Presenting Saunders Lewis*, dan olygyddiaeth yr Athro Alun Jones a'r Dr Gwyn Thomas, a *Meistri'r Canrifoedd*, a'r llyfrau a'r monograffau a restrir ar ddechrau'r gyfrol honno. Fe gaiff y darlennydd wedyn fod ganddo wrth law gasgliad hwylus o weithiau beirniadol pwysicaf yr awdur eithriadol hwn.⁷²

Dyma drefnu, yn y naill achos a'r llall, gasgliad o'r gweithiau pwysicaf, a gwelir dwy egwyddor fawr y broses o ganoneiddio ar waith yma, sef derbyn a gwrthod, a thrwy hynny sefydlu testun safonol ar gyfer y dyfodol: un rheol ar gyfer pawb. Dyma'r egwyddor a welir hefyd ar waith yng nghyfrol Ioan Williams, *Dramâu Saunders Lewis*. Derbynnir y dramâu oll, ond eto, bu'n rhaid i'r golygydd ddethol rhwng gwahanol fersiynau, gan anelu at 'greu testunau sy'n ddarllenadwy ac eto'n

⁷⁰ Saunders Lewis, *Daniel Owen: Yr Artist yn Philistia – II* (Aberystwyth, 1936), t. 4.

⁷¹ R. Geraint Gruffydd, 'Rhagymadrodd', *Meistri'r Canrifoedd*, t. ix.

⁷² Gwynn ap Gwilym, 'Rhagymadrodd', *Mesitri a'u Crefft*, t. ix.

awdurdodol'.⁷³ Ni dderbynnir, er enghraifft, 'amryw sgriptiau radio a theledu, lle y cyflwynir tystiolaeth am weledigaeth cynhyrhydd yn hytrach nag am feddwl y dramodydd ei hun'.⁷⁴ Derbyn yr awdur-dodol a wneir, yn unol â phwyslais Saunders Lewis ei hun ar gyflwyno portread o'r awdur-destun. Ac yn unol ag arfer Saunders Lewis o faintioli cyfraniad Cymreig mewn perthynas â gwledydd eraill, noda'r golygydd mai ei fwriad yw 'gosod gweithiau Saunders Lewis ar yr un sylfaen â chlasuron llenyddol a dramataidd gwledydd eraill'.⁷⁵ Detholir safon.

Yn y naill gyfrol a'r llall, *Meistri'r Canrifoedd a Meistri a'u Crefft*, cydnabu'r golygyddion eu dyled i Mr. Saunders Lewis. Er i R. Geraint Gruffydd bwysleisio iddo, ar gais Saunders Lewis, ddilyn ei lwybr ei hun, nododd y naill olygydd a'r llall iddynt lunio eu cyfrolau mewn 'ymholiad' â'r beirniad ei hun. Yn achos *Meistri a'u Crefft*, nodir i'r beirniad 'gynnig dwy ysgrif newydd ac ysblennydd'.⁷⁶ Yn yr un modd, er y pwysleisir yn *Presenting Saunders Lewis* nad Saunders Lewis ei hun a ddetholodd y cynnwys, dywedir amdano: 'he is not only the subject of the book ... but at all times made it possible for the book to be produced'.⁷⁷ Yn aml iawn mewn ymdriniaethau sy'n ystyried egwyddorion canoneiddio, pwysleisir nad yr awdur ei hun sy'n canoneiddio ei waith ond yn hytrach ei olynwyr, a hynny'n aml iawn gan fod yr awdur wedi hen farw. Gwnaed y pwynt, er enghraifft, mewn perthynas ag ysgrifeniadau'r Apostol Paul yn y bennod flaenorol. Cymhwysir y sylw hefyd at y llyfr, *Saunders Lewis: Letters to Margaret Gilcriest* – llyfr na ddychmygodd Saunders Lewis ei gynhyrchu, heb sôn am ei gyhoeddi. Fodd bynnag, ymddengys fod o leiaf sêl bendith yr awdur ei hun ar y casgliadau o'i ysgrifau beirniadol. Yr oedd yn ddetholwr

⁷³ Ioan Williams (gol.), 'Rhagymadrodd', *Dramâu Saunders Lewis: Y Casgliad Cyflawn I* (Caerdydd, 1996), t. ix.

⁷⁴ Ibid.

⁷⁵ Ibid., t. x.

⁷⁶ Gwyn ap Gwilym, op. cit., t. vii

profiadol. Yn ei ragair i *Ysgrifau Dydd Mercher*, nododd Saunders Lewis iddo 'ddethol nifer o'm hadolygiadau ar lenyddiaeth yn *Y Faner* i wneud llyfr i'r Clwb Llyfrau. Dewisais ar gyfer y gyfrol hon ysgrifau ar lèn a hanes y gorffennol.'⁷⁸

Eraill a ddetholodd ysgrifau'r ddwy gyfrol feirniadol ddilynol. O holi ym mha le y deuir o hyd i'r canon llenyddol Cymraeg a hyrwyddodd Saunders Lewis, cyfeirio at y cyfrolau golygedig sydd raid. Megis y nododd Roland Barthes mai gwaith i eraill yw dod o hyd i'r awdur, felly'r un modd gyda'r canon hwn: 'reaching the core ... belongs to others'.⁷⁹ Nododd R. Geraint Gruffydd i Saunders Lewis 'ymdrin â bron bob awdur o bwys yn holl hanes llenyddiaeth Gymraeg'.⁸⁰ Rhestrodd Pennar Davies yntau weithiau Saunders Lewis a nodi '[that] [t]he range is catholic'.⁸¹ Detholwyd awduron gwahanol iawn i'w gilydd ar un olwg, ac ar sail amrywiaeth o feini prawf clasurol a rhamantaidd, ond camp golygyddion y ddwy gyfrol ydoedd pwysleisio undod y weledigaeth drwy roi iddi ffurf faterol llyfr mewn llaw. Wedi imi draddodi papur ar y pwnc hwn yn y Ganolfan Uwch-efrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth, dywedodd yr Athro R. Geraint Gruffydd wrthyf i Saunders Lewis ganiatáu pob rhyddid iddo ddethol yr ysgrifau ei hun, er iddo ofyn iddo beidio â chynnwys 'Safonau Beirniadaeth Lenyddol'. Derbyniaf hynny'n ddigwestiwn. Ond ar wahân i unrhyw ddylanwad uniongyrchol penodol ar y golygu, dadleuir mai'r prif ddylanwad ar y detholwyr golygyddol ydoedd y modd yr oedd Saunders Lewis ei hun wedi hyrwyddo'r cysyniad o ddethol a chasglu ynghyd oreuon sy'n rhannu egwyddorion cyffredin, nid yn unig drwy gyhoeddi *Ysgrifau Dydd Mercher*, ond drwy gyflwyno drwodd a thro y cysyniad o gorff o lenyddiaeth Gymraeg unedig a di-dor.

⁷⁷ Alun R. Jones a Gwyn Thomas (gol.), 'Acknowledgements', *Presenting Saunders Lewis*, op. cit., t. x.

⁷⁸ Saunders Lewis, *Ysgrifau Dydd Mercher* (Cyhoeddiadau'r Clwb Llyfrau Cymreig, 1945), t. 5.

⁷⁹ Roland Barthes, *Roland Barthes by Roland Barthes*, cyf. Richard Howard (London, 1977), t. 142.

⁸⁰ R. Geraint Gruffydd, op. cit., t. ix.

⁸¹ Pennar Davies, 'His Criticism', op. cit., t. 103.

Yn ei ragymadrodd i *Annwyl Kate, Annwyl Saunders* pwysleisiodd Dafydd Ifans na chyflwynodd Saunders Lewis ei bapurau oll i'r Llyfrgell Genedlaethol. 'Dihidlwyd ei bapurau ganddo'n ofalus i adael y trysorau'n unig.'⁸² A chadarnhau'r portread hwn o'r dihidlwr papurau y mae sylw ei ferch, Mair Saunders Jones, pan ddywed am ei lythyrau at ei wraig, Margaret Gilcriest:

Petai 'nhad wedi sylweddoli eu bod wedi cael eu cadw, hwyrach na fuasen nhw ddim wedi goroesi.⁸³

Prawf o hynny yw nid yn unig y modd y dihidlodd ei bapurau personol, ond hefyd ei ysgrifau beirniadol. Meddai Bobi Jones, er enghraifft:

Pan ddaeth yn amser ymhellach ymlaen yn ei oes i gyhoeddi detholiadau safonol o'i ysgrifau beirniadol gwasgar, ni chynhwyswyd dim oll o'r pethau hyn a ddywedodd ef cyn 1923.⁸⁴

Un o'r ysgrifau annetholedig ydoedd 'Safonau Beirniadaeth Lenyddol' y cyfeiriwyd ati uchod. Ynddi bychenir T. S. Eliot am geisio 'penderfynu canonau'r ddrاما', a dadleuir na ellir dosbarthu llenyddiaeth gan nad oes y fath beth â safonau beirniadol.

Canys od yw campwaith yn beth ar ei ben ei hun, heb iddo un gwir gymar, sut y gellwch chwi ei ddsbarthu ef ag eraill? Ac ni cheir fyth safon heb ddsbarth.⁸⁵

Nid rhyfedd na ddetholwyd yr ysgrif hon. Ysgrif sy'n dadlau fel hyn:

[O] cheisiwn ninnau ganonau llenyddol ac egwyddorion beirniadaeth, odid fawr nad gwaith ein plant fydd chwalu ein llafur a'n melltithio ni ...⁸⁶

⁸² Dafydd Ifans, 'Rhagymadrodd', *Annwyl Kate, Annwyl Saunders: gohebiaeth 1923 - 1983* (Aberystwyth, 1992), t. xi.

⁸³ Mair Saunders Jones, dyf. Harri Pritchard Jones a Ned Thomas, 'Rhagymadrodd', *Letters to Margaret Gilcriest*, t. vii.

⁸⁴ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg: 1902-1936* (Cyhoeddiadau Barddas, 1987), t. 383.

⁸⁵ Saunders Lewis, 'Safonau Beirniadaeth Lenyddol', *Y Llenor*, 1 (1922), 247.

Pwysleisiodd eraill, yn arbennig Pennar Davies, Dafydd Glyn Jones, R. M. Jones a John Rowlands, na lwyddodd y beirniad clasurol yn Saunders Lewis, o 1923 ymlaen, i lwyr ddianc rhag y rhamantydd cynnar. Yng nghyd-destun y drafodaeth hon, er enghraifft, nodir iddo barhau i arddel, i raddau o leiaf, ddau o'i ddatganiadau rhamantaidd cynnar: sef, yn gyntaf, mai 'yr anghyffredin yw hanfod llenyddiaeth', ac yn ail, 'nad oes angen am gydweled'.⁸⁷ Fel beirniad yr oedd yn awyddus i ddyrchafu'r newydd, ac yn barod i herio consensws academaidd y dydd. Cychwynfan nifer o'i ysgrifau yw datganiad sy'n nodi y bydd y beirniad yn cyflwyno dehongliad a fydd yn herio'r consensws cyfoes.⁸⁸ At hyn, y mae'n eironig fod R. Geraint Gruffydd yn ei ragymadrodd i *Meistri'r Canrifoedd* yn dyfynnu o'r ysgrif annetholedig hon, 'Safonau Beirniadaeth Lenyddol', er mwyn pwysleisio creadigrwydd yr ysgrifau detholedig. Ond y beirniad rhamantus, gwrthganonaidd yn 'Safonau Beirniadaeth Lenyddol' a fynnodd mai 'gwaith beirniad llenyddol yw cyfansoddi llenyddiaeth,' sef y trydydd datganiad rhamantaidd, cynnar a arddelodd y beirniad drwy gydol ei yrfa, ac sy'n esbonio'n rhannol pam y mae'r ffin rhwng y traddodiad llenyddol a'r traddodiad o feirniadu'r traddodiad llenyddol mor amwys – gan mai llenyddiaeth greadigol yw'r naill a'r llall.⁸⁹ Nododd R. Geraint Gruffydd fod yr ysgrifau yn *Meistri'r Canrifoedd* 'nid yn unig yn ysgrifau am lenyddiaeth ond hefyd yn ysgrifau sy'n llenyddiaeth ynddynt eu hunain'.⁹⁰ Ac yn hyn o beth, y mae'n drawiadol mai dyma'r union beth a nodir yn achos rhai o feirniaid amlycaf Theori, sef bod eu gwaith

⁸⁶ Ibid., tt. 245-6.

⁸⁷ Ibid., tt. 245, 247.

⁸⁸ Gw., e.e., idem, 'Drych y Prif Oesoedd', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 232; a 'Thema Storm Islwyn', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 357. 'Y mae'r beirniaid diweddar oll yn gytûn nad oes dim undod thema neu gynnwys yn *Y Storm*. [...] Yn yr ysgrif bresennol fy mwriad yw ystyried yn unig thema'r gerdd a chynnig dehongliad i ddangos ei hundod a'i chyfanrwydd.'

⁸⁹ Idem, 'Safonau Beirniadaeth Lenyddol', op. cit., t. 246.

⁹⁰ R. Geraint Gruffydd, op. cit., t. x.

ar y canon llenyddol ei hun bellach yn rhan ohono. Meddai Seán Burke am y dadadeiladwr, Jacques Derrida, er enghraifft: ‘Having rewritten the canonical text, the critic goes on to produce texts of his own. [...] [C]riticism finds itself within literature.’⁹¹ Pwysleisio hynny mewn ffordd goncrit iawn y mae’r ffaith fod ysgrifau’r beirniad llenyddol yn cael eu cyhoeddi ar lun cyfrol clawr caled sy’n pwysleisio mai ‘cynhyrchu testunau’ yr oedd ef ei hun, ac nid trafod rhai eraill. Am hynny, credir bod i’r broses hon o ganoneiddio gwaith beirniadol Saunders Lewis oblygiadau pendant iawn. Oherwydd y mae’r casglu ynghyd a fu ar ysgrifau beirniadol Saunders Lewis, gyda’r bwriad o roi trefn derfynol arnynt – er y cyhoeddodd John Rowlands restr o ysgrifau annetholedig yn *Saunders y Beirniad* – yn hyrwyddo’r cysyniad o ganon lawn cymaint ag unrhyw ddatganiad a wneir ynghylch meistri’r canon yn yr ysgrifau beirniadol hynny. A dyfynnu hen wireb Marshall McLuhan a Quentin Fiore: ‘y cyfrwng ydyw’r cynnwys’.⁹²

Fodd bynnag, yn achos Saunders Lewis nid y gwaith beirniadol yn unig a ganoneiddiwyd, ond hefyd ei berson, gydag eraill wrth iddynt ei ganmol yn priodoli iddo ddisgleirdeb sant. Yn hyn o beth, deuir yma at Saunders Lewis o du traddodiad penodol o edrych arno mewn ffordd edmygus iawn. Nid yw heb ei feirniaid erbyn hyn, ond yn bersonol, nodaf y gwn i ryw gymaint am yr ‘edmygedd anfeirniadol’ hwnnw, chwedl D. Tecwyn Lloyd, a oedd ‘yn ymylu ar addoliad’ – edmygedd a ysgogwyd gan y ddelwedd gyhoeddus, ddethol a gysylltid â Saunders Lewis ar hyd ei oes – ‘ei ddawn hynod i gyfleu sicrwydd ac awdurdod ynghylch y pwnc y bo’n

⁹¹ Seán Burke, *The Death and Return of the Author: Criticism and Subjectivity in Barthes, Foucault and Derrida* (Edinburgh, 1992), tt. 159-60.

⁹² Marshall McLuhan a Quentin Fiore, *The Medium is the Message* (Cyhoeddiadau Corte Madera, 2001). Cyhoeddwyd gyntaf yn 1967 gan Random House.

digwydd traethu arno'.⁹³ Yn y cyswllt hwn, felly, y mae'r gair 'canoneiddio', a dyfynnu Geiriadur Prifysgol Cymru, yn golygu 'cyfrif yn sant, weithiau'n *ffig*'.⁹⁴

Ymranna'r canoneiddwyr y tro hwn yn dair prif garfan: beirdd, llenorion a chydabod. O blith y beirdd, diolch i gwricwlwm ysgol a choleg, cerddi R. Williams Parry a ddaw i'r meddwl gyntaf, 'Cymru 1937', 'J.S.L.' a 'Y Gwrthodedig'.⁹⁵ Dywedwyd eisoes mai dwy egwyddor fawr canoneiddio yw fod yn rhaid derbyn ar y naill law, ac ar y llaw arall, wrthod. Yn 'J.S.L.', meddai'r bardd, wrth y golomen honno a ddisgynnodd o'r nef:

Buost ffôl, O *wrthodedig* ffôl; canys gwae
Aderyn heb gâr ac enaid digymar heb gefnydd;
Heb hanfod o'r un cynefin yng nghwr yr un cae –
Heb gorff o gyffelyb glai na Duw o'r un defnydd.⁹⁶

Yn 'Y Gwrthodedig', pwysleisir bod yma 'fab di-nam', 'y llwythog a'r blinderog hwn' sy'n cael 'ei wadu a'i wrthod' gan ei wlad ei hun.⁹⁷ Y mae'r gyffelybiaeth Feseianaidd yn amlwg ac yn ein paratoi megis ar gyfer cywydd Gerallt Lloyd Owen, 'Y Gŵr sydd ar y Gorwel':

Ond ei ddysg a'i ddistaw ddod
Ni wybu ei gydnabod,
Fel y Gŵr eithafol gynt
Fu ar drawst farw drostynt.⁹⁸

Yng ngherddi R. Williams Parry ac yn y gerdd hon, pwysleisir tri pheth a gysylltir â pherson Crist ei hun: ei arwahanrwydd, ei aberth, a'i wrthod gan ei bobl ei

⁹³ D. Tecwyn Lloyd, op. cit., t. 127. Cymh. t. 225, n. 30, lle yr awgrymir '[b]od S.L. ar hyd ei yrfa wedi tynnu llawer o sylw at ei berson, yn anfwriadol efallai'.

⁹⁴ *Geiriadur Prifysgol Cymru: I: A-Ffysur* (Caerdydd, 1950-1967), s.v. 'canoneiddio'.

⁹⁵ Cymh. Gerwyn Williams, 'Saunders y Beirdd', *Taliesin*, 122 (Haf 2004), 36. Trafodir llawer mwy o gerddi i Saunders yn yr ysgrif hon.

⁹⁶ R. Williams Parry, *Cerddi'r Gaeaf* (Dinbych, 1952), t. 76. F'italeiddio i.

⁹⁷ *Ibid.*, t. 50.

hun. ‘Unhabited / He moved among us’, meddai R. S. Thomas: heb le i roi’i ben i lawr.⁹⁹ Yng ngherdd Alan Llwyd, ‘Saunders Lewis’, fe’i portreadir fel merthyr Cristnogol yn derbyn yr un driniaeth â Steffan yn Llyfr yr Actau. Y tro hwn, Saunders ei hun sy’n gwrthod:

Gwrthodaist roi’r winllan ar werth, rhag ein cywilyddio,
a’r genedl, o’i bodd, â’i cherrig yn dy labyddio.¹⁰⁰

Gwelir, felly, y gwnaed sant ohono, a hynny gan brifeirdd swyddogol sy’n perthyn i’r canon llenyddol a hyrwyddodd Saunders Lewis ei hun. Dyna, o bosib, sy’n esbonio pam mai’r beirdd a fu cefnogwyr mwyaf ffyddlon Saunders Lewis, ac yn flaenllaw yn ‘[y] broses o ganoneiddio, yn wir, santeiddio Saunders’.¹⁰¹ Y maent yn perthyn i’r canon hwnnw’n rhannol gan i’w cerddi ymddangos ar restrï darllen swyddogol. Yn achos Gerallt Lloyd Owen, er enghraifft, cyfeiriodd Ceri Williams yn rhifyn Medi 2000 o *Barn* at gerdd arall o’i eiddo, ‘Fy Ngwlad’, fel un a enillodd ei phlwy drwy ‘i genedlaetholwyr ddadlau o blaid ei hystyried yn rhan o’r *canon*, gan ei chynnwys wedyn ar restrï darllen fel rhestr ddarllen TGAU’.¹⁰² Bu ‘Cymru 1937’ ynghyd â ‘Y Gŵr sydd ar y Gorwel’, er enghraifft, ar faes llafur yr ysgolion, ynghyd â cherddi eraill gan Alan Llwyd. Yng nghanu’r beirdd canonaidd hyn, felly, gwelir eto sut y mae’r ffin rhwng y ddau draddodiad, y traddodiad llenyddol a’r traddodiad sy’n ymchwilio iddo yn gorgyffwrdd, wrth i’r beirdd foli beirniad o fardd a folodd feirdd.

Nid y beirdd yn unig a fu wrthi’n canoneiddio person Saunders Lewis, fodd bynnag. Gwelir yr un portread o’r sant neu’r merthyr Cristnogol yn yr ysgrifau

⁹⁸ Gerallt Lloyd Owen, ‘Y Gŵr sydd ar y Gorwel’, *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul/Cyhoeddiadau Barddas, 1987), t. 507. Cyhoeddwyd gyntaf yn *Cerddi’r Cywilydd* (Caernarfon, 1977).

⁹⁹ R. S. Thomas, gol. Alun R. Jones a Gwyn Thomas, op. cit., t. xv.

¹⁰⁰ Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf* (Cyhoeddiadau Barddas, 1990), t. 187.

¹⁰¹ Gerwyn Williams, op. cit., 40.

beirniadol niferus a ysgrifennwyd am waith llenyddol a gwleidyddol Saunders Lewis, megis yr ysgrifau a ymddangosodd yn *Saunders Lewis: Ei Feddwl a'i Waith*.

‘Gan ei fod yr hyn ydyw’, meddai Catherine Daniel am Saunders Lewis, gan esbonio’i weithredoedd mewn perthynas â’i berson.¹⁰³ Ydyw yr hyn ydyw. Fel y beirdd, pwysleisir hefyd yr aberth.

Collodd Mr. Lewis swydd a braint a chynhaliaeth – collodd y byd ac fe roddwyd Cymru iddo yn ysbrydol i’w chadw.¹⁰⁴

Ac am y gwrthod, nododd ‘mai ei wrthodiad gan ei gyd-Gymry ei hun a berffeithiodd aberth y gwladgarwr a rhoddi arno sêl merthyrdod ysbrydol’.¹⁰⁵

At y tair elfen hyn – aberth, gwrthodiad, merthyrdod – pwysleisir hefyd fod y merthyr hwn yn un a oedd yn myfyrio. Nododd J. E. Caerwyn Williams, er enghraifft, fod Saunders Lewis yn darllen ‘â’r holl feddwl, yr holl galon ac â’r holl enaid’.¹⁰⁶

Meddai Saunders Lewis ei hun ar ddiwedd ei ysgrif ar Ddafydd ap Gwilym:

Bûm yn darllen a myfyrio’n feunyddiol, ac am oriau bob dydd, yn y gyfrol hon ers pedwar mis.¹⁰⁷

Dyma ddarllenydd defosiynol, ysbrydol. Nododd Daniel John Mullins fod Saunders Lewis ‘bob dydd yn darllen yn ei Feibl’, ond trosglwyddodd reoleidd-dra’r rhythm darllen cyson hwnnw at destunau llenyddol hefyd.¹⁰⁸ Ar sail y cyfryw ddarllen y gellir adeiladu canon llenyddol, pan fo ‘dynion yn ... cysegru oes gyfan yn ymroddgar ddirwgnach i waith na ddaw byth yn ddigon amlwg i gael na chanmoliaeth na thâl’, ys

¹⁰² Ceri Williams, ‘Llafur a Glyndŵr’, *Barn*, 452 (Medi 2000), 29.

¹⁰³ Catherine Daniel, ‘Saunders Lewis: Ewropead’, gol. Pennar Davies, *Saunders Lewis: Ei Feddwl a'i Waith* (Dinbych, 1950), t. 34.

¹⁰⁴ *Ibid.*, t. 41.

¹⁰⁵ *Ibid.*

¹⁰⁶ Dyf. D. Tecwyn Lloyd, op. cit., t. 55.

¹⁰⁷ Saunders Lewis, ‘Dafydd ap Gwilym’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 55.

¹⁰⁸ Daniel John Mullins, op. cit., t. 44.

dywed W. J. Gruffydd.¹⁰⁹ ‘Trwy lafur y gwŷr’, meddai Thomas Parry yntau.¹¹⁰ Ac yn hyn o beth, y mae’r cyfeiriadau hyn at ‘ddynion’ a ‘gwŷr’ yn darllen gweithiau’r canon llenyddol Cymraeg yn ddefosiynol – nid enwir yr un ddyne yn rhestr arloeswyr Thomas Parry – yn f’atgoffa o’r darlennydd defosiynol hwnnw yn y salm gyntaf.

Gwyn ei fyd y gŵr ni rodia yng nghyngor yr annuwiolion, ac ni saif yn ffordd pechaduriaid, ac nid eistedd yn eisteddfa gwatwarwyr. Ond sydd â’i ewyllys yng nghyfraith yr Arglwydd; ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos.¹¹¹

Ategu’r gymhariaeth hon y mae’r ffaith i ambell feirniad wrth drafod gwaith Saunders Lewis ddyfynnu ambell adnod: J. Gwyn Griffiths, er enghraifft, er mwyn amlygu’r gwahaniaeth rhwng Saunders Lewis a Chymdeithas yr Iaith yn dyfynnu’n chwareus Eseia 55.8:

Canys nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr Arglwydd.¹¹²

Ac eto, ychwanegodd mai ‘S. L. yw tad ysbrydol y mudiad’.¹¹³ Ac nid tad ysbrydol yn unig yn ôl R. M. Jones, ond ‘Pab ein Llên’.¹¹⁴ Fe’i labelwyd hefyd gan Branwen Jarvis mewn modd mwy beirniadol yn ‘apostol patriarchiaeth’.¹¹⁵ Ymddengys, felly, fod ysbrydolrwydd, neu o leiaf, statws uchelgrefyddol y ffigwr hwn yn ddigwestiwn.

Ond rhag inni feddwl na all y ffigwr ysbrydol hwn gydymdeimlo â ni hefyd, pwysleisiodd ei edmygwyr fod iddo hefyd wedd ddynol iawn, fel Crist ei hun. Drwy hynny, fel y nododd D. Ben Rees yn ddiweddar, ‘Tyfodd Saunders Lewis, fel y

¹⁰⁹ W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600*, op. cit., t. 1.

¹¹⁰ Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1944), t. viii.

¹¹¹ Salm 1:1-2.

¹¹² Dyf. D. Tecwyn Lloyd, op. cit., t. 95.

¹¹³ *Ibid.*, t. 95.

¹¹⁴ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-72* (Cyhoeddiadau Barddas, 1975), t. 328.

dywed yr Esgob Mullins, yn ŵr duwiol, ond fe ddaeth yn symbyliad i bawb sydd am amddiffyn yr iaith Gymraeg'.¹¹⁶

Fel yn achos Crist, nododd Bruce Griffiths nad ysgrifennodd Saunders Lewis yr un bywgraffiad, eithr gadael i eraill yn unol ag egwyddor yr awdur-destun i lunio'u portread ohono. 'Hence what is known of him amounts to stray anecdotes and half-truths.'¹¹⁷ Ac fel y nododd Dafydd Glyn Jones, y mae'r 'gwrthddywediadau ymddangosiadol' ym mywyd Saunders Lewis – 'Y Methodist Calфинаidd a drodd at Rufain, y cenedlaetholwr Cymreig a oedd hefyd yn Ffraincgarwr ac yn Ewropead hunanymwybodol ...' – yn 'anodd eu cysoni â'i gilydd'.¹¹⁸ Am hynny, nododd Ifor ap Dafydd fod 'hon yn broblem sy'n bodoli'n barhaus' i'r sawl sydd am ddehongli'r gwaith yn nhermau bywyd yr awdur.¹¹⁹ At hyn, ni wnaeth Saunders Lewis ei hun fawr i hyrwyddo'r dull hwn o ddarllen ei amryfal weithiau. Nododd D. Tecwyn Lloyd, er enghraifft, nad oedd yn awyddus iddo gyhoeddi pennod ar ei fagwraeth yn Wallasey yn y gyfrol gyfarch *Saunders Lewis* (1975).¹²⁰

Fodd bynnag, y mae'r 'ymgais am gysondeb' yn demtasiwn cryf,¹²¹ ac y mae ambell ysgrif bersonol wedi'i hysgrifennu gan gyfeillion ar gael, ynghyd â'r gyfrol, *Bro a Bywyd Saunders Lewis*, a'r rheini mewn arddull lai ymchwilgar na chyfrol D. Tecwyn Lloyd. Cyflwynodd Marion Arthur bortread personol o'r ysgolhaig a'r beirniad, gan gyfeirio ato ar ddiwedd ei hysgrif fel 'taid Dyfrig'.¹²² Ac yn ei ragair i

¹¹⁵ Branwen Jarvis, 'Saunders Lewis, Apostol Patriarchiaeth', gol. J. E. Caerwyn Williams, *Ysgrifau Beirniadol VIII* (Dinbych, 1974), tt. 296-311.

¹¹⁶ D. Ben Rees, 'Gwreiddiau J Saunders Lewis ar Lannau Mersi', gol. idem, *Ffydd a gwreiddiau John Saunders Lewis*, op. cit., t. 40.

¹¹⁷ Bruce Griffiths, *Saunders Lewis: Writers of Wales* (Caerdydd, 1979), t. 122.

¹¹⁸ Dafydd Glyn Jones, 'Y Gwleidydd', *Saunders Lewis: Agweddau ar ei Fywyd a'i Waith / Aspects of his Life and Works* (Ymddiriedolaeth Cronfa Goffa Saunders Lewis, 1991), t. 10. Dyf. Ifor ap Dafydd, op. cit., 10.

¹¹⁹ Ifor ap Dafydd, *ibid.*, t. 10.

¹²⁰ Gw. D. Tecwyn Lloyd, op. cit., t. 20.

¹²¹ Ifor ap Dafydd, op. cit., t. 10.

¹²² Marion Arthur, 'Saunders Lewis: Dyn Anorfod', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes (Llandybie, 1975), tt. 196-205.

Bro a Bywyd, nododd R. Geraint Gruffydd fod yma 'etifedd cenedlaethau o bregethwyr Methodist, bachgen ysgol, myfyriwr, swyddog milwrol, gŵr priod, tad a thaid'.¹²³ Ac y mae gennym hefyd, wrth gwrs ei lythyrau personol at Margaret Gilcriest a Kate Roberts. Cyflwynid i'm cenedlaeth i, felly, bortread deuol ohono. Ar y naill law, pwysleisir yr ysbrydol, ar y llall, y dynol. Wele'r person cyfan. Wele'r proffwyd a'r sant ysbrydol, a'r merthyr dynol. Yn ei ragymadrodd i *Meistri'r Canrifoedd*, meddai R. Geraint Gruffydd: 'ni allwn ond gwyleiddio ym mhresenoldeb y fath ddisgleirdeb.'¹²⁴ Nid yw'n syndod, efallai, fod golygydd gwaith Saunders Lewis yn ei bortreadu fel sant. Ond cyfeiriodd John Rowlands, sef un o'r beirniaid cyntaf i herio syniadau beirniadol Saunders Lewis hefyd at 'y fath ddisgleirdeb':¹²⁵ y disgleirdeb hwnnw sy'n amlygu bod person wedi'i ganoneiddio, fel sy'n digwydd heddiw ym mhortreadau'r Eglwys Gatholig o seintiau a chanddynt leugylch am eu pen: 'a halo is permitted only for persons canonized or beatified or whose cultus has been otherwise approved by the Latin Church.'¹²⁶

Y ddadl yma yw y canoneiddiwyd ei berson. Nodir hynny'n rhannol gan mai mewn perthynas â dwy egwyddor fawr canoneiddio yr ystyriwyd ac yr ystyrir Saunders Lewis yn aml iawn, sef derbyn a gwrthod. 'Mae pobl un ai'n ei gasáu neu'n ei addoli', meddai John Gwilym Jones.¹²⁷ Ym meddwl y dyn ei hun yr oedd mwy yn perthyn i'r garfan gyntaf nag i'r ail. Meddai: 'Fe'm gwrthodwyd i gan bawb.'¹²⁸ Ond nododd Richard Wyn Jones mai 'llais y dramodydd a glywir yma' gan 'na wrthodwyd syniadau gwleidyddol Saunders Lewis i'r graddau y credai ef'.¹²⁹ Yn ôl Grahame

¹²³ Mair Saunders (gol.), *Bro a Bywyd Saundes Lewis* (Caerdydd, 1987), t. 2.

¹²⁴ R. Geraint Gruffydd, op. cit., t. xi.

¹²⁵ John Rowlands, *Saunders y Beirniad* (Caernarfon, 1990), t. 77.

¹²⁶ F. L. Cross (gol.), *The Oxford Dictionary of the Christian Church* (Oxford, 1957), s.v. 'Halo'.

¹²⁷ John Gwilym Jones, 'Saunders Lewis Dramodydd', *Y Traethodydd*, 141 (1986), 152.

¹²⁸ Saunders Lewis, 'Dylanwadau', *Taliesin*, 2 (Rhifyn Nadolig 1961), 13. Gw. hefyd 'Dylanwadau', *Taliesin*, 3 (1962), 120-4.

¹²⁹ Richard Wyn Jones, 'Saunders Lewis a'r Blaid Genedlaethol', gol. Geraint H. Jenkins, *Cof Cenedl 14* (Llandysul, 1999), t. 191.

Davies: ‘Y mae’r wlad wedi dethol yr hyn a ddymunai o’r hyn a gynigiodd Saunders Lewis, ac wedi rhoi heibio’r gweddill.’¹³⁰ Fel canon llenyddol, mewn perthynas â derbyn a gwrthod yr ystyrir person Saunders Lewis, ac yn yr un modd ag y bydd beirniaid diweddarach yn anghytuno â’u rhagflaenwyr ynghylch pwysigrwydd tybiedig ambell destun llenyddol, y mae’r genhedlaeth ddiweddaraf o feirniaid heddiw am ail-agor canon portreadau Saunders Lewis, er y credir yn gyffredinol na wneir hynny’n unig er mwyn ei feirniadu’n negyddol mwyach. Ar un olwg, dim ond yn awr wedi iddo fod drwy’r felin feirniadol y gellir gwir werthfawrogi ei gyfraniad. Ys dywed John Rowlands: ‘wedi’r holl ddadfytholegu, llwydda rywsut i ddal ei dir wyneb yn wyneb â phob beirniadaeth a chodi fel ffenics o’r llwch’.¹³¹

Canoneiddiwyd ei waith. Canoneiddiwyd ei berson. Yn olaf, awgrymir mai’r dylanwad mwyaf ar yr astudiaeth bresennol yw fod y cysyniad o ganon llenyddol Cymraeg a gyflwynodd Saunders Lewis ei hun wedi’i ganoneiddio, nes y bo’r cyfryw ddamcaniaeth fel pe bai’n rhan o’r ‘synnwyr cyffredin’ i – yr wyf megis yn adweithio yn ei erbyn o du cyfeiriad Theori. Y mae’n drawiadol mor ffyddlon y cadwodd cenedlaethau diweddarach o feirniaid llenyddol Cymraeg at weledigaeth Saunders Lewis o lenyddiaeth Gymraeg yn draddodiad di-dor. Cymaint felly yn wir fel mai o du Theori ‘estron’ yn unig y gellid ei chwestiynu, fel y gwnaeth Dafydd Elis Thomas â’i ddarlenniad Marcsaidd yn ei ddarlith *Traddodiadau Fory* – datblygiad eironig o gofio ambell sylw cadarnhaol a wnaeth Saunders Lewis ei hun am feirniadaeth Farcsaidd.¹³²

¹³⁰ Grahame Davies, *Sefyll yn y bwlch: Cymru a’r mudiad gwrth-fodern: astudiaeth o waith R.S. Thomas, Saunders Lewis, T.S. Eliot a Simone Weil* (Caerdydd, 1999), tt. 89-90.

¹³¹ John Rowlands, ‘Yr Ysgolhaig a’r Beirniad’, *Saunders Lewis: Agweddau ar ei Fywydd a’i Waith / Aspects of his Life and Works* (Ymddiriedolaeth Cronfa Goffa Saunders Lewis, 1991), t. 22.

¹³² Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory: Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caernarfon 1983* (Cyhoeddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 1983).

Yn ei lyfr, *Beginnings*, nododd Edward Said mai tasg anodd yw diffinio pa bryd y bydd unrhyw beth yn dechrau, a beth yn union yw dechreuad. Holodd hefyd,

Historically, is there one sort of moment most propitious for beginning, one sort of individual for whom beginning is the most important of activities?¹³³

Cwestiynau perthnasol iawn yw'r rhain i'r astudiaeth hon o waith beirniadol Saunders Lewis a'r traddodiad o feirniadu llenyddiaeth Gymraeg yn nhermau traddodiad di-dor a chanon cymharol sefydlog – nid yn unig am ei fod ef ei hun yn hoff o ddwyn sylw at 'bwysigrwydd mewn hanes' a'r modd yr oedd ambell fardd neu lenor yn '[c]ychwyn cyfnod newydd',¹³⁴ ond oherwydd y portreadir Saunders Lewis ei hun yn aml fel unig gychwynnydd y dull hwn o ddarllen ac ysgrifennu am lenyddiaeth Gymraeg, sydd ei hun fel pe bai'n cyfleu, a dyfynnu Said, 'an aboriginal human need to point to or locate a beginning', megis yn achos Marcion.¹³⁵ Yn yr un modd ag y chwiliodd Saunders Lewis ei hun am ddechreubwynt hanesyddol i lenyddiaeth Gymraeg, a'i ganfod yn Nhaliesin, datblygodd Saunders Lewis ei hun yn ddechreubwynt hanesyddol i'r ail draddodiad o ymchwil i'r Traddodiad Taliesinaidd. Ni ddadleuir yma na ellir dadlau yn erbyn addasrwydd y naill arloeswr na'r llall. Yn achos Saunders Lewis, er enghraifft, sylwir mai un ymhlith nifer ydyw yn rhagair Thomas Parry ac mai John Morris-Jones yw'r enw cyntaf oll.¹³⁶ Yn wir, awgrymodd Saunders Lewis ei hun mai John Morris-Jones a ddaeth o hyd i'r traddodiad gyntaf, 'the expounder of a tradition'.¹³⁷ Yn y bennod nesaf, nodir bod Lewis Edwards hefyd

¹³³ Edward Said, *Beginnings* (New York, 1975), t. xi.

¹³⁴ Saunders Lewis, *Ceiriog*, t. 26.

¹³⁵ Edward Said, op. cit., t. 5. Cymh. J. E. Caerwyn Williams, 'Saunders Lewis: Yr Ysgolhaig a'r Beirniad', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes, op. cit., t. 22. Cyfeirir at yr ymadrodd 'In my beginning is my end' o *Four Quarters*, T. S. Eliot, gan nodi bod 'gwneud cyfanbeth a chyfundod' o fywyd yn 'arbennig wir am Saunders Lewis'.

¹³⁶ Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900*, tt. vii-viii.

¹³⁷ Saunders Lewis, 'The Literary Man's Life in Wales', [anerchiad gerbron y Gyngres Geltaidd yn Glasgow, Medi 1929], *The Welsh Outlook*, 16 (Hydref 1929), 295.

yn ddylanwad ar raglen waith Saunders Lewis, ac y mae Emrys ap Iwan hefyd, wrth gwrs.

Ond nid yr amcan yma yw cyflwyno hanes beirniadaeth lenyddol Gymraeg, na chwaith ffurfiad y canon llenyddol fel y cyfryw, eithr nodi'n hytrach y pwysleisir drwodd a thro yn y portreadau a gafwyd o Saunders Lewis fel darlithydd ac ysgolhaig ifanc mor newydd ydoedd ei ddull o ddysgu ac edrych ar lenyddiaeth. Nododd Stephen J. Williams, er enghraifft, 'ei fod yn torri cwys newydd ac annibynnol ym maes beirniadaeth lenyddol yng Nghymru'.¹³⁸ Cyn Saunders Lewis, yng ngeiriau R. Tudur Jones:

Testun ar y ddesg o'n blaen oedd y *Pedair Cainc* nid rhannau o stori enaid ein hynafiaid.¹³⁹

Yr awgrym cyson yn y portreadau hyn yw fod yma ddechreubwynt: ffordd newydd o edrych ar lenyddiaeth Gymraeg a fyddai maes o law yn datblygu'n *episteme*, sef ffordd newydd o ddarllen llenyddiaeth, a honno'n cydreddeg â ffordd newydd o'i dysgu i fyfyrwyr Cymraeg a fyddent eu hunain maes o law yn addysgu eraill, sef y brif ffordd y traddodir canon yn ôl John Guillory.¹⁴⁰

Nododd Pennar Davies, 'with all due respect to his predecessors [John Morris-Jones, ymhlith eraill] and contemporaries [W. J. Gruffydd, ac eraill], that it was Lewis who first adequately interpreted the tradition and made it possible for us to begin to appreciate it'.¹⁴¹ A chan drafod yn benodol ysgrif Saunders Lewis ar Ddafydd Nanmor, pwysleisiodd D. Myrddin Lloyd yntau'r un gyntafiaeth feirniadol:

¹³⁸ Dyf. D. Tecwyn Lloyd, op. cit., t. 206.

¹³⁹ Dyf. R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg: 1902-1936*, op. cit., t. 390.

¹⁴⁰ Gw. John Guillory, *Cultural Capital: The Problem of Literary Canon Formation* (London, 1993). Gw. pennod 6.

¹⁴¹ Gw. Pennar Davies, 'His Criticism', op. cit., t. 96. Eir ymlaen i sôn am gyfraniad John Morris-Jones a W. J. Gruffydd mewn cymhariaeth ag un Saunders Lewis. Cymh. Ceri W. Lewis, 'Saunders Lewis (1893-1985)', *Y Traethodydd*, 141 (1986), 148. 'Y mae gwahaniaeth trawiadol rhwng ei weithiau ef a'r

For too long these classical poets had been regarded merely as models of formal excellence, for their mastery in the use of the language, but a new appreciation was heralded in 1925 by Saunders Lewis's essay on Dafydd Nanmor where the significance of what that past had to say was emphasized.¹⁴²

A rhennir yr un pwyslais ar newydd-deb y feirniadaeth yn ysgrifau Saunders Lewis ei hun. Gan gyfeirio at yr hen ddull dienaidd o ddarllen a dysgu llenyddiaeth Gymraeg, meddai ar ddechrau'r ysgrif y cyfeirir ati uchod:

Bu'n help i sefydlu safonau'r iaith, i buro cystrawen, ac i adfer urddas ein llên; a mawr yw'r diolch am hyn oll. [...] Ond dyna'r cwbl. Ychydig a dybiodd fod gan yr hen brydyddion amgyffred am fywyd na ffilosoffi y byddai'n wiw i ninnau eu hystyried. [...] Ni cheisiodd neb eto esbonio'r Estheteg Cymreig, y peth sylfaenol yn hanes ein llenyddiaeth.¹⁴³

Nid yn annhebyg i Farcion, rhan fawr o ddylanwad Saunders Lewis ar feirniaid llenyddol dilynol ydoedd, nid yn unig ei flaengarwch, ond hefyd ei flaenoriaeth. Ac awgrymir yma mai ymateb i'r naill nodwedd a'r llall yr oedd Gwenallt wrth annog ei ddisgyblion i ddysgu darnau o 'Dafydd Nanmor' ar eu cof.¹⁴⁴ ('Dafydd Nanmor' ac nid Dafydd Nanmor, sylwer).

Yn ôl ei addefiad ei hun uchod, nid oedd 'neb' o'i flaen, na neb o'i gyfoedion, wedi ceisio gwneud yr hyn a wnaeth Saunders Lewis. Ef oedd 'y beirniad cyntaf' ym marn G. J. Williams i weld 'yr hyn na welsai'r un hanesydd llenyddol cyn hynny', sef bod 'hanes llenyddiaeth Gymraeg' yn 'rhan o hanes Ewrop'; a bod yng ngwaith Dafydd Nanmor a'r corff o lenyddiaeth a berthynai iddo 'neges gyfamserol' ar ein

rheini a gynhyrchwyd gan y rhan fwyaf o ddigon o'r awduron Cymraeg cyffredin, gan gynnwys cyfoeswyr a rhagflaenwyr modern fel ei gilydd.'

¹⁴² D. Myrddin Lloyd, 'Dafydd Nanmor', gol. A. O. H. Jarman a Gwilym Rees Hughes, *A Guide to Welsh Literature: Volume 2* (Llandybïe, 2il arg., 1984), t. 189.

¹⁴³ Saunders Lewis, 'Dafydd Nanmor', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 80.

¹⁴⁴ D. Gwenallt Jones, 'Beirniadu Beirniad', op. cit., t. 32.

cyfer 'ni'.¹⁴⁵ Mewn gair, edrychid arno'n gychwynnydd traddodiad newydd o feirniadu llenyddiaeth Gymraeg.

Fodd bynnag, yn ei awydd i gyflwyno'r corff hwnnw o lenyddiaeth Gymraeg i eraill, bu'n rhaid i Saunders Lewis anwybyddu un o'r prif egwyddorion a oedd ar waith yn mhroses ganoneiddio'r Testament Newydd, sef egwyddor consensws. Am hynny, gwelir paradocs yn y modd y bu'n rhaid i Saunders Lewis hyrwyddo'r cysyniad o draddodiad llenyddol, unedig a di-dor mewn modd unigolyddol ac anhraddodiadol iawn. Ar y naill law, ni allai fod fel arall, gan mor ifanc ydoedd ysgolheictod Cymraeg, ac eto, sylwodd Ifor ap Dafydd ar y modd yr oedd Saunders Lewis 'yn darlunio ymateb i gonsensws a oedd heb ei ddatgan'.¹⁴⁶ Yn nodwedd o rym ar ei arddull awdurdodol, dyfeisiai gonsensws er mwyn ei herio.

Yn ei lyfr, *The Making of the Modern Canon*, nododd Jan Gorak mai'r ymdrech i sefydlu canon Shakespeare, 'the quintessential "English" author', a wnaeth annog beirniaid i geisio diffinio canon cenedlaethol o lenyddiaeth Saesneg.¹⁴⁷ Ar ôl sefydlu canon yr awdur amlycaf, aed ati i gymhwyso'r un dasg o sefydlu rhestr ddarllen safonol ar gyfer holl lenyddiaeth Lloegr. Er enghraifft, yn 1925, holodd Ernest Baker:

What are the dozen books, or poems, or passages of literature most likely to be chosen, by common consent, as those which have established themselves definitely as a national possession or influence?¹⁴⁸

Fel rhan o'r ymdrech i ateb y cwestiwn hwn, cyhoeddid rhwng 1880 ac 1940 gannoedd o restrï darllen mewn cyfnodolion, pamffledi a llyfrau. Yr oedd y gostyngiad sylweddol mewn prisiau llyfrau wedi creu marchnad newydd ar gyfer

¹⁴⁵ G. J. Williams, 'Cyfraniad Saunders Lewis fel Ysgolhaig Cymraeg', gol. Pennar Davies, *Saunders Lewis: Ei Feddwl a'i Waith*, t. 123.

¹⁴⁶ Ifor ap Dafydd, op. cit., t. 59.

¹⁴⁷ Jan Gorak, *The Making of the Modern Canon* (London, 1991), t. 63.

llyfrau o'r fath, ynghyd â hyrwyddo'r syniad o lyfrgell bersonol yn y cartref, fel yr oedd gan dad Saunders Lewis ei hun ei lyfrgell bersonol. Ceir yr ystadegau yn llyfr Gorak. Yr hyn sy'n bwysig ar gyfer y drafodaeth hon yw sylweddoli na allai'r beirniad llenyddol yn Lloegr geisio ateb y cwestiwn uchod heb gymryd i ystyriaeth farnau beirniaid eraill, yn rhagflaenwyr a chyfoedion: 'chosen, by common consent', chwedl Baker. Fodd bynnag, go brin y gellid cymhwyso'r un dasg o sefydlu canon llenyddol o'r fath yng Nghymru, 'by common consent', gan na cheid eto destunau safonol na chwaith draddodiad o'u darllen. O safbwynt ysgolheictod, ifanc oedd Prifysgol Cymru a'r Adrannau Cymraeg, a diddordeb nifer o ysgolheigion ydoedd ieithyddiaeth. Yn 1922 y dechreuodd *Y Llenor*, ac ychydig o destunau 'llenyddol' a gaed o gwbl.

Effaith y fath sefyllfa lle'r oedd yr adnoddau beirniadol hynny ar gyfer darllen llenyddiaeth Gymraeg ym meddiant lleifarif o academyddion ydoedd hyrwyddo diwylliant y meistre-feirniad a ysgrifennai i addysgu'r werin anwybodus. Pwysleisir hyn droeon yn y traethawd. Lle y gwêl John Guillory mai'r sefydliad addysgol sy'n pennu'n bennaf gynnwys y canon, ychwanegir yma mai cyfyng yn aml yw'r drafodaeth ar destunau o fewn nifer fechan o sefydliadau addysgol yng Nghymru – sydd hefyd yn cynnwys y wasg – a bod modd, felly, yn enwedig os llwydda i greu delwedd gyhoeddus iddo'i hun, i ambell feirniad gyflwyno barn ddylanwadol iawn.¹⁴⁹ Cyfraniad arbennig Saunders Lewis ar gyfer y fath ddiwylliant ydoedd gosod fframwaith deallusol arbennig a roddai iddo gyfeiriad. Proses o gasglu ynghyd ganon llenyddol Cymraeg ydoedd y cyfeiriad hwnnw. Proses o sefydlu testunau'r canon. Mynegodd ei safbwynt gliriaf yn y *Braslun*, er iddo'i fynegi eisoes yn *Williams*

¹⁴⁸ Dyf. *ibid.*, t. 64.

¹⁴⁹ Gan feddwl yn benodol am R. M. Jones, cymh. John Guillory, *op. cit.*, t. 255. 'the master theorist, as the person in whom institutional and personal prestige is "blended," and in whom the concept of "autonomy" is maximally overdetermined, was always a condition for the emergence of theory'.

Pantycelyn, ac wedi hynny droeon. Ceir enghraifft ymarferol ohono yn ‘Trem ar Lenyddiaeth y Dadeni Dysg’, lle y gwelir mai gwaith y beirniad yw dweud wrth eraill ‘beth y dylid ei ddarllen’, a hefyd nodi ‘nodweddion ac ysbryd y cyfnod’.¹⁵⁰ Nid deubeth llwyr ar wahân ydyw’r ddwy dasg, wrth gwrs. Un ffordd o ddod o hyd i ‘ysbryd y cyfnod’ dan sylw ydyw drwy astudio gwaith yr awdur ei hun, megis ‘y mae cyfnod o argyfwng yn hanes y gymdeithas Gymreig yn byw yn ei waith ef [Tudur Aled]’,¹⁵¹ ac yr oedd *Gweledigaethau y Bardd Cwsc* ‘yn agoriad i feddwl Cymru yn y ganrif a greodd ein Cymru ni heddiw’.¹⁵²

Fesul un aeth Saunders Lewis ei hun ati i astudio’r gwahanol awduron Cymraeg – a hynny’n sgil derbyniad damniol y *Braslun*, bid siŵr – ond fel y nododd Gwynn ap Gwilym, ‘Y ddadl yw bod i lenyddiaeth Gymraeg undod unigryw a bair iddi yn ei threigl glymu’r cenedlaethau’.¹⁵³ Undod ‘unigryw’, meddai, ond sy’n debyg i’r undod hwnnw a briodolid i ganon y Testament Newydd. Meddai Saunders Lewis, er enghraifft, am ganu’r Gogynfeirdd:

Fel yr ymfalchïai athrawon yr ysgolion mynychaid yn eu hastudiaeth o’r ysgrythurau canonaidd, felly’r beirdd Cymraeg yn eu ‘canon cerddorion’.¹⁵⁴

Dyna gymhariaeth arwyddocaol, fe greidir, sy’n awgrymu bod i’r traddodiad llenyddol Cymraeg, yn hanesyddol, ffurfiad a swyddogaeth debyg i’r ysgrythurau canonaidd. Y gwahaniaeth, fodd bynnag, rhwng ‘y cyfnod cyn colli’r traddodiad llenyddol’, a dechrau’r ugeinfed ganrif ydoedd bod y consensws hwnnw sy’n

¹⁵⁰ Saunders Lewis, ‘Trem ar Lenyddiaeth y Dadeni Dysg’, *Meistri a’u Crefft*, t. 173.

¹⁵¹ Idem, ‘Tudur Aled’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 107.

¹⁵² Idem, ‘Y Bardd Cwsc’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 206.

¹⁵³ Gwynn ap Gwilym, op. cit., t. ix. Cymh. Saunders Lewis, ‘Arddull D. J. Williams’, *Meistri a’u Crefft*, t. 36. ‘Ffling olaf achau Llywele oedd rhoi i Gymru artist nad oes modd deall ei swyn heb ddeall hanes cymdeithasol Cymru a holl gyfoeth chwe chanrif o’i thraddodiad llenyddol.’

¹⁵⁴ Saunders Lewis, *Braslun*, t. 15.

nodweddu ‘dysg draddodiadol ac athrawiaeth ysgol’ ar goll.¹⁵⁵ Am hynny, da y nododd Saunders Lewis ar ddechrau’r bennod, ‘Y Ganrif Fawr, 1435-1535’ na allai ei fraslun ef

fod yn fynegiant o gydsyniad cyffredin a thraddodiadol, megis barn Ffrainc ar lenyddiaeth oes Louis XIV neu farn Lloegr ar lenyddiaeth oes Elizabeth.¹⁵⁶

Oherwydd diffyg traddodiad beirniadol Cymru, anghyffredin ac anhraddodiadol, felly, yw’r hyn a geir yn y *Braslun*, pan oedd ‘beirniadaeth destunol a hanesyddol ar lenyddiaeth y cyfnodau yr ymdrinid â hwynt eto yn ei chychwyn’.¹⁵⁷ Ceir, yn wir, yn y *Braslun* enghreifftiau o feirniadaeth ar destunau yn ymddangos cyn y testunau llenyddol eu hunain, yn arbennig felly yn achos Beirdd yr Uchelwyr, sydd, o bosib, yn esbonio’n rhannol pam y bu’r ffin rhwng y traddodiad llenyddol a’r traddodiad o ymchwil iddo, er y dechrau’n deg, megis, yn un amwys iawn, gyda’r drefn gronolegol wedi ei drysu, wrth i’r astudiaeth lenyddol gael ei chyhoeddi cyn y lenyddiaeth a astudiwyd, a honno’n cynnwys ynddi ‘weithiau beirdd tra enwog’.¹⁵⁸ Mewn gair, cyflwynid y cysyniad o ganon llenyddol, neu a defnyddio term Saunders Lewis, gorff o lenyddiaeth, cyn i wahanol aelodau’r corff hwnnw weld golau dydd, a chyn i ysgolheigion sefydlu canon gwahanol feirdd unigol. A’r rheswm am hynny, fe greidir, oedd am fod sefydlu fframwaith y canon llenyddol yn bwysicach i Saunders Lewis na dilysu awduraeth y testunau y byddai maes o law yn eu cynnwys. Gŵr ar frys ydoedd. Yn y *Braslun*, y mae’n arwyddocaol fod lenyddiaeth Gymraeg yn gorfod cael ei ‘[g]osod ochr yn ochr ag amrywiaeth a chyfoeth didrefn Shakespeare a’i gydwladwyr’.¹⁵⁹ Yn ‘Diwylliant yng Nghymru’, nododd y ‘[d]yry addysg lenyddol

¹⁵⁵ Ibid.

¹⁵⁶ Ibid., t. 115.

¹⁵⁷ Ibid.

¹⁵⁸ Ibid.

¹⁵⁹ Ibid., t. 5.

Saesneg yn ysgolion canol Cymru o leiaf ryw syniad am etifeddiaeth fawr llenyddiaeth Saesneg i blentyn ysgol'.¹⁶⁰ Amcanu at weld sefyllfa debyg yng Nghymru yr oedd Saunders Lewis, ac yr oedd i'r *Braslun*, felly, amcan seicolegol y tu hwnt i ofynion ysgolheictod. Rhaid cofio yr ysgrifennwyd y llyfr yn rhannol ar gyfer y werin.

Gwelir o ddarllen traethawd Lewis Edwards, 'Barddoniaeth y Cymry', fod Shakespeare yn fodd o feithrin teimladau israddol ymysg y Cymry. Y cwestiwn o bwys ydoedd, 'A oes genym (*sic*) gymaint ag un bardd yn haeddu ei gystadlu am fynyd (*sic*) â Shakspeare neu Milton?'¹⁶¹ Bwriad Saunders Lewis ydoedd ateb y cwestiwn hwnnw mewn modd cadarnhaol.¹⁶²

I'r perwyl hwn yr adeiladodd ei '[b]rifeglwys Othig' na ellir ond rhyfeddu arni. Ond pan ddaeth yn adeg i'r arolygwyr bwysu a mesur ei waith, gwelwyd i'r beirniad yn ei frys mawr osod ambell garreg nad oedd eto wedi eu naddu i'w ffurf gywir.¹⁶³ Er enghraifft, nododd Ifor Williams wrth adolygu'r *Braslun*:

[Y] mae Mr. Lewis i bwrpas ei ddamcaniaeth ar Ddafydd yn defnyddio llinellau na chanodd Dafydd erioed mohonynt. A'r rheswm yw ei fod yn gwneud gwaith yr Uwch-feirniad cyn i'r Is-feirniad gwblhau ei orchwyl ef, a setlo'r testun.¹⁶⁴

Fel yr awgryma'r dyfyniad, datblygodd beirniadaeth lenyddol Gymraeg, diolch i Saunders Lewis, yn groes i'r drefn ddisgwyliedig. Mewn ymdrech i roi cyfeiriad i ysgolheictod a beirniadaeth lenyddol Gymraeg, a chydag argyhoeddiad a menter gwleidydd ar frys, gosododd yr uwchfeirniad fframwaith ar gyfer yr

¹⁶⁰ Idem, 'Diwylliant yng Nghymru', *Ysgrifau Dydd Mercher*, t. 102.

¹⁶¹ Lewis Edwards, 'Barddoniaeth y Cymry', *Traethodau Llenyddol* (Diddyddiad, Wrexham), t. 154.

¹⁶² Gw. Saunders Lewis, 'Twm o'r Nant', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 289. '[Y]r un sylfaen metaffusegol i'r athroniaeth honno, sy gan Shakespeare a Thwm o'r Nant'. Cymh. idem, 'Atodiad II', [adolygiad o Gomer Morgan Roberts (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn*], t. 412. 'Pan fo meddwl Williams ar ei gyflawn egni mi fyddaf i'n ei weld ef yn debyg yn ei ddull o drin iaith i Shakespeare yng nghyfnod olaf ei ddramâu ...'

isfeirniaid, sef y gwrthwyneb i'r drefn arferol, gan awgrymu pa destunau y dylid eu hastudio a'u cyhoeddi gyntaf. Cyflwynodd y cysyniad o'r 'canon cerddorion', gan sefydlu undod rhyngdestunol yn egwyddor fawr cyn y ceid o gwbl destunau i'w cymharu. Dibrisiodd 'y canu ar lawer dull arall gan feirdd nad oeddynt gerddorion' cyn i fawr neb arall ei ddarllen o gwbl.¹⁶⁵ A defnyddio eto drosiad Alasdair MacIntyre: gosododd y llwyfan cyn bod eraill yn gwybod bod y ddrama wedi dechrau. Dyna, fe gredir, yn rhannol, o leiaf, sy'n cyfrif am ei ddylanwad pellgyrhaeddol ym maes beirniadaeth lenyddol Gymraeg. 'Fel rheol gyffredin', meddai W. J. Gruffydd, 'ni ddylid ymdrin â dim llenyddiaeth nag ydyw wedi bod dan law'r math hwn o feirniad [yr ysgolhaig sy'n sefydlu'r testun], oherwydd ni bydd ymdriniaeth o'r fath ond damcaniaeth noeth.'¹⁶⁶ Ein dyled fawr i Saunders Lewis yw iddo dorri'r rheol honno, oherwydd amlygodd beth oedd *telos* yr ysgolhaig a'r hanesydd llên – pen draw eu gwaith – sef llyfryn bychan o wybodaeth a fyddai'n ganon dysg i'r brifysgol a'r werin fel ei gilydd. Llyfr poced yn wir y gellir ei ddysgu o glawr i glawr, os nad o genhedlaeth i genhedlaeth. Ni olygai hynny na fynnai ef weld cyflawni gwaith yr isfeirniaid ac na phoenai am ddilysrwydd testunau a safon ysgolheictod. Gweler ei apêl daer ar ddechrau 'Ann Griffiths: Arolwg Llenyddol', er enghraifft.¹⁶⁷ Ond ei gamp a'i gyfraniad mawr ef ei hun yn ei weithiau beirniadol cynnar ydoedd gosod diben ar gyfer gwaith yr isfeirniaid, ac awydd amdano. Rhoes gyfeiriad i 'sefydliad' proffesiynol ifanc Cymraeg, ac efallai mai arwydd o'i gamp yw cymaint o olygyddion testunol sydd yng Nghymru heddiw, a haneswyr a beirniaid llên, a chyn lleied o ieithyddion.

¹⁶³ Ar '[D]rosiadau Beirniadaeth Saunders Lewis', gw. Ifor ap Dafydd, 'Pennod 3', op. cit.

¹⁶⁴ Ifor Williams, op. cit., t. 92.

¹⁶⁵ Saunders Lewis, *Braslun*, t. 8.

¹⁶⁶ W. J. Gruffydd, [adolygiad o Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: I*], op. cit., 249.

¹⁶⁷ Saunders Lewis, 'Ann Griffiths: Arolwg Llenyddol', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 306.

Cadarnhau'r dehongliad hwn o waith cyfarwyddol Saunders Lewis, er enghraifft, y mae'r cyflwyniad iddo yn llyfr A. O. H. Jarman a Gwilym Rees Hughes, *A Guide to Welsh Literature: Vol. 2. Meddai*'r cyflwyniad: 'For Saunders Lewis who interpreted the tradition.'¹⁶⁸ Dyma gyfrol a gyhoeddwyd ar ddiwedd y saith degau ac sy'n cynnwys ynddi ysgrifau gan rai o'r ysgolheigion amlycaf ym maes efrydiau llenyddiaeth Gymraeg, ac yn arbennig, lôn yr Oesoedd Canol: A. D. Carr, D. Myrddin Lloyd, Ceri W. Lewis, Rachel Bromwich, G. E. Ruddock, Eurys Rowlands, J. E. Caerwyn Williams, E. D. Jones, R. Wallis Evans a Morfydd E. Owen. Ac y mae'r cyfeiriadau niferus at waith Saunders Lewis drwy gydol y gyfrol yn amlygu maint ei ddylanwad ar yr ail draddodiad o ymchwil i'r traddodiad llenyddol Cymraeg. Noda'r mynegai y cyfeirir yn uniongyrchol at ei waith ar 26 o dudalennau. Cyfeirir at waith Ifor Williams ar 11 o dudalennau. Go brin y gellir mesur dylanwad drwy gyfeirio at ystadegau o'r fath. Fodd bynnag, y mae'n werth nodi bod ffurf y gyfrol yn efelychu dehongliad Saunders Lewis yn y *Braslun* o'r canon cerddorion. Fel ag yn y *Braslun*, neilltuir pennod gyfan i drafod gwaith Dafydd ap Gwilym, ac fel y gwnaeth Saunders Lewis yn ei ysgrif, 'Y Cywyddwyr Cyntaf', yn 1964-65, edrychir ar waith beirdd eraill y cyfnod gyda'i gilydd mewn un bennod, 'Poets Contemporary with Dafydd ap Gwilym'. (Yn 1952-3, cyhoeddodd Saunders Lewis ysgrif arall ar Ddafydd ap Gwilym yn dilyn golygiad Thomas Parry o waith y bardd.) Rhoddir pennod unigol i Siôn Cent, sydd eto'n adleisio'r sylw a roddodd Saunders Lewis iddo yn ei bennod, 'Ysgol Rhydychen', yn y *Braslun*, a fu'n sail i ysgrif arall ar y bardd ar gyfer *Meistri a'u Crefft*, 1981. Yn olaf, neilltua'r *Guide* bennod yr un ar gyfer pump o'r beirdd hynny sy'n perthyn i'r Ganrif Fawr, Dafydd Nanmor, Guto'r Glyn, Lewys Glyn Cothi, Gutun Owain a Thudur Aled. Dyma, gyda Dafydd ab Edmwnd, y cyhoeddodd

¹⁶⁸ A. O. H. Jarman a Gwilym Rees Hughes (goln.), op. cit.

Saunders Lewis ysgrif ar ei waith yn 1977, y beirdd hynny a ganmolwyd fwyaf gan

Saunders Lewis yn y *Braslun*. Meddai:

[N]i ellir petruso ynghylch [mawredd] Dafydd ab Edmwnd, Dafydd Nanmor, Guto'r Glyn, Lewis Glyn Cothi, Tudur Aled, Gutyn Owain. Clasuron yr iaith Gymraeg ydynt.¹⁶⁹

Yr oedd Saunders Lewis yn barod i ystyried clasuroldeb ambell fardd arall.

Fodd bynnag, cadw at y canon cerddorion a awgrymwyd gyntaf yn y *Braslun* a wnaeth golygyddion *A Guide to Welsh literature: Vol. 2*, a thrwy hynny ei gadarnhau.

Dyna enghraifft benodol o feirniaid diweddarach yn troedio ar hyd llwybr a baratowyd gyntaf gan Saunders Lewis. A cheir enghreifftiau cyffelyb o ddylanwad mewn llyfrau beirniadol ar gyfnodau ac awduron eraill – o Daliesin i'r Dadeni i Dwm o'r Nant, ac yn ôl i'r Mabinogi – yn enwedig gan mor hoff ydoedd Saunders Lewis o gyflwyno awdur newydd am y tro cyntaf i efrydwyr Cymraeg. Cyfeiriodd R. Geraint Gruffydd at ei allu 'dro ar ôl tro i ganfod mawredd ac arbenigrwydd mewn awdur unigol y tuedd i fynd heibio iddo'n ddibris ddigon o'r blaen'.¹⁷⁰ Ystyrier, er enghraifft, baragraff agoriadol ei ysgrif ar 'John Morgan'.

Llenor a anghofwyd yw John Morgan. Ychydig heddiw a wŷr ei enw. Haedda yntau le ymysg clasuron y Gymraeg; profi hynny, a chasglu hanes ei fywyd, yw amcan yr ysgrif hon.¹⁷¹

Diben ysgrifennu'r ysgrif ydoedd ennill aelod newydd i'r corff hwnnw o lenyddiaeth a adwaenir wrth yr enw 'clasuron'. Hynny yw, cyfeirio'r canon. Rhoi aelodau'r corff at ei gilydd. Diffinio cynnwys llenyddiaeth Gymraeg drwy ragdybio ei ffurf ganonaidd. A dyna, hwyrach, sy'n cyfrif am yr amrywiaeth testunau yr

¹⁶⁹ Saunders Lewis, *Braslun*, t. 132.

¹⁷⁰ R. Geraint Gruffydd, op. cit., t. x. Cymh. idem, 'Portread', gol. D. Ben Rees, *Ffydd a gwreiddiau John Saunders Lewis*, t. 11.

¹⁷¹ Saunders Lewis, 'John Morgan', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 225.

ymdriniodd Saunders Lewis â hwynt. Yn wir, digon prin yw'r enghreifftiau hynny ohono'n dychwelyd at destun yr oedd wedi traethu yn ei gylch o'r blaen. Enghraifft ohono'n gwneud hynny yw ei ysgrif, 'Siôn Cent', a ysgrifennodd mewn ymateb i'r hyn a ddywedodd dau feirniad diweddarach am ei bennod, 'Ysgol Rhydychen' yn y *Braslun*. Ac efallai yr esbonia'r ysgrif hon pam na ddychwelai Saunders Lewis at destunau yr ymdrinnid ganddo o'r blaen. Yn syml, gan mai yn anaml yr oedd yn newid ei farn, ac yntau wedi mabwysiadu osgo'r diwygiwr crefyddol. Meddai, gan gyfeirio at 'Ysgol Rhydychen':

Nid oes fawr ddim yn y bennod honno nad ydwyf yn awr yn barod i'w arddel a'i amddiffyn. Ond datguddio mawredd y bardd, os gallaf, yw fy nod. Bu am hanner canrif dan gwmwl. Mae'n bryd edrych arno eto.¹⁷²

Yn wyneb beirniadaeth Thomas Parry a ddadleuai y ceid 'yn yr iaith Ladin a'r Ffrangeg a'r Saesneg yn y cyfnod hwnnw ddigon o ganu o'r un ansawdd yn union â gwaith Siôn Cent', yr oedd mawredd Siôn Cent yn y fantol. Dyma feirniadaeth yn ôl Saunders Lewis, a oedd 'yn aros i gladdu Ysgol Rhydychen ac ysywaeth i gladdu Siôn Cent hefyd'.¹⁷³ Hynny yw, yr oedd siawns i Siôn Cent golli'r statws canonaidd a roddwyd iddo gan Saunders Lewis yn 1932. Dyna pam y dychwelodd Saunders Lewis ato yn 1979, sef er mwyn sicrhau ei fod yn aelod cyflawn o'r corff llenyddiaeth. Ac mewn ymateb i'r hyn a ysgrifennwyd ddiwethaf am y bardd, sef beirniadaeth Thomas Parry, aeth Saunders Lewis ati o'r newydd i ddadlau i Siôn Cent gyfansoddi nid yn unig 'gerdd rymusaf yr iaith Gymraeg yn y bymthegfed ganrif' ond hefyd 'un o gampweithiau pennaf cerdd dafod erioed'.¹⁷⁴ Pa fodd, felly, y gellir gwarafun iddo ei aelodaeth gyflawn yn y traddodiad llenyddol Cymraeg? Os claddodd Thomas Parry ef, fe'i hatgyfodwyd gan Saunders Lewis.

¹⁷² Idem, 'Siôn Cent', *Meistri a'u Crefft*, t. 148.

Nid oes ond rhaid darllen ysgrifau *Meistri'r Canrifoedd* a *Meistri a'u Crefft* i weld mai diddordeb mawr Saunders Lewis fel beirniad llenyddol ydoedd cyfeirio'r canon. Wele gatalog o enwau yn rhychwantu'r canrifoedd. Yn *Ceiriog*, meddai: 'Rhaid cael nifer o efrydiau manwl ar lu o unigolion cyn y gallom yn hyderus fynd ymlaen i dynnu map o'r cyfnod cyfan.'¹⁷⁵ Dyma'r rhaglen waith a osododd iddo ef ei hun, ond iddo ei chymhwyso at 'feistri'r canrifoedd' gan adael i eraill 'dynnu'r map' ynghyd. Er gwaetha'r rhagoriaeth a welodd yng nghanu'r Ganrif Fawr, nid arhosodd gyda'r bymthegfed a'r unfed ganrif ar bymtheg, ond bwrw ymlaen i'r Dadeni, a'r tair canrif ddilynol, ac yn ôl at y chwedlau rhyddiaith, gan ymestyn y rhestr enwau o hyd.¹⁷⁶

Yn sgil ei gyntafiaeth fel beirniad, gellir, heb os, nodi enghreifftiau penodol o ddylanwad ar weithiau beirniadol diweddarach. Yn ei ragair i'w gyfrol ar Williams Pantycelyn, nododd J. Gwilym Jones, er enghraifft, mai 'egwan iawn yw'r gobaith o fedru taflu unrhyw oleuni newydd arno'; sylw sydd eto'n pwysleisio nad yw'r ffin rhwng Williams Pantycelyn a *Williams Pantycelyn* bellach yn amlwg.¹⁷⁷ A chymharus yw sylwadau Derec Llwyd Morgan,¹⁷⁸ tra bo R. M. Jones – er gwaethaf 'dwsinau eraill o draethodau ar William Williams, Pantycelyn', chwedl J. Gwilym Jones – yn labelu'r emynydd yn 'empeirydd' mewn ymateb i label y rhamantydd a roes Saunders Lewis arno'n gyntaf; ymateb i ddehongliad trawiadol y beirniad cyntaf a welai Bantycelyn yn un o ddau sylfaenydd 'y mudiad rhamantus yn llên Ewrop'.¹⁷⁹

¹⁷³ Ibid.

¹⁷⁴ Ibid., t. 160.

¹⁷⁵ Idem, *Ceiriog*, t. 9.

¹⁷⁶ Am grynhoad o'i yrfa feirniadol, gw. Ceri W. Lewis, 'Saunders Lewis (1893-1985)', op. cit., 150-1.

¹⁷⁷ J. Gwilym Jones, *William Williams Pantycelyn* (Caerdydd, 1969), t. 4. Cyfeirir hefyd at waith Gomer M. Roberts.

¹⁷⁸ Gw. Derec Llwyd Morgan, *Williams Pantycelyn: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1983), t. 4. Cyfeirir hefyd at Thomas Charles.

¹⁷⁹ Saunders Lewis, *Williams Pantycelyn*, t. 30.

Ond credir bod dylanwad Saunders Lewis ar y traddodiad ymchwil i'r traddodiad llenyddol yn fwy nag unrhyw enghraifft benodol o ddylanwad uniongyrchol mewn perthynas ag un cyfnod, awdur neu destun llenyddol.¹⁸⁰ Yng ngeiriau R. Geraint Gruffydd, y mae angen ystyried ei ddylanwad '[a]r lefel fwy cyffredinol', sef ar lefel 'cynneddf' – gair sydd fel pe bai'n awgrymu bod elfen gorffaid, deimladol yn perthyn i'r rhaglen feirniadol hon, ac nid rhesymeg empeiraidd yn unig.

Ar lefel fwy cyffredinol, hi sy'n peri ei fod yn gweld holl hanes llenyddiaeth Gymraeg o Daliesin hyd heddiw yn undod crwn, gweld ein holl lenyddiaeth yn ymrithio o'i flaen yn un corff cyfan.¹⁸¹

Yn fwy nag unrhyw ddylanwad deongliadol, uniongyrchol ar feirniaid sy'n trafod unrhyw un awdur, awdures, testun neu gyfnod llenyddol, ar y lefel gyffredinol hon o gynneddf y mae cydnabod dylanwad Saunders Lewis, pan fo'n rhaid 'profi', chwedl yntau, fod unrhyw awdur neu awdures yn perthyn i'r cyfryw gorff ac 'ymhlith y meistri'.¹⁸² Profi drwy '[dd]atguddio mawredd', ac nid olyniaeth uniongyrchol o'r naill awdur i'r llall o angenrheidrwydd.¹⁸³ Nid yn annhebyg i'r modd y mae beirniaid yn dadlau ynghylch dilysrwydd gwahanol gerddi yng nghanon un o feirdd yr uchelwyr, Saunders Lewis a'n dysgodd fod yn rhaid profi bod awduron unigol yn perthyn i'n llenyddiaeth, fel yr haeddai John Morgan 'le ymysg clasuron y Gymraeg'.¹⁸⁴ Ys dywed Ceri W. Lewis: '[c]eisir egluro arwyddocâd y gwaith a'r lle

¹⁸⁰ Heb os, ceir sawl enghraifft o ddiffyg dylanwad Saundersaidd amlwg, yn enwedig wrth i'r blynyddoedd fynd heibio. Darllenwyd yn ddiweddar, er enghraifft, Nia M. W. Powell, 'Dyfalw Dafydd Nanmor', *Llên Cymru*, 27 (Caerdydd, 2004), 86-112. Mwy dylanwadol yw gwaith Gilbert E. Ruddock erbyn hyn, ond erys y dylanwad Saundersaidd ar ddewis destun y drafodaeth.

¹⁸¹ R. Geraint Gruffydd, t. x.

¹⁸² Saunders Lewis, *Braslun*, op. cit., t. 132.

¹⁸³ Idem, 'Siôn Cent', *Meistri a'u Crefft*, t. 148.

¹⁸⁴ Gw., e.e., 'Griffith John Williams', *Meistri a'u Crefft*, t. 45. 'Y mae lle a chyfle i lyfr sylweddol arno.'

neilltuol sydd iddo yn hanes llenyddiaeth Gymraeg ac yn llenyddiaeth Ewrob
achlân.¹⁸⁵

Hyd yn oed pan fydd beirniaid yn edrych ar waith awduron mwy diweddar
nad oeddent yn perthyn i'r traddodiad barddol fel y'i diffinnid gan Saunders Lewis yn
nhermau athrawiaeth ysgol a dysg draddodiadol, ac nad ydynt wedi derbyn llawer o
sylw gan feirniaid blaenorol, gan gynnwys Saunders Lewis ei hun, ymddengys mai'r
un dull o werthfawrogi testunau llenyddol o safbwynt ansawdd rhyngdestunol a
ddefnyddir. Er enghraifft, yn ei rhagymadrodd i *Cerddi'r Ficer*, nododd Nesta Lloyd
fod '[y]r ychydig feirniaid llenyddol neu haneswyr llên sydd wedi mentro cyfeirio at y
Ficer Prichard fel bardd yn ymddiheurol iawn, bob amser. Y mae'r beirniaid llenyddol
yn unfryd na ddylid rhoi llawer o ystyriaeth feirniadol i'w waith fel barddoniaeth.'
Bardd ar gyfer haneswyr yw, 'ac nid yw ei ddiffygion barddonol o ddim pwys iddynt
hwy'.¹⁸⁶

Ennill cydnabyddiaeth i'r Ficer yw nod Nesta Lloyd. Gwyrdroi'r duedd o
edrych arno fel rhywun nad yw'n talu am ei le yn y corff llenyddiaeth. Fodd bynnag,
gwneir hynny drwy ddefnyddio'r un agwedd at lenyddiaeth ag a ddefnyddiodd y sawl
a fu'n ddibris o waith y Ficer. Holodd y beirniad:

A oes unrhyw werth llenyddol i'w gerddi ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, dri
chant a hanner o flynyddoedd ar ôl ei farw?¹⁸⁷

Er cydnabod 'mai perthyn i'r traddodiad llafar y mae'r cerddi hyn',¹⁸⁸ er mwyn ennill
lle i'r Ficer yn y traddodiad llenyddol Cymraeg, efelychodd y beirniad ddull Saunders
Lewis a'i ddilynwyr o arddangos mawredd, gan amlygu yn ei Rhagymadrodd ddawn
y Ficer i dynnu llun, ei eirfa 'eithriadol o grefftus a gwyrthiol o berthnasol', a'i

¹⁸⁵ Ceri W. Lewis, op. cit., 151.

¹⁸⁶ Nesta Lloyd (gol.), *Cerddi'r Ficer* (Cyhoeddiadau Barddas, 1994), t. xx.

¹⁸⁷ Ibid., t. xxi.

‘feistrolaeth ar ffurf a strwythur ei gerddi’.¹⁸⁹ Pwysu a mesur ansawdd crefft y farddoniaeth a wneir, yn union fel pe bai’r beirniad yn trafod gwaith un o feirdd yr uchelwyr, gan ddod i’r casgliad hwn am y Ficer:

Y mae’r rhinweddau hyn yn ei godi, yn fy marn i, nid i’r dosbarth cyntaf o feirdd, bid siŵr (ffwlbri noeth fyddai honni’r fath beth), ond i’r lefel honno o feirdd sydd, ar eu gorau, yn gallu goleuo’n bywyd, er, efallai, mai golau kannwyll mewn oes o *neon* yw ei lun ef, dri chant a hanner o flynyddoedd ar ôl ei farw.¹⁹⁰

Yr oedd Saunders Lewis yn y *Braslun* yn synied am feirdd a llenorion y traddodiad llenyddol yn nhermau tair lefel o ansawdd: clasuron, cerddorion uwch na’r cyffredin, a cherddorion cyffredin. Gwelir uchod yn y dyfyniad o ragymadrodd Nesta Lloyd ei bod hi – yma o leiaf – yn synied am lenyddiaeth yn yr un modd.¹⁹¹ Lle’r oedd beirniaid blaenorol wedi gosod cerddi’r Ficer yn y dosbarth isaf, dadleuodd hi o blaid ei ‘godi’ lefel yn uwch, gan gydnabod nad yw’n perthyn i’r lefel uchaf. A’i godi gan iddi weld ‘yn ei gerddi gorau ... well bardd nag a dybiwyd ... [y]n feistr ar ei ddeunydd a’i ffurf’.¹⁹² Yr un yw’r dull cyffredinol o edrych ar destunau llenyddol, hyd yn oed os oes iddynt gefndir llafar a chwbl wahanol i ganu beirdd yr uchelwyr, sef yn nhermau casgliad o berfformiadau sydd angen eu trefnu’n ganon o feistri a mân-feistri yn ôl ‘gwerth llenyddol’. Yr un yw’r damcaniaethau neu ragfarnau sylfaenol am berthynas awdur â chanon. Ys dywed Edward Said:

For despite recent genuinely investigative tendencies in criticism (in, for example, the work of Roland Barthes), certain conventions, persisting as

¹⁸⁸ Ibid., t. xxii.

¹⁸⁹ Ibid., tt. xxiv-xxv.

¹⁹⁰ Ibid., t. xxv.

¹⁹¹ Cymh. idem, ‘Rhagymadrodd’, *Blodeugerdd Barddas o’r Ail Ganrif ar Bymtheg: Cyfrol 1* (Cyhoeddiadau Barddas, 1993), tt. xiii-xxiv. Gwahanol yw’r agwedd yma. Cynhwysir cerddi am resymau anllenyddol.

¹⁹² Idem, *Cerddi’r Fiecr*, t. xxv.

unexamined vestiges of the whole history of ideas, have a strong hold upon the critical imagination as it tries to grasp what a text exactly is.¹⁹³

Un o'r confesiynau hynny yw gwerthfawrogi'r testun unigol gan deimlo bod yn rhaid 'profi' ei 'werth llenyddol', a'i fod ar sail y gwerth hwnnw yn haeddu ei le ymysg y cewri a'r meistri sy'n llunio'r canon hwnnw a elwir fel rheol yn 'llynyddiaeth Gymraeg' neu 'y traddodiad llenyddol'. Fel y nododd Dafydd Elis Thomas,

Pigwch i fyny unrhyw lyfr gosod neu unrhyw lyfr hanes llenyddiaeth, neu o ran hynny unrhyw gylchgrawn llenyddol, ac os oes un gred sy'n ymddangos yn ddigwestiwn, hyd yn oed yn ddiweddar, y gred yn y traddodiad llenyddol yw honno.¹⁹⁴

Dyma, heb os, y dull arferol, traddodiadol erbyn hyn, o ddarllen testunau llenyddol Cymraeg, sef fel rhan o gasgliad o destunau sy'n perthyn i draddodiad llenyddol cyfoethog o ansawdd uchel. Dyna ydoedd y gynneddf feirniadol Gymraeg yn yr ugeinfed ganrif, a dyna, ar un olwg, ydyw o hyd, ond mewn modd eironig. Fel yr awgrymodd J. E. Caerwyn Williams, gosododd Saunders Lewis 'ganonau' pendant ar gyfer beirniaid ac ysgolheigion Cymraeg yr ugeinfed ganrif – '[y] safon y mae'n rhaid i'r beirniad llenyddol ei fesur ei hun wrthi'¹⁹⁵ – sef

ymgodymu ... ag awdur a fawrbrisia er mwyn ei ddeall a dilyn ei feddwl ac olrhain twf ei greadigaethau a'i ddangos wedyn yn ei gyfnod ac yn ei le mewn hanes a thraddodiad.¹⁹⁶

¹⁹³ Edward Said, *Beginnings*, t. 191.

¹⁹⁴ Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory*, op. cit., t. 15.

¹⁹⁵ J. E. Caerwyn Williams, 'Saunders Lewis: Yr Ysgolhaig a'r Beirniad', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes, op. cit., t. 70. Gair Saunders Lewis ydyw 'canonau'.

¹⁹⁶ Saunders Lewis, 'Emrys ap Iwan', *Ysgrifau Dydd Mercher*, t. 79. Cymh. idem, 'Ateb Mr J. M. Edwards', *Meistri a'u Crefft*, t. 201. '[T]reiddio i holl fywyd a meddwl llawer o'r clasuron Cymraeg a rhagor nag un cyfnod.'

‘Unig gychwynnydd’ y dull hwn o feirniadu ydoedd Saunders Lewis. O leiaf, fe’i portreadwyd felly gan eraill a chanddo ef ei hun.¹⁹⁷ Anodd i’r sawl a ddarllenodd ei gyfweliad ag Aneirin Talfan Davies, er enghraifft, yw peidio â meddwl amdano fel dyn a fynnai weld newid yn fwy na’r un dim arall, dyn yn wir a chanddo ‘awydd mawr iawn i newid hanes Cymru’, fel y’i mynegid yn ei feirniadaeth lenyddol.¹⁹⁸

Gan gyfeirio yn ei ragair i’w *Hanes* at gyfraniad Saunders Lewis ym maes beirniadaeth ac ysgolheictod, nododd Thomas Parry nad ‘yw pob un o’i ddamcaniaethau yn cael ei derbyn gan bawb’.¹⁹⁹ Serch hynny, os mai camp *Hanes* Thomas Parry i T. J. Morgan ydoedd iddo ‘wneuthur corff cyfan o’r aelodau a’r esgryn sychion sydd ar chwâl a pheri i’r corff hwnnw gael enaid ynddo’, rhaid ychwanegu iddo weld y ‘gwneuthur’ hwnnw ar waith eisoes yn y *Braslun o Hanes*.²⁰⁰

Wrth edrych yn ôl ar ei yrfa feirniadol, nododd Saunders Lewis iddo ddysgu ‘un wers wrth y derbyniad a gafodd rhan gyntaf fy *Mraslun* i, sef mai ffolineb yw ysgrifennu llyfr bychan ar gyfnodau llenyddiaeth cyn gorffen y gyfres o weithiau llawn a manwl a thrwyadl, sy’n anhepgor cyn crynhoi pethau i lyfr bychan’.²⁰¹ Mewn gair, ymddengys iddo dderbyn yn rhannol feirniadaeth W. J. Gruffydd ac Ifor Williams ar ei waith, er mai mewn perthynas ag ysbryd cenedlaetholgar y canu, yn hytrach na dilysrwydd y testunau a ddyfynnodd y nododd iddo newid ei farn.²⁰² Dyna a boenai ef, cynneddf y canu. Gwelir yn ‘Dafydd ap Gwilym’, er enghraifft, mai ei arbenigedd fel beirniad ydoedd profion arddull, er y gallai hefyd gywiro profion cynghanedd.²⁰³ Ond hyd yn oed os na newidiodd ei farn am lawer o gynnwys y llyfr,

¹⁹⁷ Cymh. Saunders Lewis, ‘Sangiad, *Tropus* a Chywydd’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 37. ‘Hyd y gwn i, nid oes neb wedi astudio datblygiad a hanes y dull hwn yn y canu caeth.’ Cymh. idem, ‘Thomas À Kempis yn Gymraeg’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 183.

¹⁹⁸ Saunders Lewis, ‘Dylanwadau’, op. cit., 13.

¹⁹⁹ Thomas Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900*, op. cit., t. vii.

²⁰⁰ Dyf. Derec Llwyd Morgan, op. cit., t. 9.

²⁰¹ Saunders Lewis, ‘Trem ar Lenyddiaeth y Dadeni Dysg’, *Meistri a’u Creffi*, t. 172.

²⁰² Idem, ‘Dafydd ab Edmwnd’, *Meistri a’u Creffi*, t. 131. Cymh. ‘Siôn Cent’, *Meistri a’u Creffi*, t. 148.

²⁰³ Idem, ‘Dafydd ap Gwilym’, *Meistri’r Canrifoedd*, tt. 41-55.

megis y bennod ar Siôn Cent, deallai hefyd pam yr oedd ‘y beirniaid yn dawnsio wrth ei ddamnio’.²⁰⁴ Daeth i weld beth oedd yn ‘ddisgyrtaidd bosibl’.²⁰⁵ Rhaid oedd cael y testun yn gyntaf cyn i bobl chwilio ynddo am wirionedd. Dyna ydoedd effaith traddodiad y Gair ar ei genhedlaeth ef. (Diddorol yw fod Saunders Lewis yn 1977 yn dweud nad oedd wedi darllen y *Braslun* ers 1936.)²⁰⁶

Ac eto, camp ryfeddol y ‘llyfr bychan’ ydoedd gosod nod y corff ar yr aelodau hynny nad oeddent eto wedi ymddangos. Fel y nododd Ceri W. Lewis, yr oedd y llyfr yn cynnwys ‘damcaniaethau a deongliadau dadleuol, sydd wedi arwain o bryd i’w gilydd at anghytundeb brwd ymhlith ysgolheigion Cymraeg’.²⁰⁷ Ond y prawf mwyaf o’i gyfraniad pellgyrhaeddol i feirniadaeth lenyddol Gymraeg, efallai, ydoedd i’r dull hwn o ddarllen llenyddiaeth yn nhermau corff o weithiau gael ei fabwysiadu gan feirniaid Saunders Lewis hefyd, ac na sylwent hwy mai ‘*gwneuthur corff*’ a wnâi’r hanesydd llên, hyd yn oed wrth ddefnyddio’r union ymadrodd i ddisgrifio ei waith.

²⁰⁴ Saunders Lewis, ‘Trem ar Lenyddiaeth y Dadeni Dysg’, *Meistri a’u Crefft*, t. 172.

²⁰⁵ Simon Brooks, op. cit., t. 77.

²⁰⁶ Idem, ‘Dafydd ab Edmwnd’, *Meistri a’u Crefft*, t. 131.

²⁰⁷ Ceri W. Lewis, op. cit., 150.

Pennod 4

Saunders Lewis:

Cyflwyno'r Canon Llenyddol Cymraeg

Saunders Lewis: Cyflwyno'r Canon Llenyddol Cymraeg

Yr amcan yn y bennod hon yw archwilio ffurf y canon llenyddol Cymraeg yng ngwaith beirniadol Saunders Lewis. Astudiaeth strwythurol ydyw'n rhannol, felly. Fodd bynnag, cyn manylu ynghylch y ffurf honno a sylwi ym mha fodd yr ymdebygai i ffurf ganonaidd y Testament Newydd, nodir nad y ffurf ei hun fel y cyfryw a wnaeth y canon llenyddol yn beth byw yng ngwaith Saunders Lewis, eithr y modd y cysylltodd y beirniad ef â charfan arbennig o bobl ac â rhaglen wleidyddol amgenach, a hynny ar yr union adeg pan oedd y bobl honno, neu garfan sylweddol ohoni o leiaf, yn colli ei ffydd yng nghanon y Testament Newydd. Gwelir yma hefyd, felly, ymgais i gyd-destunoli'n gymdeithasol.

Ar un olwg, cenedl y Cymry ydoedd y bobl honno yr ysgrifennai Saunders Lewis ar ei chyfer. Etifeddodd yn hynny o beth raglen waith ei ragflaenwyr, megis na fwriadai John Morris-Jones i'r *Beirniad* fod yn '[g]yhoeddiad i'r Brifysgol yn unig', eithr yn 'gylchgrawn cenedlaethol'.¹

Y rhaglen wleidyddol, wrth gwrs, ydoedd ymgais y bobl honno i ddiffinio ei harwahanrwydd, ei hymreolaeth oddi wrth Loegr.² I'r perwyl hwn, dan gochl ei genedlaetholdeb, ysgrifennai Saunders Lewis ar gyfer pobl 'ddiddosbarth' o ddiwylliant cyffredin, gan 'wrthsefyll totalitariaeth y Dde a'r Chwith', ys dywed J. Gwyn Griffiths.³ Gwelai Saunders Lewis fod y Gymraeg 'yn gwneuthur y gweithiwr

¹ John Morris-Jones, 'Annerch', *Y Beirniad*, 1 (1911), 1.

² Emrys ap Iwan, nid John Morris-Jones yw'r dylanwad Cymraeg 'ar ei argyhoeddiadau llenyddol yn ogystal ag ar ei ddaliadau gwleidyddol' yn hyn o beth. Gw. J. E. Caerwyn Williams, 'Saunders Lewis: Yr Ysgolhaig a'r Beirniad', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes, *Saunders Lewis* (Llandybie, 1975), t. 42. Cymh. Dafydd Glyn Jones, 'Traddodiad Emrys ap Iwan', *Agoriad yr Oes: erthyglau ar lèn, hanes a gwleidyddiaeth Cymru* (Talybont, 2001), tt. 46-66.

³ J. Gwyn Griffiths, 'Saunders Lewis fel Gwleidydd', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes, *ibid.*, t. 78.

a'r ysgolhaig yn frodyr yng Nghymru, y tlawd a'r cyfoethog yn aelodau o'r un teulu'.⁴ Nododd Ifor ap Dafydd fod ei ddefnydd o'r ymadrodd 'neb Cymro', sy'n llwyddo i gyfleu'r agwedd ddiddosbarth hon, yn '[rh]oi i bobun arbenigedd a phwysigrwydd llwyr am ennyd'.⁵ Ceir hefyd ganddo 'neb llenor Cymraeg'.⁶

Ac eto, fel yr awgrymodd ymholiad Saunders Lewis yn 1921 – 'Pwy yw y "werin", a pha fodd y'i hadwaenir?'⁷ – anodd yw peidio â gweld nad oedd rhyw gymaint o wahaniaeth hefyd rhwng yr ysgolhaig a'r gweithiwr y cyfeiriai ef ato.⁸ Fel y dywedodd Dafydd Glyn Jones am '[dd]iferyn gwaed Ffrengig' Emrys ap Iwan, felly hefyd y gellir dweud am fagwraeth Saunders Lewis yn Lloegr, os nad hefyd am ei Gatholigiaeth: 'Rhoddai ryw annibyniaeth iddo, rhyw gryfder bach ychwanegol wrth iddo sefyll ar wahân i'w gyd-Gymry, gweld eu gwendidau a dweud ei farn yn ddifloesgni'.⁹ Nododd D. Tecwyn Lloyd i Saunders Lewis gael ei fagu yn Lerpwl yng nghwmni'r 'dosbarth canol uchaf ... yn ei ragdybiaethau a'i categorïau moesol a chymdeithasol'.¹⁰ Profi hynny, chwedl Dafydd Glyn Jones, y mae'r ffaith iddo, gydag eraill, ladd ar y dosbarth canol – 'as good an indication as any that they belonged to it'.¹¹ Enghraifft gref o'r lladd hwnnw ar waith, wrth gwrs, yw'r modd y beirniadodd Saunders Lewis Geiriog a'i gynulleidfa drefedigaethol am '[r]oi ceiniog at geiniog, yn

⁴ Saunders Lewis, 'Tueddiadau Cymru rhwng 1919 a 1923', *Baner ac Amserau Cymru*, 6 Medi 1923, 5. Nodir bod tebygrwydd yn hyn o beth rhwng cenedlaetholdeb a Chatholigiaeth. Cymh. idem, 'Y Deffroad Mawr', *Meistri a'u Crefft*, gol. Gwynn ap Gwilym (Caerdydd, 1981), t. 290. Catholigiaeth, crefydd 'y tlodion anllythrennog, yr uchelwyr o bob gradd, oedd crefydd Cymru'r Oesoedd Canol ...'

⁵ Ifor ap Dafydd, *Saunders Lewis a'r 'Estheteg Gymreig': Agweddau ar ei feirniadaeth lemyddol* (Traethawd MPhil: Aberystwyth, 2001), t. 92.

⁶ Saunders Lewis, 'Ac Onide', *Meistri a'u Crefft*, t. 61.

⁷ Gw. idem, 'Pwy Yw'r Werin?' [Llythyr], *Y Darian*, 10 Chwefror 1921, 3.

⁸ Ar y mater hwn, gw. Alan Llwyd, 'Saunders Lewis a T. S. Eliot', *Y Grefft o Greu: Ysgrifau ar Feirdd a Barddoniaeth* (Cyhoeddiadau Barddas: 1997), tt. 156-7. Dyfynnir Saunders Lewis, 'Barddoniaeth Mr. R. Williams-Parry', *Y Llenor*, 1 (1922), 148. 'Nid oes gan artist hawl i fod yn werinwr.'

⁹ Dafydd Glyn Jones, 'Traddodiadau Emrys ap Iwan', op. cit., t. 55.

¹⁰ D. Tecwyn Lloyd, *John Saunders Lewis: Y Gyfrol Gyntaf* (Dinbych, 1988), t. 94.

¹¹ Dafydd Glyn Jones, 'His Politics', gol. Alun R. Jones and Gwyn Thomas, *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff, 1973), t. 47.

“dyfod ymlaen yn y byd,” gan ladd pob dyhead afreolus dan ei fron, gan lethu pob ysbonc nwyd, a dofi ei gnawd a’i ysbryd, dyna rinweddau’r *bourgeois* Cymreig’.¹²

Mae’n bwysig nodi nad amcan Saunders Lewis ydoedd dileu’r bwlch rhwng y gweithiwr a’r ysgolhaig, eithr, yn ei eiriau ei hun, cadw’r ‘Gymraeg yn iaith dosbarth bychan o Gymry a gâr geinder a llên a chelf, ac a fydd yn bendefigaeth Gymreig yng nghanol gweriniaeth anwar’.¹³ Gan hynny, erys Saunders Lewis – er gwaetha’r ffaith i R. M. Jones gwestiynu ‘barn pawb call amdano’ a gosod arno’r label ‘Sosialydd’¹⁴, ac i D. Ben Rees bwysleisio yr ymfalchïai Saunders Lewis yn ifanc ‘mai un o’r werin ydoedd’¹⁵ – yn darged hawdd iawn ar gyfer y Marcysydd a’r rhyddfrydwr fel ei gilydd, yn enwedig o safbwynt llenyddol, a hynny gan mai ‘[é]lite diwylliannol a ddeisyfid’ ganddo.¹⁶ Y nod ydoedd cyfnewid *élite* Saesneg am un Cymraeg.¹⁷ Fel y nododd Hazel Walford Davies, teimlai’n gartrefol yn y ‘cwmni bach aristocrataidd hwnnw yng Ngarthewin ... i bobl ddethol y Gymru Gymraeg’.¹⁸

Nid y bwriad yma yw dirymu’r feirniadaeth honno sy’n anghyfforddus gyda’r syniad o *élite* Cymraeg. Dadleuir isod, er enghraifft, fod tebygrwydd rhwng rhaglen waith Saunders Lewis yng Nghymru ac F. R. Leavis yn Lloegr, o ran bod beirniaid proffeisynol, dosbarth canol yn ymddiddori mewn diwylliant aristocrataidd er mwyn

¹² Saunders Lewis, *Ceirïog: Yr Artist yn Philistia - I* (Aberystwyth, 1929), t. 16. Cymh. idem., ‘The Literary Man’s Life in Wales’, [anerchiad gerbron y Gyngres Geltaidd yn Glasgow, Medi 1929], *The Welsh Outlook*, 16 (Hydref 1929), 296. ‘[S]ince Wales lost its aristocracy the Welsh writer has never had an audience that really desired excellent literature. [...] The ideal we have ... accepted is the quitesence of bourgeois mediocrity.’

¹³ Idem, ‘Tuaddiadau Cymru rhwng 1919 a 1923’, op. cit.

¹⁴ R. M. Jones, *Ysbryd y Cwlwm* (Caerdydd, 1998), tt. 307-08.

¹⁵ D. Ben Rees, ‘Gwreiddiau J Saunders Lewis ar lannau Mersi’, gol. idem, *Ffydd a Gwreiddiau John Saunders Lewis* (Lerpwl, 2002), t. 22.

¹⁶ John Rowlands, *Saunders y Beirniad: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1990), t. 77.

¹⁷ Saunders Lewis, ‘Cyflwr ein Llenyddiaeth’, *Meistri a’u Crefft*, t. 167. ‘[E]r bod weithiau ddannod iddynt eu dysg ... fe wŷr y wlad Gymraeg mai yn nwylo’r rhain [yr ysgolheigion] y mae arweiniad llenyddiaeth Gymraeg. Rhywbeth arbennig yn hanfod ym mywyd ac yn hanes Cymru yw hyn.’

¹⁸ Hazel Walford Davies, *Saunders Lewis a Theatr Garthewin* (Llandysul, 1995), t. 29. Dyfynnir Saunders Lewis mewn llythyr at Kate Roberts, lle y ‘cyffesodd Saunders Lewis ei fod yn casáu siarad yn gyhoeddus, ac na fyddai’n yngan gair “yn dragywydd dros genedlaetholdeb na Chymraeg pedfai modd cadw’n fyw rywsut arall gwmni bach aristocrataidd Cymreig a gadwai lên a chelf yn ddiogel heb falio botwm am y werin daeogion”’.

camddisgrifio llenyddiaeth gyfoes na chyfansoddwyd ar gyfer brenhinoedd, a hynny fel modd o sicrhau undeb gwleidyddol.

Ond y mae'n bwysig sylweddoli nad cyfan gwbl ffug chwaith – yn enwedig yn achos y rheini a ymfalchïai yn eu tras gwerinol¹⁹ – ydoedd yr undod diddosbarth rhwng ysgolhaig a gweithiwr, tlawd a chyfoethog yng Nghymru, a bod hynny yn rhan o gefndir cenedlaetholdeb Cymraeg. Yn ei lyfr, *Toward a Working-Class Canon*, nododd Paul Thomas Murphy y ceid yn Lloegr yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg 'hundreds of periodicals written both by and for the working class', ac i'r diwylliant cyhoeddi hwn ddatblygu canon 'as broad and sophisticated as any other in Britain at the time'.²⁰ Fodd bynnag, diwylliant cyhoeddi enwadol a geid yng Nghymru yn yr un cyfnod, ac fel yr awgrymir isod, hyrwyddo undod diwylliannol a wnâi'r diwylliant anghydfurfiol, hyd yn oed pan ddechreuodd dosbarth canol Cymraeg ddatblygu yng Nghymru ac yn rhai o ddinasoedd Lloegr maes o law.

Byddai Saunders Lewis ei hun wedi dod ar draws yr undod hwn ym meirniadaeth Moelwyn ar *Williams Pantycelyn*. Oherwydd rhan o ymdrech Moelwyn i awdurdodi ei feirniadaeth ydoedd cyfeirio at '[l]ïaws llythyrau' o gefnogaeth gan 'wŷr llên a lleyg, yn weinidogion a blaenoriaid, yn athrawon a prifathrawon colegau, yn olygyddion, yn fyfyrwyr ac yn llafurwyr'.²¹ Yn erbyn y cefndir hwn, felly, y dadleuai Saunders Lewis 'nad oes gan artist hawl i fod yn werinwr', er gwaetha'r ffaith yr '[a]peliai [R. Williams Parry] at y deallusion mwyaf ac at y gwerinwyr

¹⁹ Gw. Saunders Lewis, gol. Mair Saunders Jones, Ned Thomas a Harri Prichard Jones, *Letters to Margaret Gilchrist*, (Cardiff, 1993), t. 186. 'I delight to remember that I am a peasant. [...] I have never had the slightest connection with the commercial and English middle class.' Ceir hefyd, wrth gwrs, yr agwedd arall. Gw. t. 502. 'I sometimes curse myself for writing in Welsh. If I wrote in English I might make money and a name, both desirable things; and yet I simply cannot give my damnable language up, little pleasure though I get in most of the folk who use it. I live here in the middle of Philistine Nonconformity and it's a marvel I have a soul or a spirit left even to swear.'

²⁰ Paul Thomas Murphy, *Toward a Working-Class Canon: Literary Criticism in British Working-Class Periodicals 1816-1858* (Ohio, 1994), tt. 1, 61.

²¹ John Gruffydd Hughes (Moelwyn), *Mr. Saunders Lewis a Williams Pantycelyn* (Birkenhead, 2il arg., 1928), t. 85.

mwyaf diaddysg'.²² Ar un olwg – a than ddylanwad ei gefndir Seisnig, o bosib, lle'r oedd y gwahaniaeth rhwng gwahanol ddsbarthiadau cymdeithasol yn gliriach – adweithio yn erbyn y fath sefyllfa yr oedd, rhag ofn i ddiwylliant gwerinol flodeuo heb deimlo angen am arweiniad. Ond ar y llaw arall, yr oedd am gadarnhau'r sefyllfa hon o undod diddosbarth, cyhyd ag yr oedd y werin yn barod i dderbyn awdurdod y beirniad. Yn sicr, o safbwynt gwleidyddol, ymelwodd arni. Oherwydd yr oedd modd i'r dosbarth canol Cymraeg newydd osgoi cwestiynau ynghylch cydraddoldeb cymdeithasol drwy fanteisio ar sefyllfa lle'r oedd gan y gweithiwr Cymraeg ormeswr Saesneg.

Nododd D. Gareth Evans fod yr iaith yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi datblygu'n fynegiant o werthoedd dosbarth gweithiol a chenedligol y Cymry fel ei gilydd. Meddai:

The Welsh language had become a way of expressing social differences, for it marked them off from the English and the Anglicizing middle classes. The language also expressed national differences and embodied a separate and heroic past. It was the precious possession of workers in the face of the inhuman and brutalizing forces of industrialism: above all, it inspired confidence and pride in one's heritage, history and culture.²³

Gan gadw'r sylwadau hyn ar Gymry 1850-1915 mewn cof, felly, gwerthfawrogi pam y mae tebygrwydd neilltuol rhwng amlygrwydd cenedlaetholdeb yng Nghymru wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf ac ymdrech gwledydd y Trydydd Byd i ennill eu hannibyniaeth wedi'r Ail Ryfel Byd, lle y disgrifid cenedlaetholdeb yn nhermau 'an astonishingly effective anti-colonial force'. Am y gwledydd hynny a'u cenedlaetholwyr, meddai Terry Eagleton:

²² Alan Llwyd, 'Rhagymadrodd', gol. idem, *Cerddi R. Williams Parry: Y Casgliad Cyflawn* (Dinbych, 1998), t. ix.

²³ D. Gareth Evans, *A History of Wales: 1815-1906* (Cardiff, 1989), t. 301.

It is true that the revolutionary nationalists had in a sense looked beyond class themselves. By rallying the national people, they could forge a spurious unity out of conflicting class interests. The middle classes had rather more to gain from national independence than hard-pressed workers and peasants ... Even so, this unity was not entirely bogus. [...] In one sense, different groups and classes in the Third World indeed faced a common Western antagonist. [...] [T]he nation was a way of rallying different social classes – peasants, workers, students, intellectuals – against the colonial powers which stood in their way of their independence.²⁴

Bid siŵr, er nodi'r gymhariaeth, nodir hefyd y ceir gwahaniaethau rhwng y sefyllfa drefedigaethol yng Nghymru a'r sefyllfa mewn gwledydd eraill, o ran hanes ac effaith y gwladychu. Un nodwedd bwysig ar gymdeithas yng Nghymru ydoedd dylanwad anghydfurfiaeth, a oedd yn tueddu i ddiffinio cymdeithas yn nhermau aelodaeth capel, ac nid ar lun dosbarthiadau cymdeithasol. Yn hyn o beth, yr oedd yn wahanol i undebaeth. Tuedd yr undebwr ydoedd edrych ar ddieithryn 'in terms of social class'. Tuedd yr anghydfurfiwr, fel rheol, ydoedd ei ystyried 'in terms of cultural, or even national, differences'.²⁵ Am hynny, gellir awgrymu i anghydfurfiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg baratoi cynulleidfa addas ar gyfer rhaglen waith cenedlaetholwyr yr ugeinfed ganrif mewn modd arbennig.

Ymddengys, felly, fod y cefndir anghydfurfiol hwn yng Nghymru – nad oedd, ysywaeth, yn llwyr ddiddosbarth chwaith, fel nad oedd undebaeth Gymreig yn gyfan gwbl Saesneg – yn cadarnhau arwyddocâd yr egwyddor gyffredin a nodir gan Eagleton, sef bod presenoldeb grym gwladychol yn fodd i aelodau dosbarth canol y wlad drefedigaethol gyfeirio'u gwaith at garfan eang o bobl gyfiaith, frodorol o bob dosbarth cymdeithasol. Ac elwa ar y sefyllfa hon a wnaeth ac wna'r beirniad

²⁴ Terry Eagleton, *After Theory* (Penguin: London, 2004), t. 10.

²⁵ Glyn Williams a Delyth Morris, *Language Planning and Language Use: Wales in a Global Age* (Cardiff, 2000), tt. xxii-xxiii. Pwysleisir 'that the chapel deaconry and the trade union leadership overlapped, making the construction of an oppositional discourse involving the two institutions impossible'. Ond tuedd haneswyr yw cyfod y ddau 'sefydliad', gan weld y naill yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg. Cymh. John Davies, *Hanes Cymru* (London, 1990), t. 466. 'Yr oedd diffyg amynedd tuag at y Gymraeg a phriodoleddau Gymreig yn rhan o safbwynt carfanau helaeth o sosialwyr Cymru.' Hefyd Saunders Lewis, *Letters to Margaret Gilchrist*, t. 516. 'Labour is to my mind the devil himself, and in south wales it is destroying language, nationality, and traditions.'

llynyddol yn sicr, wrth i'r adwaith cenedlaetholgar yn erbyn y sefyllfa drefedigaethol hyrwyddo'r cysyniad o ganon llenyddol cenedlaethol, sy'n eiddo i bawb, er gwaetha'r ffaith mai carfan fechan o ysgolheigion breintiedig sy'n pennu ei gynnwys – rhywbeth na fynnai Saunders Lewis ei newid.²⁶ Yn hyn o beth, dyma enghraifft o sefyllfa lle y mae'r dosbarth canol yn darparu arweiniad 'in those areas where the working class could not provide for themselves'.²⁷ Sefyllfa ydyw lle y bydd ysgolheigion yn cyhoeddi yng Nghyfres y Brifysgol a'r Werin,²⁸ heb ofyn pa faint o'r werin sydd yn y brifysgol, eithr yn hytrach nodi mai sefydliad Saesneg yw hwnnw a elwir yn 'University of Wales'.²⁹ Wrth gwrs, ni all yr un Gymraes na Chymro Cymraeg sy'n rhannu'r un rhagfarn yn erbyn coloneiddio eu gwlad ddiolch ddigon i Saunders Lewis am amlygu mai 'prifysgolion taleithiol Seisnig' ydyw colegau'r Brifysgol.³⁰ Fel y nododd Peredur Lynch, yn ei feirniadaeth lem ar y Brifysgol yr oedd yn mynd yn groes i 'holl dueddiadau'r oes' a fynnai weld y Cymro yn '[c]ystadlu gyfysgwydd â'r Sais hirben a'r Sgotyn llygadog', a hynny drwy gyfrwng addysg brifysgol Saesneg.³¹ Ac eto, 'swyddogaeth Prifysgol Cymru yn ei farn ef oedd dwyn ynghyd *élite* ysgolheigaidd'.³²

Mewn oes lle y mae gennym bellach sefydliadau eraill i 'arwain y genedl' – a hynny yn sgil gweledigaeth a gwaith cenedlaetholwyr megis Saunders Lewis a

²⁶ Gw. Saunders Lewis, 'Diwylliant yng Nghymru', *Ysgrifau Dydd Mercher* (Cyhoeddiadau'r Clwb Llyfrau Cymraeg, 1945), t. 104. Dywedir na all ysgolheigion Cymru 'ymwybod â chyfrifoldeb eu swydd ... i fod yn "élite" yng Nghymru. Canys y mae ysgolheictod fel pendefigaeth yn gyfrifoldeb.'

²⁷ Ieuan Gwynedd Jones, *Explorations and Explanations* (Llandysul, 1981), t. 290. Nodir bod y ffin rhwng y dosbarth gwaith a'r dosbarth canol yn cael ei chroesi fwyfwy oddi ar ganol y 19g. '[T]he working class no longer attempted to organize itself as such and to operate independently, as in the past, but was prepared to co-operate closely with representatives of the middle-class. [...] This did not mean that the working classes were thereby absorbed ...'

²⁸ Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: Y Gyfrol Gyntaf: Hyd at 1535* (Caerdydd, 1932).

²⁹ Idem, 'Diwylliant yng Nghymru', *Ysgrifau Dydd Mercher*, t. 104.

³⁰ Dyf. Peredur Lynch, "'Prifysgol Cymru": Saunders Lewis a Phrifysgol Cymru': *Darlith Eisteddfodol y Brifysgol: Eisteddfod Genedlaethol Cymru Meirion a'r Cyffiniau 1997* (Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru, 1997), t. 12.

³¹ *Ibid.*, t. 4.

³² *Ibid.*, t. 7.

ymgyrchai dros sefydlu senedd a sefydliadau eraill i Gymru – ac awydd cyffredinol, o leiaf ymysg rhai, i weld mwy o blant yn mynychu prifysgolion Cymru, anodd yw gwerthfawrogi'r elitiaeth hon bellach. Yn hytrach, sylwi a wneir ar sut yr oedd Seisnigrwydd Cymru yn clymu'r ysgolhaig a'r gweithiwr Cymraeg ynghyd, ac yn cadarnhau bod ganddynt wrthwynebydd cyffredin, a'u bod felly yn aelodau o'r un dosbarth o bobl.³³ Ystyrier, er enghraifft, sylwadau rhamantus O. M. Edwards ar 'enaid y genedl'. Meddai:

Mager ef yn yr ysgolion, a cholegau amrywiol y Brifysgol. Ond ei grud yw'r aelwyd. Yn yr amaethdy mynyddig, yn y bwthyn ar fin y nant, yng nghartref y glowr, - yno y ca ysbryd Cymru ei eni.³⁴

Nid yn unig y mae'r ysgolhaig a'r gweithiwr yn gydradd yma, eithr awgymir mai'r olaf o'r ddau yw'r pwysicaf o safbwynt y genedl, gan felly gadarnhau nad oes angen na phrotest na chwyldro dosbarth, nac angen ar i'r gwerinwr fynd i'r brifysgol, eithr parhau o bawb i gyd-dynnu'n gymdeithasol gall â'i gilydd yn ôl yr hen drefn.³⁵ Rhai o'r werin, wedi'r cyfan, ydoedd yr ysgolheigion.³⁶ Gwnaent eu gorau trosti.

Fel y gwelwyd yn achos canon y Testament Newydd, onid yw canon yn adnodd i grŵp o bobl sefydlu eu hunaniaeth, nid yw'n ddim. Pennaf angen unrhyw ganon ydyw pobl ar ei gyfer – pobl y mae angen canon arnynt. Daeth llenyddiaeth Gymraeg yn fyw i Saunders Lewis, pan sylweddolodd hynny, ac yntau'n rhan o'r

³³ O ystyried y sylw a roddir yn y bennod i'r traddodiad anghydfurfiol, ac o gofio gwreiddiau teuluol Saunders Lewis, cymh. D. Gareth Evans, op. cit., t. 243. 'The new middle-class leaders of the denominations were quite insensitive to the social problems of the period and adhered to the old issues of rural Wales. [...] Trade unions made great advances in the coalfields in the years after 1890, and mainly under English leadership.'

³⁴ O. M. Edwards, *Er Mwyn Iesu* (Wrecsam, 1922), t. 14.

³⁵ Cymh. W. J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru: Rhyddiaith o 1540 hyd 1660* (Wrecsam, 1926), t. 23. 'O'r Brifysgol y daeth y goleu newydd, ac o ddiwylliant Beibladd y werin y daeth y Brifysgol, ac o waith William Salesbury yn y pen draw y daeth y diwylliant hwnnw.'

³⁶ Gw. Islwyn Ffowc Elis, 'Dwy Nofel', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes, op. cit., t. 165. '[Hi] [Methodistiaeth] a ddysgodd i'n hen deidiau ni ddarllen, ac mae gwerin ddarllengar yn rym ffrwydrol. O'r werin ddarllengar hon y cododd O. M. Edwards a haneswyr eraill ac ysgolheigion llên – gan gynnwys Mr. Lewis ei hun – i roi'n ôl iddi mewn cyfrol a chyfnodolyn ei hen ogoniant gynt.'

darlun cymdeithasol hwn. Dadleuodd T. J. Morgan mai'r 'cymhelliad llwythol, yn ddiâu, yw'r pwysicaf yn llenyddiaeth Cymru'.³⁷ Mae hynny'n wir hefyd am feirniadaeth lenyddol Gymraeg, wrth i'r ysgolhaig ysgrifennu ar gyfer carfan arbennig o bobl. Yn wir, yn rhan o'r cyd-destun hwnnw yr aethpwyd ati i hyrwyddo'r canon llenyddol Cymraeg.

Ar un olwg, yr oedd Saunders Lewis yn ganoneiddiwr cyn iddo ddechrau ysgrifennu ar lenyddiaeth Cymru yn Gymraeg. Dyma ydoedd nod y feirniadaeth lenyddol Saesneg yr oedd yn gyfarwydd â hi. Fel y nododd Peter Barry am Matthew Arnold:

The critic would help ... people to recognise 'the best that has been known and thought in the world' and thus enable them to give individual assent to the canon of great works which had emerged through the collective wisdom of the ages.³⁸

Mewn llythyr cynnar at Margaret Gilcriest, gwelir dylanwad ei addysg Saesneg ar Saunders Lewis, ac mor bwysig iddo er yn gynnar iawn ydoedd y syniad o ganon llenyddol sefydlog. Meddai wrthi: 'Read poetry slowly, and while you seek for new poets, go back again and again to the great writers, and among the sure poets have a small company of favourites to study and know through and through.'³⁹

Nid yw'n syndod, felly, weld Saunders Lewis yn 1921, er enghraifft, ar achlysur canmlwyddiant Keats yn disgrifio'r bardd megis 'a poet now among the saints ... the saint of poets'.⁴⁰ Pwysleisia'r trosiad crefyddol mai canoneiddio'r mawrion – pennu seintiau – yw gwaith y beirniad llenyddol. Edrychid hefyd ar

³⁷ T. J. Morgan, 'Cymhellion Llenyddol', *Ysgrifau Beirniadol* (Llundain, 1951), t. 38.

³⁸ Peter Barry, *Beginning Theory: An Introduction to Literary and Cultural Theory* (Manchester, 1995), t. 26. Gwelir dylanwad Celtigiaeth Matthew Arnold yn glir yn y llythyrau cynnar at Margaret Gilcriest. Gw., e.e., tt. 57, 59, 72. *Culture and Anarchy* (1869) Arnold yw'r dylanwad hefyd ar 'Ffilistiaeth' Saunders Lewis.

³⁹ Saunders Lewis, *Letters to Margaret Gilcriest*, t. 60.

⁴⁰ Idem, 'John Keats: Secrets of his Genius: Centenary of Poet's Death', *Western Mail*, 23 Chwefror 1921, 7.

Molière yn nhermau ‘one of the saints of European drama’.⁴¹ A phan droes ei sylw at lenyddiaeth Gymraeg, ac at John Morgan, ennill iddo ‘le ym mysg clasuron y Gymraeg’ ydoedd y dasg. Megis yr oedd Keats yn cyrraedd ‘the level loveliness of the classics’ drwy ei athrylith,⁴² felly y dysgodd John Morgan drwy ei grefft efelychu ‘[t]awelwch prydfferth y clasuron’.⁴³

Yr hyn sydd ar goll yn yr ysgrif hon a gyhoeddwyd yn 1922, fodd bynnag, ynghyd â ‘Goronwy Owen’ flwyddyn yn ddiweddarach, yw’r ‘gynneddf’ honno y cyfeiriodd R. Geraint Gruffydd ati; yr ymdeimlad hwnnw sydd mor amlwg yn ‘Dafydd Nanmor’ (1925) fod yng ngwaith yr hen awdur Cymraeg ‘neges gyfamserol’ ar ein cyfer ‘ni’.⁴⁴ Fel y nodwyd, canoneiddio ydoedd y dasg; pennu’r clasuron. Ond canon heb bobl nac amcan gwleidyddol ydoedd yn 1922. Canon heb *telos*. Yn hyn o beth, y mae ‘John Morgan’ mor wahanol i ‘[Dd]jafydd Nanmor’ ag yw *A School of Welsh Augustans*, sef traethawd M.A. Saunders Lewis yn Lerpwl, lle y gwelir mai gwaith y beirniad llenyddol yw amlygu ffynonellau a dylanwadau’r llenorion dan sylw.⁴⁵ Yn ôl D. Gwenallt Jones, dyma ‘un o’r llyfrau gorau a gyhoeddodd Mr. Lewis’.⁴⁶ Ac eto, llyfr hollol ddigynnwrf ydyw.

Yn ei astudiaeth o fywyd a gwaith Saunders Lewis, neilltuodd D. Tecwyn Lloyd bennod gyfan ar gyfer 1923, lle y dadleuir i’r flwyddyn honno fod yn un ffurfiannol ym mywyd y gŵr.⁴⁷ Y mae’r ddadl honno’n un sy’n cydio. Yn y flwyddyn honno, er enghraifft, daeth yn amlwg fod ‘[rh]agfarnau gwreiddiol’ Saunders Lewis

⁴¹ Idem, ‘A Great Frenchman: Moliere Tercentenary Celebrations: Welsh Tribute to a Famous Dramatist’, *Western Mail*, 13 Ionawr 1922, 6.

⁴² Idem, ‘John Keats: Secrets of his Genius: Centenary of Poet’s Death’, op. cit.

⁴³ Idem, ‘John Morgan’, gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri’r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), t. 229.

⁴⁴ Idem, ‘Dafydd Nanmor’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 91.

⁴⁵ Idem, *A School of Welsh Augustans* (Wrexham, 1924), t. 41. ‘In order to expound Morris’s literary criticism as clearly as possible, we may make an anthology of some of his ampler paragraphs, only adding whatever notes and quotations may seem useful to indicate his sources.’

⁴⁶ D. Gwenallt Jones, ‘Beirniadaeth Lenyddol’, gol. Dyfnallt Morgan, *Gwŷr Llên y Ddeunawfed Ganrif* (Llandybie, 1966), t. 193.

⁴⁷ D. Tecwyn Lloyd, op. cit., tt. 212-241.

yn eu lle, a bod llenyddiaeth Gymraeg bellach yn rhan o raglen genedlaetholgar amgenach. Amlygu hynny a wnaeth un ymateb o'i eiddo yn y *Western Mail*, lle y nododd fod yn rhaid credu 'in political Nationalism or else in the extinction of Welsh literature'.⁴⁸ O'r fan hon ymlaen y mae i lenyddiaeth amcan amgenach na'r llenyddol yn unig, a'r awydd Seisnig i ddefnyddio llenyddiaeth yn gyfrwng i hyfforddi'r dosbarthiadau cymdeithasol is yn troi'n awydd i addysgu cenedl Gymraeg. Fel y dywedodd Saunders Lewis am Lasynys, felly hefyd y cymhwysir yma'r sylw at ei ysgrifau beirniadol a gwleidyddol yntau wedi 1925:

... yn anuniongyrchol y mae ei waith llenyddol pur yn cyflawni o leiaf ran o uchelgais a bwriad y diwygiwr cymdeithasol ifanc. Yr un athroniaeth sy'n symbylu'r ddau fath o waith.⁴⁹

Daethai i weld bod 'gan berygl gwareiddiad hawl' ar ysgolheigion hefyd, a'r 'dull y gallai'r dysgedigion a'r athrawon wneud eu rhan yn yr argyfwng' ydoedd 'esbonio gweithiau mawr y gorffennol mewn llên a charreg a lliw'.⁵⁰ Dyma ddweud yn glir mai diben gwleidyddol sydd i'r canon llenyddol Cymraeg.

Nododd R. M. Jones na ddetholodd Saunders Lewis '[dd]im oll o'r pethau ... a ddywedodd ef cyn 1923' i'w cynnwys yn *Meistri'r Canrifoedd a Meistri a'u Crefft*.⁵¹ Barnai Saunders Lewis ei hun yn 1935 fod 'popeth a sgrifennais i cyn 1925 yn fynegiant o farn y bedwaredd ganrif ar bymtheg – barn a gollodd bob grym a gwerth erbyn heddiw'.⁵² Yng nghyswllt ei waith ar y canon llenyddol Cymraeg, gellir nodi mai'r gwahaniaeth rhwng 'John Morgan' (1922) a 'Dafydd Nanmor' (1925) yw i'r cyntaf gael ei ysgrifennu gan ysgolhaig, a'r ail gan ysgolhaig na fynnai mwyach fod

⁴⁸ Idem, 'Welsh Nationality', *Western Mail*, 17 Awst 1923, 9.

⁴⁹ Idem, *Straeon Glasymys* (Dinbych, 1943), t. xxiv.

⁵⁰ Idem, 'Diwylliant yng Nghymru', *Ysgrifau Dydd Mercher*, t. 103

⁵¹ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg: 1902-1936* (Cyhoeddiadau Barddas, 1987), t. 383.

⁵² Saunders Lewis, 'Baledi'r Ddeunawfed Ganrif: Nodau'r Feirniadaeth Gymraeg Newydd,' *Western Mail*, 30 Tachwedd 1935, 11.

yn llyfrbryf yn unig, eithr yn arweinydd cymdeithasol.⁵³ Esbonnir hefyd, yn rhannol, y newid yn nhermau newid pwyslais academaidd o ramantiaeth i glasuriaeth, ond rhaid cofio mai ar sail ei grefft ac nid ei athrylith yr haeddai John Morgan le ymysg y clasuron. Yn hytrach y mae'r newid hwn yn adlewyrchu newid ym mywyd Saunders Lewis ei hun yn sgil ei genedlaetholdeb. Wrth iddo ef ei gysylltu ei hun â charfan o bobl yma yng Nghymru y dechreuodd weld mai '[c]readigaeth cymdeithas yw celfyddyd' ac mai'r gelfyddyd orau, felly, yw'r un sy'n 'gwasanaethu'r gymdeithas'.⁵⁴ Yn 1923, 'mewn unigedd y mae athrylith yn aeddfedu'.⁵⁵ Yn 1927, 'ni all dyn ar ei ben ei hun fyth mo'i adnabod ei hun. Rhaid iddo wrth gymdeithas, wrth fethod cymdeithasol a chymorth o'r tu allan er mwyn ei ddarganfod ei hun yn iawn.'⁵⁶ Am hynny, y mae ei farn ar Oronwy Owen yn 1935 yn llwyr wrthwyneb i'r hyn a ddywedodd amdano yn 1923. '[B]arddoniaeth y llyfrgell a'r ddesg a'r geiriadur' a gyfansoddodd Goronwy Owen, meddai.⁵⁷ Ni allai'r beirniad a fyddai ymhen dim yn llosgi'r Ysgol Fomio ym Mhenyberth ei oddef ddim mwy. Rhaid cofio mai '[s]ylweddoli'r cysylltiad hanfodol hwn rhwng llenyddiaeth a bywyd cymdeithas draddodiadol yng Nghymru a'[i] tynnodd [ef] gyntaf oddi wrth waith llenyddol yn unig i ymroi hefyd i waith cyhoeddus ac i sefydlu gydag eraill Blaid Genedlaethol Cymru'.⁵⁸

⁵³ Cymh. Ned Thomas, *The Welsh Extremist* (London, 1971), t. 35. 'When we ... remember that Saunders Lewis's politics are not based on a set of theoretical beliefs, but on the culture and quality of life of a whole nation which he sees himself as defending, then we realize that politics is here a much wider term and *not to be kept separate* from the kind of experience we find in literature.'

⁵⁴ Saunders Lewis, 'Swyddogaeth Celfyddyd', *Canlyn Arthur* (Llandysul, 1985), t. 151. Gw. t. 147. Yn yr ysgrif hon, beirnedir 'honni anffaeledigrwydd yr artist, megis y gwneir ar ran y bardd gan y pwysicaf o ddehonglwyr Cymraeg y gredo ramantaidd mor ddiweddar hyd yn oed â 1923', sydd eto'n awgrymu bod y flwyddyn honno'n drobwynt yn hanes beirniadaeth lenyddol i Saunders Lewis.

⁵⁵ Idem, 'Goronwy Owen', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 262.

⁵⁶ Idem, *Williams Pantycelyn* (Llundain, 1927), t. 236.

⁵⁷ Idem, 'Baledi'r Ddeunawfed Ganrif: Nodau'r Feirniadaeth Gymraeg Newydd,' op. cit.

⁵⁸ Idem, *Paham y Llosgasom yr Ysgol Fomio: gan Saunders Lewis a Lewis Valentine* [pamffled], (Cyhoeddiadau'r Blaid Genedlaethol, Caernarfon, 1937), t. 5.

Fel rheol, portreadir Saunders Lewis fel gŵr braidd yn bell, a chadarnhau'r portread hwnnw ar un olwg y mae'r cyfeiriadau uchod at ei awydd i sefydlu *élite* o lengarwyr Cymraeg. Ond teg nodi iddo bwysleisio mai

peth dilettante ac ofer yw ceisio amddiffyn neu atgyfodi cenedl a chenedligrwydd oddieithr drwy foddion cymdeithasol, drwy drefniadaeth, drwy glymu dynion ynghyd mewn cydymdrech a chydweithio a'u llunio'n gymdeithas neu'n blaid.⁵⁹

Er nad yn un o'r bobl ar unrhyw gyfrif – sylwer ar yr ymadrodd 'eu llunio' – rhoes, yn anghydfurfiol iawn, y pwys mwyaf ar gydymdrech pobl o gyffelyb fryd, os nad o gyffelyb ddsbarth. Cydeistedd a oedd yn sicrhau traddodiad.⁶⁰ Yn llenyddol, gwelai ei fod ef ei hun yn perthyn i garfan o lenorion. Yn 1926, yn ei '[L]ythyr at Gynan', er enghraifft, cysylltodd ei hun â'r 'llenorion hynny nad ydynt yn aelodau'r Orsedd, rhai fel Gwynn Jones, Kate Roberts, D. T. Davies, W. J. Gruffydd a Williams Parry a R. T. Jenkins';⁶¹ ac wrth draethu ar '[G]yflwr ein Llenyddiaeth' yn 1939, gwelai fod angen '[c]lymu ynghyd lenorion ifainc', a 'meithrin ysgol o sgrifenydd'.⁶² Oherwydd – gan ddyfynnu o ysgrif a gyhoeddodd fis yn ddiweddarach,

Y mae beirniadaeth a gogan a dwrdio unrhyw awdur yn fwy tebyg o fod yn gywir, yn normal ac iach, ac yn fwy treiddgar a dwfn hefyd, pan lefaro'r dyn hwnnw nid drosto'i hun, fel unigolyn gwyrthiol ac arbennig neu weledydd unig, eithr pan lefaro dros draddodiad neu fel aelod o gymdeithas neu fudiad neu gylch eang a phur gyffredinol.⁶³

Gwelir o'r dyfyniad, er gwaethaf ei barodrwydd i herio consensws y dydd, yr ystyriai Saunders Lewis mai yn ei gymdeithas ag eraill yr oedd grym ei feirniadaeth.

⁵⁹ Idem, 'Emrys ap Iwan', *Ysgrifau Dydd Mercher*, tt. 75-6.

⁶⁰ Idem, 'Yr Eisteddfod a Beirniadaeth Lenyddol', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 338. '[Y]r oedd y cyfarfod – yr "Eistedd" – i ddarlennu awdlau a gwrando barnu arnynt yn sicrhau'r traddodiad a etifeddwyd ...'

⁶¹ Idem, 'Llythyr at Gynan', *Y Ddraig Goch*, 1.5, Hydref 1926, 7.

⁶² Idem, 'Cyflwr ein Llenyddiaeth', *Meistri a'u Crefft*, t. 169.

⁶³ Idem, 'W. J. Gruffydd', [adolygiad o *Y Tro Olaf ac Ysgrifau Eraill*], *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Mehefin 1939, 10.

Megis R. M. Jones ar ei ôl, deallai fod yna Dafod y tu ôl i Fynegiant pob unigolyn. Ac fel Eusebius gynt, gwelai fod y cyfryw gymdeithas yn rhan o'r broses o lunio canon llenyddol ac mai hanfod y fath gymdeithas ydoedd egwyddorion cyffredin ei haelodau, sef ei chanon ffydd llywodraethol. Yr hyn a all 'glymu ynghyd lenorion ifainc ... yw egwyddorion y credant ynddynt a chenadwri i'w hoes'.⁶⁴ Efallai y gellir nodi mewn modd ansosialaidd iawn fod 'stiward y seiat', er gwaethaf ei stiwardiaeth, yn aelod o'r seiat hefyd.⁶⁵

Nid y bwriad yma yw edrych yn fanwl ar y berthynas rhwng beirniadaeth lenyddol Saunders Lewis a'i fywyd cymdeithasol, nac olrhain ei datblygiad. Ond un ffordd o amlygu pwysigrwydd 1923 yn ei fywyd a'i waith yw drwy nodi yr haeddai John Morgan yn 1922 'le ym mysg clasuron y Gymraeg', tra haeddai Dafydd Nanmor dair blynedd yn ddiweddarach '[I]e yn ein bywyd'.⁶⁶ Canoneiddio y mae'r beirniad yn y naill erthygl a'r llall – cadarnhau a phennu clasur – eithr y mae i'r gweithgarwch hwnnw ddiben y tu hwnt i'r llyfrgell a'r ddesg a'r geiriadur yn 1925. A hynny am fod llenyddiaeth mwyach 'yn faeth i'r ysbryd', fel y gall y rhai sy'n caru 'llynyddiaeth Gymraeg ... fyw arni'.⁶⁷ Mewn gair, wrth i Saunders Lewis gysylltu ei weledigaeth lenyddol â'r un wleidyddol ynghyd, cysylltodd hefyd 'llynyddiaeth Gymraeg' gyda phobl a fyddai'n ei darllen yn ei hymgais anymwybodol i ddiffinio'i hunaniaeth; ac fel yr awgryma'r ieithwedd grefyddol, dechreuwyd edrych ar lenyddiaeth Gymraeg y pryd hwnnw yn nhermau canon ysbrydol o weithiau. Yn ôl Gwenallt, 'Erthygl Mr. Saunders Lewis ar Ddafydd Nanmor yw'r darn gwychaf o feirniadaeth lenyddol a sgrifennwyd erioed yn y Gymraeg'.⁶⁸ Rhan fawr o'i hapêl, fe gredir, ydoedd bod ynddi apêl ar i'r darllynydd edrych ar lenyddiaeth Gymraeg ar lun canon bywydol nid

⁶⁴ Idem, 'Cyflwr ein Llynyddiaeth', *Meistri a'u Crefft*, t. 169.

⁶⁵ Idem, *Williams Pantycelyn*, t. 236.

⁶⁶ Idem, 'Dafydd Nanmor', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 97.

⁶⁷ Ibid., t. 81.

⁶⁸ D. Gwenallt Jones, 'Beirniadu Beirniad', *Y Llenor*, 12 (1933), 32.

annhebyg i'r Beibl, 'yn faeth i'r ysbryd'. Ac ar un olwg, yr oedd rheswm da gan y beirniad dros wneud hynny.

Dadleuodd y cymdeithasegydd Arthur R. Cohen fod dau beth yn digwydd pan fo cynulleidfaoedd yn derbyn gwybodaeth sy'n ateb angen penodol. Yn gyntaf, maent yn dysgu mwy. Yn ail, bydd eu barn ar faterion yn newid yn gynt ac mewn modd mwy parhaol.⁶⁹ Fel y dengys ymateb Gwenallt i '[Dd]afydd Nanmor', croesewid y galw hwn ar i ddarllenwyr *Y Llenor* ddarllen llenyddiaeth Gymraeg y gorffennol mewn modd a welai ynddi 'neges gyfamserol' ar gyfer eu bywydau cyfoes hwy yn frwd iawn. A rhan o'r rheswm dros hynny, fe greidir, ydoedd am fod y galw hwnnw yn ateb angen penodol. Oherwydd cyd-destun y ffordd newydd hon o ddarllen llenyddiaeth Gymraeg ydoedd bod llawer o Gymry yn colli eu ffydd yng nghanon y Testament Newydd, ac yn peidio ag edrych ar y Beibl Cymraeg fel ffynhonnell iddynt seilio eu bywyd arni. Bid siŵr, ni ddigwyddodd hynny dros nos. Fel y nododd Kenneth O. Morgan, bu papurau'r anghydfurfwyr megis *Y Goleuad* a'r *Tyst*, ynghyd â'r chwarterolyn, *Y Geninen*, yn tynnu sylw at anallu'r capeli i wrthweithio effeithiau diwydiannaeth, seciwlareiddio, ynghyd â'r uwchfeirniadaeth newydd – '[the] new scientific schools of biblical criticism' – o ganol yr 1880au ymlaen.⁷⁰ Nid chwilio am ddyddiad arwyddocaol yn hanes crefydd Cymru mo'r amcan yma, eithr edrych ar nodweddion beirniadaeth lenyddol Saunders Lewis yn eu cyd-destun hanesyddol, gan ddadlau iddo gymhwyso'r ffordd yr arferid darllen canon y Beibl ar gyfer math newydd o ganon, sef llenyddiaeth Gymraeg. Po fwyaf yr astudir gwaith Saunders Lewis, gwelir ei fod yn ymdoddi fwyfwy i amgylchfyd syniadol ei oes ei hun.

⁶⁹ Arthur R. Cohen, 'Need for Cognition and Order of Communication as Determinants of Opinion Change', gol. Carl I. Holvand, et al., *The Order of Presentation in Persuasion* (New Haven, 1957), tt. 79-97.

⁷⁰ K. O. Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1990* (Oxford, 1981), t. 15.

Wrth nodi'r berthynas hon yn ei waith ef rhwng y llenyddol newydd a'r cefndir crefyddol, er enghraifft, rhaid nodi i Lewis Edwards gyfeirio o'i flaen at 'ymdrechion ... i gymodi crefydd a llenyddiaeth ... i ymdrin â phynciau llenyddol mewn ysbryd cydweddol âg egwyddorion Cristnogaeth', gan gyfeirio at nifer o gyfnodolion Saesneg, a nodi mai '[e]r mwyn gwneuthur rhywbeth yn y cyfeiriad hwn mewn cylch llai y sefydlwyd y *Traethodydd*'.⁷¹

Ar un olwg, felly, awgrymir mai etifedd y rhaglen lenyddol hon ydoedd Saunders Lewis. Ac eto, y mae'n amheus a fyddai Lewis Edwards yn hapus â'i waith fel athro Ysgol Sul ifanc, gan iddo ddefnyddio llenyddiaeth i eilyddio'r Beibl mewn ffordd anghymodlon iawn, o leiaf o safbwynt cynnwys ei wers. Meddai'r athro Ysgol Sul ei hun:

And so I dropped the Bible, all except the parables of Jesus, and I tried to hide the fact that these parables had lessons and morals in them, and I tried to talk about Pryderi and how a girl was created of the flowers of broom, and oak ...⁷²

Mae'n wir i Saunders Lewis newid ei agwedd yn fawr at y Beibl, ond gwelir yma bortread trawiadol iawn sy'n llwyddo i gyfleu awgrym y bennod hon, sef bod llenyddiaeth fel pe bai'n cymryd lle'r Beibl, a hynny yng nghyd-destun anghydfurfiaeth yr oes.⁷³ Bid siŵr, cyfraniad arbennig Saunders Lewis, y meddyliwr aeddfed, ydoedd cysylltu'r diddordeb newydd mewn 'llenyddiaeth' â chenedlaetholdeb, a gweld mai'r un diben ydoedd i lenyddiaeth Gymraeg â'r canon Beiblaidd, sef bod yn gyfrwng i bobl ddiffinio eu cymeriad. Ond rhan o symudiad cyffredinol oddi wrth grefydd a thuag at 'gymodi crefydd a llenyddiaeth' ydoedd.

⁷¹ Lewis Edwards, 'Rhagymadrodd', *Traethodau Llenyddol* (Wrecsam, diddyddiad), tt. 5-6.

⁷² Saunders Lewis, *Letters to Margaret Gilchrist*, t. 270. Cymh. t. 87. 'I remember reading the Mabinogion to my Sunday school class and they thought them too childish for boys.'

⁷³ Nodod D. Ben Rees yn gywir iawn i D. Tecwyn Lloyd a sawl un arall anwybyddu magwraeth Fethodistaidd Saunders Lewis. Gw. D. Ben Rees, op. cit., t. 24.

Fodd bynnag, er mor drawiadol yw'r modd y mae llenyddiaeth fel pe bai'n cymryd lle'r Beibl yn y portread uchod, rhaid cofio nad oedd y cylchoedd llenyddol a'r crefyddol yn ddeubeth llwyr ar wahân yng ngwaith y beirniad Catholig hwn, ddim mwy nag oeddent yng nghapeli anghydfurfiol y cyfnod. Amlygu hynny, er enghraifft, y mae'r sylw hwn o eiddo Pennar Davies. Meddai: 'it was as a literary critic that he [Saunders Lewis] first made a decisive impact in Welsh literary – and religious – life.'⁷⁴ Rhaid cofio mai testun llyfr beirniadol cyntaf Saunders Lewis yn Gymraeg ydoedd awdur yr emynau hynny a oedd yn dal yn cael eu canu yn y capeli. Llwydda'r ffaith honno i bwysleisio'r berthynas rhwng y llenyddol a'r crefyddol yn ei waith. At hyn, rhaid nodi na fynnai ef, wedi iddo aeddfedu, weld llenyddiaeth yn olynu crefydd, eithr i'r gwrthwyneb yn llwyr. Fel yn achos R. M. Jones, gwelai Saunders Lewis fod 'cyflwr [diffygiol] crefydd a'r meddwl crefyddol yng Nghymru yn mennu ar ein holl ddiwylliant ni ac ar ein holl lenyddiaeth ni'.⁷⁵ Ar un olwg, felly, dwy ochr i'r geiniog ydoedd unrhyw ddadl grefyddol a llenyddol iddo.⁷⁶

Gwelir yn *Y Beirniad* dan olygyddiaeth John Morris-Jones, sef rhagflaenydd *Y Llenor*, y trafodid o hyd bynciau yn ymwneud â chanon y Testament Newydd yn rheolaidd ar ddechrau'r ganrif. Yng nghyfrol 4, er enghraifft, cyhoeddwyd dwy ysgrif ar y pwnc hwn, 'Y Testament Newydd yng Ngoleuni'r Wybodaeth Ddiweddaraf' gan y Parch. Maurice Jones, a 'Y Testament Newydd a Darganfyddiadau Diweddar' gan y Parch. David Adams. Yr un testun sydd i'r ddwy, sef sut i ddarllen y Testament Newydd, a Christnogaeth yn gyffredinol, yng ngoleuni'r 'Uwchfeirniadaeth'. Ar y naill law, dadleuodd Maurice Jones fod angen ehangu'r canon. Er na chredai ei bod 'o'r un safon ysbrydol a'r gweddill o'r Ysgrythurau', nododd fod '[y] ffaith nad

⁷⁴ Pennar Davies, 'His Criticism', gol. Alun R. Jones and Gwyn Thomas, op. cit., t. 93.

⁷⁵ Saunders Lewis, 'Ac Onide', *Meistri a'u Crefft*, t. 62.

⁷⁶ Gw. 'Llenorion a Lleygwyr', *Meistri a'u Crefft*, t. 164. Cymherir ysgolheictod modern ag Uwchfeirniadaeth. Cymh. John Emyr, *Dadl Grefyddol Saunders Lewis a W. J. Gruffydd* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1986), t. 32. '[M]ae perthynas bendant rhwng ei gred fel Cristion a'i waith fel ... beirniad.'

ydyw'r Apocryffa yn gynwysedig yn y Beiblau a ddefnyddir yn gyffredin yng Nghymru wedi bod yn anfantais inni fel cenedl grefyddol'.⁷⁷ Ar y llaw arall, dadleuodd David Adams fod angen hepgor rhai o adnodau'r Testament Newydd:

Fel canlyniad i waith beirniaid diweddar yn cymharu'r Llawysgrifau hynaf a chywiraf o'r Testament Newydd delir nad oes awdurdod digonol dros ystyried yr adnodau a ganlyn fel rhannau gwreiddiol ohono : Marc xvi. 9-20; I Ioan v. 7, 8 ; Matthew vi. 13 Marc xi. 26.⁷⁸

Wedi canrifoedd, felly, o ddarllen canon y Testament Newydd gan fedru cymryd ffurf a chynnwys y canon yn ganiataol, awgrymid yn awr na allai'r Cymry ymddiried mewn testun a oedd wedi dechrau symud o'r newydd. Ar ddiwedd ysgrif Maurice Jones, awgrymwyd ei bod yn 'rhy gynnar ar hyn o bryd i geisio ateb yn derfynol amryw o'r cwestiynau difrifol sydd yn deilliaw o'r ymchwiliad [sef Uwchfeirniadaeth]'.⁷⁹ Ond eisoes yr oedd yn amlwg i eraill pa ffordd yr oedd y gwynt yn chwythu, wrth i sawl diwinydd a gweinidog Cymraeg golli ei ffydd yng nghanon y Testament Newydd. Ys dywed Gwilym H. Jones: 'Yr oedd y llanw yn sicr yn troi i gyfeiriad croesawu Uwchfeirniadaeth a'i chasgliadau ...'⁸⁰

Ystyrier, er enghraifft, ysgrif arall o'r un cyfnod, 'Ysbrydoliaeth y Beibl' gan R. S. Thomas a ymddangosodd yn *Y Beirniad*, cyfrol 4. Gan gyfeirio at lyfr Maurice Jones, *The New Testament in the Twentieth Century*, meddai R. S. Thomas:

Blin gennyf ddatgan fy marn nad yw llyfr Mr. Jones yn foddion i ffurfio a meithrin y syniadau a'r teimladau uchaf o wrogaeth i awdurdod yr Ysgrythurau Santaidd. [...] A gofid i mi yw gweled tuedd mewn rhai eraill, yn y blynyddoedd hyn, i dramwy yn yr un cyfeiriad, gan roddi i fyny'r hen

⁷⁷ Maurice Jones, 'Y Testament Newydd yng Ngoleuni'r Wybodaeth Ddiweddaraf', *Y Beirniad*, 6 (1916), 80.

⁷⁸ David Adams, 'Y Testament Newydd a Darganfyddiadau Diweddar', *Y Beirniad*, 6 (1916), 242.

⁷⁹ Maurice Jones, op. cit., t. 87.

⁸⁰ Gwilym H. Jones, 'Beirniadaeth yr Hen Destament yng Nghymru oddeutu tro'r ganrif 1890-1914', gol. E. Stanley Jones, *Y Gair a'r Genedl* (Abertawe, 1986), t. 77. Gw. t. 63. Am 1890-1914, meddai: 'Dyma'r cyfnod a welodd gyhoeddi nifer o gyfrolau arwyddocaol i gyflwyno Beirniadaeth Feiblaidd a'i chasgliadau; caed hefyd yn y cylchgronau Cymraeg drafodaeth helaeth ar y gwahanol bynciau a godai.'

ddamcaniaeth o ysbrydoliaeth anffaeledig y Beibl, yr hon a gydnabyddir gan ein hawdur fel yr un boblogaidd hyd yn oed yn bresennol. Diau mai dylanwad Uwchfeirniadaeth ddiweddar yw'r prif achos sydd yn cyfrif am y duedd i roddi i fyny'r hen derfynau y bu Cymru yn eu hamddiffyn yn ffyddlon am flynyddoedd.⁸¹

Cadarnheir yr un darlun yn yr ysgrif hon hefyd, sef bod Cristnogaeth Gymraeg ar groesffordd, ac yn benodol, felly, werth a defnyddioldeb y Testament Newydd, y canon o weithiau ysgrifenedig y bu 'Cymru yn eu hamddiffyn yn ffyddlon am flynyddoedd'. Yn ôl tystiolaeth R. S. Thomas uchod, yn 1914 yr oedd llawer eto'n parhau i gredu yn ysbrydoliaeth anffaeledig y Beibl. Ond ar y gorwel wynebair crefyddwyr Cymru Ryfel Byd a fyddai'n cynhyrchu, yng ngeiriau D. Densil Morgan, 'an adverse affect on religious faith and affiliation in Wales'.⁸² Pwysleisiodd John Davies fod 'pryderon crefyddwyr ar gynnydd ers degawdau', ond nid oes amheuaeth nad atgyfnerthodd y Rhyfel Byd Cyntaf yr amheuaeth a gododd ym meddwl ambell un yn sgil uwchfeirniadaeth. 'Yn achos rhai', fel y nododd D. Densil Morgan, 'dwysaodd y drin eu ffydd yn Nuw, ond yn achos eraill cadarnhaodd yr ymladd yr amheuon dwfn a oedd ganddynt eisoes'.⁸³

Ys dywed John Davies: 'Wedi degawd cynta'r ganrif hon byddai nifer mynychwyr yr addoldai a siaradwyr y Gymraeg yn crebachu'n barhaus ...'⁸⁴ Flwyddyn wedi'r Rhyfel, nododd y Parch. R. B. Jones y '[d]ysgir yn dra chyffredin heddyw fod y syniad traddodiadol am y Beibl bellach yn amhosibl. Ystyrir "ysbrydoliaeth eiriol" yn ffolineb, a'r goruwchnaturiol yn hanes ac yng nghynhyrchiad y Beibl yn wrthbrofedig.' Yr oedd '[yr] agweddiad [newydd] at y

⁸¹ R. S. Thomas, 'Ysbrydoliaeth y Beibl', *Y Beirniad*, 4 (1914), 247-8.

⁸² D. Densil Morgan, "'The Essence of Welshness'": Some Aspects of Christian Faith and National Identity in Wales, c. 1900-2000', gol. Robert Pope, *Religion and National Identity: Wales and Scotland c. 1700-2000* (Cardiff, 2001), t. 145.

⁸³ Idem, 'Yr Iaith Gymraeg a Chrefydd', gol. Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams, *'Eu Hiaith a Gadwant'?* (Caerdydd, 2000), t. 362. F'italeiddio i.

⁸⁴ John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990), tt. 488, 481.

Beibl ... yn rheoli meddwl ysgol liosog (*sic*) o fyfyrwyr Beiblaidd i fesur bron anhygoel'.⁸⁵

I ganol y sefyllfa hon o golli ffydd yng nghanon y Testament Newydd y cyfeiriodd Saunders Lewis ei gyd-Gymru at gorff arall o lenyddiaeth 'ysbrydol' yn Gymraeg, sef eu 'traddodiad llenyddol'. Ar un olwg, fel yr awgrymwyd eisoes, er mai'r amcan ydoedd gwyrddoi'r modd y 'cyflyrwyd y Cymry yn eu miloedd i feddwl yn Brydeinig ac i dderbyn y gyfundrefn Brydeinig', ys dywed Rhys Tudur, cymhwyso rhaglen waith y beirniad llenyddol Saesneg yr oedd Saunders Lewis wrth ddwyn eu sylw at y canon llenyddol Cymraeg.⁸⁶ Oherwydd cymharus ydoedd y sefyllfa yn Lloegr o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, wrth i lenyddiaeth Saesneg gael ei hystyried 'as a kind of substitute for religion'.⁸⁷ Ystyriai'r Athro F. D. Maurice, er enghraifft, fod modd i lenyddiaeth, megis crefydd gynt, ddysgu i haenau isaf y gymdeithas werthoedd moesol y dosbarth canol a fynegid yn y llenyddiaeth honno. Gyda chyn lleied o'r dosbarthiadau cymdeithasol is yn mynychu'r eglwysi yn nhri degau a deugeiniau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, edrychid ar lenyddiaeth fel cyfrwng i ddysgu iddynt werthoedd moesol a pharch tuag at y *status quo* gwleidyddol yn Lloegr. Ys dywed Peter Barry: 'People so-educated would feel that they belonged to England, that they had a country.'⁸⁸ Yn wir, cyn gynhared â'r ddeunawfed ganrif yn Lloegr, edrychid ar lenyddiaeth fel cyfrwng i hyrwyddo amcanion crefydd a llywodraeth genedlaethol fel ei gilydd. Ys dywed un sylwebydd o'r cyfnod:

⁸⁵ R. B. Jones, *Yr Ail-Ddyfodiad yng ngoleuni'r Epistolau at y Thesalonïaid ...* (Tonypany, 1919), tt. xxx-xxxii.

⁸⁶ Rhys Tudur, 'Y Cymro, Penberth a'r Ail Ryfel Byd', gol. Geraint H. Jenkins, *Cof Cenedl 17: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul, 2002), t. 139.

⁸⁷ Peter Barry, *Beginning Theory*, op. cit., t. 13.

⁸⁸ *Ibid.*

[The] advocating of good Literature in the World is not only highly subservient to the Ends of Religion and Virtue, but likewise to those of Good Policy and Civil Government.⁸⁹

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod cyd-destun Cymreig iawn i'r modd yr olynodd y canon llenyddol Cymraeg yr un Beiblaidd yng Nghymru. Nid dyfais Saundersaidd ydoedd. Yn gyntaf, gwelir yr un nod ag sydd yng ngeiriau John Clarke ar lawer o lenyddiaeth y ddeunawfed ganrif yng Nghymru. 'Beth yw gwerth hanes?' holodd Saunders Lewis. 'Yr ateb sy'n gorwedd dan holl ddysgeidiaeth *Drych y Prif Oesoedd* yw, maethu a phorthi *pietas*, ffyddlondeb i grefydd a gwlad, i Dduw ac i'r tadau.'⁹⁰ Nododd Dafydd Glyn Jones yntau mewn erthygl ddiweddar fod 'llynyddiaeth Gymraeg canrif y newidiadau, y deffroadau, y diwygiadau a'r chwyldroadau yn un corws o geidwadaeth', o '[g]eidwadaeth giaidd' Ellis Wynne tua'i dechrau hyd at '[g]eidwadaeth daeogaidd' Thomas Jones, Dinbych, tua'i diwedd.⁹¹

At hyn, o edrych ar sefyllfa anghydfurfiaeth yng Nghymru droad yr ugeinfed ganrif, gwelir yn glir nad Saunders Lewis a ddysgodd i'r Cymry edrych ar lenyddiaeth yn rhith eu crefydd. A chan gofio ei fod ef ei hun yn fab i weinidog Methodistaidd Cymraeg, symleiddio fyddai dweud mai ei gyfoedion dosbarth canol a'i athrawon Saesneg yn Lerpwl a ddysgodd iddo yntau ddarllen lenyddiaeth yn gorff o destunau ysbrydol. Yr oedd hen hanes i'r berthynas rhwng anghydfurfiaeth a llenyddiaeth Gymraeg, a chyd-destun Cymreig iawn i'r dadeni llenyddol. Mae'n wir mai rhan o ddatblygiad ehangach ydoedd y cyfeiriodd D. Gareth Evans ato yn nhermau '[the] enormous expansion in the cultural role of the chapel'. Un nodwedd yn unig ar yr

⁸⁹ John Clarke, dyf. Terry Eagleton, *The Function of Criticism* (London, 1984), t. 14.

⁹⁰ Saunders Lewis, 'Drych y Prif Oesoedd', *Meistri'r Carrifoedd*, t. 243.

⁹¹ Dafydd Glyn Jones, 'Côr y Ceidwadwyr', *Y Traethodydd*, rhifyn presennol (Gorffennaf 2005), 156.

ehangu hwnnw ydoedd cymdeithasau llenyddol y capeli. Y canlyniad cyffredinol, fodd bynnag, ydoedd 'a spiritual and intellectual confusion of aims and purposes'.⁹²

Wrth drafod *Y Diwygiad Mawr* yng Nghymru, nododd Derec Llwyd Morgan yr

edrychai'r Methodistiaid ar lenyddiaeth hefyd fel peth a'u boddhâi, ac a ychwanegai at gyfoeth eu profiadau ysbrydol, yn wir fel peth a fedrai gyfrannu at ansawdd y profiad hwnnw. Nid unwaith na dwywaith, ond llawer tro, ceir tystio i'r ffaith fod barddoniaeth a rhyddiaith yn affeithio'r cyneddfau hynny yn yr enaid a oedd yn fwyaf effro i ddylanwadau'r Ysbryd.⁹³

Dyna brofiad y Tadau. Defnyddid lenyddiaeth, megis cerddoriaeth, yn adnodd ar gyfer addoli Duw. Y gwahaniaeth, fodd bynnag, erbyn troad yr ugeinfed ganrif, ydoedd bod y cyswllt uniongyrchol rhwng lenyddiaeth a phrofiadau ysbrydol wedi llacio. Nid cyfrwng yn unig ydoedd y naill ar gyfer y llall mwyach, eithr peth i'w fwynhau er ei fwyn ei hun ar lefel ddeallusol a theimladol. Mewn gair, ysgarwyd lenyddiaeth a chrefydd. Yn wir, nododd Dafydd Johnston mewn perthynas â ffigurau amlycaf y dadeni llenyddol ar ddechrau'r ganrif – T. Gwynn Jones, W. J. Gruffydd, R. Williams-Parry, T. H. Parry Williams – mai rhan o'u cymhelliad creadigol ydoedd adweithio yn erbyn y crefyddol; '[an] impulse to reject the Nonconformist establishment' (er nad ymosodasant arno i'r un graddau â Caradoc Evans).⁹⁴ Ac mewn adwaith i lenyddiaeth foesegol y ganrif flaenorol, cadwodd y llenorion hyn at un o brif egwyddorion John Morris-Jones, 'that literature should not aim to convey any moral or political message'.⁹⁵ Dyna o bosibl ydoedd y feirniadaeth lemaf ar y sefydliad anghydfurfiol, a'r ffordd fwyaf effeithiol o dynnu lenyddiaeth o afael crefydd y ganrif flaenorol, sef drwy anwybyddu'r crefyddol.

⁹² D. Gareth Evans, op. cit., t. 242.

⁹³ Derec Llwyd Morgan, *Y Diwygiad Mawr* (Llandysul, 1981), t. 136.

⁹⁴ Dafydd Johnston, 'The Literary Revival', gol. idem, *A Guide to Welsh Literature c. 1900-1996* (Cardiff, 1998), t. 20.

⁹⁵ Ibid., t. 19.

Ond nid mater o wrthryfel agnostig neu ddigrefydd yn unig a oedd yn gyfrifol am y pwys newydd a roddwyd ar lenyddiaeth. Mae'n bwysig nodi i fath newydd o agwedd at lenyddiaeth ddatblygu o fewn y sefydliad anghyffurfiol ei hun, sy'n esbonio sut y gallai'r capelwr ymateb yn wresog i'r llenorion hynny a oedd am wrthryfela yn erbyn anghyffurfiaeth. Yn ei lyfr *Atgofion am Gaernarfon*, nododd yr Athro T. Hudson Williams fod 'pulpud Engedi [Caernarfon] yn foddion diwylliant yn ogystal ag yn foddion gras, yn ehangu ein gwybodaeth am lenyddiaeth a hanes Cymru a'r byd'.⁹⁶ Mwyach nid diwallu anghenion ysbrydol y bobl yn unig yr oedd y capel, eithr meithrin gwybodusrwydd, a'r awgrym yn sylw T. Hudson Williams yw mai dau beth cysylltiedig ond cymharol ar wahân ydoedd 'moddion diwylliant' a 'moddion gras'.

Fodd bynnag, yr oedd 'moddion diwylliant' hefyd yn peri bod y 'moddion gras' yn newid rhyw gymaint hefyd. Oherwydd fel y nododd R. Tudur Jones yn *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd newid yn yr arddull bregethu a oedd yn awgrymu bod modd trafod materion gras drwy gyfrwng 'moddion diwylliant'. Meddai:

Dyna Owen Evans yn pregethu ar yr "Anchwiliadwy olud", yn cadw at y dull traethodol, yn ofalus o'r athrawiaeth ac yn tymheru'r drafodaeth â chyfeiriadau addas at y Beibl. Dyna'r hen ddull. Ond mae W. Matthias Griffith, a ddechreuodd bregethu ym 1880, yn ei gyfyngu ei hun i dri phwynt syml, yn eu trafod yn hytrach yn farddonol ond heb ddim cyfeiriadaeth Feiblaidd a chan ddyfynnu englyn a phennill ac ychwanegu ambell stori ddiddorol.⁹⁷

Gwelir o'r dyfyniad fod 'englyn a phennill ac ... ambell stori' fel pe bai'n disodli awdurdod y Beibl yn y pulpud Cymraeg, a bod 'y briodas glòs rhwng

⁹⁶ Dyf. R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl* (Abertawe, 1981-2), t. 168.

⁹⁷ *Ibid.*, t. 193.

Cristnogaeth a'r genedl Gymreig yn llacio' ar ddiwedd y bedwaredd ganrif.⁹⁸ Ar un adeg, swynwyd Saunders Lewis yntau gan y dull barddonol hwn o bregethu. Mewn llythyr cynnar at Margaret Gilcriest, gwelir iddo fwynhau pregeth R. J. Campbell: 'he revealed his dramatic insight into the Gospel narrative and Christian tradition by reconstructing in a wonderfully poetic manner the story of Mary of Bethany.'⁹⁹

Yn yr amgylchfyd hwnnw – pan oedd Cristnogaeth Gymraeg ar groesffordd a'r Cymry'n dechrau amau dilysrwydd y canon Beiblaidd a fu'n gymaint dylanwad ar eu diwylliant – y sylweddolodd Saunders Lewis â sêl sant mai 'llenyddiaeth sy'n rhoi amcan ac unoliaeth i'n bywyd ni'.¹⁰⁰ Ys dywed ef ei hun am Daniel Owen, felly yntau: 'daeth llenyddiaeth yn waredydd iddo.'¹⁰¹

Awgrymir yma, felly, i Saunders Lewis gyflwyno'r canon llenyddol Cymraeg ar adeg pan oedd llawer o Gymry yn darllen llai yn eu Beibl. Nodwyd eisoes mai fel rhan o'i raglen wleidyddol y'i cyflwynid ac mai'r un swyddogaeth gymdeithasol, felly, ydoedd i'r naill ganon a'r llall, sef cynorthwyo carfan o bobl i ddiffinio'i hunaniaeth mewn modd anymwybodol. Ond yr hyn sy'n drawiadol am y canon llenyddol Cymraeg a hyrwyddodd Saunders Lewis, ac a'i gwnâi'n haws i eraill ei dderbyn, ydoedd mor debyg ydoedd ei arddull a'i ffurf i'r canon Beiblaidd yr oedd yn ei olynu. O ran arddull, nodir isod i Saunders Lewis fabwysiadu osgo'r diwygiwr crefyddol, a bod ei dechneg ddarllen yn deillio o'r traddodiad esboniadol efengylaidd. O ran ffurf, nodir iddo bwysleisio bod gan lenyddiaeth Gymraeg ddechreubwynt

⁹⁸ Ibid., t. 247.

⁹⁹ Saunders Lewis, *Letters to Margaret Gilcriest*, t. 129. Cymh. t. 153. 'Most preachers seem so embarrassed when a beautiful idea catches them that they insist on bending it into conformity with their usual attempts.'

¹⁰⁰ Idem, gol. Dafydd Ifans, *Annwyl Kate, Annwyl Saunders* (Aberystwyth, 1992), t. 8. Cymh., tt. 3-4. 'Rhai go anwadal ac anwastad ym ninnau, wyr *Y Llenor*, ond mi gredaf rywsut fod *Y Llenor* yn lanach cwmni i bagan o'ch bath chi nag yw Undeb Cristnogol y byrfyfyrywyr, neu'r seiat *highbrow*.'

¹⁰¹ Idem, *Daniel Owen: Yr Artist yn Philistia – II* (Aberystwyth, 1936), t. 1.

hanesyddol, canolbwynt llywodraethol a *telos* pwrpasol, ynghyd ag unoliaeth ryngdestunol a glymai ynghyd y gweithiau oll.

‘He comes to us with something of a prophet’s glamour’, meddai W. J. Gruffydd am Saunders Lewis yn 1924.¹⁰² A nododd D. Tecwyn Lloyd iddo lwyddo i ennyn ‘mewn dilynwr ... edmygedd anfeirniadol ... yn ymylu ar addoliad’.¹⁰³ Yr oedd hynny’n rhannol am iddo fabwysiadu osgo a oedd eisoes yn gyfarwydd i’r Cymry. Ystyrier, er enghraifft, y dyfyniad isod. Nid portread o Saunders Lewis ydyw, er y gallai’n hawdd fod.

He was argumentative, as well as zealous and powerful. He might perhaps be considered more like a philosopher in eloquence ... Anyone might perceive, even by his external appearance, that he was a man of amazing powers: indeed many were at once struck with his commanding and penetrating mien ... and were prepossessed with great awe and reverence for him. [...] He generally appeared ... like some philosopher, speaking with great authority and effect.¹⁰⁴

Portread o’r diwygiwr John Elias a geir yma. Yr oedd yn fwy o gorff na Saunders Lewis, ac yn dywyllach o ran pryd a gwedd, ond y mae’n drawiadol sylwi i Saunders Lewis yn ei ymgais i hyrwyddo’r canon llenyddol Cymraeg fabwysiadu arddull rethregol nid annhebyg i’r cawr Methodistaidd hwn.¹⁰⁵ Megis eraill, disgrifiodd R. M. Jones y naill fel ‘pab Môn’, a’r llall fel ‘Pab ein Llên’.¹⁰⁶ Oherwydd yn ei ysgrifau beirniadol, traethai Saunders Lewis hefyd ‘with great authority and

¹⁰² W. J. Gruffydd, *The South Wales Daily News*, 1 Mawrth 1925, 5. Dyf. D. Tecwyn Lloyd, op. cit., t. 127.

¹⁰³ D. Tecwyn Lloyd, *ibid.*, t. 127.

¹⁰⁴ Edward Morgan, *John Elias: Life, Letters and Essays* (Edinburgh, 1973), tt. 95, 113.

¹⁰⁵ Cymh. John Rowlands, ‘Yr Ysgolhaig a’r Beirniad’, *Saunders Lewis: Agweddau ar ei Fywydd a’i Waith / Aspects of his Life and Works* (Ymddiriedolaeth Cronfa Goffa Saunders Lewis, 1991), t. 20. ‘Er mor llogach a brau y gallasai Saunders Lewis ymddangos yn gorfforol, doedd dim angen ond gwrando arno’n llefaru am ychydig funudau cyn sylweddoli’i fod yn gadarn dŵr o ran ei adnoddau deallusol. [...] Ac roedd gwrando arno’n darlithio’n gyhoeddus yn gadael argraff seriol ar ei gynulleidfa.’

¹⁰⁶ Bobi Jones, *Crwydro Môn* (Llandebie, 1957), t. 101. R. M. Jones, ‘Pab ein Llên’, *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972*, op. cit., tt. 328-334.

effect'.¹⁰⁷ Sylwodd John Rowlands ei fod '[w]rth daflu enwau'n wybodus ar ddalennau'i erthyglau' yn rhoi '[rh]yw deimlad o awdurdod, weithiau fel petai am i'w ddarllenydd gywilyddio yn swildod ei anwybodaeth. Rhydd yr argraff ei fod yn hollwybodus.'¹⁰⁸ 'Yr oedd y sgiliau a ddatblygwyd ... yn y cylch crefyddol yn rhai y gellid eu cymhwyso yn rhwydd at waith y tu allan i'r cylch hwnnw', meddai R. Tudur Jones.¹⁰⁹ Enghraifft benodol o'r fath gymhwyso ydyw'r osgo bregethwrol a ddefnyddiodd Saunders Lewis – ac yntau wrth gwrs yn fab i weinidog Methodistaidd – yn ei feirniadaeth lenyddol. Fynychaf, ystyrir mai ei fagwraeth ymysg dosbarth canol uwch Lerpwl a roes iddo ddelfrydiaeth pendefigaeth. Ond y mae'n deg cofio yr edrychid ar ambell un o hoelion wyth y Methodistiaid – John Elias, er enghraifft – yn '[b]endefig yn yr ystyr gymdeithasol – yn w'r yr oedd miloedd yn cymryd eu tywys ganddo'.¹¹⁰ Yn hyn o beth, perthnasol yw sylw A. O. H. Jarman, ac yntau'n nodi bod Saunders Lewis yn perthyn 'i deulu o hen weinidogion enwog, pendefigaeth yr Hen Gorff'.¹¹¹

At hyn, nodir y byddai arfer Saunders Lewis o ddarllen y testun yng ngoleuni ei gyd-destun hanesyddol eisoes yn gyfarwydd i'r Cymry, gan mai nodwedd ar y traddodiad pregethwrol Cymraeg ydoedd.

Yn 'Dafydd Nanmor', gwelir bod Saunders Lewis yn ymwybodol iawn o newydd-deb ei feirniadaeth lenyddol. Fel yr awgrymodd ef ei hun, cyn 'Dafydd Nanmor' edrychid ar y testun llenyddol naill ai'n ffynhonnell o enghreifftiau

¹⁰⁷ Ar 'awdurdod moesol' Saunders Lewis, gw. Dafydd Glyn Jones, 'Y Gwleidydd', *Saunders Lewis: Agweddau ar ei Fywyd a'i Waith / Aspects of his Life and Works* (Aberystwyth: Ymddiriedolaeth Cronfa Goffa Saunders Lewis Memorial Trust Fund, 1991), t. 12.

¹⁰⁸ John Rowlands, *Saunders y Beirniad*, tt. 35-6.

¹⁰⁹ R. Tudur Jones, op. cit., t. 249.

¹¹⁰ Idem, *John Elias: Pregethwr a Phendefig* (Cyhoeddiadau Mudiad Efengylaidd Cymru, 1975), t. 10.

¹¹¹ A. O. H. Jarman, 'Llosgi'r Ysgol Fomio: Y Cefndir a'r Canlyniadau', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes, op. cit., t. 96. Cymh. Saunders Lewis, 'Y Deffroad Mawr', *Meistri a'u Crefft*, t. 292. 'Fe fagodd y seiadau gymdeithas Gymraeg grefyddol, a magu felly o raid arweinwyr lleol, sefydliadau, sasiwn a chyfarfod misol, ac felly – o raid hefyd – bendefigaeth newydd Gymreig, pendefigaeth y pulpud, y Weinidogaeth.'

ieithyddol neu'n rhan o drafodaeth hanesyddol.¹¹² Yr oedd hynny'n ddigon o reswm iddo annog rhai i beidio ag astudio Cymraeg yn Abertawe. 'It would be too much for him [Morgan]. For the literature is only part of the course, and the smaller part.'¹¹³

Dyma'r math o 'Gymraeg' a nodwedddai ysgrifau'r *Beirniad*, gyda John Morris-Jones wrth draethu ar 'Yr Orgraff' ac yn ei 'Nodiadau Ieithyddol' yn tynnu enghreifftiau ieithyddol o destunau'r gorffennol. A phan drafodid testun llenyddol ar ei ben ei hun, megis yn ysgrif Ifor Williams, 'Brwydr Catraeth', ceisid ateb dau gwestiwn: 'pa le yr oedd Catraeth a pha bryd y bu'r frwydr?'¹¹⁴ Nid ymateb i'r testun ydoedd y dasg. A'r rheswm am hynny ydoedd am nad oedd beirniadaeth lenyddol wedi datblygu eto'n ddisgwrs arbenigol. Nododd John Morris-Jones mai amcan *Y Beirniad* ydoedd ymdrin â 'materion gwleidyddol a chymdeithasol, gwyddonol, moesol, a diwinyddol; ni chaeir allan ddim a'r a ddiddoro fryd y genedl'.¹¹⁵ Ac i'r perwyl hwn, yr oedd *Y Beirniad*, ar un olwg, yn nes at gyfnodolion Saesneg y ddeunawfed ganrif nag at *Y Llenor* a'i holynodd. Y mae sylw Terry Eagleton am gyfnodolion Saesneg y ddeunawfed ganrif *Spectator a Tatler*, hefyd yn wir am *Y Beirniad* ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Literary criticism as a whole, at this point, is not yet an autonomous specialist discourse, even though more technical forms exist it is rather one sector of a general ethical humanism, indissociable from moral, cultural and religious reflection.¹¹⁶

Rhaid cofio i John Morris-Jones fod yn fyfyrwr yn Rhydychen yr union adeg pan oedd y dadlau yno ynghylch statws academiaidd Saesneg fel pwnc gradd ar ei

¹¹² John Morris-Jones, 'Yr Orgraff II', *Y Beirniad*, 1 (1911), 279. Wrth drafod y gair 'crud', er enghraifft, dyfynnir o *Lyfr yr Ancr*, marwnad Gruffudd ab yr Ynad Coch o *Lyfr Coch Hergest*, y *Flores Poetarum*, *Dictionarium Duplex* John Davies, *Helaeth Eir-lyfr* Thomas Jones a'r Mabinogion.

¹¹³ Saunders Lewis, *Letters to Margaret Gilcriest*, t. 497.

¹¹⁴ Ifor Williams, 'Brwydr Catraeth', *Y Beirniad*, 1 (1911), 73.

¹¹⁵ John Morris-Jones, 'Annerch', *op. cit.*, t. 2.

¹¹⁶ Terry Eagleton, *The Function of Criticism*, t. 18.

fwyaf brwd. Sefydlwyd Cymdeithas Dafydd ap Gwilym yr oedd John Morris-Jones yn un o'i sylfaenwyr yn 1886 flwyddyn cyn y trechwyd yr ymgais gyntaf i sefydlu Cadair Saesneg yn Rhydychen.

Ni pherthynai Saunders Lewis i'r traddodiad hwn o ddibrisio astudiaethau llenyddol. Ei gymheiriaid ef yn hytrach ydoedd y rheini a hyrwyddodd ddull newydd o astudio Saesneg yn Lloegr, sy'n dal mewn bri heddiw ar lawer cyfrif. Rhaid nodi nad ymchwiliwyd yma i ddylanwad yr Athro Oliver Elton ar waith Saunders Lewis, ond y mae'n drawiadol i'r disgybl ddisgrifio un o ddarlithoedd Elton yn nhermau 'a reading with a little interpretation', gan ei fod yn crynhoi pwyslais y disgybl yntau ar ddarllen a dehongli'r testun.¹¹⁷

Nodwedd amlycaf y dull newydd hwn o ddarllen llenyddiaeth yn ôl Peter Barry ydoedd 'a decisive break between language and literature'.¹¹⁸ Cymaint felly, nes y dywedir i I. A. Richards awgrymu 'that any piece of language, "literary" or not, can be adequately studied or understood in isolation'.¹¹⁹

Ar un olwg, dyma'r dull o ddarllen llenyddiaeth a hyrwyddir yn 'Dafydd Nanmor'. Y mae'r ffocws ar ddarllen y testun. Gwatwerir arfer y beirniaid o 'setlo'r cwestiwn, pa bryd y bu'r bardd farw',¹²⁰ ac ni chwilir am unrhyw enghreifftiau ieithyddol at ddibenion gramadegol. Yn wir, yr unig air y ceisir deall ei ystyr mewn gwirionedd yw 'tŷ'. Serch hynny, rhaid nodi nad ynysodd Saunders Lewis y testun i'r un graddau ag a wnaeth I. A. Richards yn *Practical Criticism*.¹²¹ Awgrym y llyfr difyr hwnnw, fel y nododd David Murray, ydoedd fod gan gerdd 'a meaning of its own which is entirely separable, rather than being given its meaning by context, whether

¹¹⁷ Saunders Lewis, *Letters to Margaret Gilchrist*, t. 50.

¹¹⁸ Peter Barry, op. cit., t. 15.

¹¹⁹ Terry Eagleton, *Literary Theory: An Introduction* (Oxford, 2il arg., 1996), t. 38.

¹²⁰ Saunders Lewis, 'Dafydd Nanmor', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 82.

¹²¹ I. A. Richards, *Practical Criticism* (London, 1930).

explicit or implicit'.¹²² Nid felly y gwelai Saunders Lewis hi. Oherwydd nodwedd ar ei feirniadaeth lenyddol ef yw fod yn rhaid i'r darlennydd heddiw 'gydymdeimlo' â 'dieithrwch bywyd ac awyrgylch yr hen farddoniaeth'. '[T]raddodiad mewn meddwl a chelfyddyd, Cristnogaeth Gatholig, a chymdeithas aristocrataidd, a phethau eraill hefyd', rhaid yw '[d]wfn werthfawrogi'r pethau hyn', meddai.¹²³

Yn hyn o beth, cysylltodd y dull newydd hwn o edrych ar lenyddiaeth ag un o nodweddion amlycaf esboniadaeth Feiblaidd efengylaidd, sef pwyslais ar gyd-destun hanesyddol y testun. Fe'i gwelir yng ngweithiau'r apolegwyr cynnar. Meddai Roy Kearsley, er enghraifft, am Tertullian: 'Tertullian nagged at the heretics' habit of wrestling texts from their context. The whole Scripture came from the Spirit, and texts should take their meaning from the context.'¹²⁴

Y mae'r bwch amseryddol rhwng y darlennydd modern a'r testun Beiblaidd, wrth gwrs, cymaint yn fwy heddiw nag yn oes Tertullian. Cydnabyddir, felly, fod y darlennydd modern yn wynebu rhwystr, yn sgil y bwch rhagfarnau rhyngddo ef ac oes ysgrifennu'r testun ei hun.

Our difficulty as modern, Western readers is to relate meaningfully to documents that are the products of a radically different world in terms of institutions and values.¹²⁵

Felly y gwelai Saunders Lewis mai'r un ydoedd y broblem a wynebai'r darlennydd Cymraeg wrth iddo gyflwyno iddo'r canon llenyddol Cymraeg, sef 'tramgwydd ... dieithrwch bywyd ac awyrgylch yr hen farddoniaeth'.

¹²² David Murray, 'Unity and Difference: Poetry and Criticism', gol. idem, *Literary Theory and Poetry: Extending the Canon* (London, 1989), t. 7.

¹²³ Saunders Lewis, 'Dafydd Nanmor', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 81.

¹²⁴ Roy Kearsley, 'Tertullian (fl. 200)', gol. Donald K. McKim, *Historical Handbook of Major Biblical Interpreters* (Leicester, 1998), t. 64.

¹²⁵ K. C. Hanson a Douglas E. Oakman, *Palestine in the Time of Jesus: Social Structures and Social Conflicts* (Minneapolis, 1998), t. 4.

[Y]mddengys na all neb Cymro o'n hoes ni ddygymod o lwyrfryd calon â barddoniaeth draddodiadol. Catholig hefyd i'r gwraidd ... oedd holl hen fywyd a diwylliant Cymru, a dyna fur uchel iawn rhyngom a hwy. At hynny, ffurf aristocrataidd a fu erioed ar gymdeithas yng Nghymru Gymreig, ond fe gred y Cymry heddiw mai gormes ar werin a thlawd yw pendefigaeth, a'r ychydig uchelwyr yn byw yn fras, a dyna braw digonol mor anodd a fyddai i'r cyfryw gredinwyr ddeall ein hen wareiddiad.¹²⁶

Fodd bynnag, cred yr ysgolhaig efengylaidd yw fod modd goresgyn y broblem hon a gwneuthur 'the interpretation of Scripture more precise and its meaning more vivid with a greater knowledge of the languages and cultures in which the Bible was written'.¹²⁷ Neu yng ngeiriau Saunders Lewis: 'iawnbrisió llenyddiaeth Gymraeg ... mewn ysbryd o gydymdeimlad a chyda dychymyg hanesydd i dreiddio i brofiadau oes a fu.'¹²⁸

I'r sawl sy'n darllen canon y Testament Newydd, rhydd y dechneg ddarllen hon gyfle iddo nesáu at wrthrych ei ffydd, wrth i ymadroddion y llyfr gael eu hesbonio mewn perthynas â chyd-destun hanesyddol cyfnod yr ysgrifennu. Dyma ydoedd arfer esboniadol J. Cynddylan Jones, awdur y pedair cyfrol *Cysondeb y Ffydd* (1905-16), sy'n mynegi safbwynt diwinyddol Calфинаidd.¹²⁹ Ystyrier, er enghraifft, y dyfyniad isod o'i esboniad ar Efengyl Ioan (1915). Trafod y mae yr ymadrodd 'Yr hwn nid ydwyf fi deilwng i ddatod carai ei esgid'. Meddai:

Nid oedd sandal y Dwyrain ond gwadn yn unig, yn cael ei gylymu wrth y droed a charai ; a pherthyn i'r gweision iselaf oedd datod carai sandal y teithiwr, fel y gallai olchi ei draed ar ol gwres a llwch y brif-ffordd.¹³⁰

¹²⁶ Saunders Lewis, 'Dafydd Nanmor', t. 81.

¹²⁷ Wayne Grudem, *Bible Doctrine: Essential teachings of the Christian faith* (Leicester, 1999), t. 54.

¹²⁸ Saunders Lewis, 'Nodyn Ynghylch Diwinyddiaeth', detholwyd gan Marged Dafydd, *Ati, Wŷr Ifainc* (Caerdydd, 1986), t. 31.

¹²⁹ Ar 'ragoriaeth cyfundrefn Calfin', gw. J. Cynddylan Jones, *Cysondeb y Ffydd: Cyfrol III* (Cardiff, 1912), t. 25.

¹³⁰ Idem, *Efengyl Ioan: Pennod I-VIII* (Cyhoeddiadau'r Gymanfa Gyffredinol, 2il arg., 1915), t. 42.

Drwy edrych ar y gair syml ‘esgid’ yn ei gyd-destun hanesyddol, felly, cynorthwyr y darlennydd i werthfawrogi arbenigrwydd Crist o’r newydd. Dyma hefyd yw diben astudio’r Testament Newydd yn y Groeg. Esbonnir ‘Wele Oen Duw’ gan J. Cynddylan Jones, er enghraifft, drwy edrych yn y Groeg a nodi bod ‘y fanod o flaen yr Oen, yr hyn a brofa fod yr enw mewn rhyw gysylltiadau yn gyfarwydd i’r gwrandawyr yn gystal ag i’r siaradwr [Ioan Fedyddiwr]’.¹³¹

Dro ar ôl tro gwelir mai arfer feirniadol y diwinydd Cymraeg yw esbonio’r testun drwy ail-greu’r sefyllfa ynganu ac ysgrifennu gwreiddiol.

Yr hyn a wnaeth Saunders Lewis, felly, ydoedd trosglwyddo’r dechneg ddarllen esboniadol hon – a welir yn ddylanwad ar ei ysgrif ‘Am Efengyl Marc’ – ar gyfer darllen llenyddiaeth Gymraeg.¹³² Deellir arwyddocâd y gair ‘tŷ’ – ‘agored yw’r tŷ i gardoteion’ – yng ngoleuni’r modd ‘yr oedd “Tŷ” i *Ddafydd Nanmor* yn air cyfrin’.¹³³ Nododd Gwyn Thomas mai’r hyn a wnâi fel beirniad ydoedd ‘lleoli ... ar gefndir hanesyddol, llenyddol a meddyliol eang’.¹³⁴ Drwy hynny, megis nofelydd, nid portread o’r awdur a roddai, eithr portread o’r awdur yn ei amgylchfyd cymdeithasol.

Nododd R. Tudur Jones fod modd astudio’r Beibl ‘gan ddefnyddio pob gwybodaeth sydd o fewn ein cyrraedd am yr ieithoedd gwreiddiol, am arferion llenyddol yr hen fyd, am hanes cenhedloedd y Dwyrain agos a nodweddion eu bywyd cymdeithasol’.¹³⁵ Dyma sut y byddai’r diwygwyr Methodistaidd yn darllen y Beibl. Dywedid bod John Elias, er enghraifft, yn olrhain ‘[g]eiriau trwy wahanol ieithoedd ... er mwyn dangos eu hystyron yn eu gwahanol berthynasau a’u cysylltiadau, ac yn y

¹³¹ Ibid., t. 43.

¹³² Saunders Lewis, ‘Am Efenyl Marc’, *Meistri a’u Crefft*, tt. 247-58. Dwy nodwedd ar yr ysgrif yw’r sylw i waith nifer o esbonwyr Beiblaidd, ynghyd ag ymgais i leoli’r awdur yn ei gyd-destun hanesyddol.

¹³³ Idem, ‘Dafydd Nanmor’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 86. F’italeiddio i.

¹³⁴ Gwyn Thomas, ‘Siôn Cent a Noethni’r Enaid’, *Gair am Air: Ystyriaethau am Faterion Llenyddol* (Caerdydd, 2000), t. 40.

¹³⁵ R. Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân* (Caernarfon, 1972), tt. 45-6.

goleu yr oeddent i'w deall yn yr amrywiol ddefnydd a wneid ohonynt'.¹³⁶ Yr hyn a wnaeth Saunders Lewis, felly, ydoedd cymhwyso'r dull cyd-destunol hwn o ddarllen y Beibl ar gyfer canon newydd o lenyddiaeth Gymraeg. Nid yn unig iddo roi'r pwyslais ar y testun, eithr hefyd ar yr angen i'r darllenydd weld ynddo 'neges gyfamserol'. Yn hyn o beth, yr oedd galw ar ddarllenwyr i roi lle i weledigaeth Dafydd Nanmor yn eu bywyd yn gweddnewid y feirniadaeth ymarferol a nodwedddai addysg brifysgol Loegr fel yr ymdebygai fwyfwy i raglen efengylu'r Methodistiaid cynnar. Oherwydd pwrpas y genadwri honno hefyd, yng ngeiriau John Elias, ydoedd 'gorchfygu Cymru'.¹³⁷ Gwelai Saunders Lewis hynny, fod 'hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru ... yn rhan o hanes politicaidd Cymru mewn modd hollol arbennig'.¹³⁸ Nid rhyfedd, felly, i'r beirniad hwn na wahaniaethai rhwng llenyddiaeth na gwleidyddiaeth na chrefydd fabwysiadu arddull rethreg yr hen Fethodistiaid. Fel y dywedodd R. Tudur Jones am bregethu Beiblaidd John Elias, felly hefyd y gellir dweud i Saunders Lewis yn ei feirniadaeth lenyddol 'adfer ei swydd glasurol i rethreg; nid difyrru, na goglais, nac hyd yn oed addysgu, ond argyhoeddi' – nid yn llwyr annhebyg, felly, i bregethu ei dad ei hun.¹³⁹

Yn ei ymgais i argyhoeddi'r Cymry a'u cael i goleddu'r canon llenyddol Cymraeg fel y coleddai'r hen Gymry eu Beibl hwythau, sylwir yma fod ffurf y canon newydd a gyflwynodd Saunders Lewis yn cynnwys ynddo nodweddion tebyg i eiddo'r Testament Newydd, o ran bod iddo ddechreubwynt, canol a datguddiad, ynghyd â grym trosgynnol yn cydlynu ei unoliaeth.

¹³⁶ David Owen, *Eliasa: neu rai sylwadau ar gymeriad areithiol a phregethwrol y diweddar Barchedig John Elias* (Merthyr Tydfil, 1844), t. 34.

¹³⁷ John Elias, dyf. R. Tudur Jones, *John Elias: Pregethwr a Phendefig*, t. 10.

¹³⁸ Saunders Lewis, 'Y Deffroad Mawr', *Meistri a'u Crefft*, t. 290. Cymh. D. Densil Davies, *Cedyrn Canrif* (Caerdydd, 2001), t. 232. 'Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg troes Cymru yn genedl o Ymneilltuwyr, yn y farn boblogaidd beth bynnag ...'

¹³⁹ R. Tudur Jones, *John Elias: Pregethwr a Phendefig*, t. 22. Cymh. Pennar Davies, 'His Criticism', op. cit., t. 105. '[H]e has never thought of the critic's work as anything less than a creative proclamation of values.' Ar bregethu ei dad, gw. John Emyr, op. cit., t. 6. Dyfynnir T. E. Davies, Treorci. "'Nid rhywbeth da a diddorol yn lle pregeth a geffid ganddo ... yn ffundamentalydd o'r dosbarth manylaf'."

Gwelwyd yn achos y Testament Newydd fod y drafodaeth barhaus yn yr ail a'r drydedd ganrif ynghylch pa lyfrau y dylai'r Eglwys eu hystyried yn weithiau canonaidd yn cael ei chyfeirio gan ei dechreubwynt hanesyddol, sef Crist ei hun. Yn hynny o beth, y mae'n enghreifftio'n berffaith yr egwyddor a nodir isod yng ngeiriau Alasdair MacIntyre:

Living traditions, just because they continue a not-yet-completed narrative, confront a future whose determinate and determinable character, so far as it possesses any, derives from the past.¹⁴⁰

Yn Ioan, darllenir i'r Efengyl gael ei hysgrifenu 'fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef'.¹⁴¹ Dyna gymhelliad yr ysgrifenydd. 'Their goal was to witness to Jesus and strengthen the new communities formed around him.'¹⁴² Byddai Cristoleg y llyfrau, felly, yn ystyriaeth hollbwysig yn y broses ganoneiddio. Yn unol â'r egwyddor hon, er na chredir bod y sylw isod yn gwrthbwysu'r pwyslais ar berchnogaeth gyffredin y Testament Newydd ar dir consensws, nodir i Athanasius wrthod cynnwys 'Bugail Hermas' yn ei restr o lyfrau'r canon gan fod portread y llyfr o Iesu Grist yn wahanol i eiddo'r llyfrau cynnar eraill. Meddai Roger E. Olson:

During the second century the church was just beginning to struggle with right understanding of the nature and person of Jesus Christ. [...] *Hermas* seems to assume that Jesus was the incarnation of the Holy Spirit – a view known in the history of theology as “Spirit Christology”. By later doctrinal standards, this would be considered a heresy, and it may be one reason Athanasius finally rejected *The Shepherd of Hermas* from the canon as he was guiding the church toward a settlement of that thorny issue.¹⁴³

¹⁴⁰ Alastair MacIntyre, *After Virtue: A Study in Moral Enquiry* (London, 2il arg., 1985), t. 6.

¹⁴¹ Ioan 20:31.

¹⁴² Darrel L. Boch, *Studying the Historical Jesus* (Leicester, 2002), t. 13.

¹⁴³ Robert E. Olson, *The Story of Christian Theology: Twenty Centuries of Tradition & Reform* (Leicester, 1999), t. 51.

Ym mhroses ganoneiddio'r Testament Newydd, felly, diffinnid unffurfiaeth mewn perthynas ag un prif beth, sef y peth cyntaf, y person hanesyddol a roes reswm i'r Apostolion ysgrifennu at eraill yn y lle cyntaf.

Yn *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg*, ceisiodd Saunders Lewis 'ymdrin yn llawn â'r rheini a luniodd ... gwrs datblygiad ein llên'.¹⁴⁴ Pwysleisiodd yn y bennod gyntaf mai 'amgyffred cyfanrwydd llenyddiaeth Gymraeg' ydoedd y dasg, nid gwerthfawrogi dawn unrhyw unigolyn o fardd neu lenor o'r Oesoedd Canol.¹⁴⁵ Ac eto, dyma'r union beth a wneir yn y bennod gyntaf, 'Taliesin', pan bwysleisir dro ar tro i'r bardd 'greu'.

Creodd yn ei Weith Gwen Ystrat gymhariaeth na fedrodd cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o feirdd ddim dianc oddi wrthi ... [...] *Creodd* ddarluniau clasurol o ryfel a marwolaeth: [...] Camp fawr Taliesin oedd *creu* Urien. [...] *Creodd* ohono ffigur delfrydol, y delfryd arbennig Gymreig o frenin. [...] Felly y *creodd* Taliesin un o deipiau hynod llenyddiaeth ...¹⁴⁶

Ac eithrio'r sôn amdano'n rhoi '[p]wyslais ar foesau traddodiadol, hir-sefydlog y brenin a'i gartref', nid awgrymir o gwbl fod Taliesin ei hun yn etifedd traddodiad, megis y beirdd a ddaeth ar ei ôl.¹⁴⁷ Yn hytrach, saif ar wahân i'r traddodiad y rhoes ef ei hun fod iddo.¹⁴⁸

Fodd bynnag, mewn ymdriniaethau mwy hanesyddol ac ieithyddol eu gogwydd, lle nad cyflwyno hanes llenyddiaeth Gymraeg yw'r dasg, na rhoi ffurf arni, pwysleisiwyd bod canu Taliesin ei hun 'fel y canu cyffelyb yn Iwerddon [yn] adlais o

¹⁴⁴ Saunders Lewis, *Braslun*, t. v.

¹⁴⁵ *Ibid.*, t. 5.

¹⁴⁶ *Ibid.*, tt. 10-12. F'italeiddio i.

¹⁴⁷ *Ibid.*, t. 11.

¹⁴⁸ Cymh. idem, 'The Tradition of Taliesin', gol. Alun R. Jones a Gwyn Thomas, op. cit., tt. 145-50.

Awgrymir bod Taliesin yn adleisio'r *Aeneid* – 'it has that inheritance' – er nad yn uniongyrchol, ac nid o angenrheidrwydd oherwydd Gildas. Er hyn, mae'r pwyslais ar unigrywiaeth Taliesin, fel yr awgrymir gan yr ymadrodd – 'It was ... the Taliesinic poems of panegyric that Gildas took as the basis of his moral condemnation of Maglocunus. [...] It was the basis of the poetic schools.'

allu a phwysigrwydd offeiriadol a diwylliannol y bardd ers canrifoedd cyn hynny',¹⁴⁹
a bod 'gan hynafiaid y Cymry ddiwylliant coeth, anghristnogol a chyngristnogol'.¹⁵⁰
Am hynny, da y nododd Gwyn Thomas nad oedd 'Aneirin a Thaliesin ... ddim yn
crafu eu pennau am ddelweddau gwreiddiol i roi ysgytwad ddarganfyddol i'r
gwrandawr'.¹⁵¹ Defnyddio geiriau a oedd wedi '[t]reiglo drwy brofiadau
cenedlaethau' yr oedd Taliesin.¹⁵² Am hynny, nododd Gwyn Thomas fod ei bortread
ef o'r brenin 'yn benconglfaen – *eithr nid yn ddechreuad* – y portreadau moliannus o
arweinwyr cymdeithas a geir yn y traddodiad barddol Cymraeg'.¹⁵³

Er hyn, dechreubwynt y canon ydoedd Taliesin i Saunders Lewis. A chan iddo
gredu mai 'cyfresi o benillion marwnad a gyfansoddwyd mewn gwahanol gyfnodau
gan ddisgyblion yn dysgu mesurau ac arddull a ddyfeisiesid gyntaf gan bencerdd
enwog' ydoedd *Y Gododdin*, nid enwodd Aneirin hyd yn oed, eithr edrych yn y
Braslun ar Daliesin yn unig gychwynnydd y dull hwn o ganu.¹⁵⁴

Felly y creodd Taliesin un o deipiau hynod llenyddiaeth, ac mor amserol a
mawrfrydig oedd y portread, mor drwyadl farddonol ac mor arbennig
Gymraeg, fel yr aeth darlun Urien yn batrwm ysgolion y beirdd ac yn sylfaen
ein traddodiad llenyddol. [...] [A] thro ar ôl tro ceir gan feirdd y ddeuddegfed
ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg, nid delfryd Taliesin yn unig, eithr hefyd ei
ansoddeiriau, ei ffigurau mawrion, ei eryr, ei lew, ei "angor gwlad", ei "ddinas
pellenig", a'i gymhariaethau grymus. Chwedl Prydydd y Moch, "dull
Taliesin" yw sylfaen yr awdl Gymraeg, ac yn y bymthegfed ganrif cydnabu
Guto'r Glyn mai'r un ffynhonnell oedd i foliant yr uchelwyr.¹⁵⁵

¹⁴⁹ Robert Owen Jones, *Hir Oes i'r Iaith: Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas* (Llandysul, 1997), t. 92.

¹⁵⁰ John Davies, *Hanes Cymru*, op. cit., t. 481.

¹⁵¹ Gwyn Thomas, 'Barddoniaeth Gwŷr y Gogledd', gol. Geraint Bowen, *Y Gwareiddiad Celtaidd* (Llandysul, 1987), t. 199.

¹⁵² *Ibid.*

¹⁵³ Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976), tt. 40-1. F'italeiddio i.

¹⁵⁴ Saunders Lewis, *Braslun*, t. 7. Cymh. 'Dyfodol Llenyddiaeth', *Meistri a'u Crefft*, t. 197. 'Y ffaith sylfaenol am Waldo Williams yw mai o Daliesin ac Aneirin y mae o'n hanfod.'

¹⁵⁵ *Ibid.*, t. 12.

Nid y bwriad yma yw dadlau ynghylch amlygrwydd enw Taliesin yn y traddodiad barddol, nac amau yr ystyr id ef ‘yn bwysicach bardd nag Aneirin ar un adeg’, fel y nododd Gwyn Thomas, ‘am fod gwybod ei gerddi’n werth cymaint fwy o farciau na gwybod cerddi Aneirin’.¹⁵⁶ Ac eto, lle y mae ysgolheigion eraill wedi nodi ei bod yn ‘[a]nodd gwybod paham y maent yn coffáu Taliesin yn amlach o lawer nag Aneirin’,¹⁵⁷ a bod y ddau destun o waith Aneirin o’r drydedd ganrif ar ddeg ‘yn ogystal â’r mynych atseiniau ohono yng ngwaith y beirdd yn awgrymu mai dyma’r Hengerdd a oedd fwyaf hysbys i’r Gogynfeirdd’,¹⁵⁸ awgrymir yma nad ystyriodd Saunders Lewis y materion hyn, yn rhannol o leiaf, gan mai pennaf angen ei ganon ydoedd dechreubwynt clir a diamwys, a hyn yn wyneb y ffaith fod Ifor Williams yn ‘llwyr anghytuno’ â’i ddamcaniaeth ynghylch yr ymarferiadau disgyblion yn Llyfr Coch Hergest a Llyfr Aneirin.¹⁵⁹ Dyma reswm da, felly, i’r empeirydd ei gyhuddo o ‘ddidwytho’. Ond deallai Saunders Lewis – os nad mater o deimlo ym mêr ei esgryn Methodistaidd a llenyddol Saesneg ydoedd – yr egwyddor honno a nodwyd uchod mewn perthynas â’r Testament Newydd, sef mai mewn perthynas â’i ddechreubwynt hanesyddol y mae rhoi ffurf ar weddill canon, a bod y dechrau yn gyfeirbwynt i’r cyfan oll. Gellir nodi nad egwyddor lenyddol ydoedd hon fel y cyfryw iddo, eithr un a oedd yn gyffredinol wir am fywyd iddo.¹⁶⁰ Teimlai angen mawr i ‘astudio cychwyn ein diwylliant, a chysylltu bywyd â hynny’.¹⁶¹ Nodwedd wleidyddol ar hynny ydoedd

¹⁵⁶ Gwyn Thomas, ‘Barddoniaeth Gwŷr y Gogledd’, op. cit., t. 193.

¹⁵⁷ Rachel Bromwich, ‘Y Cynfeirdd a’r Traddodiad Cymraeg’, *The Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 22 (Tachwedd 1966), 36.

¹⁵⁸ Morfydd E. Owen, ‘Chwedl a Hanes: Y Cynfeirdd yng Ngwaith y Gogynfeirdd’, gol. J. E. Caerwyn Williams, *Ysgrifau Beirniadol XIX* (Dinbych, 1993), tt. 14-15.

¹⁵⁹ Saunders Lewis, *Braslun*, t. iii.

¹⁶⁰ Cymh. idem, ‘Dyfodol Llenyddiaeth’, *Meistri a’u Crefft*, t. 197. ‘Da y cofiaf fy nhad yn dweud wrthyf unwaith yng nghyfnod fy ffolineb cynnar: “Ddaw dim byd ohonoch chi, S., nes y dowch chi’n ôl lle mae’ch gwreiddiau.” Gwers i lenor.’ Adroddir yr hanesyn gan A. O. H. Jarman, ‘Llosgi’r Ysgol Fomio: Y Cefndir a’r Canlyniadau’, op. cit., t. 97, gan ychwanegu: ‘Glynodd y frawddeg yn ei gof a bu’n ddylanwadol yng nghyflawnder yr amser.’

¹⁶¹ Idem, “‘Lle Pyncid Cerddi Homer’”, *Ysgrifau Dydd Mercher*, t. 23.

y polisi a fynnai weld ‘amaethyddiaeth ... yn brif ddiwydiant Cymru ac yn sylfaen ei gwareiddiad’.¹⁶²

Cymhwysid yr egwyddor hon at lenyddiaeth Gymraeg hefyd mewn modd arbennig o unplyg. Ond trwy lwyddo i greu Taliesin, fel y creodd Taliesin Urien, medrai Saunders Lewis ymestyn ei arwyddocâd Taliesinaidd ar gyfer cyfeirio llenyddiaeth Gymraeg yn gyffredinol. Am feirdd gwlad yr ugeinfed ganrif, meddai:

These are the heirs of Taliesin, of the court poets of Llywelyn the Great, of the county house poets of the 15th century gentry.¹⁶³

Ac yn ei ysgrif, ‘Bardd Trasiedi Bywyd’, dywedodd eto fod ‘[y] traddodiad Taliesinaidd hwn yn para hyd heddiw’, gan ddadlau bod R. Williams Parry ‘yn dewis y traddodiad Taliesinaidd’ drwy ei fod ‘yn cymryd dynion, y dynion o’i gwmpas yn brif destun ei farddoniaeth’.¹⁶⁴

Digrif fyddai sôn am Daliesinoleg, ond yn sicr, gwnaeth Saunders Lewis ei orau i sicrhau bod gwaith Taliesin, nid yn unig yn cael ei ystyried yn ddechreubwynt i lenyddiaeth Gymraeg, ond hefyd yn faen prawf ar gyfer ei chyfeirio yn y dyfodol wrth i feirniaid benderfynu pa weithiau llenyddol a oedd yn rhan ohoni. ‘[Y] frawddeg enwog’, chwedl John Rowlands, ydyw honno a ddyfynnir isod o’i ysgrif ‘The Essence of Welsh Literature’, 1947:¹⁶⁵

¹⁶² Idem, ‘Deg Pwynt Polisi’, *Canlyn Arthur*, t. 16.

¹⁶³ Idem, ‘A member of our older breed’, *Western Mail: Literary Review*, 5 Rhagfyr 1964, 4.

¹⁶⁴ Idem, ‘Bardd Trasiedi Bywyd’, *Meistri a’u Crefft*, tt. 77-8.

¹⁶⁵ John Rowlands, *Saunders y Beirniad*, op. cit., t. 8.

It means that you cannot pluck a flower of song off a headland of Dyfed [sef canu Ioan Siencyn] ... in the eighteenth century without stirring a great northern star of the sixth century.¹⁶⁶

Drwy hynny, gwelir mai effaith y dechreubwynt hanesyddol yw sicrhau undod y canon, wrth i'r beirniad llenyddol ddarllen gweithiau'r presennol mewn perthynas â gwaith 'y cyntaf a'r mwyaf o'r penceirddiaid'.¹⁶⁷ Llwydda'r cyfeiriadau at wahanol ganrifoedd i roi'r argraff mai nodwedd ar natur hanesyddol y canon yw hyn. Ond wrth i'r beirniad gysylltu dau fardd o ddau gyfnod cwbl wahanol â'i gilydd, heb amlygu union linach yr olyniaeth na thynnu sylw at eu statws cymdeithasol gwahanol, awgrymir yma fod Taliesin yn ffigwr trawshanesyddol, 'transportable across and within conventional period designations'. Nodwedd ar ei statws uchelganonaidd yw, a'i effaith yw 'camgynrychioli' beirdd diweddarach nad ydynt yn canu i frenhinoedd fel y cyfryw.¹⁶⁸ Pwysleisiodd Saunders Lewis '[nad] oes gan artist hawl i fod yn werinwr'.¹⁶⁹ Drwy hynny, gallai hawlio R. Williams Parry ac Alun Cilie i draddodiad brenhinol Taliesin. Yn hyn o beth, yr oedd beirniadaeth Saunders Lewis yn debyg iawn i feirniadaeth F. R. Leavis ar waith Jane Austen. Pwysleisiai'r ddau feirniad mai byw yn waraidd ydoedd yn bwysig. Ar y naill law, adwaith yn erbyn math cynyddol o ddiwylliant poblogaidd ydoedd hyn. Oherwydd ys dywed Andy Croll, 'Popular culture had not only become commercial, it had also become more acceptable'.¹⁷⁰ Ond ar y llaw arall, yr oedd hefyd, fel y nododd Clara Tuite, yn ymgais i gyflwyno'r

¹⁶⁶ Saunders Lewis, 'The Essence of Welsh Literature', gol. Alun R. Jones a Gwyn Thomas, op. cit., t. 155. Cyhoeddwyd gyntaf yn *Wales*, 7, 27 Rhagfyr 1947, 337-241.

¹⁶⁷ Idem, *Braslun*, t. 10.

¹⁶⁸ Clara Tuite, *Romantic Austen: Sexual Politics and the Literary Canon* (Cambridge, 2002), t. 2. Gw. tt. 5-6. 'This vicarious reproduction of and conflicted investment in aristocratic culture on the part of the bourgeois professional classes instantiates precisely that form of the collective social and symbolic practice which [Pierre] Bordieu has formulated as misrecognition.'

¹⁶⁹ Saunders Lewis, 'Barddoniaeth Mr. R. Williams-Parry; *Y Llenor*, 1 (1922), 148.

¹⁷⁰ Andy Croll, *Civilizing the Urban: Popular Culture and Public Space in Merthyr, c. 1870-1914* (Cardiff, 2000), t. 179

bywyd gwâr fel pe bai'n beth 'classless, democratic, non-elitist and organic'.¹⁷¹ Yn achos y canon llenyddol Cymraeg, un ffordd arbennig o dda o wneud hyn ydoedd drwy gymharu Taliesin, bardd y brenin, â'r bardd gwlad Cymraeg, a phwysleisio perthynas beirdd heddiw â'r bardd cyntaf oll.

Ond nid y dechreubwynt yw'r unig gyfeirbwynt chwaith yn fframwaith beirniadol Saunders Lewis. Gyda Thaliesin, rhoes i lenyddiaeth Gymraeg ei chanolbwynt hefyd; yr hyn a elwir weithiau, megis yn achos ysgrifeniadau'r Apostol Paul, yn ganon o fewn canon. Gwelai ef 'far too much eccentric thought in Wales, too much paradox, too much waywardness; we lack centrality'.¹⁷² Oherwydd heb ganol, ni ellir wrth ffurf na thrafodaeth. Yn nhermau'r canon llenyddol, bydd y cyfryw ganolbwynt yn gweithredu hefyd fel cyfeirbwynt, wrth i weithiau eraill, ymylol gael eu derbyn a'u gwrthod mewn perthynas â'r gweithiau creiddiol, canolog sydd, yn sgil eu statws canonganolog, fel pe baent yn diffinio hanfod yr holl ganon. Nid yn unig y mae'r canol yn rhoi ffurf ar weithiau'r dyfodol, ond hefyd y mae'n fodd o benderfynu pa weithiau o'r gorffennol sy'n rhan o'r canon. Er enghraifft, yn *The Great Tradition*, wrth drafod gwaith Jane Austen, meddai F. R. Leavis:

She not only makes tradition for those coming after, but her achievement has for us a retroactive effect: as we look back beyond her we see in what goes before, and see because of her, potentialities and significances brought out in such a way that, for us, she creates the tradition we see leading down to her. Her work, like the work of all great creative writers, gives a meaning to the past.¹⁷³

Enghraifft gymharol mewn perthynas â llenyddiaeth Gymraeg ydyw'r modd y mae gwaith Dafydd ap Gwilym yn rhoi inni olwg newydd ar ganu'r Gogynfeirdd, ac

¹⁷¹ Clara Tuite, op. cit., t. 5.

¹⁷² Idem, 'The Literary Man's Life in Wales', op. cit., 295.

¹⁷³ F. R. Leavis, *The Great Tradition*, (London, 1962), t. 5.

yn ein gorfodi i werthfawrogi nad canu mawl uniongyrchol yn unig a wnaent. Dyma bwysigrwydd y canol. Ar un olwg, y testun neu'r testunau anhepgorol yw'r canol sy'n cyfeirio'r canon ymlaen ac yn ôl yr un pryd. Mae'n demtasiwn holi, er enghraifft, ar wahân megis i ystyriaethau chwaeth, a fyddai Thomas Parry wedi cynnwys cynifer o gerddi'r Gogynfeirdd i ferched yn *The Oxford Book of Welsh Verse* pe na bai'r math hwnnw o ganu personol mor amlwg yng ngwaith Dafydd ap Gwilym.

Nododd Kurt Aland, '[that] [t]he Pauline Epistles constitute the core of these apostolic writings; 'to these, other early apostolic letters (and in the West the Apocalypse) attached themselves'.¹⁷⁴ Yr un modd, ystyriai Harold Bloom mai Shakespeare ydoedd 'the central figure of the Western Canon'.¹⁷⁵ 'Without Shakespeare, no canon.'¹⁷⁶ Felly hefyd y cyfeiriodd R. M. Jones at 'gorff y traddodiad canol mewn llenyddiaeth Gymraeg', ynghyd ag 'anian canol y traddodiad uchelwrol'.¹⁷⁷

Craidd y canon llenyddol Cymraeg i Saunders Lewis ydoedd canu Beirdd yr Uchelwyr rhwng 1435-1535, 'coron datblygiad cerdd dafod Gymraeg'.¹⁷⁸ A modd dyfeisgar o bwysleisio'i statws canonganolog ydoedd rhoi arno'r label 'Y Ganrif Fawr'. Yn y canu hwn y gwelodd ef glir iaf y math o bendefigaeth Gymreig yr oedd am ei gweld eto o'r newydd yng Nghymru – sylw sy'n amau mai ar dir estheteg yn unig y codir canon. Am hynny, gweithredai'n gyfeirbwynt ar gyfer barnu gweddill llenyddiaeth Gymraeg. '[R]haid synio'n gywir am Ddafydd ab Edmwnt cyn y gellir o

¹⁷⁴ Kurt Aland, *The Problem of the New Testament Canon* (London, 1962), t. 9.

¹⁷⁵ Harold Bloom, *The Western Canon* (New York, 1994; London, 1995) t. 2.

¹⁷⁶ *Ibid.*, t. 40.

¹⁷⁷ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd: Fframwaith Cyflawn Beirniadaeth Llenyddol* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), t. 191. *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4: Cyfanweithiau Llenyddol*, op. cit., t. 586. Gw. hefyd *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 210. '[Y] mae i'r cydlyniad ... siâp sy'n canoli ar yr unigryw llenyddol ...'

¹⁷⁸ Saunders Lewis, *Braslun*, t. 115.

gwbl ddeall llenyddiaeth Gymraeg', meddai yn *Williams Pantycelyn*.¹⁷⁹ Ac wrth gloi'r gyfrol ar yr emynydd, nododd fod yn rhaid i 'ninnau' fabwysiadu gwerthoedd Cymreig yr Oesoedd Canol. Meddai:

Ni all barddoniaeth ein "diddanu" mwyach yn union fel y gwnaethai yn y cyfnod clasurol. Ond erys drychfeddwl y beirdd clasurol yn ddrychfeddwl i ninnau. Rhaid i ninnau ymdrechu am drefn a chyfanrwydd a synthesis mewn bywyd.¹⁸⁰

I'r perwyl hwn, dadleuir i'r 'Ganrif Fawr' weithredu'n ganolbwynt cyfeiriol ym meirniadaeth lenyddol Saunders Lewis. Hi'r Ganrif, a dyfynnu F. R. Leavis, ydoedd 'the centre of vital continuity, the creative centre where we have the growth towards the future of the finest life and consciousness of the past'.¹⁸¹ Rhoes Saunders Lewis gryn sylw, wrth gwrs, i gyfnodau eraill, gan ganmol Emrys ap Iwan yn arbennig am ganfod traddodiad rhyddiaith 'Y Clasuron Cymraeg',¹⁸² ond ys dywed Pennar Davies mewn perthynas â chlasuriaeth y beirniad, 'there can be no manner of doubt that it was the medieval poetic tradition of Wales that brought him safely to his destination'.¹⁸³

Gyda'r canol, fodd bynnag, yr oedd hefyd gyfeirbwynt arall yn cyfarwyddo gwaith y canoneiddiwr, sef ei ddelwedd o effaith y canon yn y dyfodol. Yn ôl Alasdair MacIntyre,

¹⁷⁹ Idem, *Williams Pantycelyn*, t. 17.

¹⁸⁰ Ibid., t. 236.

¹⁸¹ F. R. Leavis. 'Valuation in Criticism', *Valuation in Criticism and Other Essays* (Cambridge, 1986), t. 283.

¹⁸² Gw. Saunders Lewis, 'Emrys ap Iwan', *Ysgrifau Dydd Mercher*, tt. 80-3.

¹⁸³ Pennar Davies, 'His Criticism', op. cit., t. 100.

We live out our lives in the light of certain conceptions of a possible shared future, a future in which certain possibilities beckon us forward and others repel us.¹⁸⁴

Deallai'r gwleidydd, Saunders Lewis, hynny'n iawn. Meddai, er enghraifft, yn 1930

wrth draethu ar 'Y Blaid Genedlaethol a'r Dyfodol':

Gyda marw sylfaenydd y Blaid daw cyfnod yn ei hanes hi i ben. Y mae hi eleni yn bum mlwydd oed. Y mae pum mlynedd yn gyfnod crwn. Diau mai gweddus yw inni felly fwrw golwg yn ôl er mwyn deall yn well lle y saif ein traed, pa dir a enillwyd, pa gamp a fedrwyd; ac er mwyn gwybod wedyn sut i symud ymlaen, i ba gyfeiriad, gyda pha amcanion.¹⁸⁵

Ond mae'n bwysig nodi nad symud ymlaen yn unig drwy edrych yn ôl ydoedd tasg y gwleidydd.¹⁸⁶ Rhaid cofio bod prif amcan y Blaid eisoes yn glir, sef ymreolaeth, a bod y ddelwedd o Gymru rydd yn y dyfodol eisoes yn brif gymhelliad i'w gweithgarwch.

A dyfynnu MacIntyre ymhellach:

It is ... most importantly a matter of knowing how to go further and especially how to direct others towards going further, using what can be learned from the tradition afforded by the past to move towards the telos of fully perfected work.¹⁸⁷

Dyna pam yr edrychid yn ôl, sef er mwyn symud yn nes at ddelwedd o'r dyfodol a oedd eisoes yn ddylanwadol iawn.

Mae'r patrwm hwn efallai'n amlwg yng ngyrfa wleidyddol Saunders Lewis.

Ond yr oedd *telos* perffaith yn cyfeirio ei waith beirniadol hefyd, a'r nod honno

¹⁸⁴ Alasdair MacIntyre, *After Virtue: A Study of Moral Enquiry* (London, 2il arg., 1985), t. 215.

¹⁸⁵ Saunders Lewis, 'Y Blaid Genedlaethol a'r Dyfodol', *Y Ddraig Goch*, 6.4, (Medi 1930), 1.

¹⁸⁶ Cymh. idem, 'Dyfodol Llenyddiaeth', *Meistri a'u Crefft*, t. 197. '[S]wydd a llawenydd goruchaf, ie perlewyr hyfryd, beirniadaeth lenyddol ydyw darganfod, adnabod, datguddio, amlygu mawredd a cheinder yn y presennol a'r gorffennol, ac felly symbylu eu twf yn y dyfodol hefyd.'

¹⁸⁷ Alasdair MacIntyre, *Three Rival Versions of Moral Enquiry* (London, 1990), tt. 65-6.

ydoedd ‘beirniadaeth lenyddol Gymraeg’, sef beirniadaeth lenyddol wedi ei hysgrifennu gan Gymry dan ddylanwad gwerthoedd cynhenid y traddodiad; ‘yn codi o’n bywyd cenedlaethol ni’n hunain [ac] o gymundeb bywiol â’n traddodiad llenyddol ein hunain’.¹⁸⁸ Dim ond drwy hynny y gellid gwerthfawrogi ffurf lenyddol fel y cofiant Cymraeg,¹⁸⁹ ac y gallai ‘beirniadaeth ar feirdd a llenorion y gorffennol ... [d]aflu golau newydd ar eu gwaith hwy ac ar y sefyllfa gyfoes sy’n ein hwynebu ninnau’.¹⁹⁰ Yn *Williams Pantycelyn*, meddai:

[F]y ngrêd i yw mai beirniadaeth ac egwyddorion athronyddol y traddodiad llenyddol Cymraeg yn yr Oesoedd Canol yw cyfraniad arbenicaf Cymru i feddwl Ewrop, a bod egluro’r feirniadaeth honno, a dangos ei *chyfeiriad* yn wyneb datblygiad athroniaeth ddiweddar a llenyddiaeth ein hoes ninnau, yn dasg y gelwir arnom ei chyflawni. Felly yn unig y ceir yn y *diwedd* feirniadaeth lenyddol Gymraeg.¹⁹¹

Dyma pam yr oedd pennu cynnwys y canon mor bwysig i Saunders Lewis, gan mai trwy gael ei gyd-Gymry i ddarllen ac astudio mynegiant y canon hwnnw y gellid wedyn ddiffinio cymeriad y genedl mewn perthynas â’i gynnwys: ‘through the literature of Wales will flow the currents of the past and of the present.’¹⁹² Ei nod ydoedd creu ‘métier’ cenedlaethol, lle’r oedd ‘[c]orff o waith [yn] mynd yn rhan o gynhysgaeth feddyliol’ gwlad.¹⁹³

Un ffordd o sicrhau y byddai’r canon yn parhau yn rym dylanwadol yn y Gymru gyfoes ydoedd drwy ddadlau bod yn rhaid i weithiau llenyddol cyfoes gystadlu â gweithiau’r gorffennol – syniad a hyrwyddod T. S. Eliot yn ei ysgrif,

¹⁸⁸ Saunders Lewis, ‘Ateb Mr J. M. Edwards’, *Meistri a’u Crefft*, t. 200.

¹⁸⁹ Idem, ‘Y Cofiant Cymraeg’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 341. ‘Ein tuedd ninnau yw barnu ein llenyddiaeth ni, a’i dosbarthu yn fathau a ffurfiau, yn ôl esiampl gwledydd eraill. Ni ellir hynny heb wneud cam â hanes ac â thraddodiadau llenyddol Cymru.’

¹⁹⁰ Idem, ‘Twm o’r Nant’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 280.

¹⁹¹ Idem, *Williams Pantycelyn*, tt. ix-x. F’italeiddio i yn yr ail ymadrodd.

¹⁹² Idem, ‘The Literary Man’s Life in Wales’, op. cit., 297.

¹⁹³ Idem, ‘Ffrainc cyn y Cwmp’, *Ysgrifau Dydd Mercher*, tt. 12-13.

'Tradition and the Individual Talent'.¹⁹⁴ Cyfeirio ymhellach ddatblygiad y canon llenyddol Cymraeg yn y dyfodol yr oedd edrych ar lenyddiaeth Gymraeg fel un peth organig, hunangynhaliol. Yn 'Dafydd Nanmor', beirniadodd Saunders Lewis lenorion Cymraeg am '[f]ynd at lenorion Lloegr am athroniaeth a dysg am fywyd. [...] Dyna anffawd lenyddiaeth a ddiwreiddiwyd.'¹⁹⁵ Tynnu'n hytrach ar y traddodiad llenyddol Cymraeg a ddylent. Gwneud lenyddiaeth Gymraeg gyfoes yn estyniad o lenyddiaeth Gymraeg y gorffennol. Gwelir mai dyna'r nod yn ei gyfres o gyfweiliadau yn y gyfrol, *Crefft y Stori Fer*. Dro ar ôl tro ceisiodd Saunders Lewis awgrymu 'gwreiddiau Cymreig' i'r straeon byr hyn,¹⁹⁶ er gwaetha'r ffaith i'r awduron eu hunain ddweud iddynt gan eu dylanwadu '[g]an lenorion o Saeson ac Americanwyr a throsiadau o Ffrangeg'.¹⁹⁷ Yn wir, gyda Kate Roberts, er enghraifft, yn gwrthod awgrym Saunders Lewis iddi gael ei dylanwadu gan Lasynys, y mae'r gwrthdaro'n drawiadol: ar y naill law, yr awdures o Rosgadfan a'i dylanwadau o du lenyddiaeth gyfoes Saesneg, ac ar y llaw arall, y beirniad o Lerpwl a fydd wreiddio'r straeon byrion Cymraeg yn lenyddiaeth Gymraeg y gorffennol. Hwyrach fod y gyfrol fechan hon gystal dadl â'r un dros wrthod y syniad mai dim ond mewn perthynas â gweithiau Cymraeg y gorffennol y gellir creu gwaith Cymraeg newydd heddiw. Gwelir yn glir nad peth diddor mo'r traddodiad llenyddol, a bod purdeb llenyddol mewn gwlad amlieithog yn fyth.¹⁹⁸ Ond diben y canon i Saunders Lewis ydoedd hyrwyddo Cymreigrwydd. Dyna pam yr oedd gweithiau'r Canol Oesoedd mor bwysig iddo, gan iddynt gael eu

¹⁹⁴ T. S. Eliot, 'Tradition and the Individual Talent', gol. David Lodge, *20th Century Literary Criticism*, (London, 1995; arg. 1af, 1975) t. 72. 'No poet, no artist of any art, has his complete meaning alone. His significance, his appreciation is the appreciation of his relation to the dead poets and artists. You cannot value him alone; you must set him, for contrast and comparison, among the dead.' Cymh.

Saunders Lewis, 'Emrys ap Iwan', *Ysgrifau Dydd Mercher*, t. 79.

¹⁹⁵ Saunders Lewis, 'Dafydd Nanmor', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 80.

¹⁹⁶ Idem, *Crefft y Stori Fer* (Cyhoeddiadau'r Clwb Llyfrau Cymraeg, 1949), t. 10.

¹⁹⁷ John Gwilym Jones, *Crefft y Stori Fer*, t. 69.

¹⁹⁸ Gw. Saunders Lewis, 'Un Iaith i Gymru', *Canlyn Arthur*, tt. 62. 'Yr ydym am anseisnigo Cymru. [...] Ni allwn ni, gan hynny, amcanu at ddim llai na difodi Saesneg yng Nghymru.' Cymh. Ifor ap Dafydd, op. cit., tt. 95-100.

cyfansoddi cyn y Deddfau Uno.¹⁹⁹ ‘Wedi’r cyfnod hwnnw [1330-1640] ni bu feddwl Cymreig pur, ond meddwl ar wŷr i gyfeiriadau Cymreig.’²⁰⁰

Ffordd arall o sicrhau dylanwad parhaus y canon llenyddol, ac yn wir o gyfleu’r argraff ei fod yn gorff di-dor ac organig o weithiau, ydoedd cysylltu’r holl weithiau dan enw Traddodiad, ‘a whole that is greater than its parts’.²⁰¹

Prif sylfaen awdurdod canon y Testament Newydd ydoedd ei ysbrydoliaeth ddwyfol. Dyna pam yn rhannol y gwrthodid canon Marcion. Fel y nododd Charles Kannengiesser am Tertullian: ‘[He] opposed the attempt made by Marcion to impose a scriptural canon of his own. He held divine inspiration in high esteem.’²⁰² Ac yn yr un modd, dechreuwyd dadelfennu canon y Testament Newydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan heriwyd ei ysbrydoliaeth ddwyfol. Fel y nododd Donald Guthrie am y diwinydd W. Wrede, awdur *The Task and Method of New Testament Theology* (1897): ‘With the rejection of an inspired text and the substitution of religion for theology, Wrede saw no reason to restrict himself to the NT canon.’²⁰³ Nid rhyfedd, felly, i Gwilym H. Jones nodi y ‘[g]orfodwyd y Beibl i sefyll neu syrthio gydag athrawiaeth anffaeledigrwydd’.²⁰⁴ Y canlyniad yw fod y canon Beiblaidd, os gwedir ei ysbrydoliaeth ddwyfol, yn colli’r elfen honno a rydd unoliaeth i’r gwahanol lyfrau cynwysedig, ynghyd â’r rheswm dros gadw llyfrau eraill draw. Yn achos y canon

¹⁹⁹ Credir bod dehongliad Saunders Lewis o’r Deddfau Uno, fel y’i mynegid, er enghraifft, yn *Tynged yr Iaith* (Caerdydd, 1962), yn gorbwysleisio arwyddocâd y ddeddf, gan anwybyddu amrywiaeth o ffactorau cyd-destunol sy’n bwrw amheuaeth ar y cysyniad hwn o burdeb canoloesol Cymreig. Dylid nodi iddo rannu’r arwyddocâd â methiant gwrthryfel Glyndŵr. Gw. ‘Gyrfa Filwrol Guto’r Glyn’, *Meistri a’u Crefft*, t. 111. ‘Bellach rhan o deyrnas Lloegr oedd Cymru.’

²⁰⁰ Saunders Lewis, *Williams Pantycelyn*, t. 16. Cymh. ‘Goronwy Owen’, *Meistri’r Canrifoedd*, t. 259. ‘Arbenigrwydd y ddeunawfed ganrif, a’i chymaru hi â chyfnodau eraill yn hanes llenyddiaeth Gymraeg, yw’r ffaith mai yn y ganrif hon yn gyntaf oll y daeth ein llên yn gyfan gwbl dan ddylanwadau Seisnig.’

²⁰¹ Joseph P. Clancy, ‘Introduction’, *Selected Poems: Saunders Lewis*, cyf. idem, (Cardiff, 1993), t. ix. Cyd-destun y sylw yw cerddi Saunders Lewis.

²⁰² Charles Kannengiesser, ‘Biblical Interpretation in the Early Church’, gol. Donald K. McKim, op. cit., t. 9.

²⁰³ Donald Guthrie, *New Testament Theology* (Leicester, 1991), t. 28.

²⁰⁴ Gwilym H. Jones, op. cit., t. 74.

llynyddol Cymraeg, priodolodd Saunders Lewis yr union ddwy swyddogaeth i 'draddodiad'.

Meddai R. Gerallt Jones: 'Gwyddom fod Mr. Lewis, yn fwy nag un peth arall, yn ŵr sy'n rhoi pwys mawr ar draddodiad, ar berthynas yr artist – y llenor – â'i wreiddiau ac â'r traddodiad llynyddol a roes fod iddo, yng Nghymru ac yn Ewrop gyfan.'²⁰⁵ Ac eto, er amlyced y pwys ar 'draddodiad' yn y *Braslun*, ni ddiffinnir yn y llyfr hwnnw ystyr neu ystyron y gair. Ni chredir yma fod dim o'i le ar hynny, er i eraill gwyno ynghylch 'reference to "traditional" regimes or societies, without any careful analysis of what is to be understood by tradition'.²⁰⁶ Ond amlyced y gair 'traddodiad' yn y *Braslun*, fel y byddai'r llyfr yn astudiaeth achos ddelfrydol ar gyfer y math o waith a wnaeth Dan Ben-Amos yn ei erthygl 'The Seven Strands of Tradition', sy'n archwilio cyfystyron y gair 'tradition'.²⁰⁷ Oherwydd yn y *Braslun*, gall y 'traddodiadol' gyfateb i'r hyn sy'n arferol neu'n hynafol, fel y gall 'traddodiad' olygu arferiad neu gwstwm. Gall 'traddodiad' hefyd olygu chwedl neu dystiolaeth storiol anysgrifenedig. A defnyddir 'traddodiad' yn gyfystyr â hanes, ac i olygu diwylliant hefyd. Nodir isod un enghraifft yn unig o bob ystyr, yn ôl fel y'u deallwyd gennyf fi. Yn gyntaf, y 'traddodiadol' hynafol:

Trwy'r disgrifiad oll dyd Taliesin bwyslais ar foesau traddodiadol, hir-sefydlog y brenin a'i gartref, ei foengarwch tuag at ddieithriaid, gwyleidd-dra a seremoni ei lys, cyfiawnder a llareidd-dra ei ddeddfau, haelioni ei fwrdd, cwrteisi ei wleddoedd, ei groeso i feirdd a cherddorion.²⁰⁸

Yn ail, 'traddodiad' fel arfer neu gwstwm:

²⁰⁵ R. Gerallt Jones, 'Siwan Saunders Lewis: Astudiaeth gan R. Gerallt Jones (Llandybie, 1966) t. 6.

²⁰⁶ Carl J. Friedrich, *Tradition and Authority* (London, 1972), t. 34.

²⁰⁷ Dan Ben-Amos, 'The Seven Strands of Tradition', *Journal of American Folklore*, 21 (1984), 97-131.

²⁰⁸ Saunders Lewis, *Braslun*, t. 11.

Eu nifer a'u hannibyniaeth a'u gafael gyndyn yn y traddodiadau Cymreig a ddiogelai gynhaliaeth y beirdd a'r cerddorion.²⁰⁹

Yn drydydd, 'traddodiad' y chwedl:

Ffynnai [Urien], fe dybir, yn ail hanner y chweched ganrif, a thystia chwedl a thraddodiad ei fod yn llywydd nerthol i'r Brythoniaid yn eu rhyfeloedd cynnar yn erbyn y Saeson.²¹⁰

Yn nesaf, 'traddodiad' sy'n cyfateb i hanes:

Gŵyr y neb a fu mewn ysgol neu goleg a hen hanes a thraddodiad yn perthyn iddo, fel y bydd cof am athro o bersonoliaeth anghyffredin yn aros yno'n hir wedi ei farw, a hynny oblegid bod method a delfrydau'r athrawon a ddilynodd yn dwyn am byth nodau'r bersonoliaeth honno.²¹¹

A hefyd, 'traddodiad' sy'n cynrychioli diwylliant:

Ond myn Einion gael yr uchelwr i'w gyfundrefn a rhydd ddisgrifiad manwl o'i briodoleddau ef a'r wreigdda, yn union oblegid mai hwynt-hwy yn ei ddydd ef a gynhaliai'r traddodiad Cymreig mewn llywodraeth, canolbwynt y canu Cymraeg.²¹²

Ond y mae'r cyfystyron hyn oll yn gweithio ynghyd, fe greidir, i atgyfnerthu un ystyr arall, sef 'traddodiad' fel bod trosgynnol sydd megis yn goruwchlywodraethu ar bob cyfnod, agwedd ac awdur unigol a berthyn i lenyddiaeth Gymraeg. Y 'traddodiad' hwnnw sy'n rhoi bod i bopeth, ac sydd megis yn sefyll ar wahân i'r gwahanol gyfnodau ac awduron sy'n gynwysedig ynddo. Meddai Saunders Lewis, er enghraifft, am feirdd y bymthegfed ganrif:

²⁰⁹ Ibid., t. 116.

²¹⁰ Ibid., t. 11.

²¹¹ Ibid., t. 15.

²¹² Ibid., tt. 63-4.

Nid yr un math o ysbryd sydd gan feirdd y ganrif hon ag a fuasai gan eu blaenoriaid yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac ni pheidiodd y traddodiad llenyddol â thyfu a newid yn fawr er cadw ohono o hyd ei unoliaeth.²¹³

Dyma draddodiad di-dor ac organig sy'n llwyddo i dyfu a thyfu er gwaethaf y bygythiadau dynol enbytaf. Hollalluog a hollbresennol yw.

Megis Origen a dynnodd ynghyd gyfraniadau'r gwahanol awduron unigol drwy bwysleisio undod yr amryfal lyfrau yn sgil eu hawduraeth ddwyfol, gyffredin, ceisiodd Saunders Lewis greu canon a oedd yn gwerthfawrogi cyfraniad yr awdur unigol mewn perthynas â bod amgenach a fyddai'n rhoi i amrywiaeth y canon ei undod. Traddodiad ydoedd yr awdur hwnnw. Wrth drafod 'Gwaith Argoed Llwyfain', er enghraifft, meddai: 'gwrthododd y traddodiad llenyddol yn ddiweddarach ganiatáu canu o'r math hwn am helyntion bywyd.'²¹⁴ Dyma Fod sy'n ewyllysio – sy'n caniatáu ac yn gwrthod caniatáu, yn derbyn a gwrthod gwahanol destunau llenyddol – ac yn goruwchlywodraethu ar yr awduron unigol dan sylw. Wrth drafod Dafydd ap Gwilym, personolir ymhellach yr haniaeth hon: 'wynebasai'r traddodiad llenyddol Cymraeg ... her i'w egwyddorion.'²¹⁵

Yn ei lyfr, *Science, Faith and Society*, meddai Michael Polanyi: 'The premises of science ... are embodied in a tradition, the tradition of science.'²¹⁶ Yn ôl Polanyi y mae'r traddodiad hwn yn cwmpasu unrhyw weithgarwch unigol gan unrhyw wyddonydd unigol, hyd yn oed y sawl a ddaw o hyd i ddarganfyddiadau newydd. Fodd bynnag, er mwyn cadarnhau ei awdurdod, rhaid ei dderbyn 'as an unconditional demand if it is to be upheld at all'.²¹⁷ Oherwydd math o ysbryd hollbresennol yw. 'It

²¹³ Ibid., t. 122.

²¹⁴ Ibid., t. 10.

²¹⁵ Ibid., t. 86.

²¹⁶ Michael Polanyi, *Science, Faith and Society* (Oxford, 1946), t. 38. Dyf. Edward Shils, *Tradition* (London, 1981), t. 116.

²¹⁷ Ibid.

is a spiritual reality which stands over them [y gwahanol wyddonwyr unigol] and compels their allegiance.’²¹⁸

Yr un yw’r sefyllfa mewn perthynas â’r traddodiad llenyddol. Y gwahaniaeth mawr yw nad yw Saunders Lewis yn cwestiynu’r traddodiad hwn, nac yn dwyn sylw ato, eithr yn cymryd ei fodolaeth yn ganiataol.

Ar ddechrau’r *Braslun* nododd Saunders Lewis mai ei fwriad ydoedd ‘ymdrin yn llawn â’r rheini a luniodd ... gwrs datblygiad ein llên’.²¹⁹ Dyna hefyd ydoedd amcan F. R. Leavis: ‘to give ... the main lines of development in the English tradition - to give, as it were, the essential structure’.²²⁰ Fodd bynnag, er i Saunders Lewis awgrymu ‘[na] ellir yn gywir sôn am “draddodiad” yn llenyddiaeth Lloegr’,²²¹ gan fod Leavis yn ysgrifennu mewn perthynas â thraddodiad o ymchwil i lenyddiaeth Saesneg – traddodiad a’i ddechreuadau yng ngwaith Joseph Addison a Samuel Johnson – ac yn cael ei herio gan feirniaid cyfoes iddo, megis René Welleck i archwilio ‘the principles on which he operated in a more explicit way’,²²² archwiliodd ef y cysyniad o draddodiad i raddau llawer mwy uniongyrchol na Saunders Lewis. Meddai am ‘tradition’:

In dealing with individual poets the critic, whether explicitly or, is dealing with tradition, for they live in it. And it is in them that tradition lives.²²³

Dyma’r ysbryd, ‘y realiti ysbrydol’ y cyfeiriodd Michael Polanyi ato, sy’n tynnu’r cyfan amrywiol ynghyd. Mewn man arall, cyfeiriodd F. R. Leavis at lenyddiaeth

²¹⁸ Ibid.

²¹⁹ Saunders Lewis, *Braslun*, t. v.

²²⁰ F. R. Leavis, *Revaluation: Tradition & Development in English Poetry*, (1969, London), t. 2.

²²¹ Saunders Lewis, *Braslun*, t. 2.

²²² Dyf. Peter Barry, *op. cit.*, t. 16.

²²³ F. R. Leavis, *Revaluation: Tradition & Development in English Poetry*, *op. cit.*, t. 3.

Saesneg – y canon llenyddol Saesneg – yn nhermau ‘the most important of realities ... it is a living and effective reality’.²²⁴

Yn wahanol i Leavis, ni fu’n rhaid i Saunders Lewis egluro’r rhagfarn hon o blaid traddodiad, ac yn rhannol, hyrwyddo a wnaeth hynny dderbyniad y canon llenyddol Cymraeg ymhlith y brifysgol a’r werin fel ei gilydd. ‘Whether explicitly or not’, yn ôl diffiniad Polanyi ohono, y mae’n gwbl angenrheidiol fod y cysyniad o draddodiad cwmpasog yn un sy’n cael ei gymryd yn gwbl ganiataol, megis ‘an unconditional demand’. Yn wir, er mwyn i ‘draddodiad’ weithio’n effeithiol y mae’n gofyn i’r beirniad goleddu rhagfarn bendant o blaid traddodiad. Dyma ydyw safbwynt Hans-Georg Gadamer. Cydnebydd, er enghraifft, nad oes unrhyw sail resymegol dros gredu bod ffurf unedig a pharhaus i’r traddodiad o ymchwil athronyddol sy’n cwmpasu rhesymoledd y Gorllewin, dim mwy felly na’r traddodiad llenyddol Cymraeg. Yn hytrach, y mae’n parodrwydd i goleddu’r cyfryw draddodiadau yn deillio’n sylfaenol o du rhagfarn arbennig o blaid y cysyniad o draddodiad. Y math o ragfarn yn wir sy’n ystyried mai ‘traddodiad’ yw unig gynheilydd bywyd. Yn ei lyfr, *The Crisis of European Sciences and Transcendental Phenomenology*, meddai Husserl, er enghraifft: ‘Our human existence moves within innumerable traditions. The whole cultural world, in all its forms, exists through tradition.’²²⁵

Yn y bennod flaenorol, nodwyd nad ystyriai Saunders Lewis ei fod yn feirniad diragfarn. ‘Yr wyf ... yn rhoddi’r pwys mwyaf ar werth traddodiad mewn bywyd’, meddai, ‘oherwydd ni all llenyddiaeth na chelfyddyd ffynnu heb draddodiad. ...

²²⁴ Idem., *English Literature in Our Time & The University* (1969, London), t. 77.

²²⁵ Husserl, cyf. David Carr, *The Crisis of European Sciences and Transcendental Phenomenology* (Evanston, 1970), t. 354. Dyf. Christoph Nyíri, ‘Preface’, *Tradition: Proceedings of an International Workshop at IFK* (Wien, 1995), t. 9.

Dyma fy rhagfarnau gwreiddiol i ac y maent yn cyfyngu cylch fy nghydymdeimlad.²²⁶

O bosib, traddodiad ydoedd ei ragfarn bennaf. Y rhagfarn honno sy'n gwbl angenrheidiol os yw traddodiad i weithio o gwbl. Hi, ynghyd â'r dechreubwynt, y canolbwynt a'r *telos*, a roes i'w ddehongliad o lenyddiaeth Gymraeg ei ffurf ganonaidd. Credai Cristnogion y bedwaredd ganrif ar bymtheg nad 'darnau digysylltiol ydyw y Beibl, ond un llyfr mawr, dwyfol, cyfansoddedig o wahanol ranau (*sic*).²²⁷ Traddodiad ydoedd yr ysbrydoliaeth a ddefnyddiodd Saunders Lewis er mwyn ennill i'r canon llenyddol undod tebyg. Cadarnhau'r argraff honno y mae sylweddoli i feirniaid ddechrau cwestiynu cynnwys y traddodiad llenyddol Cymraeg pan ddechreuwyd herio'r cysyniad o draddodiad, a nodi 'nad peth sy'n bodoli heb reswm yw traddodiad ond ei fod wedi cael ei greu'.²²⁸ Ac mae'n ddiddorol sylwi i Dafydd Elis Thomas ddefnyddio trosiad crefyddol er mwyn disgrifio'r datblygiad hwn ym maes beirniadaeth lenyddol Gymraeg yn nhermau 'heresi'.²²⁹ O'r fan honno, pan ddechreuwyd peidio â chymryd bodolaeth y traddodiad yn ganiataol, ar un olwg – neu o leiaf yn ôl un diffiniad o draddodiad – collodd ryw gymaint o'i rym.

Yn ôl Jürgen Habermas, sef un o brif feirniaid Hans-Goerg Gadamer:

The structure of prejudices, once made transparent, cannot anymore function in the mode of prejudice. [...] The reflected appropriation of traditions destroys the natural substance of the same.²³⁰

²²⁶ Saunders Lewis, 'Tuaddiadau Cymru rhwng 1919 a 1923', op. cit.

²²⁷ Dyf. R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, op. cit., t. 178.

²²⁸ Menna Elfyn, 'Trwy Lygaid Ffeministaidd', gol. John Rowlands, *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), t. 23.

²²⁹ Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory: Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ynys Môn, 1983* (Cyhoeddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 1983), t. 15.

²³⁰ Jürgen Habermas, gol. Karl-Otto Apel et. al., *Hermeneutik und Ideologiekritik* (Suhrkamp, 1971), tt. 47-49. Dyf. Christoph Nyíri, op. cit., t. 9.

Yn achos y traddodiad llenyddol Cymraeg, golyga hynny na allai'r rhagfarn lywodraethol hon – sef cred ddigwestiwn fod y fath beth â'r traddodiad llenyddol Cymraeg yn bodoli, a hynny'n annibynnol ar ddeongliadau unrhyw feirniaid ohono – cyn gynted ag y dechreuwyd ei dadansoddi, neu hyd yn oed sylwi arni, weithredu mwyach yn yr un modd. Ys dywed Max Scheler yn 1927: 'Conscious "remembering" represents the dissolution, indeed really the extinction of a living tradition.'²³¹ Ac yr oedd yntau'n adleisio Nietzsche, sydd, ar ryw olwg, yn cadarnhau bod yna draddodiad o lefaru yn erbyn traddodiad erbyn hyn – yn ôl diffiniad arall o draddodiad.²³²

Un o'r beirniaid hynny a fu'n cwestiynu'r traddodiad llenyddol yng ngwaith Saunders Lewis ydoedd John Rowlands. Gan amlygu mai '[c]readigaethau ei ddychymyg byrlymus ef i raddau' ydoedd 'nid yn unig ... y portreadau o lenorion unigol – ond hefyd ... ei ddehongliad o'r traddodiad llenyddol', nododd yn 1990 mai '[g]o amheus bellach yw'r syniad y gellir dod o hyd i hanfod y traddodiad heb ei lurgunio y tu hwnt i bob adnabyddiaeth'.²³³ Am ddehongliad Saunders Lewis o draddodiad Cymru – 'ei freuddwyd' – meddai John Rowlands:

Gwyddai mai act o ffydd oedd credu yn y breuddwyd hwnnw, fel yr oedd credu yn Nuw, a chredu mewn rheswm yn actau o ffydd.²³⁴

Fodd bynnag, erbyn hyn, ac yn rhannol oherwydd ymdriniaethau megis un John Rowlands, nid 'camu'n ddiarwybod' a wneir dros riniog y breuddwyd Saundersaidd mwyach, eithr fel y dywedodd John Rowlands, '[r]hyw gilwenu y

²³¹ Max Scheler, *Die Stellung des Menschen im Kosmos* (8fed arg., 1928), t. 29. Dyf. Christoph Nyíri, op. cit., t. 8.

²³² Friedrich Nietzsche, cyf. R. J. Hollingdale, *Untimely Meditations* (Cambridge, 1983), t. 67. Dyf. Christoph Nyíri, op. cit., t. 8. 'A historical phenomenon, known clearly and completely and resolved into a phenomenon of knowledge, is, for him who has perceived it, dead.'

²³³ John Rowlands, *Saunders y Beirniad: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1990), tt. 6, 9.

²³⁴ *Ibid.*, tt. 76-7.

byddwn bellach'.²³⁵ Cilwenu yn hytrach na chredu. Oherwydd hyd yn oed o fynd ati ac amddiffyn yr hyn oll a ddywedodd Saunders Lewis, y mae'r act honno ynnddi'i hun yn amlygu ein diffyg ffydd yn y Traddodiad – amheuwyr fynychaf sy'n dynodi prif llythren – a'r modd y gwnaethpwyd rhagfarnau'r gorffennol bellach yn dryloyw. Ys dywed Ernest Gellner: 'If a defence of Faith were possible and successful, it would no longer be Faith. The reasons, if cogent, would suffice.'²³⁶

Os llwyddodd Saunders Lewis i gyflwyno'r canon llenyddol Cymraeg ar lun a delw canon y Testament Newydd, nodir hefyd i theori lenyddol ddiweddar gael effaith debyg ar nifer o ddarllenwyr Cymraeg i'r hyn a gafodd uwchfeirmiadaeth Feiblaidd ar ddarllenwyr y Beibl ddechrau'r ugeinfed ganrif. Cymharus i effaith y ddadl yn erbyn ysbrydoliaeth y Beibl ydoedd honno'n erbyn bodolaeth y traddodiad, pan awgrymwyd i Saunders Lewis baratoi 'o'i ben a'i bastwn ei hun draddodiad ar ei chyfer [hi, Cymru]'.²³⁷

Awgrymwyd i Saunders Lewis wrth iddo fawrygu llenyddiaeth Gymraeg fabwysiadu osgo'r diwygiwr crefyddol, a hynny pan oedd y cymeriad hwnnw ar ddiflannu o'r tir. Yn wir, wrth gyfeirio at brofiad o roi darlith o bulpud mewn capel Cymraeg, meddai ef ei hun yn chwareus mewn llythyr at Margaret Gilcriest: 'I really fancy myself as the next Revivalist.'²³⁸

Yn hyn o beth perthnasol wrth ddod â'r bennod hon i ben yw'r hyn a ddywedodd R. Tudur Jones am y newid a fu yn safle'r 'Pregethwr Mawr' yng Nghymru ddechrau'r ugeinfed ganrif. Oherwydd, o gyfnewid 'y Tragwyddol' yn y dyfyniad isod am 'y Traddodiad', credir bod y dyfyniad yn cynrychioli'r newid

²³⁵ Ibid., t. 10.

²³⁶ Ernest Gellner, *Reason and Culture: The Historic Role of Rationality and Rationalism* (Oxford, 3ydd arg., 1994), t. 59.

²³⁷ Gerwyn Williams, 'Saunders Lewis: Parodiwr Ymrwymedig', *Taliesin*, 66 (Mawrth, 1989), 42.

²³⁸ Saunders Lewis, *Letters to Margaret Gilcriest*, t. 523.

cymharus a fu yn safle'r beirniad llenyddol mawr hwn a'r modd yr edrychir arno'n awr ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain mewn perthynas â'i amgylchfyd:

Yn lle ei fod ef yn dal diwylliant Cymru yng ngoleuni'r Tragwyddol, aeth Cymru i'w ystyried fel un o gynhyrchion ei diwylliant.²³⁹

²³⁹ R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, t. 168.

Pennod 5

R. M. Jones:

Defnyddio Theori i Amddiffyn y Canon

R. M. Jones: Defnyddio Theori i Amddiffyn y Canon

Wyneb yn wyneb â'r modd y mae Theori wedi cwestiynu'r Traddodiad, nid oes gan y sawl a fydd amddiffyn y Traddodiad ond dau ddewis. Ar y naill law, gall ef ei hun ddefnyddio theori i'w amddiffyn. Ar y llaw arall, gall anwybyddu Theori, a thrwy hynny ei dirymu. Yn hyn o beth, y mae'r dewis yn un tebyg i eiddo'r Cristion sy'n dal i gredu mai'r Beibl yw Gair anffaeledig Duw, er gwaetha'r uwchfeirniadaeth anghrediniol yn ei erbyn.

Dewis defnyddio theori i amddiffyn y Traddodiad a wnaeth R. M. Jones.¹ Ar un olwg, ef yw'r beirniad llenyddol Cymraeg a ymddiddorodd fwyaf mewn theori llenyddol, ac eto, nid yw ei berthynas â'r hyn y mae'r enw 'Theori' yn ei gynrychioli yn un gyfan gwbl esmwyth. Meddai ef ei hun yn *O'r Bedd i'r Crud*: "Theori llenyddiaeth" oedd obsesiwn byd-eang beirniadaeth ... Ond dilynwn innau lwybr go unigryw.² Oherwydd yn groes i'r arfer gyffredin o edrych ar Theori fel modd o herio deongliadau rhagflaenwyr a'u dryllio, gan hyrwyddo amrywiaeth o farnau, defnyddio theori i gadarnhau'r traddodiad llenyddol Cymraeg fel y'i diffinnid gan ei ragflaenydd Saunders Lewis a wnaeth R. M. Jones, a hynny, gan ei fod yn sylfaenol yn rhannu'r un rhagfarn ag ef o blaid y Traddodiad.

Mae'n bwysig sylweddoli hyn, sef mai rhagfarn o blaid y Traddodiad sy'n amddiffyn y Traddodiad – boed y beirniad yn theorïwr neu beidio.³ Amlygu hynny, er

¹ Yn benodol ar draddodiad, gw. R. M. Jones, 'Gwrthryfel yn Erbyn Traddodiad', *Y Traethodydd*, 138 (1983), 116-125; wedi ei addasu yn 'Traddodiad', *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4: Cyfanweithiau Llenyddol* (Aberystwyth, 1988), tt. 583-93; 'Chwyldro yw Traddodiad Hefyd', *Tu Chwith*, 10 (Gaeaf 1998), 116-126; 'Gwahuniaeth a'r Traddodiad', *Barddas*, 245 (Mawrth/Ebrill 1998), 36-7; 'Y Traddodiad yn Arbrofi', *Barddas*, 267 (Ebrill/Mehefin 2002), 26-8.

² Bobi Jones, *O'r Bedd i'r Crud: Hunangofaint Tafod gan Bobi Jones* (Llandysul, 2000), t. 166.

³ Gw. R. M. Jones, 'Traddodiad', *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4: Cyfanweithiau Llenyddol*, t. 585. Mae'n ddi-ddorol sylwi mai 'gormes y blynyddoedd crablyd' yw'r rheswm a rydd R. M. Jones dros 'lithro'n ôl lawer tro i'r rhigol o gyfeirio drachefn at y dreftadaeth uchelwrol fel pe na bai ond hi yn haeddu'r fannod yn yr ymadrodd "y Traddodiad". Mater o gynneddf aeddfed, ac nid rheswm yw. Nodir yma ei fod hefyd yn fater o etifeddu fframwaith beirniadol gan genhedlaeth flaenorol o feirniaid,

enghraifft, y mae'r modd nad yw R. M. Jones yn trafod yn fanwl pa destunau llenyddol Cymraeg sy'n perthyn i'r canon llenyddol Cymraeg, nac ym mha fodd y'u canoneiddiwyd, eithr yn cymryd yn ganiataol fod canon Cymraeg yn bod, fel a wneir yma hefyd ar un olwg.

Yn *Sioc o'r Gofod*, nododd Bobi Jones '[nad] anhawster ysgrythur yw'r hyn sy'n atal credu. Nid anghysondebau. Nid mewn ysgolheictod fel y cyfryw y mae anghrediniaeth yn cael ei wreiddyn o gwbl', eithr 'mewn man arall'. Esboniodd mai rhagfarn yw'r fan honno; pan fo dyn yn 'cymryd ei ragdybiaeth gyntaf yn gwbl ganiataol – fod dyn a'i allu a'i beiriannau rywsut yn fath o dduw'. 'Ac ar yr ochr arall nid oherwydd fod dyn yn cydnabod dibynolrwydd ysgolheigaidd ei dystiolaeth y mae Gair Duw yn gafael mewn dyn marwol.' Yn hytrach, 'yr hyn sy'n rhagdybiaeth gychwynnol ... sy'n bwysig ... [N]id bod dyn yn gallu dod o hyd i'r gwirionedd drwy ei alluoedd ffaeledig a llygredig ei hun. Ond bod y gwirionedd wedi cael ei roi.'⁴

Felly hefyd gyda'r canon llenyddol Cymraeg, neu'r 'traddodiad llenyddol' fel y'i gelwir fynychaf. Fel y nododd Simon Brooks, er bod R. M. Jones yn 'arddel empeiriaeth', 'amodol yw ei sylwadau o blaid gwrthrychedd gwyddonol'.⁵ Ni wêl mai tasg y beirniad neu'r hanesydd llenyddol yw ceisio profi'n wrthrychol fod yna gysylltiad penodol rhwng y naill destun llenyddol a'r llall, a bod yna felly 'Draddodiad', eithr cyn iddo ddechrau darllen, ei ragfarn ef yw nad oes modd i ddim oll fodoli y tu allan i draddodiad, gan gynnwys y beirniad sy'n ysgrifennu amdano, ynghyd â'r beirniaid hynny sy'n cyflwyno dadleuon yn erbyn y Traddodiad. Ysgrifennu oddi mewn i'r Traddodiad y mae ef, felly, gan ddatgan yn 'gwbl agored

fel yr awgryma'r gair 'rhigol'. Cymh. J. E. Caerwyn Williams, 'Hanes Cychwyn *Y Traethodydd*', *Llên Cymru*, 14 (1982-84), 121. '[M]ae'n bur debyg iddo [Lewis Edwards], fel y rhelyw ohonom, fynd yn llai rhyddfrydol ac yn fwy ceidwadol fel yr âi'n hŷn ...'

⁴ Bobi Jones, *Sioc o'r Gofod* (Dinbych, 1971), tt. 66-8.

⁵ Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd, 2004), t. 101.

bod ganddo ei fframwaith syniadol ei hunan, sef “fy nghenedlaetholdeb, fy ieithyddiaeth a’*m* Calfiniaeth”⁶. Dyma olynydd teilwng, felly, i Saunders Lewis a’i ‘ragfarnau gwreiddiol’.

Yn hyn o beth, dadleuir yma mai’r hyn a wnaeth R. M. Jones ydoedd cymhwyso rhai o’r dadleuon yn erbyn uwchfeirmiadaeth at y dasg o amddiffyn y traddodiad llenyddol. Lle y pwysleisiodd J. Cynddylan Jones, er enghraifft, fod yn rhaid wrth ‘ffydd i ddeall gwirioneddau ysbrydol ... “oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt”⁷, pwysleisiodd R. M. Jones yr un modd fod gofyn ar i’r darlennydd o Gymro feddu ar ryw ragolwg arbennig Gymreig ymlaen llaw os ydyw am wir ddeall llenyddiaeth Gymraeg. Rhywbeth ar gyfer y Cymry diddosbarth yw. Fel y gwelir isod, y mae’r rhagolwg hwn yn cynnwys ynddo gynsail ysbrydol-Gristnogol. Ni olyga hynny fod gofyn inni goleddu’r un gwerthoedd yn union â Chymru’r gorffennol; ac eto, er bod ‘llawer o’i thraddodiadau wedi dirywio neu wedi diflannu’, fel y nododd yr awdur wrth [*G*]rwydro Môn, ‘erys rhywbeth, ie llawer, o’r anian hen, yr ansawdd yna sy’n hŷn na John Elias ac yn hŷn na’r ddeunawfed ganrif ac eto’n eu cynnwys hwy hefyd’⁸. Rhaid wrth ryw gymaint o anian yr hen ffordd Gymreig o fyw.

Am ‘ffydd’, meddai J. Cynddylan Jones:

Hi yw y gynneddf sydd yn galluogi dyn i ddâl cymundeb â’r byd ysbrydol. Gall y dyn fod yn ddysgedig, yn athraw yn un o’n colegau; ond os heb gredu a’i ail-eni, iddo ef nid yw gwirioneddau ysbrydol yn bod.⁹

Sylwir mai dyna’r union air, ‘cynneddf’, a ddefnyddiodd R. Geraint Gruffydd i ddisgrifio dawn arbennig Saunders Lewis fel beirniad llenyddol. Amddiffyn y gynneddf honno, ‘yr anian hen’, a wnaeth R. M. Jones, gan ddefnyddio theori

⁶ Ibid., t. 98.

⁷ J. Cynddylan Jones, *Cysondeb y Ffydd: Cyfrol III* (Cardiff, 1912), tt. 9-10.

⁸ Bobi Jones, *Crwydro Môn* (Llandebie, 1957), t. 11.

⁹ J. Cynddylan Jones, op. cit., t. 10.

lenyddol i amddiffyn y Traddodiad. Fel y nododd J. Cynddylan Jones fod ‘ffrwyth Dadguddiad uwchlaw rheswm, er nad croes i reswm’, felly y mae Traddodiad uwchlaw Theori, er nad yn groes i theori yng ngwaith R. M. Jones.¹⁰

Oherwydd y safbwynt hwn sy’n cydnabod rhagfarn o blaid y Traddodiad, ffigwr cymharol unig yw’r theorïwr, R. M. Jones. Ar y naill law, llwyddodd i ddiethrio’r beirniaid empeiraidd sy’n gwadu rhagfarn ac sy’n amheus o unrhyw ddamcaniaeth neu theori lenyddol. Ni ddeallent hwy mo’i Dafod-Mynegiant – hynny yw, y theori strwythurol a gyflwynodd ef am natur iaith a llenyddiaeth – na’i fynegiant chwaith, yn enwedig ar lun ei dablau a’i ddiagramau, ac ni welent fod angen cyfeirio at na Gustave Guillaume na Ferdinand de Saussure na’r un strwythurydd arall wrth drafod peth mor gartrefol â llenyddiaeth Gymraeg.¹¹ Am hynny, fe’i hanwybyddid tan yn gymharol ddiweddar.

Ar y llaw arall, fodd bynnag, oherwydd ei ragfarn bendant o blaid y Traddodiad, nid yw’r theorïwr hwn yn eistedd yn gwbl esmwyth chwaith gyda’r beirniaid llenyddol hynny a fu wrthi’n datgymalu’r traddodiad lenyddol Cymraeg yn enw Theori, gan naill ai cynnig deongliadau newydd ohono neu herio’r cysyniad o draddodiad yn ei grynswth. Gwelir o ragymadrodd John Rowlands i *Sglefrio ar Eiriau* yr edrychai’r golygydd ar feirniadaeth gyfansawdd R. M. Jones fel peth i adweithio yn ei erbyn, a hynny’n benodol gan nad yw’n cynnig gwrandawriad teg i fathau eraill o feirniadaeth.¹² Yn baradocsaid, cysylltwyd gwaith R. M. Jones â gwaith beirniaid llai theoretig-amlwg eu diddordebau nag ef ei hun, megis J. E. Caerwyn Williams ac Alan Llwyd. Yn rhannol, mater o wleidyddiaeth lenyddol yw peth fel hyn, debyg iawn. Ond credir bod rhagymadrodd John Rowlands i *Sglefrio ar Eiriau*, a’r modd na

¹⁰ Ibid., t. 24.

¹¹ Gw. Gwyn Thomas, ‘Iaith o Fewn Iaith’, [adolygiad o R. M. Jones, *Tafod y Llenor*], *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Chwefror 1975, 3.

¹² John Rowlands, *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1991), t. xi.

wahoddwyd nac R. M. Jones nac Alan Llwyd i 'awgrymu cyfeiriadau newydd i feiriadaeth Gymraeg'¹³ yn cynnig rhan o'r ateb i'r cwestiwn a holodd Tony Bianchi yn ddiweddar wrth adolygu'r gyfrol deyrnged *Alan*, sef sut 'yr ieuwyd ym mhrosiect diwylliannol *Barddas* ddau ffigwr mor ymddangosiadol wahanol: Alan Llwyd, y dyn empeiraidd, ymarferol, ac amheus o theori ... a Bobi Jones, damcaniaethwr praffaf ei oes yng Nghymru'.¹⁴ Ond ar wahân i wleidyddiaeth gyhoeddi, nodir y cysylltir y theorïwr a'r gwrth-theorïwr ynghyd gan eu hagwedd at y canon llenyddol Cymraeg fel y'i diffinnid yn anad neb gan Saunders Lewis.

Diffinnid beirniadaeth lenyddol fodern gan yr athronydd Richard Rorty 'as a source for youth's self-description of its own difference from the past'.¹⁵ I raddau, dyna ydoedd 'adeileddeg' i R. M. Jones yntau, sef 'adwaith ... yn erbyn yr abswrdd, y diystyr a'r diamcan a fu mor boblogaidd ym meddwl y gorllewin er y ganrif ddiwethaf', a llwyddodd yntau'n ifanc, wrth gwrs, i bechu'n erbyn rhai o'r tadau beirniadol rhyddfrydol.¹⁶ Eithr er iddo ddefnyddio theori i wrthod rhyddfrydiaeth syniadol T. Gwynn Jones, W. J. Gruffydd, R. Williams Parry a T. H. Parry-Williams, a oedd mor amlwg yn ddylanwad ar ei oes ei hun, yn gyffredinol, modd o goleddu gweithiau'r gorffennol yw theori i R. M. Jones, a modd o amddiffyn y canon.

Ynghylch perthynas 'Theory' a'r 'Canon', nododd David Lodge yn ddiweddar:

One very controversial effect of Theory on the academic study of literature was to undermine the authority of the traditional canon and to install in its place a set of alternative subcanons such as women's writing, gay and lesbian writing, postcolonial writing, and the founding texts of Theory itself.¹⁷

¹³ Ibid.

¹⁴ Tony Bianchi, 'Teyrnged i'r "Brenin Llwyd"', [adolygiad o Huw Meirion Edwards (gol.), *Alan*], *Taliesin*, 120 (Gaeaf 2003), 149–150.

¹⁵ Richard Rorty, *Philosophy and the Mirror of Nature* (Oxford, 1980), t. 168.

¹⁶ R. M. Jones, 'Tri Mewn Llenyddiaeth', *Llên Cymru*, 14 (Caerdydd, 1982–4), 108.

¹⁷ David Lodge, 'Goodbye to All That', [adolygiad o Terry Eagleton, *After Theory*], *The New York Review of Books*, LI.9 (Mai 27, 2004), 39.

Fodd bynnag, nid dyma effaith theori yng ngwaith R. M. Jones o gwbl. Yn wir, i'r gwrthwyneb.¹⁸ Fel arfer, ystyrir bod 'Theori' a 'Chanon' yn dermau cyferbyniol sy'n cynrychioli safbwyntiau croes i'w gilydd. Awgrymwyd hynny yn Lloegr, er enghraifft, yn achos diswyddiad Colin MacCabe o Gaergrawnt yn 1980, a hynny, am ei fod yn dysgu 'strwythuraeth', pan oedd disgwyl i ddarlithwyr, chwedl ei bennaeth, Christopher Ricks, 'gynnal y canon'.¹⁹ Ond yn groes i sylw David Lodge uchod, gwelir bod theori yng ngwaith yr *Athro* R. M. Jones – teitl sy'n dweud rhyw gymaint am y sefydliad addysgol, yn ogystal â'r dyn ei hun – yn cadarnhau'r cysyniad o un canon llenyddol i bawb, a beirnedir yn ddirfawr ganddo'r ymgais, yn enwedig ymhlith beirniaid ffeminyddol, i greu canonau llenyddol newydd.

Fe'i gelwir uchod gan Tony Bianchi yn '[dd]amcaniaethwr praffaf ei oes yng Nghymru', ond nododd R. M. Jones fod 'yna elfen o fwrw amcan mewn damcaniaeth', ond mai'r 'hyn sy'n nodweddu theori yw ei bod yn ddull o nodi un egwyddor sefydlog sydd y tu ôl i amryw ffeithiau neu ffenomenau diriaethol', megis disgyrchiant neu dri pherson y rhagenw.²⁰ A math o egwyddor felly yw'r canon llenyddol iddo ef: theori, nid damcaniaeth, ffaith, gwirionedd, 'un egwyddor sefydlog sydd y tu ôl i amryw' destunau llenyddol. Yn hyn o beth, ar un olwg, nid yw'r canon yn annhebyg iawn i'r hyn a eilw ef yn Dafod.

Yn ei astudiaeth, *Tair Rhamant Arthuraid*, lle y mae'n enghreifftio ei theori Tafod-Mynegiant ar waith, crynhodd R. M. Jones brif fyrdwn y cyfryw theori a gyflwynodd gyntaf yn *Tafod y Llenor*. Meddai:

¹⁸ Cymh. Simon Brooks, op. cit., t. 99. 'Nid yw'n gosod ei fryd ar luosogi hanes yn "hanesion", gan ymward â'r prosiect goleuedig er mwyn dadlau dros lu o wirioneddau.'

¹⁹ Gw. Colin MacCabe, *Theoretical Essays* (Manchester, 1985).

²⁰ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd: Fframwaith Cyflawn Beirniadaeth Lenyddol* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), t. 37.

Ym meddwl pob llenor cyn sgrifennu, mae yna eisoes bob amser ryw gynhysgaeth, rhywfaint o draddodiad, neu 'ddysg' sylfaenol a gafodd gan ei gymdeithas. Dyna a ddefnyddia ef hefyd wrth ei fynegi'i hun mewn iaith. Math o iaith yw llenyddiaeth. Fel y mae yna ramadeg (yn ogystal â geirfa) ym meddwl y sawl sydd am siarad ac ymddiddan, a hynny cyn sgysio'n ystyrllon mewn perthynas normal ddigelfyddyd, a'r gramadeg hwnnw'n sylfaen heb fod ar ffurf brawddegau parod gorffenedig (mewn drorau megis) eithr yn 'fecanwaith' potensial sydd ar gael yn yr ymennydd ar gyfer llunio Mynegiant, felly hefyd fe geir yng nghynhysgaeth y llenor yntau botensial cyffelyb. Dyma 'fecanwaith' y gallwn roi'r enw trosiadol TAFOD arno.²¹

Gwelir o'r dyfyniad nad yw R. M. Jones yn trafod y 'canon' fel y cyfryw. Nid tan ei gyfrol olaf un ar theori lenyddol, sef *Beirniadaeth Gyfansawdd* y gwneir hynny; y trafodir y canon llenyddol wrth ei enw; y gwelir 'Canon' ym mynegai'r llyfr. Nodwyd eisoes amlygrwydd diweddar y gair yn y cyd-destun seciwlar. Ond yng ngoleuni'r hyn a ddywedir am y canon yn *Beirniadaeth Gyfansawdd*, gwelir mai rhan o'r Tafod y cyfeirir ato uchod yw, sef cynhysgaeth, traddodiad a dysg y llenor. Y gallu i ysgrifennu cyn yr hyn a ysgrifennir yw. Termau cymharus yw Tafod, traddodiad a chanon yn ei waith. '[Y] Traddodiad [llynyddol] yw'r gynhysgaeth briodol sydd y tu ôl, debyg i'r Tafod,' meddai.²² A phan ddywed, felly, yn ei gyfrol olaf mai'r 'canon hwn wedi'r cwbl yw'r hyn a ddysgodd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol inni ddarllen' – y gallu i ddarllen cyn darllen unrhyw destun penodol – yng ngoleuni ei theori lywodraethol Tafod-Mynegiant y deallir y sylw hwnnw.²³ Rhan o'r anweledig y tu ôl i'r gweledig yw; Tafod y gellir ei gymryd yn ganiataol, heb sylwi arno. Nododd yn *Seiliau Beirniadaeth* fod 'traddodiad yn anymwybodol hollol'.²⁴ Felly hefyd y canon. Byw yn yr anymwybod y mae.

Ar un olwg, felly, teg nodi nad yw R. M. Jones yn rhoi llawer o sylw uniongyrchol i'r cysyniad o ganon llenyddol. Ac eto, y mae thema fawr ei waith

²¹ Idem, *Tair Rhamaent Arthuraidd: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1998), t. 15.

²² Idem, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 217.

²³ Ibid., t. 241.

²⁴ Idem, *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4: Cyfarweithiau Llenyddol*, t. 566.

beirniadol i gyd – perthynas yr Amryw a’r Un – yn gwbl berthnasol i’r cysyniad o ganon llenyddol. Mynegiant o fewn Tafod, gwrthryfel o fewn Traddodiad, dychan o fewn Mawl, unigolion o fewn cenedl, rhyddid yng nghaethiwed y Ffydd, anhrefn dan derfynau trefn, ansefydlogrwydd dan lywodraeth y sefydlog, y Cwmp yn y Greadigaeth, pechod yng nghyd-destun gras, y darllenydd a addysgwyd gan ei gymdeithas – amrywiadau yw’r rhain oll ar yr un egwyddor ganolog a welir yn ei waith, sef amrywiaeth o fewn undod. Egwyddor ydyw y mae beirniadaeth lenyddol R. M. Jones ar ei hennill ohoni yn sgil ei ddiddordeb mewn dau faes arall, cysylltiedig ond ar wahân, sef ieithyddiaeth a diwinyddiaeth Gristnogol.

Ar y naill law ym maes ieithyddiaeth, ymchwiliodd i’r cyswllt rhwng technegau ailadrodd a chyferbynnu’r plentyn wrth iddo ddysgu iaith, gan weld bod y naill mor angenrheidiol â’r llall, gyda’r ailadrodd yn cynnig fframwiath o undod, ond y cyferbynnu yn caniatáu cyfle i amrywio a datblygu’n ieithyddol.²⁵ At hyn, da y nododd Angharad Price fod dylanwad yr ieithydd Ferdinand de Saussure yn amlwg iawn ar waith R. M. Jones, megis adeileddwyr neu strwythurwyr eraill, gyda ‘[Th]afod yn cyfateb yn fras i *langue* a Mynegiant i *parole*’; y naill yn pwysleisio’r undod a’r llall yr amrywiaeth.²⁶

Ar y llaw arall, fodd bynnag, y mae i egwyddor yr Amryw a’r Un le llywodraethol yn ffydd Drindodaidd y beirniad hwn o Galfinydd.

Ys dywed Donald Guthrie: ‘An entirely new factor was ... introduced with the emergence of the Christian gospel, which led to a development of the monotheistic approach and ultimately to the doctrine of the trinity.’²⁷ Egwyddor yr Amryw yn Un ydoedd y ffactor honno, yn amodi’r pwyslais blaenorol ar unduwiaeth; ac y mae

²⁵ Gw., e. e., *ibid.*, tt. 50-3.

²⁶ Angharad Price, ‘Tyst i Gyfraniad Rhyfeddol ...’, [adolygiad o R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*], *Barddas*, 275 (Rhagfyr/Ionawr, 2003), 55.

²⁷ Donald Guthrie, *New Testament Theology* (Leicester, 1991), t. 112.

pwysigrwydd athrawiaeth y Drindod i'r ffydd Gristnogol yn ddiamheuol. Yn ôl Thomas Charles: 'Y mae holl athrawiaethau sylfaenol y grefydd Gristnogol, sef ein holl iechydwriaeth, yn tarddu o, neu yn gorphwys ar, athrawiaeth y Drindod.'²⁸ O ran cynnwys athrawiaethol y grefydd, cwbl anhepgor yw. Ond gellir ychwanegu at hyn fod perthynas rhwng yr athrawiaeth hon a ffurf lyfrol, ganongaeëdig y ffydd Gristnogol, gan mai Amryw yn Un yw'r naill a'r llall.

Gwelir hyn hefyd yng ngwaith R. M. Jones, sef bod athrawiaeth y Drindod yn ddylanwad eglur ar gynnwys a ffurf ei 'feirniadaeth gyfansawdd'. Yn syniadol, mae'n ddylanwad ar egwyddor yr Amryw yn Un. Yn *Cyfriniaeth Gymraeg*, wrth nodi mai '[h]en bwnc enwog mewn athroniaeth yw perthynas yr un a'r llawer, gyda rhai yn pledio'r eithafbwynt yn yr un, eraill yn y llawer', gwelir mai 'Cristnogaeth Gristnogol' yw sylfaen feirniadol R. M. Jones: 'nid yw'r undod yn Nuw yn fwy sylfaenol na'r amrywiaeth, na'r amrywiaeth yn fwy sylfaenol na'r undod.'²⁹ Ac yn ymarferol hefyd, o safbwynt ffurf ei waith, mae'n drawiadol fod y beirniad hwn bob amser yn edrych ar ei amryfal weithiau megis gwahanol rannau o un rhaglen ymchwil fawr.

Felly, er mai'n anaml y mae R. M. Jones yn trafod y cysyniad o ganon yn uniongyrchol, dadleuir yma ei fod serch hynny yn thema ganolog yn ei waith. Yn wir, wrth holi'r cwestiwn 'ble y mae Beirniadaeth Gyfansawdd ei hun yn arwain?' nododd ef ei hun yn ei gyfrol olaf ar feirniadaeth lenyddol mai'r ateb yw 'At y rheswm dros y canon, y 'dirmygedig' ganon. Hwnnw yw'r corff canolog sydd i'w farnu.'³⁰

Pwyslais cyson R. M. Jones yw fod y naill elfen, amrywiaeth, mor angenrheidiol â'r llall, undod. 'Symleiddio yw pledio'r naill ochr neu'r llall.'³¹

²⁸ Thomas Charles, *Geiriadur Charles* (Wrexham, 7fed arg., 1893), s.v. 'Tri', t. 868.

²⁹ R. M. Jones, *Cyfriniaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1994), tt. 291-2.

³⁰ *Idem*, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 210.

³¹ *Ibid.*, t. 209.

Oherwydd megis y pwysleisiai Sabelius yn y drydedd ganrif fod Duw yn un Person o dri enw, gan felly aros gyda'r Un, ac y pwysleisiai Philoponus a Valentius i'r gwrthwyneb fod yna dri Duw a'u bod felly'n Amryw, sef yn groes i'r gred o Dri yn Un,³² gwelodd R. M. Jones mai'r un yw'r duedd heddiw ymhlith beirniaid llenyddol i naill ai gorbwysleisio'n geidwadol yr undod diogel, neu ddathlu'n 'llancaidd' yr amrywiaeth bendifaddau. Ar y naill law, ymgedwir at ganon sefydlog, digyfnawid, sych. Ar y llaw arall – a dyma hwyrach y bwgan mawr – gwrthodir y cysyniad o ganon llenyddol yn ei gyfanrwydd, neu o leiaf, y syniad o *un* canon llenyddol Cymraeg. Ynghylch triduwiaeth – amrywiaeth duwiau heb undod rhyngddynt – meddai'r diwinydd Wayne Grudem: 'this view would destroy any sense of ultimate unity in the universe: even in the very being of God there would be plurality but no unity.'³³ Felly effaith yr agwedd ôl-foderniadd ym myd beirniadaeth lenyddol, sef lluosedd heb undod. A dyfynnu Simon Brooks: 'ymddiried mewn gwahanrwydd yn hytrach nag undod'.³⁴ Dyma, fel y nododd R. M. Jones, yw'r lluosedd sy'n nodweddu ysbryd yr oes. 'Tyfodd dogma'r lleng' i fod yn '[dd]jull confensiynol bellach', meddai.³⁵ Ac mae'n ddiddorol sylwi y gwelir ef yn codi ei ben mewn efengylyddiaeth gyfoes. Meddai Stuart Olyott, er enghraifft, ac yntau'n ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa efengylaidd: 'many Christians, in their heart of hearts, tend to think of God more in terms of His three-ness than His one-ness. They think of Him more easily as Three than as One-in-Three and Three-in-One.'³⁶

Ond y mae'r naill elfen a'r llall, Amryw ac Un, yr un mor hanfodol â'i gilydd yng ngolwg R. M. Jones, yn y cyd-destun crefyddol a llenyddol fel ei gilydd. Meddai

³² Gw. Thomas Charles, op. cit., t. 867.

³³ Wayne Grudem, *Systematic Theology: An Introduction to Biblical Doctrine* (Leicester, 1994), t. 248.

³⁴ Simon Brooks, 'Holi Simon Brooks', [cyfweiliad gyda John Rowlands], *Taliesin*, 92 (Gaeaf 1995), 36.

³⁵ R. M. Jones, *Cyfriniaeth Gymraeg*, t. 291.

³⁶ Stuart Olyott, *The Three are One* (Welwyn, 1979), t. 87.

yn *Tafod y Llenor*, er enghraifft: ‘Y mae Dynwared yn fath o orffennol; Creu yn ddyfodol. Dynwared yn undod, Creu yn amrywiaeth. Ar y trothwy rhyngddynt yr ydys yn llenyddda ...’³⁷ Felly hefyd yn ei derm ‘Gwahuniaeth’. Mae’r naill elfen a’r llall yn cydweithio – gwahanu ac uno. ‘Mae didoli, dethol a dewis, sef y gweithgareddau cadarnhaol mewn “gwahanu”, yn gyfeiliant i’r gweithgaredd cyfredol o “uno”.’³⁸ Ond yn wyneb y duedd ôl-fodernaidd i ddyrchafu ‘dissonance, separation, disparity, plurality, distinction, change’,³⁹ a thrwy hynny ddatgymalu’r canon, tuedd R. M. Jones, yn enwedig yn ei waith diweddaraf, yw pwysleisio’r elfen o undod; ‘y parhaoldeb, y ffaith fod yna sefydlogrwydd o fath yn y weithred o lenyddda, yn Nhafod yr Iaith ...’;⁴⁰ ac amddiffyn y canon, yr undod sy’n dal yr amrywiaeth, yr ailadrodd o gylch y cyferbynnu. ‘Y cyfan sy’n diffinio’r rhan.’⁴¹ Meddai: ‘Yn sicr, ceir cyfuniadau o werthoedd cadarnhaol sy’n amrywio o gyfnod i gyfnod, o berson i berson. Ond yr un mor sicr, tueddir i ganfod peth cysondeb ym mharhad y canon. [...] [Y] mae rhai gweithiau canonaid yn ymsefydlu’n gyson.’⁴²

Esboniodd R. M. Jones mai’r rheswm am hynny yw’r *Tafod* cyffredin sy’n sicrhau dilyniant ystyrion rhwng awdur a darlennydd. Gan feirniadu’r duedd ddiweddar mewn beirniadaeth lenyddol i ddyrchafu rôl y darlennydd, meddai:

Ond y gwir yw oni bai bod y *Tafod* sydd ym meddwl yr awdur yn cyfateb i’r *Tafod* (ac yn ailadrodd hwnnw) ym meddwl y darlennydd (ynghyd â’r holl amrywiaeth a gwahaniaeth) ni byddai cyfathrebu yn bosib.⁴³

³⁷ R. M. Jones, *Tafod y Llenor: Gwersi ar Theori Llenyddiaeth* (Caerdydd, 1974), t. 285.

³⁸ Idem, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 160.

³⁹ David Wood, ‘Introduction’, gol. idem a Robert Bernasconi, *Derrida and Différance* (Evanston IL, 1988) t. ix.

⁴⁰ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 157.

⁴¹ *Ibid.*, t. 214.

⁴² *Ibid.*, t. 213.

⁴³ *Ibid.*, t. 209.

Y Tafod cyffredin, er enghraifft, sy'n caniatáu i'r awdur presennol ysgrifennu'r bennod hon ar waith beirniadol R. M. Jones, gan ddisgwyl y bydd eraill yn ei deall yn ystyrllon wrth ei darllen. Dyna, er enghraifft, ergyd R. M. Jones ei hun yn *Beirniadaeth Gyfansawdd*. Meddai: '[C]yfrannwn ein dau, ddarllenydd, o'r un adeileddau ieithyddol cudd, fwy neu lai, yn ddigon inni allu amgyffred yr un brawddegau fel arfer, ac i ddeall ein gilydd yn weddol.'⁴⁴ Ac eto, ofnir yma, fel y gŵyr R. M. Jones ei hun wyneb yn wyneb â'i gynulleidfa wrth-theori – na fyddai *pob* darllenydd Cymraeg, pe baent yn digwydd darllen y bennod hon, yn ei deall yn weddol. A hynny, nid oherwydd diffyg deallusrwydd, eithr diffyg cynefindra â math arbennig o iaith mewn maes lled-dechnegol a chymharol ddiarffordd. Nid pawb call sy'n ymddiddori ym maes Theori nac yn gyfarwydd, er enghraifft, â gwaith beirniadol R. M. Jones.

Y tu ôl i'r ysgrifennu hwn – y Mynegiant hwn ar bapur – y mae math o Feirniadaeth Dafod – cynhysgaeth o ddarllen ym maes theori lenyddol a feithrinodd ffordd arbennig o feddwl – sydd bellach yn rhyw ddeng mlwydd oed, er pan ddechreuais ymddiddori gyntaf mewn Theori ac yng ngwaith R. M. Jones (er ei bod cyn hyned â fi fy hun, mewn gwirionedd). Fodd bynnag, oni fydd darllenydd y gwaith hwn hefyd yn rhannu'r un math o ddiddordeb mewn Theori ac yn hyddysg yng ngwaith R. M. Jones, hynny yw, a chanddo'r un math o gynhysgaeth feirniadol yn gefn i'w ddarllen ef ag i'r ysgrifennu hwn, go brin y bydd yn mwynhau darllen y bennod hon o gwbl. Heb Feirniadaeth Dafod gyffredin rhwng awdur a darllenydd, bydd y Mynegiant ar y gorau yn ymddangos yn od; megis yr oedd darllen *Tafod y Llenor* yn ddeunaw mlwydd oed yn dasg agos at amhosib i mi. Bellach, fodd bynnag, wedi deng mlynedd o ddarllen ym maes Theori, a chreu drwy hynny fath o

⁴⁴ Ibid., t. 61.

Feirniadaeth Dafod i mi fy hun – y deall cyn darllen – sydd yn wir yn gyffredin i'r llaweroedd sy'n ymddiddori yn y maes, y mae darllen yr enghraifft hon o Feirniadaeth Fynegiant, *Tafod y Llenor*, yn waith pleserus iawn, a therm anghyfarwydd megis 'Tafod' yn olau oll. Yn sgil datblygu math arbennig o Feirniadaeth Dafod – a hynny drwy ddarllen nifer o lyfrau ar theori lenyddol a sgwrsio â phobl eraill sy'n ymddiddori yn y maes – hynny yw, drwy gyfrwng ymgyfarwyddo â gwahanol enghreifftiau o Fynegiant o fath arbennig ym maes theori a beirniadaeth, ac yn sgil hynny, ddod yn rhan o gymdeithas ddehongli arbennig – y mae'r enghraifft honno o Feirniadaeth Fynegiant, *Tafod y Llenor*, a oedd gynt yn ddieithr, bellach yn gyfarwydd, onid yw hefyd erbyn hyn yn rhan o fframwaith rhagfarnau fy Meirniadaeth Dafod i fy hun, er mai cymdeithasol yw'r Tafod hwnnw, wrth gwrs. Nid awgrymir fy mod yn edrych ar lenyddiaeth Gymraeg yn union fel y'm cyfarwyddwyd i wneud hynny gan R. M. Jones, ac nad wyf wedi heintio ryw gymaint ar ei syniadau wrth imi eu darllen, ond y mae mwyach ddigon yn gyffredin rhyngom inni fedru cyfathrebu â'n gilydd yn weddol gall gan ddefnyddio termau a fyddai'n peri mwy o ddryswch i rai heb gefndir ym maes theori lenyddol.

Goddefer y nodyn hunangofiannol hwn mewn traethawd doethuriaeth, ond nodir y stori ddarllen bersonol hon gan ei bod yn enghreifftio egwyddor bwysig iawn yng ngwaith R. M. Jones, ac sydd, fe greidir, yn herio'r cysyniad o un canon llenyddol Cymraeg. Yr egwyddor honno yw fod modd i Dafod – y '[m]ecanwaith sy'n bodoli yn y meddwl'⁴⁵ – ddatblygu a newid, a hynny yn sgil Mynegiant. A dyfynnu R. M. Jones:

Er fy mod wedi sôn am ryw fath o fyth 'sefydlog' yn gysylltiedig â chyfundrefn iaith a'r gyfundrefn o gyfundrefnau sy'n llunio Tafod a'r drefn sydd y tu ôl i lenyddiaeth, eto gwyddys fod y cwbl o'r drefn sefydlog honno

⁴⁵ Ibid.

yn fywydol. Mae'n datblygu ynddi'i hun. Trefn yw sy'n dawnsio. Mae hefyd yn troi'n Fynegiant personol. Mae'n newid – o hyd – y cyfnewidiol hwnnw. A Mynegiant sydd ar waith, hyd yn oed yn newid Tafod.⁴⁶

O safbwynt y cysyniad o ganon llenyddol, dyma ddweud y mae angen pwyso a mesur ei oblygiadau ymhellach. Oherwydd os yw Mynegiant yn newid Tafod, y cwestiwn sy'n codi yn sgil hynny yw sut y gellir cynnal perthynas rhwng yr egwyddor hon, sef bod modd i Dafod, er gwaethaf ei 'gaeadrwydd', newid,⁴⁷ a'r egwyddor arall honno a nodwyd uchod, sef bod angen i'r darllenydd a'r awdur rannu'r un Tafod â'i gilydd. Oherwydd, yng ngolau'r awgrym yn *Tafod y Llenor* fod Cerdd Dafod y darllenydd yn 'tyfu drwy hanes sy'n wahanol i Gerdd Dafod y llenor',⁴⁸ cyfyd cwestiwn pellach, sef sut y gellir sicrhau bod yr awdur a'r darllenydd – nad ydynt o reidrwydd hyd yn oed yn gyfoeswyr i'w gilydd nac yn rhan o'r un gyfundrefn addysg – yn rhannu'r un Gerdd Dafod â'i gilydd. A hwythau'n byw mewn cymunedau os nad cyfnodau gwahanol, sut y gellir disgwyl iddynt rannu'r un gwerthoedd llenyddol, heb sôn am feddylfryd a bydolwg a hyd yn oed ramadeg pen? Sut y gellir disgwyl i ferch ddigrefydd ddeunaw oed o ryw ardal amhenodol o Gymru heddiw rannu'r un Gerdd Dafod ag R. M. Jones, a choleddu'r un canon llenyddol ag ef? Dyna'r cwestiynau a holir yma.

Ateb R. M. Jones, o leiaf yn rhannol, yw drwy'r canon ei hun. Dyna'n bennaf oll yw swyddogaeth y canon iddo. Yn fwy nag adnodd ar gyfer patrymu Mynegiant newydd, i R. M. Jones arf ar gyfer diffinio'r Tafod Cymraeg yw; ymgais i glymu Cymru'r dyfodol wrth Gymry'r gorffennol a sicrhau parhad y genedl; yr un hen, hen genedl a'i hen, hen werthoedd Cristnogol. Ymgais yw i sicrhau bod Tafod pob un aelod o'r genedl honno yn newid gyda'i gilydd. Oherwydd mae'r canon llenyddol

⁴⁶ Ibid., t. 89.

⁴⁷ Idem, *Tair Rhamant Arthuraid*, t. 81.

⁴⁸ Idem, *Tafod y Llenor*, t. 283.

iddo '[yn] rhan o ffurfiad pobl ac yn symbol o'u cadarnhad'.⁴⁹ Un canon ar gyfer un bobl yw. Dyna pam y mae mor flin gyda rhai am '[ganiatáu] rhai pethau go wachul i'r "Canon"', gan fod i hynny oblygiadau cymdeithasol.⁵⁰ Mae'r hyn y bydd plant Cymru yn ei ddarllen yn yr ysgol, a myfyrwyr Cymraeg yn y prifysgolion o'r pwys moesol mwyaf. Megis yn achos Saunders Lewis, ac er gwaethaf ei bwyslais ar lenyddoldeb, y mae i'r canon ddiben gwleidyddol iddo, sef cynorthwyo'r Cymry i fyw. Y mae tuedd i'r cymhelliad cenedlaethol hwn fynd ar goll ym Meirniadaeth Gyfansawdd R. M. Jones, gan mai un wedd ar Ddeunydd yw cyd-ddyn iddo.⁵¹ Ac eto, diben y pwyslais ar undod – ar ddiogelu'r canon – yw pwysleisio arbenigrwydd a gwahanrwydd y Cymry, pobl a chanddynt eu canon llenyddol eu hunain. Pobl a chanddynt 'Aneirin a Chynddelw Brydydd Mawr, Tudur Aled a Williams Pantycelyn' yn eiddo iddynt.⁵² Ar dro, bydd enwau'r awduron canonaid Cymraeg a grybwyllir gan y beirniad yn newid, pan roddir pedwar neu bump ohonynt ynghyd i enghreifftio'r undod ymhlith yr amryw, ond yr un yw'r egwyddor, sef bod 'Taliesin, Tudur Aled, Williams Pantycelyn, fel Alan Llwyd heddiw' yn mynegi'r un weledigaeth ar gyfer yr un garfan o bobl.⁵³ Ys dywed y beirniad yn *Ysbryd y Cwlwm*:

y mae i'r genedl le diamheuol fel ysgogiad llenyddol, fel testun, ac fel fframwaith i'r Ffurf lenyddol fwyaf sylweddol a fedd unrhyw lenyddiaeth ... sef y Traddodiad.⁵⁴

Yr her, fodd bynnag, i'r syniad hwn o un canon ar gyfer pawb, wrth gwrs, yw'r amrywiaeth cefndiroedd sy'n nodweddu siaradwyr y Gymraeg heddiw, gan gynnwys, a dyfynnu Robert Rhys, '[y] rhai hynny nad ydynt yn gallu elwa ar

⁴⁹ Idem, *Ysbryd y Cwlwm* (Caerdydd, 1998), t. 3.

⁵⁰ Idem, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 156.

⁵¹ Ibid., t. 11.

⁵² Ibid., t. 190.

⁵³ Ibid., t. 199.

⁵⁴ Ibid., t. 108.

fagwraeth draddodiadol ddiwylliedig Gymraeg (ac nad yw eu hymateb chwaith yn cael ei gyflyru na'i gyfyngu gan fagwraeth o'r fath)',⁵⁵ hynny yw, y rhai nad ydynt o reidrwydd yn gyfarwydd â'r hen ffordd Gymreig, Gristnogol neu Gristnogol-gysylltiedig o fyw. Yn achos y cyfryw rai, cyfyd y cwestiwn, felly, sut y gellir disgwyl iddynt goleddu'r un gwerthoedd a'r un ymateb llenyddol ag eiddo R. M. Jones, heb sôn am yr un canon llenyddol. Rhaid cofio nad pawb a all ddewis ymhle y mae am fyw a gweithio i'r un graddau ag a wnaeth R. M. Jones ei hun, gan symud o Lanidloes i Langefni, er enghraifft, 'er mwyn fy nhrwytho fy hun mewn amgylchfyd cymdeithasol uniaith am ychydig o flynyddoedd', nad yw ysywaeth yn bod.⁵⁶

Nododd Robert Rhys mai'r dull trochiad yw'r dull hawsaf a mwyaf uniongyrchol o gyflawni hyn oll. Cafwyd amgrym o hynny yn y stori ddarllen bersonol uchod. Ystyrir bod yn rhaid 'trwytho'r darllenwyr yn y cefndir diwylliannol Cymreig, cyflwyno'r "ymadroddion iachus" iddynt a'u dysgu pryd i'w defnyddio, ceisio eu gwneud *nhw* yn debyg i *ni*'. Trwy hynny, gallant hwythau berchenogi 'ein traddodiad llenyddol'. Fodd bynnag, yn gywir iawn, ychwanegodd Robert Rhys y gall y dull trochiad 'o'i gymhwyso at gyd-destun llenyddol ... arwain at gyflyru diwylliannol o'r math mwyaf amrwd'.⁵⁷ Wedi'r cyfan, y mae hynny'n gwbl groes i'r syniad mai tyfu o brofiad grŵp o bobl y mae unrhyw ganon y disgwylir iddynt gyfeirio ato fel adnodd ar gyfer diffinio eu hunaniaeth gyffredin. Rhaid wrth fwy o ddeialog na'r dull trochiad, felly.

Model addasach na'r un addysg drochi ar gyfer y gwaith o gyflwyno'r canon i ddarllenwyr na chawsant eu codi mewn cartrefi lle'r oedd copïau o *The Oxford Book of Welsh Verse, Gwaith Dafydd ap Gwilym, Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, ynghyd â detholiad parchus o weithiau gan lenorion a beirdd amlycaf yr ugeinfed ganrif yn

⁵⁵ Robert Rhys, 'Dysgu Darllen', gol. John Rowlands, *Sglefrio ar Eiriau*, t. 151.

⁵⁶ Bobi Jones, *O'r Bedd i'r Crud*, t. 112.

⁵⁷ Robert Rhys, 'Dysgu Darllen', op. cit., t. 151.

cadw cwmni i'w gilydd yn y parlwr cefn, efallai, yw cysyniad arall o fyd caffael ail iaith, sef rhyngiaith. Cyfyd fwy o gwestiynau nag y mae'n eu hateb, heb os, ond fe'i crybwyllir yma mewn perthynas â'r egwyddor fod modd i Dafod newid, oblegid term yw rhyngiaith sy'n disgrifio math arbennig o Dafod ail iaith sy'n graddol ddatblygu o hyd. Tafod symudol yw sy'n trawsnewid yn barhaus, wrth i'r dysgwr barhau i ddatblygu fframwaith gramadegol ei iaith newydd. I'r perwyl hwn, enghreifftia'r egwyddor fod Tafod yn newid drwy Fyngiant, sy'n wir hefyd am yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Ys dywed David A. Thorne: 'Y mae'r Gymraeg fel pob iaith arall mewn cyflwr parhaol o newid ac y mae hynny'n golygu, wrth gwrs, fod gramadeg yr iaith yn ogystal yn newid.'⁵⁸

Fel y nododd Rod Ellis, bathwyd y term 'rhyngiaith' gan yr ieithydd Larry Selinker, 'in recognition of the fact that L2 learners construct a linguistic system that draws, in part, on the learner's L1 but is also different from it and also from the target language'.⁵⁹ Yn ymarferol sylwodd ieithyddion fod, a dyfynnu Delyth Jones, 'ymadroddion y dysgwr yn gwahaniaethu oddi wrth ei iaith gyntaf ar un llaw, ac oddi wrth yr iaith darged ar y llall', a bod 'nifer o ymadroddion dysgwyr (*sic*) [yn] codi oherwydd dylanwad ei famiaith ar ei ail iaith'.⁶⁰ O gymhwyso hyn at y syniad o gyflwyno canon llenyddol i gynulleidfa anghyfarwydd, i'r rhai nas magwyd yn y 'cefnidir diwylliannol Cymreig', er enghraifft, awgrymir nad yw meistrolï Mynegiant llenyddol newydd – er enghraifft, gweithiau'r canon llenyddol Cymraeg – yn rhwym o esgor ar gopi perffaith o'r Tafod hwnnw a roes fod i'r cyfryw Fyngiant yn y lle cyntaf. Yn hytrach, modd ydyw o greu math o ryngDafod newydd, wrth i'r canon llenyddol newydd – y Mynegiant – gael ei ddarllen o du cyfeiriad Tafod blaenorol, sydd, er yn cael ei amodi gan y Mynegiant newydd, yn wahanol i'r Tafod a roes fod

⁵⁸ David A. Thorne, *Gafael Mewn Gramadeg* (Llandysul, 2000), t. viii.

⁵⁹ Rod Ellis, *Second Language Acquisition* (Oxford, 1999), t. 33.

⁶⁰ Delyth Jones, *Cyflwyniad i Ddwyieithrwydd* (Aberystwyth, 1997), tt. 46-7.

iddo yn y lle cyntaf. Fel y nododd R. T. Jenkins, ni all beirniaid ‘atgyfodi’r pethau yn y gorffennol sydd wrth eu bodd hwy [elfennau o Fynegiant, er enghraifft], heb atgyfodi’r *cwbl* o’r cymhleth cymdeithasol yr oedd y ffeithiau hynny’n rhan ohono [sef Tafod y gymdeithas].⁶¹ Mae’r effaith, felly, yn wahanol iawn i’r syniad o drochiad llwyr.

Heb os, y mae hwn yn awgrym y mae angen ystyried ei oblygiadau’n fanylach. Wedi’r cyfan, awgrym peryglus yw, ar un olwg – o leiaf, os arhosir gyda’r rhyngDafod heb geisio ymgynraedd at y Tafod newydd – ac awgrym a fyddai’n fêl ar fysedd unrhyw ddadadeiladwr o werth. Oherwydd yn gyffredinol, ‘Tafod cyffredin’ a chanon cyffredin yw ‘Tafod’ a ‘chanon’ i R. M. Jones, ac mae hynny’n golygu pobl yn cydrannu math o fydolwg cyffredin, nid yn unig rhwng cyfoeswyr a’i gilydd, ond hefyd rhwng Cymry heddiw a Chymry’r gorffennol. A chyfan gwbl groes i hynny, wrth gwrs, yw unrhyw sôn am ryngDafod newydd a rhyw wamalu rhwng dau Dafod gwahanol, gan felly greu un newydd, os nad sawl un newydd. Y mae’n herio’r syniad fod modd diffinio Cymreictod mewn perthynas ag unrhyw un peth. Ond nodir y ddamcaniaeth yma yn sgil arsylwi sefyllfaoedd lle y mae nifer y dysgwyr a’r siaradwyr o gefndiroedd di-Gymraeg yn fwy niferus na’r siaradwyr mamiaith. Ystyrier, er enghraifft, yr ystadegau a nodir gan Gwilym E. Humphreys, prifathro cyntaf Ysgol Gyfun Rhyfelen, yn ei hunangofiant, *Heyrn yn y Tân*, sy’n nodi’r cynnydd eithriadol yn nifer y disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg sy’n derbyn addysg Gymraeg. Yn 1962, ‘roedd 58% o’r disgyblion o gartrefi lle’r oedd y tad a’r fam yn *medru* siarad Cymraeg ond roedd y ganran hon i ddisgyn i 23% erbyn 1972, i 5% yn 1982, ac mae’r ffigur yn is eto (tua 1% neu lai) erbyn hyn’.⁶² Yn y fath sefyllfa, rhaid holi a yw addysg drochi yn arwain at ‘drochiad llwyr’, ynteu at

⁶¹ R. T. Jenkins, *Yr Apêl at Hanes* (Wrecsam, 1931), t. 168.

⁶² Gwilym E. Humphreys, *Heyrn yn y Tân* (Caernarfon, 2000), t. 71.

amrywiadau newydd yn yr iaith Gymraeg. Ac oni all y disgyblion o gartrefi Cymraeg hefyd drochi yn rhyngiaith eu cyfeillion?

Nododd Selinker mai o gylch pump y cant yn unig o ddysgwyr sy'n llwyddo i ddatblygu'r un fframwaith gramadegol â siaradwyr brodorol. Un o'r pump y cant hwnnw, wrth gwrs, yw R. M. Jones. Ond tuedd y mwyafrif llethol yw 'gwrthgilio' – term crefyddol-ieithyddol, yn ddiddorol iawn – ac ailadrodd y gwallau hynny a ddatblygwyd yn gynnar yn y broses o ddysgu ail iaith. Nid yw hynny'n broblem i sefydlogrwydd unrhyw iaith, wrth gwrs, cyhyd ag y bo'r 'gwrthgilwyr' hyn yn lleiafrif.⁶³ Ym model ymddiwyllio John Schumann, y delfryd yw bod y grŵp ail iaith yn un bach, ond bod y cyswllt cymdeithasol rhwng aelodau'r grŵp hwn a grŵp siaradwyr brodorol yr iaith yn ddwys ac yn aml. Oherwydd yn sgil y rhwydweithiau cymdeithasol dwys gall iaith frodorol y mwyafrif ddylanwadu ar ryngiaith y dysgwyr, a'u galluogi hwy i ymDafodi ymhellach, neu 'ymddiwyllio,' a defnyddio term John Schumann, nes y bo'r gwahaniaeth rhyngddyn 'nhw' a 'ni' yn diflannu.

Yn wahanol i'r myfyrwyr hynny y cyfeiriodd Gwilym E. Humphreys atynt, dyma sut y dysgodd R. M. Jones y Gymraeg, ac yntau'r dysgwr ar adegau 'yn lleiafrif o un'.⁶⁴ Er ei fod yn astudio'r iaith yn y Brifysgol, dechreuodd siarad yr iaith am y tro cyntaf yng Nghwm Gwendraeth, nid gydag athrawon a chyd-fyfyrwyr ond gyda ffermwyr a ffermwragedd:

Ymaflyd yr oeddwn bellach ym modolaeth lawn y diriogaeth a oedd yn eiddo i'm hisymwybod, ei pherthynas, ei serchiadau, ei hawl arnaf. Yr oeddwn yn gwneud mwy nag ymgodymu â geirfa a chystrawennau. Yr oeddwn yn ymgodymu o'r tu mewn â pherthynas â'r iaith.⁶⁵

⁶³ Cymh. Clive Betts, *Culture in Crisis* (Wirral, 1976), t. 92. 'For years the policy in the heartland counties has generally been to allow English speakers to be naturally integrated into the local school, as a minority is integrated almost everywhere. The policy began to break down when the immigrants exceeded the native speakers.'

⁶⁴ R. M. Jones, *O'r Bedd i'r Crud*, t. 77.

⁶⁵ *Ibid.*, t. 87.

Daeth, meddai, wedi'r ymweliad â ffarm Bryn Gwyddyl, Bancffosfelen, a Thŷ Gwyn,
Crwbin, Cwm Gwendraeth,

adref maes o law yn Gymro Cymraeg o'r wlad hud honno, yn barod i ymgodymu â llenyddiaeth Gymraeg o'r tu mewn, yn un ohonyn 'nhw' megis, yn blentyn di-chwys mwyach. Wedi fy nal mewn plentyndod newydd.⁶⁶

Pan ddywed yr awdur amdano yn mynd allan i'r caeau gyda John Evans, Bryn Gwyddyl, 'a'r Gymraeg a barablai o wawr wen hyd fachlud coch ... wedi ymglymu wrth ei gilydd ar fy nhafod yn dwt', nodir yma fod y sgysiau Mynegiant hynny, nid yn unig yn glanio ar ei dafod, ond ar ei Dafod hefyd.⁶⁷ Yn unol â model ymddiwyllo John Schumann, wele'r dysgwr yn gwllwm o rwydweithiau cymdeithasol tynn ac yn defnyddio'i iaith newydd yn gyfrwng i'w fywyd. Cymaint felly nes iddo, ar ddychwelyd i Gaerdydd ac i gapel Minny Street, deimlo ei fod 'yn symud ymlith fy mhobl fy hun'.⁶⁸ Nid mater o gaffael iaith, fel y cyfryw, yw'r dysgu mwyach, ond mater o gaffael pobl ac ymdoddi i'w diwylliant; symud o'r ymylon i'r canol; dod yn un ohonyn 'nhw', nes y bo'r 'nhw' hwnnw'n ymdroi'n 'ni', a'r gymdeithas yn Minny Street yn 'gymdeithas a oedd yn ddelfryd o Gymru'.⁶⁹ Y mae sylweddoli hyn yn berthnasol wrth ymdrin â'r canon llenyddol Cymraeg yng ngwaith R. M. Jones. Nid yn gymaint am mai mewn capel anghydfurfiol Cymraeg y daeth o hyd i Gymru ac i'r gymdeithas honno barhau iddo'n ddelfryd, ond am ei fod yn ailadrodd yr ymadrodd 'o'r tu mewn' ddwywaith yn y dyfyniadau uchod, ac iddo gymhwyso'r egwyddor hon at ddarllen llenyddiaeth Gymraeg. Fel y nododd T. J. Morgan fod angen '[c]ynefindra llwyr a gwybodaeth 'fewnol' [o'r iaith] i drafod cystrawennau iaith', felly y

⁶⁶ Ibid., t. 87.

⁶⁷ Ibid., t. 86.

⁶⁸ Ibid., t. 88.

⁶⁹ Ibid., t. 88. Cymh. Saunders Lewis, gol. Mair Saunders Lewis, Ned Thomas a Harri Pritchard Jones, *Saunders Lewis: Letters to Margaret Gilchrist* (Cardiff, 1993), t. 191. 'I long to be back among them [the Welsh people] and home again, - and home for me means then the other side of Offa's Dyke.'

cymhwysodd R. M. Jones yr egwyddor hon at drafod llenyddiaeth Gymraeg.⁷⁰ Dim ond y sawl sy'n ysgrifennu o'r tu mewn i'r traddodiad sy'n medru ei werthfawrogi'n iawn.

Yr hyn sy'n eironig am grefydda cynnar R. M. Jones, fodd bynnag, yw i'r gweithgarwch cymdeithasol hwn ar un olwg droi'n fodd iddo bellhau oddi wrth y Gymru Gymraeg honno yr oedd yn ei cheisio ond a oedd bellach wedi llyncu'r uwchfeirniadaeth honno a wadai anffaeledigrwydd y Beibl. Oherwydd er ei fod ar un adeg yn '[m]ynd gyda'r lliaws call anghrediniol ... a mynd gyda rhai ohonynt yn weddol reolaidd i gapel',⁷¹ mewn oedfa hwyrol yng nghapel China Street, Llanidloes yn haf 1953 daeth tro ar fyd. 'Dyma f'ysbryd am y tro cyntaf yn diuno', meddai'r awdur.⁷² Cynt 'amheuaeth wedi'r cwbl oedd yr awyr a anadlwn felly – fel pawb arall',⁷³ ond bellach,

Rhaid yn awr oedd rywfodd ymwarded â dyn fel penarglwydd, ymwarded â'r grefydd syniadol a moesegol naturiolaid, ymwarded â phob cais i glytio at ei gilydd grefydd wneuthuredig, a gwacáu'r pothell.⁷⁴

Lle'r oedd cynt yn gydymffurfiol gymdeithasol amheugar 'fel pawb arall', yn sgil ei dröedigaeth Gristnogol, yr oedd ar un olwg 'wedi dod yn fwgan i rywrai'.⁷⁵ Nid adildroddir hanes y dröedigaeth honno yma, dim ond crynhoi i'r awdur yn ei sgil fethu â dod o hyd i gapel addas yng Nghaerfyrddin gan mai '[t]lawd oedd bywyd profiadol y Cymry bellach oherwydd y toriad yn eu hetifeddiaeth', ac iddo 'ddisgyrchu yn ôl i'r Eglwys Wladol a'r Llyfr Gweddi'.⁷⁶ Yn yr hen lyfr hwnnw y câi ei gymdeithas yn awr. Yn y gwaith hwnnw a gyfieithodd Williams Salesbury yn 1567

⁷⁰ T. J. Morgan, 'Rhagair', *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952), t. viii.

⁷¹ R. M. Jones, *O'r Bedd i'r Crud*, t. 104.

⁷² *Ibid.*, t. 114.

⁷³ *Ibid.*, t. 107.

⁷⁴ *Ibid.*, t. 116.

⁷⁵ *Ibid.*, t. 115.

⁷⁶ *Ibid.*, t. 128.

y daeth o hyd i'r Mynegiant a oedd yn tystio i'r un Tafod tân a'r eiddo ef ei hun. Roedd y 'gorffennol dyfnaf bellach yn bresennol', meddai.⁷⁷ Ac yn sgil ei dröedigaeth Gristnogol, daeth llenyddiaeth Gymraeg iddo yntau'n 'faeth', fel yr oedd i Saunders Lewis. Yr oedd 'wedi ymhél â'r traddodiad Cymraeg hwn ers tro', ond bellach yn sgil ei droi at Grist, ychwanegodd,

Nid oeddwn wedi'i adnabod *o'r tu mewn* megis, wedi cytuno ag ef yn f'esgym, ymdeimlo â'i gorneli am f'ysgwyddau, a'i brofi'n faeth. Bellach daeth yn gyfoes graff ac yn fywyd i'm hysbryd ac yn berthnasol afaelgar.⁷⁸

Mwyach yr oedd yn darllen cerddi a chwedlau'r canon Cymraeg – yr un enghreifftiau o Fynegiant llenyddol – mewn ffordd gyfan gwbl wahanol, a hynny, gan ei fod bellach yn rhannu'r Tafod Cristnogol Cymraeg a oedd yn gefndir iddynt. Ac yn rhannol, ystyr Tafod iddo yw hynny'n union, sef adnabod 'o'r tu mewn', megis y nododd J. R. Jones fod Gruffydd ab yr Ynad Coch yn '[e]drych ar gwyp Llywelyn, fel petai, *o'r tu mewn i'r traddodiad*'.⁷⁹ Yn wir, cyn bwysiced yr egwyddor nes iddi ddatblygu'n faen prawf beirniadol yng ngwaith R. M. Jones.⁸⁰ Yn *Cyfriniaeth Gymraeg*, er enghraifft, beirnedir 'ysgolheigion cymharol seciwlar neu bobl weddol bell oddi wrth draddodiad uniongred rhywun tebyg i Ann Griffiths' am astudio '*o'r tu allan* waith rhai pobl ddawnus a go arbennig, llenorion neu emynwyr neu Gristnogion sy wedi ysgrifennu am eu profiad dilys o Dduw'.⁸¹ Effaith hyn yw fod R. M. Jones yn gwarafun i'r rhai na chawsant yr un profiadau ysbrydol ag Ann Griffiths ei hun feddiannu'r canon llenyddol Cymraeg yn nhermau 'maeth'.

⁷⁷ Ibid., t. 138.

⁷⁸ Ibid., t. 138. F'italieddio i.

⁷⁹ J. R. Jones, *Ac Onide* (Llandybie, 1970), t. 145. Ei italeiddio ef.

⁸⁰ Cymh. Bobi Jones, *Sioc o'r Gofod*, t. 22. 'Os ydym ni'n tybied, *cyn mynd at Gristnogaeth*, mai mater i'w ddadansoddi sy gynnon ni gerbron ac y gallwn ni edrych ar hyn o'r tu allan, ddeallwn ni fyth mo Gristnogaeth.' Ei italeiddio ef. Credir y gellir cyfnewid y gair 'Cristnogaeth' am 'lenyddiaeth Gymraeg' i egluro ei safbwynt beirniadol.

⁸¹ Idem, *Cyfriniaeth Gymraeg*, t. x. F'italeiddio i.

Nodwyd yn achos y Testament Newydd mai tyfu yn rhan o brofiad carfan o bobl a wnaeth y canon hwnnw. A dyna yw'r canon llenyddol Cymraeg i R. M. Jones hefyd. Yr hyn sy'n anodd i ambell Gymro a Chymraes ei dderbyn heddiw, fodd bynnag, yw ei fod yn diffinio'r bobl honno, ynghyd â'r canon, nid yn unig mewn perthynas â'u cenedligrwydd, eithr hefyd Gristnogaeth hanesyddol Gymraeg. '[I] Owen Edwards nid oedd gwahaniaeth rhwng ER MWYN IESU ac ER MWYN CYMRU.'⁸² A rhaid cofio i Saunders Lewis, ac yntau'n siarad ar ran y tri phrotestiwr yn 1936, nodi iddynt baratoi esboniad ar gyfer 'ein cyd-wladwyr a'n cyd-Gristnogion', ac apelio at '[f]arn Cymru Gristnogol'.⁸³ '[G]wareiddiad cynnes Cristnogol' ydoedd gwareiddiad Cymru i Lewis Valentine yntau.⁸⁴ Felly hefyd y gwêl R. M. Jones '[nad] dau beth gwahân yw Cristnogaeth a Chymru. Derbyniwyd y naill a'r llall gan yr un bobl.'⁸⁵ Y gwahaniaeth, fodd bynnag, yw na ellir mwyach ragdybio bod pob Cymro Cymraeg a fedr fod yn aelod o reithgor heddiw yn Gristion, ac am hynny, y mae'r ddadl hon bellach yn un wleidyddol beryglus. Oherwydd pen draw'r rhesymu hwn, wrth gwrs, yw awgrymu mai'r unig wir Gymro yw'r Cristion Cymraeg, ac yn yr hinsawdd wleidyddol orgywir sydd ohoni heddiw annog adwaith negyddol a wnâi hynny.

Y mae i'r arfer anrhydeddus hon o gyplysu cenedlaetholdeb a Christnogaeth ynghyd, felly, oblygiadau pendant iawn ar gyfer dyfodol y canon llenyddol Cymraeg, a hynny, gan mai lleiafrif bychan heddiw o Gymry Cymraeg sy'n edrych ar bopeth yng ngoleuni'r Beibl a'u perthynas â Christ, eithr yn credu bod 'pob barn gystal neu

⁸² Anhysbys, 'Rhagair', *Er Mwyn Cymru* (Wrecsam, 1922), t. ii.

⁸³ Saunders Lewis, *Paham y Llosgasom yr Ysgol Fomio : gan Saunders Lewis a Lewis Valentine* [pamffled], (Cyhoeddiadau'r Blaidd Genedlaethol, Caernarfon, 1937), tt. 16-17.

⁸⁴ Lewis Valentine, *ibid.*, t. 23.

⁸⁵ R. M. Jones, *Ysbryd y Cwlwm*, t. 433. Cymh. Saunders Lewis, 'Y Teulu', *Canlyn Arthur* (Llandysul, 1985), t. 52. 'Mentwrn ddweud bod mwy o ôl Cristnogaeth ... ar fywyd Cymru nag ar fywyd Lloegr. Y mae Cristnogaeth yn hŷn gennym ni; ffurfiodd ein bywyd yn ddyfnach.' O safbwynt y syniad o Dafod, cymh. Saunders Lewis, 'Cenedlaetholdeb a Chyfalaf', *Canlyn Arthur*, t. 20. 'Pan ffurfiwyd Cymru, pan luniwyd yr enw a llunio'r iaith, yr oeddym eisoes yn Gristnogion. Delfrydau Cristnogaeth a bennodd ein meddwl.'

gynndrwg â'i gilydd'.⁸⁶ Yn *Mawl a Gelynyon ei Elynion*, cyfeiriodd R. M. Jones at y newid sylfaenol a welwyd ym meddwl y gymdeithas yn hanner olaf yr ugeinfed ganrif, ac sydd mor bellgyrhaeddol nes y bo angen ei disgrifio ar lefel 'isymwybod' a 'rhagdybiau'. Meddai:

ymsefydlodd rhai safonau "academaidd" amheus ac arddelid rhai safbwyntiau isymwybodol "newydd" gan y gymdeithas. Ymddangosai fel petaent yn ceisio tanseilio'r rhagdybiau cadarnhaol ac adeiladol sydd, i'm bryd i o leiaf, yn orfodol.⁸⁷

Wyneb yn wyneb â'r newidiadau rhagdybiaethol hyn sydd ymhlith nodweddion eraill yn gyfrifol am geisio 'newid yr enw "Christmas" i "Winter Holiday" a dileu Gŵyl y Pasg yn gyfan gwbl',⁸⁸ rhaid holi pa ddyfodol sydd i'r canon llenyddol Cymraeg, o gofio bod '[y] meddwl Cristnogol, beth bynnag fo'n barn ni heddiw amdano, wedi llunio cryn dipyn ar nod ac ar athrawiaeth ein llenyddiaeth ni erioed'.⁸⁹ Gyda'r G.I.C. yn ddiweddar yn ystyried tynnu'r Beibl o ysbytai Prydain, rhaid holi ai peth sy'n perthyn i oes a diwylliant arall yw'r canon llenyddol Cymraeg.

A gwerthfawrogir mor ddyrys yw'r sefyllfa hon o gofio bod theori lenyddol gyfoes yn tueddu i edrych ar y canon a'i destunau llenyddol, nid yn nhermau 'an entity independent of interpretation and (ideally) responsible for its career', ond, a dyfynnu Stanley Fish, 'as the consequence of our interpretive activities'.⁹⁰ Crynhoi'r sefyllfa ym maes theori gyfoes yr oedd Kevin J. Vanhoozer pan nododd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif '[that] [i]nterpretaion in our time is less a matter of what a text says

⁸⁶ Gw. Bobi Jones, *Crist a Chenedlaetholdeb* (Cyhoeddiadau Gwasg Efengylaidd Cymru, 1994).

⁸⁷ R. M. Jones, *Mawl a Gelynyon ei Elynion* (Cyhoeddiadau Barddas, 2002), t. 41.

⁸⁸ *Ibid.*, t. 392.

⁸⁹ *Idem*, *Llên Cymru a Chrefydd* (Abertawe, 1977), t. 13.

⁹⁰ Stanley Fish, *Is There a Text in This Class? The Authority of Interpretive Communities* (London, 1980), t. 13.

than of what the reader does with it, or rather, of who the reader is'.⁹¹ Gwelir mor fregus, felly, yw dyfodol y canon llenyddol Cristnogol Cymraeg, os gwir dweud mai darllenwyr heddiw sy'n gyfrifol amdano.

Ar un olwg, dyma'r gwahaniaeth mawr rhwng strwythuraeth ac ôl-strwythuraeth, ac sy'n rhan o'r newid safbwyntiol y cyfeirir ati uchod. Ys dywed Madan Sarup:

While structuralism sees truth as being 'behind' or 'within' a text, post-structuralism stresses the interaction of reader and text as a productivity. In other words, reading has lost its status as a passive consumption of a product to become performance.⁹²

Yng nghyd-destun y canon, ystyr y cyfryw 'berfformiad' yw nad rhagoriaethau'r testunau eu hunain sy'n gyfrifol am eu statws anrhydeddus yn y canon, ond yn hytrach ddeongliadau'r darllenwyr a briodolodd iddynt y rhagoriaeth honno, ac sy'n dweud cymaint amdanyn nhw â'r testunau eu hunain. Nid heb ddarllenwyr y crëir canon. Cydnabod hynny yr oedd R. M. Jones wrth gyferio at ein 'tuedd i glosio at Hywel ab Owain Gwynedd ac at Ruffudd ab yr Ynad Goch oherwydd yr elfen bersonol' yn hytrach na 'bardd megis Cynddelw Brydydd Mawr', gan felly 'fawrygu rhai llenorion y buasai cynulleidfaoedd ar y pryd heb eu cyfrif ar ganol llwyfan y prifeirdd'. Meddai:

Ni'r Rhamantwyr sy'n gwneud hynny, a mentraf awgrymu – yn haerllug wrth gwrs, ac yn wyneb hawliau humanlywodraethol chwaeth a ffasiwn – ein bod yn hyn o beth yn llygad ein lle.⁹³

⁹¹ Kevin J. Vanhoozer, *Is there a meaning in this text? : The Bible, the reader and the morality of literary knowledge* (Leicester, 1998), t. 149.

⁹² Madan Sarup, *An Introductory Guide to Post-Structuralism and Postmodernism* (Harlow, 1993), t. 3.

⁹³ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 218. Cymh. Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg : Y Gyfrol Gyntaf: Hyd at 1535* (Caerdydd, 1932), tt. 14-5. Ymddengys fod S.L. fel pe bai'n dadlau fel arall.

Ni'r Rhamantwyr, felly, sy'n dewis testunau'r canon. Oherwydd fel y dywedodd R.

M. Jones am feirmiadaeth lenyddol

Y man cychwyn anochel wrth gwrs yw nid y gerdd ei hun. Bydd y darllenydd yn dod at honno ar sail ei ddoniau etifeddol yn ogystal ag ar sail dylanwadau magwraeth ac amgylchfyd parod.⁹⁴

Mae'n dilyn, felly, fod diffinio'r 'ni' hwnnw o'r pwys mwyaf.⁹⁵

Oherwydd ar un olwg, gwrthddywediad cynnil yw'r ymadrodd hwn – 'Ni'r Rhamantwyr' – sy'n llwyddo i gyfleu'r ddeinameg rhwng goddrychedd a gwrthrychedd yng ngwaith R. M. Jones, a hynny gan nad 'ni' eithr 'fi' yw'r rhagenw sy'n cyfleu Rhamantiaeth orau, fe greidir. Unigolyddol yw. O leiaf, felly, y'n dysgwyd gyntaf gan Saunders Lewis. Meddai:

Tuedd y meddwl rhamantus yw gwneud yr unigolyn a'i brofiad eithriadol yn unig awdurdod mewn bywyd ac yn unig sylfaen bywyd.⁹⁶

Ond 'ni'r Rhamantwyr', meddai R. M. Jones; ac y mae'r rhagenw lluosog hwn sy'n air unigol ac felly'n Amryw yn Un, y 'ni' nad yw'n ni-au, yn rhan greiddiol o theori lenyddol R. M. Jones ynghylch y canon llenyddol Cymraeg. Rhywbeth sy'n perthyn i 'ni' ydyw 'ein traddodiad llenyddol'. Oherwydd dyna yw Tafod: ni'n dau, 'ddarllenydd', yn cyfrannu 'o'r un adeileddau ieithyddol cudd, fwy neu lai, yn ddigon inni allu amgyffred yr un brawddegau fel arfer, ac i ddeall ein gilydd yn weddol'.⁹⁷ Ffordd arall o nodi'r un egwyddor yw dweud mai 'Cymdeithas yw'r unigolyn ei hun bob amser';⁹⁸ sylw cymharus i'r modd yr ystyriai Saunders Lewis fod sylwadau'r

⁹⁴ Ibid., t. 232.

⁹⁵ Cymh. Robert Rhys, 'Menter feirniadol o bwys', [adolygiad o R. M. Jones, *Mawl a Gelynyon ei Elynion*], *Barddas*, 271 (Chwefror/Mawrth, 2003), 45. 'Pwy yw'r 'ni' yma? A berthyn bardd mor eithriadol o wreiddiol ac unplyg ei argyhoeddiad a'i weledigaeth â Bobi Jones i unrhyw garfan?'

⁹⁶ Saunders Lewis, *Williams Pantycelyn* (Llundain, 1927), t. 236.

⁹⁷ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 61.

⁹⁸ Ibid., t. 209.

beirniad yn 'normal ac iach ... pan lefaro dros draddodiad neu fel aelod o gymdeithas'.⁹⁹ Gwelwyd yn yr ail bennod mai rhan o brofiad carfan arbennig o bobl yw'r canon, a'r canon hwnnw'n fodd iddynt ddiffinio eu hunaniaeth gyffredin. Pan ddywed R. M. Jones, felly, wrth sôn, er enghraifft, am y 'chwyldro theoretig', fod angen 'bod yn feirniadol, fel Cymry, o'r datblygiadau hyn a'u gweld drwy'n sbectol ein hun', y mae'n arddel yr egwyddor sylfaenol hon o berthynas canon â charfan arbennig o bobl.¹⁰⁰ Y broblem, fodd bynnag, yw nad yw pawb yn y garfan honno, 'y Cymry', yn rhannu mwyach yr un optegydd â'i gilydd. Effaith hynny yw bod y 'ni' yn ymdroi'n ni-au, ac ambell un yn pledio'r 'cysyniad Ôl-fodernaidd o luosedd chwil o Gymruau mân'.¹⁰¹

Gwrthod gwneud hynny y mae R. M. Jones. Er gwaetha'r ffaith ei fod ar y naill law yn cydnabod mai'r darlennydd yw'r 'man cychwyn', nid yw hynny'n gyfystyr â chredu y bydd pob darlennydd yn darllen y canon mewn ffyrdd gwahanol. Ond cyfyd y cwestiwn anorfod, felly, o sut i ddiffinio'r 'ni' hwn. Sut y gellir cadw undod mewn cymdeithas sy'n ffafrio amrywiaeth a dewis? Rhan o ateb R. M. Jones i'r cwestiwn hwn yw mewn perthynas â'r canon llenyddol sydd eisoes, fe ddadleuir, yn rhan o'n gwneuthuriad.¹⁰² Edrychir ar lenyddiaeth Gymraeg fel nodwedd ar gymeriad y Cymry, felly, a rhan o ddatblygiad pobl nad ydynt yn debyg i neb arall. Tystio i'r unigrywiaeth honno y mae ei llenyddiaeth. Fel y dywedodd Tony Conran wrth gynulleidfa ddi-Gymraeg: 'I think it is wiser to treat Welsh poetry as something *sui generis*, a product of a civilization alien to our own.'¹⁰³ Ac o'r fan honno, o'r

⁹⁹ Saunders Lewis, 'W. J. Gruffydd', [adolygiad o *Y Tro Olaf ac Ysgrifau Eraill*], *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Mehefin 1939, 10.

¹⁰⁰ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 186.

¹⁰¹ *Ibid.*, t. 108.

¹⁰² Cymh. Saunders Lewis, 'Llenorion a Lleygwyr', *Meistri a'u Creffi*, gol. Gwynn ap Gwilym (Caerdydd, 1981), t. 164. '... yn rhywbeth sydd wedi ffurfio'i meddwl hi am ganrifoedd a phennu cymeriad ei llenyddiaeth yn ei chyfnodau disgleiriaf.'

¹⁰³ Tony Conran, 'Introduction', *Welsh Verse* (Bridgend, 1986), t. 23.

gorffennol hwnnw nad yw'n rhan o'u diwylliant nhw na neb arall y'n diffinnir ni gan

R. M. Jones yntau, sef ar lwyfan iaith a llên y gorffennol. Meddai:

[Y]ng Nghymru gwyddom mai'r gorffennol a'n gwnaeth, ac nid oes modd adnabod y gorffennol hwnnw ac felly'r presennol a'r dyfodol, yn deimladol nac yn ddeallol, yn eu harwyddocâd llawnaf heb ymgynabod â llenyddiaeth Gymraeg.¹⁰⁴

Ein canon ydym. 'Y traddodiad, dyna ym ni.'¹⁰⁵ Oherwydd y 'canon hwn wedi'r cwbl yw'r hyn a ddysgodd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol inni ddarllen'.¹⁰⁶ Er mai ni sy'n dewis y canon, y canon a ddysgodd inni sut i'w ddewis yn y lle cyntaf. (Ei Fynegiant a greodd ein Tafod sy'n dewis ei Fynegiant sy'n creu ein Tafod sydd) Gwelir drwy hynny mai math o gylch caeëdig yw'r cyfan: proses lle y mae'r canon yn ein dysgu i ddarllen y canon, a'i ben draw yw sefyllfa lle y gall beirniad llenyddol ragdybio y bydd ei ddarllenwyr yn rhannu ei farn ynghylch rhagoriaeth rhyw gerdd neu'i gilydd drwy ddyfynnu'r gerdd ar ei hyd, fel prawf o'i gwerth. Oherwydd yn sefyllfa'r cylch caeëdig ymddengys mai codi o'r gerdd ei hun, ynghyd â cherddi tebyg iddi, y mae dehongliad ei darllenwyr ohoni, a hynny yn sgil eu ffordd gyffredin o ddarllen cerddi. Rhanna cymdeithas o ddarllenwyr, yn sgil eu haedolaeth gyffredin o'r un traddodiad neu ganon llenyddol – oherwydd eu Tafod cyffredin – yr un adnoddau beirniadol i werthfawrogi'r un math o Fynegiant llenyddol. Dyna pam y gallai Alan Llwyd, er enghraifft, awgrymu mai 'Hiroshima' yw '[c]erdd ryfel rymusaf' Gwyn Thomas, dyfynnu'r gerdd, ac ychwanegu'n gynnil, 'Barned y darlennydd', gan ragdybio y deuai ef neu hi i'r un farn ag yntau, a'u bod felly yn 'ni'.¹⁰⁷ Nid beirniadaeth mo hyn ar waith y beirniad. Yn wir, nodir yn hytrach

¹⁰⁴ R. M. Jones, *Ysbryd y Cwlwm*, t. 15.

¹⁰⁵ Idem, *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4: Cyfanweithiau Llenyddol*, t. 584.

¹⁰⁶ Idem, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 241.

¹⁰⁷ Gw. Tudur Hallam. 'Camfarnu neu garfarnu beirniad llenyddol?', *Taliesin*, 114 (Gwanwyn, 2002), 19-20.

mai dyma sut y mae traddodiad byw yn gweithio, fel treiglo heb sylwi.¹⁰⁸ Ceir hyn hefyd yng ngwaith Saunders Lewis. Wrth nodi bod Emrys ap Iwan yn dyfod ‘o’r unrhyw dalaith [Gatholig gynt] â Thudur Aled’, meddai: ‘Ymglustfeiniwch : fe ddeliwch yr un acen.’¹⁰⁹

Rhagdybir cyd-ddeall a gwerth ar sail cyd-destun o safonau cyffredin, anweledig, gan guddio goddrychedd barn y tu ôl iddo. Yn wir, yn y fath sefyllfa gaeëdig, y mae’r dewis goddrychol fel pe bai’n diflannu, a’r canon megis yn dewis ei destunau ei hun, gan briodoli iddynt y rhagoriaeth honno sy’n rhan o’i wead ef ei hun. Er enghraifft, dywedodd Eric Csapo mewn perthynas ag awduron y Theatr Roegaid – ‘The canon does not exist because of the unquestionable superiority of its preferred authors; rather, the superiority appears unquestionable thanks to the canon’.¹¹⁰ Ymddengys fel pe bai’r canon neu’r traddodiad llenyddol yn ei foddhau a’i gynnal ei hun, megis duw. Yn y fath sefyllfa, fel y nododd Dafydd Elis Thomas yn ei ddarlith, *Traddodiadau Fory*, ymddengys fod darllenwyr yn ymdroi’n addolwyr, gan arddel awdurdod y traddodiad ‘yn ddigwestiwn’, a rhyw rym gwrthrychol o’r tu allan fel pe bai’n dileu goddrychedd barn.¹¹¹ Y canon piau popeth, ac nid yw’r darlennydd yn ddim; y ‘canon hwn wedi’r cwbl yw’r hyn a ddysgodd yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol inni ddarllen’.¹¹² Y gwrthrychol hwn sydd fel pe bai’n rheoli ein dewisiadau goddrychol ni. Clai yn ei ddwylo ydym, a chymharus yw ei rym â grym Duw, yn enwedig yng ngwaith y beirniad llenyddol Calфинаidd. Oherwydd, adleisio y mae’r berthynas hon rhwng y canon a’r darlennydd berthynas Duw â dyn fel y’i

¹⁰⁸ R. M. Jones, *O’r Bedd i’r Crud*, t. 87.

¹⁰⁹ Saunders Lewis, ‘Homiliau Emrys ap Iwan’, *Meistri’r Canrifoedd*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), t. 385.

¹¹⁰ Eric Csapo, ‘From Aristophanes to Menander? Genre Transformation in Greek Comedy’, gol. Mary Depew a Dirk Obbink, *Matrices of Genre: Authors, Canons, and Society : Center for Hellenic Studies Colloquia 4* (London, 2000), t. 117.

¹¹¹ Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory: Darlith Llenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ynys Môn, 1983* (Cyhoeddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 1983), t. 13.

¹¹² R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 241.

diffinnid gan John Calfin. Yn yr *Institutes*, pwysleisiodd Calfin nad oes gan ddyn ei hun ddim rhan o gwbl yn ei alwedigaeth ei hun. Meddai:

When we come to election, mercy alone everywhere appears; and, accordingly, in this the saying of Paul is truly realised, "So then, it is not of him that willeth, nor of him that runneth, but of God that showeth mercy" (Rom. ix. 16); and that not as is commonly understood by those who share the result between the grace of God and the will and agency of man. [...] [L]et us have no doubt that the apostle attributes all to the mercy of the Lord, and leaves nothing to our wills and exertions.¹¹³

Duw sy'n galw. Duw sy'n dewis. Ymateb yn unig y mae dyn. Y gwrthrychol, felly, sydd ben; y Tafod o gylch y Mynegiant.

Awgrymir yma, felly, mai tebyg i'r disgrifiad uchod o berthynas Duw â dyn yw perthynas y canon â'r darlennydd yng ngwaith R. M. Jones. Y canon sy'n ein dewis ni. O leiaf, dyna'r delfryd, pan fo modd i'r beirniad ragdybio consensws, yn hytrach na chyflwyno ymgais i'w lywio. Nid cyflwyno'i farn bersonol ei hun am 'Hiroshima' y mae Alan Llwyd, er enghraifft, wrth ragdybio y bydd y darlennydd yn rhannu'r un farn ag ef ynghylch ei rhagoriaeth, ond yn hytrach apelio at safon ddarllen werthfawrogol sydd fel pe bai'n bodoli yn yr awyr y mae ef a'i ddarllenwyr yn ei hanadlu. 'The fact is that standards as the literary critic invokes them are not a matter of some sealed-off literary province,' meddai F. R. Leavis. 'They are 'there', if at all, as I have said, in an educated public that can respond and is in a position to make its response felt.'¹¹⁴ Yn iaith R. M. Jones, cyfieithir y syniad hwn o safonau cyffredin cymdeithas yn Dafod. Yn y Tafod cyffredin daw'r beirniad o hyd i'r safonau gwrthrychol hynny y mae ef yn rhoi Mynegiant iddynt. Rhyw ddarlun nid annhebyg i'r Meuryn yn y Babell Lên sydd yma, felly, yn holi'n rhethregol gerbron ei

¹¹³ John Calvin, cyf. Henry Beveridge, *Institutes of the Christian Religion by John Calvin* (London, arg. 1962), t. 241.

¹¹⁴ F. R. Leavis, 'Valuation in Criticism', *Valuation in Criticism and Other Essays* (Cambridge, 1986), t. 248.

gynulleidfa ddysgedig, ‘Onid yw’n haeddu deg?’ heb ddisgwyl na dadl nac ateb cadarnhaol, dim ond sŵn rhywrai’n porthi. Dyna ydoedd yr ‘Ooo’ gynulleidfaol yr arferid ei chlywed yn y Babell Lân. Mynegiant ydoedd o’r Tafod cyffredin; addefiad bod rhyw gerdd neu’i gilydd, hyd yn oed os yn aneglur, yn haeddu deg am fod ynddi ryw safon anniffiniadwy, gyffredin, amlwg i bawb.

Beth, fodd bynnag, a wna’r beirniad pan fo’r safonau beirniadol gwrthrychol-gymdeithasol hynny’n newid? Beth a wna’r Meuryn pan na ddaw’r ‘Oooo’ mwyach o’r gynulleidfa? Beth pan fydd rhywrai’n dechrau amau awdurod y Traddodiad Llenyddol ac yn peidio â chymryd ei fodolaeth yn ganiataol? Beth pan ddechreuir holi llawer o gwestiynau? Oherwydd ‘when they [safonau beirniadol] are no longer “there” for the critic to appeal to with effect,’ a dyfynnu Leavis, ‘there are general consequences’.¹¹⁵

Ymateb i’r goblygiadau hynny, fe greidir, yw un o brif nodweddion gwaith R. M. Jones. Oherwydd beirniad na all ddweud ‘Barned y darllenydd’ yw.

Er enghraifft, yn ei ragymadrodd i’w olygiad, *Blodeugerdd Barddas o’r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, meddai:

Diau y caiff ambell un bellach gryn anhawster i werthfawrogi dyfnder y profiadau hyn a chysondeb yr athroniaeth a gorfforir mewn cerddi sy’n cymryd y goruwchnaturiol o ddifri. [...] Heb allu ymystwytho i ymateb i’r fath ffenomen od, ni cheid ymhlith darllenwyr namyn yr un diffyg amgyffrediad ohoni ag a geid ar ddechrau’r ugeinfed ganrif ymhlith prydyddion a ormesid gan ramantiaeth neu a ormesid yn ail hanner ein canrif gan newyddiaduraeth.¹¹⁶

Megis y cyfeiriodd Saunders Lewis yn ‘Dafydd Nanmor’ at ‘[dd]ieithrwch bywyd ac awyrgylch yr hen farddoniaeth’, ac anallu darllenwyr cyfoes i ‘ddwfn werthfawrogi ... traddodiad mewn meddwl a chelfyddyd, Cristnogaeth Gatholig, a chymdeithas

¹¹⁵ Ibid.

¹¹⁶ R. M. Jones, *Blodeugerdd Barddas o’r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Cyhoeddiadau Barddas, 1988), t. 15.

aristocrataidd ... sy'n esbonio bychaned yw rhan llenyddiaeth Gymraeg yn natblygiad meddwl Cymru heddiw',¹¹⁷ felly y pwysleisiodd R. M. Jones yng nghyswllt gwaith y bedwaredd ganrif ar bymtheg mai 'ymdeimlo ag amgylchfyd cwbl wahanol sydd raid'.¹¹⁸ Y mae'r cyfnod dan sylw'n wahanol. Ond yr un yw'r ddadl yma ag a gyflwynwyd yn 'Dafydd Nanmor', sef bod yn rhaid i'r darlennydd cyfoes glosio at brofiadau a meddwl yr awdur a'i gyfnod 'er mwyn iawn ddirnad amrywiaeth y profiad cyfoethog [sef prawf encidiol ac adnabyddiaeth real o Iesu Grist]'.¹¹⁹ Rhaid i'r darlennydd a'r awdur rannu'r un Tafod â'i gilydd, fel y gall y darlennydd, er enghraifft, synied am 'y Ddeddf fel y syniai Ehedydd Iâl amdani'.¹²⁰

Fodd bynnag, yn ymarferol, sut y gall y darlennydd 'ymdeimlo ag amgylchfyd cwbl wahanol', ac osgoi'r 'diffyg amgyffrediad' sy'n nodweddu gwaith llawer o feirniaid, yn enwedig gan y gall Cerdd Dafod y darlennydd fod wedi 'tyfu drwy hanes sy'n wahanol i Gerdd Dafod y llenor', fel y nodwyd yn *Tafod y Llenor*?¹²¹ Sut y gellir synied 'fel y syniai Ehedydd Iâl', pan fo Cymru heddiw mor wahanol i Gymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Cynnig y rhelyw o feirniaid ac ysgolheigion wyneb yn wyneb â'r cwestiwn dyrys hwn ydyw darparu nodiadau esboniadol. Meddylir, er enghraifft, am olygiad diweddar Ioan Williams o ddramâu Saunders Lewis, ynghyd â golygiad Christine James o farddoniaeth Gwenallt. Yn y naill achos a'r llall, darperir nodiadau esboniadol ar gyfer 'cynulleidfa ddarllen dra gwahanol' i'r un yr ysgrifennai Saunders Lewis a Gwenallt ar ei chyfer.¹²² Dau awdur o'r ugeinfed ganrif yw'r rhain, ac eto, awgrymir bod iaith a delweddau eu cerddi mor ddieithr i ddarllenwyr heddiw â iaith a

¹¹⁷ Saunders Lewis, 'Dafydd Nanmor', *Meistri'r Canrifoedd*, t. 81.

¹¹⁸ R. M. Jones, *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, op. cit., t. 15.

¹¹⁹ Ibid.

¹²⁰ Ibid., t. 17.

¹²¹ Idem, *Tafod y Llenor*, t. 283.

¹²² Christine James (gol.), *Cerddi Gwenallt: Y Casgliad Cyflawn* (Llandysul, 2001), t. xlix.

delweddau Dafydd ap Gwilym, gyda Ioan Williams yn awgrymu ‘mai mwy o nodiadau fydd eu hangen wrth i’r blynyddoedd fynd heibio, nid llai’.¹²³ Dyma hefyd gyfraniad arbennig Alan Llwyd fel beirniad llenyddol, sef dadlennu ffynonellau cyfeiriadaeth lenyddol. A dyma’n wir yw’r prif ateb y mae beirniaid llenyddol ac ysgolheigion yn ei gynnig fel rheol i broblem dieithrwch iaith. Ceir enghraifft feistraidd ohono’n ddiweddar yn llyfr Jason Walford Davies ar waith R. S. Thomas, lle y mae’r beirniad yn ‘ehangu cwmpas y drafodaeth ar ddefnydd Thomas o ffynonellau llenyddol er amlygu’r cyfoeth cyfeiriadol rhyfeddol yn ei waith’.¹²⁴ Hynny yw, cynigir canllawiau Mynegaint i gynorthwyo’r darllenwyr amrywiol i ddeall iaith y testun, gan osod arwydd pendant ar gyfer pob arwyddedig yn y darn.

Fodd bynnag, er na ellir ond diolch i’r ddau olygydd am eu nodiadau gwerthfawr ac edmygu trylwyredd eu dysg, ni ellir ond teimlo bod yr angen amdanynt ond yn tystio i broblem ddyrys iawn o safbwynt dyfodol y canon llenyddol Cymraeg.

Meddai Alan Llwyd yn ei gyfweiliad â M. Wynn Thomas: ‘Rydw i’n teimlo’n aml iawn fy mod i’n ysgrifennu mewn iaith sy’n marw.’¹²⁵ Ac yng nghyswllt y sylw hwnnw, anodd yw peidio â chymharu gwaith y golygydd hyddysg yn darparu nodiadau esboniadol ar eiriau’r testunau llenyddol – fel y gall y darlennydd cyfoes ddeall llenyddiaeth y gorffennol – i waith yr ieithydd cymdeithasol yn recordio geirfa’r iaith honno sydd ond yn iaith fyw i genhedlaeth hŷn y gymdeithas. Am y sefyllfa honno, meddai Delyth Jones:

Yr unig obaith i’r iaith bellach yw y gellir defnyddio’r cofnodion gan genhedlaeth iau i atgyfodi’r iaith.¹²⁶

¹²³ Ioan Williams (gol.), *Dramâu Saunders Lewis: Y Casgliad Cyflawn, Cyfrol 1* (Caerdydd, 1996), t. x.

¹²⁴ Jason Walford Davies, *Gororau’r Iaith: R. S. Thomas a’r Traddodiad Llenyddol Cymraeg* (Caerdydd, 2003), t. 5.

¹²⁵ Alan Llwyd, ‘Ynghylch Llenyddiaeth a Beirniadaeth: M. Wynn Thomas yn holi Alan Llwyd, Hydref 2002’, gol. Huw Meirion Edwards, *Alan* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), t. 135.

¹²⁶ Delyth Jones, *Cyflwyniad i Ddwyieithrwydd*, t. 144.

Mewn gair, sefyllfa o ddifodiant yw, pan nad yw iaith yn 'faeth', eithr yn anealladwy.

Mewn ymgais i osgoi'r sefyllfa honno, ni ellir ond croesawu ymgais R. M. Jones yn *Llên Cymru a Chrefydd* i gynnig ateb amgenach na nodiadau esboniadol i broblem dieithrwch y canon. Ni wedir nad yw'n rhoi pwys ar astudio Mynegaint y traddodiad, gan ddarparu beirniadaeth esboniadol. Cymerir hynny'n ganiataol: y dysgu trwy astudio. Ond y mae yn y llyfr hefyd ymgais i ddyrchafu math arbennig o ragfarn sy'n seiliedig nid ar ymchwil academiaidd nac ar ddarllen nodiadau, eithr ar brofiad personol o Dduw yn Iesu Grist (profiad sydd, wrth gwrs, yn rhan amlwg o feirniadaeth esboniadol y beirniad ei hun). Cymaint felly fel y gwahaniaethir yn bendant iawn rhwng gallu'r 'beirniad seciwlar' a'r 'darllenydd o Gristion' i 'wir ddeall' y traddodiad llenyddol Cymraeg yn ei gyfanrwydd. Ys dywed yr awdur:

Y mae'n bosib i feirniad o Gristion werthfawrogi'r cwbl sydd o fewn cwmpas amgyffred y beirniad seciwlar (*gras cyffredin*); eithr y mae math arall o lenyddiaeth sy'n ymwneud ag ystyr dimensiwn arall (*gras arbennig*) yn agored iddo ef hefyd, llenyddiaeth na fedr y beirniad seciwlar, oherwydd cyfyngder profiad a gwybodaeth, ymateb yn foddhaol effeithiol iddi.¹²⁷

Fel enghraifft o'r ail fath hwn o lenyddiaeth sydd y tu hwnt i amgyffred y 'beirniad seciwlar', dyfynnir pennill o emyn o waith Pantycelyn. Dyma'r pennill:

Dyma gyfarfod hyfryd iawn,
Myfi yn llwm, a'r Iesu'n llawn;
Myfi yn dlawd, heb feddu dim,
Ac Yntau'n rhoddi popeth im.

A dyma'r sylw dilynol:

Fe fedr y beirniad seciwlar naif amgyffred uniongyrchedd crisial bur yr iaith, ac adeiladwaith cadarn y pennill hwn o'r llinell osodiadol ragarweiniol i'r

¹²⁷ R. M. Jones, *Llên Cymru a Chrefydd*, tt. 15-16.

ddau bâr o gyferbyniadau cyflythrennol, y naill o fewn yr ail linell, a'r ail yn ymagor yn ddwy linell glo. Ond ni fedr ef ymateb, fel y gwnaeth Pantycelyn ei hun, ac fel y gwna pob Cristion sydd wedi profi Crist, i ysictod llethol y gair 'llwm' nac i orfoledd anhygoel y gair 'llawn': ni wŷr ef – ac ni all ef wybod drwy ddychymyg seciwlar – beth yw grym arswydus y drydedd linell; a phe na bai'n deall onid y ganfed ran o ystyr y llinell olaf yna, fe fyddai eisoes yn peidio â bod yn feirniad seciwlar naïf ac wedi dod yn ddarllenydd o Gristion.¹²⁸

Gwelir bod y ddadl a gyflwynir yma yn un syml a rhesymegol. Dim ond y sawl sydd wedi profi'r un ailenedigaeth ag awdur yr emyn a all ei lwyr ddeall, a hynny am 'nad oes dim tebygrwydd rhwng y cyflwr ail-anedig hwnnw a'r hyn a ddychmygir amdano gan y dibrofiad'.¹²⁹ Ni all y 'beirniad seciwlar' yn ei gyflwr naturiol ddychmygu'r profiad goruwchnaturiol hwn. Effaith hynny yw ei fod, pan ddaw ar draws emyn fel yr un uchod, yn gorfod aros gyda'i 'hunan crai', heb fedru 'ei daflunio'i hun i mewn i'r hyn a ddarllenir', sef yr hyn a wna pob darllenydd fel rheol wrth ddarllen darn o lenyddiaeth.¹³⁰

Gwelir yn *Llên Cymru a Chrefydd* mai'r delfryd yw fod y darllenydd yn medru mwynhau Pantycelyn cymaint â Phantycelyn ei hun. Dyna'r nod ar gyfer pawb. Ond nid yn annhebyg i'r modd y nododd Constantin Stanislavsky fod gan actorion eu terfynau creadigol – 'limitations placed on them by nature'¹³¹ – nododd R. M. Jones fod y llenyddiaeth honno a ysgrifennwyd gan y sawl a ddaeth o hyd i ail natur yng Nghrist y tu hwnt 'i ddealltwriaeth y sawl nas ganwyd ond unwaith'.¹³² Y mae'n fath o *écriture Chrétienne* na all ond Cristnogion profiadol o ras arbennig ei deall. Dyna mewn gwirionedd yw'r maen tramgwydd i feirniaid eraill.

¹²⁸ Ibid., t. 60.

¹²⁹ Ibid., t. 62.

¹³⁰ Ibid., t. 61.

¹³¹ Constantin Stanislavsky, cyf. Elizabeth Reynolds Hapgood, *An Actor Prepares* (London, arg. 1948), op. cit., t. 295.

¹³² R. M. Jones, *Llên Cymru a Chrefydd*, t. 62.

Yn adolygiad Angharad Price o *Beirniadaeth Gyfansawdd*, gwelir mai un feirniadaeth yn erbyn y llyfr olaf hwn ar theori lenyddol yw ei fod yn anwybyddu ystyriaethau goddrychol.

Un peth yw diffinio a dyrchafu Beirniadaeth Lenyddol hollgynhwysol, peth arall yw gweld a yw'n dal dŵr wrth ei harfer. Tybed ai'r rheswm dros beidio â datgelu ei methodoleg a'i rhoi ar waith oedd y byddai Bobi Jones yn canfod bod rhaid i'r Beirniad Cyfansawdd – fel y Marcysydd a'r Ffeminydd a'r Dadadeiladydd (a phob beirniad llenyddol arall petai'n dod i hynny) – dynnu ffiniau a gwneud dewisiadau goddrychol wrth fynd i'r afael â'r dasg? A bod y 'cyfanrwydd' o ganlyniad yn mynd yn endid digon di-ddal?¹³³

Ond o edrych ar ystod gweithiau cyfain R. M. Jones – gan amlygu, felly, wrth gwrs, ragfarn o blaid undod – awgrymir nad y modd y mae R. M. Jones yn mapio'i feirniadaeth gyfansawdd mewn modd gwyddonol, strwythurol yw nodwedd hynotaf ei waith. Hynny'n wir sy'n nodweddu ei lyfr olaf, fel yr awgrymodd Angharad Price, ond ymatebodd R. M. Jones i'r feirniadaeth hon yn erbyn ei ddiddordebau strwythurol yn *Beirniadaeth Gyfansawdd* ei hun. 'Ni roddais yr un math o sylw uniongyrchol a chryno ganoledig i Ddeunydd ag a rois i Ffurf, yn TyLl nac yn SB,' meddai. 'Ond ceisiaf ddangos – er cydnabod cywirdeb pwyslais Dr Brooks – fod cryn sylw i Ddeunydd mewn gweithiau eraill (megis LICACH, CG, YYC, MAG a MAGEE) ...'¹³⁴ A gellid ychwanegu'r ddwy gyfrol ar lenyddiaeth Gymraeg 1902-1936 a 1936-1972 at y rhestr hon.

Yn hytrach, credir mai'r hyn sy'n wir drawiadol am waith R. M. Jones yw i'r strwythurydd hwn roi cymaint o le i ystyriaethau goddrychol, gan ddadlau bod profiad a dealltwriaeth y Cristion o fywyd, ac oherwydd hynny, ei ymateb greddfol i lenyddiaeth, yn fwy cyflawn. Nid amheuir nad yw'r dull strwythurol o ysgrifennu ynddo'i hun yn annog ymateb anffafriol oddi wrth eraill ac yn esbonio'n rhannol yr

¹³³ Angharad Price, op. cit., t. 57.

¹³⁴ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 71.

adwaith tawel a beirniadol ar dro yn erbyn gwaith R. M. Jones. Yn ei ddarlith agoriadol yn Aberystwyth, ‘Tri Mewn Llenyddiaeth’, cysylltodd ef ei hun yn gynnil â’r ‘sawl sy’n astudio ffurfiau llenyddiaeth o’r safbwynt adeileddol’,¹³⁵ a hynny ar adeg pan oedd sawl un yn rhyngwladol yn amharod i goleddu’r term ‘adeiledydd’ neu ‘strwythurydd’, gan mai’r hyn y mae’r dull strwythurol yn ei gynnig i’w ddefnyddwyr yw ‘positions of dominance from which they can look down in detachment and judge others accordingly’, ys dywed John Sturrock.¹³⁶ I’r rhyddfrydwr a’r ôl-strwythurydd fel ei gilydd, safle i’w osgoi yw hynny. Disgrifiodd Julia Kristeva, er enghraifft, strwythurwyr yn nhermau ‘wardens of repression ... helplessly anachronistic when faced with the contemporary mutations of subject and society’.¹³⁷ Ond i Galfinydd o feirniad rhydd strwythuraeth gyfle iddo – nid yn annhebyg i bregethwr ymneilltuol Cymraeg yn ei bulpud dyrchafedig gynt – bwysu a mesur, fel y nododd Daniel Chandler, ‘anything and everything’.¹³⁸

Ac eto, wyneb yn wyneb â’r dasg o ddarllen testun llenyddol, ‘i’r gwellt â phob “patrwm”’, meddai’r strwythurydd hwn yn *Beirniadaeth Gyfansawdd*, gan nodi mai gwaith y gwerthfawrogwr yw ‘ymateb ar y pryd’ – a hynny ‘yn isymwybodol gyflym’.¹³⁹ Mater o feddu ar Dafod cywir yw beirniadaeth lenyddol. Fel yn achos Saunders Lewis, mater o gynneddf yw. Rhaid cofio mai diben theori yw ‘ceisio adfer Beirniadaeth Ymarferol’.¹⁴⁰

Er nodi, felly, nad yw’r dull strwythurol yn un arbennig o ffodus ar gyfer ennyn ymateb ffafriol gan eraill, a thrwy hynny adeiladu consensws, dadleuir, o

¹³⁵ Idem, ‘Tri Mewn Llenyddiaeth’, op. cit., t. 108.

¹³⁶ John Sturrock (gol.), *Structuralism and Since: From Lévi Strauss to Derrida* (Oxford, 1979), t. 4.

¹³⁷ Julia Kristeva, ‘The Ethics of Linguistics’, gol. David Lodge with Nigel Wood, *Modern Criticism and Theory: A Reader: Second Edition* (Harlow, 2il arg., 2000) tt. 207-08.

¹³⁸ Daniel Chandler, *Semiotics: The Basics* (London, 2002), t. 208.

¹³⁹ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 239.

¹⁴⁰ Ibid., t. 32. Cymh. *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 1: Rhagymadrodd* (Aberystwyth, 1984), t. 11. ‘Fe fydd y datblygiad mewn theori yn miniogi ac yn atrefnu beirniadaeth ddisgrifiadol, er na bydd yn ei disodli.’

safbwynt y canon llenyddol Cymraeg, mai'r anhawster pennaf yw fod y pwyslais yn *Llên Cymru a Chrefydd* ar brofiad goddrychol y darlennydd o Gristion yn awgrymu, nid yn annhebyg i'r canon ffeminyddol a wrthodir gan R. M. Jones ei hun, mai dim ond y sawl sydd wedi ei aileni'n Gristion a all goleddu'r traddodiad llenyddol Cymraeg mewn gwirionedd – o ddiffinio, hynny yw, y traddodiad hwnnw fel un a nodweddir yn bennaf oll gan ei feddwl Cristnogol. Y mae'n broblem, hynny yw, wrth sylweddoli gyda Christine James fod '[y] dreftadaeth ddiwylliannol a chrefyddol Gymreig a Chymraeg gyfoethog a etifeddodd Gwenallt a chynifer o'i gyfoedion [wedi] graddol golli ei thir, a'i disodli gan ddiwylliant arall, cwbl wahanol'.¹⁴¹ Y mae'n broblem wrth sylweddoli bod gwahaniaeth mawr rhwng cynnwys y canon ac amgylchfyd ei ddarllenwyr heddiw.

A awgrymir, felly, fod y ddadl a gyflwynodd R. M. Jones yn *Llên Cymru a Chrefydd* yn anghywir, sef na all y darlennydd seciwlar heddiw goleddu'n llawn Fynegiant y traddodiad llenyddol Cymraeg, a hwnnw'n draddodiad Cristnogol, heb rannu'n gyntaf Dafod ei awduron?

Wrth geisio ateb y cwestiwn hwn, nodir yn gyntaf fod y ddadl yn un ddilys yn athronyddol.

Pwysleisiodd Alasdair MacIntyre, er enghraifft, na ellir gwahaniaethu rhwng gweithiau'r traddodiad a'r ffordd honno o feddwl sydd, nid yn unig yn gefndir iddynt, ond wedi datblygu law yn llaw â'r traddodiad ei hun. Angen y naill yw'r llall: 'because at any particular moment the rationality of a craft is justified by its history so far, which has made it what it is in that specific time, place, and set of historical circumstances, such rationality is inseparable from the tradition through which it was

¹⁴¹ Christine James (gol.), op. cit., t. xlix.

achieved.’¹⁴² Dwy ochr i’r un geiniog yw gweithiau’r traddodiad a’i fframwaith meddyliol, a dim ond y sawl sy’n rhannu’r un agwedd feddwl honno a ddatblygodd yn rhan o’r traddodiad a all ei goleddu. Awgrymu hynny, er enghraifft, y mae R. M. Jones yn y dyfyniad isod. Gan ystyried perthynas haneswyr heddiw â rhai’r gorffennol, meddai:

Y mae’r rhagdybiaeth grefyddol seciwlar hon [sef, ‘bod perthynoldeb yn orfodol’] wedi suddo mor ddwfn ac mor drwchus i ymwybyddiaeth, ac yn fwy byth i anymwybod, haneswyr heddiw nes iddi fynd yn adeileddol; ac y mae hyn yn wir rwystr pan geisir gwerthfawrogi haneswyr Cymreig megis Charles Edwards a Theophilus Evans a Thomas Jones Dinbych sydd bron yr un mor anymwybodol o ragdybiaeth ac o adeiledd crefyddol gwahanol.¹⁴³

Y canlyniad anorfod yw’r pellter eithaf rhwng darllenydd y presennol a thestun y gorffennol, gyda’r darllenydd, maes o law, yn ystyried y testun yn gwbl amherthnasol i’w fywyd, hyd yn oed os bydd yr ysgolhaig a feistrolodd iaith y gorffennol yn darparu nodiadau esboniadol ar ei gyfer.

Awgrymodd Derec Llwyd Morgan na ‘all fod yn y Gymraeg ddychymyg seciwlar pur, fyth’, cymaint dylanwad y Beibl a’r diwylliant Cristnogol ar lenyddiaeth Gymraeg.¹⁴⁴ Ond awgrymodd R. M. Jones na all y ‘beirniad seciwlar’ fyth *wir* ddeall llenyddiaeth Gymraeg, a hynny gan ei fod yn edrych ar weithiau’r traddodiad o du fframwaith meddwl nas datblygwyd ganddo. Meddylir yn arbennig, er enghraifft, am sylwadau R. M. Jones ar waith Ann Griffiths yn *Cyfriniaeth Gymraeg*. Gan ymateb yn benodol i sylwadau Derec Llwyd Morgan ar waith yr emynydd, meddai R. M. Jones:

Fe all y darllenydd seciwlar o Gymro gael rhyw flas pell ar wefr Ann, ar *panache* ei defnydd trawiadol o iaith, ar dân cafalîr ei dychymyg. Ond y Cristion yn unig sy’n medru ymateb i lawnder arwyddocâd ei geiriau. Felly

¹⁴² Alasdair MacIntyre, *Three Rival Versions of Moral Enquiry*, (London, 1990), t. 65.

¹⁴³ R. M. Jones, *Llên Cymru a Chrefydd*, t. 348.

¹⁴⁴ Derec Llwyd Morgan, *Y Beibl a Llenyddiaeth Gymraeg* (Llandysul, 1998), t. 44.

hefyd gyda llawer iawn iawn o'n treftadaeth ddiwylliannol Gymraeg erbyn hyn ...¹⁴⁵

Y mae'r broblem yn amlwg. Seiliwyd gweithiau'r canon llenyddol Cymraeg ar ragdybiau gwahanol i eiddo'i ddarllenwyr heddiw. Er enghraifft, nododd D. Densil Morgan mai 'rhagdybiau seciwlar oedd eiddo'r sefydliadau Cymraeg' erbyn degawd olaf yr ugeinfed ganrif, nid rhai crefyddol.¹⁴⁶ Ac yn wyneb sylwadau golygyddol Ioan Williams a Christine James, y mae'r 'rhwystr' hwnnw y cyfeiriodd R. M. Jones ato gyntaf yn *Llên Cymru a Chrefydd* bellach yn wal ddiadlam, a nifer o ddarlithwyr Cymraeg y prifysgolion yn bwrw eu pen yn ei herbyn. Oherwydd, a dyfynnu Alasdair MacIntyre ymhellach:

[A]ttempting to articulate claims made within one tradition of enquiry in the only language presently available to the adherents of some rival tradition, one discovers that the language lacks concepts, idioms or modes of argument necessary for the statement of those claims.¹⁴⁷

Ac o ystyried egwyddor arall a nodir gan MacIntyre –

Each party ... succeeds by the standards internal to its own tradition of moral inquiry, but fails by the standards internal to the traditions of its opponents¹⁴⁸

gellir awgrymu nad yw'n bosib i nifer o ddarllenwyr cenhedlaeth 1975-2005 nad yw Duw na Gair Duw yn rhan o'u bywyd beunyddiol goleddu'r canon llenyddol Cymraeg fel y'i diffinnid gan R. M. Jones.¹⁴⁹ Ys dywed Saunders Lewis: 'Llifodd darn o fôr rhwng dwy genhedlaeth ac ni fedrwn siarad gyda'n gilydd ar draws yr

¹⁴⁵ R. M. Jones, *Cyfriniaeth Gymraeg*, t. 169.

¹⁴⁶ D. Densil Morgan, 'Yr Iaith Gymraeg a Chrefydd', gol. Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams, *'Eu Hiaith a Gadwant'?* (Caerdydd, 2000), t. 379.

¹⁴⁷ Alasdair MacIntyre, 'A Partial Response to my Critics', gol. John Horton and Susuan Mendus, *After MacIntyre: Critical Perspectives on the Work of Alasdair MacIntyre* (Oxford, 2il arg., 1996) t. 296.

¹⁴⁸ *Ibid.*, t. 294.

¹⁴⁹ Cymh. Angharad Price, op. cit., 57. 'I'r sawl sy'n rhannu'r un safbywntiau crefyddol absoliwtaidd â Bobi Jones, diau y bydd *Beirniadaeth Gyfansawdd* yn destament gwerthfawr. Ond bydd eraill yn teimlo siom ...'

agendor.’¹⁵⁰ Amlygu hynny – mawredd y môr – y mae sylw Alan Llwyd isod.

Meddai:

Roeddwn i’n darllen cywydd gan Gerallt Lloyd Owen o flaen dosbarth o fyfyrwyr a ’doedden nhw ddim yn deall y cywydd. Mi wnaeth hynny fy nharo i. Ac mi ddarllenais gerddi symlach na’r cywydd hwnnw. ’Doedd y cywydd yna ddim yn astrus ond ’roedd o’n gyfoethog. ’Doedden nhw ddim yn deall y cywydd ac ’roedden nhw’n cyfaddef hynny.¹⁵¹

Yr un, fe ymddengys, yw’r ‘agendor rhwng y bardd a’i gynulleidfa gyfoes’, boed y bardd hwnnw yn un canoloesol neu’n un cyfoes.¹⁵²

Flwyddyn cyn iddo lefaru’r sylw uchod, nododd Saunders Lewis yn 1953 fod ‘ffyniant ac ailflodeuo’r iaith a’r diwylliant Cymraeg er gwaethaf cyfri’r bobl a holl figwth diwydiannaeth yn dibynnu yn yr ugeinfed ganrif hon ar un peth syml ond argyfyngus ansicr: fod ymneilltuwyr ac eglwyswyr Cymraeg yn ailddarganfod eu Ffydd ac yn rhoi iddi yr unig le, ysywaeth, y gellir ei roi i Ffydd, sef y lle blaenaf a llywodraethol’.¹⁵³ Cymhwysiad llenyddol o’r egwyddor honno a welir yn *Llên Cymru a Chrefydd* a gyhoeddwyd yn 1977: credu bod llewyrch llenyddiaeth Gymraeg yn dibynnu ar ymrwymiad Cristnogol y Cymry, ac na ellir coleddu’r canon llenyddol Cymraeg heb rannu’n gyntaf fath o ganon ffydd Cristnogol.

Y mae ymron chwarter canrif rhwng ysgrif ‘Y Beibl’ gan Saunders Lewis yn 1954, a *Llên Cymru a Chrefydd*. Ond gallai’r ieuengaf o’r ddau feirniad arddel yr un safbwynt, fe greidir, oherwydd yr oedd o hyd yn y saith degau ryw gymaint o fywyd ar ôl yn y traddodiad capelyddol Cymraeg y gallai apelio ato. Yn 1970, er enghraifft, nododd fod y ‘Cymro’ ‘[h]yd yn gymharol ddiweddar ... yn rhy gyfarwydd ag emynau ... fel na ellid eu beirniadu fwy nag y gellid beirniadu plwm pwdin mam’.

¹⁵⁰ Saunders Lewis, ‘Y Beibl’, detholwyd gan Marged Dafydd, *Ati, Wŷr Ifainc* (Caerdydd, 1986), t. 26.

¹⁵¹ Alan Llwyd, ‘Ynghylch Llenyddiaeth a Beirniadaeth ...’, op. cit., t. 136.

¹⁵² Idem, ‘Rhagair’, *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym* (Abertawe, 1980), t. 9.

¹⁵³ Saunders Lewis, ‘Ysgol a Chrefydd’, *Ati Wŷr Ifainc*, t. 24.

Gryfed y traddodiad anghydfurfiol, nes yr oedd emynau'r Cymro 'yn gymaint rhan o'i gyfansoddiad bob dim â thablau rhifydddeg'.¹⁵⁴ Felly, hyd yn oed os mai rhyddfrydol ac nid uniongred ydoedd llawer peth ym mywyd crefyddol y saith degau, gwyddai'r bobl 'y geiriau heb adnabod y Gair', chwedl Gwenallt, a gellid, felly, ymresymu â nhw. Gwaddol traddodiad ydoedd, ond nid gwaddol diystyr chwaith. Prawf o hynny ydoedd canlyniad refferendwm 1961 ar fater cadw'r Sul yn sych, yn enwedig felly yn 'y fro Gymraeg'.¹⁵⁵ Fel y nododd John Aitchinson a Harold Carter, yn rhan olaf yr ugeinfed ganrif – ac nid cyn hynny – y gwelwyd 'an accelerating decline in the influence of nonconformist Christianity'.¹⁵⁶

Fodd bynnag, mewn amgylchfyd gwahanol iawn y cyhoeddwyd y drioleg *Mawl a'i Gyfeillion, Mawl a Gelynyon ei Elynion a Beirniadaeth Gyfansawdd* wedi troad y mileniwm, sef mewn cyfnod pan nad yw pobl hyd yn oed yn gwybod y geiriau; pan fo'r 'eirfa fwyaf elfennol dechnegol hefyd, wrth gwrs, megis 'Cyfiawnhad' a 'Sancteiddhad' eu hun ... yn ddigon estron'.¹⁵⁷ Yn *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972*, awgrymodd R. M. Jones ar ganol y saith degau fod y degawd yn cynrychioli 'cyd-gyfarfyddiad o ddiwedd un ffordd o fyw â dechrau dull arall'.¹⁵⁸ Cyd-destun gwleidyddol ydoedd i'r gosodiad hwnnw ar y pryd, ond gellir ei gymhwyso hefyd at y modd y peidiodd y traddodiad capelyddol Cymraeg â bod hyd yn oed yn waddol ystyriol yn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif; yn bennaf oherwydd treulio 'y dystiolaeth Gristnogol o'r tu mewn i'r eglwysi', hynny yw, yn sgil diwinyddiaeth ryddfrydol, eithr hefyd oherwydd am na lwyddodd Cristnogion 'yn

¹⁵⁴ Bobi Jones, *Pedwar Emynydd* (Llandybie, 1970), t. 7.

¹⁵⁵ Gw. R. Merfyn Jones, *Cymru 2000* (Caerdydd, 1999), tt. 83-4.

¹⁵⁶ John Aitchison a Harold Carter, *Spreading the Word: The Welsh Language 2001* (Talybont, 2004), t. 24. Fy mhwyslais i. Cymh. D. Densil Morgan, op. cit. t. 379. 'Pan gyhoeddwyd ym 1983 ganlyniadau arolwg a wnaed ar gyflwr eglwysi Cymru, yr oedd yn bur amlwg fod crefydd gyfundrefnol yn prysur gollu ei grym a'i dylanwad.'

¹⁵⁷ R. M. Jones *Mawl a Gelynyon ei Elynion*, t. 56.

¹⁵⁸ Idem, *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972* (Llandybie, 1975), t. 3.

feddyliol i fod yn berthnasol yn gyffredinol. Ymdeimlai cenedlaeth newydd mai ystyr hynny oedd nad oedd croeso iddi hi.¹⁵⁹

Wyneb yn wyneb â'r genhedlaeth newydd honno, sylweddolodd R. M. Jones fod y ddadl a gyflwynwyd yn *Llên Cymru a Chrefydd* ac yn *Cyfriniaeth Gymraeg*, hyd yn oed os oes modd ei chyfiawnhau yn athronyddol, yn un ddiwylliannol beryglus iawn, pan nad oes olwg heddiw o'r un diwygiad crefyddol Cymraeg ar y gorwel. Nid awgrymir iddo newid ei farn o gwbl, ond yr oedd y dehongliad cenedlaethol o lenyddiaeth a gyflwynwyd yn *Ysbryd y Cwlwm* yn un mwy cynhwysol o lawer, sef y llyfr a enillodd iddo wobwr Llyfr y Flwyddyn.

Un o'r prif rwystrau rhag cyflwyno dehongliad Cristnogol o lenyddiaeth Gymraeg heddiw yw nad oes cynulleidfa ar ei gyfer; ystyriaeth arbennig o berthnasol i'r neb a wêl mai diben unrhyw ganon yw cynorthwyo carfan o bobl i'w hadnabod eu hunain yn well. Ys dywed Wyn Griffith:

The puritan has never found it difficult to criticize his neighbours, or himself, according to settled convictions based upon his interpretation of the Word. But the decline of Puritanism has diminished the audience : there is no common acceptance of its standards and their relevance to mundane matters.¹⁶⁰

Nid perthnasedd y ddadl i'r gynulleidfa, fodd bynnag, yw'r unig rwystr. Nid yw hwnnw'n ddigon o reswm ynddo'i hun dros newid y ddadl. Yn hytrach, wyneb yn wyneb â'r newid yn y gynulleidfa Gymraeg yn y chwarter canrif a aeth heibio wedi cyhoeddi *Llên Cymru a Chrefydd*, a hanner canrif er pan gyhoeddodd Saunders Lewis ysgrif 'Y Beibl', nodir mai'r rhwystr pennaf rhag cyflwyno dehongliad Cristnogol o lenyddiaeth Gymraeg heddiw yw sylweddoli mai pen draw'r ddadl honno sy'n diffinio diwylliant cyfan mewn perthynas â'i fywyd crefyddol yw y dehonglir

¹⁵⁹ R. M. Jones *Mawl a Gelynyon ei Elynion*, t. 55. Cymh. Dafydd Glyn Jones, 'Traddodiad Emrys ap Iwan', *Agoriad yr Oes: erthyglau ar lôn, hanes a gwleidyddiaeth Cymru* (Talybont, 2001), t. 62. Edrychir ar y '1970au' fel cyfnod o seciwlaireiddio carlamus. Gw. isod.

¹⁶⁰ Wyn Griffith, *The Welsh* (Cardiff, 1968), t. 182.

dirywiad y traddodiad capelyddol Cymraeg yn farwolaeth diwylliant cyfan. Cyfeiriodd D. Densil Morgan at duedd rhai crefyddwyr ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i 'glymu tynged y Gymraeg ... wrth dynged y ffydd'.¹⁶¹ Fe'i gwelir hefyd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif.

Ystyrier, er enghraifft, y gerdd, 'Daeth i Ben', gan Gwyn Thomas yn *Darllen y Meini*, lle yr agorir drysau caeëdig y capel am ychydig oriau i gladdu un Ifan Cadwaladr yng ngŵydd 'yr wyrion / Saesneg'. Anodd yw peidio â synhwyro bod claddu'r un hynafgwr hwn yn y capel caeëdig yn symbol o farwolaeth iaith.

Cymro oedd yr ymadawedig,
Cymro Cymraeg, Cymro gwledig
A oedd, bellach, yn fyddar, yn fudan: -
Darfod 'wna tafod pob truan. [...]

Ac yno, yna, yn nhŷ gwag yr Arglwydd,
Ymledodd arswyd mud distawrwydd.¹⁶²

Cleddir hynafgwr Cymraeg mewn capel caeëdig, mewn iaith sy'n annealladwy i'w deulu ei hun. Ac yn nhrefodaeth y bennod hon, y mae i'r gair 'tafod' yn y gerdd, felly, arwyddocâd arbennig. Oherwydd o ddiffinio unigrywiaeth y Tafod Cymraeg mewn perthynas â Christnogaeth yn bennaf oll, y mae'n anodd iawn gweld wedyn ym mha fodd y gall darllenydd ôl-Gristnogol o Gymro goleddu Mynegiant y gorffennol.¹⁶³ Tystio i hynny'n wir y mae'r sylw isod o *Beirniadaeth Gyfansawdd*.

Bu un o'r gwrywydwyd Cymraeg yn hawlio'n ddiweddar nad oedd gan y gynhysgaeth lenyddol Gymraeg ddim i'w ddweud wrth ei genhedlaeth ef

¹⁶¹ D. Densil Morgan, op. cit., t. 357.

¹⁶² Gwyn Thomas, *Darllen y Meini* (Dinbych, 1998), t. 65. Cymh. Robert Alter, *Canon and Creativity: modern writing and the authority of scripture* (London, 2000), t. 48. Edrychir ar y Beibl mewn termau tebyg iawn i Dafod R. M. Jones. Iaith ydyw. 'By language, I mean ... the words and idioms through which it becomes possible to say anything at all.'

¹⁶³ Cymh. Gwilym E. Humphreys, op. cit., t. 107: 'Cofiaf i mi deimlo tua diwedd y chwe degau gydag un to o ddisgyblion, bechgyn yn bennaf, fod ein pwyslais allgyrsiol yn or-eisteddfodol a chrefyddol ac yn rhy ymwithgar o safbwynt y Gymraeg; bu iddynt fynegi eu hanniddigrwydd drwy ymddygiad anghymdeithasol a oedd "yn erbyn y sefydliad". Ond fe ddigwydd hyn o bryd i'w gilydd ym mhob ysgol.'

mwyach gan ei bod braidd yn brin o wrywgydwyr tan ein hoes oleuedig ni. Nid yw'n ystyrllon iddynt hwy bellach: na'r Mabinogi na Dafydd ap Gwilym na Kate Roberts. Sylwais ar un beirniad ffeminyddol adnabyddus yn honni nad oedd llenyddiaeth wrywaidd yn ddealladwy nac yn dderbyniol i fenywod, mwy nag yr oedd llenyddiaeth fenywaidd i wrywod. Yr ydym yn byw mewn bydoedd gwahanol anghatholig, bawb. Darllenais feirniad Marcsaidd Cymraeg a gredai fod Idris Davies yn well bardd na Saunders Lewis am resymau gwleidyddol. Nid oedd fel pe bai'n medru ymateb yn gytbwys o gwbl i Saunders Lewis oherwydd diffygion tybiedig crefyddol a chymdeithasol Saunders cyn belled ag y deallai ef hwy. Chwalwyd y gallu cynhenid i werthuso'n weddol gall gan chwerwder culni.¹⁶⁴

Gwêl y beirniad fod 'ysbryd y cwlwm' yn datgymalu, a Chymru luosol yn 'Gymruau mân', a phob llais yn hawlio ei ganon ei hun.¹⁶⁵ Yr ydym 'ni'r rhamantwyr' yn ymdroi'n ni-au. A newid ar lefel 'gallu cynhenid' yw hyn, sef ar lefel Tafod y canon. Arwyddo hynny y mae'r anghydweld ynghylch Mynegiant y canon. Fel arall, o feddu ar Gerdd Dafod gyffredin, ni fyddai fawr o ddadlau ynghylch cynnwys y canon. Clywid yr 'Ooo' o hyd.

Un o egwyddorion sylfaenol theori Tafod-Mynegiant yw mai 'cymdeithas yw'r unigolyn ei hun bob amser'.¹⁶⁶ Ond cymaint y bwch rhagfarnau mwyach rhwng gweithiau'r canon llenyddol hwnnw a ddiffinnid gan R. M. Jones a Saunders Lewis o'i flaen mewn perthynas â'r meddwl Cristnogol, a meddylfryd y gymdeithas ôl-Gristnogol heddiw a'i phwys ar luosedd barn, fel na all y beirniad o Gristion ymddiried yn y darlennydd hwnnw a fagwyd ynddi. Yn hytrach, 'Darllener y canon' yw'r arwyddair yn awr, nid 'Barned y darlennydd'. A'r gobaith yw y daw'r darlennydd hwnnw o hyd i Dafod y gorffennol wrth iddo ddarllen Mynegiant y gorffennol. Mewn cymdeithas draddodiadol, dynn ei gwead lle y ceir dilyniant clòs rhwng awduron y gorffennol a darllenwyr y presennol, gweithio ar lefel Tafod y bydd y canon llenyddol – y cyd-ddeall cyn darllen – gyda'r canon yn fodd o gadw unigrywiaeth pobl. Ond

¹⁶⁴ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 110.

¹⁶⁵ *Ibid.*, t. 108.

¹⁶⁶ *Ibid.*, t. 209.

pan dorri y cysylltiad hwnnw drwy amlder Mynegiant neu Fynegiant estron, ni ellir ond gobeithio cyflwyno'r Tafod hwnnw ar lefel Mynegiant, gan obeithio bod rhyw gymaint ohono'n dal i fodoli ymysg y bobl fel y gellir, trwy Fynegiant y canon llenyddol, ailafael ynddo.

Nodwyd ar ddechrau'r bennod hon mai gweithio ar lefel Tafod y mae'r canon.

Ond sylweddolodd R. M. Jones, fe greidir, fod yn rhaid iddo yn y Gymru drefedigaethol ac ôl-Gristnogol hon weithio ar lefel Mynegiant yn fwyaf arbennig, fel cyfrwng i eraill ymDafodi drwyddo, fel y gwnaeth ef ei hun. '[Y] peth pwysicaf ... yw *cynefino* plant â llenyddiaeth dda', meddai T. J. Morgan; nid gadael iddynt ymateb iddi, a dweud beth y tybiant sy'n dda amdani.¹⁶⁷ Dyma pam y mae addysg feithrin, gynradd ac uwchradd Gymraeg, ynghyd â'r Urdd, wrth gwrs, mor bwysig, a'r rheswm pam yr esgeuluswyd y sector addysg uwch gan fudiadau adfer y Gymraeg tan yn gymharol ddiweddar. Yr oedd René Descartes, er gwaethaf ei awydd i ddod o hyd i safbwynt cyfan gwbl wrthrychol, yn llygad ei le pan nododd 'we have ... been imbued with a thousand prejudices from infancy'.¹⁶⁸ Oherwydd nid dysgu na iaith na Thafod na chanon na thraddodiad mewn modd ymwybodol y mae plant, eithr, ys dywed Dewi Hughes: 'Small children don't learn, they absorb. Learning is a conscious activity. To learn, one needs to perceive a body of knowledge that one doesn't yet possess, and then engage in a conscious and often tedious process of learning. I didn't learn Welsh; I absorbed it.'¹⁶⁹ Math o drochiad yw. Am y rheswm hwnnw, sylweddodd O. M. Edwards y buasai 'un Hans Anderson yn werth, a mwy na

¹⁶⁷ T. J. Morgan, *Ysgrifau Llenyddol* (Llundain, 1951), t. 2.

¹⁶⁸ René Descartes, *The Philosophical Works of Descartes I*, cyf. Elizabeth S. Haldane a G. R. T. (Cambridge, 1967), t. 250.

¹⁶⁹ Dewi Hughes, *Castrating Culture: A Christian Perspective on Ethnic Identity from the Margins* (Carlisle, 2001), t. 20.

gwerth, y cyfan i gyd' o waith 'beirdd goreu Cymru'. '[R]haid i rywrai ymdáflu i waith dros y plant.'¹⁷⁰

Gwneud hynny a wnaeth O. M. Edwards. Ond yr un rheswm sy'n 'gymhelliad' yn rhannol i'r beirniad llenyddol proffesiynol. Oherwydd gwelir yng ngwaith diweddar R. M. Jones ei fod yn aml yn ystyried bod y rhelyw o oedolion heddiw yn ymddwyn fel plant.¹⁷¹

Wedi iddo edrych ar y Gymru hon a gweld ym mha fath o gynefin y mae'r darlennydd anghyfrifol ac anaeddfed yn byw heddiw, teimlir mai'r angen yw ei gael i gynefino â rhestr barod o weithiau canonaidd y gall ef eu darllen, ac ymgynefino â nhw.¹⁷²

Yn *Tafod y Llenor*, pwysleisiodd R. M. Jones fod y 'derbyn drwy'r deall ... yn weithred greadigol, yn golygu ail-greu'r arwyddiant a ddarllenir: nid derbyn goddefol a wneir. [...] Nid yr un yw'r arwydd a gynhyrcha'r Llenor ag a dderbynia'r Darlennydd gan fod eu clustiau mewnol mor wahanol bob dim â'u clustiau allanol.'¹⁷³ A chan adeiladu ar yr egwyddor hon ynghylch y modd y mae'r darlennydd, a hynny gan fod ganddo ei Gerdd Dafod ei hun, yn ail-greu'r arwyddiant, cyflwynodd R. M. Jones yn *Seiliau Beirniadaeth* ddiffiniad eang iawn o draddodiad llenyddol, sy'n nodi nad

... cynhyrchaeth "rewedig" yw traddodiad llenyddol, felly. Nid cadwyn o bethau sydd wedi cael eu "gosod" mewn lle ac yn ôl pwysigrwydd erioed, heb eu hatrefnu na'i (*sic*) hailystyried byth; ond adeiladwaith gweithredol,

¹⁷⁰ O. M. Edwards, 'Angen Mwyaf Cymru', *Er Mwyn Cymru*, t. 30.

¹⁷¹ Gw. Tudur Hallam, 'Plentyn a phlentyneiddiwch yng ngwaith diweddar R. M. Jones', *Tu Chwith*, 20 (Gwanwyn 2004), 67-96.

¹⁷² Cymh. Ifor ap Dafydd, *Saunders Lewis a'r 'Estheteg Gymreig': Agweddau ar ei feirniadaeth lenyddol* (Traethawd MPhil: Aberystwyth, 2001), t. 95. 'Magu darllenydd cymwys yw ei nod [Saunders Lewis], darllenydd sydd yn meddu ar safonau llenyddol, a safonau meddyliol yng nghydestun Ewrop, ond yn bwysicach fyth, ddarlennydd sydd â chynhyrchaeth ddiwylliannol neilltuol.' Awgrymir yma, fodd bynnag, fod y ddau feirniad yn gorbriso gallu llenyddiaeth i ddylanwadu ar y ffordd y mae'r rhelyw o bobl yn meddwl, gan gydnabod mai fy nhuedd innau yw aros gyda'r llenyddol, fel pebai'n sffêr ar wahân i weddill bywyd, ac yr un mor ddylanwadol heddiw ag yn 1925.

¹⁷³ R. M. Jones, *Tafod y Llenor*, t. 282.

cynrychiolad (*sic*) cyfnewidiol, a phatrwm aflonydd o berthnasoedd rhwng testunau a ystyrir o'r newydd gan bob cenedlaeth ...¹⁷⁴

Dyma gydnabod, felly, y gall cenedlaethau'r dyfodol roi eu stamp eu hunain ar y canon llenyddol Cymraeg, os nad ei newid yn llwyr. 'I raddau gellir dewis y Traddodiad arbennig hwn neu rannau ohono ym myd Mynegiant yn ôl ein chwaeth ein hun', meddai drachefn yn 1998, wrth nodi mai 'Chwyldro yw Traddodiad Hefyd'.¹⁷⁵

Ond mater 'i raddau' yn unig yw hyn. A chywir hynny. Nid plant sy'n dewis y darnau o benillion Cymraeg na allant yn oedolion eu hanghofio. Gellir dylanwadu ar eraill. Am hynny, yn yr ysgrif fer hon sy'n llwyddo i grynhoi safbwynt R. M. Jones at draddodiad, aeth y beirniad yn ei flaen i ddadlau mai'r bardd gorau yw hwnnw sy'n darllen canon rhyngwladol o weithiau 'sy'n cynnwys Baudelaire a Zbigniew Herbert a Blok'.¹⁷⁶ Amodir, felly, yr hanner rhyddid hwn sydd gan y darlennydd i ddewis y canon cyn gynted ag y'i crybwyllir, wrth i'r beirniad fynd yn ei flaen i nodi pa fath o ganon sy'n eiddo i'r beirdd gorau. Gwelir drwy hynny fod y meistr-feirniad yn parhau yn rhan o sefyllfa ddarllen y Cymro a'r Gymraes heddiw, megis yn nydd Saunders Lewis, ac mai rhan o'i waith yw cynnig rhestr darllen.

Nid syndod, ar un olwg, yw fod R. M. Jones yn ei gyfrol olaf ar theori yn 2003 yn amlygu agwedd fwy ceidwadol o lawer at y canon. Gan fod y gymdeithas y mae ef ei hun yn byw ynddi wedi newid cymaint, ni all ond dadlau mai'r cwestiwn o bwys wrth ddarllen yw

Sut y mae'n cymharu ... â'r 'canon' cyflawn a ymffurfiodd yn ffaith (drwy chwynnu llawer fasiwn) ar hyd y canrifoedd – a, bellach hefyd, ar draws y

¹⁷⁴ Idem, *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4: Cyfarweithiau*, t. 587.

¹⁷⁵ Idem, 'Chwyldro yw Traddodiad Hefyd', op. cit., 122.

¹⁷⁶ Ibid.

gwledydd? Y canon hwn wedi'r cwbl yw'r hyn a ddysgodd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol inni ddarllen, os gallwn ddarllen, yn ddethol.¹⁷⁷

Lle cynt y medrai yn y saith degau ymddiried yn y darlennydd Cymraeg i ddewis ei Fynegiant ei hun, a hynny'n rhannol gan fod Cristnogaeth eto'n ddylanwad ar ei amgylchfyd ef, a'r Gymraeg yn fwyaf arbennig yn parhau'n iaith gymunedol mewn llawer man, mwyach rhaid yw cyfeirio'r darlennydd at y canon. Yn hyn o beth, y mae'r pwyslais mwy ceidwadol yn *Beirniadaeth Gyfansawdd* ar sefydlogrwydd y canon yn wahanol i agweddau mwy rhyddhaol yng ngweithiau blaenorol R. M. Jones, nid yn annhebyg i'r modd yr ysgrifennodd Saunders Lewis *Merch Gwern Hywel* yn 1964, mewn adwaith i foderniaeth *Monica* (1930), a hynny, fel y nododd Dafydd Johnston, am 'iddo weld fod pobl yn fwyfwy ynysig mewn byd diystyr'.¹⁷⁸

Yn 1957, nododd R. M. Jones iddo, wrth grwydro Môn, 'ei dal hi mewn pryd, yn y dydd, cyn i'r hud lwyr-ddiflannu'.¹⁷⁹ Y mae hynny bron hanner canrif yn ôl. Mwyach, rhaid ein haddysgu 'ni'r Rhamantwyr' o'r newydd ynghylch yr hud hwnnw, 'yr anian hen'.¹⁸⁰ Oherwydd awgrym y cymal olaf yn y dyfyniad uchod yw na allwn ddarllen yn ddethol mwyach, ac fel y nododd R. M. Jones yn gywir iawn, 'Ystyr llunio Canon bob amser yw didoli yn ôl safon'.¹⁸¹ Dyna pam y rhydd enghraifft i ni yn *Beirniadaeth Gyfansawdd* o gynnwys canon rhyngwladol o weithiau sy'n cynnwys ynddo '[f]arwnad Llywelyn ap Gruffudd gan Gruffudd ab yr Ynad Coch ... ; 'Rhyfedd, rhyfedd gan angylion', Ann Griffiths; y Brenin Llŷr; ... [a] 'Mair Fadlen', cerdd Saunders Lewis'.¹⁸² Ar y naill law, effaith y cyfeirio hwn at y canon

¹⁷⁷ Idem, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 241.

¹⁷⁸ Dafydd Johnston, 'Moderniaeth a Thraddodiad', *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), 18.

¹⁷⁹ Bobi Jones, *Crwydro Môn*, t. 128.

¹⁸⁰ Cymh. Saunders Lewis, 'Cyfnod y Tuduriaid', *Ysgrifau Dydd Mercher* (Cyhoeddiadau'r Clwb Llyfrau Cymraeg, 1945), t. 34. '[C]enedlaetholwr Cymreig yn olrhain twf cenedl a gâr ... yw Syr John. [...] Hanesydd o'r un anian yw Mr. Bebb.'

¹⁸¹ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 156.

¹⁸² *Ibid.*, t. 156.

rhyngwladol yw cadarnhau awdurdod y beirniad ei hun i farnu ynghylch safon ddiarnheul llenyddiaeth Gymraeg – thema a archwilir yn y bennod nesaf. Ond ar y llaw arall, ei amcan ymarferol yw ‘cynefino plant â llenyddiaeth dda’. Fel y nododd J. Cynddylan Jones fod yn ‘[r]haid i dduwinyddiaeth gadarn, iach, fod yn seiliedig ar y Beibl’, felly y dadleuodd R. M. Jones fod yn rhaid i feirniadaeth lenyddol Gymraeg gael ei seilio ar weithiau’r canon llenyddol Cymraeg.¹⁸³

Dyna’r theori. Dyna’r gobaith, sef cynnal Tafod y gorffennol drwy gynnig cyfarwyddyd i eraill a’u cael i ymdrochi ddigon ym Mynegiant y canon. Ar un olwg, cymhwyso’r hyn a ddigwydd i’r unigolyn o awdur ar gyfer gweddill y genedl yw awydd R. M. Jones. Nododd ef fod y bardd yn dysgu’r ‘gorffennol ... yn ei gyhyrau, a daw yn rhan o’i rythm oherwydd ei drwytho’i hun ynddo wrth ddysgu lled ei grefft’.¹⁸⁴ Try Mynegaint yn Dafod, yn sgil trwytho ac ymdrochi, megis y trodd emynau’r Cymro, gan iddo eu canu mor aml, yn ‘rhan o’i gyfansoddiad’.¹⁸⁵ Ac ar lun y patrwm hwn o Fynegiant yn troi’n Dafod, rhan o batrwm diwylliannol amgenach o adfer cenedligrwydd drwy addysg ydyw’r canon; sef ymdrech i geisio ‘*meithrin* y gwahanrwydd cenedligol yn gwbl fwriadus’. Nododd J. R. Jones ‘mai egwan hyd at drengi yn ein mysg yw ... “[c]enedligrwydd rhagdybiedig” – y gwahanrwydd cenedligol a gymer cenedl normal yn gwbl ganiataol amdani ei hun’.¹⁸⁶ Y rhagfarn honno nad yw’n sylwi arni hi ei hun. Tafod ydyw term R. M. Jones ar gyfer y math hwn o ‘genedligrwydd rhagdybiedig’; ac ymgais i’w feithrin ydyw hyrwyddo math arbennig o Fynegiant llenyddol Cymraeg, gan obeithio ‘y corfforir elfen o Fynegiant

¹⁸³ J. Cynddylan Jones, op. cit., t. 25.

¹⁸⁴ R. M. Jones, ‘Chwyldro yw Traddodiad Hefyd’, op. cit., t. 122. Cymh. G. J. Williams, ‘Adolygu Llyfrau’, *Y Llenor*, 2 (1923), 92. ‘Dylai’r beirniad drwytho ei feddwl yng ngweithiau’r awduron y mae cenedlaethau aneirif wedi eu galw yn glasuron. Yno y purir ei chwaeth. Yno y caiff ei safonau.’

¹⁸⁵ Bobi Jones, *Pedwar Emynydd*, t. 7.

¹⁸⁶ J. R. Jones, *Ac Onide* (Llandybie, 1970), t. 142.

mewn Tafod'.¹⁸⁷ At hyn yr anelai Saunders Lewis yntau wrth nodi y bydd awduron yn Ffrainc yn cynhyrchu '[c]orff o waith sy'n mynd yn rhan o gynhysgaeth feddyliol eu cyfnod'.¹⁸⁸ Try Mynegiant y llyfr yn gynhysgaeth Tafod. Ei derm ef am hynny ydoedd 'mwynder'.¹⁸⁹

Yn absenoldeb y 'mwynder' hwnnw, dadleuodd y beirniad yn yr ugeinfed ganrif mai ei waith ef ydoedd 'gweithredu fel barnwr', ys dywed G. J. Williams, a '[b]od yn offeryn i feithrin chwaeth y cyhoedd'.¹⁹⁰ Estyniad ar fwriadau cyfnodolion y bedwaredd ganrif ar bymtheg ydoedd hyn. Ys dywed Roger Edwards am *Y Traethodydd*: 'Ymgeisia i ddyrchafu a phuro archwaeth y Cymry at ddarllen ac ysgrifenu (*sic*).'¹⁹¹ Diben y beirniad a'r canon, fe ymddengys, yw strwythuro cymdeithas mewn perthynas â llythrennedd, gyda'r pwys mwyaf yn cael ei roi ar feistroli cyweiriau mwyaf datblygedig y Gymraeg, megis yng ngwaith beirdd a chwedleuwyr y canrifoedd a fu.¹⁹² Ys dywed Saunders Lewis: 'Cymraeg cywir heddiw yw Cymraeg beirdd y bymthegfed ganrif.'¹⁹³

Fodd bynnag, nid yn unig fod theori rhyngiaith yn amlygu anferthedd, os nad amhosibilrwydd y dasg drochi hon yn y Gymru Gymraeg sydd ohoni, eithr un anhawster arall y mae'r beirniad llenyddol a gais hyrwyddo math o ganon llenyddol yn ei wynebu heddiw yw ystyried yn ymarferol pa fodd y gellir sicrhau bod

¹⁸⁷ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 222.

¹⁸⁸ Saunders Lewis, 'Ffrainc cyn y Cwmp', *Ysgrifau Dydd Mercher*, t. 13. Awgrym yr ysgrif hon yw nad oes gennym yng Nghymru ganon. Gw. t. 12. 'Onid oes rhywbeth hanfodol ddi-olyniaeth a di-drefn yn ein holl feddwl a'n holl dwf ni fel llenorion? Nid oes gennym syniad beth yw na hanes nac olyniaeth na pharhad; nid oes gennym "metier."'

¹⁸⁹ Gw. idem, 'Henry James', *Meistri a'u Crefft*, t. 218. 'Holl gelfyddyd y canrifoedd, y dinasoedd hen, y strydoedd brenhinol, creiriau hanes, afonydd a chamlesydd a choed a pherllannau a gwinllannoedd wedi eu trin gan ddynion er cyn cof a'u dofi i fod yn rhan o ddodrefn cymdeithas ... dyna fwynder Ewrop.'

¹⁹⁰ G. J. Williams, op. cit., 94.

¹⁹¹ Roger Edwards, *Y Drysorfa* (1844). Dyf. J. E. Caerwyn Williams, 'Hanes Cylchgrawn *Y Traethodydd*', *Llên Cymru*, 14 (1982-84), 136.

¹⁹² Gw. John Guillory, *Cultural Capital: The Problem of Literary Canon Formation* (London, 1993). Dyma un o brif ddadleuon y llyfr. Y mae diwylliant yn gyfalaf, a meddu ar iaith lenyddol yn rym. Gw. t. 78. '[T]he "literary" language reinstates ... a linguistic difference by which the upper classes can continue to mark their cultural distinction.'

¹⁹³ Saunders Lewis, *Braslun*, t. 2.

cenhedlaeth newydd o ddarllenwyr Cymraeg yn mynd ati a darllen gweithiau'r canon llenyddol, a'u mwynhau ddigon i'r Mynegiant droi'n Dafod, ac nid yn werslyfr yn unig. Oherwydd, fel yr holodd Alan Llwyd,

Os nad yw'r cefndir llenyddol ac ieithyddol angenrheidiol gan rywun, pam trafferthu i ddarllen barddoniaeth o gwbl?¹⁹⁴

Wyneb yn wyneb â 'darn o fôr', pam nofio yn erbyn y tonnau?

Fel y nododd Bobi Jones yn ei hunangofiant, y mae cymaint o'r gwaith hwn o feithrin y gwahanrwydd cenedligol yn dibynnu ar athrawon Cymru. Gwelir hyn yn glir yn astudiaeth John Aitchison a Harold Carter, *Spreading the Word: The Welsh Language 2001*, lle y nodir i'r broses o ddad-ddiwydiannu Cymru greu 'a new bourgeoisie which was partly Welsh-speaking ... who contributed in a major way to the development of education from *Ysgol Feithrin* (nursery school) to University'.¹⁹⁵ Gwerthfawrogir pwysigrwydd y datblygiad hwn o safbwynt y canon llenyddol Cymraeg o gofio mai'r 'traddodiad llenyddol yw'r iaith gelfyddydol a *ddysgir* gan lenor', ac ar ryw olwg, a ddysgir iddo.¹⁹⁶ Mae'r portread a roddodd R. M. Jones o'i athro Cymraeg, Elvet Thomas, yn un gwir hoffus, ac efallai'n awgrymu ymhle y gwelodd ef gyntaf y 'gynneddf' ragdybiaethol honno sy'n cysylltu llenyddiaeth â chenedligrwydd ynghyd, os nad oes hefyd ôl rhyw gymaint o ddylanwad rhaglen Fawl R. M. Jones ar y portread o'r athro.¹⁹⁷

[M]awr oedd y lle i fawl, mawl i Gymru, mawl i'r iaith, mawl i hanes cywrain ein cyndadau yn rhediad herciog ei wersi. Hyd yn oed os oedd rhai hadau o anhygoledd llai nag unplyg yn dechrau llithro i mewn i'n hymateb i'w

¹⁹⁴ Alan Llwyd, 'Cynulleidfa'r Bardd', *Y Grefft o Greu* (Cyhoeddiadau Barddas, 1997), t. 106.

¹⁹⁵ John Aitchison a Harold Carter, *op. cit.*, t. 16.

¹⁹⁶ R. M. Jones, *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4: Cyfanweithiau*, t. 566.

¹⁹⁷ Cymh. Alan Llwyd, "'Môr Cymreig fy Mawl": Golwg ar Farddoniaeth Bobi Jones', *Rhyfel a Gwrthryfel: Brwydr Moderniaeth a Beirdd Modern* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), t. 407. 'Ai dyma gynsail yr egwyddor o fawl yn holl waith creadigol Bobi Jones?'

osodiadau ysgubol am gampau aruchel llenyddiaeth Gymraeg, doedd yna ddim amheuon gynnwys ni byth bythoedd ynghylch y serchiadau.¹⁹⁸

Awgrym y dyfyniad, wrth gwrs, yw mai'r peth arhosol o werth a draddododd yr athro i'r myfyrwyr ydoedd y gynneddf, y serchiadau tuag at lenyddiaeth Gymraeg, nid unrhyw sylw empeiraidd ynghylch ei tharddiad na'i chynnwys. A dyna anghenraid pennaf y canon, sef y rhagfarn o'i blaid. Fodd bynnag, rhaid cofio mai'r myfyrwyr hynny nad yw Ioan Williams, Christine James nac Alan Llwyd yn teimlo eu bod yn medru uniaethu â llenyddiaeth Gymraeg mor ddiweddar â chyfnod Saunders Lewis, Gwenallt a Gerallt Lloyd Owen yw'r union rai a fydd yn dysgu cenedlaethau'r dyfodol.

Ond os yw'r dehongliad a gynigir gan R. M. Jones yn wir, sef mai nodwedd amlycaf Cerdd Dafod y Gymraeg, unigrywiaeth y traddodiad llenyddol, yw ei '[ch]efndir ysbrydol', a'i bod yn 'gwbl annichon gwir ddeall llenyddiaeth Gymraeg' heb gofio hynny, ni ddylai anallu darllenwyr ôl-Gristnogol heddiw i brofi'r llenyddiaeth honno'n 'faeth' synnu neb; yn enwedig o gofio cyn lleied y'i darllenir ar lefel Mynegiant mewn ysgol a chartref heddiw.¹⁹⁹ Yn wir, y mae anallu cynifer o ddarllenwyr heddiw i ymateb yn ddeallusol-deimladol i lawer peth yn llenyddiaeth Gymraeg y gorffennol, a chael honno'n 'faeth', fel pe bai'n cadarnhau dehongliad Cristnogol R. M. Jones ohoni. Bu newid yn y gymdeithas. Prawf o hynny yw'r newid yng ngeirfa'r gymdeithas. Nododd Dafydd Glyn Jones, er enghraifft, i un o hoff ymadroddion Saunders Lewis a'i gyfoedion, 'enaid y genedl', fod yn 'ddylanwad am gryn dri chwarter canrif. Bellach mae fel petai wedi diflannu o eirfa cenedlaetholdeb.

¹⁹⁸ Bobi Jones, *O'r Bedd i'r Crud*, t. 61.

¹⁹⁹ R. M. Jones, *Llên Cymru a Chrefydd*, t. 63. Gw. Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory*, op. cit., t. 5. '[F]aint ohonom ni sy'n dal i ymwneud â llenyddiaeth ... y tu allan i addysg ffurfiol [...] Faint o oriau ... o'u cymharu â'r oriau ... yn gwneud pethau eraill megis bod yn [ein] gwelyau, yfed cwrw cartref, ymarfer corfforol, gwylio rhaglenni Saesneg hwyr y nos S4C, neu beth bynnag arall y bydd y stereoteip o'r Gymraes a'r Cymro diwylliedig yn ei wneud mewn wythnos?'

Oddi ar ddechrau'r 1970au bu'r seciwlareiddio mor garlamus fel bod y syniad crefyddol y tu ôl iddo, a alluogai ei ddeall fel trosiad, yn cilio o amgyffred pobl.²⁰⁰

Os felly – os yw'r gallu i amgyffred trosiadau crefyddol wedi cilio o'r tir – fel y nododd Alasdair MacIntyre am ei waith ei hun, gwelir y gallai R. M. Jones yntau ddweud am berthynas gweithiau'r canon llenyddol Cymraeg â'r oes sydd ohoni:

if the central theses in favour of which I have been arguing for nearly twenty years are true, then we should expect them [gweithiau'r canon] to be rejected
...²⁰¹

²⁰⁰ Dafydd Glyn Jones, 'Traddodiadau Emrys ap Iwan', op. cit., t. 62.

²⁰¹ Alasdair MacIntyre, 'A Partial Response to my Critics', op. cit., t. 283.

Pennod 6

Alan Llwyd:

Anwybyddu Theori i Amddiffyn y Canon

Alan Llwyd: Anwybyddu Theori i Amddiffyn y Canon

Nodwyd yn y bennod flaenorol fod gan y Cristion sy'n credu mai Gair anffaeledig Duw yw'r Beibl ddau ddewis wyneb yn wyneb â chasgliadau uwchfeirniadaeth Feiblaidd. Ar y naill law, gall ymateb iddi gan geisio annilysu ei honiadau. Ar y llaw arall, gall hefyd ei hanwybyddu, gan gredu mai cwbl amherthnasol ydyw.

Drwy gydol y traethawd hwn, cynhelid cyffelybiaeth estynedig rhwng perthynas y Beibl ag uwchfeirniadaeth ar y naill law, a pherthynas y traddodiad llenyddol Cymraeg â theori lenyddol gyfoes ar y llall. Awgrymwyd mai camp Saunders Lewis o 1925 ymlaen ydoedd hyrwyddo math o ganon llenyddol Cymraeg, a hynny ar lun a delw canon y Testament Newydd yr oedd ei ddefnyddioldeb i lawer o Gymry dan gwmwl yn sgil uwchfeirniadaeth. Gwelwyd, er enghraifft, iddo o 1925 ymlaen gysylltu ei weithgarwch llenyddol a gwleidyddol ynghyd, a thrwy hynny ddeall mai angen pennaf unrhyw ganon ydyw carfan o bobl. Gwelwyd hefyd fod i'r naill ganon a'r llall ddechreubwynt hanesyddol penodol, canolbwynt cyfeiriol, a *thelos* sicr, a bod ffigwr hollgwmpasog y Traddodiad yn gweithredu mewn ffordd nid annhebyg i'r Ysbryd Glân, o ran ei fod yn tynnu'r gweithiau amrywiol oll ynghyd. Dyna ydoedd *thesis* pennod 4. Nodwyd hefyd i hyn ddigwydd mewn cyd-destun arbennig iawn wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, lle'r oedd llenyddiaeth fel pe bai'n olynu crefydd fel modd i'r Cymry ddiffinio eu hunaniaeth genedlaethol, gydag ambell athro Ysgol Sul ifanc yn annog y plant i ddarllen y Mabinogi yn lle'r Beibl.

Dyma ydoedd camp ryfeddol Saunders Lewis. Rhoes ffurf ganonaidd i lenyddiaeth Gymraeg. Mor llwyddiannus yn wir ydoedd yr ymdrech hon i hyrwyddo'r 'traddodiad llenyddol Cymraeg' nes iddo ddatblygu'n fath o *episteme*, ac i'w arfer ef o edrych ar destunau llenyddol yn nhermau 'corff o lenyddiaeth' ddatblygu'n arfer

gyffredinol ymhlith beirniaid llenyddol ac ysgolheigion Cymraeg am o leiaf hanner canrif. Y mae'n wir mai un ffigwr ymhlith cyfnod o ddadeni ym maes beirniadaeth ac ysgolheictod Cymraeg ydoedd, ond sylwyd bod y rhelyw o bortreadau yn pwysleisio newydd-deb ei olwg ef ar lenyddiaeth yn hyn o beth.

Fodd bynnag, nid yn annhebyg i'r modd y bu'n rhaid i rai o'r Cymry ymateb i'r 'datblygiadau newydd yn ysgolheictod Feiblaidd yr Almaen a gysylltid ag enw Julius Wellhausen', a holi 'a oedd yn bosibl ei derbyn heb orfod aberthu'r hen ffydd efengylaidd',¹ felly hefyd y bu'n rhaid i ddeiliaid yr *episteme* newydd hon a sefydlwyd yn rhannol gan Saunders Lewis ystyried ffyrdd eraill o drin a thrafod llenyddiaeth Gymraeg. *Thesis* y traethawd hwn yw fod sawl peth yn debyg rhwng amlygiad yr uwchfeirniadaeth Feiblaidd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru ac amlygiad theori lenyddol gyfoes. Os daethpwyd o hyd i unrhyw fath o ddarganfyddiad annisgwyl, y gymhariaeth honno ydyw. Nodwyd, er enghraifft, i'r ddadl ynghylch cynnwys y canon llenyddol Cymraeg ddatblygu law yn llaw â'r modd y dechreuwyd herio'r cysyniad o draddodiad, megis y dechreuwyd datgymalu'r canon Beiblaidd yn sgil amau ei ysbrydoliaeth ddwyfol. At hyn, yn y naill achos a'r llall, gellir nodi yr edrychid ar y feirniadaeth newydd fel un elyniaethus i ffordd gyfarwydd, Gymreig o fyw, a hynny'n rhannol am na ddatblygodd y feirniadaeth honno ar dir Cymru ei hun, eithr ei mewnfario gan leiafrif gorddeallusol, megis y cyfeiriai R. M. Jones yn *Tafod y Llenor* at Ferdinand de Saussure a Gustave Guillaume, dau ŵr na chawsant eu magu yn sŵn y 'Pethe'. Fel y nododd Robert Rhys: 'Mae 'na ragfarn (un digon iach yn aml) yn ein plith yn erbyn damcaniaethau beirniadol estron ...'²

Yn achos R. M. Jones, wrth gwrs, gwelwyd yn y bennod ddiwethaf mai ei ddewis lwybr ef ydoedd defnyddio theori i amddiffyn y canon llenyddol Cymraeg.

¹ R. Tudur Jones, 'Astudio'r Hen Destament yng Nghymru, 1860-1890', gol. Gwilym H. Jones, *Efrydiau Beiblaidd Bangor*, 2 (1977), t. 174.

² Robert Rhys, 'Rhagymadrodd', gol. idem, *Waldo Williams: Cyfres y Meistri 2* (Abertawe, 1981), t. 12.

Ceisiodd amlygu diffygion theori lenyddol gyfoes, ac annog eraill i'w trafod o du safbwynt Cymreig. Dyna hefyd yw safbwynt Robert Rhys. Yn hyn o beth, nodir bod nifer o feirniaid llenyddol Cymraeg sy'n dal yn rhan o ddiwylliant Cristnogol efengylaidd yn estrys beirniadol gwael iawn, gan eu bod mor gyfarwydd â thrin a thrafod uwchfeirniadaeth Feiblaidd, sef rhagredegydd theori lenyddol gyfoes. Gwelant hefyd nad ydynt yn ddiuedd.

Fodd bynnag, y mae gan y beirniad llenyddol Cymraeg ddewis arall hefyd. A hwnnw yw anwybyddu Theori mewn ymgais i'w dirymu ac amddiffyn y canon llenyddol Cymraeg. Dyma, ar un olwg, ddewis Alan Llwyd. Ac y mae'n ddewis dichonadwy y mae angen nodi ei gryfderau. Oherwydd er na chredir yma fod moderniaeth a thraddodiad, ffydd a rheswm yn rymoedd anghymarus, ac y credir bod gwyddoniaeth yr un mor gaeth â llenyddiaeth i draddodiadau o ddeall – dyma, wrth gwrs, safbwynt R. M. Jones, Hans-Georg Gadamer ac Alasdair MacIntyre – ni ddymunir chwaith anwybyddu'r safbwynt modernaidd yn erbyn traddodiad. Yn ôl Jürgen Habermas:

The structure of prejudices, once made transparent, cannot anymore function in the mode of prejudice. [...] The reflected appropriation of traditions destroys the natural substance of the same.³

Nodwyd eisoes ar ddechrau'r bennod ar ganon y Testament Newydd y bydd beirniaid yn aml yn defnyddio'r un gair 'traddodiad' i ddadlau ynghylch dau beth gwahanol. Ys dywed Anthony D. Buckley:

We are concerned here in part with the narrowly semantic question, 'it depends what you mean by "tradition"', for the word 'tradition' has many different shades of meaning.⁴

³ Jürgen Habermas, gol. Karl-Otto Apel et. al., *Hermeneutik und Ideologiekritik* (Suhrkamp, 1971), tt. 47-49. Dyf. Christoph Nyiri, 'Preface', *Tradition: Proceedings of an International Workshop at IFK* (Wien, 1995), t. 9.

I Habermas, ffenomen sy'n sefyll ar wahân i reswm yw traddodiad. Am hynny, unwaith y dechreuir dadansoddi nodweddion y traddodiad y mae'n peidio â bod yn draddodiad. Gwrthosodiad yw dweud 'dyma fy rhagfarnau gwreiddiol i', gan y try rhagfarn yn farn pan ddechreuir ei dadansoddi.⁵

Ni chytunir yma â'r safbwynt hwn. Gellir nodi, er enghraifft, nad yw'r sawl sy'n holi'r cwestiwn 'A oes Duw?', ac sy'n llwyddo drwy resymu ynghylch y cwestiwn i'w ateb mewn modd cadarnhaol yn peidio â chymryd bodolaeth Duw yn ganiataol. Enghraifft arall yw'r modd y bydd y sawl sy'n dysgu'r Gymraeg, wedi cyfnod o ddysgu'r treigladau mewn modd ymwybodol iawn, ei hun yn dechrau 'breuddwydio ... yn yr iaith'.⁶ Nid yw sylwi'n ymwybodol ar wrthrych yn golygu na all eto weithio ar lefel ganiataol, ragfarnol, os nad isymwybodol. Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, gall Mynegiant droi'n elfen o Dafod.

Ond yn hytrach nag edrych ar draddodiadau'r gair 'traddodiad' yma, nodir y gellir dilysu safbwynt Habermas yn athronyddol – hynny yw, cyhyd ag y diffinnir 'rhagfarn' a 'thraddodiad' yn y dull cyfyng, gwrthreswm hwn. Gwelwyd yn y bennod flaenorol i R. M. Jones bwysleisio mai dim ond y sawl sy'n edrych ar y traddodiad o'r tu mewn iddo sy'n medru ei wir ddeall. Os felly, y mae'n ddealladwy pam y mae nifer o feirniaid llenyddol Cymraeg yn amheus o unrhyw theori lenyddol 'estron' na fu ers y dechrau'n deg yn rhan o'r traddodiad brodorol ei hun. Dyma'n wir esbonio pam mai llugoer iawn tan yn gymharol ddiweddar fu'r ymateb i waith beirniadol R. M. Jones ei hun. At hyn, o ystyried y casgliad y daethpwyd iddo ar ddiwedd y bennod ddiwethaf, sef nad oes disgwyl i genedlaethau'r dyfodol goleddu'r canon llenyddol Cymraeg y

⁴ Anthony D. Buckley, 'Collecting Ulster's Culture: Are There Really Two Traditions?', gol. Alan Gailey, *The Uses of Tradition: Essays Presented to G. B. Thompson* (Newry, 1988), t. 50.

⁵ Saunders Lewis, 'Tueddiadau Cymru rhwng 1919 a 1923', *Baner ac Amserau Cymru*, 6 Medi 1923, 5.

⁶ Bobi Jones, *O'r Bedd i'r Crud: Hunangofaint Tafod gan Bobi Jones* (Llandysul, 2000), tt. 87, 72.

bu R. M. Jones drwy gyfrwng theori lenyddol yn ei amddiffyn – o leiaf yn nhermau ‘maeth’ – ni ellir, ar un olwg, ond croesawu’r ymdrech i’w amddiffyn drwy anwybyddu theori.

Ar ddiwedd Pennod 4, nodwyd mai ‘[r]hyw gilwenu y byddwn bellach’ wrth edrych ar y traddodiad llenyddol Cymraeg.⁷ Dyma effaith gyffredinol Theori ar feirmiadaeth lenyddol Gymraeg: cilwenu eironig. Yn hyn o beth, ymddengys sylw uchod Habermas yn berthnasol iawn. Oherwydd awgrymir yma na all y sawl a welodd mai dyfais Saundersaidd yw’r traddodiad llenyddol Cymraeg gredu ynddo i’r un graddau â’i ragflaenwyr, yn enwedig os yw’n diffinio ‘traddodiad’ mewn modd cyfyng iawn sy’n golygu casgliad o destunau llenyddol. Yn hytrach, credir mai mewn modd eironig mwyach y cyfeirir at ‘y traddodiad’, gan sylweddoli mai dyfais greadigol ydoedd a oedd yn rhan o agenda foesol-wleidyddol, fel pob dim arall. Dyma’n rhannol paham y defnyddir yma’r gair ‘canon’, gan gredu ei fod yn cyfleu’r broses o ddethol a fu ar y traddodiad, ynghyd â’r berthynas rhwng llenyddiaeth a sefydliadaeth.

Yn ei ddarlith ar *Hanes* Thomas Parry nododd Derec Llwyd Morgan ‘y tybia rhai na ellir cyflawni tasg fel hyn [sef ysgrifennu’r *Hanes*] o gwbl yn hinsawdd feirniadol yr ôl-foderniaid, gyda’u hamheuon diddiwedd am natur llên ac anhawstra dehongli’r gorffennol’, gan ychwanegu bod yn ‘[r]haid cydnabod yr amheuon’.⁸ Yn anfodlon megis yr ychwanegir y sylw olaf, gan nodi na ddylid addoli’r amheuon hyn. Ond un amlygiad o effaith theori ‘estron’ ar feirmiadaeth lenyddol Gymraeg yw’r modd y cais ambell feirniad, megis Derec Llwyd Morgan, lwybr canol rhwng esboniadaeth a dadadeiladaeth. Wrth gydnabod yr ‘amheuon’, teimlir mai eu

⁷ John Rowlands, *Saunders y Beirniad: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1990), t. 10.

⁸ Derec Llwyd Morgan, ‘*Nid Hwn mo’r Llyfr Terfynol*’: *Hanes Llenyddiaeth Thomas Parry: Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd 2004* (Cyhoeddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 2004), t. 17.

cadarnhau'n rhannol a wneir, ac na ellir mwyach drafod llenyddiaeth Gymraeg fel y gwneid cynt, onid mewn cywair eironig.

I'r perwyl hwn, y mae'r gymhariaeth rhwng effaith uwchfeirniadaeth a theori lenyddol gyfoes yn parhau'n fuddiol, fe gredir. Oherwydd, fel yr awgrymodd Douglas Coupland, eironi yw'r hyn sy'n nodweddu agwedd feddwl y genhedlaeth ôl-Gristnogol honno sydd yng ngolwg R. M. Jones wedi colli'r 'gallu cynhenid' i werthfawrogi llenyddiaeth dda. Yn ei lyfr, *Life After God*, meddai Coupland am y genhedlaeth hon:

Life was charmed but without politics or religion. It was the life of children of the pioneers – life after God – a life of earthly salvation on the edge of heaven. Perhaps this is the finest thing to which we may aspire; the life of peace, the blurring between dream life and real life – and yet I find myself speaking these words with a sense of doubt.

I think there was a trade-off somewhere along the line. I think the price we paid for our golden life was an inability to fully believe in love; instead we gained an irony that scorched everything it touched. And I wonder if this irony is the price we paid for the loss of God.⁹

Er mor gyfan gwbl wych yw bywyd didduw'r cymeriadau yn stori Coupland, synhwyrir yn y dyfyniad uchod eu bod hefyd ar eu colled, a bod yna ryw ddiniweidrwydd melys wedi ei golli am byth. Cyfeiriodd John Rowlands yntau at y sefyllfa hon yn ei ragymadrodd i *Sglefrio ar Eiriau*. 'Oherwydd collwyd diniweidrwydd [...] 'r ydym bellach yn llefaru'n barodiol, ac yn methu dweud pethau'n blaen heb wenu'n eironig o hyd (oherwydd mae'n ddoethach gwenu na chrio).'¹⁰ Er enghraifft, ystyrir mai term cwbl eironig yw 'llynyddiaeth Gymraeg' heddiw, a hynny gan nad yw'n golygu'r un peth mwyach – o leiaf i mi – ag a wnâi i Saunders Lewis. Iddo ef yr oedd yn rhoi 'amcan ac unoliaeth' i fywyd. Anodd yw credu hynny erbyn hyn.

⁹ Douglas Coupland, *Life after God* (London, 1994), t. 273.

¹⁰ John Rowlands, 'Rhagymadrodd', *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), t. vii.

Wrth gwrs, y mae yna ryddhad wrth sylweddoli nad oes raid inni gredu yng ngrym y gair ‘Llenyddiaeth’ â’r un angerdd – y Gair llenyddol. Ac eto, y mae yna ryw dristwch hefyd, fel Nadolig heb gredu mwy yn Siôn Corn. Nid amheuir nad oedd angen i Theori ddod ac amlygu twyll y Traddodiad. Yr oedd angen dinoethi’r ‘berthynas rhwng iaith gwybodaeth a grym mewn cymdeithas’ inni gael ‘gweld trwy a thu hwnt i draddodiadau penodol’.¹¹ Ond ar ôl i rywun sylweddoli mai dyfais ddynol yw’r Traddodiad, anodd wedyn yw iddo ei goleddu â’r un afiaith â’i ragflaenwyr, er ei fod megis yn dal i ysgrifennu amdano ar lun y patrwm beirniadol a etifeddodd – ‘a residue, left over from the evaporation of ... faith’.¹²

Dyma pam y mae Alan Llwyd yn feirniad llenyddol mor bwysig. Oherwydd beirniad sy’n parhau i fedru gwenu yw ef. Y mae’n dal i gredu, ac am hynny ni all y theoriwr, dan straen ei gilwenu ei hun, ond cenfigennu wrtho a diolch am ei gyfraniad mawr i ‘lenyddiaeth Gymraeg’.

Wrth drafod ymateb yr ‘wrthfeirniadaeth’ yng Nghymru i gasgliadau’r uwchfeirniadaeth Feiblaidd, nododd Gwilym H. Jones fod y bwlch syniadol rhwng y ddwy garfan mor fawr fel nad oedd modd ‘osgoi gwrthdrawiad caled a ffyrnig’.¹³ Cafwyd rhyw gymaint o hynny hefyd yn achos cynheiliaid y dull traddodiadol o drafod llenyddiaeth Gymraeg, a’r rhai a ymddiddorai mewn theori lenyddol gyfoes. Ar adegau, rhoddwyd mynegaint llafar ac ysgrifenedig i’r ‘gwrthdrawiad’ hwn. Un o dechnegau R. M. Jones, er enghraifft, yw gwawdio’r ‘beirniaid ceidwadol’ drwy eu dynwared, megis yn *Beirniadaeth Gyfansawdd*.¹⁴ Ond yn rhy fynych o lawer, fe’i

¹¹ Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory: Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caernarfon 1983* (Cyhoeddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 1983), t. 21.

¹² Zadie Smith, *White Teeth* (London, 2001), t. 45.

¹³ Gwilym H. Jones, “Gwrth-feirniadaeth” a’r Hen Destament yng Nghymru oddeutu tro’r ganrif (1890-1914)’, *Y Traethodydd*, 141 (1986), 242.

¹⁴ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd: Fframwaith Cyflawn Beirniadaeth Lenyddol* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), t. 36.

mynegid mewn diffyg trafodaeth, megis yn y diffyg trafod cyffredinol ar waith R. M.

Jones ei hun.

Ni ddylai'r tawelwch beirniadol hwn, fodd bynnag, synnu neb, gan fod iddo gynsail, os nad gwraidd, mewn cyfnod a chyd-destun arall. Yn ei erthygl ar wrthfeirniadaeth 1890-1914, nododd Gwilym H. Jones mai '[d]ewis nifer o awduron y cyfnod oedd anwybyddu Beirniadaeth Feiblaidd yn llwyr'.¹⁵ Mor amlwg y bwlech syniadol rhwng yr hen ddull traddodiadol o drafod y Beibl a'r feirniadaeth newydd fel na theimlid bod angen ymateb iddi o gwbl.

Er iddo 'yn groes i'r graen' ac ar gais eraill roi sylw teilwng i sawl agwedd ar theori lenyddol gyfoes, mynegid yr agwedd wrthfeirniadol hon gan Alan Llwyd. Yn dilyn cyhoeddi *Sglefrio ar Eiriau* yn 1992, meddai: 'nid oes gennyf ddigon o ddiddordeb yn y maes hwn bellach – maes beirniadaeth lenyddol a barddoniaeth – i deimlo'n arbennig o gryf ynghylch dim a ddywedir.'¹⁶ Rhaid parchu'r safbwynt hwn. Byddai bywyd yn ddiflas iawn pe bai pawb yn gwirioni'r un fath. Ond y mae'n deg nodi bod y sylw hwn yn awgrymu bod gan Alan Llwyd ar un adeg ddiddordeb mewn beirniadaeth lenyddol, a gwelir hynny mewn ysgrif a gyhoeddodd ddeng mlynedd ynghynt, sef "'Cwmwl Haf" Waldo Williams (o safbwynt barddoniaeth a beirniadaeth fodern)', lle yr amlygir cynefindra Alan Llwyd â'r traddodiad llenyddol Cymraeg a barddoniaeth Saesneg fodern. Nodir yn hon 'beryglon beirniadaeth lenyddol gyfoes', a'r modd y mae beirniaid llenyddol eraill wedi ymgolli 'yn labrinth eu beirniadaeth

¹⁵ Gwilym H. Jones, op. cit., 242.

¹⁶ Alan Llwyd, 'Golygyddol', [ymateb i John Rowlands (gol.), *Sglefrio ar Eiriau*], *Barddas*, 183-4 (Gorff./Awst 1992), 6.

gymhleth'.¹⁷ Nododd mewn ysgrif arall mai un o'r peryglon hynny yw fod 'y darlennydd cyn bwysiced â'r llenor'.¹⁸

Gan ddyfod fwyfwy i ddeall a gwerthfawrogi safbwynt y gwrthfeirniaid ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn y cyd-destun crefyddol, ac ar ei diwedd yn y cyd-destun llenyddol, rhaid nodi nad 'anwybodaeth oedd yn cyfrif am eu diffyg sylw i bynciau beirniadol'.¹⁹ Dyna farn deg Gwilym H. Jones am yr ymateb i'r feirniadaeth Feiblaidd. Y mae hynny'n wir hefyd am Alan Llwyd a sawl beirniad llenyddol arall nad yw am roi sylw i feirniadaeth lenyddol gyfoes.²⁰ Rhaid nodi'n glir, felly, na feirniedir yma eu gallu beirniadol o gwbl, eithr yn hytrach geisio gwerthfawrogi eu hamharodrwydd i ymateb i ddulliau newydd o drin a thrafod llenyddiaeth. I'r perwyl hwn, credir y gellir cymhwyso'r sylw isod o eiddo Gwilym H. Jones at y naill garfan o wrthfeirniaid a'r llall. Meddai, gan godi dyfyniad o waith Rhosynog, 1893:

Efallai i'r ddisgyblaeth newydd gael ystyriaeth ganddynt, ac iddynt ddod i'r casgliad mai

'Swyddogaeth amlwg y feirniadaeth ... ydyw tynnu i lawr. Nid ydym yn gallu gweled fod yn perthyn iddi fel ei defnyddir heddyw y gorchwyl o adeiladu.'

Eu hanwybyddu o ddewis a wnaed felly.²¹

Fel y gwelir o'r dyfyniad uchod, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr uwchfeirniadaeth yn cyfrannu at grefydd mewn modd cadarnhaol. Dinistriol ydoedd; nid adeiladol. Ac yn hyn o beth, cymharus yw agwedd Alan Llwyd at 'theoriaeth

¹⁷ Idem, "'Cwmwl Haf' Waldo Williams (o safbwynt barddoniaeth a beirniadaeth fodern)", *Y Grefft o Greu: Ysgrifau ar Feirdd a Barddoniaeth* (Cyhoeddiadau Barddas: 1997), tt. 9, 18.

¹⁸ Idem, 'Ar Drothwy Mileniwm', *Y Grefft o Greu*, tt. 114. Cymh. "'Pagan" R. Williams Parry', *Y Grefft o Greu*, t. 292. Beirniedir y 'gangen honno o fewn theorïaeth fodern sy'n rhoi cymaint o bwyslais ar ymateb darlennydd'.

¹⁹ Gwilym H. Jones, op. cit., 243.

²⁰ Gw. Tudur Hallam, 'Camfarnu neu garfarnu beirniad llenyddol?', *Taliesin*, 114 (Gwanwyn 2002), 18. 'Nid o anwybodaeth y mae'n gwrthod trafod theorïau llenyddol na dadansoddi egwyddorion ei feirniadaeth lenyddol ei hun.'

²¹ Gwilym H. Jones, op. cit., 243.

fodern', gyda'r gair 'israddoli' isod yn llwyddo i gyfleu'r un weithred o dynnu i lawr.²² Meddai:

Mae'r damcaniaethwyr wedi israddoli swyddogaeth a rhan llenyddiaeth yn ein bywydau: cais gan feirniaid i roi beirniaid yn uwch o ran statws na'r person creadigol. [...] Melltith, at ei gilydd, ydi mudiadau llenyddol ...²³

Nododd Gwilym H. Jones mai'r rheswm dros agwedd geidwadol y beirniaid ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ydoedd grym dylanwad y gorffennol. 'Methu torri'n rhydd oddi wrth eu hetifeddiaeth yr oedd yr awduron hyn.'²⁴ Y rheswm pam fod hynny hefyd yn wir am Alan Llwyd yw am ei fod yn perthyn i'r genhedlaeth honno yr oedd Saunders Lewis yn ddylanwad mawr arni, ac am iddo ei drwytho ei hun yn y traddodiad llenyddol Cymraeg a hyrwyddodd ef. Amlygir hyn, er enghraifft, yn ei ysgrif, 'Saunders Lewis a T. S. Eliot'. Yn benodol, rhoddir sylw arbennig i syniadau Saunders Lewis ar *le métier*, sef ar 'gynhyrchu gweithiau cyflawn, corff o waith'.

Yn gywir iawn, nododd Alan Llwyd mai 'athrawiaeth ddieithr oedd hon' ar y pryd.²⁵ Ceisiwyd pwysleisio hynny ym mhennod 4. Awgrymwyd i Saunders Lewis, wrth iddo edrych ar waith llenorion unigol a chenhedloedd cyfain yn nhermau 'corff o waith', gyflwyno dull newydd o ddarllen llenyddiaeth Gymraeg. Ond er mor ddieithr ydoedd yr 'athrawiaeth' hon – os na ellir hefyd ei galw yn ddamcaniaeth neu'n theori – fe'i harddelir yn frwd gan Alan Llwyd, a hynny'n rhannol gan mai hon yw'r un a drosglwyddwyd iddo ef gan ei ragflaenwyr beirniadol, Saunders Lewis ac R. M. Jones, dau feirniad llenyddol amlycaf y ddwy genhedlaeth o'i flaen. Y mae'n athrawiaeth sy'n rhoi cyfeiriad i'w waith creadigol ef ei hun, wrth gwrs. Eisoes cyhoeddwyd *Y Casgliad Cyflawn Cyntaf* o'i farddoniaeth, ynghyd â dau gasgliad o'i

²² Alan Llwyd, "'Pagan" R. Williams Parry', *Y Grefft o Greu*, t. 292

²³ Idem, 'Ar Drothwy Mileniwm', *Y Grefft o Greu*, tt. 114-15.

²⁴ Gwilym H. Jones, op. cit., 243.

²⁵ Alan Llwyd, 'Saunders Lewis a T. S. Eliot', *Y Grefft o Greu*, t. 159.

ysgrifau beirniadol. Yn hyn o beth, nodir bod yr athrawiaeth hon yn un gyffredin i'w farddoniaeth a'i feirniadaeth ef fel ei gilydd, a bod y naill gyfrwng o ysgrifennu fel pe bai'n cadarnhau'r llall. Y mae hyn, wrth gwrs, yn wir am y tri beirniad llenyddol dan sylw yn y traethawd hwn. Dyma, ymhlith cyfraniadau eraill, ddramodydd a dau fardd mwyaf cynhyrchiol yr ugeinfed ganrif, a'r ddau fardd yn parhau'n gynhyrchiol yn yr unfed ganrif ar hugain. Perthnasol yn hynny o beth, fe gredir, yw sylw bardd-feirniad arall, sef W. J. Gruffydd: 'po fwyaf o ddawn y prydydd a fo gan y beirniad, mwyaf goddrychol fydd ei farn, a mwyaf anghymwys fydd ef oherwydd hynny i ddewis yn gywir.'²⁶ O gredu mai gweithgarwch creadigol yw beirniadaeth lenyddol, ni raid cytuno'n gyfan gwbl â rhan olaf yr awgrym hwn. Ond teg yw amlygu'r cyswllt goddrychol rhwng y ddwy elfen yn rhaglen waith y bardd o feirniad, yn enwedig felly yn achos unigolion a roes bwys ar undod a chysondeb eu gweledigaeth.

Ond rhaid nodi nad mater personol iddo ef ei hun yw athrawiaeth y corff o waith i Alan Llwyd. Nid ymddiddori yn ei ganon personol ei hun y mae. Y mae'n egwyddor gymdeithasol ar gyfer 'cenedl'. Gan ddilyn Saunders Lewis, nododd fod yn rhaid 'mynd yn ôl at y gwreiddiau'.

[...] Dyma un o'r pethau pwysicaf iddo ei *drosglwyddo* inni. Ac i feddiannu'r gorffennol rhaid oedd meddiannu'r iaith, a'i meistroli hefyd yn ei holl foddau, a darllen ei chlasuron o'r gorffennol i feddiannu cyfoeth geirfa a chystrawen.²⁷

Dyma, felly, ar un olwg, wireddu *telos* Saunders Lewis, sef 'beirniadaeth lenyddol Gymraeg': beirniadaeth wedi ei seilio ar oes o ddarllen diwyd yn y canon llenyddol Cymraeg.²⁸ Gwelir hyn dro ar ôl tro ym meirniadaeth lenyddol Alan Llwyd. Nid nad

²⁶ W. J. Gruffydd, 'Rhagymadrodd', *Y Flodeugerdd Gymraeg* (Caerdydd, 1946), t. xiii.

²⁷ Alan Llwyd, 'Saunders Lewis a T. S. Eliot', *Y Greffi o Greu*, t. 160. F'italeiddio i, er mwyn pwysleisio'r etifeddiaeth feirniadol.

²⁸ Nodir hefyd, fodd bynnag, fod Simon Brooks hefyd yn rhannu'r un awydd i '[f]ynd yn ôl at y gwreiddiau'. Gw. Simon Brooks, 'Llythyr ynghylch ôl-foderniaeth', *Taliesin*, 93 (1996), 96. 'Fel

yw hefyd yn cyfeirio at lenyddiaethau eraill, yn enwedig barddoniaeth Saesneg. Megis Saunders Lewis o'i flaen, a hefyd R. M. Jones, meistr-feirniad sy'n edrych ar gyfraniad y canon llenyddol Cymraeg i lenyddiaeth Ewrop yw ef. Ond ei bwyslais yntau yw fod angen beirniadu'r llenyddiaethau hynny 'o'r safbwynt Cymreig',²⁹ ac ystyr hynny yw trafod llenyddiaeth yng ngoleuni'r canon llenyddol Cymraeg. Dyna un o brif nodweddion beirniadaeth lenyddol Alan Llwyd. Yn sgil ei wybodaeth eang o 'ganon cerddorion' y canrifoedd, darllenir y testun unigol drwy olrhain ei berthynas â thestunau eraill, gan nodi ffynonellau o ddylanwad a chymariaethau posib. Yn *Barddoniaeth Euros Bowen*, cyflwynodd Alan Llwyd egwyddor y mae wedi cadw ati'n ffyddlon ym mhob un o'i gyfrolau beirniadol. 'I ddeall y darn, rhaid deall y gyfeiriadaeth.'³⁰ Yn y gyfrol gyntaf honno, er enghraifft, er mwyn deall arwyddocâd y llinell, 'Angof cêl ddihangfa cwsg', codir dyfyniadau o waith Keats, John Morris-Jones, Alafon, W. J. Gruffydd, ac un bardd anadnabyddus. A'r un modd, wrth drafod cerdd Gwyn Thomas 'Cymry', nodir y

[c]eir nifer o gyfeiriadau yn y gerdd, cyfeiriadau at yr Hengerdd a barddoniaeth y Gogynfeirdd, cyfeiriad at ddarn o ryddiaith gan Ruffydd Robert Milan, cyfeiriadaeth at gerdd J. J. Williams, 'Clychau Cantre'r Gwaelod', a chyfeiriadaeth Feiblaidd.³¹

Y dasg a osododd y beirniad ar ei gyfer ei hun yw amlygu'r gyfeiriadaeth honno. Ac yn hyn o beth, y mae Alan Llwyd yn feistr.³² Nid yw'n syndod mai ef yw'r beirniad a

Saunders Lewis, rwyf innau eisiau cofio (a gwneud yn chwithig) tarddiad etymolegol y gair 'gwreiddiol'.

²⁹ Alan Llwyd, 'Hopkins a'r Gynghanedd', *Y Grefft o Greu*, t. 153.

³⁰ Idem, *Barddoniaeth Euros Bowen Bowen: Cyfrol 1/1946-57* (Abertawe, 1977), t. 68.

³¹ Idem, *Gwyn Thomas: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1984), t. 29.

³² Gan na ddiffinnir yma beth sydd, neu nad yw, yn feirniadaeth lenyddol, ni chytunir ag Alan Llwyd pan ddywed '[nad] beirniadaeth lenyddol mo'r tynnu sylw hwn at ddylanwadau posibl ac at debygiaethau, wrth reswm, ond fe all fod yn ddiddorol i rywrai'. Gw. idem, "'Y Rheswm'": T. H. Parry Williams', *Y Grefft o Greu*, t. 268. Cymh. 'W. J. Gruffydd', *Y Grefft o Greu*, t. 165. 'Digon hawdd i ni sy'n ymhél â beirniadaeth lenyddol daflu enwau anghyfarwydd ger bron ein darllenwyr.'

luniodd y clasur hwnnw, *Y Flodeugerdd o Ddyfyniadau Cymraeg*. Fel y nododd ef ei hun uchod, meddiannodd ‘y gorffennol’.

Yn wir, gwnaeth hynny i’r fath raddau fel yr awgrymir yma fod ei feirniadaeth lenyddol ef yn fynegiant byw ac ymarferol o theori R. M. Jones ynghylch y canon. Nododd R. M. Jones mai’r ‘canon hwn wedi’r cwbl yw’r hyn a ddysgodd yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol inni ddarllen’.³³ Drwy hynny, gwelwyd mai math o rym gwrthrychol yw’r canon sy’n rheoli ein dewisiadau goddrychol ni, megis nad oes gan ddyn ddim dewis ym mater ei alwedigaeth ei hun, eithr yn derbyn y cyfan o ras Duw. Gan gymhwyso’r egwyddor Galfinaidd hon at y canon llenyddol, nodwyd yn y bennod flaenorol mai’r ‘canon piau popeth, ac nid yw’r darlennydd yn ddim’.

Gwelir hyn yn glir ym meirniadaeth Alan Llwyd. Nid yn gymaint am iddo fynegi ei anfodlonrwydd ei hun â’r ‘gangen honno o fewn theorïaeth fodern sy’n rhoi cymaint o bwyslais ar ymateb darlennydd’,³⁴ ond gan fod cynifer o’r cyfeiriadaethau y mae ef yn tynnu sylw atynt yn rhai ‘amlwg’. Hynny yw, ymdrwythodd y beirniad yng ngweithiau’r canon llenyddol Cymraeg i’r fath raddau fel y mae’r canon – neu o leiaf y wedd farddol ohono – fel pe bai’n cyfarwyddo ei feirniadaeth ei hun. Drwy hynny, nid ymddengys i’r darlennydd fod ganddo ef ei hun unrhyw ran yn y broses o ddeall – os na ellir hefyd ddweud creu – ystyr y gerdd. Er enghraifft, wrth drafod gwaith Gwyn Thomas, nododd Alan Llwyd fod ‘[y] defnydd a wna o gyfeiriadaeth yn *bur amlwg*, at ei gilydd’.³⁵ Yn achos y gerdd ‘Ail Eni’, felly, meddai: ‘Mae’r ddelwedd o ddrych yn ein tywys, yn *fwriadol felly*, at yr adnod hon (II Corinthiaid 3.18).’³⁶

Ymddengys fod hyn oll yn bosib am fod y canon llenyddol yn gweithio ar lefel Tafod yng ngwaith Alan Llwyd, ac yn perthyn i gymuned benodol o bobl a

³³ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 241.

³⁴ Alan Llwyd, ‘“Pagan” R. Williams Parry’, *Y Grefft o Greu*, t. 292.

³⁵ Idem, *Gwyn Thomas*, t. 28. F’italeiddio i.

³⁶ Ibid., t. 25. F’italeiddio i.

ddiffinnir yn rhannol yn sgil eu perchnogaeth gyffredin o'r canon. Wrth ddarllen ysgrifau beirniadol Alan Llwyd, er gwaetha'r ffaith iddo bwysleisio mai bod cymharol unig yw'r bardd Cymraeg,³⁷ ymdeimlir ei fod fel beirniad – ac i raddau mwy o lawer nag yn achos y 'damcaniaethwyr' Saunders Lewis ac R. M. Jones – yn ysgrifennu ar gyfer cymdeithas lenyddol sydd ar y cyfan yn rhannu'r un math o safonau lenyddol ag ef ei hun; cymdeithas debyg i'r un honno y cyfeiriwyd ati wrth sôn am 'Ooo' y Babell Lên, ac sy'n cydymateb i lenyddiaeth Gymraeg yn yr un ffordd. Rhaid cofio, wrth gwrs, fod Alan Llwyd yn olygydd ar gylchgrawn sy'n diwallu anghenion cymdeithas farddol, a'i fod, felly, yn ysgrifennu gyda math arbennig o gynulleidfa mewn golwg. Nododd ef ei hun fod 'y Gymru Gymraeg yn gymdeithas fechan, glòs, yn gymuned a gais ddatrys yr un problemau'.³⁸ Dyna pam y mae'r gyfeiriadaeth fynychaf yn 'amlwg', sef am y darllenir y Mynegiant newydd mewn perthynas â Thafod cymunedol, cyffredin. Dyma hefyd pam y bydd y beirniad yn rhagdybio gwybodaeth gyffredin ar ran ei ddarllenwyr, megis y nododd wrth drafod 'Y Ddôr yn y Mur', Gwyn Thomas, er enghraifft, mai 'Chwedl Branwen yn y Pedair Cainc ydi'r cefndir, wrth gwrs'.³⁹ Pan fo'r canon yn gweithio ar lefel Tafod, y '[m]ae'n anodd peidio â meddwl am' ambell ddelwedd gyfarwydd.⁴⁰ Y canon fel petai sy'n meddwl trosom oll.

Pwysleisiodd Saunders Lewis ac R. M. Jones, y naill a'r llall, mai uchelgais y beirniad yw llefaru 'dros draddodiad neu fel aelod o gymdeithas neu fudiad neu gylch eang a phur gyffredinol'.⁴¹ Ond llwyddodd Alan Llwyd, sylfaenydd Barddas,

³⁷ Idem, 'Cynulleidfa'r Bardd', *Y Grefft o Greu*, t. 104. 'Mae darllenwyr unigol yn bod, ond ni ellir hel y rheini at ei gilydd a'u galw'n gynulleidfa neu'n gyhoedd.'

³⁸ Idem, "'Cwmwl Haf' Waldo Williams ...', *Y Grefft o Greu*, t. 1.

³⁹ Idem, "'Y Ddôr yn y Mur": Barddoniaeth Gwyn Thomas ar Achlysur Cyhoeddi *Gweddnewidio*, 2000', *Rhyfel a Gwrthryfel: Brwydr Moderniaeth a Beirdd Modern* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), t. 656.

⁴⁰ *Ibid.*, t. 661.

⁴¹ Saunders Lewis, 'W. J. Gruffydd', [adolygiad o *Y Tro Olaf ac Ysgrifau Eraill*], *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Mehefin 1939, 10.

Cymdeithas Cerdd Dafod, i wneud hynny i raddau mwy o lawer na'r ddau feirniad arall. Amlygu hynny y mae'r ffaith fod ystyron y cerddi y mae'n eu trafod yn amlwg iddo. Fel y nododd Stanley Fish:

That is why it is so hard for someone whose very being is defined by his position within an institution [nid sefydliad o frics, fel y cyfryw, ond unrhyw garfan sy'n rhannu'r un rhagdybiau] ... to explain to someone outside it a practice or a meaning that seems to him to require no explanation, because he regards it as natural. Such a person, when pressed, is likely to say, "but that's just the way it's done" or "but isn't it obvious" and so testify that the practice or meaning in question is community property, as, in a sense, he is too.⁴²

Dyma, fe greidir, yw un o ragoriaethau Alan Llwyd fel beirniad, sef natur gymdeithasol ei feirniadaeth.

Cyfeiriodd Alan Llwyd ei hun at stori fer ledhunangofiannol Bobi Jones 'Crio Chwerthin'. Nodir yno mai uchelgais y dysgwr yw '[b]odoli o fewn yr iaith'. Sôn am fod yn Gymro y mae Bobi Jones, ond cymhwysir y sylw yma at fod yn rhan o lenyddiaeth Gymraeg. Meddai:

Rwyf wedi ewyllysio'n gryf ddigon ers tro gael bod yn Gymro [...] Ond bod yn Gymro: na, peth diewyllys, naturiol, anymwybodol yn y diwedd yw hyn, fel yr awyr yr wyf yn ei hanadlu.⁴³

Ar un olwg, un a aned i lenyddiaeth Gymraeg ydoedd Alan Llwyd, nad oedd angen arno'r un ailenedigaeth lenyddol, fel yn achos Saunders Lewis a R. M. Jones.⁴⁴ Am hynny 'peth diewyllys, naturiol, anymwybodol' fu'r canon llenyddol Cymraeg iddo erioed, fel yr awyr y mae'n ei anadlu. Daw hyn i'r amlwg o'r dechrau'n deg yn yr hunangofiant, *Glaw ar Rosyn Awst*. Fel y nododd ef ei hun:

⁴² Stanley Fish, *Is There a Text in This Class?* (London, 1980), tt. 320-1.

⁴³ Bobi Jones, *Crio Chwerthin* (Cyhoeddiadau Barddas, 1990), t. 31. Dyf. Alan Llwyd, "'Môr Cymreig fy Mawl": Golwg ar Farddoniaeth Bobi Jones', *Rhyfel a Gwrthryfel*, t. 411.

⁴⁴ Cymh. Alan Llwyd, *ibid.*, t. 400. 'Fe'i ganed ef [Bobi Jones] i gael ei aileni.'

'Roedd chwedloniaeth Hedd Wyn yn rhan o'm plentyndod. [...] Ac mi wn i beth oedd yr englyn cyntaf i mi ei ddysgu erioed, heb wybod mai englyn ydoedd. [...] Dechreuais gynganeddu fy hun pan oeddwn yn bedair ar ddeg oed.⁴⁵

Cyd-destun cymdeithasol y feirniadaeth, felly, sy'n esbonio pam yr edrychir ar theori lenyddol gyfoes, megis yr edrychai'r gwrthfeirniaid ar uwchfeirniadaeth Feiblaidd, yn nhermau 'rhywbeth eithriadol o beryglus' a allai amharu ar gymundeb y gymdeithas honno. Ceir cipolwg ar natur gyfeillgar y gymdeithas hyfryd honno yn yr hunangofiant, wrth gwrs. Mewn ambell frawddeg, er enghraifft, deuir ar draws bron i hanner dwsin o feirdd a llenorion Cymraeg sy'n cyfathrebu'n gyson â'i gilydd yn ôl yr un bwriad ac amcan, mewn modd nid annebyg i'r 'ymrysonau cynnar hynny gynt yn Llŷn'.⁴⁶ Unwaith yn rhagor y mae damcaniaethau sosiolenyddol Saunders Lewis ac R. M. Jones yma ar waith mewn ffordd real iawn.

Nododd Gwilym H. Jones mai "heretic beiddgar" oedd Uwchfeirniadaeth a phob un a feiddiai gyffwrdd ynddi'.⁴⁷ Nid mewn modd annebyg, nododd M. Wynn Thomas '[that] the "suspect" use of theory tends (in spite of Raymond Williams) to be seen not only as "un-Welsh" but also as "English"'. Oherwydd hynny, nododd Dafydd Elis Thomas mai 'heresi' ydoedd 'gwadu'r traddodiad', a hwnnw'n gyfystyr â 'gwadu'r cenedlaetholdeb diwylliannol y mae traddodiad yn llo aur ideolegol ohono'.⁴⁸

Yr hyn sy'n eironig i'r theoriwr Cymraeg, wrth gwrs, fel yr amlygodd M. Wynn Thomas – ynghyd â Dafydd Elis Thomas yn *Traddodiadau Fory* a Simon Brooks yn fwy diweddar yn *O Dan Lygaid y Gestapo* – yw fod y ffyrdd derbyniol o

⁴⁵ Alan Llwyd, *Glaw ar Rosyn Awst* (Caernarfon, 1994), tt. 17, 19, 46.

⁴⁶ Ibid., t. 326. Gw., e.e., t. 325. 'Bydd Gwilym Herber yn galw yma ... a ... Tal ac Iris ... [...] A Rhydwen ddewr ar y ffôn ryw ben bob wythnos, ac Elwyn, a Donald, a John Talfryn ac eraill bob hyn a hyn yn gofyn fy marn ar eu henglyn diweddaraf. Bob pythefnos bydd Dewi Stephen Jones ... yn fy ffonio ...'

⁴⁷ Gwilym H. Jones, op. cit., 244.

⁴⁸ Dafydd Elis Thomas, op. cit., t. 15.

drafod llenyddiaeth sy'n cael eu hystyried yn rhai 'traddodiadol Gymreig' wedi eu gwreiddio 'in the "English" common sense/empirical tradition'.⁴⁹ Tynnu sylw at y ffaith honno a wnaeth Alan Llwyd ei hun, wrth gwrs, drwy amlygu'r tebygrwydd rhwng 'Saunders Lewis a T. S. Eliot'.

Mor dynn yw rhwydweithiau'r gymuned lenyddol Gymraeg sy'n amheus o theori, fodd bynnag, fel na sylwir ar yr eironi hwn. Parheir yn hytrach i goleddu'n anymwybodol yr *episteme* a sefydlwyd gan y dadeni beirniadol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, 'a hynny heb gysgod gwên', ys dywed John Rowlands.⁵⁰

Y canlyniad, felly, yw y ceir, yn hytrach nag eironi, ymdeimlad o sicrwydd a hyder tawel, fel y sy'n weddus pan na welir nad oes dim o'i le ar yr hen ffordd gyfarwydd o edrych ar bethau. Yn achos gwrthfeirniaid 1890-1914, nododd Gwilym H. Jones y

[c]eir awgrym yma ac acw fod ymhlith selogion yr ysgol draddodiadol ryw falchder hyderus a wnâi iddynt gredu nad oedd angen iddynt ymateb o gwbl i'r datblygiadau newydd; gan mai hwy oedd yn iawn, pa ddiben dadlau?⁵¹

Rhaid nodi'n gyfan gwbl glir yma nad awgrymir am eiliad fod yna unrhyw fath o falchder – hynny yw, trahauster a hunanymffrost, yn ystyr negyddol y gair – yn perthyn i nac Alan Llwyd nac R. M. Jones na Saunders Lewis. Ni ddywedir dim am gymeriad yr un ohonynt, ac eithrio ar ffurf dyfyniad hunangofiannol. Nid oeddwn yn adnabod Saunders Lewis, ac yr wyf bob amser wedi mwynhau cwmni cyfeillgar R. M. Jones ac Alan Llwyd.

⁴⁹ M. Wynn Thomas, [adolygiad o Belinda Humfrey (gol.), *Fire Green as Grass: Studies of the Creative Impulse in Anglo-Welsh Poetry & Short Stories of the 20th Century*], *New Welsh Review*, VIII/1, 29 (Haf 1995), 93. Dyf. Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd, 2004), t. 95. Cymh. Dafydd Elis Thomas, op. cit., t. 23. 'Yr eironi ... yw bod gwreiddiau'r syniad o draddodiad llenyddol Cymraeg i'w gweld yn glir iawn ym Matthew Arnold a T. S. Eliot.'

⁵⁰ John Rowlands, 'Rhagymadrodd', *Sglefrio ar Eiriau*, t. vii.

⁵¹ Gwilym H. Jones, op. cit., 244.

Yn ei ysgrif 'Beirniadaeth Lenyddol', meddai Iorwerth C. Peate:

[W]rth ddywedyd fy meddwl yn onest am rai llyfrau arbennig, digiais un neu ddau o awduron yn enbyd, a chollais eu cyfeillgarwch.

Yn wahanol i Iorwerth C. Peate, credaf fi fod hynny'n beth trist iawn, a bod 'y cyfryw gyfeillgarwch yn werth ei gadw'.⁵² Rhaid bod yn barod, felly, i gyfaddawdu ac ystyried beth sy'n 'ddisgyrsaidd bosibl'.⁵³ Nodwedd yw hyn ar bob sefyllfa gymunedol gaeëdig y mae'r byd llên Cymraeg ond yn un enghraifft ohoni. Ac eto, y mae'r ffin rhwng y cymunedol gysurus a'r syniadol glawstroffobig yn medru bod yn un denau iawn hefyd. Fel y nododd Simon Brooks, amlygiad o'r fath sefyllfa 'yw "*pietas* boneddigaid" tuag at athrawon a chydabod, ac awyrgylch lle na ellir beirniadu pobl yn agored'.⁵⁴

Er nodi, felly, nad yw 'balchder' yn nodwedd ar waith beirniadol R. M. Jones ac Alan Llwyd – ac eithrio balchder yn rhagoriaethau'r canon llenyddol Cymraeg – y mae sylw Gwilym H. Jones uchod yn berthnasol gan mai tuedd y ddau feirniad yw annilysu Theori, neu agweddau ohoni, drwy barodïo neu wawdio rhaglen waith y theoriwyr – tuedd y ceisir ei hosgoi yma, er na chredir bod modd llwyddo'n gyfan gwbl chwaith. Y mae hyn yn sylw annheg, efallai, o gofio bod y naill a'r llall wedi ymroi i ddadlau ag unigolion ar wahanol faterion yn ymwneud ag athroniaeth a barddoniaeth. Ac eto, yng nghyswllt theori lenyddol, nododd Angharad Price fod R. M. Jones yn 'parodïo syniadau a damcaniaethau'r ysgolion beirniadol eraill. [...] Drwodd a thro fe'i cawn yn rhoi dadleuon babiaidd o orsyml yng ngenau ei elynion, cyn eu trechu â'i wrthddadleuon ei hun, a'r rheiny o ganlyniad yn ymddangos yr un

⁵² Iorwerth C. Peate, 'Beirniadaeth Lenyddol', *Sylfeini* (Wrecsam, 1938), t. 11.

⁵³ Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, op. cit., t. 77. Y mae'n amlwg i mi fetu yn hyn o dasg pan gyhoeddais 'Camfarnu neu garfarnu beirniad llenyddol?'

⁵⁴ *Ibid.*, t. 71.

mor orsyml a sloganaidd.⁵⁵ Tueddir hefyd i ymosod ar ‘ôl-foderniaeth’, neu’r ‘ôl-fodernwyr’ heb gyfeirio at waith yr un beirniad ôl-fodernaidd yn benodol, ac eithrio Derrida, efallai, fel math o gynrychiolydd – nodwedd a welir yn y traethawd hwn hefyd, heb os. Ac yn achos y ‘ffeminyddion’, er enghraifft, nid yr arfer yw trafod gweithiau unigol ac ymateb i’r cyfraniadau hynny fesul pwynt, drwy eu dyfynnu a cheisio gwrthbrofi’r dadl. Yn hytrach, cyffredinolir, fel y gwnawn oll yn ôl ein labeli. Oherwydd techneg rethregol rymus iawn yw amlygu diffygion safbwyntiau cyferbyniol drwy beidio â’u cyflwyno’n fanwl. Ceir enghreifftiau ohoni, y mae’n siŵr, yn y traethawd hwn, er gwaetha’r ymgais cyffredinol i drafod gwaith tri beirniad llenyddol yn unigol.

Gan nodi, felly, mai nodwedd gyffredin ar iaith yw hon, sylwir bod y dechneg hefyd ar waith ym meirniadaeth Alan Llwyd. Cyfeirir at ‘feirniaid ôl-fodernaidd’ dienw, ynghyd â ‘mudiadau llenyddol’.⁵⁶ Ond ni roir sylw manwl i wahanol agweddau ar y theorïaeth honno, gan drafod gwaith unrhyw un beirniad yn benodol. Yn hytrach, ymatebir iddi ar ffurf gosodiad yn hytrach na dadl. Er enghraifft:

Ceisiodd rhai damcaniaethwyr ein harwain i gredu fod pob ymateb yn ddilys ac yn werthfawr, ond ni all hynny fod. [...] Mae’n rhaid parchu cywirdeb a safbwynt gwaelodol y gerdd wreiddiol.⁵⁷

Yn hyn o beth y mae sylwadau Gwilym H. Jones ar ymateb y gwrthfeirniaid i’r uwchfeirniadaeth Feiblaidd eto’n berthnasol. Oherwydd nododd ef mai ‘[d]ull y gwrth-feirniaid gan amlaf oedd gwneud gosodiadau yn hytrach nag ymgyfarfod mewn dadl’.⁵⁸ Meddai:

⁵⁵ Angharad Price, ‘Tyst i Gyfraniad Rhyfeddol ...’, [adolygiad o R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*], *Barddas*, 275 (Rhagfyr/Ionawr 2003), 56.

⁵⁶ Alan Llwyd, ‘Golygyddol’, *Barddas*, 248 (Medi/Hydref 1998), 4; ‘Ar Drothwy Mileniwm’, *Y Grefft o Greu*, t. 115; “Pagan” R. Williams Parry, *Y Grefft o Greu*, t. 292.

⁵⁷ Idem, “Pagan” R. Williams Parry, *Y Grefft o Greu*, t. 292.

⁵⁸ Gwilym H. Jones, op. cit., 245.

Y duedd felly oedd tynnu'r Beibl allan yn llwyr o faes y ddadl, ei godi uwchlaw beirniadaeth a pheidio â gwneud unrhyw ymgais i'w amddiffyn. [...] Yn lle cynnig gwrth-ddadleuon, yr hyn a wneid yn rhy fynych o lawer oedd cystwyo'r beirniaid, a gwrthod eu dadleuon gyda sylwadau cwta, pigog ac annigonol, megis haeru bod eu rhesymau 'yn dra eiddil, ac yn ymylu ar fod yn wrthun', a'u dadleuon 'yn blentynnaidd' (*sic*).⁵⁹

Cyfeiriais i fy hun at arfer R. M. Jones o fychanu gwrthwynebwyr beirniadol drwy eu galw yn 'blentynnaidd'.⁶⁰ Y mae'n drosiad cyson yn ei waith diweddar sy'n tystio i'r anhawster a gaiff i gynnal unrhyw fath o ddeialog â phobl sy'n meddu ar safbwynt cyfan gwbl wrthgyferbyniol a'r eiddo ef ei hun – er nad nodwedd ar ei waith ef yn unig yw hynny, o gofio'r profiadau dysgu a gyflwynodd Christine James, Ioan Williams ac Alan Llwyd. Haws, felly, yw esgusodi'r cyfryw rai drwy eu galw yn blant. Trwy hynny cadarnheir mai'r hyn sydd eu hangen arnynt yw cyfarwyddyd y meistr-feirniad aeddfed. Gwelid hynny, er enghraifft, ym meirniadaeth Moelwyn ar *Williams Pantycelyn*, wrth iddo nodi mai '[p]eryg llanc' yw mynd i ormodiaeth.⁶¹

Fynychaf techneg yw hon a ddefnyddir gan hynafgwyr dros eu hanner cant oed. Er enghraifft, defnyddiodd Walford Gealy y dechneg ddifriol hon wrth ymateb yn feirniadol i erthygl ar gyfieithu gan Angharad Price yn 1998, gan gyfeirio at 'yr awdures (ifanc, fel y deallaf)'.⁶² Meddai:

Da o beth fyddai i'n hawdures ifanc ddarllen eto a myfyrio'n hir uwchben un o areithiau mwyaf y Cymro o athronydd hwnnw, y diweddar Athro J. R. Jones, a ddaeth yn drwm dan ddylanwad Wittgenstein yn ei flynyddoedd olaf, sef ei araith 'I Ti y Perthyn Ei Ollwg' (*Ac Onide*, tt. 166-178).⁶³

⁵⁹ Ibid.

⁶⁰ Gw. Tudur Hallam, 'Plentyn a phlentyneiddiwch yng ngwaith diweddar R. M. Jones', *Tu Chwith*, 20 (Gwanwyn 2004), 67-96.

⁶¹ John Gruffydd Hughes (Moelwyn), *Mr. Saunders Lewis a Williams Pantycelyn* (Birkenhead, 2il arg., 1928), t. 5.

⁶² Walford Gealy, 'Pwysigrwydd Cywirdeb', [gohebiaeth], *Taliesin*, 101 (1998), 106.

⁶³ Ibid., t. 107.

Yr awgrym amlwg yn yr erthygl yw nad oedd Angharad Price yn gymwys i drafod gwaith Wittgenstein. I'r perwyl hwn, modd o ymosod ar ei statws beirniadol ydoedd cyfeirio at ei hoed biolegol, gan awgrymu cysylltiad rhwng hynny a lefel ei deallusrwydd. Wrth ymateb i feirniadaeth Walford Gealy, nododd Angharad Price mai 'dianghenraid' ydoedd y pwyslais arni 'fel awdures ifanc'.⁶⁴ Ac eto, mewn cymhariaeth ag ymateb y gwrthfeirniaid i'r uwchfeirniadaeth Feiblaidd, nodir hefyd mai cwbl angenrheidiol ydyw'r arfer hon o annilysu safbwynt croestynnol drwy awgrymu ei fod yn un anaeddfed. Y mae'n ddyfais mor hylaw. Wrth adolygu'r gyfrol deyrnged, *Alan*, awgrymodd Tony Bianchi fod ymateb Alan Llwyd i'm herthygl i yn *Taliesin* yn siomedig, er yn ddealladwy.⁶⁵ Nid yn annhebyg i Walford Gealy, tynnwyd sylw at y ffaith i'r erthygl gael ei hysgrifennu gan '[f]achgen'.⁶⁶ Fe'i beirniadwyd hefyd ar ffurf gosodiad. Nodwyd ei bod yn 'ysgrif glyfar ac arwynebol', ond nid ym mha fodd, ac nid ymatebwyd i'w chynnwys o gwbl. Ys dywed Gwilym H. Jones: 'Dull y gwrth-feirniaid gan amlaf oedd gwneud gosodiadau yn hytrach nag ymglyfarfod mewn dadl.' Amlygiad trawiadol o'r egwyddor hon ar waith, wrth gwrs, ydoedd y modd yr ymatebwyd ymhellach i'r erthygl yn y rhaglen deyrnged i Alan Llwyd, 'Nid Myfi yw Myfi fy Hun' ar S4C, y 15fed o Chwefror, 2005, a hynny unwaith yn rhagor ar ffurf gosodiadau byr. Yn hyn o beth, torrodd y rhaglen ddwy o egwyddorion Adran Degwch y Comisiwn Safonau Darlledu, a bu'n rhaid i S4C

⁶⁴ Angharad Price, 'Gohebiaeth', [ymateb i feirniadaeth Walford Gealy yn y rhifyn blaenorol], *Taliesin*, 102 (Haf 1998), 111.

⁶⁵ Tony Bianchi, 'Teyrnged i'r "Brenin Llwyd"', [adolygiad o Huw Meirion Edwards (gol.), *Alan*], *Taliesin*, 120 (Gaeaf 2003), 149. Awgrymir yn deg iawn i mi fy hun 'anwybyddu' agweddau o waith Alan Llwyd, gan mai'r disgwyl, debyg, ydoedd imi drafod ei waith 'yn ei grynsyth' mewn rhyw fodd arbennig. Cadarnhau y mae hynny yr hyn a ddywedais yn f'erthygl, sef bod yma ddwy 'garfarn' syniadol wahanol nad ydynt yn rhannu'r un rhagfarnau llenyddol â'i gilydd nac yn gofyn yr un cwestiynau llenyddol â'i gilydd. Nid yn annhebyg i reol dyblu d+d=d/t, lle y clyw'r naill feirniadaeth chwareus ~~ar~~ ar un agwedd o waith beirniad, clyw y llall wawd ar gyfraniad oes. Mater o feddu ar glust feirniadol wahanol yw. Mater o gydeistedd mewn eisteddfâu gwahanol, a synnu bod rhywun yn clywed 't' pan fo'r sain 'd' mor amlwg. Cymh. John Gruffydd Hughes (Moelwyn), op. cit., t. 72. 'Ofnaf fod Mr. Lewis yn rhy brysur gyda hanes a meddyleg ddiweddar i astudio Calfiniaeth.'

⁶⁶ Alan Llwyd, 'Ynghylch Llenyddiaeth a Beirniadaeth: M. Wynn Thomas yn holi Alan Llwyd, Hydref 2002, gol. Huw Meirion Edwards, *Alan: Casgliad o gerddi ac ysgrifau ar Alan Llwyd, gyda llyfryddiaeth lawn o'i waith gan Huw Walters* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), t. 151.

ddarlledu ymddiheuriad am ei chynnwys unochrog a 'ffeithiol anghywir'. Ond drwy edrych ar nodweddion tebyg rhwng yr adwaith i uwchfeirniadaeth Feiblaidd a'r adwaith i theori lenyddol gyfoes, gwelir bod ymateb naill ai drwy anwybyddu'n llwyr neu drwy anwybyddu ar ffurf gosodiadau a pheidio â chynnal trafodaeth yn ffordd gyfan gwbl angenrheidiol o annilysu safbwyntiau newydd. Yn wir, sylwodd Alan Llwyd ei hun ar yr arfer hon. Yn *Barddoniaeth y Chwedegau*, nododd y ceid 'llawer o gyffredinoli penagored' ynghylch 'cystrawen astrus y beirdd', 'heb ymdrafferthu i fynd i'r afael â cherdd unigol, a thrafod y broblem yn ofalus drwy enghreifftio'.⁶⁷ Ac yn sgil ei feirniadaeth ar waith R. Williams Parry sylwodd ef ei hun, ond o du'r ochr arall megis, ar yr union fath o sefyllfa a gododd yn sgil y feirniadaeth ar ei waith beirniadol ef ei hun. Meddai:

Yn ôl rhai, 'doedd dim hawl gan neb i feirniadu Williams Parry; 'doedd dim angen dehongli ei gerddi na'i dynnu fel bardd drwy'r felin feirniadol. 'Roedd yn ddealladwy i bawb, a dyna un o'i gryfderau mawr. 'Roedd ei gerddi [ac felly'r bardd ei hun] yn anghyffwrdd, yn batrymau o berffeithrwydd.⁶⁸

Canlyniad credoau o'r fath ynghylch statws anghyffwrdd y bardd neu'r beirniad neu'r traddodiad yw diffyg trafodaeth agored, a chyhuddo'r sawl sy'n ddigon gonest neu hy neu dwp – yn dibynnu ar safbwynt y barnwr – i fynegi safbwynt newydd o 'heresi'.⁶⁹ Rhaid o hyd, fe ymddengys, werthfawrogi cefndir ymneilltuol llenyddiaeth Gymraeg, a chofio, ys dywed R. Tudur Jones, mai '[u]n o nodweddion amlycaf sect yw diogelu

⁶⁷ Idem, *Barddoniaeth y Chwedegau: Astudiaeth Lenyddol-hanesyddol* (Cyhoeddiadau Barddas, 1986), t. 72.

⁶⁸ Idem, 'Rhagymadrodd', gol. idem, *Cerddi R. Williams Parry: Y Casgliad Cyflawn 1905-1950* (Dinbych, 1998), t. ix. Gw. t. x. Nodir bod Bobi Jones wrth iddo feirniadu'r bardd yn gwneud hynny 'yn chwareus ac yn bryfoclyd'. Amlygir y feirniadaeth yn aml yn arddull y darn, ac adweithir yn erbyn cynodiadau chwareus yr arddull – amrywiol eu dehongliad – yn hytrach na'r cynnwys.

⁶⁹ Ibid.

arbenigrwydd ei chred a'i disgyblaeth trwy godi mur rhagddi a'r byd gelyniaethus o'i chwmpas'.⁷⁰

Y rheswm am hynny, fe greidir, yw am fod 'ymgyfarfod mewn dadl', wrth gwrs, yn gorfodi'r gwrthfeirniad neu'r gwrth-theoriwr, nid yn unig i ystyried dulliau a dadleuon y feirniadaeth yn ei erbyn, ond hefyd i gyflwyno dulliau a dadleuon ei safbwynt ef ei hun – yn groes i ragdyb yr Oleuedigaeth yn erbyn rhagdyb. Dyna pam, fe greidir, yr osgoir dadl. Fel y nododd Gwilym H. Jones, nid o anwybodaeth yr oedd y gwrthfeirniaid yn anwybyddu'r uwchfeirniadaeth Feiblaidd. Felly'r gwrth-theoriwyr yr un modd. Yn hytrach, ceisio osgoi tynnu sylw at eu rhagfarnau eu hunain y maent, lawn cymaint felly â rhagfarnau eu gwrthwynebwyr. Oherwydd fel y nododd Adena Rosmarin, 'interpretive grounds are always presented as *self-evident* – indeed, they are powerful *insofar as they seem to be so*'. Awgrymodd Rosmarin – sy'n disgrifio erthygl Steven Knapp a Walter Benn Michaels, 'Against Theory' yn nhermau 'theori yn erbyn theori' – fod yn rhaid i feirniaid yn ymarferol gyfiawnhau eu rhagdybiaethau beirniadol, a'u hamddiffyn 'against other contenders for the honor'.⁷¹ Fodd bynnag, fel yr awgrymodd Habermas, a sylw Rosmarin ei hun, o fynd ati i amddiffyn unrhyw ddull o ddehongli, fe amlygir wedyn mai *dull* o ddehongli ydyw, a chyll ei rym: ei naturioldeb ymddangosiadol. Dyna reswm da, felly, dros beidio ag ymroi i ddadl o gwbl, eithr nodi'r hytrach fod ystyron 'yn amlwg'. Ys dywed William E. Cain am sylwadau golygyddol *New Criterion*, sef cylchgrawn yn mynegi safbwynt ceidwadol at lenyddiaeth – ac yn erbyn Theori – yn yr Unol Daleithiau:

⁷⁰ R. Tudur Jones, 'Ymneilltuaeth a'r Iaith Gymraeg yn Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', gol. Geraint H. Jenkins, *Gwnnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd 1801-1911* (Caerdydd, 1999), t. 249.

⁷¹ Adena Rosmarin, 'Theory of "Against Theory"', gol. W. J. T. Mitchell, *Against Theory: Literary Studies and the New Pragmatism* (London, 1985) tt. 84-5. F'italeiddio i.

the writer of the editorial cannot afford to offer definitions of literary value and excellence, because as soon as he does so, he will be conceding that the meaning of these terms is not unmistakably plain.⁷²

At hyn, nodir y byddai ymroi i ddadl gan drafod safbwyntiau a damcaniaethau rhyw theorïwr penodol, er enghraifft, yn amlygu bod gan y gwrth-theorïwr ei hun ei safbwynt a'i ddamcaniaethau personol yntau, sef yr union beth y mae ef am ei wadu. Doethach felly yw anwybyddu'r safbwynt newydd yn llwyr. I'r perwyl hwn, gwelir bod gwrthfeirniaid crefyddol a llenyddol yn arddel diffiniad cyfyng yr Oleuedigaeth o draddodiad, megis Habermas, ac yn ofni y bydd dadansoddi eu rhagfarnau'n golygu na allant mwyach weithredu megis rhagfarnau. Amlyga'u hanfodlorwydd i gynnal trafodaeth eu bod yn cytuno â H. B. Acton:

There may be good reasons for a tradition, but if those who uphold it have recourse to reason, they have detracted from the authority of the tradition by defending it, for to lend support is to admit the possibility of collapse.⁷³

Lle y cais y gwrthfeirniaid osgoi'r sefyllfa hon drwy beidio ag ymateb i syniadau newydd, credir yma fod angen inni'n hytrach amau rhaglen waith yr Oleuedigaeth a bod yn barod i gydnabod rhagfarn. Drwy hynny gellir diffinio traddodiad mewn modd nad yw'n rhoi'r flaenoriaeth i reswm, ac sy'n medru cynnwys ynddo, felly, syniadau beirniadol newydd a thrafodaeth resymegol ar ei natur ei hun a'i gyfeiriad.

Dull arall o gyfiawnhau'r penderfyniad i beidio ag 'ymgyfarfod mewn dadl' yw drwy bwysleisio awdurdod y meistr-feirniad ei hun, gan ei godi ef, ynghyd â'r traddodiad y mae'n ei gynrychioli, 'uwchlaw beirniadaeth' – ys dywed un o'r gwrthfeirniaid Beiblaidd, Silas Morris.⁷⁴ Yn y cyswllt llenyddol, gwneir hynny

⁷² William E. Cain, 'Opening the American Mind: Reflections on the "Canon" Controversy', gol. Jan Gorak, *Canon vs Culture* (London, 2001), t. 8.

⁷³ H. B. Acton, 'Tradition and Other Forms of Order', *Proceedings of the Aristotelian Society*, New Series, LIII (1952-3), 5.

⁷⁴ Silas Morris, *Y Traethodydd* (1893), 106. Dyf. Gwilym H. Jones, op. cit., 245.

fynychaf drwy ddwyn sylw at y ffaith fod y meistre-feirniad wedi meddiannu'r canon llenyddol Cymraeg cyfan, ynghyd â dogn dda o'r canon llenyddol rhyngwladol. Ar sail rhychwant eang ei ddarllen, felly, y cadarnheir ei ddysg a'i awdurdod. Yn hyn o beth, o gofio mai'r 'peth pwysicaf ... yw *cynefino* plant â llenyddiaeth dda', nodir mai estyniad o'r feirniadaeth yn erbyn ieuenctid ydyw'r ddyfais hon, gan na ellir disgwyl bod beirniad yn ei ugeiniau wedi darllen cymaint â beirniad dros ei hanner cant.⁷⁵ Amlygwyd hyn yn ymateb Walford Gealy i erthygl Angharad Price, ac yn benodol i'w sylwadau ar y *Tractatus* a'r *Philosophical Investigations*, lle'r awgrymwyd nad oedd 'yr awdures [ifanc] wedi darllen y naill lyfr na'r llall' – awgrym 'annheg' a wrthodwyd yn llwyr gan Angharad Price.⁷⁶

Nododd John Rowlands fod Saunders Lewis yn ei drafodaeth ar waith Charles Edwards am inni 'gredur ei fod wedi darllen pob peth o bwys yn holl ieithoedd Ewrop yn yr ail ganrif ar bymtheg (a thrwy awgrym, yn yr holl ganrifoedd)'.⁷⁷ Gwelir hefyd ym meirniadaeth Moelwyn ar *Williams Pantycelyn* fod cyswllt rhwng awdurdod y beirniad – os nad cywirach fyddai dweud awdurdod amodol y beirniad – ac ehangder ei ddarllen.⁷⁸ I'r perwyl hwn, y mae R. M. Jones hefyd yn cyfiawnhau ei awdurdod ei hun drwy ddwyn sylw at ei weithgarwch darllen diflino, gan nodi y bydd 'pob darllenydd diwyd, wedi llawer o ddarllen diffaith, yn llawenhau wrth droi'n ôl at weithiau'r canon llenyddol rhyngwladol, sy'n cynnwys ynddo '[g]erddi ail gyfnod Tw Ffw', bardd nad yw'r rhelyw o ddarllenwyr, wrth gwrs, wedi clywed sôn amdano, heb sôn am wybod bod ei ail gyfnod o ganu yn well na'r un cyntaf'.⁷⁹

⁷⁵ T. J. Morgan, *Ysgrifau Llenyddol* (Llundain, 1951), t. 2.

⁷⁶ Walford Gealy, op. cit., 104. Angharad Price, 'Gohebiaeth', op. cit., t. 110. O safbwynt semiotegol, nodir mai cadarnhau awdurdod yr 'awdures ifanc' y mae'r ffaith ei bod yn ysgrifennu'r llythyr o Goleg Iesu, Rhydychen, ac iddi ddarllen y llyfrau pan oedd 'yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Fienna'. Yn absenoldeb awdurdod oedran, mabwysiedir awdurdod y sefydliadau prifysgol hyn.

⁷⁷ John Rowlands, *Saunders y Beirniad*, op. cit., t. 36.

⁷⁸ John Gruffydd Hughes (Moelwyn), op. cit., tt. 1, 6. 'Yn yr ymdriniaeth drwyddi ceir ol ymchwil dyfal a phrofion amlwg fod yr awdur yn weddol gyfarwydd â'i destun ac â llenyddiaeth y pwnc.'

⁷⁹ R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*, t. 156.

Y mae'r dechneg hon yn nodwedd hefyd ar *bersona*'r beirniad yng ngwaith Alan Llwyd. Er enghraifft, ac yntau'n trafod gwaith y bardd 'sy'n ennill ras y beirdd toreithiog', sef Bobi Jones, meddai:

Ond 'does neb, meddech, wedi darllen holl gerddi Bobi Jones. Anghywir eto. Mae awdur y gyfrol hon, i ddechrau, wedi darllen pob cerdd ganddo, petai ond yn rhinwedd ei swydd fel cyhoeddwr holl farddoniaeth ddiweddar Bobi Jones, o *Hunllef Arthur* ymlaen. A'u darllen nhw hefyd dro ar ôl tro, gan gynnwys o leiaf ugain darlleniad o *Hunllef Arthur*.⁸⁰

Effaith y sylwadau hyn, wrth gwrs, yw gwneud i'r darllenydd deimlo'n fach, megis plentyn, a'i annog i sylweddoli mai gwranddo'n unig ar y meistr-feirniad a ddylai. Ni all gystadlu ag ef. Drwy hynny, cyfiawnheir y penderfyniad i feirniadu unrhyw safbwyntiau newydd ar ffurf gosodiadau gan awdurdod y meistr-feirniad ei hun. Y mae 'uwchlaw beirniadaeth'.⁸¹

Ar un olwg, y mae hon yn ffordd dda o ddiogelu'r canon llenyddol Cymraeg. Ymarferiad mewn grym ydyw sy'n nacáu unrhyw feirniadaeth newydd sydd am gystadlu am yr hawl i gyflwyno dehongliad newydd o lenyddiaeth Gymraeg. Drwy olyniaeth o feistri-feirniaid Cymraeg, gyda'r naill yn cymeradwyo'r llall – megis y cymeradwyodd Saunders Lewis Bobi Jones yn ei gyfweiliad 'Dylanwadau', ac y cymeradwywyd Alan Llwyd droeon gan R. M. Jones, ac i'r gwrthwyneb, a hwythau'n ôl-gymeradwyo Saunders Lewis – sefydlir *ethos* o awdurdod sy'n llwyddo i gau allan ddarlleniadau newydd o'r canon llenyddol Cymraeg. Daw'r meistr-feirniad, felly, i gynrychioli'r diwylliant cyfan, a'i farn ef ar y canon llenyddol Cymraeg yw'r un

⁸⁰ Alan Llwyd, "'Môr Cymreig fy Mawl'", *Rhyfel a Gwrthryfel*, t. 401.

⁸¹ Cymh. Alan Llwyd, 'Golygyddol', *Barddas*, 248 (Medi/Hydref 1998), 4. 'Y broblem fawr, wrth gwrs, yw hyn: pwy sy'n mynd i ddarllen yr holl lyfrau hyn, y miloedd llyfrau barddoniaeth a gyhoeddwyd yn ystod y ganrif hon, a'r toeth cylichronau [heb sôn am y canrifoedd a fu]? Gallai rhywun dreulio oes gyfan yn gwneud hynny heb wneud fawr o ddim byd arall. Mae'n anodd darllen cyfran fechan, hyd yn oed, o'r hyn y mae'n rhaid ei ddarllen cyn y gall barn neb fod o werth.' Drwy bwysleisio anferthedd y dasg, a sefydlu darllen eang yn faen prawf i awdurdod, gwerthfawrogir camp y meistr-feirniad darllengar.

derfynol. Fel y nododd R. M. Jones yn ei ragymadrodd i *[F]lodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*, 'chwaeth a gonestrwydd [un] golygydd yw'r criteria y mae'n rhaid mentro arnynt, mae arnaf ofn'.⁸² Y mae'n bwysig, felly, fod y farn honno, yn absenoldeb trafodaeth a chonsensws, yn un ddigon awdurdodol iddi fedru cyflawni swyddogaeth un gynrychioladol. Wrth feirniadu *Williams Pantycelyn*, gan iddo gydnabod yn rhannol hawliau Saunders Lewis i lefaru'n awdurodol ar sail darllen eang, pwysleisiodd Molewyn iddo dderbyn 'lïaws llythyrau ... yn cymeradwyo'r ysgrifau ... oddiwrth bob gradd a math ar ddynion, - yn wŷr llên a lleyg, yn weinidogion a blaenoriaid, yn athrawon a prifathrawon (*sic*) colegau, yn olygyddion, yn fyfyrwyr ac yn llafurwyr'.⁸³ Yn absenoldeb y math hwn o gonsensws diddosbarth, y mae'n rhaid cyfleu'r un awdurdod drwy ddulliau amgen. I'r perwyl hwn, nododd Alan Llwyd fod Bobi Jones wedi dod 'i wybod mwy am hanes a llenyddiaeth ei wlad nag odid neb. Dyma ddyn sy'n genedl.'⁸⁴

Trosiad grymus ac nid ffaith yw'r ymadrodd, wrth gwrs. Ond yn gyffredinol, ac yn rhannol oherwydd i feirniadaeth lenyddol droi'n ddisgwrs arbenigol ac nid yn drafodaeth gyhoeddus, credir y gellir puro chwaeth unigol drwy drochiad llenyddol, a hynny i'r fath raddau nes y try'n farn wrthrychol. Ys dywed Donald Evans yn ei ragair i'r *Flodeugerdd o Gywyddau*:

Mae gan bob Golygydd sydd yn llunio cyfrol fel hon ei egwyddor ei hun, mae'n debyg, ar y ffordd y mae'n penderfynu ar ddull a sylwedd y gwaith. Fy egwyddor i yn y mater hwn oedd dibynnu ar chwaeth bersonol a ddiwylliwyd, gobeithio, â thipyn o wrthrychedd beirniadol drwy ddarllen llenyddiaeth, cyn changed ag y medrwn, dros y blynyddoedd.⁸⁵

⁸² R. M. Jones, 'Rhagymadrodd', *Flodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Cyhoeddiadau Barddas, 1988), t. 29.

⁸³ John Gruffydd Hughes (Moelwyn), *op. cit.*, t. 85.

⁸⁴ Alan Llwyd, "'Môr Cymreig fy Mawl'", *Rhyfel a Gwrthryfel*, t. 400.

⁸⁵ Donald Evans, 'Rhagair', *gol. idem, Y Flodeugerdd o Gywyddau* (Abertawe, 1981), t. 13.

Unwaith eto, cysylltir ynghyd brofiadau darllen eang ac oed. Dyma'n rhannol sy'n creu awdurdod y meistr-feirniad. Drwy hynny gall ef hefyd lefaru'n 'wrthrychol' a bod yn 'awdurdod' ar lenyddiaeth Gymraeg, nes y bydd eraill yn cyfeirio ato ef fel 'awdurdod arall'.⁸⁶ Y rhagdyb, wrth gwrs, yw fod y chwaeth a ddiwylliwyd wedi ei diwyllio gan y math cywir o ddiwylliant, a hwnnw'n un 'gwrthrychol' – fel pe na bai'r darlennydd eisoes yn rhan ohono nac wedi dethol a dewis yr hyn a ddarllenodd yn ôl rhyw fath o safon y mae eisoes yn meddu arni yn sgil ei fagwraeth a'i addysg. Ond ni thynnir sylw at hynny, nac at y posibilrwydd mai peth creëdig yw'r diwylliant a ddarllenir iddo, ac nad yw'r testunau llenyddol a ddarllenir yn cynrychioli hanes pawb. Drwy beidio â holi'r cwestiynau hyn, a phwysleisio'n hytrach burdeb dysg, cadarnheir awdurdod y meistr-feirniad.

Ac eto, y mae i ddiwylliant y meistr-feirniad hefyd oblygiadau negyddol sydd fel pe baent yn dinistrio'r union ganon llenyddol Cymraeg y mae ef yn ceisio ei ddiogelu. Nododd Dafydd Elis Thomas fod “y traddodiad” yn gyfundrefn sumbolaidd gaeëdig, a hynny gan [nad] yw'n glir iawn sut y mae awdur gwaith i wybod ei fod ef neu hi “yn y traddodiad”, heblaw bod un o feirniaid “y traddodiad” yn cyhoeddi hynny uwch ei ben/ei phen’.⁸⁷ Panel o dri beirniad ‘proffesiynol’ – nid o safbwynt swydd, eithr statws swyddogol – sy'n penderfynu beth yw llyfr gorau'r flwyddyn. Felly hefyd yn achos prif gystadlaethau'r Eisteddfod. I'r perwyl hwn y nododd Dafydd Elis Thomas fod perygl i ‘*élite* o ddeallusion llenyddol Cymraeg ... atgynhyrchu'r syniad o draddodiad llenyddol er mwyn cadw eu dysg eu hunain’.⁸⁸ Oherwydd nid rhywun rhywun a ofynnir i fod yn feirniad, eithr y rheini sydd eisoes yn gyfarwydd â'r canon llenyddol Cymraeg, ac sydd felly'n gymwys i benderfynu pa

⁸⁶ Alan Llwyd, ‘Rhagymadrodd’, *Gwaedd y Lleiddiad: Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Ail Ryfel Byd 1939-1945* (Cyhoeddiadau Barddas, 1995), t. xvii. Cyfeirir at Alun Kenwood (gol.), *The Spanish Civil War: A Cultural and Historical Reader* (Oxford, 1993).

⁸⁷ Dafydd Elis Thomas, op. cit., t. 20.

⁸⁸ Ibid., t. 26.

weithiau y gellir ei ychwanegu ato. Cyfeiriwyd yn y bennod flaenorol at sut yr oedd y beirniad llenyddol i ‘weithredu fel barnwr’, ys dywed G. J. Williams, a ‘[b]od yn offeryn i feithrin chwaeth y cyhoedd’.⁸⁹ Yn hyn o beth, cytunir â dehongliad Dafydd Elis Thomas o’r modd y

Tyfodd y syniad o chwaeth lenyddol ochr yn ochr â’r syniad o feirniadaeth lenyddol nes bod y beirniad oedd â chwaeth lenyddol ganddyn nhw yn dod yn rhyw fath o geidwaid y syniad o ‘draddodiad llenyddol’ cenedlaethol.⁹⁰

Canlyniad y broses hon, yn anorfod felly, yw cadarnhau’r bendefigaeth lenyddol a hyrwyddodd Saunders Lewis. Hyrwyddo y mae honno sefyllfa o ddiffyg trafodaeth ar weithiau llenyddol.

Er enghraifft, yn ei drafodaeth fanwl a dadlennol ar farddoniaeth Bobi Jones, tynnodd Alan Llwyd sylw at y ffaith mai ychydig iawn o drafod a fu ar waith y bardd. ‘Mae’n un o’n beirdd mwyaf oll, yn ddi-ddadl,’ meddai, ‘ac mae’n syndod cyn lleied o drafod a fu ar ei waith hyd yn hyn.’⁹¹ Y mae sawl rheswm dros hyn. Un amlwg yw’r diffyg sylw y mae R. M. Jones wedi ei dderbyn ar gyrsiau addysg uwchradd a phrifysgol, a hynny, efallai, am ei fod ‘yn fardd sy’n ... maglu’, ys dywed Alan Llwyd.⁹² Ond gan ystyried bod yr hyn a ddywed Alan Llwyd am farddoniaeth Bobi Jones yn wir hefyd am y rhelyw o feirdd a llenorion Cymraeg, nodir hefyd mai annog sefyllfa o ddiffyg trafod gweithiau’r canon llenyddol Cymraeg y mae diwylliant y meistr-feirniad, ynghyd â’r syniad bod yn rhaid trafod gweithiau llenyddol unigol mewn perthynas â’r canon llenyddol Cymraeg. Nid dyna’r brif ystyriaeth, fe greidir, ond y mae’n gyfraniad.

⁸⁹ G. J. Williams, ‘Adolygu Llyfrau’, *Y Llenor*, 2 (1923), 94.

⁹⁰ Dafydd Elis Thomas, op. cit., t. 11.

⁹¹ Alan Llwyd, “‘Môr Cymreig fy Mawl’”, *Rhyfel a Gwrthryfel*, t. 649.

⁹² Ibid., t. 400.

Yn achos barddoniaeth Bobi Jones, nododd Alan Llwyd mai'r anhawster yw sut i 'ymdopi â'r cynnyrch enfawr hwn'.⁹³ Y mae hwnnw'n gwestiwn perthnasol hefyd ar gyfer y syniad o ganon llenyddol sy'n rhychwantu bron mil a hanner o flynyddoedd. Yr ateb yn achos y bardd toreithiog yw 'drwy fwrw golwg banoramig ar ei holl waith, drwy astudio'i gynnyrch *yn ei grynswith*'.⁹⁴ A'r un ateb yn fras a gynnigir yn achos y canon llenyddol Cymraeg. Ymdrechu 'i feddiannu'r gorffennol'.⁹⁵

Ond o arddel yr egwyddor hon, nid yw'n rhyfedd y cafwyd 'cyn lleied o drafod' ar waith Bobi Jones, ac agweddau gwahanol o'r canon llenyddol Cymraeg. Oherwydd dyna'r union effaith y mae'r egwyddor hon yn ei sicrhau: 'stad o *statis*', fel y nododd John Rowlands; 'mudandod llwyr'.⁹⁶ Rhaid wrth amser ac addysg ac arian i feddiannu'r gorffennol. Troes, felly, yn waith i garfan broffesiynol o ddarllenwyr. At hyn, os yw mawredd bardd 'yn ddi-ddadl', y mae'n dilyn nad oes modd dadlau yn ei gylch. Y mae'n deg nodi mai dull o ymadroddi yn unig yw hyn, ond y mae perygl hefyd fod darllenwyr y meistr-feirniaid yn dechrau ei gredu.

O gredu mai'r ymateb priodol yw hwnnw sy'n seiliedig ar ddarllen popeth, nid yw'n syndod na cheir 'trafodaeth ar gerdd neu gerddi yn awr ac yn y man'.⁹⁷ Dyma hefyd, fe greidir, yw effaith y ddadl honno sy'n ystyried mai '*un esboniad yn unig a ddylai fod ar gerdd, sef meddylfryd ac amcan y bardd ei hun*'.⁹⁸ Nid yw'r safbwynt hwn sy'n priodoli hawlfraint ystyr y gwaith i'r awdur yn un sy'n annog darllenwyr i ymateb i waith beirdd a llenorion, o wybod y bydd y meistr-feirniad maes o law yn nodi eu bod 'yn gwbl anghywir'.⁹⁹

⁹³ Ibid., t. 401.

⁹⁴ Ibid.

⁹⁵ Idem, 'Saunders Lewis a T. S. Eliot', *Y Grefft o Greu*, t. 160.

⁹⁶ John Rowlands, *Saunders y Beirniad*, t. 19.

⁹⁷ Ibid., t. 401.

⁹⁸ Idem, "'Cwmwl Haf' Waldo Williams ...', *Y Grefft o Greu*, t. 9. F'italeiddio i.

⁹⁹ Ibid.

Rhaid amodi'r sylwadau hyn, wrth gwrs, drwy nodi bod Alan Llwyd yn cynnig llwyfan i adolygiadau cyson yn *Barddas*, gan wahodd cyfraniadau newydd. Nodir hefyd mai wedi etifeddu rhaglen waith ei ragflaenwyr beirniadol y mae.

Tynnodd John Rowlands sylw at y ffaith i Saunders Lewis ddadlau dros sefydlu canon llenyddol Cymraeg na fyddai byth yn newid, a hynny gan iddo gredu mai 'bod yw parhau heb newid, parhau yn ddiamser [...] troi mewn cylch'.¹⁰⁰ Ei ddiddordeb mawr yn y *Braslun* ydoedd sefydlu'r egwyddor o ganon llenyddol Cymraeg, gan edrych ymlaen at gyfnod lle y byddai'r canon wedi ei sefydlu. Yn sgil bod llawer o waith y beirdd heb eu golygu na'u cyhoeddi, beirniad yn aros 'datguddiad' ydoedd Saunders Lewis, ac am y rheswm hwnnw yr oedd yn barod i gydnabod nad oedd modd i feirniad yn 1932 benderfynu a oedd nifer o'r beirdd 'ymhlith y meistri'.¹⁰¹ Meddai:

Rhaid aros i'r ysgolheigion gasglu a golygu a chyhoeddi gweithiau'r beirdd hyn cyn y gellir eu gwerthfawrogi'n iawn.¹⁰²

Ond credai hefyd y gellid 'datguddio'n llawn', ac mai corff sefydlog ydoedd 'Clasuron yr iaith Gymraeg', megis 'yn ddi-ddadl'.¹⁰³ Ond, gan ymateb i'r 'athrawiaeth' hon, meddai Simon Brooks:

Mae pob darlennydd yn heintio ac yn newid testunau ei dreftadaeth ddiwylliannol wrth eu darllen. Wrth geisio derbyn treftadaeth ddiwylliannol yn bur ac yn gyflawn, anodd yw ei derbyn o gwbl.¹⁰⁴

Ar un olwg, anodd yw cytuno'n llwyr â'r sylw hwn, o ystyried pwyslais y traethawd hwn ar berthynas y darlennydd â'r sefyllfa y mae'n rhan ohoni. Nid

¹⁰⁰ John Rowlands, *Saunders y Beirniad*, t. 19. Dyfynnir o *Williams Pantycelyn*.

¹⁰¹ Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: Y Gyfrol gyntaf: Hyd at 1535* (Caerdydd, 1932), t. 132.

¹⁰² *Ibid.*

¹⁰³ *Ibid.*, tt. 133, 132.

¹⁰⁴ Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, t. 71.

rhywbeth y mae un yn ceisio ei dderbyn yw treftadaeth ddiwylliannol, felly, eithr rhywbeth y mae un yn cael ei eni iddo. Ond bid siŵr, o ystyried mai gweithio ar lefel Mynegiant ac nid Tafod y mae'r canon llenyddol Cymraeg heddiw i lawer, y mae'r sylw yn berthnasol iawn o gofio mai unigolion o feirniaid sydd fel rheol yn pennu ffurf a chynnwys y canon llenyddol Cymraeg. Fel y nododd John Rowlands:

Nid yr un peth yn hollol mo draddodiad yr esgorwyd arno'n ddistaw bach dros y blynyddoedd y tu mewn i system addysg gwladwriaeth fel Prydain â thraddodiad a ddyfeisiwyd y tu mewn i wlad fach ysbeiliedig a diwladwriaeth fel Cymru.¹⁰⁵

Cymhwyso'r sylwadau uchod at waith Saunders Lewis yr oedd John Rowlands a Simon Brooks. Y maent hefyd yn berthnasol o ystyried cyfraniad clodwiw Alan Llwyd yn cydlynu cyfres blodeugerddi Barddas. Gwnaeth ef yn fwy na'r rhelyw i brysu'r 'datguddiad' yr oedd Saunders Lewis yn aros amdano, ac mae'n bosib mai yn y gwaith gwerthfawr hwn y gwelir egwyddor canoneiddio ar waith amlycaf yn ei achos ef.

Awgrymwyd eisoes mai ag un llygad ar Shakespeare a llenyddiaeth Saesneg yn gyffredinol yr aeth Saunders Lewis ati i roi ffurf ganonaidd i lenyddiaeth Gymraeg. Gwelir bod cymhelliad tebyg y tu ôl i raglen waith Alan Llwyd. Yn *Glaw ar Rosyn Awst*, meddai:

Awn i siopau llyfrau yn ddisgybl ysgol, yn fyfyrwr, a gwelwn y Saeson yn gorfoleddu yn eu hanes a'u llwyddiant, ac yn cyflwyno'u gorffennol a'u presennol mewn blodeugerddi coeth eu diwyg a thrwyadl eu hysgolheictod. Âi ton o eiddigedd drwof, ond 'roedd edmygedd yn gymysg â'r eiddigedd hwnnw. [...] Penderfynais, yn siop lyfrau fwyaf Bangor un diwrnod, a minnau ar fy ail flyyddyn ymchwil ar y pryd, y byddwn yn cyflwyno traddodiad barddol y Cymry i'r Cymry mewn blodeugerdd ar ôl blodeugerdd.¹⁰⁶

¹⁰⁵ John Rowlands, *Saunders y Beirniad*, t. 11.

¹⁰⁶ Alan Llwyd, *Glaw ar Rosyn Awst*, t. 307-08.

Codir y dyfyniad hwn oherwydd y mae'r cyfeiriad at lenyddiaeth Saesneg yn arwyddocaol, fe gredir. Nid yn unig y mae'n arwyddocáu'r cysylltiad rhwng llenyddiaeth Gymraeg a chenedligrwydd, ond y mae'n pwysleisio mai copi Cymreig o raglen waith Seisnig iawn yw'r broses o greu canon llenyddol Cymraeg. Cymharus o ran hynny yw'r sylwadau yn y rhagair i'r *Flodeugerdd o Ddyfyniadau Cymraeg*. Edmygir 'y Saeson' am '[b]archu eu gorffennol a'u hetifeddiaeth lenyddol yn llawer mwy brwd na'r Cymry'.¹⁰⁷ Dehonglir, felly, yr awydd i wneud peth tebyg yn Gymraeg yn nhermau'r modd y nododd Simon Brooks fod yr Oleuedigaeth Gymraeg yn 'gwrthsefyll yr Oleuedigaeth hegemonaid, wladwriaethol Brydeinig'.¹⁰⁸

Rhaid nodi'n glir fod i'r gweithgarwch hwn o sefydlu canon y canrifoedd yn waith gwerthfawr dros ben. Yn wir, rhyfeddir at yr hyn a gyflawnwyd, o ran ei swmp a'i sylwedd a'i safon. Fel y nododd Simon Brooks, 'gorwedd y tir uchel moesol gyda'r Oleuedigaeth Gymraeg ... oherwydd bod ganddi lai o rym, a'i bod yn frwydr yn ei ffordd ei hun yn erbyn tueddfryd Goleuedigaeth Brydeinig i "lanhau" gwahaniaethau diwylliant, iaith a chenedl oddi mewn i Brydain'.¹⁰⁹

Fodd bynnag, y mae'n dilyn hefyd fod nodweddion y cyfryw 'lanhau' i'w gweld hefyd yn y gwaith gwreiddiol a'r copi fel ei gilydd, gydag ambell olygydd, megis R. M. Jones, yn ceisio 'ystyried bob amser pa mor llwyddiannus yw'r cerddi yn eu mynegiant prydyddol'.¹¹⁰ Detholwyd hefyd y *[F]lodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* gan Alan Llwyd a Gwynn ap Gwilym ar sail '[g]werth y cerddi fel cerddi'.¹¹¹ Yn 'Rhagymadrodd' Nesta Lloyd i'r flodeugerdd ar ganu'r ail ganrif ar bymtheg, nodwyd i'r cerddi gael eu dethol 'am resymau a fyddai'n

¹⁰⁷ Idem (gol.), *Y Flodeugerdd o Ddyfyniadau Cymraeg* (Llandysul/Cyhoeddiadau Barddas, 1988), 'Rhagair'.

¹⁰⁸ Simon Brooks, *O Dan Lygaid y Gestapo*, op. cit., t. 115.

¹⁰⁹ Ibid.

¹¹⁰ R. M. Jones, 'Rhagymadrodd', op. cit., t. 28.

¹¹¹ Barddas, *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul/Cyhoeddiadau Barddas, 1987), ar y siaced lwch.

ymddangos yn gwbl annigonol ac anllenyddol i buryddwyr o feirniad (*sic*) llenyddol'.¹¹² Yng ngolau'r sylw hwn, awgrymir mai puryddwyr o'r fath yw R. M. Jones ac Alan Llwyd, gan iddynt bwysleisio y dylid dethol ar sail safonau llenyddol. Yn y flodeugerdd, *Gwaedd y Bechgyn*, er enghraifft, nododd Alan Llwyd fod ambell gerdd o 'werth hanesyddol', ond 'cerddi dibwys ydynt o safbwynt ystyriaeth lenyddol'.¹¹³ A'r un modd yn *Y Flodeugerdd Englynion*, meddai:

Yr oeddwn wedi bwriadu cynnwys llawer iawn mwy nag a geir yma yn wreiddiol, ond bu raid cwtdogi a bod yn ofalus, rhag cynnwys pethau nad oeddent o'r safon orau.¹¹⁴

Cadarhau y mae'r ymadrodd 'bod yn ofalus' fod i ganon llenyddol swyddogaeth buryddol a gwarcheidiol. Er nad yw'r cyswllt rhwng yr ansafonol ac unrhyw ddsbarth penodol o bobl yn amlwg, yr un yw'r safbwynt llywodraethol ag un Matthew Arnold yn *Culture and Anarchy* (1869). Ofnir ffilistiaeth yr ansafonol. Ys dywed David Johnson, 'Culture was to act as a buffer against the anarchy of the Populace'.¹¹⁵ Nid gwarchod rhag chwyldro poblogaidd, wrth gwrs, yw cyd-destun yr ofn hwn mewn beirniadaeth lenyddol Gymraeg, eithr yn hytrach ymgais i sicrhau na fydd yr iaith drwy gyfrwng llenyddiaeth ansafonol yn diflannu. Ond yr un yw'r ymgais i gadw undod cymdeithasol drwy ddiogelu safonau llenyddol. Beirnedir yn yr Unol Daleithiau, er enghraifft, ddarlithwyr prifysgol '[who] reduce the study of the humanities to the study of politics, arguing that truth – and beauty and excellence – are not timeless matters, but transitory notions, devices used by groups to perpetuate

¹¹² Nesta Lloyd, 'Rhagymadrodd', gol. idem, *Blodeugerdd Barddas o'r Ail Ganrif ar Bymtheg* (Cyhoeddiadau Barddas, 1986), t. xiv.

¹¹³ Alan Llwyd, 'Rhagymadrodd', gol. Alan Llwyd ac Elwyn Edwards, *Gwaedd y Bechgyn: Blodeugerdd Barádas o Gerddi'r Rhyfel Mawr 1914-1918* (Cyhoeddiadau Barddas, 1989), t. 37.

¹¹⁴ Idem, 'Rhagymadrodd', *Y Flodeugerdd Englynion* (Abertawe, 1978), t. 33.

¹¹⁵ David Johnson. 'Introduction to Part 1', gol. idem, *The Popular and the Canonical: Debating Twentieth-Century Literature 1940-2000* (London, 2005), t. 7.

“hegemony” over others’.¹¹⁶ Y rheswm am hynny, fel y nododd E. Dean Kolbas, yw am fod cyd-destunoli gwrionedd yn herio'r *status quo*. Nid yw'n syndod mai un o weinyddwyr swyddogol llywodraeth yr Unol Daleithiau sy'n dadlau fel hyn. Y dychryn, fodd bynnag, yw fod llawer o feirniaid llenyddol hefyd yn rhannu'r un farn ac am wadu unrhyw gyswllt rhwng safonau llenyddol ac amgylchiadau gwleidyddol yr ysgrifennu a'r darllen. Ystyrir y gall y canon llenyddol safonol drosgynnu 'accidents of class, race, and gender'.¹¹⁷ Amlyga'r cyfryw sylwadau mai hanfod canoneiddio yw gosod ffin rhwng yr hyn y dylai pobl ei ddarllen a'r hyn na ddylent, a hyrwyddo un math o genedlolwg, boed honno yn un Americanaidd neu'n un Gymreig.

Fodd bynnag, er awgrymu mai 'bod yn ofalus' am resymau gwarcheidiol y mae Alan Llwyd, felly, rhaid nodi mai nodwedd arbennig ar flodeugerddi *Cyfres y Canrifoedd* yw eu bod yn hynod gynrychioladol. Ni wedir na cheisiwyd 'cynrychioli'n deg y gwahanol draddodiadau' y tu fewn i'r traddodiad llenyddol.¹¹⁸ Yn wir, ar un olwg, mor gynhwysfawr ydyw'r gyfres fel yr ymddengys ei bod yn herio'r cysyniad o ganon llenyddol o feistri dethol, gyda'r canrifoedd yn herio'r cysyniad o un 'ganrif fawr'. Megis y dadleuwyd bod yn rhaid astudio gwaith R. M. Jones 'yn ei grynswth', ac y cyflwynir 'y casgliad cyflawn' o waith R. Williams Parry, felly y ceir yr argraff nad cau allan yw diben y gyfres, eithr cynnwys y cyfan.

Ac eto, yn achos unrhyw flodeugerdd arbenigol neu flodeugerdd gyfoes na all gynnwys gwaith pob un bardd cyhoeddedig, y mae'n anorfod yn yr oes lenyddol-ironig hon y bydd y drafodaeth ddilynol am gwestiynu'r cysyniad o 'werth llenyddol' fel modd o gau allan leisiau nad ydynt yn digwydd cyd-fynd â rhagfarnau'r

¹¹⁶ Lynne Cheney, cadeirydd the National Endowment for the Humanities, dyf. E. Dean Kolbas, *Critical Theory and the Literary Canon* (Cambridge, 2001), t. 27.

¹¹⁷ *Ibid.*, t. 28.

¹¹⁸ Barddas, *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, ar y siaced lwch.

golygydd. Oherwydd yr hyn sy'n ymddangos yn annheg, wrth gwrs, yw na chaed y drafodaeth honno cyn y gyfrol, ac na all ei ffurf wasgaredig hi – ambell bwt fan hyn a fan draw – gystadlu â phwysau'r gyfrol safonol ar silffoedd llyfrgelloedd a chartrefi Cymru. Dyma rym y Gair argraffedig. Y mae'n creu argraff. Dyma pam y bydd y rhai a adawyd allan yn anfodlon. Tystio y mae eu hanfodlonrwydd i'r berthynas rhwng cyhoeddi blodeugerddi safonol a chanoneiddio. Er enghraifft, gan ymateb i natur 'anghynrychioladol' *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*, a thynnu sylw at y ffaith nad oes 'dim sôn am T. E. Nicholas, Dilys Cadwaladr, Eluned Phillips, Menna Elfyn, Elin ap Hywel, Steve Eaves, Siôn Aled ... yr un ohonynt rhwng y cloriau', nid yw'n syndod mai prif ofid Gerwyn Williams ydoedd y byddai 'disgyblion ysgol ... yn gorfod ei hastudio'.¹¹⁹

Gan drafod yn benodol sefyllfa'r canon yn yr Unol Daleithiau, nododd E. Dean Kolbas '[that] the exaggeration of the role of formal education in the formation of canons is a chronic symptom of the current debate'.¹²⁰ Y mae'r sefyllfa yn y fan honno'n wahanol iawn, fe gredir. Nid yn unig fod yno gannoedd o sefydliadau addysgol, a miloedd o feirniaid llenyddol sy'n golygu bod yn rhaid cynnal rhyw fath o drafodaeth ar y canon, ond y mae'r diwylliant cyhoeddi a'r byd cyfryngau, gan gynnwys ffilm, yn ddylanwadol iawn. Ceir yno hefyd amrywiaeth o gymunedau poblog sy'n medru cynnal diddordeb mewn mathau arbennig o lenyddiaeth, heb gymorth ariannol oddi wrth y llywodraeth. Y mae'n wlad mor fawr ac amlweddog. Ac eto, er gwaetha'r gwahaniaethau hyn, nododd Kolbas fod y drafodaeth ar y canon yn amlygu 'that the *ideological* status of the literary canon – that is, the degree to which it legitimizes the status quo – has been a central preoccupation in the contemporary debate, whether denied by its apologists or emphasized by its

¹¹⁹ Gerwyn Williams, 'Politics Prydyddol', *Taliesin*, 61 (1988), 32.

¹²⁰ E. Dean Kolbas, op. cit., t. 27.

detractors'.¹²¹ Dyna'r awgrym hefyd ym meirniadaeth Gerwyn Wiliams, sef y cyswllt rhwng yr hyn a astudir a'r gwerthoedd a arddelir. Y mae addysg am hynny'n bwysig. Dyma'r pwyslais hefyd yn llyfr John Guillory, *Cultural Capital*: 'in its concrete form as a syllabus or curriculum, the canon is a discursive instrument of "transmission" situated historically within a specific institution of reproduction: the school'.¹²² Am hynny y mae'r deunyddiau hylaw hynny a ddefnyddir mewn ysgolion yn ddylanwadol. Yng Nghymru, credir mai posteri, llyfrau poced cyflwyniadol a blodeugerddi safonol sy'n diriaethu'r cysyniad o ganon llenyddol orau, a'r modd y'i cyflwynir yn bennaf yw trwy addysg a'r byd cyhoeddi. Ar lefel genedlaethol, ni ellir gwadu pwysigrwydd rhaglenni sy'n trafod y celfyddydau neu'n portreadu awduron ar radio a theledu, na'r diwylliant eisteddfodol chwaith, ond y mae'r rhain oll yn ddibynnol i raddau helaeth ar fod yna ddiwylliant llyfrau, a meistr-feirniad i bwysu a mesur gwerth y llyfrau hynny. Ffigwr yn unig ydyw, ac ni ellir amau pwysigrwydd a grym y gweisg, ac eto, cydweithio â'r canoneiddwyr – os nad yw'r canoneiddiwr ei hun yn gyhoeddwr – y maent hwy gydag un llygad ar y farchnad addysg.¹²³

Wedi nodi'r cyswllt hwn rhwng blodeugerddi, addysg a'r broses ganoneiddio, felly, da oedd gweld Alan Llwyd yn talu'r pwyth yn ôl i John Rowlands a Menna Elfyn wrth adolygu'r gyfrol *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*, gan ddadlau i'w flodeugerdd ef a Gwynn ap Gwilym fwrw 'golwg ehangach ar farddoniaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif. Rhoddwyd sylw haeddiannol i'r traddodiad

¹²¹ Ibid.

¹²² John Guillory, *Cultural Capital: The Problem of Literary Canon Formation* (London, 1993), t. 56.

¹²³ Gw. *ibid.*, t. 63. Cymaint pwyslais Guillory ar 'yr ysgol' fel y dywed hyn: 'Authors cannot be said to write *for* the educational system but in a determinate relation to it, *as the subjects it produces.*'

englynol, yn un peth.’¹²⁴ Wrth sylwi ar nodweddion tebyg a gwahanol y ddwy flodeugerdd, meddai’n gywir iawn:

Ond mae gan y golygyddion bob hawl i’w dewis personol nhw, ac ni all dwy flodeugerdd wahanol fyth gyfateb i’w gilydd o safbwynt y beirdd a gynhwysir ynddyn nhw.¹²⁵

Er gwaetha’r ffaith mai byrdwn yr adolygiad yw i’r golygyddion fod yn esgeulus wrth olygu safon y cyfieithiadau, ac nid ‘yn ofalus’, sef yr hyn sy’n sicrhau safon a gwerth parhaol, dyma sylw, felly, sy’n pwysleisio’r elfen o chwaeth, yn wahanol i’r sylw blaenorol am ‘werth y cerddi fel cerddi’.

Dyma pam y mae’r broses o *lunio* canon, wrth gwrs, mor ddadleuol, a rôl blodeugerddi arbenigol yn y broses honno yn un mor rymus, ac awdurod y beirniad mor angenrheidiol ar gyfer cyfiawnhau’r cynnwys. Oherwydd, gan gydnabod mesur trawiadol o gydbrofi testunau yn hanes ffurfiad y Testament Newydd, rhaid nodi i’r syniad o ganon ddatblygu i olygu cynrychioliad dethol a ffin. Er gwaethaf yr ymdrech i fod yn gynhwysfawr, ni ellir cynnwys popeth. Sylwyd mai rhoi rhyw bedwar neu bump o enwau at ei gilydd y bydd R. M. Jones fel arfer i enghreifftio egwyddor y canon. Oherwydd fel y nododd Alan Llwyd ei hun:

Ni all y cof dynol, na’r cof llwythol, ddal ond hyn a hyn o lenyddiaeth. Cof sy’n dethol yn ei hanfod ydi o, yn dethol y goreuon a’r cerddi mwyaf perthnasol a phwrpasol. [...] ¹²⁶

Cytunir yn llwyr â’r sylwadau hyn, gan hoffi’r ddelwedd ddilynol o ‘[d]raddodiad barddol unrhyw wlad fel cwch sydd ar fin suddo yn barhaol, oherwydd bod twll yn y gwaelod’. Ond, o gofio sylw John Rowlands uchod ynghylch y

¹²⁴ Alan Llwyd, ‘Blodeugerdd o Bwys, Blodeugerdd Anghytwys’, [adolygiad o Menna Elfyn a John Rowlands, *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*] *Barddas*, 273 (Mehefin/Gorffennaf/Awst 2003), 69. Nodir mai safon y cyfieithu ac nid y detholiad a feirnedir yn bennaf yn yr adolygiad.

¹²⁵ *Ibid.*, 70.

¹²⁶ *Idem*, ‘Ar Drothwy Mileniwm’, *Y Greffi o Greu*, t. 112.

‘[t]raddodiad a ddyfeisiwyd’ yng Nghymru, y mae angen ychwanegu, fel y gwŷr Alan Llwyd, wrth gwrs, mai beirniaid o gig a gwaed, ac nid Cof sy’n dethol pa ‘ddŵr sy’n cael ei gwpanu allan dros yr ochor’ a pha ‘[dd]ŵr newydd’ sy’n ‘dod i mewn drwy’r gwaelod’.¹²⁷

Sylwodd Alan Llwyd ei hun ar y berthynas rhwng beirniaid a’u hamgylchfyd. Fel y nododd Gwenallt fod Dafydd Nanmor yn ffodus yn ei feirniad Saunders Lewis, nododd Alan Llwyd fod ‘Cynan yn ffodus yn ei feirniaid ym 1921’ ond ‘[na] bu mor ffodus y flwyddyn ganlynol’.

’Roedd ‘Mab y Bwthyn’ wedi cynhyrfu’r dyfroedd, ac wedi ennyn adwaith chwyrn yn ei herbyn yn ogystal ag edmygedd o’i phlaid, ac efallai fod y beirniaid yn fwy gochelgar flwyddyn yn ddiweddarach.¹²⁸

Yr un modd yn ‘Brwydrau Moderniaeth’, tynnodd sylw at anallu’r beirniaid wedi’r Rhyfel Byd Cyntaf i oddef ‘[c]janu i’r Rhyfel’. Meddai:

Gwnaethpwyd gan y beirniaid, mewn geiriau eraill, yr hyn sydd yn anfaddeuol mewn beirniadaeth lenyddol, sef collfarnu bardd am nad oedd ei weledigaeth ef yn cyd-fynd â’u gweledigaeth hwy.¹²⁹

Y canlyniad, felly, yw fod ‘trioedd o feirniaid, a chanddyn nhw ddigon o gymwysterau a phrofiad llenyddol, dro ar ôl tro’ yn ‘[m]ethu gwobrwyo cerddi a glodforwyd yn ddiweddarach’.¹³⁰ Cymaint felly nes y bo’r camwobrwyo hwn yn ‘batrwm’.

Y cyfan a ddadleuir yn y traethawd hwn yw fod y sefyllfa hon y sylwodd Alan Llwyd ei hun arni yn un anorfod, ac mai tuedd pob beirniad yw barnu yn ôl ei duedd – un amhenodol, anweledig ac abl i newid fel rheol – sydd bob amser yn rhan o

¹²⁷ Ibid.

¹²⁸ Idem, ‘Canrif o Brifwyl’, *Y Grefft o Greu*, t. 132.

¹²⁹ Idem, ‘Brwydrau Moderniaeth’, *Y Grefft o Greu*, t. 28.

¹³⁰ Ibid., t. 23.

amgylchfyd cymdeithasol penodol. Nododd A. Cynfael Lake '[na] ellid cyhuddo Alan Llwyd o lunio barn a chwilio wedyn am dystiolaeth i ategu'r farn honno'.¹³¹ Dyma'r safbwynt empeiraidd. Gwerthfawrogir y pwyslais ar ymchwil onest a'r awydd i osgoi culni meddwl. Yr hyn sydd mewn golwg yw awgrym Moelwyn, sef y gellir '[c]ael gwera i "brofi" 'r pwnc a fynnoch o Bantycelyn, y Beibl, neu unrhyw lyfr arall, dim ond ichwi fynd at y llyfr â'ch meddwl ymlaen llaw dan lywodraeth ryw syniad neu gred arbennig'.¹³² Y mae'r feirniadaeth honno'n gymwys o safbwynt Mynegiant, sef yr hyn a ysgrifennir maes o law, wedi i un ddarllen y gwrthrych o destun. Ond gan ddilyn R. M. Jones, amheuwyd yn y traethawd hwn 'fyth y diduedd' a'r modd y llunnir barn allan o ddim oll, heb fod yna berson o gig a gwaed hanesyddol y tu ôl iddi. Er gwaethaf pob gonestrwydd a manylder, ni all yr unigolyn osgoi ei Dafod ei hun na'i gynnwdd gymdeithasol. Fel yr hanesydd, ni all y beirniad llenyddol chwaith 'ei ddileu ei hun'. Efallai mai mater o ddiffinio'r gair 'rhagfarn' mewn dau fodd gwahanol sydd eto'n rhannol gyfrifol am yr anghydweld ymddangosiadol hwn, er y gall fod yn fwy na hynny hefyd.

Archwiliodd Alan Llwyd ei hun ei berthynas â'i amgylchfyd gan nodi iddo ganfod '[g]ogoniant y Gymraeg, barddoniaeth lachar ei gorffennol, ar yr union adeg yr oedd yr ymwelwyr hyn [o Loegr] yn hyrddio eu dirmyg at ein hiaith "farbaraidd" ni'.¹³³ Dyna esbonio'n rhannol rymusedd yr egwyddor o ganon yn ei waith. Fe'i maged ef y tu mewn i'r gymdeithas 'uniaith Gymraeg i bob pwrpas' – y Gymru wledig, werinol, grefyddol – a oedd yn ddelfryd i Saunders Lewis ac R. M. Jones.¹³⁴

¹³¹ A. Cynfael Lake, 'Y Cofiannydd: *Goronwy ddiabael, Goronwy Ddu*, gol. Huw Meirion Edwards, op. cit., t. 167.

¹³² John Gruffydd Hughes (Moelwyn), *Mr. Saunders Lewis a Williams Pantycelyn* (Birkenhead, 2il arg, 1928), t. 14.

¹³³ Idem, *Glaw ar Rosyn Awst*, t. 311.

¹³⁴ Ibid., t. 42.

Dyna'n rhannol efallai pam nad yw'n cytuno â safbwynt llywodraethol y traethawd hwn sy'n rhoi pwys ar berthynas y darlennydd â'i amgylchfyd, a'i anallu i beidio â bod yn ddiuedd – safbwynt sydd mor amlwg yng ngwaith R. M. Jones, ac sy'n brigo i'r wyneb hefyd yng ngwaith Saunders Lewis. Ceisiodd ef 'chwalu rhagfarnau', nid eu cydnabod.¹³⁵ Credodd y gallai gofal a darllen eang amddiffyn ei chwaeth bersonol rhag ei nodweddion personol. Er enghraifft, yn *Y Flodeugerdd Englynion*, meddai:

er mai chwaeth bersonol sydd y tu ôl i bob blodeugerdd, ceisiais fesur a phwyso, a thafoli a graddoli yn ofalus iawn.¹³⁶

Drwy hynny, awgrymir unwaith yn rhagor fod chwaeth y meistr-feirniad yn un ddiogel, megis chwaeth consensws. Yn absenoldeb consensws, person o gonsensws yw.¹³⁷ 'Dyn sy'n genedl', er bod disgwyl iddo hefyd, mewn ysgrif wahanol, 'beidio â pherthyn i unrhyw garfarn' a bod 'yn feudwy, i raddau'.¹³⁸ Ond credir y gall trylwyredd ymchwil ddileu goddrychedd barn. '[M]ae'n rhaid bod yn ofalus, yn ddiuedd, yn wrthrychol, yn fanwl.'¹³⁹ Bydd eraill, fodd bynnag, am amlygu'r berthynas rhwng y dyn a'i amgylchfyd lleol, ac anallu unrhyw feirniad i osgoi ei ragfarnau ei hun. Nid yr un peth yw manylder a gwrthrycholdeb.

Ond hwyrach ei bod yn gymwys fod awdur *Anghenion y Gynghanedd* yn nes ei safbwynt at awdur *Cerdd Dafod*, ac at yr empeiriaeth honno a roes inni hefyd *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* yn hytrach na'r *Braslun o Hanes*. Awgrym y bennod

¹³⁵ Idem, 'Rhagymadrodd', gol. idem, *Trafod Cerdd Dafod y Dydd* (Cyhoeddiadau Barddas, 1984), t. 10. Unwaith yn rhagor credir bod i'r gair 'rhagfarn' ystyr wahanol yn yr ymadrodd hwn – y cyd-destun yw culni meddwl – i'r modd y'i defnyddir yn y traethawd hwn i olygu edrych o du sefyllfa arbennig.

¹³⁶ Idem, 'Rhagymadrodd', *Y Flodeugerdd Englynion*, t. 33. Cymh. idem, 'Rhagymadrodd', gol. idem, *Y Flodeugerdd o Epigramau Cynganeddol* (Cyhoeddiadau Barddas, 1985), t. 15. 'Casgliad personol a geir yn y gyfrol hon, fel unrhyw flodeugerdd, ond ceisiwyd dewis a dethol yn ofalus, gan lynu wrth rai canonau pendant.'

¹³⁷ Yn achos y flodeugerdd hon, fodd bynnag, nodir bod y detholiad yn gwrthod 'englynion a geir yn y rhan fwyaf o'r blodeugerddi cydnabyddedig'. Gw. t. 33.

¹³⁸ Alan Llwyd, 'Golygyddol', *Barddas*, 248 (Medi/Hydref 1998), 4.

¹³⁹ Ibid.

hon ydoedd mai'r rheswm am hynny ydyw am fod y canon llenyddol Cymraeg yn ei brofiad ef yn gweithio ar lefel Tafod ac nid Mynegiant, cymaint felly nes y mae'r beirniad yn ymgorfforfiad o werthoedd ei gymuned ac yn teimlo ei fod yn ysgrifennu ar wahân i ragfarn. Awgrymu hynny, er enghraifft, y mae'r ffaith i Alan Llwyd yn 1994 sôn bod ganddo '[u]n flodeugerdd arall ... ar ôl yn fy nghyfansoddiad', ar lun patrwm yr awdur-destun.¹⁴⁰ Yn hytrach na'i fod ef yn cyfansoddi'r flodeugerdd, awgryma'r ymadrodd mai'r flodeugerdd a'i cyfansoddodd ef. 'Llyncodd y cynganeddion yn eu crynswth a llyncodd y gynghanedd yntau' ydoedd sylw tebyg Moi Parri.¹⁴¹ Dyna paham, fe gredir, y mae canoneiddio a rhoi ffurf safonol i lenyddiaeth Gymraeg mor bwysig iddo. Dyna hefyd pam y mae'n rhaid iddo anwybyddu'r theori lenyddol honno sy'n awgrymu mai dynion dysgedig, egnïol a chreadigol iawn sy'n llunio canonau llenyddol, er na ellir meddwl am dri ansoddair gwell i ddisgrifio ei weithgarwch beirniadol ef ei hun.

¹⁴⁰ Ibid., t. 309.

¹⁴¹ Moi Parri, 'Atgofion Dyddiau Ysgol', gol. Huw Meirion Edwards, op. cit., t. 18.

Casgliadau

Casgliadau

Rhaid nodi'n gyntaf fod yr elfen honno o dwyll sy'n nodwedd ar iaith traethiad rhesymegol ar ei chryfaf mewn adran 'gasgliadau'. Y mae safle'r bennod hon ar ddiwedd y traethawd yn awgrymu mai ffrwyth yr ymchwil yw'r 'casgliadau', ac nad yw'n rhan o'r ymchwil ei hun. Y mae pwysfawredd y teitl ungair hefyd yn awgrymu mai cynnyrch rhaglen wrthrychol ydyw'r 'casgliadau'. Fodd bynnag, pwysleisiwyd yn y traethawd hwn berthynas y darlennydd â'i amgylchfyd, a bod elfen o ragdyb, felly, yn llywio 'casgliadau'.

Yn ail, rhaid nodi hefyd gyfyngiadau'r traethawd academiaidd hwn. Nodwyd ar ei ddechrau ddylanwad darlith Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory*. Wrth derfynu, nodir y gwelir yng ngwaith Alan Llwyd esiampl o ymateb priodol i'r her a osodwyd gerbron 'y beirniad llenyddol' yn *Traddodiadau Fory*. Nid yn unig ei fod ef yn sgriptiwr drama deledu a ffilm hynod lwyddiannus, ac felly'n darparu ar gyfer 'y gymuned y mae S4C yn brif gyfrwng ei diwylliant', ond o gofio i Dafydd Elis Thomas nodi '[b]od astudiaeth ddiwylliannol yn llawer pwysicach na beirniadaeth lenyddol', gwerthfawrogir perthnasedd ei waith diweddaraf, sef *Cymru Ddu*, llyfr a gyhoeddir yn sgil gweithio ar raglen deledu arall.¹

Gan fod yn ymwybodol o gyfyngiadau'r traethawd, felly, rhaid nodi, fodd bynnag, mai'r hyn sy'n ddiddorol ar gyfer yr astudiaeth bresennol, yw sylweddoli i Alan Llwyd droi'n 'sgwennwr' gan i'w 'agwedd newid tuag at lenyddda', pan sylweddolodd mai '[c]amgymeriad oedd cymryd llenyddiaeth, a chyhoeddi, ormod o ddiffri'.² Y mae'r sylw hwn yn awgrymu bod 'llynyddiaeth' yn gysyniad sy'n perthyn i gyfnod hanesyddol arbennig, ac mai anodd i rai mewn oes amlgyfryngol ydyw edrych

¹ Dafydd Elis Thomas, *Traddodiadau Fory: Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caernarfon 1983* (Cyhoeddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 1983), t. 29.

² Alan Llwyd, *Glaw ar Rosyn Awst* (Caernarfon, 1994), tt. 314, 309.

ar lenyddiaeth yn yr un modd â Chymry 'Dafydd Nanmor', pan nad oedd na radio na theledu na rhyngwyd yn bod. Y mae'r sylw hefyd yn awgrymu cysylltiad cryf rhwng 'agwedd' at lenyddiaeth a gweithgarwch llenyddol dilynol. Dyna ydoedd hefyd brif bwyslais y traethawd hwn. Yn achos y Testament Newydd, nodwyd y cysylltiad rhwng canon ffydd a chanon testunol. Nodwyd hefyd mai'r gwahaniaeth rhwng 'John Morgan' (1922) a 'Dafydd Nanmor' (1925) ydoedd newid yn agwedd feddwl Saunders Lewis ynghylch perthynas llenyddiaeth â gwleidyddiaeth. Sylwyd hefyd i agwedd R. M. Jones at lenyddiaeth Gymraeg newid yn sgil ei ailenedigaeth, pan ddechreuodd ei darllen o'r 'tu mewn' iddi.

x x x x x

Gyda hynny o ragair i'r 'casgliadau' hyn, nodir yma mai un o ganfyddiadau mwyaf y gwaith ymchwil ydoedd perthnasedd uwchfeirniadaeth Feiblaidd i'r drafodaeth hon ar waith y tri beirniad a'r cysyniad o ganon llenyddol Cymraeg.

Yn achos Saunders Lewis, gwelwyd bod uwchfeirniadaeth Feiblaidd yn rhan o'r cefndir syniadol a hyrwyddodd ddiddordeb newydd mewn llenyddiaeth, a hynny'n rhannol gan y dechreuwyd darllen y Beibl fel testun llenyddol ac nid fel Gair Duw.

Yn achos R. M. Jones, nodwyd i'r beirniad, yn sgil ei ailenedigaeth, ddod i gymdeithasu'n hawdd â llenorion uniongred y gorffennol, ond nad oedd mwyach yn rhannu'r un bydolwg â chapelwyr rhyddfrydol ei oes ei hun. Cynyddodd y bwlch syniadol hwn rhyngddo ef a'i gydwladyr o'r saith degau ymlaen i'r fath raddau fel na all y beirniad mwyach ond gresynu wrth sylweddoli na fedr llawer yn y Gymru ôl-Gristnogol hon goleddu'r canon llenyddol Cymraeg.

Yn achos Alan Llwyd, gwelwyd bod ei ymateb i theori lenyddol gyfoes yn debyg i ymateb gwrthfeirniaid crefyddol 1890-1914, a bod felly gymhariaeth rhwng perthynas y Beibl ag uwchfeirniadaeth ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a pherthynas y traddodiad llenyddol Cymraeg â theori lenyddol gyfoes ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif.

Wrth geisio lleoli'r canon llenyddol Cymraeg, felly, a gweld o ba le y daeth, nodwyd i uwchfeirniadaeth Feiblaidd beri i lawer o Gymry ddarllen llai yn eu Beibl wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, ac i lenyddiaeth Gymraeg, dan arweiniad to newydd o Gymry Cymraeg dosbarth canol, gynnig math o ganon testunol newydd iddynt, wrth i feirniadaeth lenyddol ddatblygu'n ddisgwrs arbenigol. Sylwyd yn benodol ar berthynas Saunders Lewis â'r cefndir crefyddol hwn. Drwy gymhariaeth â John Elias, nodwyd iddo fabwysiadu osgo'r diwygiwr crefyddol, gan gymhwyso hefyd agweddau o esboniadaeth Feiblaidd draddodiadol at y dasg o chwyldroi beirniadaeth lenyddol Gymraeg. Rhoes bwyslais newydd ar ddarllen a dehongli'r testun llenyddol, megis a wnaed yn Lloegr, ond gan bwysleisio arwyddocâd ei gyd-destun gwreiddiol.

Gan ei weld yn rhan o'r cefndir hwn, lle'r oedd lenyddiaeth i rai fel pe bai'n olynu crefydd, pwysleisiwyd y darlun hwnnw o Saunders Lewis yn athro Ysgol Sul yn annog y plant i ddarllen y Mabinogi yn lle'r Beibl, a'r darlun ohono'n ddarlithydd ifanc yn traethu ar lenyddiaeth o bulpud capel anghydfurfiol Cymraeg.

Ond er y gwrthdaro hwn rhwng lenyddiaeth a'r Beibl, nodwyd mai'r hyn a wnaeth Saunders Lewis ydoedd rhoi i lenyddiaeth Gymraeg ffurf ganonaidd, a thrwy hynny 'gymodi crefydd a lenyddiaeth', chwedl Lewis Edwards. Nodwyd tebygrwydd rhwng ffurf canon y Testament Newydd a'r ffurf a roes Saunders Lewis ar lenyddiaeth Gymraeg, o ran dechreubwynt, canolbwynt a *telos*. Dadleuwyd yn benodol fod i rym trosgynnol 'y traddodiad llenyddol' swyddogaeth gymharol i'r modd yr oedd yr Ysbryd Glân yn rhoi undod i amryfal weithiau'r Testament Newydd.

Cadarnhau'r dehongliad hwn ymhellach yr oedd sylwi i ddadleuon diweddarach ynghylch cynnwys y traddodiad llenyddol gydredeg ag awydd i herio'r cysyniad o draddodiad. Dyma a ddigwyddod hefyd yn hanes y Beibl. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg dechreuwyd datgymalu ei gynnwys pan ddechreuwyd amau athrawiaeth ei ysbrydoliaeth ddwyfol.

Wyneb yn wyneb â'r uwchfeirniadaeth hon, sylwyd bod gan Feiblgarwyr 1890-1914 ddewis; naill ai ymateb iddi a'i hannilysu, neu ei hannilysu drwy ei hanwybyddu. Cymhwyswyd y dewis hwn at y modd y mae theori lenyddol gyfoes wedi herio'r cysyniad o draddodiad neu ganon llenyddol. Gall y sawl sydd am arddel y canon llenyddol Cymraeg – a sefydlwyd yn bennaf gan Saunders Lewis, yn y ôl y portread poblogaidd ohono – naill ai defnyddio theori er mwyn ei amddiffyn, neu geisio cyflawni'r un orchwyl drwy anwybyddu theori. Gwelwyd mai dewis y llwybr cyntaf a wnaeth R. M. Jones. Dewis yr ail a wnaeth Alan Llwyd.

Y mae dull yr ymateb yn wahanol, felly. Y rheswm am hynny'n rhannol yw am fod y naill feirniad yn amau 'myth y diduedd' a'r llall am 'chwalu rhagfarnau'. Am hynny, y mae'r naill yn caniatáu i'r darllenydd ddehongli a chyd-ddeall ystyr y testun, ond y mae'r llall yn credu mai'r awdur yw ffynhonnell ystyr ei waith. Ond gydag R. M. Jones yn ei waith diweddaraf yn mynegi 'erbyn hyn' safbwynt mwy ffafriol tuag at yr awdur, nodir eu bod ar fater y canon yn gytûn, ac yn arddel rhaglen waith ganoneiddio Saunders Lewis.

Arddelir mai gwaith beirniad llenyddol yw meistrolï'r canon a bod yn rhaid barnu testunau unigol yng ngoleuni'r canon. Y mae awdurdod y beirniad yn deillio'n rhannol o'r ffaith ei fod eisoes wedi meddiannu'r canon, ac yn abl felly i farnu a phennu meistri. Bernir bod y canon yn bwysig gan ei fod yn rhan o hanes a ffurfiad y genedl, ond bernir yn ôl safonau llenyddol, nid gwleidyddol. Gwaith y beirniad, felly,

yw arddel y canon a chynorthwyo eraill i'w werthfawrogi. Modd o wrthweithio effaith llenyddiaeth Saesneg ar blant ac oedolion Cymru yw hyn, ar lun copi o'r modd y canoneiddiwyd llenyddiaeth Saesneg i hyrwyddo bydolwg Seisnig. Tristwch mawr i'r ddau feirniad yw fod cynifer o Gymry yn ddiystyriol iawn o'r canon. Awgrymwyd yn y traethawd mai'r bwlch rhwng rhagfarnau Cristnogol awduron y canon ynghyd â rhagfarnau Cristnogol y beirniaid sy'n ei gyflwyno a'i amddiffyn ar y naill law, a rhagfarnau llawer o Gymry heddiw nad ydynt yn Gristnogion ar y llaw arall sy'n gyfrifol, yn rhannol, am y diystyrwch hwn. Ar y naill law, pwysleisir undod a dogma'r un. Ar y llaw arall, coledir amrywiaeth a 'dogma'r lleng'. Ymgais i leihau'r bwlch diwylliannol hwn yw dadlau bod rhagoriaethau'r canon yn 'ddi-ddadl', ond y mae perygl y bydd y meist-feirniad drwy ddadlau felly yn ei gadarnhau. Er nad ef yn unig sy'n gyfrifol am y sefyllfa hon, ni chredir bod dadlau o blaid un ystyr bosib i destunau llenyddol a throi beirniadaeth lenyddol yn gystadleuaeth ddarllen eang yn annog amrywiaeth o ddarllenwyr i fynegi eu barn, yn hytrach hyrwyddo math o fywyd arbennig y mae lle mai'r unig rai a all farnu yw'r rheini sydd â'r adnoddau a'r amser i 'feddiannu'r gorffennol'. Tueddir, felly, i amau doethineb y safbwynt hwn. Arwain y mae at gynhyrchu rhagor o nodiadau esboniadol ar lenyddiaeth gyfoes, ond y mae hynny, wrth gwrs, yn cadarnhau'r angen am feirniaid llenyddol proffesiynol.

Fodd bynnag, rhaid nodi mai mater o 'gynneddf' yw hyn oll hefyd – nid yn yr ystyr ramantaidd nac esthetaidd, eithr yn nhermau dyhead llwythol i oroesi a hynny drwy gyfrwng traddodiad beirniadol a sefydlwyd i gyfosod '[ll]enyddiaeth Gymraeg ... ochr yn ochr ag amrywiaeth a chyfoeth didrefn Shakespeare a'i gydwladwyr'. Rhaid derbyn y ffaith hanesyddol hon, sef bod diben gwrthdrefedigaethol i'r canon, ac i'r sefydliad sy'n ei gyflwyno i'r Cymry eu hunain a gerbron eraill. Yn y drafodaeth ar waith Saunders Lewis, sylwyd i genedlaetholdeb Cymreig a beirniadaeth lenyddol

Gymraeg ddatblygu'n ddisgyrsiau arbenigol yn gyfamserol. Am hynny, anodd i'r un gwrthdrefedigaethydd o Gymraes neu Gymro heddiw wrthod y cysyniad o ganon llenyddol Cymraeg yn ei grynsyth, er mor amlwg yw'r angen i archwilio ym mha fodd y mae'r canon a'r broses ganoneiddio yn cynrychioli gwahanol garfanau'r llwyth. Rhaid hefyd, felly, yw gwerthfawrogi gwaith y tri meist-feirniad a drafodwyd yn y traethawd hwn. Ac eto, oherwydd amlygrwydd eironi heddiw a'r duedd gyfoes ymhlith rhai i 'gilwenu' ar 'lenyddiaeth', rhaid i'r meist-feirniad, os yw am gynnal ei awdurdod, chwilio am ffyrdd newydd o'i gyfiawnhau. Un ffordd bosib o wneud hyn, efallai, yw trwy hyrwyddo trafodaeth agored ar ei waith ef ei hun. Drwy hyn, cynhelir y syniad fod modd i rai arbenigo ym maes llenyddiaeth, ond nad ydynt 'uwchlaw beirniadaeth', a bod elfen o atebolrwydd, felly, yn perthyn i'r broses ganoneiddio. Nodwyd mai am iddo fod drwy'r felin feirniadol y gellir yn awr werthfawrogi cyfraniad Saunders Lewis.

Gan ddefnyddio prif theori strwythurol R. M. Jones ynghylch natur iaith a llenyddiaeth, sef Tafod-Mynegiant, nodwyd yn y traethawd hwn y gall y canon llenyddol weithio ar lefel Mynegiant neu ar lefel Tafod. Sylwyd yn arbennig fod modd i Dafod newid drwy Fynegiant, a bod hyn mewn gwlad drefedigaethol ac amlieithog heb ynddi draddodiad addysgol di-dor yn herio'r cysyniad o *un* canon llenyddol.

Gan awgrymu bod yr elfen geidwadol yng ngwaith diweddar R. M. Jones yn adlewyrchu dirywiad pellach ym mywyd Cristnogol Cymru yn ystod chwarter olaf yr ugeinfed ganrif, nodwyd bod y canon llenyddol fel pe bai'n gweithio fwyfwy ar lefel Mynegiant yn ei waith diweddaraf, *Beirniadaeth Gyfansawdd*. Dyna pam y mae'r beirniad yn gorfod dweud wrth oedolion 'plenty-naidd' beth sy'n llenyddiaeth dda.

Ymdeimlir bod sefyllfa o ganonau llenyddol ar droed. Ceisir gwarchod yn erbyn hyn, gan fod y cysyniad o un canon yn adlewyrchu'r cysyniad o un genedl.

Nodwedd ar waith Alan Llwyd, fodd bynnag, yw fod y canon yn gweithio ar lefel Tafod ei gynulleidfa ef, a hynny i'r fath raddau fel y gall ef ddweud 'Barned y darllenydd', ac nid 'Darllener y canon'. (Rhaid nodi nad ar gyfer yr un 'darllenydd' na chynulleidfa, o bosib, y mae'r ddau yn ysgrifennu.) Dehonglwyd y wedd gymdeithasol hon ar feirniadaeth Alan Llwyd mewn perthynas â'r ffaith iddo ef gael ei fagu yn yr amgylchfyd Cymraeg hwnnw a oedd i Saunders Lewis ac R. M. Jones yn ddelfryd, a'i fod yn olygydd cylchgrawn poblogaidd ac yn athro barddol. Ar un olwg, yn ei waith ef y gwelir cyflawni amcan Saunders Lewis, sef 'beirniadaeth lenyddol Gymraeg' wedi ei seilio ar y traddodiad llenyddol. Rhaid nodi, fodd bynnag, fod llawer mwyach yn ystyried mai peth creëdig yw'r 'traddodiad llenyddol' hwnnw a bod modd felly gyflwyno enwau neu eitemau newydd iddo'n gyson, gan ffarwelio ag ambell enw a fu gynt yn hen gyfarwydd.

Ni ddaethpwyd i'r un casgliad ynghylch dyfodol y canon llenyddol Cymraeg yn y traethawd hwn. Ni nodwyd chwaith pa destunau sy'n perthyn iddo, er y cyfeiriwyd at ddewis weithiau Saunders Lewis ac R. M. Jones. Nodwyd bod y duedd bresennol i gyflwyno llenyddiaeth Gymraeg 'yn ei chrynswth', fodd bynnag, fel pe bai'n herio'r cysyniad o ganon llenyddol dethol sy'n cynnwys ynddo'r meistri'n unig. Yn ei rhagymadrodd i *[F]lodeugerdd Barddas o'r Ail Ganrif ar Bymtheg*, cyfeiriodd Nesta Lloyd at *The Oxford Book of Welsh Verse* megis '[b]lodeugerdd ganonaidd'. Nodwedd ar y flodeugerdd honno ydoedd statws awdurdodol y golygydd a'r wasg, arddull resymegol y rhagymadrodd, nifer gyfyngedig y cerddi dethol, a'r defnydd helaeth a wnaed ohoni gan sefydliadau addysgol.

Yn y traethawd hwn, cyfyngwyd y drafodaeth ar y canon i astudiaeth o waith beirniadol y tri beirniad dan sylw. Nodwyd, fodd bynnag, ar lun patrwm yr awdurdestun, fod y cysyniad o ganon yn parhau'n un ffrwythlon, wrth i weithiau'r beirniaid 'estron' hynny a fu wrthi'n herio'r cysyniad o ganon gael eu casglu ynghyd. 'Ar ein gwaethaf' megis, erys yr awydd i chwilio am batrwm a chyfanwaith. O leiaf, erys y galw am 'gasgliadau'. Ys dywed Catherine Belsey, heb dynnu sylw at arwyddocâd ymadrodd cyntaf y frawddeg: '*There is always a danger that a radical literary criticism will simply create a new canon of acceptable texts.*'³

Nodwyd bod y canon llenyddol bellach yn rhan o drafodaeth ddiwylliannol, amlgyfryngol amgenach – ond bod i sefydliadau addysgol rôl arbennig yn ei draddodiad o hyd. Fodd bynnag, gan aros gyda'r llenyddol, astudio'r cysyniad o ganon yng ngwaith tri beirniad llenyddol a wnaed yma. Daethpwyd i'r casgliad nad 'cynhysgaeth "rewedig" yw traddodiad llenyddol', fel y nododd R. M. Jones yn gywir iawn, eithr 'patrwm aflonydd o berthnasoedd rhwng testunau a ystyrir o'r newydd gan bob cenhedlaeth'. Mwyhau'r elfen hon o symudedd y mae'r syniad o ryngiaith llenyddol a gyflwynwyd ym mhennod 5. Gwaith y meistre-feirniad, fodd bynnag, yw arafu'r symudedd hwn, ac annog trochiad llenyddol. Awgrymwyd bod y cysyniad o drochiad llenyddol yn un problemus heddiw.

Sylweddolwyd un peth pwysig yn sgil yr ymchwil, sef ar un gwahaniaeth sylfaenol rhwng hanes ffurfiad canon y Testament Newydd a hanes cyflwyno ac amddiffyn y canon llenyddol Cymraeg yng ngwaith y tri beirniad hyn.

Tyfu o brofiad a wnaeth canon y Testament Newydd – profiad nifer fawr o bobl yn sgil proses gynhwysol o ddefnyddio llyfrau nad oeddynt ar un adeg yn ganonaidd i addoli Duw. Fodd bynnag, er i Bobi Jones gyflwyno hunanbortread o

³ Catherine Belsey, *Critical Practice* (London, 1980), t. 103.

fagwraeth Dafod gymharol dlawd, ac Alan Llwyd o fagwraeth wledig, werinol ei diwylliant, rhaid nodi mai nifer gymharol fechan o feirniaid proffesiynol a gafodd gyfle i ddatgan pa awduron ydoedd ‘clasuron llenyddiaeth Gymraeg’. Y mae o hyd berygl i’r canon fod yn gynnyrch *élite*, fel yr oedd Saunders Lewis yn dymuno iddo fod.

Y mae sylw o’r fath yn amlygu bod angen astudio’r canon llenyddol mewn perthynas â strwythurau cymdeithasol a sefydliadau addysgol i raddau mwy nag a wnaethpwyd yn y traethawd hwn. Nododd Saunders Lewis ac R. M. Jones mai ffrwyth ‘cydeistedd’ sy’n creu ffordd gyffredin o feddwl, megis yn achos canon y Testament Newydd. Ond yn fynych iawn, gweithio wrth ei ddesg ar ei ben ei hun y bydd yr ysgolhaig a’r meistr-feirniad, gydag ambell un yn gwadu bod ei gefndir diwylliannol yn cyflyru ei ffordd o feddwl.

Yn absenoldeb math o drafodaeth eang a phoblogaidd ar weithiau llenyddol, bu’n rhaid sefydlu’r cysyniad o ganon llenyddol Cymraeg – sy’n cynnwys ynddo ‘glasuron’ a ‘meistri’ – ar awdurdod y meistr-feirniad ei hun, felly, gan gyfiawnhau hynny drwy apelio at natur ‘ddiddosbarth’ y gynulleidfa ddarllen Gymraeg. I’r perwyl hwn, nodwyd bod y tri beirniad yn pwysleisio eu hawdurdod drwy gyfeirio at ehangder eu profiad darllen, gan ‘daflu enwau anghyfarwydd’ at eu darllenwyr. (Sylwais fy mod i hefyd wedi cyfeirio at fy ngwaith darllen mewn ambell fan yn ystod y traethawd.) Ymddengys, felly, fod sefydlogrwydd y canon yn dibynnu i raddau helaeth ar awdurdod corff proffesiynol o ddarllenwyr sydd eisoes wedi meddiannu’r canon ac sy’n cael ei gynrychioli gan feistr-feirniad. Cynhelir ei awdurdod ef gan barodrwydd eraill i’w dderbyn drwy gyfrwng teyrngedu a beirniadu.

Llyfryddiaeth

Llyfryddiaeth

- Aaron, Jane 'Cyn y Geni: Rhyngdestunoldeb a Hunaniaeth Gymreig', *Tu Chwith*, 5 (Haf 1996), 105-113.
- Acton, H. B. 'Tradition and Other Forms of Order', *Proceedings of the Aristotelian Society*, New Series, LIII (1952-3), 5-28.
- Adams, David 'Y Testament Newydd a Darganfyddiadau Diweddar', *Y Beirniad*, 6 (1916), 236-43.
- Aitchison, John
Carter, Harold *Spreading the Word: The Welsh Language 2001* (Talybont, 2004).
- Aland, Kurt *The Problem of the New Testament Canon* (London, 1962).
- Alter, Robert *Canon and Creativity: Modern Writing and the Authority of Scripture* (London, 2000).
- ap Dafydd, Ifor *Saunders Lewis a'r 'Estheteg Gymreig': Agweddau ar ei feirniadaeth lenyddol* (Traethawd MPhil: Aberystwyth, 2001).
- ap Gwilym, Gwyn (gol.) 'Rhagymadrodd', *Meistri a'u Crefft*, (Caerdydd 1981), tt. ix-x.
- Idem
Llwyd, Alan (goln) *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul/Cyhoeddiadau Barddas, 1987).
- Arthur, Marion 'Saunders Lewis: Dyn Anorfod', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes (Llandybie, 1975), tt. 196-205.
- Barr, James *Holy Scripture: Canon, Authority, Criticism* (Oxford, 1983).
- Barrett, C. K. *A Critical and Exegetical Commentary on the Book of Acts 1-14* (Edinburgh, 1994).
- Barry, Peter *Beginning Theory: An Introduction to Literary and Cultural Theory* (Manchester, 1995).
- Barthes, Roland *The Pleasure of the Text*, cyf. Richard Miller (London, 1976).
- Idem 'The Death of the Author', *Image-Music-Text*, cyf. a deth. Stephen Heath (Glasgow, 1977), tt. 142-8.

- Idem 'From Work to Text', *Image-Music-Text*, cyf. a deth. Stephen Heath (Glasgow, 1977), tt. 155-64.
- Idem *Roland Barthes by Roland Barthes*, cyf. Richard Howard (London, 1977).
- Idem 'Inaugural Lecture, Collège de France', cyf. Richard Howard, gol. Susan Sontag, *A Barthes Reader* (London, 1982), tt. 457-78.
- Idem *Mythologies*, cyf. Annette Lavers (London, 1993).
- Baynes, Kenneth
Bohman, James
McCarthy, Thomas (goln) *After Philosophy: End or Transformation?* (London, 1987).
- Belsey, Catherine *Critical Practice* (London, 1980).
- Ben-Amos, Dan 'The Seven Strands of Tradition', *Journal of American Folklore*, 21 (1984), 97-131.
- Bennett, Andrew (gol.) *Readers & Reading* (Harlow, 1995).
- Idem
Royle, Nicholas *Introduction to Literature, Criticism and Theory* (London, 2il arg., 1999).
- Betts, Clive *Culture in Crisis* (Wirral, 1976).
- Bevan, Hugh *Beirniadaeth Lenyddol: Erthyglau gan Hugh Bevan wedi'u dethol a'u golygu gan Brynley F. Roberts* (Caernarfon, 1982).
- Bianchi, Tony 'Teyrnged i'r "Brenin Llwyd"', [adolygiad o Huw Meirion Edwards (gol.), *Alan*], *Taliesin*, 120 (2003), 146-150.
- Birkerts, Sven P. (gol.) *Literature: the Evolving Canon* (London, 2il arg., 1996).
- Blackman, Edwin Cyril *Marcion and His Influence* (London, 1948).
- Bloom, Harold *The Anxiety of Influence* (Oxford, 1973).
- Idem *The Western Canon* (London, 1995).
- Boch, Darrel L. *Studying the Historical Jesus* (Leicester, 2002).

- Bosse-Griffiths, Kate 'Detholion o'r Dwyrain: Lao-Tse', *Teithiau'r Meddwl: Ysgrifau Llenyddol Kate Bosse-Griffiths*, gol. J. Gwyn Griffiths (Talybont, 2004), tt. 37-42.
- Bromwich, Rachel 'Y Cynfeirdd a'r Traddodiad Cymraeg', *The Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 22 (Tachwedd 1966), 36.
- Brooks, Simon 'Tel Quel: Tu Chwith : Hanes Ewrop Mewn 40 Eiliad', *Tu Chwith*, 1 (Ebrill/Mai 1993), 5-6.
- Idem
Rowlands, John 'Holi Simon Brooks', *Taliesin*, 92 (1995), 33-41.
- Idem 'Llythyr ynghylch ôl-foderniaeth', *Taliesin*, 93 (1996), 95-100.
- Idem *O Dan Lygaid y Gestapo: Yr Oleuedigaeth Gymraeg a Theori Lenyddol yng Nghymru* (Caerdydd, 2004).
- Bruce, F. F. *The Canon of Scripture* (Glasgow, 1988).
- Bryant-Quinn, M. Paul 'Golwg ar Ganu Siôn Cent, *Llên Cymru*, 27 (Caerdydd, 2004), 71-85.
- Burke, Seán *The Death and Return of the Author: Criticism and Subjectivity in Barthes, Foucault and Derrida* (Edinburgh, 1992).
- Idem (gol.) *Authorship: From Plato to the Postmodern* (Edinburgh, 1995).
- Calvin, John *Institutes of the Christian Religion by John Calvin*, cyf. Henry Beveridge (London, arg. 1962).
- Idem *John Calvin's Sermons on Galatians*, cyf. Arthur Golding (Edinburgh, 1997).
- Chandler, Daniel *Semiotics: The Basics* (London, 2002).
- Charles, Thomas *Geiriadur Charles* (Wrexham, 7fed arg., 1893).
- Childs, Brevard S. *The New Testament as Canon* (London, 1984).
- Clancy, Joseph P. (cyf.) 'Introduction', *Selected Poems: Saunders Lewis*, cyf. idem (Cardiff, 1993), tt. vii-x.
- Cohen, Arthur R. 'Need for Cognition and Order of Communication as Determinants of Opinion Change', gol. Carl I. Holvand, et al., *The Order of Presentation in Persuasion* (New Haven, 1957), tt. 79-97.

- Conran, Tony 'Introduction', *Welsh Verse* [cyfrol o gyfieithiadau'r awdur] (Bridgend, 1986), tt. 23-110.
- Coupland, Douglas *Life after God* (London, 1994).
- Croll, Andy *Civilizing the Urban: Popular Culture and Public Space in Merthyr, c. 1870-1914* (Cardiff, 2000).
- Cross, F. L.(gol.) *The Oxford Dictionary of the Christian Church* (Oxford, 1957).
- Csapo, Eric 'From Aristophanes to Menander? Genre Transformation in Greek Comedy', gol. Mary Depew a Dirk Obbink, *Matrices of Genre: Authors, Canons, and Society : Center for Hellenic Studies Colloquia 4* (London, 2000), tt. 115-34.
- Culler, Jonathan 'Political Criticism: Confronting Religion', *Framing the Sign: Criticism and Its Institutions* (Oxford, 1988).
- Idem *Barthes: Fontana Modern Masters* (London, 1983, 1990).
- Idem *On Deconstruction: Theory and Criticism after Structuralism* (London, 1983).
- Cunningham, Valentine *Reading After Theory* (Oxford, 2002).
- Curtis, Katherine
Haycock, Marged
Hywel, ap Elin
Lloyd-Morgan, Ceridwen (goln) *Y Traethodydd: Rhifyn Arbennig: Merched a Llemyddiaeth*, 16 (1986), 1-86.
- Daniel, Catherine 'Saunders Lewis: Ewropead', gol. Pennar Davies, *Saunders Lewis: Ei Feddwl a'i Waith* (Dinbych, 1950), tt. 32-42.
- Davies, Dafydd G. *Canon y Testament Newydd: Ei Ffurfiad a'i Genadwri* (Abertawe, 1986).
- Davies, David Protheroe *Yr Efengylau a'r Actau* (Caerdydd, 1978).
- Davies, Grahame *Sefyll yn y bwlch: Cymru a'r mudiad gwrth-fodern: astudiaeth o waith R.S. Thomas, Saunders Lewis, T.S. Eliot a Simone Weil* (Caerdydd, 1999), tt. 89-90.
- Davies, Hazel Walford *Saunders Lewis a Theatr Garthewin* (Llandysul, 1995).

- Davies, Jason Walford *Gororau'r Iaith: R. S. Thomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg* (Caerdydd, 2003).
- Davies, John
Davies, Pennar (gol.) *Hanes Cymru* (Llundain, 1990).
Saunders Lewis: Ei Feddwl a'i Waith (Dinbych, 1950).
- Idem 'His Criticism', gol. Alun R. Jones and Gwyn Thomas, *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff, 1973), tt. 93-105.
- de Man, Paul 'The Resistance of Theory', gol. Andrew Bennett, *Readers & Reading* (London, 1995), tt. 196-204.
Ailargraffwyd o *The Resistance of Theory* (Manchester, 1986).
- Derrida, Jacques 'Discussion', gol. Richard Macksey ac Eugenio Donato, *The Structuralist Controversy: The Languages of Criticism and the Sciences of Man* (Baltimore, 1972).
- Idem *The Ear of the Other: Otobiography, Transference, Translation. Texts and Discussions with Jacques Derrida*, cyf. Peggy Kamuf (New York, 1985).
- Descartes, René *The Philosophical Works of Descartes I*, cyf., Elizabeth S. Haldane a G. R. T. (Cambridge, 1967).
- Docherty, Thomas *After Theory* (Edinburgh, 1996).
- Eagleton, Terry *The Function of Criticism* (London, 1984).
- Idem *The Significance of Theory* (Cambridge Mass., 1990).
- Idem *Literary Theory: An Introduction* (Oxford, 2il arg., 1996).
- Idem *After Theory* (Penguin: London, 2004).
- Edwards, Huw Meirion (gol.) *Alan: Casgliad o gerddi ac ysgrifau ar Alan Llwyd, gyda llyfryddiaeth lawn o'i waith gan Huw Walters* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003).
- Edwards, Lewis *Traethodau Llenyddol* (Wrecsam, diddyddiad).
- Edwards, O. M. *Er Mwyn Iesu* (Wrecsam, 1922).
- Idem *Er Mwyn Cymru* (Wrecsam, 1922).
- Ehrman, Bart D. *The Orthodox Corruption of Scripture* (Oxford, 1993).
- Elfyn, Menna 'Trwy Lygaid Ffeminyddol', gol., John Rowlands, *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), tt. 22-41.

- Eliot, T. S. 'Tradition and the Individual Talent', gol. David Lodge, *20th Century Literary Criticism: A Reader* (London, arg. 1995), tt. 71-77.
- Idem 'Religion and Literature', *Selected Essays* (London, 3ydd arg., 1951).
- Elis, Islwyn Ffowc 'Dwy Nofel', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes, *Saunders Lewis* (Llandybie, 1975), tt. 124-167.
- Ellis, Rod *Second Language Acquisition* (Oxford, 1999).
- Emyr, John *Dadl Grefyddol Saunders Lewis ac W. J. Gruffydd* (Pen-y-Bont ar Ogwr, 1986).
- Evans, Donald (gol.) 'Rhagair', *Y Flodeugerdd o Gywyddau* (Abertawe, 1981), t. 13.
- Idem 'Cyfoesoledd (Parhad)', *Barddas*, 263 (Mehefin/Gorffennaf 2001), 2-3.
- Evans, Gareth *A History of Wales: 1815-1906* (Cardiff, 1989).
- Evans, Rhys 'Hanes Cymru: Y Traddodiad Ofnus', *Tu Chwith*, 2 (Haf 1994), 39-44.
- Farmer, W.R. *Jesus and the Gospel* (Cyhoeddiadau Fortress Press, 1982).
- Fish, Stanley *Is There a Text in This Class? The Authority of Interpretive Communities* (London, 1980).
- Foucault, Michael 'What is an Author?', gol., Seán Burke *Authorship: From Plato to the Postmodern: A Reader* (Edinburgh, 1995), tt. 233-62.
- Freadman, Richard
Miller, Seumas *Re-thinking Theory: A critique of contemporary literary theory and an alternative account* (Cambridge 1992).
- Friedrich, Carl J. *Tradition and Authority* (London, 1972).
- Fulton, Helen 'Awdurdod ac Awduriaeth: Golygu'r Cywyddwyr', gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston, Jenny Rowland, *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003), tt. 50-76.
- Gadamer, Hans-Georg *Truth and Method*, cyf. Jeol Weinsheimer a David G. Marshal (New York, 2il arg., 1991), t. 276

- Gailey, Alan (gol.) *The Uses of Tradition: Essays Presented to G. B. Thompson* (Newry, 1988).
- Gealy, Walford 'Pwysigrwydd Cywirdeb', [gohebiaeth], *Taliesin*, 101 (1998), 103-07.
- Gellner, Ernest *Reason and Culture: The Historic Role of Rationality and Rationalism* (Oxford, 3ydd arg., 1994).
- González, Justo *A History of Christian Thought, vol. 1: From the Beginnings of the Council of Chalcedon* (Nashville, arg. diwygiedig 1987).
- Gorak, Jan *The Making of the Modern Canon* (London, 1991).
- Idem (gol.) *Canon vs Culture: Reflections on the Current Debate* (London, 2001)
- Graham, Gordon 'MacIntyre's Fusion of History and Philosophy', gol. John Horton a Susan Mendus, *After MacIntyre: Critical Perspectives on the Work of Alasdair MacIntyre* (Oxford, 2il arg., 1996), tt. 161-204.
- Griffith, Wyn *The Welsh* (Cardiff, 1968).
- Griffiths, Bruce *Saunders Lewis: Writers of Wales* (Caerdydd, 1979).
- Griffiths, J. Gwyn 'Saunders Lewis fel Gwleidydd', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes, *Saunders Lewis* (Llandybie, 1975) tt. 72-95.
- Grudem, Wayne *Systematic Theology: An Introduction to Biblical Doctrine* (Leicester, 1994).
- Idem *Bible Doctrine: Essential Teachings of the Christian Faith* (Leicester, 1999).
- Gruffudd, Robat
Gruffudd, Elena (goln), *Y Casgliad Answyddogol* (Talybont, 1998).
- Gruffydd, R. Geraint (gol.) 'Rhagymadrodd', *Meistri'r Canrifoedd*, (Caerdydd 1973) tt. ix-xi.
- Idem 'Portread', gol. D. Ben Rees, *Ffydd a Gwreiddiau John Saunders Lewis* (Lerpwl, 2002), tt. 9-12.
- Gruffydd, W. J. *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600* (Lerpwl, 1922).

- Idem *Llenyddiaeth Cymru: Rhyddiaith o 1540 hyd 1660* (Wrecsam, 1926).
- Idem [adolygiad o Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg: I*], *Y Llenor*, 11 (1932), 249-56.
- Idem (gol.) 'Gwneuthur Blodeugerdd', *Y Flodeugerdd Gymraeg* (Caerdydd, 1946), tt. v-xxiii.
- Guillory, John *Cultural Capital: The Problem of Literary Canon Formation* (London, 1993).
- Guthrie, Donald *New Testament Theology* (Leicester, 1991).
- Habermas, Jürgen *The Theory of Communicative Action*, cyf. Thomas McCarthy (Cambridge, 1986).
- Idem *Philosophical Discourses of Modernity*, cyf. Frederick G. Lawrence (Cambridge, 1987).
- Hahneman, Geoffrey Mark *The Muratorian Fragment and the Development of the Canon* (Oxford, 1992).
- Hallam, Tudur 'Camfarnu neu garfarnu beirniad llenyddol?', *Taliesin*, 114 (2002), 16-31.
- Idem 'Plentyn a phlentyneiddiwch yng ngwaith diweddar R. M. Jones', *Tu Chwith*, 20 (2004), 67-96.
- Hanson, K. C.
Oakman, Douglas E. *Palestine in the Time of Jesus: Social Structures and Social Conflicts* (Minneapolis, 1998).
- Hawkes, Terence 'General Editor's Preface', Catherine Belsey, *Critical Practice* (London, 1980).
- Hawthorn, Jeremy *A Glossary of Contemporary Literary Theory* (London, 1992).
- Hughes, Dewi *Castrating Culture: A Christian Perspective on Ethnic Identity from the Margins* (Carlisle, 2001).
- Hughes, John Gruffydd
(Moelwyn) *Mr. Saunders Lewis a Williams Pantycelyn* (Birkenhead, 1928).
- Humphreys, Gwilym E. *Heyrn yn y Tân* (Caernarfon, 2000).
- Hunter, Jerry 'Testun Dadl', *Tu Chwith*, 3 (1995), 81-5.

- Huws, Bleddyn Owen *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch* (Cyhoeddiadau Barddas, 1998).
- Ifans, Dafydd (gol.) *Annwyl Kate, Annwyl Saunders: gohebiaeth 1923 - 1983* (Aberystwyth, 1992).
- James, Christine (gol.) 'Rhagymadrodd', *Cerddi Gwenallt: Y Casgliad Cyflawn* (Llandysul, 2001), tt. xvii-1.
- Jarman, A. O. H.
Hughes, Gwilyn Rees (goln) *A Guide to Welsh Literature: Vol 2* (Llandybie, ail arg., 1984).
- Idem 'Llosgi'r Ysgol Fomio: Y Cefndir a'r Canlyniadau', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes, *Saunders Lewis* (Llandybie, 1975), tt. 96-124.
- Jarvis, Branwen 'Saunders Lewis, Apostol Patriarchiaeth', gol. J. E. Caerwyn Williams, *Ysgrifau Beirniadol VIII* (Dinbych, 1974), tt. 296-311.
- Jasper, David *The Sacred and the Secular Canon in Romanticism: Preserving the Sacred Truths* (London, 19990).
- Jenkins, Kathryn 'O Lwynpïod i Lwynpia: Hunangofiant James Kitchener Davies', gol. J. E. Caerwyn Williams, *Ysgrifau Beirniadol XIX* (Dinbych, 1993), t. 310-22.
- Jenkins, R. T. *Yr Apêl at Hanes* (Wrecsam, 1931).
- Johnson, David (gol.) *The Canonical and the Popular: Debating Twentieth-Century Literature 1940-2000* (London, 2005).
- Johnston, Dafydd [R.] *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988).
- Idem 'Moderniaeth a Thraddodiad', *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), 18-24.
- Idem 'The Literary Revival', gol. idem, *A Guide to Welsh Literature c. 1900-1996* (Cardiff, 1998), tt. 1-21.
- Jones, Alun R.
Thomas, Gwyn (goln) *Presenting Saunders Lewis*, (Cardiff, 1973)
- Jones, Bobi
[Hefyd Jones, R. M.] *Crwydro Môn* (Llandebie, 1957).
- Idem (gol.) 'Rhagymadrodd', *Pedwar Emynydd* (Llandybie, 1970), tt. 7-29.
- Idem *Sioc o'r Gofod* (Dinbych, 1971).

- Idem *Crio Chwerthin* (Cyhoeddiadau Barddas, 1990).
- Idem *Crist a Chenedlaetholdeb* (Cyhoeddiadau Gwasg Efengylaidd Cymru, 1994).
- Idem *O'r Bedd i'r Crud: Hunangofiant Tafod gan Bobi Jones* (Llandysul, 2000).
- Jones, Dafydd Glyn 'His Politics', gol. Alun R. Jones a Gwyn Thomas, *Presenting Saunders Lewis*, (Cardiff, 1973) tt. 23-78.
- Idem 'Y Gwleidydd', *Saunders Lewis: Agweddau ar ei Fywyd a'i Waith / Aspects of his Life and Works* (Ymddiriedolaeth Cronfa Goffa Saunders, 1991), tt. 10-12.
- Idem 'Traddodiad Emrys ap Iwan', *Agoriad yr Oes: erthyglau ar lôn, hanes a gwleidyddiaeth Cymru* (Talybont, 2001), tt. 46-66.
- Idem 'Côr y Ceidwadwyr', *Y Traethodydd* (Gorffennaf 2005), 156-66.
- Jones, D. Gwenallt 'Beirniadu Beirniad', *Y Llenor*, 12 (1932), 23-33.
- Idem 'Beirniadaeth Lenyddol', gol. Dyfnallt Morgan, *Gwŷr Llên y Ddeunawfed Ganrif* (Llandybïe, 1966), tt. 189-97.
- Jones, Delyth *Cyflwyniad i Ddwyeithrwydd* (Aberystwyth, 1997).
- Jones, Gwilym H. 'Beirniadaeth yr Hen Destament yng Nghymru oddeutu tro'r ganrif 1890-1914', gol. E. Stanley Jones, *Y Gair a'r Genedl* (Abertawe, 1986), tt. 63-78.
- Idem "'Gwrth-feirniadaeth" a'r Hen Destament yng Nghymru oddeutu tro'r ganrif (1890-1914)', *Y Traethodydd*, 141 (1986), 242-52.
- Jones, Harri Pritchard (gol.) *Saunders Lewis: A Presentation of His Work* (Springfield, Illinois, 1990)
- Idem 'Rhagymadrodd', *Goreuon Storiâu Kate Roberts*, (Dinbych, 1997), tt. 7-14.
- Jones, Ieuan Gwynedd *Explorations and Explanations* (Llandysul, 1981).
- Jones, J. Cynddylan *Cysondeb y Ffydd: Cyfrol III* (Cardiff, 1912).
- Idem *Efengyl Ioan: Pennod I-VIII* (Cyhoeddiadau'r Gymanfa Gyffredinol, 2il arg., 1915).

- Jones, J. Morgan *Y Testament Newydd: Ei Hanes a'i Gynnwys* (Caerdydd, 1930).
- Jones, J. R. *Ac Onide* (Llandybie, 1970).
- Jones, John Gwilym *William Williams Pantycelyn* (Caerdydd, 1969).
- Idem 'Saunders Lewis Dramodydd', *Y Traethodydd*, 141 (1986), 152-63.
- Jones, Mair Saunders
Jones, Harri Pritchard
Thomas, Ned (goln) *Letters to Margaret Gilcriest* (Cardiff, 1993).
- Jones, Maurice 'Y Testament Newydd yng Ngoleuni'r Wybodaeth Ddiweddaraf', *Y Beirniad*, 4 (1916), 73-87.
- Jones, R. B. *Yr Ail-Ddyfodiad yng ngoleuni'r Epistolau at y Thesalonïaïd ...* (Tonypany, 1919).
- Jones, R. Gerallt *Siwan Saunders Lewis: Astudiaeth gan R. Gerallt Jones* (Llandybie, 1966).
- Jones, R. M. 'Hanes Seciwlar a Hanes Go Iawn', *Barn*, 35 (Medi 1965), 312-13.
- Idem *Tafod y Llenor: Gwersi ar Theori Llenyddiaeth* (Caerdydd, 1974).
- Idem *Llenyddiaeth Gymraeg 1936-1972* (Llandybie, 1975).
- Idem *Llên Cymru a Chrefydd: Diben y Llenor* (Abertawe, 1977).
- Idem 'Tri Mewn Llenyddiaeth', *Llên Cymru*, 14 (Caerdydd, 1982-4), 92-110.
- Idem 'Gwrthryfel yn Erbyn Traddodiad', *Y Traethodydd*, 138 (1983), 116-125.
- Idem 'Myth y Diduedd', *Y Traethodydd*, 139 (Ionawr 1984), 45-50.
- Idem *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 1: Rhagymadrodd* (Aberystwyth, 1984).
- Idem 'Dychwelyd at y Diduedd', *Y Traethodydd*, 140 (Ionawr 1985), 42-7.

- Idem *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 2: Ffurfiâu Seiniol* (Aberystwyth, 1986).
- Idem *Llenyddiaeth Gymraeg: 1902-1936* (Cyhoeddiadau Barddas, 1987).
- Idem *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 3: Ffurfiâu Ystyrol* (Aberystwyth, 1987).
- Idem (gol.) 'Rhagymadrodd', *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Cyhoeddiadau Barddas, 1988), tt. 11-29.
- Idem *Seiliau Beirniadaeth: Cyfrol 4: Cyfanweithiau Llenyddol* (Aberystwyth, 1988).
- Idem *Cyfriniaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1994).
- Idem 'Gwahuniaeth a'r Traddodiad', *Barddas*, 245 (Mawrth/Ebrill 1998), 36-7.
- Idem 'Chwyldro yw Traddodiad Hefyd', *Tu Chwith*, 10 (1998), 116-126.
- Idem *Tair Rhamant Arthuriaidd: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1998).
- Idem *Ysbryd y Cwlwm* (Caerdydd, 1998).
- Idem *Mawl a'i Gyfeillion: Cyfrol 1: Adeiladu Mawl* (Cyhoeddiadau Barddas, 2000).
- Idem *Mawl a Gelynyon ei Elynion: Cyrol 2: Amddiffyn Mawl* (Cyhoeddiadau Barddas, 2002).
- Idem 'Y Traddodiad yn Arbrofi', *Barddas*, 267 (Ebrill/Mehefin 2002), 26-8.
- Idem *Beirniadaeth Gyfansawdd: Fframwaith Cyflawn Beirniadaeth Lenyddol* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003).
- Jones, R. Merfyn *Cymru 2000* (Caerdydd, 1999).
- Jones, R. Tudur *Yr Ysbryd Glân*, (Caernarfon, 1972).
- Idem *John Elias: Pregethwr a Phendefig*, (Cyhoeddiadau Mudiad Efengylaidd Cymru, 1975).

- Idem 'Astudio'r Hen Destament yng Nghymru, 1860-1890', gol. Gwilym H. Jones, *Efrydiau Beiblaidd Bangor*, 2 (Abertawe, 1977), tt. 150-78.
- Idem *Ffydd ac Argyfwng Cenedl* (Abertawe, 1981-2).
- Idem *Saunders Lewis a Williams Pantycelyn: Darlith Goffa Henry Lewis 1987* (Abertawe, 1987).
- Idem *Grym y Gair a Fflam y Ffydd*, gol. D. Densil Morgan (Bangor, 1998).
- Idem 'Ymneilltuaeth a'r Iaith Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', gol. Geraint H. Jenkins, *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd 1801-1911* (Caerdydd, 1999), tt. 229-50.
- Jones, Richard Wyn 'Saunders Lewis a'r Blaid Genedlaethol', gol. Geraint H. Jenkins, *Cof Cenedl 14* (Llandysul, 1999), tt. 163-92.
- Jones, Robert Owen *Hir Oes i'r Iaith: Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas* (Llandysul, 1997).
- Kannengiesser, Charles 'Biblical Interpretation in the Early Church', gol. Donald K. McKim, *Historical Handbook of Major Biblical Interpreters* (Leicester, 1998), tt. 1-16.
- Kearsley, Roy 'Tertullian (*fl.* 200)', gol. Donald K. McKim, *Historical Handbook of Major Biblical Interpreters* (Leicester, 1998), tt. 60-5.
- Kermode, Frank 'Value After Theory', gol. Michael Payne a John Schad, *life.after.theory.* (London, 2003), tt. 52-77.
- Kolbas, E. Dean *Critical Theory and the Literary Canon* (Oxford, 2002).
- Kristeva, Julia 'The Ethics of Linguistics', gol. David Lodge with Nigel Wood, *Modern Criticism and Theory: A Reader: Second Edition* (Harlow, 2il arg. 2000) tt. 206-16.
- Krupat, Arnold *The Voice in the Margin: Native American Literature and the Canon*, (Oxford, 1989).
- Kummel, W. G. *Introduction to the New Testament* (London, 1966).
- Lake, A. Cynfael 'Y Cofiannydd: *Goronwy ddiabael, Goronwy Ddu*, gol. Huw Meirion Edwards, *Alan* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), tt. 159-175.
- Leavis, F. R. *The Great Tradition*, (London, 1962).

- Idem *Revaluation: Tradition & Development in English Poetry*, (1969, London).
- Idem *English Literature in Our Time & The University* (1969, London).
- Idem *Valuation in Criticism and Other Essays* (Cambridge, 1986), t. 283.
- Lewis, Ceri W. 'Saunders Lewis (1893-1985)', *Y Traethodydd*, 141 (1986), 152-63.
- Lewis, Saunders 'Pwy Yw'r Werin?' [Llythyr], *Y Darian*, 10 Chwefror 1921, 3.
- Idem 'John Keats: Secrets of his Genius: Centenary of Poet's Death', *Western Mail* 23 Chwefror 1921, 7.
- Idem 'A Great Frenchman: Moliere Tercentenary Celebrations: Welsh Tribute to a Famous Dramatist', *Western Mail*, 13 Ionawr 1922, 6.
- Idem 'Safonau Beirniadaeth Lenyddol', *Y Llenor*, 1 (1922), 242-8.
- Idem 'Barddoniaeth Mr. R Williams-Parry', *Y Llenor*, 1 (1922), 139-48.
- Idem 'Welsh Nationality', *Western Mail*, 17 Awst 1923, 9.
- Idem 'Tueddiadau Cymru rhwng 1919 a 1923', *Baner ac Amserau Cymru*, 6 Medi 1923, 5.
- Idem 'Trasiedi', *Y Ddraig Goch*, 1.2 (Gorffennaf 1926), 5.
- Idem 'Llythyr at Gynan', *Y Ddraig Goch*, 1.5 (Hydref 1926), 7.
- Idem *A School of Welsh Augustans* (Wrexham, 1927).
- Idem *Williams Pantycelyn* (Llundain, 1927).
- Idem 'Y Sant', *Y Llenor*, 7 (1928), 217-230.
- Idem *Ceiriog: Yr Artist yn Philistia – I* (Aberystwyth, 1929).
- Idem 'The Literary Man's Life in Wales', [anerchiad gerbron y Gyngres Geltaidd yn Glasgow, Medi 1929], *The Welsh Outlook*, 16 (Hydref 1929), 294-7.

- Idem 'Y Blaid Genedlaethol a'r Dyfodol', *Y Ddraig Goch*, 6.4 (Medi 1930), 1-2, 8.
- Idem *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg : Y Gyfrol Gyntaf: Hyd at 1535* (Caerdydd, 1932).
- Idem 'Baledi'r Ddeunawdfed Ganrif: Nodau'r Feirniadaeth Gymraeg Newydd', *Western Mail*, 30 Tach. 1935, 11.
- Idem *Daniel Owen: Yr Artist yn Philistia – II* (Aberystwyth, 1936).
- Idem 'Sut y mae'r Bardd yn Cyfansoddi: Llyfr Dr. Parry-Williams ar Elfennau Barddoniaeth, *Western Mail*, 1 Chwefror 1936, 11.
- Idem
Valentine, Lewis *Paham y Llosgasom yr Ysgol Fomio: gan Saunders Lewis a Lewis Valentine* [pamffled], (Cyhoeddiadau'r Blaid Genedlaethol, Caernarfon, 1937).
- Idem 'W. J. Gruffydd', [adolygiad o *Y Tro Olaf ac Ysgrifau Eraill*], *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Mehefin 1939, 10.
- Idem 'Cyfnod y Tuduriaid', *Ysgrifau Dydd Mercher* (Cyhoeddiadau'r Clwb Llyfrau Cymraeg, 1945), tt. 34-8. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1940.
- Idem 'Diwylliant yng Nghymru', *Ysgrifau Dydd Mercher* (Cyhoeddiadau'r Clwb Llyfrau Cymraeg, 1945), tt. 100-06. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1944.
- Idem 'Emrys ap Iwan', *Ysgrifau Dydd Mercher* (Cyhoeddiadau'r Clwb Llyfrau Cymraeg, 1945), tt. 74-83. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1939.
- Idem 'Ffrainc Cyn y Cwmp', *Ysgrifau Dydd Mercher* (Cyhoeddiadau'r Clwb Llyfrau Cymraeg, 1945), tt. 9-18. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1939.
- Idem 'Lle Pyncid Cerddi Homer', *Ysgrifau Dydd Mercher* (Cyhoeddiadau'r Clwb Llyfrau Cymraeg, 1945), tt. 19-24. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1939.
- Idem *Straeon Glasynys* (Dinbych, 1943).
- Idem *Crefft y Stori Fer* (Cyhoeddiadau'r Clwb Llyfrau Cymraeg, 1949).

- Idem *Tynged yr Iaith* (Caerdydd, 1962).
- Idem 'Dylanwadau', *Taliesin*, 2 (1961), 5-18. Gw. hefyd 'Dylanwadau', *Taliesin*, 3 (1962), 120-4.
- Idem 'A member of our older breed', *Western Mail: Literary Review*, 5 Rhagfyr 1964, 4.
- Idem 'Beirdd a Beirniaid', *Western Mail*, 12 Mehefin 1965, 8.
- Idem 'The Essence of Welsh Literature', gol. Alun R. Jones a Gwyn Thomas, *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff, 1973), tt. 154-8. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1947.
- Idem 'The Tradition of Taliesin', gol. Alun R. Jones a Gwyn Thomas, *Presenting Saunders Lewis* (Cardiff, 1973), tt. 145-153. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1967.
- Idem 'Ann Griffiths: Arolwg Llenyddol', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 306-18. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1965.
- Idem 'Ann Griffiths a Chyfriniaeth', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 319-24. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1971.
- Idem 'Atodiad II', [Adolygiad o Gomer Morgan Roberts (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn*, gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 406-14. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1964-5.
- Idem 'Branwen,' gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 6-18. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1970.
- Idem 'Dafydd ap Gwilym', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd*, (Caerdydd, 1973), tt. 41-55. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1952-3.
- Idem 'Dafydd Nanmor', gol., R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd*, (Caerdydd, 1973), tt. 80-92. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1925.
- Idem 'Drych y Prif Oesoedd', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd*, (Caerdydd, 1973), tt. 232-47. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1954.

- Idem 'Goronwy Owen', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 259-75. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1922-3.
- Idem 'Homiliau Emrys ap Iwan', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 377-86. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1951.
- Idem 'John Morgan', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 225-31. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1922.
- Idem 'Kywydd Barnad Ithel ap Robert', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd*, (Caerdydd, 1973), tt. 64-79. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1967.
- Idem 'Manawydan Fab Llyr', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd*, (Caerdydd, 1973), tt. 19-25. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1969.
- Idem 'Math fab Mathonwy', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 26-33. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1969.
- Idem 'Sangiad, *Tropus* a Chywydd', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 37-40. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1966.
- Idem 'Thema *Storm* Islwyn', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd*, (Caerdydd, 1973), tt. 357-70. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1956-7.
- Idem 'Thomas À Kempis yn Gymraeg, gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 183-205. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1949.
- Idem 'Tudur Aled', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 98-115. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1946.
- Idem 'Twm o'r Nant', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 280-98. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1950.
- Idem 'Y Bardd Cwsc', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 206-16. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1923.

- Idem 'Y Cofiant Cymraeg', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 341-56. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1933-4-5.
- Idem 'Yr Eisteddfod Genedlaethol a Beirniadaeth Lenyddol', gol. R. Geraint Gruffydd, *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd, 1973), tt. 332-40. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1925.
- Idem 'Ac Onide', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft*, (Caerdydd, 1981), tt. 61-71. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1971.
- Idem 'Am Efengyl Marc', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 247-258. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1978.
- Idem 'Arddull D. J. Williams', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 37-40. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1965.
- Idem 'Ateb Mr J. M. Edwards', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 198-202. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1951.
- Idem 'Bardd Trasiedi Bywyd', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 76-8. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1972.
- Idem 'Cyflwr ein Llenyddiaeth', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 167-71. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1939.
- Idem 'Dafydd ab Edmwnd', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 124-131. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1977.
- Idem 'Dyfodol Llenyddiaeth', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 188-192. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1950.
- Idem 'Griffith John Williams', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 44-8. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1963.
- Idem 'Gyrfa Filwrol Guto'r Glyn', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 107-23. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1976.

- Idem 'Hanes Llenyddiaeth Gymraeg', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 269-73. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1946.
- Idem 'Henry James', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 216-220. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1949.
- Idem 'Llenorion a Lleygwyr', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 164-6. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1928.
- Idem 'Siôn Cent', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 148-160.
- Idem 'Trem ar Lenyddiaeth y Dadeni Dysg', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 172-6. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1939.
- Idem 'Y Deffroad Mawr', gol. Gwynn ap Gwilym, *Meistri a'u Crefft* (Caerdydd, 1981), tt. 289-92. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1974.
- Idem 'Cenedlaetholdeb a Chyfalaf', *Canlyn Arthur* (Llandysul, 1985), tt. 19-27. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1926.
- Idem 'Deg Pwynt Polisi', *Canlyn Arthur* (Llandysul, 1985), tt. 15-17. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1933.
- Idem 'Swyddogaeth Celfyddyd', *Canlyn Arthur* (Llandysul, 1985), tt. 145-52.
- Idem 'Un Iaith i Gymru', *Canlyn Arthur* (Llandysul, 1985), tt. 61-5. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1933.
- Idem 'Y Teulu', *Canlyn Arthur* (Llandysul, 1985), tt.43-54. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1930.
- Idem 'Nodyn Ynghylch Diwinyddiaeth', detholwyd gan Marged Dafydd, *Ati, Wŷr Ifainc* (Caerdydd, 1986), tt. 30-1. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1964.
- Idem 'Traddodiadau Catholig Cymru', detholwyd gan Marged Dafydd, *Ati, Wŷr Ifainc* (Caerdydd, 1986), tt. 8-13. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1934.
- Idem 'Y Beibl', detholwyd gan Marged Dafydd, *Ati, Wŷr Ifainc* (Caerdydd, 1986), t. 26. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1954.

- Idem 'Ysgol a Chrefydd', detholwyd gan Marged Dafydd, *Ati, Wŷr Ifainc* (Caerdydd, 1986), tt. 24-5. Cyhoeddwyd gyntaf yn 1953.
- Liddell, Henry George
Scott, Robert *A Lexicon Abridged from Liddell and Scott's Greek-English Lexicon* (Oxford, 1909).
- Lloyd, D. Myrddin 'Dafydd Nanmor', gol. A. O. H. Jarman a Gwilym Rees Hughes, *A Guide to Welsh Literature: Vol. 2* (Llandybïe, 2il arg., 1984), tt. 189-201.
- Lloyd, D. Tecwyn *John Saunders Lewis: Y Gyfrol Gyntaf* (Dinbych, 1988).
- Idem
Hughes, Gwilym Rees (goln) *Saunders Lewis* (Llandybie, 1975).
- Lloyd, Nesta (gol.),
Idem (gol.) *Cerddi'r Ficer* (Llandybïe: Barddas, 1994).
'Rhagymadrodd', *Blodeugerdd Barddas o'r Ail Ganrif ar Bymtheg: Cyfrol 1* (Cyhoeddiadau Barddas, 1993), tt. xiii-xxiv.
- Lodge, David
Wood, Nigel (goln) *Modern Criticism and Theory: A Reader* (Harlow, 2il arg., 2000).
- Idem 'Goodbye to All That', [adolygiad o Terry Eagleton, *After Theory*], *The New York Review of Books*, LI.9 (Mai 27, 2004), 39-43.
- Lorey, Christoph
Plews, John L. (gol.) *Queering the Canon: Defying Sights in German Literature and Culture* (Drawer, Columbia, 1998).
- Lucy, Niall *Postmodern Literary Theory: An Introduction* (Oxford, 1997).
- Lynch, Peredur "'Prifysgol Cymru": Saunders Lewis a Phrifysgol Cymru': *Darlith Eisteddfodol y Brifysgol: Eisteddfod Genedlaethol Cymru Meirion a'r Cyffiniau 1997* (Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru, 1997).
- Llwyd, Alan
[Hefyd Roberts, Alan Lloyd] *Barddoniaeth Euros Bowen Bowen: Cyfrol 1/1946-57* (Abertawe, 1977).
- Idem (gol.) 'Rhagymadrodd', *Y Flodeugerdd Englynon* (Abertawe, 1978), tt. 11-33.
- Idem (gol.) *50 o Gywyddau Dafydd ap Gwilym* (Abertawe, 1980).

- Idem *Gwyn Thomas: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1984).
- Idem *R. Williams Parry: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1984).
- Idem (gol.) 'Rhagymadrodd', *Trafod Cerdd Dafod y Dydd* (Cyhoeddiadau Barddas, 1984), tt. 9-15.
- Idem 'Rhagymadrodd', *Y Flodeugerdd o Epigramau Cynganeddol* (Cyhoeddiadau Barddas, 1985), tt. 10-16.
- Idem *Barddoniaeth y Chwedegau: Astudiaeth Lenyddol-hanesyddol* (Cyhoeddiadau Barddas, 1986).
- Idem (gol.) 'Rhagair', *Y Flodeugerdd o Ddyfyniadau Cymraeg* (Llandysul/Cyhoeddiadau Barddas, 1988).
- Idem 'Rhagymadrodd', gol. idem ac Elwyn Edwards, *Gwaedd y Bechgyn: Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Rhyfel Mawr 1914-1918* (Cyhoeddiadau Barddas, 1989), tt. 11-78.
- Idem *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf* (Cyhoeddiadau Barddas, 1990).
- Idem *Gwae Fi Fy Myw: Cofiant Hedd Wyn* (Cyhoeddiadau Barddas, 1991).
- Idem
Edwards, Elwyn *Y Bardd a Gollwyd: Cofiant David Ellis* (Cyhoeddiadau Barddas, 1992).
- Idem 'Golygyddol', [ymateb i John Rowlands (gol.), *Sglefrio ar Eiriau*], *Barddas*, 183-4 (Gorff./Awst 1992), 6-12.
- Idem *Glaw ar Rosyn Awst* (Caernarfon, 1994).
- Idem (gol.) 'Rhagymadrodd', *Gwaedd y Lleiddiad: Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Ail Ryfel Byd 1939-1945* (Cyhoeddiadau Barddas, 1995), tt. xiii-xxxiv.
- Idem *Y Grefft o Greu: Ysgrifau ar Feirdd a Barddoniaeth* (Cyhoeddiadau Barddas, 1997).
- Idem *Goronwy Ddiabael, Goronwy Ddu: Cofiant Goronwy Owen 1723-1769* (Cyhoeddiadau Barddas, 1997).
- Idem 'Golygyddol', *Barddas*, 248 (Medi/Hydref 1998), 4-9.

- Idem (gol.) 'Rhagymadrodd', *Cerddi R. Williams Parry: Y Casgliad Cyflawn 1905-1950* (Dinbych, 1998), tt. ix-xxx.
- Idem 'Blodeugerdd o Bwys, Blodeugerdd Anghytwys' [adolygiad o Menna Elfyn a John Rowlands, *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*], *Barddas*, 273 (Mehefin/Gorffennaf/Awst 2003), 68-75.
- Idem 'Ynghylch Llenydd a Beirniadaeth: M. Wynn Thomas yn holi Alan Llwyd, Hydref 2002', gol. Huw Meirion Edwards, *Alan* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), tt. 122-58.
- Idem *Rhyfel a Gwrthryfel: Brwydr Moderniaeth a Beirdd Modern* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003).
- MacCabe, Colin *Theoretical Essays* (Manchester, 1985).
- Machan, J. Gresham *The New Testament: an Introduction to its Literature and History* (Edinburgh, 1976).
- MacIntyre, Alasdair Alasdair MacIntyre, *After Virtue: A Study in Moral Enquiry* (London, 1981; 2il arg., 1985).
- Idem 'A Partial Response to my Critics', gol. John Horton and Susan Mendus, *After MacIntyre: Critical Perspectives on the Work of Alasdair MacIntyre* (Oxford, 2il arg., 1996), tt. 283-304.
- Marshall, I. H. et al.(gol.) *New Bible Dictionary* (Leicester, 3ydd arg., 1996).
- Martin, Ralph P. Martin
Davids, Peter H. (goln) *Dictionary of the Later New Testament* (Leicester, 1997).
- McGrath, Alister E. *Christian Theology: An Introduction* (Oxford, 1994).
- McKim, Donald K. (gol.) *Historical Handbook of Major Biblical Interpreters* (Leicester, 1998).
- McLuhan, Marshall
Fiore, Quentin *The Medium is the Message* (Cyhoeddiadau Corte Madera, 2001). Cyhoeddwyd gyntaf yn 1967 gan Random House.
- Metzger, Bruce M. *The Canon of the New Testament* (Oxford, arg. 1997).

- Miller, J. Hillis 'Deconstruction Now? The States of Deconstruction or Thinking without Synecdoche', gol. Nicholas Royle, *Afterwords* (Tampere, 1992), 7-19.
- Morgan, D. Densil 'Yr Iaith Gymraeg a Chrefydd', gol. Geraint H. Jenkins a Mari A. Williams, *'Eu Hiaith a Gadwant'?* (Caerdydd, 2000), tt. 357-80.
- Idem *Cedyrn Canrif* (Caerdydd, 2001).
- Idem "The Essence of Welshness"? : Some Aspects of Christian Faith and National Identity in Wales, c. 1900-2000', gol. Robert Pope, *Religion and National Identity: Wales and Scotland c. 1700-2000* (Cardiff, 2001), tt. 139-62.
- Morgan, Derec Llwyd *Y Diwygiad Mawr* (Llandysul, 1981).
- Idem *Williams Pantycelyn: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1983).
- Idem *Y Beibl a Llenyddiaeth Gymraeg* (Llandysul, 1998).
- Idem 'Nid Hwn Mo'r Llyfr Terfynol': Hanes Llenyddiaeth Thomas Parry: *Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd 2004* (Cyhoeddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 2004).
- Morgan, Edward *John Elias: Life, Letters and Essays* (Edinburgh, 1973).
- Morgan, K. O. *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1990* (Oxford, 1981).
- Morgan, Mihangel *Caradog Prichard: Llên y Llenor* (Caernarfon, 2000).
- Morgan, R. *The Nature of New Testament Theology* (London, 1973).
- Morgan, T. J. *Ysgrifau Beirniadol* (Llundain, 1951).
- Idem *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952).
- Morris, John Meirion 'Gweld Traddodiad o'r Newydd', [erthygl-adolygiad o Peter Lord, *The Aesthetics of Relevance*], *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror, 1993), 61-5.
- Morris-Jones, John 'Annerch', *Y Beirniad*, 1 (1911), 1-2.
- Idem 'Yr Orgraff II', *Y Beirniad*, 1 (1911), 278-81.
- Mullins, Daniel John 'Ffydd Saunders Lewis', gol. D. Ben Rees, *Ffydd a Gwreiddiau John Saunders Lewis* (Lerpwl, 2002), tt. 42-6.

- Murphy, Paul Thomas *Toward a Working-Class Canon: Literary Criticism in British Working-Class Periodicals 1816-1858* (Ohio, 1994).
- Murray, David (gol.) *Literary Theory and Poetry: Extending the Canon* (London, 1989).
- Nyíri, Christoph J. (gol.) *Tradition: Proceedings of an International Workshop at IFK*, (Wien, 1995).
- Olson, Roger E. *The Story of Christian Theology: Twenty Centuries of Tradition & Reform* (Leicester, 1999).
- Olyott, Stuart *The Three are One* (Welwyn, 1979).
- Owen, David *Eliasa: neu rai sylwadau ar gymeriad areithiol a phregethwrol y diweddar Barchedig John Elias* (Merthyr Tydfil, 1844).
- Owen, Gerallt Lloyd *Cerddi'r Cywilydd* (Caernarfon, 1977).
- Owen, Morfydd E. 'Chwedl a Hanes: Y Cynfeirdd yng Ngwaith y Gogynfeirdd', gol. J. E. Caerwyn Williams, *Ysgrifau Beirniadol XIX* (Dinbych, 1993), tt. 13-28.
- Parri, Moi 'Atgofion Dyddiau Ysgol', gol. Huw Meirion Edwards, *Alan* (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), tt. 18-34.
- Parry, R. Williams *Cerddi'r Gaeaf* (Dinbych, 1952), t. 76.
- Parry, Thomas *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1944).
- Idem 'Megis Seren Wib', *Taliesin*, 23 (Rhagfyr 1971), 49-55.
- Idem (gol.) *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1962).
- Patzia, Arthur G. *The Making of the New Testament: Origin, Collection, Text & Canon* (Leicester, 1995).
- Payne, Michael (gol.) *A Dictionary of Cultural and Critical Theory* (Oxford/Cambridge, Mass., 1996).
- Peate, Iorwerth C. *Sylfeini* (Wrecsam, 1938).
- Phillips, Dewi Z. 'Ai Bod yn Naïf yw Ceisio Bod yn Ddiduedd?', *Y Traethodydd*, 138 (Hydref 1983), 199-205.
- Polanyi, Michael *Science, Faith and Society* (Oxford, 1946).

- Powell, Nia M. W. 'Dyfalú Dafydd Nanmor', *Llên Cymru*, 27 (Caerdydd, 2004), 86-112.
- Price, Angharad 'Gohebiaeth', [ymateb i feirniadaeth Walford Gealy yn y rhifyn blaenorol], *Taliesin*, 102 (1998), 110-11.
- Idem *Robin Llywelyn: Llên y Llenor* (Caernafon, 2000).
- Idem 'Tyst i Gyfraniad Rhyfeddol ...', [adolygiad o R. M. Jones, *Beirniadaeth Gyfansawdd*], *Barddas*, 275 (Rhagfyr/Ionawr, 2003), 55-7.
- Rees, D. Ben 'Gwreiddiau J Saunders Lewis ar Lannau Mersi', gol. idem, *Ffydd a Gwreiddiau John Saunders Lewis* (Lerpwl, 2002), tt. 13-41.
- Idem (gol.) *Ffydd a Gwreiddiau John Saunders Lewis* (Lerpwl, 2002).
- Richards, I. A. *Practical Criticism* (London, 1930).
- Roberts, Alan Lloyd *Anghenion y Gynghanedd* (Caerdydd, 1973).
- Rorty, Richard *Philosophy and the Mirror of Nature* (Oxford, 1980).
- Rosmarin, Adena 'Theory of "Against Theory"', gol. W. J. T. Mitchell, *Against Theory: Literary Studies and the New Pragmatism* (London, 1985), tt. 80-8.
- Rowland, Jenny 'Y Beirdd Enwog: Anhysbys a'i Cant', gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston, Jenny Rowland, *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd 2003), tt. 31-49.
- Rowlands, John *Saunders y Beirniad: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1990).
- Idem 'Yr Ysgolhaig a'r Beirniad', *Saunders Lewis: Agweddau ar ei Fywyd a'i Waith / Aspects of his Life and Works* (Ymddiriedolaeth Cronfa Goffa Saunders, 1991), tt. 20-2.
- Idem (gol.) 'Rhagymadrodd', *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), tt. vii-xii.
- Ruddock, Gilbert E. *Dafydd Nanmor: Llên y Llenor* (Caernarfon, 1992).
- Ruoff, A. La Vonne Brown Ward Jr., W. (goln) *Redefining American Literary History* (New York, 3ydd arg., 1993).

- Rylance, Rick *Roland Barthes: Modern Cultural Theorists* (London, 1994).
- Rhys, Robert (gol.) 'Rhagymadrodd', *Waldo Williams: Cyfres y Meistri 2* (Abertawe, 1981), tt. 9-13.
- Idem 'Dysgu Darllen', gol. John Rowlands, *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), tt. 151-171.
- Idem *Daniel Owen: Dawn Dweud* (Caerdydd, 2000).
- Idem 'Menter feirniadol o bwys', [adolygiad o R. M. Jones, *Mawl a Gelynion ei Elynion*], *Barddas*, 271 (Chwefror/Mawrth, 2003), 44-6.
- Said, Edward
Sarup, Madan *Beginnings* (New York, 1975).
An Introductory Guide to Post-Structuralism and Postmodernism (Harlow, 1993).
- Saunders, Mair (gol.) *Bro a Bywyd Saundes Lewis* (Caerdydd, 1987).
- Schad, John 'preface [:] what are we after?', gol. Michael Payne ac idem, *life.after.theory*. (London 2003), tt. ix-xi.
- Idem 'epilogue: coming back to 'life'', gol. Michael Payne ac idem, *life.after.theory*. (London 2003), tt. 168-89.
- Schlueter, June (gol.) *Modern American Drama: The Female Canon* (Rutherford, 1990).
- Schlatter, Adolf 'The Theology of the New Testament and Dogmatics' (1909), gol. R. Morgan, *The Nature of New Testament Theology* (London, 1973), tt. 117-66.
- Schnelle, Udo *The History and Theology of the New Testament Writings* (London, 1998).
- Schweickart, Patrocinio P. 'Reading Ourselves: Toward a Feminist Theory of Reading', gol. Andrew Bennett, *Readers and Reading* (London, 1995), tt. 66-93.
- Shils, Edward *Tradition* (London, 1981).
- Sontag, Susan (gol.) *A Barthes Reader* (London, 1982).
- Souter, Alexander *The Text and Canon of the New Testament*, addasiad C. S. C. Williams (London, 2il arg., 1954).
- Stanislavsky, Constantin *An Actor Prepares*, cyf. Elizabeth Reynolds Hapgood (London, arg. 1948).

- Sturrock, John *Structuralism and Since: From Lévi Strauss to Derrida* (Oxford, 1979).
- Suarez, Ernest *James Dickey and the Politics of Canon* (Missouri, 1993).
- Thomas, Dafydd Elis *Traddodiadau Fory: Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ynys Môn, 1983* (Cyhoeddiadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 1983).
- Thomas, Gwyn 'Iaith o Fewn Iaith', [adolygiad o R. M. Jones, *Tafod y Llenor*], *Baner ac Amserau Cymru*, 21 Chwefror 1975, 3.
- Idem *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 1976).
- Idem 'Barddoniaeth Gwŷr y Gogledd', gol. Geraint Bowen, *Y Gwareiddiad Celtaidd* (Llandysul, 1987), tt. 190-201.
- Idem *Darllen y Meini* (Dinbych, 1998).
- Idem 'Siôn Cent a Noethni'r Enaid', *Gair am Air: Ystyriaethau am Faterion Llenyddol* (Caerdydd, 2000), tt. 40-57.
- Thomas, Isaac *Arweiniad Byr i'r Testament Newydd* (Caerdydd, 1963).
- Thomas, M. Wynn 'Pwys Llên a Phwysau Hanes', gol. John Rowlands, *Sglefrio ar Eiriau* (Llandysul, 1992), tt. 1-21.
- Idem (gol.) *DiFfinio Dwy Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1995).
- Idem *James Kitchener Davies* (Cardiff, 2002).
- Thomas, Ned *The Welsh Extremist* (London, 1971).
- Thomas, R. S. 'Ysbrydoliaeth y Beibl', *Y Beirniad*, 4 (1914), 246-56.
- Thorne, David A. *Gafael Mewn Gramadeg* (Llandysul, 2000).
- Tudur, Rhys 'Y Cymro, Penberth a'r Ail Ryfel Byd', gol. Geraint H. Jenkins, *Cof Cenedl 17: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul, 2002), tt. 135-63.
- Tuite, Clara *Romantic Austen: Sexual Politics and the Literary Canon* (Cambridge, 2002).
- Turner, Stephen P. 'Whose Tradition About Tradition?', *Theory, Culture & Society*, 7 (1990), 175-85.

- Vanhoozer, Kevin J. *Is There a Meaning in this Text? : The Bible, the Reader and the Morality of Literary Knowledge* (Leicester, 1998).
- von Campenhausen, Hans *The Formation of the Christian Bible* (London, 1972).
- von Harnack, Adolf *The Origin of the New Testament and the most Important Consequences of the New Creation*, cyf. J. R. Wilkinson (London, 1925).
- Weinsheimer, Joel C. *Gadamer's Hermeneutics: A Reading of Truth and Method* (London, 1985).
- Williams, Gerwyn 'Politics Prydyddol', *Taliesin*, 61 (1988), 28-32.
- Idem 'Saunders Lewis: Parodïwr Ymrwymedig', *Taliesin* 66 (Mawrth, 1989) 27-46.
- Idem 'Saunders y Beirdd', *Taliesin*, 122 (Haf 2004), 36.
- Williams, Ceri 'Llafur a Glyndŵr', *Barn*, 452 (Medi 2000), 28-30.
- Williams, G. J. 'Adolygu Llyfrau', *Y Llenor*, 2 (1923), 90-5.
- Idem 'Cyfraniad Saunders Lewis fel Ysgolhaig Cymraeg', gol. Pennar Davies, *Saunders Lewis: Ei Feddwl a'i Waith* (Dinbych 1950), tt. 121-36.
- Williams, Glyn Morris, Delyth *Language Planning and Language Use: Wales in a Global Age* (Cardiff, 2000).
- Williams, Ifor 'Brwydr Catraeth', *Y Beirniad*, 1 (1911), 73-81.
- Idem 'Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg', [adolygiad o'r llyfr], *Yr Efrwydd*, 9 (1933), 80-94.
- Williams, Ioan *A Straitened Stage* (Bridgend, 1991).
- Idem (gol.) 'Rhagymadrodd', *Dramâu Saunders Lewis: Y Casgliad Cyflawn, Cyfrol 1* (Caerdydd, 1996), tt. ix-xii.
- Williams, Iwan Llwyd Roberts, Wiliam Owen 'Myth y Traddodiad Dethol', *Llais Llyfrau* (Hydref 1982), 10-11.
- Williams, J. E. Caerwyn 'Arddulleg Ffurfiolwyr Rwsia', *Ysgrifau Beirniadol V* (Dinbych, 1970), tt. 276-296.

- Idem 'Saunders Lewis: Yr Ysgolhaig a'r Beirniad', gol. D. Tecwyn Lloyd a Gwilym Rees Hughes, *Saunders Lewis* (Llandybie, 1975), tt. 20-71.
- Idem 'Hanes Cychwyn Y Traethodydd', *Llên Cymru*, 14 (1982-84), 111-142.
- Wilson, Robert Smith *Marcion: a Study of a Second-Century Heretic* (London, 1932).
- Wimsatt, W.K. Jr.
Beardsley, Monroe C 'The Intentional Fallacy', gol. Seán Burke, *Authorship: From Plato to the Postmodern* (Edinburgh, 1995), tt. 90-100.
- Wolfreys, Julian *Deconstrucion . Derrida* (London, 1988).
- Wood, David
Bernasconi, Robert (gol.) *Derrida and Différance* (Evanston IL, 1988).

Hefyd

Y Beibl (Llundain, 1955).

Geiriadur Prifysgol Cymru: I (Caerdydd, 1950-67).

Oxford English Dictionary (Oxford, 1955).